Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIL IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

Yn ymgorffori'r Asesiad Effaith
Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol

Mawrth 2016

# BIL IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Mehefin 2015, a bellach mae Memorandwm diwygiedig yn cael ei osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

## Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), a gyflwynir gennyf ar 8 Mehefin 2015, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Mark Drakeford AC**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

1 Mawrth 2016

# CYNNWYS

Rhestr o’r talfyriadau

**RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol**

1. Disgrifiad
2. Y cefndir deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**RHAN 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

7. Opsiynau, costau a manteision
8. Asesu cystadleuaeth ac effeithiau penodol
9. Adolygiad ôl-weithredu

**Atodiad A – Nodiadau Esboniadol**

**Atodiad B – Tablau Crynodeb o’r costau**

**Atodiad C – Tabl tarddiadau**

## Rhestr o Dalfyriadau

ACAS – Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu

BCAP – Y Pwyllgor Darlledu ar Arferion Hysbysebu

BILl – Bwrdd Iechyd Lleol

BMA – Cymdeithas Feddygol Prydain

BTA – Cymdeithas Toiledau Prydain

CAP – Pwyllgor Arferion Hysbysebu

CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

CLlLC – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

CIEH – Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

CPD – Datblygiad Proffesiynol Parhaus

DfT – Yr Adran Drafnidiaeth

DMN – Dyfeisiau Mewnanadlu Nicotin

ECHR – Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

ECITA – Cymdeithas Fasnach y Diwydiant Sigaréts Electronig

EHO – Swyddog Iechyd yr Amgylchedd

ENDS – Systemau Electronig ar gyfer Cyflenwi Nicotin

ENNDS – Systemau Electronig nad ydynt yn Cyflenwi Nicotin

FCTC – Confensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco

FGM – Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod

FPN – Hysbysiad Cosb Benodedig

FTE – Cyfwerth ag Amser Llawn

MHRA – Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd

NICE – Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

NRT – Therapi Disodli Nicotin

OFT – Y Swyddfa Masnachu Teg

PNA – Asesiad o Anghenion Fferyllol

PSSRU – Uned Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol Personol

QALY – Blynyddoedd o fywyd wedi'u haddasu yn ôl ansawdd

RAN – Hysbysiad Camau Adfer

RIA – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

RPO – Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad

RSO – Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad

RYO – Tybaco rhydd i'w rolio

SME – Busnesau bach a chanolig

VOT – Gwerth amser

WHO – Sefydliad Iechyd y Byd

WNHSS – Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

# Rhan 1 – Memorandwm Esboniadol

## 1. Disgrifiad

1. Mae Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ('y Bil') yn defnyddio deddfwriaeth fel dull o wella ac amddiffyn iechyd a lles poblogaeth Cymru. Mae'n cynnwys cyfres o ddarpariaethau mewn meysydd annibynnol o bolisi iechyd y cyhoedd.

2. Er bod nifer o'r materion a nodir yn y Bil wedi bod yn destun trafod ers cryn amser, mae'r Bil hefyd yn ymateb i heriau iechyd newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Gyda'i gilydd, y bwriad yw i'r darpariaethau fod o fudd cadarnhaol cronnus i boblogaeth Cymru a cheisio sefydlu amgylchiadau sy'n ffafriol i iechyd da, ac a fydd yn caniatáu ar gyfer atal niwed i iechyd.

3. I grynhoi, mae'r Bil yn cynnig cyflwyno newidiadau sy'n:-

- Gosod cyfyngiadau ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig, gosod cyfyngiadau ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin (DMN) fel sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus penodol ac mewn cerbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cludiant i'r ysgol neu drafnidiaeth gyhoeddus, a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ymestyn y cyfyngiadau ar ysmygu a DMN i fangreoedd neu gerbydau ychwanegol;
- Darparu ar gyfer creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin;
- Rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu at y troseddau sy'n cyfrannu at Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yng Nghymru;
- Gwahardd rhoi tybaco a/neu gynhyrchion nicotin i unigolyn o dan 18 oed;
- Darparu ar gyfer creu cynllun trwyddedu mandadol i ymarferwyr a busnesau sy'n cynnal "triniaethau arbennig" sef aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio;
- Cyflwyno gwaharddiad ar dyllu rhannau personol o gorff unigolyn o dan 16 oed;
- Newid y trefniadau ar gyfer penderfynu ar geisiadau i fod ar restr fferyllol Byrddau Iechyd Lleol, i system sy'n seiliedig ar anghenion fferyllol cymunedau lleol;
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi strategaeth leol i gynllunio sut y byddant yn diwallu anghenion eu cymunedau ar gyfer defnyddio cyfleusterau toiledau a fydd ar gael i'r cyhoedd; a
- Galluogi 'awdurdod bwyd' dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 i gadw derbynebau cosb benodedig yn deillio o droseddau dan y Ddeddf honno, er mwyn gorfodi'r cynllun sgorio hylendid bwyd.

4. Mae'r materion sydd wedi eu cynnwys yn y Bil yn berthnasol i iechyd a lles corfforol ac iechyd a lles meddwl, ac felly dylid ystyried bod cyfeiriadau at iechyd y cyhoedd trwy'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys y ddwy agwedd hyn.

## 2. Y Cefndir Deddfwriaethol

5. Mae Adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') wneud deddfau ar gyfer Cymru a elwir yn Ddeddfau'r Cynulliad.

6. Mae Adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod darpariaeth yn un o Ddeddfau'r Cynulliad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad os yw'n ymwneud ag un neu fwy o'r pynciau a restrir o dan unrhyw un o'r penawdau yn Rhan 1 o Atodlen 7 o'r Ddeddf honno ac nad yw'n rhan o unrhyw un o'r eithriadau a restrir yn y Rhan honno o'r Atodlen (o dan y pennawd hwnnw neu o dan unrhyw un o'r penawdau hynny), ac nad yw'n gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru nac yn rhoi, gosod, addasu neu ddileu (na'n rhoi pŵer i roi, gosod, addasu neu ddileu) swyddogaethau y gellir eu harfer heblaw mewn perthynas â Chymru.

7. Mae darpariaethau'r Bil yn ymwneud â'r pynciau canlynol:

Pwnc 9 'Iechyd a Gwasanaethau Iechyd':

**"Promotion of health. Prevention, treatment and alleviation of disease, illness, injury, disability and mental disorder. Control of disease. Family planning. Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities. Clinical governance and standards of health care. Organisation and funding of national health service."**

Pwnc 12 'Llywodraeth Leol':

**"…Powers and duties of local authorities and their members and officers…"**

Pwnc 15 'Lles Cymdeithasol':

**"…Protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults…"**

8. Mae'r pynciau uchod yn rhoi cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud y darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Bil.

## 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

### Cyd-destun

9. Mae iechyd poblogaeth Cymru yn parhau i wella. Yn gyffredinol, mae pobl yn byw yn hirach ac yn mwynhau iechyd gwell nag erioed o'r blaen, a gellir gwneud mwy i fynd i'r afael â phroblemau iechyd. Mae disgwyliad oes yn parhau i wella ac mae'r bwlch rhwng dynion a menywod yn lleihau, er bod y bwlch rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn parhau i fod yn destun pryder.

*Ffigur 1*[1]




10. Er bod iechyd yn gwella, mae'n amlwg hefyd bod Cymru yn wynebu nifer o heriau penodol a sylweddol ym maes iechyd. Maent yn amrywio o heriau demograffig cyffredinol er enghraifft poblogaeth sy'n heneiddio, lefelau uchel o glefydau cronig ac anghydraddoldebau sy'n parhau mewn iechyd, i heriau mwy penodol a achosir gan ddewisiadau o ran ffordd o fyw a datblygiadau cyfoes mewn cymdeithas.

11. Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd y cyhoedd yn eglur ac maent wedi eu nodi mewn dogfennau polisi allweddol gan gynnwys y fframwaith cenedlaethol iechyd y cyhoedd *Ein Dyfodol Iach*[2] a'r cynllun gweithredu strategol *Canlyniadau Tecach i Bawb*[3] sydd â'r nod o leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgeisiau i sicrhau bod iechyd a lles pobl yng Nghymru yn gwella'n gyflymach, a bod y

[1] Prif Swyddog Meddygol Cymru Adroddiad Blynyddol 2013-14: Iachach, Hapusach, Tecach - http://gov.wales/topics/health/cmo/publications/annual/2014-report/?skip=1&lang=cy
[2] Ein Dyfodol Iach – Papur Gwaith Technegol (2009) – Llywodraeth Cymru
[3] Canlyniadau Tecach i Bawb (2011) – Llywodraeth Cymru. http://gov.wales/topics/health/publications/health/reports/fairer/?skip=1&lang=cy

gwelliannau hynny'n cael eu rhannu'n fwy teg ar draws y boblogaeth. Wrth wireddu'r uchelgeisiau hyn mae Llywodraeth Cymru wedi dangos ei hymrwymiad parhaus i gymryd camau mewn amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys trwy ddeddfwriaeth, i gynorthwyo i wella ac amddiffyn mwy ar iechyd pawb.

12. Mae'r modd y mae cymdeithas yn datblygu'n gyflym yn golygu ei bod yn fwy pwysig nag erioed i Lywodraeth Cymru fod yn effro i flaenoriaethau iechyd y cyhoedd sy'n dod i'r amlwg. Yn benodol, mae'n gynyddol hanfodol bod camau gweithredu, gan gynnwys camau deddfwriaethol, yn cael eu sbarduno gan agweddau ataliol er mwyn sicrhau bod cynaliadwyedd wrth wraidd yr agenda iechyd y cyhoedd.

13. Mae deddfwriaeth yn hanesyddol wedi gwneud cyfraniad pwysig at fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd. Profwyd mai deddfwriaeth yw un o'r dulliau mwyaf pwerus sydd ar gael i lywodraethau wrth ymateb i heriau ym maes iechyd, yn rhai hen a newydd. Mae deddfwriaeth mewn meysydd mor amrywiol â'r gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau caeedig cyhoeddus a gwregysau diogelwch mewn cerbydau wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol at iechyd y cyhoedd. Mae'r Bil yn ceisio ategu'r traddodiad cryf hwn.

14. Wrth gyflwyno'r Bil hwn, mae Llywodraeth Cymru'n rhoi'r pwyslais ar lunio amgylchiadau cymdeithasol sy'n hybu iechyd da, ac atal niwed diangen i iechyd, pan fo hynny'n bosibl. Yn rhan o'r agwedd hon, cydnabyddir hefyd bod gan unigolion gyfrifoldeb i ofalu am eu hiechyd eu hunain, a gweithredu mewn ffyrdd sy'n hybu eu lles corfforol a'u lles meddwl eu hunain.

15. Mae'r Bil yn mabwysiadu dull ataliol ym mhob un o'i ddarpariaethau ac felly mae'n gyson ag egwyddorion gofal iechyd darbodus. Mae'n gwneud hyn drwy geisio ymyrryd ar adegau sydd â photensial sylweddol o sicrhau buddion hirdymor, i iechyd unigolion ac o ran osgoi'r beichiau hirdymor a achosir gan afiechyd y gellid ei osgoi. Wrth wneud hynny mae'r Bil yn canolbwyntio hefyd ar ddiogelu iechyd a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru yn y dyfodol.

16. Er na all un darn o ddeddfwriaeth ymdrin yn llawn â'r holl faterion sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd, mae'r Bil yn ceisio gwneud cyfraniad cadarnhaol trwy ddod â chyfres o gamau ymarferol at ei gilydd mewn meysydd penodol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol gronnus ar iechyd a lles. Y bwriad yw gwneud cyfraniad pwysig at gyfres ehangach o gamau ar gyfer gwella iechyd, ochr yn ochr â chamau deddfwriaethol eraill, a gwasanaethau, rhaglenni ac ymgyrchoedd ym maes iechyd y cyhoedd.

17. Mae'r dull gweithredu a ddilynir yn y Bil hefyd yn cyd-fynd â'r agwedd gyffredinol tuag at ddeddfwriaeth yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu ystyried pwysigrwydd cynnwys cymunedau ac adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth; sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu ar y cyd; gwaith ataliol; ac ymyriadau cynnar. Mae egwyddorion o'r fath yn rhan annatod o iechyd y cyhoedd.

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**

18. Mae strwythur y Bil wedi'i rannu fel a ganlyn:-

- Rhan 2: Tybaco a chynhyrchion nicotin, sy'n cwmpasu:-
  - Cyfyngiadau ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig, gosod cyfyngiadau ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin (DMN) fel sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus penodol ac mewn cerbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cludiant i'r ysgol neu drafnidiaeth gyhoeddus, a'r pŵer i wneud rheoliadau i ymestyn y cyfyngiadau ar ysmygu a DMN i fangreoedd neu gerbydau ychwanegol;
  - Cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin;
  - Pŵer i wneud rheoliadau i ychwanegu troseddau at y drefn Gorchymyn Mangreoedd o dan Gyfyngiad; a
  - Rhoi tybaco etc i bobl o dan 18 oed;

- Rhan 3: Triniaethau arbennig;

- Rhan 4: Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff;

- Rhan 5: Gwasanaethau fferyllol;

- Rhan 6: Darparu toiledau;

- Rhan 7: Amrywiol; a

- Rhan 8: Cyffredinol.

19. Mae'r tudalennau canlynol yn disgrifio diben ac effaith pob un o'r rhannau. Mae pob rhan yn cynnwys cefndir cyffredinol y cynigion, y sefyllfa bresennol, diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael. Ni ddarperir adran ar wahân ar gyfer Rhan 2, Pennod 3 o'r Bil, sy'n ymdrin â gweithrediad cyffredinol Gorchmynion Mangreoedd o dan Gyfyngiad. Ceir ymdriniaeth fanwl o hyn mewn adrannau perthnasol o'r ddogfen sy'n ymwneud â'r gofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin.

## Tybaco a chynhyrchion nicotin

20. Mae ysmygu tybaco yn achosi niwed difrifol i iechyd ysmygwyr a phobl nad ydynt yn ysmygu sy'n anadlu mwg pobl eraill. Mae'n parhau i fod yr un achos mwyaf o afiechyd a marwolaeth y gellid eu hosgoi yng Nghymru, gan achosi tua 5,450 o farwolaethau bob blwyddyn[4].

[4] Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru (2012) – 'Tybaco ac iechyd yng Nghymru, 2012' – http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/tudalen/59878

21. Mae'r baich sylweddol a achosir gan afiechyd o ganlyniad i ysmygu yn cyflwyno cost economaidd sylweddol i Gymru. Mae ymchwil yn dangos ei bod tua £302 miliwn o gost y flwyddyn i GIG Cymru drin afiechydon sy'n gysylltiedig ag ysmygu, ac amcangyfrifir bod y gost i economi Cymru oherwydd diwrnodau absenoldeb salwch ac egwylion ysmygu ychydig dros £90 miliwn y flwyddyn. Ysmygu yw un o brif achosion anghydraddoldebau iechyd hefyd, ac fe'i nodwyd yn un o brif achosion y bwlch mewn cyfraddau marwolaeth rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig[5].

22. Gall plant ddechrau arbrofi ag ysmygu a dechrau ysmygu mor gynnar â chyfnod yr ysgol gynradd, neu gall ddigwydd yn hwyrach ym mywyd unigolyn ifanc. Dechreuodd dau o bob tri ysmygwr cyn eu bod yn 18 oed, a dechreuodd bron i 40% ysmygu'n rheolaidd cyn eu bod yn 16 oed[6].

23. Mae'n amlwg bod pobl ifanc yn gallu datblygu dibyniaeth ar nicotin yn gyflym a gall fod yn amhosibl iddynt leihau'r risgiau yn sgil eu dibyniaeth oherwydd eu bod yn gaeth i dybaco. Dangosodd astudiaeth yn Llundain fod ysmygu un sigarét yn ffactor risg i blant ddod yn ysmygwyr rheolaidd hyd at dair blynedd yn ddiweddarach[7]. Hefyd, mae cyswllt rhwng dechrau ysmygu'n gynnar ac ysmygu'n drymach wedi hynny, lefelau dibyniaeth uwch, llai o debygolrwydd o roi'r gorau i ysmygu a chyfraddau marwolaeth uwch[8]. Mae ymyriadau i leihau'r niferoedd sy'n dechrau ysmygu ymhlith pobl ifanc yn allweddol felly er mwyn bodloni'r amcan cyffredinol o leihau cyffredinrwydd ysmygu.

24. Mae gwaith da wedi ei wneud yng Nghymru i sicrhau bod llai o bobl ifanc yn ysmygu,[9] ac mae cyfraddau ysmygu ymhlith oedolion wedi gostwng o 23% yn 2010 i 21% yn 2013[10]. Er hyn, mae angen gwneud mwy eto i gynyddu nifer yr oedolion sy'n llwyddo i roi'r gorau i ysmygu, gan barhau i atal pobl ifanc rhag dechrau ysmygu. Mae llawer o ysmygwyr yn anhapus eu bod yn gaeth i dybaco. Roedd Arolwg Iechyd Cymru yn 2013 yn nodi bod 72% o ysmygwyr yn dymuno rhoi'r gorau i'r arfer, a bod 41% wedi ceisio rhoi'r gorau yn ystod y flwyddyn flaenorol[11].

---

[5] ASH Cymru a Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru (2013). The economic cost of smoking to Wales: a review of existing evidence.

[6] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. General Lifestyle Survey Overview: A report on the 2011 General Lifestyle Survey. 2013. http://www.ons.gov.uk/ons/rel/ghs/general-lifestyle-survey/2011/rpt-chapter-1.html

[7] Fidler, JA et al. (2006) Vulnerability to smoking after trying a single can lie dormant for three years or more. Tobacco Control

[8] Coleg Brenhinol y Meddygon (2010) Passive smoking and children. Llundain: Coleg Brenhinol y Meddygon.

[9] Currie C et al. golygyddion - *Social determinants of health and well-being among young people. Health Behaviour in School-aged Children (HBSC) study: international report from the 2009/2010 survey.* Copenhagen, Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Ewrop, 2012 (Health Policy for Children and Adolescents, Rhif 6).

[10] Arolwg Iechyd Cymru http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-health-survey/?skip=1&lang=cy

[11] http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-health-survey/?skip=1&lang=cy

25. Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cymru ar Reoli Tybaco[12] sy'n nodi strategaeth gynhwysfawr ar reoli tybaco, gyda'r nod o ddiogelu plant a phobl ifanc rhag effeithiau niweidiol tybaco ar iechyd a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd. Mae'r Cynllun Gweithredu ar Reoli Tybaco yn nodi gweledigaeth o gymdeithas ddi-fwg ar gyfer Cymru gyda tharged heriol o leihau lefelau ysmygu ymhlith oedolion i 16% erbyn 2020.

26. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai'r dull mwyaf effeithiol o reoli tybaco yw strategaeth gynhwysfawr sy'n cyfuno trethi uchel ar gynhyrchion tybaco, trefn reoleiddio ar gyfer hysbysebu a gwerthu tybaco, cyfyngiadau ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus, amrywiaeth o fentrau wedi eu haddasu'n benodol i helpu ysmygwyr roi'r gorau, a mentrau i addysgu a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd[13].

27. Er bod llawer o ysmygwyr yn rhoi'r gorau heb ddefnyddio gwasanaethau a chynhyrchion rhoi'r gorau i ysmygu, cydnabyddir bod cynhyrchion nicotin yn gallu gwneud cyfraniad pwysig at helpu ysmygwyr i roi'r gorau yn gyfan gwbl, neu i ddefnyddio llai o gynhyrchion tybaco. Mae cynhyrchion nicotin yn cynnwys ffurfiau traddodiadol o therapi disodli nicotin (NRT) trwyddedig, fel patsys, gwm a losenni nicotin. Mae tystiolaeth gref ar gael ynghylch diogelwch defnyddio NRT ar y cyd ag ysmygu yn y tymor hir. Mae hynny'n awgrymu nad yw defnydd hirdymor o NRT yn arwain at gynnydd mewn achosion o niwed, gan gynnwys problemau cardiofasgwlaidd neu ganser, yn ôl y dadansoddiad diweddaraf o'r canlyniadau 12.5 mlynedd o ddechrau'r astudiaeth.[14]

28. Mae systemau electronig ar gyfer cyflewni nicotin, a elwir fel arfer yn sigaréts electronig (ar ôl hyn e-sigarét) yn ffurf newydd o gynnyrch nicotin ac mae rhai gwneuthurwyr wedi cyflwyno cynhyrchion i'w trwyddedu gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd. Gan fod y term e- sigarét yn adnabyddus iawn, fe'i defnyddir trwy'r Memorandwm Esboniadol hwn. Dros y pump i ddeng mlynedd ddiwethaf, mae'r farchnad ar gyfer e-sigaréts wedi datblygu'n gyflym. Mae hyn wedi codi pryderon eu bod yn gwneud i ymddygiad ysmygu ymddangos yn beth normal a bod plant a phobl ifanc yn eu defnyddio, ac y gallai hyn arwain at ddibyniaeth ar nicotin, ac o bosibl at ddibyniaeth ar dybaco pe byddai e-sigaréts yn arwain at ysmygu tybaco. Mae pryderon wedi eu codi hefyd am eu heffaith ar ansawdd yr aer y tu mewn i adeiladau a'r gallu i orfodi'r polisïau di-fwg presennol. Ar hyn o bryd, nid yw effeithiau hirdymor defnyddio e-sigaréts wedi eu sefydlu[15].

29. I ymdrin â'r pryderon hyn, mae'r Bil yn cynnwys nifer o elfennau sy'n gwneud cyfraniad cronnus. Rhoddir gwybodaeth fanwl yn y paragraffau

---

[12] Llywodraeth Cymru (2012) Cynllun Gweithredu Cymru ar Reoli Tybaco. Caerdydd. Llywodraeth Cymru.

[13] Gilbert A., Cornuz J. (2003) Which are the most effective and cost-effective interventions for tobacco control? Copenhagen, Swyddfa Ranbarthol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Ewrop (Adroddiad Rhwydwaith Tystolaeth Iechyd); http://www.euro.who.int/document/e82993.pdf

[14] https://www.nice.org.uk/guidance/PH45/chapter/9-The-evidence

[15] Pisinger Charlotta. Døssing Martin, A systematic review of health effects of electronic cigarettes, *Preventive Medicine* (2014), doi:10.1016/j.ypmed.2014.10.009

canlynol am ddiben pob elfen a'r effeithiau y bwriedir iddi eu cael. Bydd darpariaethau'r Bil hefyd yn gweithio ar y cyd â chyfres eang o gamau presennol a rhai sydd wedi eu cynllunio ar lefel Cymru, y DU ac Ewrop.

30. Dros amser disgwylir i'r camau a gynigir effeithio ar ymwybyddiaeth pobl o'r ffactorau iechyd sy'n gysylltiedig â thybaco a chynhyrchion nicotin, ac i hynny yn ei dro yn arwain at newid mewn ymddygiad. Bydd llai o bobl ifanc yn dechrau ysmygu a bydd rhai oedolion yn llwyddo i roi'r gorau i ysmygu. Disgwylir y bydd llai o bobl yn ysmygu a/neu y bydd pobl yn ysmygu llai o ganlyniad i hyn.

Y Gyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco

31. Datblygiad pwysig diweddar yw Cyfarwyddeb 2014/40/EU (y 'Gyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco'), sy'n disodli ac yn ehangu'r camau presennol ar gyfer rheoli tybaco a nodir yng Nghyfarwyddeb 2001/37/EC. Mae'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig yn nodi rheolau cyson ar gyfer cyfansoddiad cynhyrchion tybaco a'r dull o'u labelu.

32. Mae llawer o Gyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco 2001 yn parhau, ond mae'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig yn fwy eang o ran cwmpas, ac yn cynnwys darpariaethau newydd i:

- Gyflwyno lleiafswm o 20 o sigaréts ar gyfer maint pecyn a lleiafswm o 30g ar gyfer pwysau pecyn tybaco rhydd i'w rolio;
- Parhau i hysbysu ynghylch cynhwysion ac allyriadau cynhyrchion tybaco, ac ehangu hynny mewn rhai meysydd;
- Cynyddu maint y rhybuddion iechyd, gan gynnwys testun a llun i rybuddio, i orchuddio 65% o flaen a chefn y pecyn gyda'i gilydd (30% o flaen y pecyn a 40% o gefn y pecyn yn flaenorol);
- Gwahardd geiriau penodol camarweiniol i ddisgrifio'r cynnyrch, er enghraifft 'naturiol' neu 'organig';
- Gwahardd sigaréts a thybaco rolio sy'n cynnwys blas, er enghraifft menthol;
- Cyflwyno system olrhain a nodweddion diogelwch er mwyn gallu 'dilyn trywydd' cynhyrchion tybaco, i gryfhau'r frwydr yn erbyn masnach anghyfreithlon;
- Rheoleiddio e-sigaréts a'r cetris ail-lenwi cysylltiedig;
- Rheoleiddio sigaréts di-dybaco; a
- Chyflwyno cynllun hysbysu (neu awdurdodi) ar gyfer cynhyrchion tybaco newydd.

33. Rhaid i Gyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco 2014/40/EU gael ei throsi yn ddeddfwriaeth ddomestig y DU erbyn 20 Mai 2016.

## Cyfyngiadau ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig, ac ar y defnydd o

## e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus penodol a cherbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cludiant i'r ysgol neu drafnidiaeth gyhoeddus

### Cefndir

34. Cyflwynwyd deddfwriaeth i wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig yng Nghymru yn 2007[16] i ddiogelu'r cyhoedd rhag y niwed sy'n gysylltiedig â mwg pobl eraill. Mae'r gwaharddiad ar ysmygu wedi bod yn llwyddiant i iechyd y cyhoedd. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod ansawdd yr aer wedi gwella'n sylweddol mewn mannau cyhoeddus caeedig ers i'r gwaharddiad ar ysmygu gael ei gyflwyno[17]. Mae nifer yr oedolion sy'n gorfod mewnanadlu mwg pobl eraill wedi gostwng hefyd.

35. Ers cyflwyno'r gwaharddiad hwnnw, mae systemau electronig ar gyfer cyflenwi nicotin wedi ymddangos. Diben y dyfeisiau hyn yw anweddu a chyflenwi cymysgedd cemegol i'r defnyddiwr. Mae hwn fel arfer yn cynnwys nicotin, propylen glycol a chemegau eraill. E-sigaréts yw'r math mwyaf cyffredin o system electronig ar gyfer cyflenwi nicotin. Maent fel arfer yn cael eu gweithredu gan fatri ac yn gwresogi hylif fel y gall y defnyddiwr ei fewnanadlu. Cynigir e-sigaréts mewn amrywiaeth o lefelau nicotin a rhyw 7,000 o flasau, gan gynnwys tybaco, menthol, ffrwythau, siocled a gwm cnoi, a gallai rhai ohonynt ddenu plant a phobl ifanc[18]. Rydym yn gwybod bod cynhyrchion tybaco (confensiynol) â blas arnynt yn cael eu defnyddio'n anghymesur gan bobl ifanc.[19]

36. Mae mathau amrywiol o e-sigaréts ar gael. Mae'r dyfeisiau cynharaf wedi eu dylunio i edrych fel y rhai confensiynol (sy'n cynnwys tybaco), er enghraifft sigaréts, sigârs, pibelli a shishas. Mae rhai ail genhedlaeth yn aml yn edrych yn debyg i ysgrifbin. Mae'r rhai trydedd genhedlaeth yn fwy, gyda thanc. Maent yn edrych yn fwy gwahanol a gellir eu haddasu'n unigol. Mae'r rhan fwyaf o'r e-sigaréts sydd ar y farchnad ar hyn o bryd yn rhyddhau anwedd neu erosol ac yn efelychu'r dull arferol o ysmygu trwy symud y ddyfais o'r llaw i'r geg. Mae ffigur dau isod yn dangos enghreifftiau o wahanol gynhyrchion e-sigaréts sydd ar gael ar hyn o bryd, ond mae llawer mwy na'r rhain ar y farchnad ac maent yn esblygu'n barhaus.

---

[16] Deddf Iechyd 2006 a Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 (O.S. Rhif 2007/787 (Cy.68)) a ddaeth i rym ar 2 Ebrill 2007.
[17] http://gov.wales/topics/health/improvement/smoking/legislation/ban/?skip=1&lang=cy
[18] Hardcastle, K, Hughes, K, Worsley, J, Bennett, A, Ireland, R a Sweeney, S (2014). *"Most people I know have got one": Young people's perceptions and experiences of electronic cigarettes*. Canolfan Iechyd y Cyhoedd Prifysgol John Moores Lerpwl, Lerpwl.
[19] E-Cigarettes A Scientific Review. Rachel Grana, PhD, MPH; Neal Benowitz, MD; Stanton A. Glantz,PhD
http://circ.ahajournals.org/content/129/19/1972.full?ijkey=d28c5d971050a38249828b4dc44736615120eb97&keytype2=tf_ipsecsha

Ffigur 2[20]

| Cynnyrch | Disgrifiad |
|---|---|
| E-sigarét untro | Dyfais siâp sigarét sy'n cynnwys batri a chetrisen sy'n cynnwys atomeiddiwr i wresogi sylwedd (â nicotin neu beidio). Nid oes modd ei ailwefru na'i ail-lenwi a'r bwriad yw ei daflu ar ôl i'r cynnyrch beidio â chynhyrchu aerosol. Gwelwir hwn weithiau'n e-hookah. |
| E-sigarét y gellid ei ailwefru | Dyfais siâp sigarét sy'n cynnwys batri sy'n cysylltu ag atomeiddiwr a ddefnyddir i wresogi sylwedd sydd fel arfer yn cynnwys nicotin. Mae'n aml yn cynnwys elfen sy'n rheoleiddio hyd y pwff a/neu sawl pwff y gellid eu cymryd un ar ôl y llall. |
| E-sigarét maint canolig ar ddull ysgrifbin y gellir ei ailwefru | Mae'n fwy na sigarét, ac mae'r batri'n aml yn un â mwy o gapasiti. Gallai gynnwys cetrisen sydd eisoes wedi ei llenwi neu getrisen y gellid ei hail-lenwi (a elwir yn aml yn clearomizer). Mae gan y dyfeisiau hyn swîts yn aml sy'n galluogi'r defnyddiwr i reoleiddio hyd pob pwff a pha mor aml y mae'n cymryd pwff. |
| E-sigarét mawr ar ddull tanc y gellid ei ailwefru | Mae'n llawer mwy na sigarét ac mae gan y batri fwy o gapasiti. Fel arfer mae'n cynnwys cetrisen fawr y gellir ei hail-lenwi. Mae'n aml yn cynnwys switsys a chas ar gyfer addasu capasiti'r batri. Gellir ei addasu'n rhwydd. |

37. Mae'r cyhoedd wedi dod yn llawer mwy ymwybodol o e-sigaréts yn y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd nifer o ymgyrchoedd hysbysebu a noddi proffil uchel, yn ogystal â mwy o sylw gan y cyfryngau, sydd wedi cynorthwyo i wneud y dyfeisiau'n fwy poblogaidd. Ers mis Tachwedd 2014, caniateir hysbysebu e-sigaréts ar deledu daearol[21]. Mae ASH England[22] yn amcangyfrif bod tair gwaith mwy o ddefnyddwyr e-sigaréts ym Mhrydain dros y ddwy flynedd ers 2012, o 700,000 i 2.1 miliwn.

[20] Papur cefndir ar e-sigaréts (Systemau Electronig ar gyfer Cyflenwi Nicotin), Rachel Grana, PhD MPH; Neal Benowitz, MD; Stanton A. Glantz, PhD. Center for Tobacco Control Research and Education, Prifysgol California, San Francisco, Canolfan sy'n Cydweithio â Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco. Paratowyd ar gyfer menter di-dybaco Sefydliad Iechyd y Byd, Rhagfyr 2013.
[21] http://www.cap.org.uk/News-reports/Media-Centre/2014/New-ecig-ad-rules.aspx
[22] Taflen Wybodaeth ASH am y defnydd o sigaréts electronig ym Mhrydain. Ebrill 2014.

38. Ym mis Tachwedd 2013, canfu adroddiad a gomisiynwyd gan Cancer Research UK[23] fod 121 o geisiadau am nodau masnach ar gyfer cynhyrchion e-sigaréts wedi eu cyflwyno yn y DU rhwng mis Mai 2012 a mis Mehefin 2013. Canfu hefyd y defnyddir nawdd, cefnogaeth gan enwogion, rhwydweithiau cymdeithasol, hysbysebion teledu a chynhyrchion arloesol hefyd.

39. Mae'r rhesymau dros ddefnyddio e-sigaréts yn amrywio o un unigolyn i'r llall. Ceir tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau sy'n awgrymu bod llawer o bobl yn defnyddio e-sigaréts i'w cynorthwyo i roi'r gorau i ysmygu neu i ddisodli tybaco yn rhannol er mwyn lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig ag ysmygu tybaco'n rheolaidd[24]. Gelwir y bobl hynny sy'n defnyddio e-sigaréts i ddisodli tybaco'n rhannol yn 'ddefnyddwyr deuol'. Gallai hyn fod yn rhan o ddull o leihau niwed fel y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal[25] yn ei argymell ar gyfer ysmygwyr nad ydynt yn gallu rhoi'r gorau i ysmygu tybaco neu'n anfodlon gwneud hynny. Fodd bynnag, mae hyd yn oed ysmygu ychydig o sigaréts yn achosi bron cymaint o risg glefyd cardiofasgwlaidd ag ysmygu'n drwm, ac mae'r cyfnod y mae rhywun yn ysmygu (yn ogystal â pha mor drwm) yn pennu'r risg o ganser yr ysgyfaint[26].

40. Mae ffigur 3 isod yn dangos patrymau defnydd ymhlith pobl a oedd yn defnyddio e-sigaréts yn rheolaidd yn 2013. Mae'n dangos bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr hirdymor yn defnyddio'r e-sigaréts maint canolig ar ddull ysgrifbin y gellir eu hailwefru, a elwir hefyd yn ddyfeisiau 'ail genhedlaeth'.

Ffigur 3[27]

| **Patrymau defnydd ymhlith pobl sy'n defnyddio e-sigaréts yn rheolaidd** | **Hyd cyfartalog: 10 mis** | |
|---|---|---|
| | **Math o gynnyrch** | **%** |
| | 'Tebyg i sigarét' | 18 |
| | 'Ail genhedlaeth' | 72 |
| | 'Addasiadau' | 9 |
| | **Cryfderau a** | **%** |

[23] The marketing of electronic cigarettes in the UK. Adroddiad gan Marisa de Andrade, Gerard Hastings, Kathryn Angus, Diane Dixon a Richard Purves. Comisiynwyd gan Cancer Research UK. Tachwedd 2013.
[24] Gwefan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA). http://www.mhra.gov.uk/Safetyinformation/Generalsafetyinformationandadvice/Product-specificinformationandadvice/Product-specificinformationandadvice%E2%80%93M%E2%80%93T/NicotineContainingProducts/index.htm
[25] https://www.nice.org.uk/guidance/ph45
[26] Background Paper on E-cigarettes (Electronic Nicotine Delivery Systems). Rachel Grana, PhD MPH; Neal Benowitz, MD; Stanton A. Glantz, PhD. Center for Tobacco Control Research and Education University of California, San Francisco WHO Collaborating Center on Tobacco Control. Paratowyd ar gyfer World Health Organization Tobacco Free Initiative Rhagfyr 2013.
[27] Vaping profiles and preferences: an online survey of electronic cigarette users. Lynne Dawkins et al. Addiction Cyfrol 108, Rhifyn 6, Tudalennau 1115-1125, Mehefin 2013.

| ddefnyddir | |
|---|---|
| 18mg/ml | 49 |
| 11mg/ml | 33 |
| Cyfuno cryfderau | 21 |
| 0mg/ml yn unig | 1 |
| **Hoff flasau** | **%** |
| Tybaco | 53 |
| Ffrwyth | 33 |
| Mintys/menthol | 28 |

41. Comisiynwyd cynllun treialu mawr rheoledig ar hap yn ddiweddar gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd, i archwilio pa mor effeithiol yw e-sigaréts o'u cymharu â therapi disodli nicotin o'u defnyddio yng ngwasanaethau rhoi gorau i ysmygu y DU. Bydd y prosiect yn dod i ben yn 2018.

**Y sefyllfa bresennol**

42. Gostyngodd canran yr oedolion sy'n ysmygu yng Nghymru i 21% yn 2013[28]. Gwelwyd gostyngiad sylweddol yng nghanran y bobl nad ydynt yn ysmygu ac sy'n rheolaidd yn mewnanadlu mwg pobl eraill, o 66% yn 2005-06 i 42% yn 2007, ac ers 2008 mae wedi aros yn eithaf cyson[29].

43. Mae e-sigaréts yn gynnyrch gymharol newydd ac felly nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd beth fydd yr effeithiau hirdymor o ganlyniad i'w defnyddio, ac mae astudiaethau ar eu heffeithiau ar iechyd yn cael eu cyhoeddi'n barhaus. Mae nifer o astudiaethau sy'n rhoi safbwyntiau cyferbyniol am ddiogelwch a manteision iechyd i'r defnyddiwr ac i bobl gerllaw.

44. Ar hyn o bryd mae rhai rheoliadau ar hysbysebu e-sigaréts, trwy'r Pwyllgor Arferion Hysbysebu a'r Pwyllgor Darlledu Arferion Hysbysebu[30]. Nod y rhain yw sicrhau nad yw hysbysebion yn hawlio y gellid eu defnyddio fel dull o roi'r gorau i ysmygu neu ar gyfer dibenion meddygol, ac maent yn mynnu ei bod yn ofynnol i hysbysebion teledu gael eu dangos ar ôl y trothwy, sef 9pm.

45. Mae'r farchnad gynyddol am e-sigaréts a lefelau amrywiol y prosesau rheoleiddio ledled Ewrop wedi ysgogi'r Undeb Ewropeaidd i gynnwys e-sigaréts yng nghwmpas y Gyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco[31] ddiwygiedig. Mae'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig yn cyflwyno gofynion diogelwch ac ansawdd mandadol ar e-sigaréts nad ydynt yng nghwmpas y Gyfarwyddeb

[28] Arolwg Iechyd Cymru http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-health-survey/?skip=1&lang=cy
[29] Tybaco ac Iechyd yng Nghymru 2012 – http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/tudalen/51062
[30] http://www.cap.org.uk/Advice-Training-on-the-rules/Advice-Online-Database/Electronic-cigarettes.aspx
[31] http://ec.europa.eu/health/tobacco/products/revision/index_en.htm

Meddyginiaethau[32]. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau ar gynnwys nicotin, cynhwysion a dyfeisiau yn ogystal â mecanweithiau ail-lenwi. Mae hefyd yn gwneud un o ddau rybudd iechyd yn fandadol (*'This product contains nicotine which is a highly addictive substance. It is not recommended for use by non-smokers'* neu *'This product contains nicotine which is a highly addictive substance'*); ac yn cyflwyno gofyniad i gynnwys taflenni gwybodaeth mewn pecynnau uned o e-sigaréts a chynwysyddion ail-lenwi. Mae hefyd yn cyflwyno gofyniad i gynhyrchwyr a mewnforwyr e-sigaréts ddarparu hysbysiad, rheolau llymach ar hysbysebu a threfn ar gyfer monitro datblygiadau'r farchnad. Er hyn, nid yw'r Gyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco ddiwygiedig yn cynnwys cyfyngiadau ar amgylcheddau di-fwg nac ar oed wrth werthu e-sigaréts, er bod aelod-wladwriaethau'n rhydd i reoleiddio ar faterion o'r fath yn eu parthau eu hunain.

46. Cyfeiriwyd tair her gyfreithiol i'r Gyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco ddiwygiedig i Lysoedd Ewrop. Mae'r her o Wlad Pwyl yn ymwneud â sigaréts menthol; mae Totally Wicked, cwmni e-sigaréts, wedi herio'r darpariaethau ar e-sigaréts; ac mae Philip Morris International a British American Tobacco wedi herio'r Gyfarwyddeb gyfan. Mae'r Adfocad Cyffredinol wedi argymell y dylai'r Llys Ewropeaidd ganfod bod pecynnau safonol, y gwaharddiad ar sigaréts menthol ar draws yr UE yn y dyfodol a'r rheolau arbennig ar gyfer e-sigaréts yn gyfreithlon.

47. Cyhoeddodd yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ei phenderfyniad ym mis Mehefin 2013 i drwyddedu e-sigaréts fel meddyginiaeth[33]. Roedd y penderfyniad hwn yn cyd-fynd â'r cynnig gwreiddiol gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y Gyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco[34] ddiwygiedig, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cynnyrch nicotin gael ei drin fel meddyginiaeth. Er i Senedd Ewrop wrthod y cynnig hwn yn y diwedd, mae'r Asiantaeth wedi parhau â'i phenderfyniad ac mae'n derbyn ceisiadau am drwyddedau meddyginiaethol ar gyfer cynhyrchion nicotin. Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod sawl cais wedi ei gyflwyno. Cafodd anadlydd nicotin drwydded feddygol ym mis Medi 2014[35]. Trwyddedwyd yr e-sigarét cyntaf gan yr Asiantaeth ym mis Tachwedd 2015[36]. Disgwylir iddo gyrraedd y farchnad yn ystod 2016. Bydd cynhyrchwyr e-sigaréts sy'n cael trwyddedau meddyginiaethol yn gallu hawlio bod manteision iechyd i'w cynhyrchion, ond ni fydd e-sigaréts sy'n cael eu gwerthu fel cynhyrchion i ddefnyddwyr yn gallu hawlio manteision o'r fath.

48. Aeth Llywodraeth y DU ymlaen a'i ei bwriad i gyflwyno oed gwerthu ar gyfer yr holl gynhyrchion nicotin, gan gynnwys e-sigaréts, drwy Ddeddf Plant

---

[32] http://ec.europa.eu/health/documents/eudralex/vol-1/index_htm

[33] http://www.mhra.gov.uk/Safetyinformation/Generalsafetyinformationandadvice/Product-specificinformationandadvice/Product-specificinformationandadvice%E2%80%93M%E2%80%93T/NicotineContainingProducts/index.htm

[34] http://ec.europa.eu/health/tobacco/products/revision/

[35] http://www.kindconsumer.com/products/voke-inhaler-technology

[36] http://www.mhra.gov.uk/home/groups/par/documents/websiteresources/con616843.pdf

a Theuluoedd 2014[37]. Roedd y Ddeddf yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd wneud rheoliadau i'w gwneud yn drosedd i werthu cynhyrchion nicotin i bobl o dan 18 oed, a'i gwneud yn drosedd i brynu nicotin ar ran pobl ifanc o dan oed. Gwnaed Rheoliadau[38] ar 25 Mawrth 2015 ac fe ddaethant i rym ar 1 Hydref 2015.

**Diben y darpariaethau**

49. Diben darpariaethau'r Bil yw cyfyngu y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus penodol a cherbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cludiant i'r ysgol neu drafnidiaeth gyhoeddus. O ganlyniad, bydd y defnydd o e-sigaréts yn cael ei wahardd mewn rhestr benodol o fannau cyhoeddus yng Nghymru. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi argymell cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus.[39] Mae'r Bil yn ailddatgan gyda mân welliannau ddarpariaethau di-fwg Bil Iechyd 2006, cyn belled ag y bo'n berthnasol i Gymru.

50. Mae darpariaethau mewn perthynas ag e-sigaréts yn cael sylw ar wahân i'r rhai sy'n rhoi manylion am y gofynion cyffredinol i fod yn ddi-fwg. Mae'r Bil yn creu troseddau newydd o ddefnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin (DMN) mewn mangre neu gerbyd di-DMN , a methu ag atal y defnydd o DMN mewn man di-DMN. Ceir rhestr o fanylion ynghylch mangreoedd di-DMN (a all fod yn amgaeedig neu'n sylweddol gaeedig neu beidio) mewn Atodlen i'r Bil.

51. Mae darpariaethau'r Bil yn gwneud mangreoedd gofal plant, sefydliadau addysgol, llefydd bwyd a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus yn ddi-DMN, heb unrhyw allu i ddynodi ardaloedd o fewn y lleoliadau hyn fel ardaloedd lle caniateir defnyddio DMN. Rhaid i safloedd ysbyty fod yn ddi-DMN lle maent yn agored i'r cyhoedd ac/neu yn darparu gofal i gleifion, ond gall y person sy'n gyfrifol am y fangre bennu ardaloedd penodol lle caniateir defnyddio DMN. Mae hosbisau i oedolion, cartrefi gofal i oedolion ac anheddau (ac eithrio anheddau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gofal plant proffesiynol) yn cael eu heithrio rhag y darpariaethau di-DMN, sy'n golygu bod modd defnyddio DMN ym mhob rhan o'r mangreoedd hynny.

52. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru:

- Ddiwygio'r rhestr o fangreoedd di-DMN drwy ychwanegu neu ddileu mangreoedd, neu amrywio'r disgrifiad ohonynt. Dim ond os ydynt yn fodlon bod gwneud hynny'n debygol o gyfrannu tuag at hybu iechyd pobl Cymru y gall Gweinidogion Cymru ychwanegu neu ddileu mangreoedd;

[37] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/6/part/5/crossheading/tobacco-nicotine-products-and-smoking
[38] O.S 2015/895 – Rheoliadau Cynhyrchion Anadlu Nicotin (Oed Gwerthu a Phrynu ar Ran) 2015
[39] Electronic Nicotine Delivery System. Adroddiad gan Sefydliad Iechyd y Byd. WHO Framework Convention on Tobacco Control. FCTC/COP/6/10. 21 Gorffennaf 2014.

- Pennu amodau sydd angen eu bodloni cyn bod unrhyw ystafell neu ardal yn medru cael ei dynodi fel ardal lle caniateir defnyddio DMN;

- Gwneud darpariaeth ar gyfer cerbydau di-fwg a cherbydau ychwanegol di-DMN, a all ddynodi'r mathau o gerbydau a ddylai fod yn rhai di-fwg neu ddi-DMN, o dan ba amgylchiadau y maent yn ddi-fwg neu'n ddi-DMN, y dylai cerbydau fod yn ddi-fwg neu ddi-DMN pan maent wedi'u lleoli mewn ardaloedd penodol, ac ar gyfer esemptiadau i unrhyw un o'r gofynion hyn. Dim ond os ydynt yn fodlon bod gwneud hynny'n debygol o gyfrannu tuag at hybu iechyd pobl Cymru y gall Gweinidogion Cymru wneud hynny;

- Dynodi mangreoedd ychwanegol, gan gynnwys mannau nad ydynt yn gaeedig, yn rhai di-fwg. Caiff Gweinidogion Cymru wneud hynny dim ond pan fyddant yn fodlon y byddai gwneud hynny'n debygol o gyfrannu tuag at hybu iechyd pobl Cymru;

- Esemptio mangreoedd (neu rannau o fangreoedd) o'r gofynion i fod yn ddi-fwg; a,

- Phennu gofynion i arwyddion gael eu defnyddio mewn mangreoedd a cherbydau di-fwg a di-DMN.

53. Yn y Bil, gelwir e-sigaréts yn 'ddyfeisiau mewnanadlu nicotin'. Mae hyn yn cyd-fynd â'r diffiniad yn y rheoliadau oed gwerthu. Fel y nodwyd uchod, defnyddir y term 'e-sigarét' trwy'r Memorandwm Esboniadol hwn, gan ei fod yn derm cyfarwydd.

54. Nid gwahardd y defnydd o e-sigaréts mo diben y darpariaethau, nac effeithio ar y posibilrwydd o'u defnyddio mewn ymdrech i roi'r gorau i ysmygu. Cyhoeddwyd Adolygiad Cochrane[40] ym mis Rhagfyr 2014 o 13 o astudiaethau ar ymdrechion i roi'r gorau i ysmygu, a chanfu fod buddion posibl i iechyd ysmygwyr yn sgil newid i ddefnyddio e-sigaréts, ond bod ansawdd y dystiolaeth yn gyffredinol yn isel.

55. Nod darpariaethau'r Bil, felly, yw sicrhau cydbwysedd rhwng y buddion posibl i ysmygwyr sy'n dymuno rhoi gorau i ysmygu ac unrhyw anfanteision posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio e-sigaréts.

56. Un o'r anfanteision posibl yw y gallai'r defnydd o e-sigaréts wneud ymddygiad ysmygu yn beth arferol eto mewn mannau lle y mae'r cyhoedd wedi dod i arfer peidio â gweld pobl yn ysmygu o ganlyniad i'r gofynion di-fwg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer y genhedlaeth o blant a phobl ifanc sydd heb arfer gweld pobl yn ysmygu mewn mannau caeedig cyhoeddus yn

[40] Electronic cigarettes for smoking cessation and reduction (Review). 2014. The Cochrane Collaboration. Cyhoeddwyd gan John Wiley & Sons, Ltd. Ar gael yn: http://www.cochrane.org/features/new-cochrane-evidence-shows-electronic-cigarettes-facilitate-smoking-cessation

sgil y gwaharddiad ar ysmygu yn 2007. Er nad yw e-sigaréts wedi bod ar y farchnad yn ddigon hir i gasglu tystiolaeth gadarn i ddangos a yw'r defnydd ohonynt yn dod yn beth arferol, mae digon o dystiolaeth ddogfennol o wahanol rannau o'r byd ynglŷn â'r broses o wneud ysmygu'n llai normal drwy waharddiadau ysmygu. Yn ogystal â chwtogi ar y mannau lle caniateir ysmygu, mae lleihau'r cyfle sydd ar gael i bobl ysmygu a'i gwneud yn fwy anodd i ysmygu yn helpu i herio'r canfyddiad bod ysmygu yn ymddygiad arferol[41]. Mae hynny'n gwneud ysmygu'n llai derbyniol mewn cymdeithas[42]. Mewn adolygiad o ddulliau o farchnata e-sigaréts[43], mae ymchwilwyr wedi canfod bod llawer o gynhyrchion e-sigaréts mor debyg i sigaréts, o ran eu hymddangosiad a sut y cânt eu defnyddio, fel bod defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin yn ymddangos yn union fel ysmygu, ac felly wedi ei fodelu ar ysmygu. Maent yn nodi bod hyn yn awgrymu ei bod yn bosibl i e-sigaréts hybu ysmygu'n anfwriadol. Mae eraill wedi mynegi pryderon hefyd y gallai'r defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a gweithleoedd danseilio llwyddiant y camau rheoli tybaco, trwy wneud ysmygu'n beth normal eto.[44,45]

57. Mae e-sigaréts yn cael eu defnyddio gan bobl ifanc yn eu harddegau, gan gynnwys y rhai hynny nad ydynt erioed wedi ysmygu, ond ar hyn o bryd ychydig o'r rhai hynny sy'n rhoi cynnig arnynt sy'n dod yn ddefnyddwyr rheolaidd[46]. Ar sail data o UDA mae'n rhesymol credu y bydd mwy o bobl ifanc, hyd yn oed rhai nad ydynt yn ysmygu, yn dechrau eu defnyddio[47,48]. Darganfu astudiaeth hydredol ymysg dros ddwy fil o fyfyrwyr ysgolion uwchradd yn Los Angeles[49] fod y rhai a oedd wedi defnyddio e-sigaréts yn fwy tebygol o ddweud iddynt ddefnyddio cynnyrch tybaco dros y flwyddyn ganlynol na'r rhai nad oedd wedi defnyddio e-sigaréts. Mae'r astudiaeth hon wedi bod yn destun trafodaeth bellach[50].

---

[41] Alesci N, Forster J a Blaine T. Smoking visibility, perceived acceptability, and frequency in various locations among youths and adults. Preventive Medicine 2003;36(3):272-81. Ar gael yn: http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/12634018

[42] Song A a Glantz S. Pushing secondhand smoke and the tobacco industry outside the social norm to reduce adolescent smoking. Journal of Adolescent Health 2008;43(4):315–17. Ar gael o: http://www.jahonline.org/article/S1054-139X(08)00235-8/fulltext

[43] Promotion of electronic cigarettes: tobacco marketing reinvented? Marisa de Andrade, Gerard Hastings a Kathryn Angus. BMJ 2013;347;f7473

[44] Friends of the Board of Science bulletin; BMA Board of Science. Rhifyn 9, Hydref 2013.

[45] http://www.adph.org.uk/category/stc/

[46] 'Electronic-cigarette use among young people in Wales: evidence from two cross-sectional surveys.' Dr Graham Moore et al. Cyhoeddwyd 15 Ebrill 2015. http://bmjopen.bmj.com/content/5/4/e007072

[47] Electronic cigarette use and conventional cigarette use among US adolescents: a cross-sectional study. Dutra a Glantz. JAMA Pediatr.doi:10.1001/paediatricsrics.2013.5488. Cyhoeddwyd ar-lein 6 Mawrth 2014.

[48] Intentions to smoke cigarettes among never-smoking U.S. middle and high school electronic cigarette users, National Youth Tobacco Survey, 2011-2013. Bunnell et al. Nicotine Tob Res (2015) 17 (2): 228-235. doi: 10.1093/ntr/ntu166 Cyhoeddwyd ar-lein am y tro cyntaf: Awst 20, 2014 http://ntr.oxfordjournals.org/content/17/2/228

[49] Association of Electronic Cigarette Use With Initiation of Combustible Tobacco Product Smoking in Early Adolescence. http://jama.jamanetwork.com/article.aspx?articleid=2428954

[50] http://www.sciencemediacentre.org/expert-reaction-to-study-on-e-cigarette-use-and-subsequent-smoking-in-us-teenagers/

58. Darganfu adroddiad CHETS Cymru 2[51] fod rhywfaint o awgrym y gallai fod cysylltiad rhwng defnyddio e-sigaréts a theimladau gwrth-ysmygu gwannach. Yn benodol:

- O blith y plant nad oedd yn ysmygu ac a ddywedodd eu bod wedi defnyddio e-sigarét, dywedodd 14% y byddent efallai'n dechrau ysmygu yn y ddwy flynedd nesaf (o'i gymharu â 2% o'r rhai nad oedd wedi defnyddio e-sigarét); ac
- Er mai ychydig o blant a ddywedodd y byddent yn dechrau ysmygu o fewn dwy flynedd, roedd plant a oedd wedi defnyddio e-sigarét gryn dipyn yn llai tebygol o ddweud yn sicr na fyddent yn ysmygu, ac yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn ysmygu efallai.

59. Mae'r drafodaeth yn parhau ynghylch a yw e-sigaréts yn cael yr effaith o wneud ysmygu yn beth mwy normal eto, neu o bosib yn arwain at gaethiwed i nicotin ac ysmygu tybaco. Nid oes tystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i wrthbrofi hynny. Darganfu adroddiad Public Health England, 'E-cigarettes: an evidence update' ("adroddiad PHE 2015")[52] fod llai o ysmygu ymysg oedolion ac ieuenctid Lloegr ers cyflwyno e-sigaréts i'r farchnad. Awgryma'r awduron bod hyn yn dangos diffyg tystiolaeth hyd yma bod e-sigaréts yn gwneud ysmygu'n beth normal eto, ac yn hytrach efallai eu bod yn cyfrannu at leihau cyfraddau ysmygu ymhellach neu ei wneud yn beth llai normal. Fodd bynnag, mae data o'r Unol Daleithiau – a gyhoeddwyd ar ôl i adroddiad PHE 2015 gael ei ryddhau – o astudiaeth hydredol ymysg dros ddwy fil o fyfyrwyr ysgolion uwchradd yn Los Angeles[53], wedi canfod fod y rhai a oedd wedi defnyddio e-sigaréts yn fwy tebygol o ddweud iddynt ddefnyddio cynnyrch tybaco dros y flwyddyn ganlynol na'r rhai nad oedd wedi defnyddio e-sigaréts.

## Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael

60. Bydd y darpariaethau hyn yn gweithio gyda deddfwriaeth arall i gyfrannu at y gostyngiad parhaus yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dechrau ysmygu. Byddant yn gweithio i sicrhau bod ysmygu'n parhau i ddod yn beth llai normal drwy sicrhau nad yw ymddygiad yn ymwneud ag ysmygu yn weladwy mewn mannau cyhoeddus lle mae ysmygu wedi'i wahardd, a lle mae plant yn debygol o fod yn bresennol yn rheolaidd. Byddant hefyd yn gweithio gyda'r rheoliadau ynglŷn ag oed gwerthu a phrynu ar ran pobl ifanc o dan oed i gynorthwyo i'w diogelu rhag y perygl o fynd yn gaeth i nicotin a'r effaith y gall nicotin ei chael ar yr ymennydd wrth iddo ddatblygu; ac amddiffyn plant a

---

[51] http://wales.gov.uk/statistics-and-research/exposure-secondhand-smoke-cars-ecigarette-use-among-children/?lang=cy

[52] 'E-cigarettes: an evidence update' Adroddiad a gomisiynwyd gan Public Health England. McNeill A, Brose LS, Calder R, Hitchman SC, Hajek P, McRobbie H. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/457102/Ecigarettes_an_evidence_update_A_report_commissioned_by_Public_Health_England_FINAL.pdf

[53] Association of Electronic Cigarette Use With Initiation of Combustible Tobacco Product Smoking in Early Adolescence. http://jama.jamanetwork.com/article.aspx?articleid=2428954

phobl ifanc rhag unrhyw bosibilrwydd y gallai e-sigaréts arwain at ysmygu tybaco[54].

61. Nid yw'n fwriad gan y darpariaethau i ymyrryd â'r defnydd o e-sigaréts mewn unrhyw ymgais i roi'r gorau i ysmygu, na lleihau'r niwed gan ysmygu. Bydd defnyddwyr e-sigaréts yn parhau i allu defnyddio eu dyfeisiau ym mhob man lle y caniateir ysmygu, yn ogystal â nifer o fannau lle na chaniateir ysmygu.

62. Bydd darpariaethau ar gyfer cerbydau di-fwg ac unrhyw fangreoedd di-fwg ychwanegol, gan gynnwys mannau nad ydynt yn gaeedig, yn cael eu nodi mewn rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Wrth gyflwyno deddfwriaeth o'r fath, bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried ymhob achos a ddylai'r fangre neu cerbydau hefyd fod yn ddi-DMN. Bydd unrhyw gerbydau di-DMN ychwanegol yn cael eu nodi yn y rheoliadau; bydd unrhyw ofod di-DMN nad yw'n gaeedig yn cael ei ychwanegu i'r rhestr o fangreoedd di-DMN a nodir yn yr Atodlen.

## Cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin

### Cefndir

63. Mae'n hanfodol diogelu pobl ifanc rhag prynu tybaco a chynhyrchion nicotin oherwydd ei bod yn bosibl nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am y canlyniadau iechyd, ac yn benodol, y risg o ddod yn ddibynnol ar y cynhyrchion hyn. Hyd yn oed pan fo ganddynt wybodaeth, mae'n bosibl na fydd pobl ifanc yn barnu'n gywir pa mor beryglus yw ysmygu o'i gymharu â ffactorau amgylcheddol eraill y maent yn agored iddynt.[55] Hefyd, po ifancaf y mae rhywun yn dechrau ysmygu, po fwyaf o berygl y mae ynddo o ddioddef o afiechydon sy'n gysylltiedig ag ysmygu[56].

64. Rydym wedi sefydlu ers amser maith ei bod yn hawdd iawn mynd yn gaeth i nicotin. Mae nicotin yn gyffur cryf sy'n gwneud pobl yn ddibynnol iawn, ac mae pump i ddeg gwaith mwy cryf na morffin a chocên o ran creu'r effeithiau ymddygiadol a seicolegol sy'n gysylltiedig â'r potensial i wneud pobl yn gaeth[57]. Gall pobl ifanc ddatblygu dibyniaeth ar nicotin yn gyflym. O ran nicotin o ysmygu tybaco, gall symptomau ddatblygu'n fuan ar ôl pwff cyntaf unigolyn ifanc ar sigarét. Nid yw defnyddwyr newydd yn aml yn sylweddoli bod y symptomau y maent yn eu profi yn gysylltiedig â dibyniaeth ar nicotin[58]. Mae ymchwil yn dangos bod yr ymennydd yn parhau i ddatblygu yn ystod y

---

[54] https://www.gov.uk/government/consultations/nicotine-inhaling-products-introducing-a-minimum-age-of-sale

[55] Tobacco control in developing countries. Oxford University Press. (2000).

[56] Cymdeithas Feddygol Prydain (2007). Breaking the cycle of children's exposure to tobacco smoke. Cymdeithas Feddygol Prydain.

[57] Harm Reduction in Nicotine Addiction: Helping People who can't quit. Coleg Brenhinol y Meddygon. (2007)

[58] Milestones in the natural course of onset of cigarette use among adolescents. Gervais, A., et al. (2006)

glasoed a'i fod yn wahanol i ymennydd oedolyn. Un o'r gwahaniaethau yw bod pobl ifanc yn y glasoed yn fwy sensitif i effeithiau gwobrwyol nicotin, ac efallai bod hwn yn un rheswm pam y mae llawer o bobl yn dechrau ysmygu yn ystod eu harddegau[59]. Mae tystiolaeth yn dangos hefyd ei bod yn bosibl nad yw pobl ifanc sy'n datblygu dibyniaeth ar nicotin yn gallu lleihau eu peryglon oherwydd eu bod yn gaeth i nicotin[60].

65. Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Reoli Tybaco[61] yn cydnabod y posibilrwydd bod angen rheoli mwy ar yr amgylchedd manwerthu tybaco i'w rwystro rhag cael ei werthu i bobl ifanc o dan oed, ac mae'n nodi, *'Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno cofrestr manwerthu tybaco yng Nghymru.' (Cam gweithredu 1.6).*

**Y sefyllfa bresennol**

66. Mae ystod o ddeddfwriaeth wedi ei chyflwyno yng Nghymru i leihau'r perygl y gall pobl ifanc gael gafael ar gynhyrchion tybaco. Mae camau wedi amrywio o wahardd gwerthu cynhyrchion tybaco i blant o dan 18 oed i wahardd gwerthu cynhyrchion tybaco mewn peiriannau gwerthu.

67. Ar hyn o bryd, nid oes dull o olrhain manwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco neu nicotin gan nad oes angen iddynt gael trwydded cyn dechrau gwerthu, yn wahanol i fangreoedd sy'n gwerthu alcohol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol felly ddibynnu ar wybodaeth leol er mwyn gorfodi deddfwriaeth tybaco.

68. Mae awdurdodau lleol eisoes yn darparu amrywiaeth eang o gyngor a chanllawiau i fanwerthwyr ar nifer o faterion. Fodd bynnag, mae heriau o ran sicrhau bod manwerthwyr tybaco yn cael y cyngor diweddaraf a chymorth ar gyfer materion tybaco a nicotin, gan nad oes rhestr gynhwysfawr ar gael o fusnesau sy'n gwerthu'r cynhyrchion hyn. Mae hyn yn golygu nad yw awdurdodau lleol o bosibl yn gallu adnabod holl fusnesau y gallai fod arnynt angen hyfforddiant neu arweiniad, a gallai hyn olygu nad yw rhai manwerthwyr yn derbyn gwybodaeth hanfodol er enghraifft am newidiadau i'r gyfraith.

69. Mae data ar gael ar achosion o werthu cynhyrchion tybaco i bobl ifanc o dan oed yng Nghymru. Cynhaliodd adrannau Safonau Masnach gyfanswm o 332 ymgais i brynu cynhyrchion tybaco mewn mangreoedd manwerthu ym mhob rhan o Gymru yn ystod 2012/13¸ gan ddefnyddio gwirfoddolwyr ifanc. Llwyddwyd i brynu mewn 51 o achosion, sy'n rhoi cyfradd methiant o 15%. Mae data o flynyddoedd blaenorol, a ddangosir yn y tabl isod, yn awgrymu bod hon yn broblem sy'n parhau.

---

[59] Development of the motivational system during adolescence, and its sensitivity to disruption by nicotine. Counotte, D. et al. (2011)
[60] Di Franza J et al (2007). Symptoms of tobacco dependence after brief intermittent use: the development and assessment of nicotine dependence in youth, Archives of Paediatrics and Adolescent Medicine 162 (7): 704-710
[61] http://gov.wales/topics/health/improvement/index/tobacco/?skip=1&lang=cy

*Tabl 3.1.*

| Blwyddyn Ariannol | Nifer yr ymgeisiau i brynu sigaréts gan wirfoddolwyr ifanc | Nifer o weithiau y gwerthwyd sigaréts i wirfoddolwyr ifanc | Cyfradd methiant |
|---|---|---|---|
| 2007-08 | 148 | 22 | 15% |
| 2008-09 | 720 | 130 | 18% |
| 2009-10 | 884 | 136 | 15% |
| 2010-11 | 518 | 74 | 14% |
| 2011-12 | 536 | 57 | 11% |
| 2012-13 | 332 | 51 | 15% |

70. Dangosodd tystiolaeth o Ogledd-ddwyrain Lloegr yn 2013[62] fod ysmygwyr ifanc (14-15 oed) yn llawer mwy cyfforddus nag oedolion wrth brynu tybaco anghyfreithlon. Roedd 30% o blant 14-15 oed yn prynu tybaco anghyfreithlon, gan eu gwneud yn ddwywaith mwy tebygol nag oedolion sy'n ysmygu o fod wedi prynu tybaco anghyfreithlon. Hefyd, mae ymchwil a gyhoeddwyd gan ASH Cymru[63] yn dangos bod tua 19% o'r holl dybaco anghyfreithlon yn cael ei brynu o siop (yn seiliedig ar yr arolwg a gynhaliwyd ar gyfer yr ymchwil hon yn 2014), ac roedd pris cyfartalog pecyn o 20 o sigaréts anghyfreithlon yn £4, o'i gymharu â phris cyfartalog o ychydig dan £8 am sigaréts a brynwyd yn gyfreithlon (ar ôl cyllideb 2014).

71. Cyflwynwyd cofrestr manwerthwyr tybaco yn yr Alban yn 2011 fel rhan o Ddeddf Tybaco a Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol (Yr Alban) 2010[64]. Ym mis Hydref 2014 cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad ar sigaréts electronig a chryfhau'r drefn o reoli tybaco yn yr Alban[65], a daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ionawr 2015. Un o'r opsiynau yr oedd Llywodraeth yr Alban yn gofyn am safbwyntiau yn ei gylch oedd sefydlu gofyniad statudol i fanwerthwyr e-sigaréts gofrestru ar Gofrestr Manwerthwyr Tybaco yr Alban. Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd (65%) yn cefnogi ychwanegu gwerthwyr e-sigaréts at y gofrestr. Yn dilyn hyn, ym mis Mehefin 2015 cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban y Bil Iechyd (Tybaco, Nicotin ac ati a Gofal) (Yr Alban). Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth a fydd, o'i basio, yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr cynhyrchion anwedd nicotin gofrestru ar y gofrestr o werthwyr tybaco a chynhyrchion anwedd nicotin. Yng Ngogledd Iwerddon, mae Deddf Manwerthwyr Tybaco (Gogledd Iwerddon) 2014[66] yn cynnwys darpariaethau i greu cofrestr manwerthwyr tybaco ar gyfer Gogledd Iwerddon. Nid yw'r ddarpariaeth hon wedi cychwyn eto.

72. Yng Nghymru a Lloegr, mae adran 143 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 yn diwygio Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 i

[62] NEMS Market Research (2013). North East Illicit Tobacco Survey. NEMS Market Research
[63] ASH Cymru (2014). Illegal Tobacco: The Problem in Wales. ASH Cymru
[64] http://www.legislation.gov.uk/asp/2010/3/contents
[65] Llywodraeth yr Alban (2015). A Consultation on Electronic Cigarettes and Strengthening Tobacco Control in Scotland. Llywodraeth yr Alban
[66] http://www.legislation.gov.uk/nia/2014/4/crossheading/register-of-tobacco-retailers/enacted

alluogi llys ynadon i osod Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad neu Orchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad ar y rhai hynny sydd wedi gwerthu tybaco'n fynych i bobl ifanc o dan 18 oed (ar dri achlysur mewn cyfnod o ddwy flynedd o leiaf). Mae Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yn gwahardd gwerthu pob cynnyrch tybaco (gan gynnwys papurau sigaréts) yn y safle am gyfnod o hyd at flwyddyn, ond heb fod yn fwy na hynny. Mae Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad yn gwahardd unigolyn rhag gwerthu unrhyw gynhyrchion tybaco (gan gynnwys papurau sigaréts) neu gael unrhyw swyddogaethau rheoli yn gysylltiedig ag unrhyw safle o ran gwerthu cynhyrchion tybaco (gan gynnwys papurau sigaréts) yn y safle i unrhyw unigolyn. Gall Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad fod am unrhyw gyfnod hyd at flwyddyn, ond heb fod yn fwy na hynny. Mae Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn ymestyn y drefn Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad a Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad i gynnwys troseddau nicotin yn ogystal â gwahardd gwerthu cynhyrchion nicotin penodol yn unol â'r diffiniad yn Rheoliadau Cynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Oed Gwerthu a Phrynu ar Ran) 2015.

73. Yng Ngogledd Iwerddon, gall achos llys gyflwyno Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad os yw'r troseddwr wedi cyflawni tri o droseddau yn ymwneud â thybaco yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Rhaid bod Hysbysiad Cosb Benodedig neu gollfarn wedi deillio o'r troseddau hyn, ond nid yw hyn wedi ei gyfyngu i werthu tybaco i blant o dan 18 oed. Yn yr Alban, caiff y Sheriff gyflwyno Gorchymyn Gwahardd Tybaco os yw'r unigolyn wedi bod yn destun tri neu fwy o gamau gorfodi perthnasol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer pob safle a enwir yn y Gorchymyn. Bydd unigolyn yn destun camau gorfodi perthnasol os yw wedi cael Hysbysiad Cosb Benodedig neu ei gael yn euog o drosedd ym Mhennod 1 (Arddangos, Gwerthu a Phrynu cynhyrchion tybaco) neu Bennod 2 (Cofrestr o fanwerthwyr tybaco) o Ddeddf Tybaco a Dyfeisiau Meddygol Sylfaenol (Yr Alban) 2010.

74. O ran cynhyrchion nicotin, mae adrannau 92 a 93 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i wahardd gwerthu cynhyrchion nicotin i bobl ifanc o dan 18 oed. Bwriad hyn yw amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y perygl o fynd yn gaeth i nicotin a'r posibilrwydd o ddechrau defnyddio tybaco. Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad chwe wythnos ar y rheoliadau drafft, ar ran Cymru a Lloegr. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 28 Ionawr 2015. Gwnaed y Rheoliadau ar 25 Mawrth 2015[67] gan ddod i rym ar 1 Hydref 2015.

75. Cyhoeddwyd adroddiad[68] ym mis Gorffennaf 2014 gan Public Health England a'r Sefydliad Safonau Masnach, ar astudiaeth o brawf lle'r oedd pobl ifanc o dan 18 oed yn ceisio prynu e-sigaréts gan amrywiaeth o fanwerthwyr, ac roedd y canlyniadau'n dangos bod 40% o'r bobl ifanc wedi llwyddo i brynu e-sigaréts. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn destun trosedd benodol ar y pryd.

[67] O.S. 2015/895 – Rheoliadau Cynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Oed Gwerthu a Phrynu ar Ran) 2015

[68] Sefydliad Safonau Masnach (2014). Youth access to E cigarettes and associated products. Sefydliad Safonau Masnach

**Diben y darpariaethau**

76. Er mwyn cryfhau mwy ar y fframwaith cyfreithiol presennol ar gyfer rheoli tybaco, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i sefydlu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin. Y prif ddiben yw atgyfnerthu pwysigrwydd amddiffyn pobl ifanc o dan 18 oed rhag tybaco a chynhyrchion nicotin, yn ogystal â lleihau'r risg bod pobl ifanc o dan 18 yn gallu cael gafael ar y cynhyrchion hyn.

77. Bydd yn ofynnol i'r holl fanwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin yng Nghymru gofrestru er mwyn cael gwerthu'r cynhyrchion hyn (fel y'u diffinnir yn y rheoliadau). Bydd un ffurflen gais yn cael ei chyflwyno ar gyfer yr holl fangreoedd lle y caiff y cynhyrchion hyn eu gwerthu. Gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol talu ffi gyda'r cais.

78. Bydd cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin yn rhoi rhestr bendant i awdurdodau lleol o fanwerthwyr yn eu hawdurdod sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco neu nicotin. Bydd awdurdodau lleol felly'n gallu defnyddio'r gofrestr i'w cynorthwyo i orfodi deddfwriaeth tybaco a nicotin, er enghraifft, oed gwerthu ac arddangos cynhyrchion tybaco. Bydd hyn yn newid sylweddol o gymharu â'r sefyllfa bresennol lle mae'r wybodaeth sydd ar gael yn dameidiog.

79. Bydd y gofrestr hefyd yn werthfawr wrth ledaenu gwybodaeth a chanllawiau i fanwerthwyr am werthu tybaco a chynhyrchion nicotin. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth, er enghraifft, am newidiadau i ddeddfwriaeth y mae angen i fanwerthwyr fod yn ymwybodol ohoni, neu ganllawiau sy'n rhoi cyngor neu gymorth i fanwerthwyr. Bwriad cael cofrestr o fanwerthwyr y cynhyrchion hyn yw lleihau'r perygl na fydd manwerthwyr yn ymwybodol o newidiadau pwysig yn y modd y caiff y cynhyrchion hyn eu gwerthu, er enghraifft, cyflwyno'r gwaharddiad ar werthu cynhyrchion tybaco mewn peiriannau gwerthu.

80. Bydd Awdurdod Cofrestru yn cael ei enwi i reoli'r gofrestr genedlaethol ar gyfer Cymru gyfan, a gallai fod yn awdurdod lleol neu'n gorff arall (er enghraifft sefydliad o'r sector gwirfoddol neu'r sector preifat). Bydd y swyddogaeth hon yn cynnwys prosesu ceisiadau i fangreoedd gael eu cynnwys ar y gofrestr. Gallai Awdurdod Cofrestru beidio â chaniatáu cais os yw'n ymwneud â mangre sy'n destun Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, neu ag unigolyn sy'n destun Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad ar y pryd. Os ceir cais ar gyfer mwy nag un mangre, dim ond y fangre sy'n destun Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad ar y pryd fyddai ddim yn cael ei hychwanegu at y gofrestr.

81. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer ei gwneud yn drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco neu nicotin o fangre (gan gynnwys unedau symudol) yng Nghymru os nad ydynt ar y gofrestr genedlaethol. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar fanwerthwyr i hysbysu'r Awdurdod Cofrestru am newidiadau

penodol (er enghraifft os nad yw'r manwerthwr yn gwerthu cynhyrchion tybaco neu nicotin bellach, neu os bydd mangre'n newid dwylo). Bydd hyn yn sicrhau bod y gofrestr yn cynnwys y wybodaeth fwyaf diweddar bosibl am fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin.

82. Awdurdodau Lleol fydd yn cymryd camau gorfodi ynglŷn â throseddau sy'n ymwneud â'r gofrestr. Er mwyn cymryd camau gorfodi effeithiol, gallai fod yn ofynnol i fynd i mewn i fangreoedd nad ydynt wedi eu cofrestru os credir bod cynhyrchion tybaco a/neu nicotin yn cael eu gwerthu. Mae'r Bil felly yn darparu pŵer mynediad i swyddogion awdurdodau lleol, yn ogystal â throsedd gysylltiedig o rwystro swyddog rhag arfer y pŵer hwn. Os bydd swyddog gorfodi ym mynd i mewn i fangre heb ei feddiannu, rhaid i'r swyddog adael y fangre mewn cyflwr diogel.

83. Yn ogystal â chreu cofrestr, bydd y Bil hefyd yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru gynnwys troseddau tybaco eraill a allai gyfrif tuag at gais am Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad. Er mwyn cynnwys troseddau newydd, rhaid i'r drosedd fod yn un sy'n denu cosb Lefel 4 o leiaf a bod yn ymwneud â chyflenwi, gwerthu, cludo, arddangos, hysbysebu neu feddu ar gynhyrchion tybaco neu nicotin, neu eu cynnig i'w gwerthu. Bydd rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

84. Trwy ychwanegu troseddau tybaco a/neu nicotin eraill at drefn bresennol y Gorchmynion Mangre o dan Gyfyngiad, byddid yn atgyfnerthu pwysigrwydd gwerthu'r cynhyrchion hyn yn gyfrifol. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai'r cymhelliad mwyaf effeithiol ar gyfer cydymffurfio â deddfwriaeth yw'r bygythiad gwirioneddol o golli trwydded, yn hytrach na'r posibilrwydd o erlyniad a dirwy.[69]

85. Y bwriad, wrth sefydlu gwell trefn ar gyfer y Gorchmynion Mangre o dan Gyfyngiad, yw rhoi model trwyddedu negyddol mwy effeithiol i Gymru. System trwyddedu negyddol yw un lle nad oes angen trwydded neu ganiatâd cyn manwerthu, ond y gallai busnes sy'n torri'r rheoliadau mewn modd difrifol gael ei wahardd rhag gwerthu cynhyrchion. Yn achos tybaco a chynhyrchion nicotin, mae hyn yn golygu na fyddai angen i fanwerthwr gael trwydded cyn gwerthu'r cynhyrchion hyn, ond y gallent gael Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad os ydynt yn cyflawni tair trosedd tybaco neu nicotin perthnasol mewn cyfnod o dair blynedd, gan wahardd y fangre honno rhag gwerthu'r cynhyrchion hyn am gyfnod o hyd at flwyddyn. Llys ynadon fydd yn penderfynu ar y cyfnod o amser y bydd manwerthwr yn cael ei wahardd rhag gwerthu cynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin. Os yw mangre yn destun Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, ni chaiff ei chynnwys ar y gofrestr o fanwerthwyr tan fod y Gorchymyn wedi dod i ben.

**Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael**

[69] Licensing of Tobacco Retailers and Wholesales. The Allen Consulting Group. 2002

86. Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael yw diogelu plant a phobl ifanc o dan 18 oed rhag y niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio tybaco a nicotin. Cyflawnir hyn trwy roi rhestr benodol i awdurdodau lleol o'r manwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu nicotin yn ardal eu hawdurdod. Bydd hyn yn cynorthwyo swyddogion safonau masnach yn yr ardaloedd hyn i orfodi deddfwriaeth tybaco sydd eisoes yn bodoli, a rhoi canllawiau a gwybodaeth i fanwerthwyr am eu cyfrifoldebau o ran deddfwriaeth tybaco a chynhyrchion nicotin.

87. Hefyd, rhagwelir y byddai buddion yn cael eu hychwanegu trwy gyfuno trefn wedi ei chryfhau ar gyfer y Gorchmynion Mangre o dan Gyfyngiad â chofrestr genedlaethol, trwy wella'r ysgogiadau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer gwaith gorfodi ym maes troseddau tybaco a nicotin. Bydd y darpariaethau hyn hefyd yn ategu'r nod polisi o'i gwneud yn anos i bobl ifanc o dan 18 oed gael gafael ar dybaco a chynhyrchion nicotin.

## Rhoi tybaco etc i bersonau o dan 18

### Cefndir

88. Mae'r rhan fwyaf o ysmygwyr yn dechrau ysmygu yn eu harddegau, ac yng Nghymru ar hyn o bryd, ymysg disgyblion ysgol Blwyddyn 11 (h.y. 15-16 mlwydd oed), mae 9% o fechgyn a 14% o ferched yn ysmygwyr rheolaidd (wythnosol)[70]. Dywed dau o bob tri o'r oedolion yn y DU sydd erioed wedi ysmygu eu bod wedi dechrau gwneud hynny cyn iddynt fod yn 18 oed, ac roedd dau o bob pump wedi dechrau ysmygu'n rheolaidd cyn iddynt fod yn 16 oed[71]. Mae pobl ifanc o dan 18 oed yn ddefnyddwyr sy'n arbennig o agored i niwed, fel y nodwyd eisoes.

89. Un strategaeth sydd wedi ei hen sefydlu ar gyfer lleihau'r defnydd o sylweddau sy'n niweidiol i iechyd, yn enwedig tybaco, yw rheoli'r gallu i gael gafael ar sylweddau o'r fath. O ganlyniad, gellir helpu i amddiffyn pobl ifanc rhag dod yn gaeth i nicotin trwy gyfyngu ar eu gallu i gael gafael ar dybaco a chynhyrchion nicotin[72]. Mae Erthygl 16 o Gonfensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd yn nodi: "*Each Party shall adopt and implement effective legislation, executive, administrative or other measures at the appropriate government level to prohibit the sales of tobacco products to persons under the age set by domestic law, national law or eighteen"*[73]. O ganlyniad, gellir cefnogi rhaglen ehangach o gamau i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed

[70] Llywodraeth Cymru (2011). Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol: canfyddiadau cychwynnol o arolwg 2009/10 yng Nghymru. Ymchwil Cymdeithasol Rhif 09/2011. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[71] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. General Lifestyle Survey 2011. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013)
[72] Stead L.F, Lancaster T. Interventions for preventing sales to minors (review). The Cochrane Collaboration 2008.
[73] Sefydliad Iechyd y Byd. WHO Framework Convention on Tobacco Control. Sefydliad Iechyd y Byd 2003.

i'w hiechyd trwy ddefnyddio deddfwriaeth i gyfyngu ar eu gallu i gael gafael ar dybaco a chynhyrchion nicotin.

90. Ystyr gwerthiannau o bell yw prynu cynhyrchion tybaco neu nicotin trwy'r rhyngrwyd neu dros y ffôn, a chael eu danfon. Fel arall gallant gynnwys talu amdanynt wrth archebu a threfnu i gasglu'r cynhyrchion yn ddiweddarach.

91. Er nad oes unrhyw astudiaethau penodol wedi eu cynnal ar gyfer y DU na Chymru ynglŷn â nifer y bobl ifanc o dan 18 oed sy'n ceisio prynu tybaco o bell, mae tystiolaeth ar gael sy'n dangos bod problem yn bodoli ynglŷn â danfon cynhyrchion eraill â chyfyngiad oed a brynwyd ar-lein, er enghraifft alcohol. Cynhaliodd Heddlu De Cymru arolwg ym mis Mawrth 2013, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr 15 mlwydd oed i geisio prynu alcohol oddi ar wefannau prif archfarchnadoedd. Canfu'r arolwg fod alcohol wedi ei ddanfon i'r gwirfoddolwr heb ofyn am unrhyw dystiolaeth o'i oed mewn 44% o'r achosion[74]. Cynhaliodd Alcohol Concern Cymru arolwg o 1,000 o bobl ifanc 14-17 oed yn 2013 a chanfuwyd bod 21% o'r bobl ifanc 14-15 mlwydd oed wedi llwyddo i brynu alcohol ar-lein a bod 15% o'r holl ymatebwyr 14-17 oed wedi llwyddo i brynu alcohol ar-lein[75]. Ystyrir ei bod yn rhesymol tybio y gallai problemau tebyg ddod i'r amlwg ynghylch nwyddau tebyg â chyfyngiad oed, er enghraifft cynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin.

92. Mae peth tystiolaeth eisoes ar gael o Unol Daleithiau America sy'n dangos y gallai problem fodoli ynglŷn â'r ffaith fod pobl ifanc yn gallu cael gafael ar gynhyrchion tybaco trwy'r rhyngrwyd. Dangosodd Kurt et al. fod pobl ifanc 11-15 oed wedi llwyddo i brynu cynhyrchion tybaco trwy'r rhyngrwyd yn y rhan fwyaf o'r achosion. O'r 83 ymdrech a wnaed i brynu, roedd 93.6% o'r ymdrechion i brynu trwy ddefnyddio cerdyn credyd ac 88.9% o'r ymdrechion i brynu trwy ddefnyddio archeb arian yn llwyddiannus[76]. Mae astudiaeth ddiweddar yn North Carolina hefyd wedi dangos bod pobl ifanc o dan oed yn gallu prynu e- sigaréts yn rhwydd dros y rhyngrwyd.[77]

**Y sefyllfa bresennol**

93. Nodir y sefyllfa gyfreithiol bresennol ynghylch gwerthu tybaco (gan gynnwys papurau sigaréts) i unigolion o dan oed yn Neddf Plant a Phobl Ifanc 1933, Deddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn Rhag Tybaco) 1991, a Gorchymyn Plant a Phobl Ifanc (Gwerthu Tybaco) 2007. I grynhoi, mae'n anghyfreithlon gwerthu sigaréts neu fathau eraill o gynhyrchion tybaco, gan gynnwys papurau sigaréts, i unigolyn o dan 18 oed. Mae deddfwriaeth ychwanegol wedi ei chyflwyno i atal unigolion o dan 18 oed rhag cael gafael yn rhwydd ar gynhyrchion tybaco, megis gwahardd gwerthu tybaco o beiriannau gwerthu[78], a chyflwynodd Deddf Plant a Theuluoedd 2014

[74] Alcohol Concern Cymru. On Your Doorstep, Alcohol Concern Cymru 2013
[75] Yr un â'r cyfeiriad blaenorol
[76] Kurt M. Ribisl, PhD; Rebecca S. Williams MHS; Annice E. Kim, MPH. JAMA 2003
[77] Williams RS, Derrick J, Ribisl KM. Electronic Cigarette Sales to Minors via the Internet. *JAMA Pediatr.* 2015 Mawrth 2; 169(3): e1563. Doi:10.1001/jamapediatrics.2015.63
[78] Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011

drosedd lle y mae'n anghyfreithlon i rywun 18 oed neu hŷn brynu neu geisio prynu cynhyrchion tybaco i unigolyn neu unigolion o dan 18 mlwydd oed[79].

94. O ran cynhyrchion nicotin, mae adrannau 92 a 93 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth y DU wneud rheoliadau i wahardd gwerthu cynhyrchion nicotin i unigolion o dan 18 oed yng Nghymru a Lloegr. Gwnaed rheoliadau ar 25 Mawrth 2015 gan ddod i rym ar 1 Hydref 2015.[80]

95. Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth ar hyn o bryd sy'n atal cynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin a brynwyd o bell rhag cael eu rhoi i unigolyn neu unigolion o dan 18 oed. Wrth i gyfleoedd eraill i gael gafael ar gynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin leihau, gallai plant a phobl ifanc o dan 18 oed gael gafael ar gynhyrchion tybaco neu nicotin trwy eu prynu o bell.

96. Ar hyn o bryd, mae pob cadwyn archfarchnad fawr yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth cludo i'r cartref gan gynnwys cynhyrchion tybaco, wedi sefydlu polisïau gwirfoddol ar gyfer rheoli eu trefniadau danfon. Mae'r polisïau hyn yn gofalu na chaniateir i'w gyrwyr roi'r cynhyrchion tybaco i unrhyw gwsmer sy'n ymddangos fel pe bai o dan 18 oed os nad yw'n gallu darparu prawf o'i oed i gadarnhau ei fod yn 18 oed neu'n hŷn. Mae'n debygol y bydd rhai manwerthwyr yn ymestyn eu polisïau i gynnwys cynhyrchion nicotin yn y dyfodol i ymateb i reoliadau sy'n cyflwyno oed gwerthiant ar gyfer cynhyrchion nicotin yng Nghymru a Lloegr.

97. Er bod nifer o fanwerthwyr ar hyn o bryd wedi sefydlu polisïau, nid yw pob manwerthwr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco o bell yn dilyn yr arfer gwirfoddol hwn, ac nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd i fanwerthwyr sicrhau mai dim ond i unigolion 18 oed neu hŷn y rhoddir cynhyrchion tybaco a/neu nicotin.

98. Yn ôl data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol[81], mae gwerthiannau trwy'r rhyngrwyd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ym mis Mawrth 2012, gwerthiannau dros y rhyngrwyd oedd 8.9% o'r holl werthiannau manwerthu, a chynyddodd y ganran i 11.6% ym mis Ionawr 2015. O ran siopau bwyd, cynyddodd y ganran o 2.9% ym mis Mawrth 2012 i 4% ym mis Ionawr 2015. Dengys hyn fod mwy a mwy o bobl yn defnyddio'r rhyngrwyd fel dull o siopa, ac mae'n debyg y bydd y duedd hon yn parhau. Tybiwyd y bydd y duedd ar i fyny hon yn cael ei hadlewyrchu ar draws y rhychwant o nwyddau sydd ar gael i'w prynu o bell, gan gynnwys tybaco a chynhyrchion nicotin.

**Diben y darpariaethau**

[79] Deddf Plant a Theuluoedd 2014
[80] O.S 2015/895 – Rheoliadau Cynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Oed Gwerthu a Phrynu ar Ran) 2015
[81] Retail Sales, Ionawr 2015. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

99. Gan gydnabod ei bod yn bosibl i unigolion o dan 18 oed gael gafael ar gynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin trwy eu prynu o bell, a'r ffaith fod y polisïau sydd wedi eu sefydlu ar hyn o bryd yn rhai gwirfoddol, mae'r Bil yn creu trosedd newydd, sef rhoi'r cynhyrchion hyn yn fwriadol i unigolyn sydd o dan yr oed cyfreithiol i dderbyn gwerthiannau yng Nghymru. Prif ddiben y drosedd yw lleihau'r risg y gallai pobl ifanc o dan 18 oed gael gafael ar gynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin sy'n rhan o'r nwyddau a ddanfonir.

100. Ni fyddai'r drosedd ond yn digwydd mewn sefyllfaoedd pan fo'r gyrrwr yn ymwybodol ei fod yn rhoi cynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin i rywun sydd o dan 18 oed, ac felly ni fyddai'r drosedd yn berthnasol i wasanaethau post fel y Post Brenhinol, neu wasanaethau cludo, pan ddanfonir pecyn cwbl gaeedig â chyfeiriad arno.

101. Cyfrifoldeb y sawl sy'n rhoi'r cynnyrch tybaco neu'r cynnyrch nicotin i'r cwsmer fydd sicrhau ei fod wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ar gyfer cadarnhau oedran. Bydd unigolyn sy'n cyflawni trosedd o roi cynnyrch tybaco neu gynnyrch nicotin i unigolyn o dan 18 oed nad yw dan oruchwyliaeth, gan wybod ei fod yn gwneud hynny, yn agored i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol, yn dilyn collfarn ddiannod. Awdurdodau Lleol fydd yn gyfrifol am orfodi'r darpariaethau.

102. At ddibenion y drosedd, ystyrir bod unigolyn "ar ei ben ei hun" oni bai bod y cynhyrchion perthnasol yn cael eu rhoi ym mhresenoldeb unigolyn arall sy'n 18 oed neu'n hŷn.

**Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael**

103. Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael yw lleihau'r risg y gallai pobl ifanc o dan 18 oed gael gafael ar gynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin. Cyflawnir hyn trwy ei gwneud yn ofynnol i'r swyddogion sy'n danfon y cynhyrchion tybaco a/neu'r cynhyrchion nicotin asesu, trwy edrych ar y sawl y maent yn rhoi'r cynhyrchion hyn iddo, a yw'r unigolyn hwnnw'n 18 oed neu'n hŷn, a chadarnhau oedran pan fo'n briodol. Bydd y broses hon yn debyg i'r broses a ddilynir wrth brynu'r cynhyrchion hyn mewn siop.

104. Bydd y darpariaethau hefyd yn gwella mwy ar y fframwaith deddfwriaethol cyffredinol sydd â'r nod o amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y niwed sy'n gysylltiedig â thybaco a nicotin, megis y ddeddfwriaeth ar gyfer oed prynu a'r gwaharddiad ar werthu cynhyrchion tybaco o beiriannau gwerthu.

## Triniaethau arbennig

**Cefndir**

105. Mae nifer o driniaethau cosmetig a therapiwtig wedi dod yn fwyfwy poblogaidd yn ystod y degawd diwethaf, yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r rhain yn cynnwys aciwbigo, tyllu'r corff, tatŵio, electrolysis a thatŵio.

106. Ceir risgiau iechyd hysbys, a rhai yr adroddir digon amdanynt, sy'n gysylltiedig â'r triniaethau hyn – a ddiffinnir yn y Bil fel 'triniaethau arbennig' – os ydynt yn cael eu cynnal mewn modd anhylan. O ganlyniad, mae'n bwysig i ymarferwyr ddefnyddio arferion gwaith diogel, ac yn enwedig eu bod bob amser yn dilyn arferion da o ran rheoli heintiau, fel bod y cleientiaid a'r ymarferwyr yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol.

107. Gallai arferion amhriodol ac anhylan arwain at heintiau cyfyngedig ar y croen yn y man lle y rhoddir y driniaeth, neu hyd yn oed arwain at ledaenu clefydau heintus a all effeithio ar iechyd cleientiaid, yn ogystal â pheryglu iechyd yr ymarferydd ei hun. Er bod hynny'n anghyffredin, gall arferion anniogel neu anhylan arwain at drosglwyddo afiechydon megis feirysau a gludir yn y gwaed.[82]

108. Mae'r cymhlethdodau a allai godi yn cynnwys chwyddiadau, haint, gwaedu, ac adweithiau alergaidd neu wenwynig i'r sylweddau a ddefnyddir, yn ogystal â rhwygiadau neu anaf corfforol arall. Gellid achosi niwed i'r nerfau a chreithiau hefyd os bydd y triniaethau'n cael eu cynnal yn wael. O ran tyllu cosmetig, canfu arolwg a gynhaliwyd yn Lloegr fod mwy na chwarter y bobl a gafodd driniaeth tyllu cosmetig (heblaw am dyllau yn llabedi'r clustiau) wedi profi cymhlethdodau, a bod oddeutu hanner y rhai hynny a brofodd gymhlethdodau wedi ystyried eu bod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau gofyn am gymorth[83]. Roedd nifer yr achosion yn uwch ymysg pobl ifanc 16-24 oed, â phroblemau iechyd wedi codi yn oddeutu un o bob tri achos. Er bod y rhan fwyaf o'r problemau sy'n gysylltiedig â thyllu cosmetig fel arfer yn fychan ac yn gwella ohonynt eu hunain, mae rhai cymhlethdodau yn ddigon difrifol i fod angen sylw meddygol neu dderbyn i'r ysbyty, a cheir achosion unigol o niwed sylweddol i iechyd[84]. Gall tyllau yn y geg niweidio'r tafod a'r dannedd, atal y llwybr anadlu trwy chwyddo, ac effeithio ar leferydd os caiff y broses ei chynnal yn wael[85]. Gall y cymhlethdodau fod yn arbennig o ddifrifol i unrhyw un sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol, a chofnodwyd achosion o unigolion sydd wedi marw ar ôl cael tyllau cosmetig[86],[87].

109. Gellir lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig trwy gymryd nifer o gamau. Mae'r rhain yn cynnwys:

---

[82] Hayes, MO. Harkness, GA. (2001) Body piercing as a risk factor for viral hepatitis: an integrated research review. American Journal of Infection Control. 29, 271-274.
[83] Bone, A. Ncube, F. Nichols, T a Noah, ND. (2008) Body piercing in England: a survey of piercing at sites other than earlobe. BMJ, 336, 1426.
[84] BBC News online (2007) Belly stud 'almost killed teen' Ar gael yn: http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/south_east/7020936.stm
[85] Whittle, JG a Lamden, KH. (2004) Lip and tongue piercing: Experiences and views of general dental practitioners in South Lancashire. Primary Dental Care, 11(3), 92-96.
[86] BBC News online (2005) Lip piercing death 'misadventure. Ar gael yn: http://news.bbc.co.uk/1/hi/england/south_yorkshire/4429298.stm
[87] BBC News online (2010) Caerphilly woman's infection death after tongue pierce. Ar gael yn: http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11543757

- Sicrhau bod y fangre lle y rhoddir y driniaeth, yn ogystal â'r gosodiadau a ffitiadau, yn lân iawn;
- Arferion hylan gan ymarferwyr; a
- Gwneud yn siŵr bod prosesau cywir wedi eu sefydlu ar gyfer glanhau, sterileiddio neu gael gwared ar declynnau, deunyddiau ac offer.

**Y sefyllfa bresennol**

110. Nod y rheolaethau deddfwriaethol presennol ar gyfer triniaethau arbennig yw sicrhau bod trefniadau rheoli heintiau yn ddigonol a'u bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Y prif ddull o orfodi'r trefniadau hyn yw defnyddio'r gofynion cofrestru presennol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982"). Yn ogystal, ceir rheolaethau rheoleiddiol eraill sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer gwahardd gweithgareddau ar unwaith, neu ar gyfer rheoli mangre neu bethau lle y gellir dangos bod risg o niwed sylweddol i iechyd y cyhoedd.

111. Nid yw'n fandadol creu cynllun cofrestru o dan Ddeddf 1982. Yn ogystal, pan fo awdurdodau lleol wedi mabwysiadu'r darpariaethau, maent yn aml yn cael eu gorfodi mewn modd anghyson ar draws Cymru. Nid yw llawer o awdurdodau lleol hyd yma wedi mabwysiadu is-ddeddfau enghreifftiol diweddaraf Llywodraeth Cymru[88] ynghylch glanweithdra a hylendid mangreoedd, ymarferwyr ac offer.

112. Er hyn, nid yw awdurdodau lleol yn cael gwrthod cofrestru o dan Ddeddf 1982. Er mwyn gorfodi'r gofyniad cofrestru, rhaid i awdurdod lleol allu profi hefyd bod unigolyn yn 'rhedeg busnes'. Gall hyn fod yn anodd, er enghraifft gan y gallai tatŵyddion weithio o'u cartrefi.

113. Nid oes rhaid cynnal 'prawf cymhwysedd', sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchnogion a'r rhai y maent yn eu cyflogi allu dangos lefel o wybodaeth am hylendid a rheoli heintiau sy'n briodol i'r driniaeth y maent yn ei rhoi, cyn cofrestru o dan Ddeddf 1982. Nid oes unrhyw ofynion ychwaith o ran ffurflenni cydsynio, ymgynghoriad cyn ac ar ôl y driniaeth, cyngor ôl-ofal na chadw cofnodion. Ystyrir felly nad yw'r system gofrestru bresennol yn ymdrin â phryderon iechyd y cyhoedd nac yn amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol, a gwelwyd enghreifftiau o ymarferwyr heb eu cofrestru yn cael eu herlyn[89].

**Diben y darpariaethau**

---

[88] Gwefan Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/topics/health/protection/communicabledisease/acupuncture/?skip=1&lang=cy

[89] http://www.cardiffnewsroom.co.uk/index.php/archive/198-illegal-scratcher-prosecuted

114. Mewn ymateb i'r diffygion ymddangosiadol yn y system bresennol, nod y Bil yw diddymu darpariaethau Deddf 1982 a'i ddisodli â system drwyddedu genedlaethol, orfodol ar gyfer ymarferwyr triniaethau arbennig penodedig yng Nghymru. Bydd y system yn golygu bod yn rhaid i unigolyn fod yn drwyddedig, er mwyn cyflawni unrhyw un o'r triniaethau arbennig a ddiffinnir yn y Bil, a bod yn rhaid i'r fangre neu'r cerbyd lle maent yn gweithredu fod wedi ei gymeradwyo. Bydd trwyddedau a chymeradwyaethau unigol yn ddilys am gyfnod o dair blynedd. Bydd trwyddedau a chymeradwyaeth dros dro ar gael hefyd ar gyfer arddangosfeydd a digwyddiadau. Y bwriad cyffredinol yw sicrhau nad yw'r triniaethau arbennig hyn, pan fyddant yn cael eu darparu yng Nghymru, yn cael eu cyflawni mewn modd a allai achosi niwed i iechyd.

115. Er mwyn darparu ar gyfer system sy'n amddiffyn y cyhoedd yn gynhwysfawr, mae'r Bil yn darparu y bydd yn ofynnol i ymarferydd unigol gael trwydded, ac y bydd angen cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw fangre neu gerbyd lle y caiff y driniaeth arbennig ei chyflawni. Nod hyn yw bodloni disgwyliadau cwsmeriaid yn well ac ymateb i'r gwahanol fodelau busnes yn y sector. Bwriad y dull gweithredu hwn yw sicrhau bod ymarferwyr unigol yn cadw at safonau priodol, yn ogystal â sicrhau nad yw triniaethau arbennig ond yn cael eu cyflawni mewn amgylchedd addas.

116. Y triniaethau a ddiffinnir fel 'triniaethau arbennig' at ddibenion y system drwyddedu yw:-

- Aciwbigo;
- Tyllu'r corff;
- Electrolysis; a
- Thatŵio.

117. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod y maes triniaethau arbennig yn un sy'n esblygu'n gyflym a bod nifer o ffactorau'n dylanwadu arno, gan gynnwys newidiadau mewn tueddiadau ffasiwn. Er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn gyfredol ac yn effeithiol wrth i driniaethau newydd gael eu dyfeisio'n gyson, mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o driniaethau arbennig. Bydd hyn yn cael ei wneud yn dilyn ymgynghoriad trwy is-ddeddfwriaeth, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

118. Ar ôl sefydlu'r system drwyddedu, bydd yn drosedd i ymarferydd gynnal unrhyw driniaeth arbennig heb drwydded neu eu cyflawni mewn mangreoedd neu gerbydau nad ydynt wedi eu cymeradwyo. Mae'r Bil yn darparu esemptiadau i'r gofynion hyn, er enghraifft ni fydd yn ofynnol i aelodau o broffesiynau penodol (megis meddygon) gael trwydded i roi triniaethau arbennig, oni bai bod y rheoliadau yn darparu fel arall. Mae pŵer ar gael hefyd i Weinidogion Cymru esemptio aelodau o broffesiynau penodedig eraill trwy gyfrwng rheoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

119. Bydd Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, yn gosod meini prawf trwyddedu ac amodau trwyddedu mandadol, fel bod safonau ymarfer a'r dull o

orfodi triniaethau arbennig yn gyson ym mhob rhan o Gymru. Bydd y meini prawf trwyddedu yn pennu cymhwysedd unigolyn i gael trwydded, ymysg pethau eraill, ar sail eu gallu i ddangos gwybodaeth am reoli heintiau, cymorth cyntaf a'u rhwymedigaethau cyfreithiol – er enghraifft peidio rhoi tatŵ i unigolyn dan 18 oed. Bydd yr amodau trwyddedu mandadol yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i ddeiliad trwydded eu bodloni er mwyn cael cadw ei drwydded. Bydd hyn yn cynnwys amodau yn ymwneud â chadarnhau oedran, arferion rheoli heintiau, hylendid y fangre, cymorth cyntaf, cyngor cyn ac ar ôl y driniaeth a chadw cofnodion. Bydd yr amodau hefyd yn gwahardd deiliad trwydded rhag cynnal triniaeth arbennig ar unigolyn sydd dan ddylanwad diod, cyffuriau neu sylwedd arall, neu sy'n ymddangos felly.

120. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau y bydd dyletswydd ar ddeiliaid trwydded, a pherchnogion mangreoedd/cerbydau a gymeradwywyd i fodloni'r gofynion ac i weithredu yn unol â'r amodau cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys arddangos y tystysgrifau cymeradwyo a fydd yn rhoi sicrwydd i gwsmeriaid bod y fangre/cerbyd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol ar gyfer cynnal triniaethau arbennig.

121. Hefyd, mae'r Bil yn darparu mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r gofynion trwyddedu, ac am gadw cofrestr o'r trwyddedau triniaethau arbennig a gyhoeddwyd ganddynt ac nad ydynt wedi dod i ben eto, yn ogystal â'r mangreoedd/cerbydau a gymeradwywyd ganddynt. Mae'n rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod y wybodaeth sydd ar y gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Gall Gweinidogion Cymru drefnu i un awdurdod lleol ymgymryd â'r ddyletswydd a osodir ar awdurdodau lleol (h.y. cadw cofrestr), gan gadw cofrestr ganolog ar ran y gweddill. Diben y gofrestr yw sicrhau y gall unrhyw un sy'n dymuno cael un o'r triniaethau arbennig diffiniedig chwilio am wybodaeth a gwybod bod yr ymarferydd neu'r busnes y mae'n ei ddewis wedi bodloni'r safonau cenedlaethol.

122. Er mwyn ategu'r gofynion, mae'r Bil yn creu nifer o ofynion a throseddau. Er mwyn atal unigolion rhag darparu triniaethau arbennig os nad oes ganddynt drwydded, neu ddefnyddio mangreoedd/cerbydau heb eu cymeradwyo ar gyfer darparu triniaethau arbennig, caiff awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad atal a fydd mewn grym yn unrhyw le yng Nghymru. Caiff yr awdurdod lleol hefyd gymryd camau gweithredu trwy ddosbarthu hysbysiad camau adfer os yw deiliad trwydded neu fangre/gerbyd yn torri un neu fwy o'r amodau mandadol perthnasol. Bydd yr hysbysiad hwn yn gorchymyn i gamau penodol gael eu cymryd i unioni'r broblem o fewn 14 diwrnod. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i swyddogion awdurdodau lleol gael mynd i mewn i fangreoedd er mwyn penderfynu ar geisiadau ar gyfer trwyddedau neu gymeradwyaethau, cynnal arolygiadau a gorfodi'r gofynion.

123. Os yw awdurdod lleol yn fodlon bod deiliad trwydded wedi peidio â chydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol neu wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol, mae'r Bil yn darparu y caiff ddirymu trwydded triniaeth arbennig, naill ai yn llawn neu i'r graddau y mae'n ymwneud â thriniaeth arbennig benodol. Yn yr un modd, caiff yr awdurdod lleol ddirymu cymeradwyaeth mangre/cerbyd. Pan fo'r awdurdod lleol wedi cymryd camau

ac, er enghraifft, wedi cyflwyno hysbysiad atal neu wedi dirymu trwydded/cymeradwyaeth neu wrthod cais, mae gan yr unigolyn yr hawl i gyflwyno sylwadau gerbron yr awdurdod lleol yn gyntaf, ac wedyn i gyflwyno apêl i lys ynadon yn erbyn y penderfyniad.

### Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael

124. Bydd y ddeddfwriaeth yn sefydlu system drwyddedu fandadol ar gyfer yr ymarferwyr hynny sy'n darparu'r triniaethau arbennig yng Nghymru. Bydd safonau cenedlaethol ynghlwm â hyn, a byddant yn cael eu gorfodi gan awdurdodau lleol. Nod y system fydd gwella safonau o ran cyflawni'r triniaethau arbennig a sicrhau dull gwell a chyson o reoleiddio'r triniaethau hyn ar draws Cymru.

125. Yn ogystal â'r manteision sy'n gysylltiedig â gwella safonau ymarfer, bydd unigolion sy'n dymuno cael un o'r triniaethau arbennig hefyd yn elwa'n uniongyrchol yn sgil y ffaith y bydd gwybodaeth ymlaen llaw am y driniaeth, yn ogystal â chyngor ôl-ofal, ar gael yn rhwyddach. Bydd pobl sy'n dymuno cael y triniaethau hyn yn medru cael sicrwydd bod y fangre/cerbyd dan sylw wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol ar gyfer cynnal triniaeth arbennig, a bod yr ymarferwr yn gymwys i gyflawni'r driniaeth mewn ffordd lân. Byddant hefyd yn medru cyrraedd at gofrestr o ddeiliaid trwyddedau a mangreoedd/cerbydau a gymeradwywyd ar gyfer triniaethau arbennig yn eu hardal. Bydd hyn o gymorth i wneud y drefn yn fwy tryloyw a sicrhau bod pobl Cymru yn cael gwell gwybodaeth am ymarfer ym maes triniaethau arbennig.

126. Y bwriad yw y bydd y system o fantais i'r rhan fwyaf o'r deiliaid trwydded sy'n cynnal y triniaethau arbennig, ynghyd â'r mangreoedd/cerbydau lle y'u cyflawnir, o safbwynt eu henw da. Trwy fodloni'r gofynion, byddant yn gallu dangos yn annibynnol i'r cyhoedd eu bod yn ymarfer yn unol â safonau hylendid a glanweithdra priodol, yn ogystal â'u hamddiffyn eu hunain rhag risgiau i iechyd trwy ddilyn gweithdrefnau rheoli heintiau priodol. Rhoddir hwb ychwanegol i ffydd y cyhoedd a dealltwriaeth cleientiaid oherwydd y gofyniad i ymarferwyr ddarparu ymgynghoriadau cyn ac ar ôl y driniaeth, er mwyn sicrhau bod pobl yn llwyr ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r driniaeth benodol, a sut i roi unrhyw ôl-ofal iddynt eu hunain. Dylai hyn arwain at lai o achosion o haint, os glynir yn briodol at y cyngor ynglŷn â gofal ar ôl y driniaeth.

127. Yn ogystal â sicrhau bod cleientiaid ac ymarferwyr yn fwy diogel, bydd y Bil hefyd yn darparu pwerau gorfodi cyson ac effeithiol i awdurdodau lleol ar gyfer arolygu mangreoedd/cerbydau, a phan fo angen, atal ymarfer anniogel.

## Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff

### Cefndir

128. At ddibenion y Rhan hon o'r Bil, mae "twll mewn rhan bersonol o'r corff" yn cynnwys tyllu tethi, bronnau, organau cenhedlu, penolau neu'r tafod.

129. Fel y nodwyd uchod yn yr adran ar driniaethau arbennig, gall cymhlethdodau sy'n deillio o dyllu'r corff gynnwys chwyddiadau, haint, gwaedu, alergedd a rhwyg neu anaf corfforol. Ceir adroddiadau am dorri neu dolcio dant wrth roi twll yn y tafod, a niwed i'r nerfau a chreithiau hefyd os bydd y tyllu'n cael ei gynnal yn wael.[90] Gall cymhlethdodau fod yn arbennig o ddifrifol i'r rhai hynny sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol, ac mae achosion wedi eu cofnodi lle y mae unigolion wedi marw ar ôl cael tyllu'r corff[91],[92]. Yn ogystal, er bod hyn yn anghyffredin, gall arferion anniogel neu anhylan arwain at drosglwyddo clefydau heintus megis feirysau a gludir yn y gwaed[93].

130. Canfu astudiaeth a gynhaliwyd yn Lloegr fod oddeutu un o bob tri o bobl ifanc 16-24 mlwydd oed wedi hysbysu ynghylch cymhlethdodau ar ôl cael triniaethau tyllu'r corff[94]. Yn yr un astudiaeth hefyd canfuwyd nifer fwy o achosion o gymhlethdodau gyda mathau penodol o driniaethau tyllu'r corff, gan gynnwys rhoi tyllau mewn rhannau personol o'r corff. Roedd problemau'n fwy tebygol o gael eu crybwyll mewn achos o dyllu'r tafod (50%), ac wedyn, tyllu'r organau cenhedlu (45%) a'r tethi (38%).

131. Yn ogystal, gan fod pobl ifanc yn parhau i dyfu yn ystod eu harddegau, gallai mwy o gymhlethdodau godi wrth i'w cyrff ddatblygu os ydynt yn cael twll mewn rhan bersonol o'r corff pan fyddant yn ifanc. Gallai pobl ifanc hefyd fod yn llai tebygol o fod â'r profiad neu'r wybodaeth ynglŷn â sut i lanhau neu ofalu am dwll mewn rhan bersonol o'r corff, gan arwain at fwy o risg o ddal haint.

132. Mae materion yn codi hefyd ynghylch rhywioli pobl ifanc: gall tyllau yn y tafod, er enghraifft, fod yn gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol, a gemwaith ar gyfer y tafod yn cael ei farchnata yn y ffordd honno. Ar ben hynny, gellid ystyried hefyd bod rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn a pherson ifanc yn fater amddiffyn plant. Trwy gael y driniaeth, gallai pobl ifanc fod yn eu rhoi eu hunain mewn sefyllfa o fod yn agored i niwed trwy fod mewn sefyllfaoedd lle y mae eu rhannau 'personol' yn agored i oedolyn ac yn cael eu cyffwrdd a'u tyllu gan oedolyn nad ydynt o bosibl yn ei adnabod cyn hynny.

133. Ystyrir felly bod angen cryfhau'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, a hynny yn achos plant a

---

[90] Stead LR, Williams JV, Williams AC a Robinson CM (2006) An investigation into the practice of tongue piercing in the South West of England British Dental Journal 200 103-107.
[91] BBC News online (2005) Lip piercing death 'misadventure'. http://news.bbc.co.uk/1/hi/england/south_yorkshire/4429298.stm
[92] BBC News online (2010) Caerphilly woman's infection death after tongue pierce. Ar gael yn: http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11543757
[93] Hayes, MO. Harkness, GA. (2001) Body piercing as a risk factor for viral hepatitis: an integrated research review. American Journal of Infection Control. 29, 271-174
[94] Bone, A. Ncube, F. Nichols, T a Noah, ND. (2008) Body piercing in England: a survey of piercing at sites other than earlobe. BMJ, 336, 1426. http://www.bmj.com/content/336/7658/1426

phobl ifanc. Ystyrir bod angen gwneud hyn er mwyn eu hamddiffyn rhag niweidiau posibl i iechyd, yn ogystal â bygythiadau i'w lles emosiynol.

**Y sefyllfa bresennol**

134. Nid oes unrhyw gyfyngiad oedran ar gyfer unrhyw driniaeth tyllu'r corff ar hyn o bryd yng Nghymru.

135. Fel egwyddor gyffredinol, a phan nad yw deddfwriaeth yn darparu i'r gwrthwyneb, caiff person ifanc roi cydsyniad dilys i dderbyn triniaeth os oes ganddynt ddigon o alluedd i ddeall natur y weithred sydd i'w chyflawni. Ym mhob achos, mae'n rhaid i fater galluedd gael ei benderfynu yn unol ag egwyddorion *Gillick*[95].

136. Oherwydd natur y triniaethau a'r rhannau personol o'r corff sydd dan sylw, gallai Deddf Troseddau Rhywiol 2003 ('Deddf 2003') fod yn berthnasol, yn enwedig troseddau megis ymosodiad rhywiol. Fodd bynnag, nid yw rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn ymosodiad rhywiol nac yn drosedd rywiol yn awtomatig. Mae Adran 3 o Ddeddf 2003 yn darparu bod unigolyn yn cyflawni trosedd ymosodiad rhywiol os:

- yw (A) yn cyffwrdd ag unigolyn arall (B) yn fwriadol;
- yw'r cyffyrddiad yn un rhywiol;
- nad yw (B) yn cydsynio i'r cyffyrddiad; ac
- nad yw (A) yn credu'n rhesymol bod (B) yn cydsynio.

137. Mae Adran 7 o Ddeddf 2003 Act yn darparu ar gyfer y drosedd o ymosodiad rhywiol ar blentyn o dan 13 oed. Nid yw Adran 7 yn caniatáu i blentyn gydsynio i'r cyffyrddiad. Yn y bôn, mae hyn yn golygu na chaiff plentyn o dan 13 oed gydsynio i ymosodiad rhywiol, ni waeth beth yw ei alluedd meddyliol na'i ddealltwriaeth. Fodd bynnag, caiff unigolyn 13 oed a hŷn gydsynio'n gyfreithiol i ymosodiad rhywiol.

138. Wrth gymhwyso prawf adran 7, ni ellir dadlau na fyddai ymarferydd sy'n rhoi tyllau mewn rhannau personol o'r corff am resymau cosmetig yn cyffwrdd yn fwriadol ag unigolyn arall pe byddai'n rhoi twll mewn rhan o'i gorff. O ganlyniad, y cwestiwn yw a ystyrir y cyffyrddiad hwnnw'n un 'rhywiol'.

139. Mae'r cwestiwn o ba un a yw'r weithred o roi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn 'gyffyrddiad rhywiol' fel y'i diffinnir yn adran 78 o Ddeddf 2003 yn dibynnu ar beth yw barn 'person rhesymol' ynglŷn â'r gweithgaredd. Os nad ystyrir ei fod yn gyffyrddiad rhywiol, byddai plentyn o dan 13 oed yn cael cydsynio i'r cyffyrddiad; fodd bynnag, os ystyrir ei fod yn gyffyrddiad rhywiol, unigolyn 13 oed a hŷn yn unig gaiff gydsynio iddo.

140. Deellir o drafodaethau gyda phobl yn y sector bod sawl ymarferydd eisoes yn dewis peidio â rhoi tyllau mewn rhannau personol o gyrff pobl ifanc. Fodd bynnag, ni waherddir y driniaeth hon yn benodol o dan y gyfraith.

[95] Gillick v Awdurdod Iechyd West Norfolk a Wisbech [1986] AC 122.

**Diben y darpariaethau**

141. Prif nod y darpariaethau hyn yn y Bil yw amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y niwed posibl i iechyd y gellir eu hachosi trwy gael twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac osgoi amgylchiadau pan roddir plant a phobl ifanc mewn sefyllfa lle y gallent fod yn agored i niwed. Mae'r Bil yn ceisio cyflawni hyn trwy wahardd y weithred o roi twll mewn rhan bersonol o gorff unigolyn sydd o dan 16 mlwydd oed yng Nghymru, mewn unrhyw leoliad. Bydd hefyd yn drosedd i wneud trefniadau i gyflawni triniaeth ar unigolyn o dan 16 oed yng Nghymru.

142. Mae diben y darpariaethau hyn yn wahanol iawn i'r rhai sy'n dod o dan Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003. Mae anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) yn golygu triniaethau sy'n cynnwys torri organau rhywiol allanol menywod i ffwrdd yn rhannol neu'n llwyr am resymau diwylliannol neu resymau eraill nad ydynt yn therapiwtig. Mae'r arfer yn feddygol ddiangen, yn aruthrol o boenus ac yn medru arwain at ganlyniadau difrifol i iechyd, wrth gynnal y driniaeth ac yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae gan yr arfer wreiddiau dwfn mewn traddodiad, ac mae'n ffordd gymhleth i gymdeithas gadw rheolaeth dros hawliau rhywiol ac atgenhedlol menywod. Ymysg y rhesymau sy'n cael eu rhoi am FGM mae cael gwared ag anlwc o'r teulu, neu gael gwared ag ysbrydion maleisus. Fel rheol mae'n cael ei drefnu gan rieni neu deulu'r ferch. Mae FGM wedi bod yn drosedd benodol yn y DU ers pasio Deddf Gwahardd Enwaedu Benywod 1985. Mae'r darpariaethau rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ond yn cwmpasu torri'r croen neu'r bilen ludiog mewn rhan bersonol o'r corff (gan gynnwys organau cenhedlu gwrywaidd a benywaidd) os yw'n cael ei wneud yn bwrpasol ar gyfer gosod gemwaith neu wrthrych (fel glain) ar gorff unigolyn, neu fewnblannu neu dynnu gwrthrychau o'r fath.

143. Trwy osod y gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff ar 16 oed mae darpariaethau'r Bil yn cyd-fynd ag oedran cydsynio ar gyfer gweithgarwch rhywiol. Nid yw'r Bil yn atal unigolion 16 ac 17 mlwydd oed rhag cael tyllau mewn rhannau personol o'r corff, gan yr ystyrid y byddai hyn yn anghyson â'r mathau o benderfyniadau a wneir yn fwy cyffredinol gan bobl o'r oedrannau hyn, megis cael ymuno â'r fyddin neu ddysgu gyrru.

144. Nod y gwaharddiad yw atgyfnerthu'r arfer da presennol yn y diwydiant tyllu'r corff. Mae sawl ymarferydd yn dewis peidio â rhoi tyllau mewn rhannau personol o gyrff pobl ifanc, ond oherwydd nad yw'r gyfraith yn ei wahardd yn benodol, mae'n parhau i fod yn bosibl i unigolyn o dan 16 oed gael y triniaethau hyn. Ni fydd y Bil yn effeithio ar allu ymarferwyr, sydd ar hyn o bryd yn dewis peidio â rhoi tyllau mewn rhannau personol o gyrff pobl ifanc o dan 18 oed, rhag bod â pholisïau o'r fath o hyd - bydd yn eu hategu.

145. Mae'r Bil yn darparu y bydd yn drosedd i unigolyn yng Nghymru roi neu wneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff unigolyn o dan 16 oed. Mae hyn yn golygu na fyddai'n rhaid i berson ifanc gael twll mewn rhan

bersonol o'i gorff i drosedd gael ei chyflawni – mae gwneud trefniadau i roi'r driniaeth yn ddigon i drosedd gael ei chyflawni.

146. Ni fydd y ffaith y gallai unigolyn o dan 16 oed fod wedi rhoi ei gydsyniad yn amddiffyniad. Yn yr un modd, ni fydd yn amddiffyniad dweud bod rhiant neu warcheidwad yr unigolyn o dan 16 oed wedi cydsynio i'r driniaeth ar ei ran.

147. Mae'r Bil yn darparu amddiffyniad bod yr ymarferydd yn credu bod y person yn 16 oed neu'n hŷn ac naill ai wedi cymryd camau rhesymol i gadarnhau eu hoedran neu na allai unrhyw un fod wedi amau o olwg y person eu bod yn iau na 16 oed. Hefyd mae amddiffyniad 'diwydrwydd dyladwy' i unigolyn sy'n cynnig rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff.

148. Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r darpariaethau, gan gynnwys cymryd camau erlyn, ymchwilio i gwynion a chymryd camau eraill. Gallai'r camau hyn gynnwys cyfathrebu ag ymarferwyr tyllu'r corff er mwyn atal trosedd rhag digwydd neu gynnal arolygiadau 'profion prynu' i asesu cydymffurfiad. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ystyried, o leiaf unwaith bob 12 mis, i ba raddau y mae'n briodol iddynt ddilyn rhaglen o gamau gorfodi yn eu hardal i sicrhau na roddir tyllau mewn rhannau personol o gyrff unigolion o dan 16 oed. Rhaid i'r awdurdod lleol benodi 'swyddogion awdurdodedig' at y dibenion hyn. Wrth gynnal ei raglen o gamau gorfodi, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu a allai gynorthwyo'r awdurdod lleol i orfodi'r darpariaethau.

149. Er mwyn caniatáu ar gyfer ymchwilio a yw ymarferydd yn gwneud trefniadau i roi neu'n rhoi tyllau mewn rhannau personol o gyrff unigolion o dan 16 oed, gallai fod angen mynd i mewn i fangre lle y rhoddir tyllau mewn rhannau personol o'r corff. Mae'r Bil felly'n rhoi pŵer mynediad i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol a'r Heddlu, ond bydd angen gwarant gan Ynad Heddwch i fynd i mewn i fangre a ddefnyddir fel annedd. Ar ôl i'r swyddog neu'r cwnstabl gael mynediad, caiff gynnal arolygiad o'r fangre a chael copïau o gofnodion teledu cylch cyfyng neu ddogfennau cydsynio, er enghraifft. Mae trosedd gysylltiedig o rwystro swyddog rhag arfer y pŵer hwn yn cyd-fynd â'r pŵer mynediad. Mae'r Bill hefyd yn darparu amddiffyniad mewn perthynas â defnyddio pwerau mynediad ac archwilio drwy ddarparu system i apelio yn erbyn mynd ag eiddo, ac i wneud cais am iawndal dan amgylchiadau penodol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i bwerau mynediad ac archwilio cyfatebol dan Rannau eraill o'r Bil.

**Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael**

150. Er bod sawl ymarferydd yng Nghymru eisoes yn dewis peidio â rhoi tyllau mewn rhannau personol o gyrff plant a phobl ifanc, bydd y newidiadau a gyflwynir yn y Bil yn sicrhau bod y gyfraith yn fwy tryloyw a chyson. Fel y cyfryw, ni ddylai ymarferwyr fod mewn perygl mwyach o dderbyn cwynion gan rieni na chael eu cyhuddo o ymddygiad amhriodol ynglŷn â'r mater hwn. Ar yr

un pryd, bydd pobl ifanc o dan 16 oed yn cael eu hamddiffyn rhag eu rhoi eu hunain mewn sefyllfaoedd lle y gallent fod yn agored i niwed.

151. Bydd cyfyngiad oedran o 16 oed ar gyfer rhoi tyllau mewn rhannau personol o'r corff yng Nghymru yn cyfrannu at hybu iechyd da trwy helpu i osgoi niwed diangen. Bydd y Bil yn gwneud hyn trwy geisio lleihau nifer yr achosion o gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â thriniaethau tyllu'r corff (gan gynnwys heintiau ac anafiadau) ymysg pobl ifanc nad yw eu cyrff wedi gorffen aeddfedu, ac a allai fod yn llai medrus o ran parhau â gofynion ôl-ofal.

## Gwasanaethau fferyllol

### Cefndir

152. Mae gan fferyllfeydd cymunedol swyddogaeth hanfodol i'w chyflawni o ran llunio a chyfrannu at welliannau i iechyd y cyhoedd. Maent wedi eu lleoli ar y stryd fawr, mewn archfarchnadoedd a meddygfeydd mewn pentrefi, trefi a chanol dinasoedd ledled Cymru. Mae llawer ohonynt ar agor chwe diwrnod, ac weithiau saith niwrnod, yr wythnos. Fferyllfeydd cymunedol yn gyffredinol yw pwynt cyswllt cyntaf cleifion, ac yn fynych, eu pwynt cyswllt mwyaf aml â gweithiwr proffesiynol ym maes gofal iechyd. Fel y cyfryw, maent mewn sefyllfa unigryw o ran sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael yn rhwydd i'r bobl leol.

153. Ceir tri phrif ddarparwr ar gyfer gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru:-

- Fferyllfeydd cymunedol;
- Meddygon fferyllol; a
- Chontractwyr offer fferyllol.

154. Roedd 714 o fferyllfeydd cymunedol yn darparu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru ar 31 Mawrth 2014.[96] Mae hyn yn cymharu â 703 ar 31 Mawrth 2004.[97] Mae'n amlwg bod y trefniadau presennol sy'n llywodraethu gwasanaethau fferyllol y GIG yn arwain at farchnad sefydlog â phrin ddim newid net yn niferoedd y fferyllfeydd cymunedol dros amser. Mae perthynas gadarnhaol yn bodoli rhwng amddifadedd a niferoedd y fferyllfeydd[98], gyda fferyllfeydd yn fwy cyffredin mewn ardaloedd lle y ceir mwy o amddifadedd economaidd, sy'n golygu bod y gwasanaeth ar gael yn rhwyddach yn gyffredinol mewn ardaloedd sy'n fwyaf anghenus. Yn ogystal, mae meddygon fferyllol y GIG yn gwasanaethu poblogaethau gwledig yn bennaf.

---

[96] http://gov.wales/statistics-and-research/community-pharmacy-services/?skip=1&lang=cy
[97] Datganiad Ystadegau Cymru (26 Tachwedd 2009) http://wales.gov.uk/statistics-and-research/community-pharmacy-services/?lang=en/statistics-and-research/community-pharmacy-services/?tab=previous&lang=en
[98] Hinchliffe A. 2012 Distribution of community pharmacies and deprivation in Wales. Iechyd Cyhoeddus Cymru.

155. Dosberthir oddeutu 70 miliwn o bresgripsiynau (71.2 miliwn yn 2013/14[99]) mewn fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru bob blwyddyn. Yn ogystal, mae fferyllfeydd yn fanwerthwyr stryd fawr ac mae pobl nad ydynt o'r farn eu bod yn wael yn mynd iddynt yn rheolaidd. Mae pob ymweliad yn gyfle i ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â'u ffordd o fyw ac i wneud cyfraniad at wella eu hiechyd.

156. Mae fferyllfeydd cymunedol hefyd yn darparu amgylchedd cyfleus a llai ffurfiol ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu neu nad ydynt yn dymuno mynd at fathau eraill o wasanaethau iechyd. Er enghraifft, mae llawer ohonynt yn darparu cyngor ar ddulliau atal cenhedlu brys, dulliau o roi'r gorau i ysmygu, ac iechyd rhywiol, ac yn 2012, Cymru oedd y rhan gyntaf o'r DU i gyflwyno brechiad tymhorol rhag y ffliw am ddim mewn fferyllfeydd cymunedol ar sail genedlaethol.

157. Ar 31 Mawrth 2014, roedd 35.6% o'r fferyllfeydd cymunedol yn eiddo i gontractwyr 'annibynnol'[100] (h.y. rhai a oedd yn cynnwys pump neu lai o safleoedd y GIG), ac roedd y gweddill yn eiddo i fusnesau mwy a oedd â chwech neu fwy o safleoedd y GIG, gan gynnwys busnesau amlwladol ac archfarchnadoedd (y cyfeirir atynt fel 'siopau cadwyn'). Bu tuedd yn y farchnad o fwy o gyfuno yn ystod y degawd diwethaf.

158. Ar 31 Mawrth 2014, roedd pedwar o gontractwyr offer fferyllol yng Nghymru[101] (na chânt ond cyflenwi offer megis cymhorthion anymataliaeth a gorchuddion). Maent yn cael eu rhedeg gan fusnesau bach i ganolig ac yn aml yn gweithredu model gwerthu o bell, gan ddarparu gwasanaethau i rannau eraill o'r DU.

159. Ceir nifer fechan o fferyllfeydd nad ydynt yn darparu gwasanaethau fferyllol y GIG. Nid yw'r newidiadau yn y Bil yn effeithio'n uniongyrchol ar y rhain, ac fel y cyfryw, ni roddir ystyriaeth iddynt yn y Memorandwm Esboniadol hwn.

**Y sefyllfa bresennol**

160. Llywodraeth Cymru sy'n sefydlu'r strwythur cyffredinol y mae fferyllfeydd cymunedol yn gweithredu oddi mewn iddo trwy ddarparu'r fframwaith deddfwriaeth a pholisi. Oddi mewn i hwn, mae'r cyfrifoldeb dros gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol wedi ei freinio yn y Byrddau Iechyd Lleol ('BILI'), sy'n gyfrifol am gynllunio gwasanaethau iechyd er mwyn diwallu anghenion eu trigolion. Mae hyn yn cynnwys penderfynu ar nifer a lleoliad y fferyllfeydd sydd yn eu hardaloedd.

---

[99] Datganiad Ystadegau Cymru (12 Tachwedd 2014) http://wales.gov.uk/statistics-and-research/community-pharmacy-services/?lang=en#/statistics-and-research/community-pharmacy-services/?lang=en

[100] Datganiad Ystadegau Cymru (12 Tachwedd 2014) http://wales.gov.uk/statistics-and-research/community-pharmacy-services/?lang=en/statistics-and-research/community-pharmacy-services/?lang=en

[101] Yr un â'r cyfeiriad blaenorol

161. Mae'r ddyletswydd gyffredinol i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG, fel yn achos agweddau eraill ar wasanaethau gofal sylfaenol y GIG, wedi ei rhoi yn uniongyrchol i Fyrddau Iechyd Lleol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ('Deddf 2006'). Mae'r BILl yn rheoli rhestrau lleol o ddarparwyr cymeradwy y cyfeirir atynt fel 'rhestrau fferyllol', a thrwy gynnwys mangreoedd fferyllfa ar restrau fferyllol rhoddir hawl i'r fferyllfa ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG. Mae'r trefniadau hyn yn llywodraethu darpariaeth gwasanaethau fferyllol y GIG ac nid yr hawl i agor a chynnal busnes fferyllol yng Nghymru. Ymdrinnir â hyn dan ddeddfwriaeth ar wahân ar gyfer y DU gyfan, sef Deddf Meddyginiaethau 1968.

162. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau a dyletswyddau eang i wneud rheoliadau a rhoi cyfarwyddiadau i'r BILl, sy'n llywodraethu manylion system gwasanaethau fferyllol y GIG. Mae hyn yn cynnwys nodi'r telerau gwasanaeth ar gyfer fferyllwyr y GIG a chymhwyso'r prawf 'rheoli mynediad', sef y prawf y mae'n rhaid ei fodloni cyn y caiff BILl ganiatáu cais ar gyfer cofnod, neu ddiwygio cofnod, ar eu rhestr fferyllol.

163. Mae adran 80 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar y BILl i wneud trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau fferyllol a nodir yn isadrannau 80(3)(a) i (d). Gwasanaethau dosbarthu yw'r gwasanaethau fferyllol craidd hyn yn y bôn. Mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n llywodraethu'r modd y mae'r BILl yn gwneud y trefniadau hyn. Gosodir yr holl reoliadau gerbron Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

164. Mae adran 81 o Ddeddf 2006 yn nodi'r trefniadau y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol. Diffinnir gwasanaethau fferyllol ychwanegol fel gwasanaethau o'r math nad ydynt yn dod o dan adran 80. Mae adran 81 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol (i) sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo drefnu ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol, neu (ii) yn ei awdurdodi i drefnu ar gyfer darparu gwasanaethau, os yw'n dymuno gwneud hynny.

165. Mae adran 83 o Ddeddf 2006 yn cynnwys 'craidd' pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau fferyllol ac, ymysg pethau eraill, mae'n nodi'r gofyniad i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i BILl baratoi a chyhoeddi rhestrau fferyllol. Mae hefyd yn nodi'r prawf 'rheoli mynediad' presennol.

166. Mae adran 84 yn nodi gofyniad i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer hawliau i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan BILl wrth arfer pwerau a roddwyd iddynt gan reoliadau a wnaed o dan adran 83.

167. Y prif offerynnau is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan bwerau yn Neddf 2006 yw:

- Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol (Cymru) 2013 fel y'u diwygiwyd[102];
- Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol y GIG (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) 2005 fel y'u diwygiwyd;
- Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol y GIG (Taliadau am geisiadau) 2013; a
- Rheoliadau Pwyllgorau a Thribiwnlysoedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1992 fel y'u diwygiwyd[103].

168. Mae'r is-ddeddfwriaeth hon yn disgrifio'n fanwl, ymysg pethau eraill:

- y gweithdrefnau y mae unigolion sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn eu dilyn i gyflwyno cais i gael eu cynnwys ar restr fferyllol;
- y gweithdrefnau y mae'n rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol eu dilyn wrth benderfynu ar geisiadau o'r fath;
- hawliau i apelio yn erbyn penderfyniadau Bwrdd Iechyd Lleol;
- telerau cynnwys unigolyn ar restr fferyllol; a'r
- gweithdrefnau y mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol eu dilyn wrth ymdrin ag achosion o dorri telerau gwasanaeth.

169. Ers diwedd y 1980au, BILl (neu'r cyrff iechyd a'u rhagflaenodd) sydd wedi penderfynu ar geisiadau ar gyfer cynnwys enwau ar restr fferyllol (neu geisiadau i newid cofnod sydd eisoes yn bodoli) trwy gymhwyso'r hyn a elwir yn gyffredinol fel y prawf 'rheoli mynediad'. Mae hwn wedi ei nodi yn Adran 83 o Ddeddf 2006. A siarad yn gyffredinol, ni fydd cais yn llwyddiannus oni bai bod Bwrdd Iechyd Lleol o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus ('necessary and expedient') ei ganiatáu er mwyn sicrhau y ceir darpariaeth ddigonol o wasanaethau fferyllol y GIG (yn y gymdogaeth y mae'r cais yn ymwneud â hi). Mae'r prawf hwn wedi bod yn destun adolygiad sylweddol gan y llysoedd ac mae eu penderfyniadau wedi sefydlu amrywiol gynseiliau a meini prawf ynglŷn â sut y dylai BILl gymhwyso'r prawf wrth ystyried ceisiadau.

170. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol y GIG (Cymru) 2013 yn nodi'r trefniadau presennol ar gyfer 'rheoli mynediad'. Yn ogystal â nodi ym mha amgylchiadau y caiff fferyllwyr wneud cais i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG, a'r telerau ac amodau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny, mae'r rheoliadau yn gosod darpariaeth arbennig ar gyfer ardaloedd sydd â chymeriad 'gwledig', ac maent yn rhagnodi ym mha amgylchiadau y caiff meddygon, yn yr ardaloedd hynny, gyflwyno cais am yr hawl i ddarparu gwasanaethau fferyllol i'w cleifion a chael yr hawl honno. Gelwir y rhain yn 'feddygon fferyllol' yn gyffredinol.

171. Mae'r drefn a'r dull rheoleiddio presennol wedi ei sefydlu ers mwy na 25 mlynedd ac nid yw'n adlewyrchu'n ddigonol y modd y mae swyddogaeth fferyllfeydd wedi newid ers hynny. Yn ystod y deng mlynedd ddiweddaf, nid yw niferoedd y fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru wedi newid rhyw lawer,

[102] O.S. 2013/898
[103] O.S. 1992/664

ond mae maint y presgripsiynau wedi cynyddu mwy na 40% (o 54.0 miliwn yn 2004 i 76.2 miliwn yn 2013).

172. O dan y trefniadau presennol, nid yw BILl yn ystyried ond y gwasanaethau fferyllol a ddiffinnir o dan adran 80 o Ddeddf 2006 wrth wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau. A siarad yn gyffredinol, mae hyn yn ymwneud â dosbarthu presgripsiynau yn unig. Yr ymgeiswyr sydd â'r baich o benderfynu pa bryd, ac mewn cysylltiad â pha ardaloedd y gwneir ceisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol.

173. Fodd bynnag, mae fferyllfeydd cymunedol hefyd yn darparu gwasanaethau ychwanegol yn gynyddol. Fel y nodir uchod, ymdrinnir â'r gwasanaethau fferyllol ychwanegol hyn o dan adran 81o'r Ddeddf a darperir ar eu cyfer trwy gyfrwng cyfarwyddiadau. Maent yn cynnwys darparu dulliau atal cenhedlu brys, brechiadau rhag y ffliw a chymorth i roi'r gorau i ysmygu.

174. Gwneir penderfyniadau ynghylch caniatáu i fferyllfeydd ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG ar sail a oes digon o fferyllfeydd ar gael ar gyfer dosbarthu presgripsiynau, ac nid ar sail a gynigir y gwasanaethau ychwanegol hyn nac a oes eu hangen. Effaith hyn yw na all fferyllfeydd sy'n dymuno cynnig gwasanaethau ychwanegol ymuno â'r farchnad, oherwydd nad yw'r prawf ar gyfer cael mynediad at y farchnad yn cydnabod y gwasanaethau ychwanegol y maent yn dymuno eu cynnig, na pha un a fyddai'r gwasanaethau hynny'n cefnogi'r angen i roi sylw i anghenion iechyd lleol.

175. Yn olaf, ceir darpariaethau sydd eisoes yn bodoli yn Neddf 2006 sy'n caniatáu i Fwrdd Iechyd Lleol ddileu enw unigolyn oddi ar restr fferyllol lle y ceir pryderon ynglŷn ag addasrwydd i ymarfer. Mae'r materion addasrwydd hyn i'w gweld yn adran 107(2), (3) a (4) o Ddeddf 2006 ac maent yn ymwneud â sefyllfaoedd lle bernir nad yw person bellach yn addas i'w gynnwys ar y rhestr fferyllol am resymau twyll, anaddasrwydd neu effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau. Nid oes unrhyw bwerau penodol ar gyfer dileu enw unigolyn neu gofnod ynghylch mangre oddi ar restr fferyllol ar seiliau eraill[104].

## Diben y darpariaethau

176. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar swyddogaeth fferyllfeydd cymunedol o ran iechyd y cyhoedd, mae'r Bil yn ceisio gwneud newid sylfaenol i'r ffordd y mae BILl yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau fferyllol yng Nghymru, trwy symud o ddull a ysgogir gan geisiadau gan gontractwyr fferyllol ac sy'n canolbwyntio'n drwm ar ddosbarthu presgripsiynau, i un sy'n effro ac yn ymateb i anghenion fferyllol ehangach cymunedau lleol.

177. Nod y darpariaethau yw gwella'r ffordd y cynllunnir ac y cyflwynir gwasanaethau fferyllol yng Nghymru. Mae'r Bil yn cyflawni hyn yn bennaf trwy ddiwygio Deddf 2006 i'w gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol baratoi a chyhoeddi asesiad o'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal ('asesiad

[104] Ar wahân i'r rhai a nodir yn adran 83(6)(d) o Ddeddf 2006

o anghenion fferyllol', fel y'i gelwir), adolygu'r asesiad hwn yn rheolaidd a'i ddiwygio fel y bo'n briodol. Mae'r Bil hefyd yn gwneud newidiadau i'r prawf 'rheoli mynediad' presennol a nodir yn adran 83 o Ddeddf 2006. Mae'n symud i ffwrdd oddi wrth y prawf presennol, sy'n penderfynu ar geisiadau trwy gyfeirio at ba un a yw'n angenrheidiol neu'n hwylus cymeradwyo'r cais, at asesiad sydd wedi ei seilio ar ba un a yw'n fodlon, gan roi ystyriaeth i'w asesiad diweddaraf o anghenion fferyllol ac i unrhyw faterion a bennir mewn rheoliadau, y byddai caniatáu'r cais yn diwallu angen yn ei ardal am wasanaethau neu rai o'r gwasanaethau a bennir yn y cais.

178. Yn y bôn, mae'r uchod yn darparu ar gyfer penderfynu ynglŷn â lleoliad a graddfa'r gwasanaethau fferyllol sydd ar gael mewn ardal Bwrdd Iechyd Lleol ar sail yr asesiadau hynny. Mae'r darpariaethau hefyd yn ceisio gwella ansawdd y gwasanaethau fferyllol trwy annog fferyllfeydd sydd eisoes yn bodoli i addasu ac ehangu eu gwasanaethau mewn ymateb i anghenion lleol.

179. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn asesiad o anghenion fferyllol. Y bwriad yw y bydd rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i asesiad o anghenion fferyllol gynnwys manylion darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol, nodi anghenion fferyllol ei boblogaeth ac ardaloedd lle nad yw gwasanaethau fferyllol yn diwallu anghenion, a lle y mae angen cymryd camau i sicrhau darpariaeth ddigonol. Gallai hyn gynnwys disgrifio'r math o wasanaethau fferyllol y mae ar ardaloedd penodol eu hangen.

180. Bydd yr asesiadau cyntaf o anghenion fferyllol yn cael eu llunio yn unol ag amserlen a nodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Bydd y rheoliadau'n sicrhau bod asesiadau o anghenion fferyllol dilynol yn cael eu hamseru i gyd-fynd ag asesiadau o anghenion ehangach, yn enwedig yr asesiadau llesiant lleol y darperir ar eu cyfer gan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

181. Wedyn, bydd ceisiadau oddi wrth unigolion sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol yn cael eu penderfynu yn unol â'r asesiad o anghenion fferyllol. O ganlyniad, byddai fferyllfeydd yn cael caniatâd i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG os ydynt yn gallu dangos y byddant, trwy wneud hynny, yn diwallu angen lleol penodol nad yw wedi ei ddiwallu, neu'n darparu gwasanaeth y mae gofyn amdano a nodir mewn asesiad o angen fferyllol Bwrdd Iechyd Lleol.

182. Bydd y Bil hefyd yn rhoi pŵer i BILl i roi sylw i fylchau mewn darpariaeth gwasanaeth fferyllol, fel y'i nodir yn asesiad o angen fferyllol y Bwrdd Iechyd Lleol, trwy ganiatáu i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau ym mha amgylchiadau y caiff Bwrdd Iechyd Lleol wahodd ceisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol. Gallai'r rheoliadau, er enghraifft, bennu bod BILl yn cael gwahodd ceisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol mewn ardaloedd lle y ceir anghenion fferyllol y gellir eu nodi, nad ydynt wedi eu diwallu ond nad yw'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi derbyn unrhyw geisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol.

183. Ochr yn ochr â'r newidiadau ar gyfer cyflwyno system fynediad wedi ei seilio ar anghenion, cyflwynir trefn ymadael hefyd sy'n golygu bod modd cymryd camau graddol i ymdrin â'r darparwyr hynny nad ydynt yn bodloni rhwymedigaethau eu telerau gwasanaeth – ac a allai, o ganlyniad, fod yn derbyn tâl gan y GIG heb fod yn bodloni eu rhwymedigaethau cytundebol yn ddigonol. Bwriedir cychwyn y darpariaethau presennol sydd yn adran 106A o Ddeddf 2006, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i nodi, mewn rheoliadau, system o hysbysiadau a chosbau a roddir ar waith pan fo fferyllwyr yn torri eu telerau ac amodau gwasanaeth â Bwrdd Iechyd Lleol. Bydd hyn yn cyd-fynd â phŵer newydd yn y Bil sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod, mewn rheoliadau, ar ba sail neu ym mha amgylchiadau y caiff Bwrdd Iechyd Lleol ddileu enw fferyllydd neu fangre oddi ar restr fferyllol.

184. Bwriedir y bydd rheoliadau yn nodi y bydd Bwrdd Iechyd Lleol yn cael dileu enw fferyllfa neu fangre oddi ar y rhestr fferyllol, mewn achosion lle na lwyddwyd i ddatrys problem yn lleol a lle nad yw fferyllydd wedi cydymffurfio â hysbysiadau a gyflwynwyd iddo gan y Bwrdd Iechyd Lleol yn nodi'r camau y mae angen iddo eu cymryd i gydymffurfio â thelerau ac amodau'r gwasanaeth. Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau bod dyletswydd ar Fwrdd Iechyd Lleol i hysbysu fferyllydd am ei fwriad i ddileu ei enw oddi ar ei restr a'r rhesymau dros y bwriad i wneud hynny, cyn gwneud penderfyniad i ddileu. Rhoddir yr hawl i'r fferyllydd gyflwyno sylwadau i'r Bwrdd Iechyd Lleol cyn i benderfyniad gael ei wneud. Bydd Rheoliadau hefyd yn rhoi'r hawl i apelio at Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniad Bwrdd Iechyd Lleol i ddileu enw fferyllydd neu fangre oddi ar restr fferyllol.

**Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael**

185. Yr effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael yw gwella'r drefn o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau fferyllol trwy sicrhau bod BILl yn rhoi ystyriaeth gadarn i anghenion fferyllol eu poblogaethau, a sicrhau bod gwasanaethau'n cyd-fynd yn fwy agos â'r anghenion hynny. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i BILl ddefnyddio dull mwy integredig o nodi anghenion fferyllol poblogaethau, gan gynnwys ystyried cyfraniad yr holl ddarparwyr gwasanaethau fferyllol (e.e. fferyllfeydd a meddygon fferyllol). Bydd BILl yn defnyddio'r asesiadau hyn i nodi ymhle y mae angen fferyllfeydd ychwanegol, ymhle y mae darparwyr presennol yn diwallu anghenion fferyllol yn ddigonol ac ymhle y mae angen gwasanaethau ychwanegol gan fferyllfeydd sydd eisoes yn bodoli.

186. Bydd y newidiadau'n rhoi mwy o sicrwydd i gontractwyr fferyllol, yn lleihau'r risg i'w busnes ac yn caniatáu iddynt fuddsoddi mewn cyflwyno gwasanaethau ehangach.

187. Effaith arall y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael yw sicrhau bod fferyllfeydd yn ymateb yn well i anghenion y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu, ac yn darparu gwasanaethau'n effeithiol er mwyn rhoi sylw i anghenion fferyllol dynodedig. Lle nad yw'r ansawdd yn ddigon da neu lle nad

yw gwasanaethau'n cael eu cyflwyno mewn modd cyson, bydd BILl yn gallu rhoi camau gwella ar waith. Gallai'r rhain gynnwys cymryd camau yn erbyn fferyllfeydd penodol oherwydd eu bod yn torri'r telerau ac amodau gwasanaeth yn gyson, neu wahodd fferyllfeydd ychwanegol i gyflwyno cais i ddarparu gwasanaethau penodol. O ganlyniad, dylai fferyllfeydd ddarparu gwasanaethau yn fwy cyson ac i well safon, a dylid gallu sicrhau bod fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau mewn lleoliadau lle y mae eu hangen. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn golygu bod penderfyniadau ynglŷn â chaniatáu i fferyllfeydd newydd ymuno â'r farchnad yn fwy tryloyw.

188. Yn y pen draw, bydd y newidiadau y darperir ar eu cyfer yn y Bil yn caniatáu ar gyfer gwelliant graddol yn ansawdd a chysondeb gwasanaethau fferyllol y GIG.

## Darparu toiledau

### Cefndir

189. Mae darpariaeth toiledau a mynediad atynt yn fater sy'n effeithio ar iechyd y cyhoedd. Gall toiledau hygyrch, glân, sydd wedi eu lleoli'n hwylus mewn mannau megis canol trefi, parciau, promenadau, llwybrau beicio a llwybrau cerdded helpu i annog y cyhoedd i wneud ymarfer corff ac aros yn fwy egnïol yn gorfforol. Mae i hyn fanteision eglur o ran iechyd a'r economi. I'r gwrthwyneb, gall toiledau sydd wedi eu cynllunio'n wael a'u lleoli mewn mannau amhriodol, ac nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddigonol, greu awyrgylch o esgeulustra sy'n gwneud i'r cyhoedd beidio â dymuno eu defnyddio. Gall diffyg cyfleusterau toiledau digonol hefyd effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol unigolyn, yn ogystal ag effeithio ar iechyd amgylcheddol ehangach y boblogaeth.

190. Mae toiledau i'r cyhoedd eu defnyddio o bwys i bawb ac maent yn parhau i fod yn fater sydd â phroffil uchel. Fodd bynnag, maent yn bwysicach fyth i grwpiau penodol mewn cymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn, pobl anabl, pobl ag anghenion penodol (gan gynnwys rhai problemau meddygol), menywod, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Gall darpariaeth wael effeithio'n anghymesur ar y grwpiau hyn. Er enghraifft, deellir bod darpariaeth wael yn achosi effeithiau negyddol arbennig i bobl hŷn, gan y gallai rhai fod yn llai tebygol o adael eu cartrefi heb fod yn ffyddiog y bydd cyfleusterau digonol ar gael ar eu cyfer. Gall hyn gyfrannu at arwahanrwydd cymdeithasol ac anweithgarwch cynyddol, yn ogystal ag effeithio ar allu pobl i gadw annibyniaeth ac urddas yn nes ymlaen yn eu bywydau.

191. Yn 2007, cyhoeddodd Help the Aged (Age UK, bellach) adroddiad o'r enw *Nowhere to go – Public Toilet Provision in the UK*[105]. Roedd hwn yn rhoi crynodeb o arolwg barn ymhlith pobl hŷn ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus yn eu hardaloedd, ac roedd yn dangos bod mwy na hanner y bobl hŷn o'r farn

[105] http://www.ageuk.org.uk/documents/en-gb/for-professionals/communities-and-inclusion/id6256_nowhere_to_go_public_toilet_provision_in_the_uk_2007_pro.pdf

bod diffyg toiledau cyhoeddus yn eu hatal rhag mynd allan mor aml ag y byddent yn dymuno.

192. Archwiliodd Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol Tŷ'r Cyffredin y dystiolaeth ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus yn Lloegr, a chyhoeddodd ei adroddiad, *The Provision of Public Toilets,* yn 2008[106].

193. Argymhellodd y Pwyllgor bod *"…the Government imposes a duty on each local authority to develop a strategy on the provision of public toilets in their areas, which should include consultation with the local community and which should be reviewed annually. The duty of compiling and reviewing a public toilet strategy is a simple requirement that will go a long way towards achieving the right of people who live in and visit this country to have accessible and clean public toilets, wherever they live, work or visit. The way in which local authorities plan and utilise their own strategic plan is a decision for them; the fact that they have a plan should be a duty placed on them by the Government*." (Argymhelliad 26).

194. Yn yr un adroddiad, eglurodd y Pwyllgor: "*our public toilet provision should not be allowed to decline at the current rate because of neglect arising from the lack of any clear strategy*". Ymatebodd Llywodraeth y DU i'r adroddiad ym mis Ionawr 2009 a gwrthododd weithredu'r argymhelliad i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddatblygu strategaethau ar ddarpariaeth toiledau cyhoeddus.

195. Cynhaliodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad byr yn 2012 i'r goblygiadau o ran iechyd y cyhoedd pe na byddai cyfleusterau toiledau cyhoeddus yn ddigonol yng Nghymru. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad yn ei adroddiad[107] bod achos cryf o safbwynt iechyd y cyhoedd dros well darpariaeth toiledau cyhoeddus, a bod cyfres o atebion ymarferol posibl yn bodoli a allai, o'u gweithredu, arwain at well darpariaeth toiledau cyhoeddus lleol. Roedd yr atebion a awgrymwyd yn cynnwys sicrhau bod awdurdodau yn manteisio i'r eithaf ar adnoddau sydd eisoes yn bodoli, gan godi tâl am eu defnyddio, sicrhau bod cyfleusterau toiledau mewn adeiladau cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd, a chyflwyno strategaeth i Gymru, er mwyn sicrhau bod toiledau cyhoeddus ar gael i bawb.

196. Ym mis Tachwedd 2013, cynhaliwyd dadl fer yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ar bwysigrwydd toiledau cyhoeddus[108]. Yn ystod y ddadl, cydnabu Llywodraeth Cymru ba mor bwysig yw toiledau cyhoeddus, a nododd y dylai'r ddarpariaeth barhau i fod yn flaenoriaeth ac y dylid gwneud pob ymdrech bosibl i'w chynnal.

---

[106] Tŷ'r Cyffredin, Deuddegfed Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ystod Sesiwn 2007–08 'The Provision of Public Toilets' argraffwyd 6 Hydref 2008. Ar gael yn: http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200708/cmselect/cmcomloc/636/63602.htm,

[107] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=2572

[108] Cynulliad Cenedlaethol Cymru Dadl fer: Anghyfleusterau cyhoeddus – pam y mae toiledau cyhoeddus yn bwysig. 13 Tachwedd 2013. Ar gael yn: http://www.assembly.wales/cy/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=184&language=cy

197. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio dod o hyd i atebion creadigol o'r blaen i helpu i wella darpariaeth toiledau cyhoeddus. Sefydlwyd y Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus yn 2009/10 am gyfnod o dair blynedd i ddechrau, er mwyn sicrhau bod cyfleusterau toiledau am ddim ar gael yn ehangach i'r cyhoedd yng Nghymru. Y nod oedd ceisio gwella ansawdd cyfleusterau a'u gwneud yn fwy hygyrch trwy annog awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth â busnesau lleol i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'u cyfleusterau. Ehangwyd y cynllun bob blwyddyn o fis Ebrill 2012 cyn i'r cyllid (£200,000) gael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw o 2014/15 ymlaen. Mater i bob awdurdod lleol yw hi bellach i benderfynu sut y defnyddir y refeniw hwn i ddarparu'r amrywiaeth o wasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, er mwyn diwallu anghenion a chyflawni blaenoriaethau ei gymunedau.

198. Nid yw'r broblem hon yn unigryw i Gymru. Mae dinasoedd mawr ar draws y byd, gan gynnwys Melbourne, Awstralia[109], wedi nodi darpariaeth toiledau cyhoeddus a mynediad atynt fel problem allweddol, ac maent wedi datblygu strategaethau i fynd i'r afael â hi.

**Y sefyllfa bresennol**

199. Mae'n hysbys bod darpariaeth toiledau cyhoeddus yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall ar hyn o bryd. Mae trafodaethau hefyd yn dangos bod pwysau ynglŷn â darpariaeth cyfleusterau, gan olygu bod nifer y toiledau cyhoeddus yng Nghymru wedi lleihau yn y blynyddoedd diwethaf.

200. Mae'r sefyllfa gyfreithiol bresennol mewn perthynas â chyfleusterau toiledau wedi ei nodi mewn amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth. Mae toiledau mewn mannau cyhoeddus yn cael eu darparu a'u cynnal a'u cadw yn unol â disgresiwn awdurdodau lleol, gan gynnwys cynghorau cymunedol. Mae ganddynt y pŵer, o dan adran 87 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936, i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus, ond nid oes dyletswydd arnynt i wneud hynny. Mae adran 87 hefyd yn caniatáu i awdurdodau lleol godi tâl ar bobl am ddefnyddio'r toiledau a ddarperir ganddynt.

201. Mae gan awdurdod lleol bŵer o dan adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu a chynnal a chadw toiledau mewn unrhyw le sy'n darparu adloniant, arddangosfeydd, digwyddiadau chwaraeon, a lleoedd sy'n gweini bwyd a diod i'w bwyta ac yfed yn y fangre. Caiff awdurdod lleol hefyd ddefnyddio pwerau o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i wneud cytundeb â datblygwr i ddarparu toiledau yn rhan o'r datblygiad a gymeradwywyd.

202. Pan fo awdurdod lleol yn awdurdod priffyrdd ar gyfer priffordd benodol, mae adran 114 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn darparu y caiff ddarparu

[109] City of Melbourne, Public Toilets Plan. Ar gael yn: http://www.melbourne.vic.gov.uk/AboutCouncil/PlansandPublications/strategies/Pages/PublicToiletPlan.aspx

cyfleusterau ystafell ymolchi cyhoeddus (gan gynnwys toiledau) mewn sefyllfaoedd priodol a chyfleus, ac y caiff reoli cyfleusterau o'r fath.

203. Er bod y fframwaith deddfwriaethol presennol yn galluogi awdurdodau lleol i wneud darpariaeth ar gyfer toiledau, nid oes unrhyw ofynion deddfwriaethol iddynt wneud hynny. Mater i awdurdodau lleol unigol yw penderfynu a yw am ddarparu toiledau cyhoeddus ai peidio, ac os felly, faint ohonynt. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol sicrhau cydbwysedd rhwng galwadau lleol am amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus, a'r angen i osgoi beichiau gormodol ar drethdalwyr lleol.

204. Mae'r system bresennol sy'n llywodraethu darpariaeth toiledau cyhoeddus a mynediad atynt yn cyflwyno nifer o heriau sylweddol o hyd. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:-

- Caiff toiledau cyhoeddus yng Nghymru eu darparu a'u cynnal a'u cadw yn unol â disgresiwn awdurdodau lleol, sy'n golygu bod y ddarpariaeth yng Nghymru yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall;

- Mae'r broses gynllunio'n wael ar gyfer gwneud y defnydd gorau o doiledau sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio mewn adeiladau cyhoeddus, er enghraifft, rhai mewn llyfrgelloedd, neuaddau tref a chymuned, canolfannau chwaraeon ac amgueddfeydd;

- Mae'n costio swm sylweddol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal a chadw toiledau cyhoeddus yng Nghymru, ac o ganlyniad, mae'r ddarpariaeth honno'n lleihau ac mae toiledau dan fygythiad o gael eu cau ledled Cymru;

- Mae toiledau cyhoeddus sydd wedi eu cynllunio'n wael a'u lleoli mewn mannau amhriodol, ac nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddigonol yn gallu creu awyrgylch sy'n denu fandaliaeth, graffiti, difrod troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (sy'n cynyddu mwy fyth ar y costau i awdurdodau lleol); ac

- Roedd y Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus blaenorol yn gyfyngedig oherwydd ei fod yn canolbwyntio'n llwyr ar wella mynediad cyhoeddus i doiledau mewn sefydliadau preifat.

**Diben y darpariaethau**

205. Diben y darpariaethau yw gwella'r modd o gynllunio darpariaeth toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio trwy sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion ei gymuned o ran toiledau, ac wedyn yn defnyddio dull strategol a thryloyw er mwyn diwallu'r angen hwnnw yn y ffordd orau. Bwriad hyn yw mynd i'r afael â'r heriau presennol ynglŷn â darparu'r cyfleusterau hyn mewn cymunedau.

206. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal. Mae'r Bil yn darparu bod rhaid i'r strategaeth gynnwys asesiad o angen y gymuned am doiledau, gan gynnwys cyfleusterau newid ar gyfer babanod a chyfleusterau newid ar gyfer pobl anabl, yn ogystal â manylion am sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu diwallu'r angen hwnnw. Nid oes unrhyw ofyniad i'r strategaethau gael eu cyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru i gael eu cymeradwyo, gan y bydd disgwyl yn lle hynny i'r strategaethau fod yn ddarostyngedig i strwythurau craffu cyfredol yr awdurdodau lleol.

207. Ni fydd y ddyletswydd i lunio strategaeth toiledau lleol ynddo'i hun yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu a chynnal a chadw toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol, ond bydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi ystyriaeth strategol ar draws eu hardal i sut y gellir darparu'r cyfleusterau hyn a sicrhau eu bod yn hygyrch i'w poblogaeth leol. Wrth wneud hynny rhagwelir y bydd awdurdodau lleol yn ystyried ystod lawn o opsiynau ar gyfer sicrhau bod cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd. Enghraifft o'r broses hon yw pe na byddai toiled cyhoeddus ar gael mewn parc ond bod awdurdod lleol yn nodi bod angen un. Dylai'r awdurdod lleol ystyried gwahanol ffyrdd o sicrhau y caiff yr angen hwnnw ei ddiwallu. Gellid gwneud hyn trwy i'r awdurdod lleol ddarparu'r cyfleuster yn uniongyrchol, ond gellid diwallu'r angen llawn cystal mewn ffyrdd eraill, er enghraifft trwy i'r awdurdod lleol weithio gyda busnes preifat yn y parc neu'n agos ato i sicrhau bod eu cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd.

208. Yn y pen draw, bwriedir i ddarpariaethau'r Bil ynghylch strategaethau toiledau lleol fod o fantais i gymunedau lleol ar draws Cymru. O ganlyniad, mae'r darpariaethau yn ceisio sicrhau yr ymgysylltir yn briodol â chymunedau, yn rhan o'r broses o ddatblygu'r strategaethau, ac y cynhelir y broses mewn modd sy'n dryloyw ac sy'n cefnogi atebolrwydd lleol.

209. O ganlyniad, bydd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ymgynghori ynglŷn â'u strategaethau drafft â phartïon a chanddynt fuddiant, a chyhoeddi eu strategaethau terfynol fel eu bod ar gael i'w gweld. Er nad yw'r Bil yn rhagnodi fformat y broses ymgynghori, disgwylir y bydd yr awdurdodau lleol yn dilyn dull cynhwysol, er mwyn sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n briodol ar draws eu cymunedau.

210. Er mwyn ategu atebolrwydd lleol ymhellach, mae'r Bil yn darparu fframwaith eglur i lywodraethu'r amserlenni ar gyfer llunio strategaethau toiledau lleol a datganiadau cynnydd interim. Dylai datganiadau cynnydd interim gael eu cyhoeddu tua dwy flynedd ar ôl y strategaeth toiledau lleol neu'r adolygiad o'r strategaeth, gan adrodd ar y camau y mae'r awdurdod lleol wedi'u cymryd ers cyhoeddi'r strategaeth. Mae'r Bil yn darparu'r fframwaith ar gyfer sut a pha bryd y dylid adolygu'r strategaethau lleol, ac yn cynnwys manylion yr hyn y dylid ei gynnwys mewn unrhyw adolygiad. Mae cynhyrchu'r strategaethau toiledau lleol hefyd yn cyd-fynd yn agos â'r cylch ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.

211. Er mwyn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol ymateb wrth i amgylchiadau newid, byddant yn gallu adolygu'r strategaethau ar unrhyw adeg. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer cyfnod adolygu mandadol, a bwriedir i hwn eto gyd-fynd â'r cylch ar gyfer etholiadau awdurdod lleol a chynlluniau lleol y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth arall, er mwyn lleihau biwrocratiaeth ddiangen a sicrhau dull cydlynol o gynllunio ar lefel gymunedol. Ategir pwysigrwydd ymgysylltiad parhaus â chymunedau lleol yn y darpariaethau hyn, trwy ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi unrhyw strategaeth ddiwygiedig.

212. Gan y cydnabyddir y bydd nifer fawr o ystyriaethau'n berthnasol i awdurdodau lleol wrth iddynt baratoi, adolygu, ymgynghori a chyhoeddi eu strategaethau, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar y mater hwn. Bydd yn ofynnol wedyn i'r awdurdodau lleol roi ystyriaeth i'r canllawiau a lunnir. Ymysg y testunau a fydd yn dod o dan y canllawiau mae sut y bydd awdurdodau lleol yn sicrhau bod toiledau ar gael ar y priffyrdd (er enghraifft cefnffyrdd fel yr A470), a sut y bydd y cyfleusterau sy'n cael eu darparu mewn lleoliadau sydd eisoes yn derbyn cyllid cyhoeddus, fel canolfannau chwaraeon, llyfrgelloedd a chyfleusterau eraill tebyg, yn medru bod ar gael i'r cyhoedd. Bydd y canllawiau statudol hefyd yn edrych ar y ffordd y mae awdurdodau lleol yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio yn yr ardal, gan gynnwys eu lleoliad ac a ydynt ar gael i'r rhai sy'n byw yn yr ardal, yn ymweld neu'n pasio.

213. Er mwyn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod anghenion gwahanol grwpiau o bobl ar draws cymunedau yn cael eu hystyried trwy'r strategaethau toiledau lleol, mae'r Bil yn darparu yn benodol bod y term 'toiledau' yn cynnwys cyfleusterau newid ar gyfer babanod a chyfleusterau newid ar gyfer pobl anabl.

214. Er mwyn eglurder, mae'r Bil hefyd yn diddymu ac yn ailddatgan pwerau cyfredol awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus.

**Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael**

215. Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau trefn gynllunio well ar gyfer toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd, gan ddiwallu anghenion cymunedau lleol yn well. Bydd y broses o lunio'r strategaethau toiledau lleol yn golygu bod modd rhoi ystyriaeth ehangach i'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer darparu toiledau at ddefnydd y cyhoedd, gan amrywio o 'doiledau cyhoeddus' annibynnol traddodiadol i atebion newydd a chreadigol. Bydd y Bil hefyd yn sicrhau yr ymgysylltir mwy â phobl leol ynghylch y mater hwn, a bod yn broses yn fwy tryloyw.

216. Nid atal awdurdodau lleol rhag gwneud penderfyniadau y mae angen iddynt eu gwneud yn ystod cwrs eu gweithgareddau, a allai gynnwys penderfyniadau i gau rhai cyfleusterau pan fo'n briodol, mo'r effaith y bwriedir i'r ddeddfwriaeth ei chael. Yn hytrach, yr effaith y bwriedir ei chael yw gwella'r dull o gynllunio'r ddarpariaeth, fel y gwneir unrhyw benderfyniadau o'r fath yng

nghyd-destun cyffredinol diwallu anghenion y gymuned y maent wedi eu nodi. Bydd hyn hefyd yn lliniaru effeithiau newidiadau i'r ddarpariaeth.

## Troseddau sgor hylendid bwyd

### Cefndir

217. Mae Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) Act 2013 ("Deddf 2013") yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd Cymru gael eu sgorio ar sail eu safonau hylendid bwyd, ac arddangos y sgôr lle gall y cwsmeriaid ei weld yn rhwydd, er enghraifft wrth y fynedfa. Mae Deddf 2013 yn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gwybodaeth hawdd ei ddeall ar safonau hylendid busnes bwyd cyn prynu bwyd yno, ac mae wedi codi safonau hylendid busnesau bwyd ar draws Cymru.

218. 'Awdurdodau bwyd' (awdurdodau lleol yn bennaf) sy'n gyfrifol am orfodi'r cynllun sgorio hylendid bwyd yng Nghymru. Mae Deddf 2013 yn caniatáu i awdurdodau bwyd gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig i fusnesau bwyd am beidio â chydymffurfio â'r cynllun. Mae hysbysiadau cosb benodedig yn cynnig cyfle i berson dalu dirwy is o £150 os yw'r taliad yn cael ei wneud o fewn 14 diwrnod, neu £200 o fewn 28 diwrnod.

### Y sefyllfa bresennol

219. Mae Adran 22(1) o Ddeddf 2013 ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i'r derbyniadau sy'n dod i law drwy'r hysbysiadau cosb benodedig sy'n cael eu cyhoeddi am droseddau dan y Ddeddf gael eu dychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

### Diben y darpariaethau

220. Mae'r Bil yn gwneud mân newid i drefniadau gweinyddol y derbyniadau hysbysiadau cosb benodedig sy'n dod i law dan y Ddeddf, er mwyn newid y trefniadau ar gyfer dychwelyd y derbyniadau hysbysiadau cosb benodedig am droseddau yn ymwneud â sgorio hylendid bwyd a'u hailddefnyddio. Mae hyn mewn ymateb i sylwadau'r awdurdodau bwyd y byddai cadw'r derbyniadau hynny yn eu helpu i ariannu eu gweithgarwch gorfodi dan y Cynllun.

221. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer diddymu adran 22(1) o Ddeddf 2013 a'i disodli gan ddarpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bwyd ail ddefnyddio'r derbyniadau hysbysiadau cosb benodedig a ddaeth i law dan Adran 21 o Ddeddf 2013, at ddibenion gorfodi darpariaethau'r Ddeddf a'r rheoliadau sy'n cael eu gwneud oddi tani.

### Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael

222. Bwriedir i'r newid y mae'r Bil yn darparu ar ei gyfer gynorthwyo'r awdurdodau sy'n gweithredu ac yn gorfodi'r cynllun sgorio hylendid bwyd,

drwy symleiddio’r trefniadau ar gyfer ymdrin â derbyniadau hysbysiadau cosb benodedig, a sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio’n benodol i helpu i orfodi’r cynllun. Daw hyn â’r trefniadau hylendid bwyd i fod yn gyson â’r trefniadau cyfatebol sydd mewn mannau eraill o’r Bil, drwy sicrhau bod y derbyniadau hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu cadw gan yr awdurdod gorfodi er mwyn cynnal y dyletswyddau newydd y mae’r Bil yn eu creu. Felly mae’r newid hefyd yn cyfrannu at gysondeb ac eglurder yn y ffordd o ymdrin â’r mater hwn mewn deddfwriaeth ar iechyd y cyhoedd.

## 4. Ymgynghori

223. Gosodwyd y seiliau ar gyfer paratoi a datblygu'r Bil hwn yn 2012. Yn dilyn yr ymrwymiad i ymgynghori ar yr angen am ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd, cyhoeddwyd Papur Gwyrdd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd,[110] i weld a allai deddfwriaeth helpu ymdrechion i wella mwy ar iechyd a lles cyffredinol yng Nghymru. Roedd y Papur Gwyrdd yn cyfeirio at nifer o heriau eang sy'n wynebu iechyd y cyhoedd yng Nghymru, gan gynnwys yr angen i wneud mwy i atal afiechyd rhag digwydd yn y lle cyntaf, ac yn gofyn a fyddai deddfwriaeth yn cynnig ffordd effeithiol o symud ymlaen ymhellach mewn meysydd allweddol.

224. Derbyniwyd cyfanswm o 371 o ymatebion i'r Papur Gwyrdd, a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Mai 2013.[111] Roedd mwyafrif clir o'r ymatebwyr yn cefnogi'r syniad y gallai deddfwriaeth wneud cyfraniad cadarnhaol er mwyn gwella ac amddiffyn mwy ar iechyd. Roedd yr ymatebion yn cefnogi dwy agwedd wahanol tuag at ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd: un yn mynnu bod sefydliadau yn ystyried iechyd ar draws eu swyddogaethau; a'r llall yn agwedd wedi'i thargedu a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â heriau penodol yn gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd.

225. Roedd yr ymateb i'r Papur Gwyrdd wedi llywio'r broses o ddatblygu agwedd at ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd a fyddai'n ymateb i'r ddwy neges hon. Yn gyntaf, cydnabu fod Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)[112] (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 bellach) yn cynnig cyfleoedd i sicrhau bod ystyriaethau iechyd yn rhan ganolog o'r fframwaith deddfwriaethol cyffredinol ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Ddeddf hon yn darparu saith o amcanion cenedlaethol ar gyfer lles y bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru eu cefnogi. Mae'r rhain yn cynnwys amcanion penodol o greu 'Cymru iachach' a 'Chymru fwy cydradd', a byddai'r amcanion eraill hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig wrth weithredu agenda iechyd y cyhoedd.

226. Yn ail, cynhaliwyd gwaith datblygu er mwyn creu cyfres o gynigion deddfwriaethol i fynd i'r afael â phryderon penodol o ran iechyd y cyhoedd. Cafodd y rhain eu datblygu ym Mhapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, a chynhaliwyd ymgynghoriad arnynt. Maent bellach yn sail ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

### Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd

227. Ym mis Ebrill 2014, cyhoeddwyd Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, yn dwyn y teitl *Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig*[113] . Roedd y Papur yn dwyn ynghyd gyfres o gynigion ar wahân, ond cysylltiedig, er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd drwy ddulliau gweithio

---

[110] http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/publichealth/?skip=1&lang=cy
[111] http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/publichealth/?skip=1&lang=cy
[112] http://wales.gov.uk/legislation/programme/assemblyskilss/future-generation/?lang=cy
[113] http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/white-paper/?skip=1&lang-cy

ataliol. Cyflwynwyd y cynigion dan dair thema fras, sef gwella iechyd gydol oes; adeiladu asedau cymunedol ar gyfer iechyd; a rheoleiddio ar gyfer iechyd.

228. Roedd y cynigion yn ymwneud â:

- sefydlu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco, sy'n gofyn bod busnesau yn rhoi gwybod i awdurdodau gorfodi os ydynt yn gwerthu tybaco;
- cyfyngu ar y defnydd o sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus caeedig;
- ystyried ei gwneud yn drosedd i ddarparu cynhyrchion tybaco i berson o dan 18 oed;
- atgyfnerthu swyddogaeth Byrddau Iechyd Lleol yn y broses o gynllunio a chyflwyno'r gwasanaethau fferyllol sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion eu cymunedau - a hynny o ran eu nifer, eu lleoliad a'u math;
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio strategaeth sy'n ymdrin â'r toiledau a ddarperir at ddefnydd y cyhoedd, a'u mynediad atynt; a
- cyflwyno Cofrestr Genedlaethol o Driniaethau Arbennig, gan gynnwys aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio.

229. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn ymgynghori ar gynigion eraill, sef cyflwyno isafswm pris uned ar gyfer alcohol a gaiff ei werthu a'i gyflenwi yng Nghymru, cyflwyno safonau maeth mewn lleoliadau penodedig, a gwahardd ysmygu mewn mannau agored penodol (er enghraifft tir ysbytai ac ysgolion).

230. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynigion ar isafswm pris fesul uned o alcohol ar wahân i Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), ac felly nid yw ymatebion yr ymgynghoriad i'r elfen honno o'r Papur Gwyn wedi eu crynhoi yn y Memorandwm Esboniadol hwn. Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) drafft ym mis Gorffennaf 2015, ac fe fydd crynodeb o'r ymaterion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi yn y man.[114]

231. Roedd y Papur Gwyn yn nodi'r eglur hefyd y byddai'r cynigion ar gyfer safonau maeth, pe baent yn mynd rhagddynt, yn cael eu gweithredu drwy is-ddeddfwriaeth a/neu ganllawiau. Nid yw'r cynigion hyn felly yn rhan o'r Bil ac, fel y cyfryw, ni chânt eu cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol hwn. Yn olaf, er bod y Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu bod mannau agored penodol yng Nghymru yn ddi-fwg yn y dyfodol, nid yw'n mynd ati'n benodol i wahardd ysmygu mewn mannau agored penodedig. Gan hynny, nid yw'r bennod hon yn cynnwys disgrifiad manwl o'r ymatebion i'r elfen honno o'r Papur Gwyn.

232. Derbyniwyd cyfanswm o 713 o ymatebion i'r Papur Gwyn, a chyhoeddwyd adroddiad cryno ym mis Tachwedd 2014.[115] Cyfeiriwyd at yr

[114] http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/alcohol/?skip=1&lang=cy
[115] http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/white-paper/?skip=1&/lang=cy

ymatebion wrth ddatblygu a mireinio'r ddeddfwriaeth. Daeth ymatebion i law gan y canlynol:-

**Tabl 4.1: Ymatebion i Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, yn ôl y math o ymatebwr**

| Math o ymatebwr | Rhif | Canran o'r holl ymatebion |
|---|---|---|
| Cyrff academaidd/ymchwil | 8 | 1.2% |
| Sefydliadau'r GIG | 15 | 2.2% |
| Sefydliadau sy'n gysylltiedig ag Iechyd | 22 | 3.3% |
| Llywodraeth leol | 55 | 8.2% |
| Grwpiau cynghori | 7 | 1.0% |
| Sefydliadau'r sector gwirfoddol | 34 | 5.0% |
| Grwpiau cynrychiadol | 48 | 7.1% |
| Sefydliadau'r sector preifat | 36 | 5.4% |
| Unigolion preifat | 434 | 64.6% |
| Ymatebion penodol i'r fersiwn i Bobl Ifanc | 39 | 5.5% |
| Ymatebion penodol i'r fersiwn Hawdd ei Deall | 2 | 0.1% |
| Eraill | 13 | 1.9% |
| **Cyfanswm** | **713** | **100%** |

233. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth ar gyfer swyddogaeth deddfwriaeth wrth wella ac amddiffyn iechyd. Cafodd ystod lawn o safbwyntiau eu cyflwyno, yn amrywio o ddadleuon y dylid ymestyn y cynigion a mynd â nhw gam ymhellach, i alwadau am ddiwygiad mwy cymedrol.

234. Roedd natur yr ymatebion i'r Papur Gwyn hefyd yn amrywio'n sylweddol. Roedd rhai yn canolbwyntio ar faterion unigol, ac eraill yn cyflwyno sylwadau manwl ar y cynigion i gyd. Mynegwyd gwahanol safbwyntiau ar bob un o'r cynigion, ond y cynnig i gyfyngu ar y defnydd o sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus caeedig a achosodd y rhwyg fwyaf yn yr ymateb.

235. Dyma rhai o'r themâu a'r tueddiadau mwyaf cyffredin a amlygwyd yn yr ymatebion:

- Roedd lefel y gefnogaeth ar gyfer cynigion unigol yn amrywio'n aml yn unol â'r sector; er enghraifft, roedd sefydliadau iechyd ac awdurdodau lleol yn gefnogol i'r rhan fwyaf o'r cynigion fel rheol, ond mewn rhai achosion, roedd cyrff sy'n cynrychioli grwpiau neu fuddiannau penodol yn gwrthwynebu;

- Er eu bod yn cefnogi bwriad y polisi, mynegodd nifer o ymatebwyr amheuaeth am y ffordd y cynigiwyd ei roi ar waith, gan gynnwys y goblygiadau posibl ar gyfer llywodraeth leol;

- Dywedodd nifer o ymatebwyr (sefydliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd yn bennaf) fod y Papur Gwyn, yn eu barn nhw, wedi colli rhywfaint o'r uchelgais a fynegwyd yn y Papur Gwyrdd blaenorol, oherwydd ei bwyslais ar gamau gweithredu ymarferol mewn gwahanol feysydd polisi; ac

- Roedd rhai ymatebwyr wedi'u siomi nad oedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynigion penodol mewn meysydd polisi ychwanegol sy'n berthnasol i iechyd y cyhoedd, megis iechyd meddwl a gweithgarwch corfforol.

236. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfarfodydd rhanddeiliaid i gyd-ddigwydd ag ymgynghoriad y Papur Gwyn. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn adroddiad cryno'r ymgynghoriad, ac ategwyd hwn trwy gynnal ymgysylltiad anffurfiol ychwanegol â rhanddeiliaid allweddol ar ôl y cyfnod ymgynghori ffurfiol.

237. Mae'r paragraffau nesaf yn rhoi darlun cyffredinol o'r ymatebion ysgrifenedig i'r Papur Gwyn, gan gyfeirio at bob cynnig polisi yn y Bil. Y bwriad yw rhoi syniad o'r ymateb a gafwyd, ond dylid eu hystyried yng nghyd-destun y manylion ychwanegol sydd ar gael yn adroddiad cryno'r ymgynghoriad.

<u>Cyfyngu ar y defnydd o sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus caeedig (mae hyn yn ymwneud â Rhan 2, Pennod 1 o'r Bil – 'Ysmygu a defnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin')</u>

238. Derbyniwyd 525 o ymatebion i'r cynnig hwn. Mae'r ffigur yn cynnwys 271 o gopïau o'r un llythyr gan unigolion preifat yn datgan gwrthwynebiad cyffredinol ar y sail bod sigaréts electronig yn fwy diogel nag ysmygu sigaréts arferol ac yn gymorth wrth helpu i roi'r gorau i ysmygu, ac y byddai eu gwahardd mewn mannau cyhoeddus yn gorfodi defnyddwyr i fynd y tu allan a gorfod mewnanadlu mwg pobl eraill sy'n ysmygu sigaréts arferol.

239. Roedd pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn cefnogi'r cynnig, yn ogystal ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, timau gorfodi awdurdodau lleol a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli. Cafwyd ymatebion cymysg gan sefydliadau'r sector gwirfoddol a grwpiau cynrychiadol, ac roedd pob ymateb a ddaeth i law gan gwmnïau e-sigaréts a thybaco yn gwrthwynebu'r cynnig. Roedd yr ymatebion yn aml yn cyfeirio at enghreifftiau penodol o waith ymchwil a oedd yn cefnogi naill ochr y ddadl a'r llall, yn ogystal â phrofiadau lleol a phersonol.

240. Roedd safbwynt cyffredinol yr ymatebwyr, naill ai o blaid neu yn erbyn cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig, wedi'i adlewyrchu fel rheol yn eu hymateb i'r cwestiynau ar faterion penodol. Roedd

cwestiynau'r ymgynghoriad yn canolbwyntio'n bennaf ar a yw'r ffaith bod pobl yn cael defnyddio e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig:-

- yn tanseilio'r gwaharddiad presennol ar ysmygu ac yn ei wneud yn anos ei orfodi;
- yn gwneud y weithred o ysmygu'n beth normal; ac
- yn fan cychwyn iddynt ddefnyddio cynhyrchion tybaco confensiynol.

241. Cyflwynwyd nifer helaeth o ddadleuon i gefnogi safbwyntiau ar y naill ochr o'r ddadl a'r llall ar gyfer pob un o'r materion hyn. Rhoddir mwy o wybodaeth am yr ystod o ddadleuon a gyflwynwyd yn adroddiad cryno'r ymgynghoriad.

242. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn ceisio barn am esemptiadau a chosbau posibl a allai fod yn gysylltiedig â gwaharddiad ar ddefnyddio e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig. Awgrymodd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau y dylai'r esemptiadau adlewyrchu'r rheiny a nodir yn Rheoliadau Di-fwg 2007 ('Rheoliadau 2007'), er mwyn helpu i sicrhau cysondeb yn y camau gorfodi. Roedd ymatebion ynglŷn â'r cosbau'n fwy cymysg, gan amrywio o ddweud y dylai'r cosbau adlewyrchu'r rheiny a geir yn Rheoliadau 2007, i ddadlau bod e-sigaréts yn gynhyrchion gwahanol i sigaréts confensiynol ac y dylai unrhyw gosbau gael eu hystyried yn eu rhinwedd eu hunain.

243. Yn ogystal â sylwadau yn ymdrin yn uniongyrchol â'r cynnig, cynigiodd ymatebwyr hefyd sylwadau ehangach am e-sigaréts. Roedd cyfran uchel o'r rhain yn ymwneud â rheoleiddio ychwanegol ar e-sigaréts, a'r angen am fwy o waith ymchwil. Roedd nifer o ymatebwyr ar y ddwy ochr o'r ddadl yn dweud eu bod o blaid cyfyngiadau newydd yng Nghymru ar yr oedran y mae'n rhaid bod cyn gallu eu prynu. Mae'r cyfyngiadau newydd hyn yn deillio o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 Llywodraeth y DU. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys cyfeiriadau at effaith bosibl y cynnig ar e-sigaréts sydd wedi'u trwyddedu'n feddyginiaethau, a phryderon am ddiogelwch e-sigaréts.

<u>Cofrestr o fanwerthwyr tybaco (yn ymwneud â Rhan 2, Pennod 2 o'r Bil – 'Cofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin')</u>

244. Daeth 119 o ymatebion i law ynglŷn â'r cynnig i gyflwyno cofrestr o fanwerthwyr tybaco. Roedd y mwyafrif yn nodi eu bod yn cytuno'n fras y byddai'n ddefnyddiol cyflwyno cofrestr er mwyn lleihau gwerthiannau tybaco i bobl o dan oed, ac wrth orfodi'r gwaharddiad presennol ar arddangos. Roedd y lleiafrif o ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn gyffredinol yn ymatebwyr sector preifat, gan gynnwys cynrychiolwyr manwerthwyr a nifer o gwmnïau tybaco ac e-sigaréts. Roedd y prif bryderon yn ymwneud â chofrestru masnachwyr stryd, a'r farn y gallai cofrestr gynyddu'n anfwriadol y lefel o dybaco anghyfreithlon a gaiff ei werthu.

245. Cafwyd ymateb cymysg i strwythur y ffioedd cofrestru a gynigir yn y Papur Gwyn. Er bod nifer o ymatebwyr yn cytuno â'r strwythur a gyflwynwyd,

teimlai eraill na fyddai'n galluogi'r sefydliad sydd â'r dasg o reoli a gweinyddu'r gofrestr i adennill y costau llawn. Ar y llaw arall, teimlai nifer fach o ymatebwyr fod y strwythur ffioedd yn rhy uchel, ac y dylai naill ai fod yn rhad ac am ddim i ymuno â'r gofrestr, neu'n rhatach na'r ffioedd a gynigiwyd.

246. Y drefn orfodi a chosbi a gafodd y gefnogaeth fwyaf ymysg ymatebwyr oedd rhoi'r gofrestr dan ofal swyddogion safonau masnach awdurdodau lleol, o ystyried eu gallu i geisio Gorchmynion Gwerthu o dan Gyfyngiad a Gorchmynion Mangre o dan Gyfyngiad. Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd sefydlu dull o sicrhau bod gofyn i fanwerthwyr gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gofrestr, gan awgrymu ffyrdd penodol o gyflawni hyn.

247. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr hefyd gynnwys manwerthwyr Systemau Electronig ar gyfer Cyflenwi Nicotin (ENDS) megis e-sigaréts.

<u>Gwerthu tybaco ar y Rhyngrwyd (yn ymwneud â Rhan 2, Pennod 4 o'r Bil – 'Rhoi tybaco etc. i bersonau o dan 18')</u>

248. Daeth 104 o ymatebion i law mewn cysylltiad â'r cynnig hwn. Roedd yn gyffredin i ymatebwyr deimlo ei bod yn debygol y bydd problemau yn gysylltiedig ag unigolion o dan 18 yn derbyn cynhyrchion tybaco a gaiff eu prynu ar-lein gan oedolyn, ac felly y byddai deddfwriaeth yn briodol. Ymysg yr ymatebion hyn, mynegwyd pryderon penodol nad yw dulliau presennol o ddilysu oedran yn ddigon cadarn.

249. Dywedodd nifer o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod am dystiolaeth o broblem yn y maes hwn, neu nad oeddent yn gallu dod o hyd i dystiolaeth amdani; ond awgrymwyd hefyd y byddai'r mecanweithiau presennol yn ei gwneud yn anodd nodi problem o'r fath.

250. Roedd yr ymatebion nad oeddent yn ffafrio deddfwriaeth yn cyfeirio'n aml at ddiffyg tystiolaeth yn y maes hwn, gan ffafrio yn hytrach gamau eraill er mwyn sicrhau nad yw cynhyrchion tybaco yn cael eu darparu i unigolion o dan 18 oed.

<u>Cofrestr Genedlaethol Triniaethau Arbennig (yn ymwneud â Rhan 3 a Rhan 4 o'r Bil - 'Triniaethau Arbennig' a 'Twll mewn rhan bersonol o'r corff')</u>

251. Daeth 102 o ymatebion i law mewn cysylltiad â'r cynnig hwn. Teimlai'r mwyafrif nad yw'r wybodaeth, y rheoleiddio a'r gorfodi sy'n gysylltiedig ag aciwbigo, tatŵio, lliwio croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis yn amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol. Roedd hon yn neges gyson trwy'r ymatebion gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol.

252. Roedd mwyafrif clir o ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o sefydlu Cofrestr Genedlaethol o Driniaethau Arbennig, gan fod llawer yn teimlo y byddai potensial iddi sicrhau dull gwaith cyson ledled Cymru, gan helpu unigolion i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth wrth benderfynu at bwy i fynd am

driniaeth benodol, a sicrhau bod ymarferwyr a mangreoedd yn bodloni safonau penodol. Cafwyd cytundeb cyffredinol mai awdurdodau lleol fyddai yn y sefyllfa orau i weinyddu a gorfodi'r gofrestr.

253. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid ystyried cynnwys triniaethau ychwanegol ar y gofrestr. Cyfeiriwyd at amrywiaeth eang o driniaethau, gan gynnwys llenwi'r croen, pilio cemegol, golchi'r colon, botox, creithio'r croen, llosgnodi, mewnblaniadau a hollti'r tafod. Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr yn dadlau na ddylid cynnwys aciwbigo ar y gofrestr gan fod rheoliadau eraill ar waith yn y maes hwnnw.

254. Aeth cwestiynau'r ymgynghoriad i'r afael â nifer o fanylion penodol. Mewn ymateb i'r rhain, cafwyd sylwadau gan y mwyafrif o ymatebwyr y byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru allu diwygio'n rheolaidd y rhestr o driniaethau sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr, er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n addas at ei diben. Cyflwynwyd amrywiaeth o safbwyntiau mewn cysylltiad â ffioedd cofrestru, gyda'r mwyafrif yn ffafrio dull cenedlaethol a ffioedd wedi'u pennu ar lefel y gallai busnesau bach ac ymarferwyr unigol ei fforddio.

255. Ymysg y materion eraill a drafodwyd, cafwyd ystod o awgrymiadau o ran pa mor aml y dylid gofyn i ymarferwyr a busnesau ailgofrestru, yn ogystal ag awgrymiadau ar gyfer llunio prawf 'person addas a phriodol'. Cafwyd awgrymiadau penodol hefyd am yr hyn y dylid ei drafod mewn ymgynghoriadau mandadol a gynhelir cyn ac ar ôl y triniaethau.

256. Yn y Papur Gwyn, parhawyd â thrafodaethau am y dystiolaeth o niwed a achosir gan dyllu cosmetig, yn arbennig tyllu cosmetig mewn rhannau personol o gyrff pobl ifanc. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr wedi rhoi sylwadau ar y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â thyllu cosmetig yn gyffredinol, ac roedd nifer hefyd yn dadlau'n gryf dros wahardd tyllu cosmetig mewn rhannau personol o gyrff plant a phobl ifanc.

<u>Cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd yn well drwy fferylliaeth gymunedol (yn ymwneud â Rhan 5 o'r Bil - 'Gwasanaethau Fferyllol')</u>

257. Daeth 96 o ymatebion i law mewn cysylltiad â'r cynnig hwn. Roedd yr ymatebion yn cyfleu cefnogaeth fras i'r cynnig, a'r ymatebion yn cytuno'n gyffredinol y gallai fferyllfeydd cymunedol chwarae rhan fwy grymus wrth hyrwyddo ac amddiffyn iechyd fel rhan o rwydwaith o wasanaethau gofal iechyd lleol. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebion fod fferyllfeydd cymunedol yn lleol ac yn gyfleus i'r cyhoedd, gan gyfeirio hefyd at y gwasanaethau y mae fferyllfeydd cymunedol yn eu darparu ar hyn o bryd, sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn iechyd y cyhoedd.

258. Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr y gellid gwella'r modd y caiff gwasanaethau fferyllol eu cynllunio a'u darparu trwy gynnal asesiadau o anghenion fferyllol. Roedd y farn hon i'w gweld mewn ymatebion gan Fyrddau Iechyd Lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, contractwyr fferylliaeth, sefydliadau cynrychiadol a fferyllwyr unigol. Cafwyd nifer o awgrymiadau am sut i gynnal

asesiadau mewn modd cyson ac yn y modd mwyaf effeithiol, yn ogystal ag awgrymiadau am beth ddylai gael ei gynnwys mewn asesiad o anghenion fferyllol a pha mor aml y dylai'r asesiadau gael eu cynnal.

259. Roedd cwestiynau penodol yr ymgynghoriad yn trafod amrywiaeth o fanylion yn ymwneud â darparu gwasanaethau fferyllol mewn ardal. Er enghraifft, roeddent yn trafod materion megis gallu Byrddau Iechyd Lleol i wahodd fferyllfeydd ychwanegol i gael eu sefydlu er mwyn diwallu anghenion fferyllol a nodir yn lleol, a sicrhau bod sancsiynau ar gael i Fyrddau iechyd Lleol i gefnogi gwelliannau mewn ansawdd a chysondeb. Cafwyd cefnogaeth fras i'r elfennau hyn o'r cynnig, er bod pwyslais hefyd ar yr angen i unrhyw sancsiynau fod yn rhesymol ac yn gymesur.

260. Roedd yr amheuon cyffredinol a fynegwyd amlaf yn gysylltiedig â'r cynnig yn cyfeirio at yr angen i osgoi cymhlethdod diangen neu fiwrocratiaeth feichus.

Strategaethau awdurdodau lleol ar doiledau a ddarperir at ddefnydd y cyhoedd, a'u mynediad atynt (yn ymwneud â Rhan 6 o'r Bil - 'Darpariaeth toiledau')

261. Daeth 120 o ymatebion i law mewn cysylltiad â'r cynnig hwn. Roedd y mwyafrif yn ffafrio'r syniad o gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol yn y maes hwn, ac yn cyfeirio'n aml at yr angen i ddiogelu darpariaeth mewn cyfnod o gyni ariannol.

262. Roedd ymatebion gan sefydliadau iechyd, cynghorau cymuned, sefydliadau cynrychiadol ac aelodau o'r cyhoedd yn cyfleu cefnogaeth fras i'r cynigion. Cyfeiriodd nifer at yr effeithiau posibl ar iechyd yn sgil darpariaeth wael o ran toiledau cyhoeddus, a chyfeiriodd ymatebion gan sefydliadau cynrychiadol at effeithiau penodol y gall darpariaeth wael eu cael ar y grwpiau y maent yn eu cynrychioli.

263. Er bod ymatebion gan y sector llywodraeth leol yn cydnabod pwysigrwydd y mater, nid oedd y mwyafrif yn ffafrio'r syniad o osod dyletswydd i ddatblygu strategaeth ar y mater hwn, oherwydd pryderon am yr hinsawdd ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Ar y llaw arall, teimlai nifer o ymatebwyr na fyddai strategaeth gan awdurdodau lleol ar y mater hwn yn ddigon, gan awgrymu y dylai'r ddyletswydd a gynigir fynd ymhellach drwy fynnu bod cyfleusterau digonol yn cael eu darparu.

264. Ymysg materion eraill a godwyd, cafwyd sylwadau gan ymatebwyr ar yr angen i feddwl am atebion creadigol er mwyn sicrhau darpariaeth well, pwysigrwydd cynnwys cymunedau lleol mewn asesiadau o angen lleol ac effeithiolrwydd y Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus blaenorol.

**Ymgynghoriadau eraill**

Ymgynghoriad ar sut i wneud tyllu cosmetig yn fwy diogel i bobl ifanc

265. Yn dilyn ymrwymiad i ymgynghori ar sut i wneud tyllu cosmetig yn fwy diogel i bobl ifanc, cyhoeddwyd dogfen ymgynghori yn 2011.[116] Daeth 228 o ymatebion i law a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion.[117]

266. Yn sgil ystyriaeth a gwaith polisi ychwanegol, datblygwyd elfennau o'r cynnig blaenorol (megis y cynigion yn ymwneud ag ymgynghoriad safonol cyn pob triniaeth tyllu cosmetig), drwy'r cynnig ehangach ar gyfer Cofrestr Genedlaethol o Driniaethau Arbennig. Cynhaliwyd ymgynghoriad ynglŷn â hyn yn y Papur Gwyn dilynol ar Iechyd y Cyhoedd. Gwnaed hyn gan gydnabod bod y materion ehangach, megis gwell gwybodaeth, a threfn well ar gyfer rheoleiddio a gorfodi, yn berthnasol yn ehangach na'r diwydiant tyllu cosmetig yn unig.

267. I gydnabod y gefnogaeth barhaus a fynegwyd yn yr ymatebion i Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd i gyfyngiadau mewn cysylltiad â thyllu rhannau personol o gyrff plant a phobl ifanc, ymdrinnir â'r mater hwn ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

[116] http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/cosmetic/?skip=1&lang=cy
[117] http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/cosmetic/?skip=1&lang=cy

## 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

268. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r tabl ar y tudalennau nesaf yn nodi, mewn perthynas â phob un o ddarpariaethau'r Bil:

(i) Y person, neu'r corff, y rhoddir y pŵer iddo;

(ii) Ym mha ffordd y caiff y pŵer ei arfer;

(iii) Pa mor briodol yw'r pŵer dirprwyedig; a

(iv) Y weithdrefn a gymhwysir - hynny yw, a yw'r rheoliadau yn destun gweithdrefn "gadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam yr ystyrir mai'r weithdrefn honno, neu ddiffyg gweithdrefn, sy'n briodol.

269. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth pryd a phan yr ystyrir bod hynny'n briodol.

270. Pan fo'r Bil yn rhoi pwerau i is-ddeddfwriaeth ragnodi materion technegol y gallai eu manylion newid o bryd i'w gilydd, ystyrir mai'r weithdrefn negyddol sydd fwyaf priodol. Pan fo pŵer yn y Bil yn rhoi pŵer sylweddol i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau, pŵer i ddiwygio neu ddiddymu deddfiad sydd wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol neu roi baich ariannol ar y cyhoedd, ystyrir mai'r weithdrefn gadarnhaol sydd fwyaf priodol.

| Adran neu Atodlen y Bil | Rhoi pŵer i | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan 2 – Tybaco a chynhyrchion nicotin** | | | | | |
| **Pennod 1 – Ysmygu a defnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin** | | | | | |
| 2(2)(b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i esemptio dyfais, neu ddisgrifiad o ddyfais, a fyddai fel arall yn dod o fewn y diffiniad o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin at ddibenion Pennod 1. | Negyddol | Mae hwn yn bwnc technegol ac yn golygu esemptiad dyfeisiau o'r diffiniad o ddyfais mewnanadlu nicotin yn unig. Fel y mae, byddai arfer y pŵer ond yn dileu ymrwymiadau gan unigolion, ac nid yw felly'n gofyn am y cam diogelu ychwanegol a fyddai'n cael ei ddarparu gan y weithdrefn gadarnhaol. |
| 3(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu dyfeisiau ychwanegol sy'n galluogi rhywun i fewnanadlu sylwedd, neu ddisgrifiadau o ddyfeisiau, y bydd Pennod 1 yn gymwys iddynt (pa un a yw dyfeisiau o'r fath yn galluogi person i fewnanadlu nicotin ai peidio). Gall y rheoliadau wneud darpariaethau gwahanol mewn perthynas â gwahanol sylweddau neu ddisgrifiadau o sylweddau. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd yr amrywiaeth o ddyfeisiau y mae Pennod 1 yn gymwys iddynt yn cael ei hehangu – a allai o bosibl gael ei ystyried fel rhoi dyletswydd feichus ar aelodau'r cyhoedd – heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl.<br><br>Mae Adran 3(4) hefyd yn nodi mai dim ond os yw Gweinidogion Cymru'n fodlon y byddai hynny'n cyfrannu at hybu |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | iechyd pobl Cymru y caiff rheoliadau bennu dyfeisiau eraill y mae'r Bennod hon yn gymwys iddynt. |
| 6(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi dyletswydd ar unigolion penodedig sy'n rheoli neu sydd â rheolaeth dros fangreoedd neu gerbydau sy'n ddi-fwg yn rhinwedd reoliadau a wneir o dan adrannau 10 neu 12 i gymryd camau rhesymol i achosi i berson roi'r gorau i ysmygu yn y mannau hynny. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd yr amrywiaeth o bersonau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd o'r fath yn cael ei hehangu – a allai o bosibl gael ei ystyried fel rhoi dyletswydd feichus ar aelodau'r cyhoedd – heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl. |
| 7(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi dyletswydd ar unigolion penodedig sy'n rheoli neu sydd â rheolaeth dros fangreoedd neu gerbydau sy'n ddi-DMN yn rhinwedd reoliadau a wneir o dan adrannau 16 neu 17 i gymryd camau rhesymol i achosi i berson roi'r gorau i ddefnyddio dyfais mewnanadlu nicotin yn y mannau hynny. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd yr amrywiaeth o bersonau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd o'r fath yn cael ei hehangu – a allai o bosibl gael ei ystyried fel rhoi dyletswydd feichus ar aelodau'r cyhoedd – heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi unrhyw leoedd yng Nghymru, neu ddisgrifiad o leoedd yng Nghymru, yn rhai di-fwg drwy reoliadau. Nid oes rhaid i leoedd neu ddisgrifiad o leoedd o'r fath fod yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig.<br><br>Gall y rheoliadau hefyd ddarparu ar gyfer esemptiadau, gan gynnwys esemptiadau amodol. Gall yr esemptiadau amodol gynnwys amod yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am y fangre ddynodi ystafelloedd neu ardaloedd fel mannau lle caniateir ysmygu. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynlluniad na fydd mannau di-fwg ychwanegol yn cael eu hychwanegu – a allai o bosibl gael ei ystyried fel rhoi dyletswydd feichus ar aelodau'r cyhoedd – heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl.<br><br>Mae Adran 10(3) hefyd yn nodi bod y rheoliadau yn darparu am le neu ddisgrifiad o le i gael eu trin fel mangreoedd di-fwg dim ond os yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod gwneud hynny yn debygol o gyfrannu tuag at hyrwyddo iechyd pobl Cymru.<br><br>Mae Adran 11 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch arfer pŵer adran 10 i ddynodi anheddau fel mangreoedd di-fwg ychwanegol. Gellir ond dynodi anheddau fel mangreoedd di-fwg ychwanegol i'r graddau nad ydynt yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig, a dim ond os ydynt yn cael eu defnyddio fel man gwaith neu'n |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | agored i'r cyhoedd a dim ond pan fo plant yn bresennol. |
| 12(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi ym mha amgylchiadau y dylid ymdrin â cherbyd (ac eithrio llongau a hofrenfadau) fel cerbyd di-fwg. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd yr amgylchiadau pryd y bydd rhaid i gerbyd fod yn ddi-fwg yn cael eu penderfynu – a allai o bosibl gael ei ystyried fel rhoi dyletswydd feichus ar aelodau'r cyhoedd – heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl.<br><br>Hefyd, mae adran 12(2) yn nodi mai dim ond os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon bod hynny'n debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru y caiff y rheoliadau ddarparu ar gyfer ymdrin â cherbyd fel lle di-fwg.<br><br>Mae'r pŵer hefyd yn debyg i'r un yn adran 5 o Ddeddf Iechyd 2006, y mae'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys iddo. |
| 13(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i esemptio mangreoedd, neu | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fyddai mangreoedd neu rannau o fangreoedd i'w hesemptio o'r gofynion di-fwg yn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | fannau penodedig mewn mangreoedd, o'r gofynion di-fwg.<br><br>Gall y rheoliadau hefyd ddarparu ar gyfer esemptiadau amodol. Gall yr esemptiadau amodol gynnwys amod yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n gyfrifol am y fangre ddynodi ystafelloedd neu ardaloedd fel mannau lle caniateir ysmygu. | | cael eu penderfynu – a allai effeithio'n sylweddol ar weithrediad y darpariaethau hyn – heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl.<br><br>Mae'r pŵer hefyd yn debyg i'r un yn adran 3 o Ddeddf Iechyd 2006, y mae'r weithdrefn gadarnhaol yn berthnasol iddo. |
| 14(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu neu ddileu mangreoedd, neu amrywio'r disgrifiadau o fangreoedd ar y rhestr o fangreoedd di-DMN yn Atodlen 1. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fyddai unrhyw amrywiad i'r rhestr o fangreoedd di-DMN, boed drwy ychwanegu neu ddileu mangreoedd neu amrywio'r disgrifiad o fangreoedd presennol ar y rhestr yn cael ei benderfynu – a allai effeithio'n sylweddol ar weithrediad y darpariaethau hyn - heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl.<br><br>Hefyd, mae Adran 14(6) yn nodi y gellid dynodi mangreoedd fel rhai di-DMN dim ond os ydynt eisoes yn fangreoedd di-fwg drwy rinwedd y Bennod hon, a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | lle bo Gweinidogion Cymru'n fodlon bod gwneud y fangre yn ddi-DMN yn mynd i gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru. |
| 15(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau am unrhyw ystafell neu ardal o fewn mangreoedd a restrwyd yn Rhan 2 o'r Atodlen sydd wedi'i dynodi fel ardal nad yw'n ddi-DMN. Gall y darpariaethau bennu'r amodau y dylid eu bodloni er mwyn i'r ystafell neu ardal gael ei dynodi, gofyn am gofnod o'r dynodiad a'r amodau a fyddai'n golygu bod effaith y dynodiad yn dod i ben. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fyddai unrhyw amodau y mae'n rhaid i reolwyr mangreoedd sydd wedi'u rhestru yn Rhan 2 Atodlen 1 gydymffurfio â nhw er mwyn dynodi ystafelloedd neu ardaloedd yn eu mangreoedd fel rhai nad ydynt yn ddi-DMN – a allai effeithio'n sylweddol ar weithrediad y darpariaethau hyn – yn cael eu gosod heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl. |
| 16(7) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi'r amodau lle dylai cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus neu gludiant i'r ysgol (ac eithrio llongau a hofrenfadau) a fyddai'n ddi-DMN o ganlyniad i adran 16(1) gael ei drin fel un nad yw'n ddi-DMN. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fyddai cerbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus neu gludiant i'r ysgol yn cael eu hesemptio o'r gofynion i fod yn ddi-DMN – a allai effeithio'n sylweddol ar weithrediad y darpariaethau hyn – heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 17(1) | Gweindiogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi cerbydau ychwanegol (ac eithrio llongau a hofrenfadau) y dylid eu trin fel cerbydau di-DMN. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd penderfyniad ynghylch dynodi cerbydau ychwanegol fel rhai di-DMN – a allai o bosib gael ei weld fel rhoi dyletswydd feichus ar aelodau o'r cyhoedd – heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl. |
| 18(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi gofynion ar gyfer arddangos arwyddion di-fwg. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 18(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod dyletswydd ar unigolion sy'n meddiannu neu'n rheoli cerbydau di-fwg a mannau di-fwg ychwanegol, i arddangos arwyddion di-fwg. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fyddai'r amrywiaeth o bersonau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd o'r fath yn cael ei hehangu – a allai o bosibl gael ei ystyried fel rhoi dyletswydd feichus ar aelodau'r cyhoedd – heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl. |
| 19(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi gofynion ar gyfer | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | arddangos arwyddion di-DMN. | | bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 19(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod dyletswydd ar unigolion sy'n meddiannu neu'n rheoli cerbydau di-DMN sy'n cael eu defnyddio ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a chludiant i'r ysgol, a cherbydau di-DMN ychwanegol, i arddangos arwyddion di-DMN. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fyddai'r amrywiaeth o bersonau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd o'r fath yn cael ei hehangu – a allai o bosibl gael ei ystyried fel rhoi dyletswydd feichus ar aelodau'r cyhoedd – heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl. |
| 20(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu personau, neu ddisgrifiadau o bersonau, yn awdurdodau gorfodi (at ddibenion y Bennod hon). | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 30(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu beth yw ystyr "caeedig", "sylweddol gaeedig" a "heb fod yn gaeedig na'n sylweddol gaeedig" at ddibenion dynodi mangreoedd a gweithlefydd di-fwg a mannau | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd y diffiniadau hyn yn cael eu diwygio heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cyhoeddus di-DMN. | | |
| **Pennod 2 – Manwerthwyr Tybaco a chynhyrchion nicotin** | | | | | |
| 32(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu Awdurdod Cofrestru mewn cysylltiad â'r Gofrestr Manwerthwyr. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 33(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi manylion ffurf a chynnwys ceisiadau i gofrestru, a'r ffi gysylltiedig. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.<br><br>Hefyd, cyn gwneud rheoliadau dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried lle mae personau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y rheoliadau, ac ymgynghori â phersonau cynrychiadol y mae Gweinidogion Cymru yn ei |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | hystyried yn briodol ymgynghori â nhw. |
| 36(6) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod ffi i'w chodi o ran diwygio'r Gofrestr Manwerthwyr. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 38 | Gweindiogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweindiogion Cymru i esemptio busnesau penodol rhag darpariaethau Pennod 2 Rhan 2. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 39 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu y ffordd y mae Pennod 2 Rhan 2 yn gymwys i gerbydau a strwythurau eraill y gellid eu symud. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 52(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r diffiniad o 'gynnyrch | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynlluniad na fydd y diffiniad o 'gynnyrch nicotin' yn cael ei ddiwygio – a allai o bosibl gael ei |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | nicotin' mewn perthynas â'r gofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin. | | ystyried fel rhoi dyletswydd feichus ar fusnesau - heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl. |
| **Pennod 3 - Gwahardd gwerthu Tybaco a chynhyrchion nicotin** | | | | | |
| 53(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r diffiniad o 'drosedd tybaco neu nicotin' mewn perthynas â chyflwyno Gorchmynion Mangre o dan Gyfyngiad mewn rheoliadau. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynlluniad na fydd y diffiniad o 'drosedd tybaco neu nicotin' yn cael ei ehangu – a allai o bosibl gael ei ystyried fel rhoi dyletswydd feichus ar fusnesau - heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl.<br><br>Mae Adran 53(2) hefyd yn nodi y ceir pennu 'trosedd tybaco neu nicotin' gael ei nodi mewn rheoliadau dim ond os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon bod y drosedd yn un sy'n ymwneud â chyflenwi, gwerthu, cludo, arddangos, cynnig gwerthu, hysbysebu neu fod yn berchen ar gynhyrchion tybaco neu nicotin. Yn achos trosedd sydd ond yn destun treial diannod, gellir gosod cosb o swm sy'n gyfwerth â safon 4 ar y raddfa safonol, neu'n uwch. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Hefyd, cyn gwneud rheoliadau dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried lle mae personau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y rheoliadau, ac ymgynghori â phersonau cynrychiadol y mae Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn briodol ymgynghori â nhw. |
| **Pennod 4 – Rhoi tybaco etc. i bersonau o dan 18** | | | | | |
| Amherthnasol | | | | | |
| **Rhan 3 – Triniaethau Arbennig** | | | | | |
| 62(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ei bod yn ofynnol i unigolion sydd wedi eu hesemptio (aelodau o broffesiwn a nodir ym mharagraffau (a) i (ga) o adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002) gael trwydded triniaethau | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd modd i unigolion sydd wedi eu hesemptio gyflawni triniaethau arbennig penodedig heb drwydded ystyriaeth lawn a heb y cyfle ar gyfer dadl.<br><br>Yn ychwanegol at hyn, mae adran 62(5) yn rhoi manylion pellach mewn perthynas â'r |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | arbennig i roi triniaethau arbennig penodedig. | | rheoliadau hyn. |
| 62(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i esemptio unigolion nad ydynt yn aelodau o broffesiwn (fel y'u nodir ym mharagraffau (a) i (ga) o adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, ond sy'n aelodau o gofrestr gymhwyso, o'r gofyniad i weithredu dan awdurdod trwydded triniaethau arbennig. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y rhestr o ymarferwyr sydd wedi eu hesemptio ac na chânt eu rheoleiddio yn cael ei hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl.<br><br>Yn ychwanegol at hyn, mae adran 62(4) a 62(5) yn rhoi manylion pellach mewn perthynas â'r rheoliadau hyn. |
| 64(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ragnodi'r meini prawf trwyddedu y mae'n rhaid eu bodloni wrth wneud cais am drwydded triniaethau arbennig er mwyn i'r cais gael ei ganiatáu. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y meini prawf trwyddedu – y gellid ystyried eu bod yn rhoi dyletswydd feichus ar y rhai sy'n gwneud cais am drwydded triniaethau arbennig – yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl.<br><br>Hefyd, mae adran 66 yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn defnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, ymgynghori â phersonau y |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio. |
| 64(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi'r gofynion, cyn cyflwyno neu adnewyddu trwydded, y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu dilyn o ran arolygu'r mangreoedd neu'r cerbydau hynny a nodwyd mewn cais am drwydded. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y meini prawf trwyddedu – y gellid ystyried eu bod yn rhoi dyletswydd feichus ar awdurdodau lleol – yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl.<br><br>Hefyd, mae adran 66 yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn defnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, ymgynghori â phersonau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio. |
| 64(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gwahanol ddarpariaeth at wahanol ddibenion o ran y meini prawf trwyddedu. Mae hyn yn cynnwys darparu gwahanol ddisgrifiadau o fangreoedd a | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y meini prawf trwyddedu – y gellid ystyried eu bod yn rhoi dyletswydd feichus ar y rhai sy'n gwneud cais am drwydded triniaethau arbennig – yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cherbydau, gwahanol ddisgrifiadau o driniaethau arbennig a'r gwahanol amgylchiadau lle caiff triniaeth arbennig ei chyflawni. | | Hefyd, mae adran 66 yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn defnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, ymgynghori â phersonau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio. |
| 65(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ragnodi'r amodau trwyddedu mandadol a fydd yn gymwys i'r rhai sydd â thrwydded triniaethau arbennig. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd yr amodau trwyddedu mandadol – y gellid ystyried eu bod yn rhoi dyletswydd feichus ar y rhai hynny sydd â thrwydded triniaethau arbennig – yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl.<br><br>Hefyd, mae adran 66 yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn defnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, ymgynghori â phersonau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 65(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gwahanol ddarpariaeth at wahanol ddibenion o ran yr amodau trwyddedu mandadol. Mae hyn yn cynnwys darparu gwahanol ddisgrifiadau o fangreoedd a cherbydau, gwahanol ddisgrifiadau o driniaethau arbennig a'r gwahanol amgylchiadau lle caiff triniaeth arbennig ei chyflawni. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd yr amodau trwyddedu mandadol – y gellid ystyried eu bod yn rhoi dyletswydd feichus ar y rhai hynny sydd â thrwydded triniaethau arbennig - yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl.<br><br>Hefyd, mae adran 66 yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, cyn defnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau, ymgynghori â phersonau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai hynny sy'n debygol o gael eu heffeithio. |
| 68(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirpwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o droseddau perthnasol dan adran 68(3) drwy ychwanegu, amrywio neu ddileu disgrifiad o drosedd. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y rhestr o droseddau perthnasol – a allai o bosib atal ymgeisydd rhag gael trwydded i wneud triniaethau arbennig – yn cael ei hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl cyn ei hymestyn. |
| 71(8) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y rhestr o |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | galluogi Gweinidogion Cymru i esemptio mangreoedd neu gerbydau penodedig o'r gofyniad i gael cymeradwyaeth gan yr awdurdod lleol ac i esemptio person, mangre neu gerbyd sy'n gysylltiedig ag arddangosfa, adloniant neu ddigwyddiad arall, o'r gofyniad i gael cymeradwyaeth gan yr awdurdod lleol. | | fangreoedd a cherbydau sydd wedi'u heithrio yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl cyn ei hymestyn. |
| 72(3)(a) neu (c) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chymeradwyo mangreoedd a cherbydau mewn cysylltiad â chyflawni triniaeth arbennig.<br><br>Rhaid i'r rheoliadau bennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni a'r amodau cymeradwyo mandadol y mae'r gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddynt.<br><br>Rhaid iddynt hefyd wneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno apêl pe byddai cais yn cael ei wrthod. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y bydd y meini prawf sydd angen eu bodloni a'r amodau cymeradwyo mandadol y mae'r gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddynt yn cael eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle ar gyfer dadl. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 72(3)(b) neu (d) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weiniodgion Cymru wneud rheoliadau mewn perthnas â chymeradwyo mangreoedd a cherbydau mewn cysylltiad â chyflawni triniaeth arbennig.<br><br>Rhaid i'r rheoliadau bennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni a'r amgylchiadau ar gyfer cymeradwyo cais, a gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno apêl pe byddai cais yn cael ei wrthod. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 72(7) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth yn ymwneud â'r modd y mae'n rhaid gwneud ac ymdrin â cheisiadau am gymeradwyaeth ar gyfer mangreoedd neu gerbydau. Mae hyn yn cynnwys talu ffi, dan ba amgylchiadau nad oes modd caniatáu cais, neu dan ba amgylchiadau y ceir ei ganiatáu yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol a'r broses ar gyfer adnewyddu cymeradwyaeth neu amrywio | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cymeradwyaeth. | | |
| 72(8) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweindiogion Cymru i wneud darpariaeth yn ymwneud â'r ffordd y mae awdurdod lleol i bennu swm y ffi sy'n daladwy mewn perthynas â chais am gymeradwyaeth, a chanlyniadau methu â chydymffurfio â'r gofyniad i dalu ffi.<br><br>Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch sut y dylid gwneud rheoliadau dan adran 72(7). | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 72(9) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gwahanol ddarpariaethau at wahanol ddibenion yn ymwneud â chymeradwyo mangreoedd a cherbydau mewn cysylltiad â chyflawni triniaeth arbennig. Mae hyn yn cynnwys darparu gwahanol ddisgrifiadau o gerbydau neu fangreoedd, gwahanol ddisgrifiadau o | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | driniaethau arbennig a dan ba wahanol amgylchiadau y cyflawnir triniaeth arbennig.<br><br>Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch sut y dylid gwneud rheoliadau dan adran 72. | | |
| 73(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau pellach am ffurf a chynnwys tystysgrifau cymeradwyo. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 74(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau pellach am rybudd ynghylch terfynu cymeradwyaeth yn wirfoddol, gan gynnwys yr wybodaeth i'w chynnwys yn y rhybudd. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 78(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch y ffordd mae awdurdod lleol i | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | benderfynu ar ffioedd y dylai ymgeisydd dalu wrth wneud cais am drwydded ar gyfer triniaethau arbennig neu gymeradwyo mangre neu gerbyd. | | y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 78(5) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpaiaeth bellach ynghylch y ffioedd am drwydded ar gyfer triniaethau arbennig neu gymeradwyo mangre neu gerbyd. Gall hyn gynnwys y ffordd y mae'r ffi i'w thalu, ad-dalu ffi (neu gyfran ohoni) mewn achosion o or-dalu, ac adfer ffi sy'n ddyledus i awdurdod a heb ei thalu. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 95(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o driniaethau arbennig yn adran 59. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd y rhestr o driniaethau arbennig yn cael ei diwygio heb ystyriaeth lawn a heb gyfle ar gyfer dadl.<br><br>Hefyd, mae adran 95(3) yn nodi y dylid arfer y pŵer hwn dim ond os yw Gweinidogion Cymru o'r farn –<br>(a) bod modd cyflawni'r driniaeth at ddibenion esthetig neu at |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddibenion sy'n therapiwtig ym marn Gweinidogion Cymru, a<br>(b) bod modd achosi niwed i iechyd dynol os caiff ei chyflawni at y dibenion hynny<br><br>Ar ben hynny, mae adran 95(4) yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau sy'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n debyg o gael eu heffeithio cyn arfer y pŵer hwn i wneud rheoliadau. |
| 96(1) a (3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r diffiniad o "tyllu'r corff" trwy ddisgrifio gwrthrychau y gellir eu gosod, mewnblannu neu dynnu o gorff unigolyn. Hefyd, gellir rhagnodi gwrthrych neu ddisgrifiad o wrthrych drwy gyfeirio (ymysg pethau eraill) at y rhan o'r corff lle mae'r twll i gael ei roi. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd y diffiniad o "tyllu'r corff" yn cael ei ddiwygio heb ystyriaeth lawn a heb gyfle ar gyfer dadl. |
| **Rhan 4 – Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff** | | | | | |
| Amherthnasol | | | | | |

| Rhan 5 – Gwasanaethau fferyllol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 110<br>Yn mewnosod adran 82A(3) yn Neddf GIG (Cymru) 2006 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi pryd a sut y dylai Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) gyhoeddi asesiad o anghenion fferyllol. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 110<br>Yn mewnosod adran 82A(4) yn Neddf GIG (Cymru) 2006 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau ychwanegol o ran paratoi, cyhoeddi, adolygu a diwygio asesiadau. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| 111(3)<br>Yn mewnosod adran 83 (2A) yn Neddf GIG (Cymru) 2006 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer i wneud rheoliadau wedi ei leoli yn adran 83 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio'r pŵer hwnnw i wneud rheoliadau.<br><br>Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu personau neu ddisgrifiadau o bersonau na chaniateir eu cynnwys ar restr fferyllol. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.<br><br>Mae'r weithdrefn hon wedi ei lleoli yn adran 203 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. |
| 111(3) | Gweinidogion | Rheoliadau | Mae'r pŵer i wneud rheoliadau | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn mewnosod adran 83(2C) yn Neddf GIG (Cymru) 2006 | Cymru | | wedi ei leoli yn adran 83 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio'r pŵer hwnnw i wneud rheoliadau.<br><br>Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynglŷn â'r weithdrefn y dylai BILl ei dilyn, a materion y dylent eu hystyried, wrth benderfynu a ddylid caniatáu cais i ymuno â'u rhestr fferyllol ai peidio. | | gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.<br><br>Mae'r weithdrefn hon wedi ei lleoli yn adran 203 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. |
| 111(4)<br>Yn mewnosod adran 83 (3A) yn Neddf GIG (Cymru) 2006 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer i wneud rheoliadau wedi ei leoli yn adran 83 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio'r pŵer hwnnw i wneud rheoliadau.<br><br>Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi dan ba amgylchiadau y ceir neu y mae'n rhaid ystyried dau neu fwy o geisiadau i restr fferyllol BILl gyda'i gilydd. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.<br><br>Mae'r weithdrefn hon wedi ei lleoli yn adran 203 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. |
| 111(5)<br>Yn diwygio | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer i wneud rheoliadau wedi ei leoli yn adran 83 o | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| adran 83(4) o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 | | | Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio'r pŵer hwnnw i wneud rheoliadau.<br><br>Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth i BILl roi ystyriaeth i faterion rhagnodedig wrth ystyried dau neu fwy o geisiadau gyda'i gilydd. | | deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.<br><br>Mae'r weithdrefn hon wedi ei lleoli yn adran 203 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. |
| 111(6)<br>Yn mewnosod adran 83 (4A) yn Neddf GIG (Cymru) 2006 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer i wneud rheoliadau wedi ei leoli yn adran 83 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio'r pŵer hwnnw i wneud rheoliadau.<br><br>Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu'r modd y cymhwysir adran 83(5). | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.<br><br>Mae'r weithdrefn hon wedi ei lleoli yn adran 203 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. |
| 111(7)(a)<br>Yn mewnosod adran 83(6) (za) yn Neddf GIG (Cymru) 2006 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer i wneud rheoliadau wedi ei leoli yn adran 83 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio'r pŵer hwnnw i wneud rheoliadau. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau pryd y caiff BILl wahodd ceisiadau i gael eu cynnwys ar eu rhestr fferyllol. | | gilydd.<br><br>Mae'r weithdrefn hon wedi ei lleoli yn adran 203 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. |
| 111(7)(b)<br>Yn mewnosod adran 83(6)(g) yn Neddf GIG (Cymru) 2006 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer i wneud rheoliadau wedi ei leoli yn adran 83 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio'r pŵer hwnnw i wneud rheoliadau.<br><br>Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth i BILl ddileu person neu gofnod yn ymwneud â mangre o'u rhestr fferyllol mewn perthynas â thorri telerau gwasanaeth. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.<br><br>Mae'r weithdrefn hon wedi ei lleoli yn adran 203 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. |
| 111(8)<br>Yn mewnosod adran 83 (10A) yn Neddf GIG (Cymru) 2006 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer i wneud rheoliadau wedi ei leoli yn adran 83 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio'r pŵer hwnnw i wneud rheoliadau.<br><br>Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i BILl roi rhesymau am benderfyniadau a wneir o dan adran 83 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. | | Mae'r weithdrefn hon wedi ei lleoli yn adran 203 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. |
| 111(10)<br>Yn mewnosod adran 84 (4) yn Neddf GIG (Cymru) 2006 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer i wneud rheoliadau wedi ei leoli yn adran 83 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio'r pŵer hwnnw i wneud rheoliadau.<br><br>Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth i BILl roi rhybudd o'u bwriad i ddileu person neu fangre o'u rhestr fferyllol, ac i ddarparu ar gyfer yr hawl i gyflwyno sylwadau. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd.<br><br>Mae'r weithdrefn hon wedi ei lleoli yn adran 203 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. |
| **Rhan 6 – Darparu toiledau** | | | | | |
| Amherthnasol | | | | | |
| **Rhan 7 – Cyffredinol** | | | | | |
| 124(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig, drosiannol neu arbed fel y maent yn credu sy'n briodol | Negyddol neu Gadarnhaol | Mae'r pŵer hwn yn ofynnol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau canlyniadol, cysylltiedig, trosiannol neu arbed fel y maent yn credu sy'n angenrheidiol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | yng nghyswllt y Bil. | | neu'n hwylus at ddibenion neu ar gyfer rhoi effaith lawn i unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil, neu o ganlyniad i wneud hynny.<br><br>Os yw'r rheoliadau'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru yna maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Os yw'r rheoliadau'n gwneud unrhyw ddarpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig, drosiannol neu arbed arall, bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. |
| 125(2) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Caiff Gweinidogion Cymru benodi drwy orchymyn y bydd darpariaethau eraill (nad ydynt wedi eu rhestru yn adran 125(1)) yn dod i rym ar y dyddiad (neu'r dyddiadau) a nodir yn y gorchymyn. | Dim gweithdrefn yn berthnasol i orchymyn cychwyn | Caiff y gorchmynion hyn eu cyfyngu i rai cychwyn ac maent yn dechnegol eu natur. |
| **Atodlen 2 – Hysbysiadau Cosb Benodedig** | | | | | |
| Paragraff 5 | Gweinidogion | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru | | dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ragnodi ym mha ffurf y mae rhaid i Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer troseddau penodedig o dan y Bil fod. (Ysmygu neu ddefnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn mangre neu gerbyd di-fwg; methu ag atal ysmygu neu ddefnyddio dyfais mewnanadlu nicotin mewn mangre di-fwg; a methu â hysbysu am newidiadau penodol i'r gofrestr manwerthwyr cynhyrchion tybaco neu nicotin, neu ddarparu gwybodaeth yn ymwneud â hi, yw'r troseddau hynny.) | | gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| Paragraff 6 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ragnodi'r swm a bennir ar gyfer Hysbysiadau Cosb Benodedig o dan y Bil. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd y swm a bennir ar gyfer Hysbysiadau Cosb Benodedig – y gellid ystyried ei fod yn rhoi dyletswydd feichus ar aelodau'r cyhoedd a/neu y gallai o bosibl roi rhwymedigaethau ariannol i aelodau'r cyhoedd – yn cael ei benderfynu heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Paragraff 9 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ragnodi'r swm gostyngol mewn perthynas â Hysbysiadau Cosb Benodedig o dan y Bil. | Cadarnhaol | Darparu sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad na fydd y swm gostyngol a bennir ar gyfer Hysbysiadau Cosb Benodedig – sy'n rhoi baich ariannol ar aelodau'r cyhoedd – yn cael ei benderfynu heb ystyriaeth lawn a'r cyfle ar gyfer dadl. |
| **Atodlen 3 – Ysmygu a dyfeisiau mewnanadlu nicotin: diwygiadau canlyniadol** | | | | | |
| Paragraff 17 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn cadw pŵer cyfredol Gweinidogion Cymru i ragnodi ffurf yr Hysbysiad Cosb Benodedig a gaiff ei gyhoeddi gan awdurdod pwysau a mesur lleol am y drosedd o dan adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 ('Prynu Tybaco a Chynhyrchion Nicotin ac ati ar ran personau dan 18 oed') | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. |
| **Atodlen 4 – Darpariaeth ychwanegol mewn cysylltiad â thrwyddedau triniaethau arbennig** | | | | | |
| Paragraff 4(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynglŷn â'r | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ffordd y bydd yr awdurdod lleol yn pennu swm y ffi i'w dalu gyda chais am drwydded triniaethau arbennig a gwneud darpariaethau pellach ynghylch ceisiadau, gan gynnwys y ffordd y awdurdod lleol yn ymdrin â'r cais. Bydd y rheoliadau hyn yn ychwanegol at y manylion a ddarperir yn Atodlen 4, paragraffau 1, 2, 3 a 4. | | Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| Paragraff 5(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynglŷn â ffurf a chynnwys trwyddedau triniaethau arbennig. Bydd y rheoliadau hyn yn ychwanegol at y manylion a ddarperir yn Atodlen 4, paragraffau 5(1) a 5(2). | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol/gweinyddol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| Paragraff 21(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Addas ar gyfer pwerau dirprwyedig gan fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynglŷn â'r triniaethau sy'n gymwys i bwyllgor trwyddedu awdurdod lleol a'i is-bwyllgorau. | Negyddol | Mae'r pwnc dan sylw yn gymharol fach yn y cynllun deddfwriaeth cyffredinol ac yn bwnc technegol. Hefyd, efallai y bydd angen diweddaru cynnwys y darpariaethau hyn o bryd i'w gilydd. |
| **Atodlen 5 – Darparu toiledau: diwygiadau canlyniadol**<br>Amherthnasol | | | | | |

**Is-ddeddfwriaeth arall**

| Adran neu Atodlen y Bil | Rhoi pŵer i | Ffurf | Pŵer |
|---|---|---|---|
| **Rhan 6 – Darparu toiledau** | | | |
| 112(8) | Gweinidogion Cymru | Canllawiau | Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch y materion y dylent eu hystyried wrth baratoi neu adolygu eu strategaeth toiledau lleol. |
| 113(5) | Gweinidogion Cymru | Canllawiau | Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch y materion y dylent eu hystyried wrth baratoi datganiad cynnydd interim. |
| 116(1) | Cynghorau sir, bwrdeistref sirol a chymuned | Is-ddeddfau | Gall cynghorau sir, bwrdeistref sirol a chymuned wneud is-ddeddfau ynghylch ymddygiad personau sy'n defnyddio'r toiledau cyhoeddus y maent yn eu darparu. |

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

271. Cwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi), ac mae'n dilyn yn adran 7.

272. Mae asesiad o'r gystadleuaeth ac asesiadau penodol o effaith wedi'u cynnwys yn adran 8.

273. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

# Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## 7. Opsiynau, costau a manteision

274. Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol hwn wedi ei strwythuro o amgylch pob elfen polisi o Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) i'w gwneud yn rhwyddach cyfeirio atynt. Mae'n cyflwyno cyfres o opsiynau ar gyfer pob un ohonynt, ac yna'r costau a'r manteision. Mae tablau crynodeb yn dangos y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â phob opsiwn a ffefrir yn Atodiad B.

275. Paratowyd y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn trwy ddefnyddio'r wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd. Paratowyd y wybodaeth hon trwy drafod â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac asiantaethau eraill. Mae'r costau a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â phob opsiwn wedi eu hasesu dros gyfnod o bum mlynedd o 2016/17, a defnyddiwyd cyfnod hwy mewn rhai achosion. Pan ddisgwylir i gostau ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o bum mlynedd (h.y. costau rheolaidd) maent wedi eu nodi yn y testun.

276. Er eglurder a chysondeb, mae'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi eu talgrynnu i'r £100 agosaf. Mae'r ffigurau trwy'r ddogfen gyfan yn rhai blynyddol ledled Cymru, oni nodir yn wahanol. Bydd Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn cael eu paratoi ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil ar yr adeg briodol, ac o ganlyniad, nid yw'r costau ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth wedi eu cynnwys.

277. Trwy gydol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, lle y ceir ansicrwydd, defnyddiwyd dull gofalus o asesu costau. Mae hyn yn debygol o olygu y gallai'r gwir gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r ddeddfwriaeth mewn sawl maes fod yn is. Mae hefyd yn debygol y bydd modd arbed mwy o arian os caiff agweddau penodol ar y gwaith gweithredu ei gydgysylltu mewn gwahanol feysydd o'r Bil, er enghraifft os caiff sesiynau hyfforddi eu cyfuno ar gyfer nifer o bolisïau cysylltiedig. Hefyd, gallai unrhyw ostyngiad yn nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn y dyfodol arwain at arbed mwy o arian.

278. Mae'r bennod nesaf wedi ei strwythuro yn ôl y meysydd canlynol:-

- Tybaco a chynhyrchion nicotin
    - Cyfyngiadau ar y defnydd o sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus penodol;
    - Cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin;
    - Rhoi tybaco etc. i bersonau o dan 18.
- Triniaethau arbennig;
- Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff;
- Gwasanaethau fferyllol y GIG, a
- Darparu toiledau.

279. Nid oes asesiad llawn wedi'i gynnwys mewn perthynas â darpariaethau amrywiol yn Rhan 7 y Bil gan fod y darpariaethau hyn yn gwneud mân newid gweinyddol yn unig i ddefnydd derbyniadau hysbysiad cosb benodedig am droseddau sy'n ymwneud â sgôr hylendid bwyd.

## Tybaco a chynhyrchion nicotin (Rhan 2)

280. Yn yr adran hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, dim ond ar gyfer yr elfennau hynny yn y Bil sy'n cyflwyno newidiadau i'r sefyllfa bresennol y darperir costau a manteision. Er enghraifft, ni ddarperir asesiad ond ar gyfer y cyfyngiadau newydd ar ddefnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin. Ni ddarperir asesiad pan fo gofynion sydd eisoes yn bodoli yn cael eu hailddatgan, gan na ddisgwylir i hyn gyflwyno unrhyw gostau na manteision ychwanegol. Er hwylustod, teitl yr adran hon o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw 'Cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus penodol' gan fod y term 'e-sigaréts' yn gyfarwydd i gynulleidfa ehangach na'r term 'dyfeisiau mewnanadlu nicotin'.

281. Yn yr un modd, ni chynhwysir unrhyw asesiad ar wahân ar gyfer Rhan 2, Pennod 3 o'r Bil, sy'n ymdrin â gweithrediad cyffredinol gorchmynion mangreoedd o dan gyfyngiad. Mae'r manylion hyn yn yr adran berthnasol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n ymdrin â'r gofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin.

## Cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus penodol (Rhan 2, Pennod 1)

### Opsiynau

282. Ystyriwyd pedwar opsiwn:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim;
- Opsiwn 2 – Cyhoeddi canllawiau anstatudol i fusnesau ar gyfyngu'r defnydd o e-sigaréts yn eu mangreoedd;
- Opsiwn 3 – Deddfwriaeth i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts ym mhob man cyhoeddus a gweithleoedd caeedig neu sylweddol gaeedig; ac
- Opsiwn 4 – Deddfwriaeth i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus penodol. Hwn yw'r opsiwn a ffefrir.

### Opsiwn 1: Gwneud dim

### Disgrifiad

283. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau. Mae rhai mangreoedd yng Nghymru eisoes wedi cyflwyno cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts yn eu safleoedd dan do. Gallai mangreoedd eraill ddymuno gwneud yr un peth, a rhai eraill ddim. Ni fyddai timau gorfodi awdurdodau lleol yn gorfodi polisïau gwirfoddol hyn i wahardd e-sigaréts, ond gallent ddarparu cyngor ar ddatblygu polisi ar gais perchnogion busnes.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

284. Ni fyddai unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru pe byddai'r opsiwn hwn yn cael ei ddewis.

Awdurdodau Lleol

285. Byddai costau i awdurdodau lleol am ddarparu cyngor ar y defnydd o e-sigaréts i fusnesau yn eu mangreoedd yn parhau. Ar hyn o bryd, mae busnesau yn mynd at awdurdodau lleol i gael cyngor ar: ba un a ganiateir defnyddio e-sigaréts y tu mewn i'w mangreoedd dan y gofynion di-fwg presennol; materion gorfodi o ran gwahaniaethu rhwng e-sigaréts a rhai confensiynol; a sut y gallant barhau i fodloni eu gofyniad i atal ysmygu yn eu mangreoedd. Gofynnir iddynt hefyd am gyngor ar ba un a ddylent ehangu eu polisïau di-fwg i gynnwys e-sigaréts a sut i wneud hynny, ac maent yn derbyn ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd. Fe allai'r ymholiadau hyn barhau dan Opsiwn 1 a gallent gynyddu pe byddai nifer y defnyddwyr e-sigaréts yn cynyddu.

286. Ar hyn o bryd, nid yw awdurdodau lleol yn cofnodi faint o ymholiadau o'r fath a dderbynnir. Fodd bynnag, mae ychydig o awdurdodau lleol wedi gallu rhoi syniad o'r amser a gymerir i ymdrin â hwy. O ganlyniad, gwnaed tybiaeth geidwadol bod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi derbyn oddeutu tri ymholiad yn 2013/14 gan fusnesau ynglŷn â'r defnydd o e-sigaréts yn eu mangreoedd, a bod oddeutu 30 munud wedi ei dreulio yn ymdrin â phob ymholiad. Cymerwyd hefyd bod pob awdurdod lleol wedi derbyn tri ymholiad oddi wrth aelodau o'r cyhoedd yn 2013/14 ynglŷn â defnyddio e-sigaréts dan do, ac y treuliwyd oddeutu 10 munud i ymdrin â phob un ohonynt. Ar gost o £26.40 yr awr[118], amcangyfrifir mai oddeutu £1,200 oedd cost ymholiadau a wnaed i dimau gorfodi awdurdodau lleol yn 2013/14 ynglŷn â defnydd y cyhoedd o e-sigaréts. Gan dybio y bydd y defnydd o e-sigaréts yn parhau i gynyddu, mae'n debygol y byddai awdurdodau lleol hefyd yn derbyn mwy o ymholiadau bob blwyddyn gan fod y busnesau hyn yn cydnabod bod arnynt angen cyngor ar ba un a ganiateir, neu a ddylid caniatáu defnyddio e-sigaréts yn eu mangreoedd. Amcangyfrifir y bydd y gost yn cynyddu o £1,200 yn 2016/17 i £2,700 yn 2020/21.

Mannau cyhoeddus a gweithleoedd

287. Gallai mannau cyhoeddus a gweithleoedd wynebu costau os ydynt yn dewis gweithredu canllawiau gwirfoddol ar ddefnyddio e-sigaréts yn eu mangreoedd. Er enghraifft, mae ASH wedi paratoi canllawiau i fusnesau ar ddatblygu agwedd sefydliadol at ddefnyddio e-sigaréts yn y fangre[119]. Nid ydym yn gwybod faint o sefydliadau sy'n defnyddio'r canllawiau hyn ac felly nid yw'r costau hyn wedi eu mesur.

[118] Arolwg Blynyddol o Oriau a Chyflogau 2014 (canlyniadau dros dro). Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y diwydiant e-sigaréts

288. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i'r diwydiant e-sigaréts pe byddai'r opsiwn hwn yn cael ei ddewis.

Iechyd

289. Gallai fod costau i iechyd yn sgil dod i gysylltiad ag anwedd e-sigaréts pobl eraill. Mae astudiaethau wedi awgrymu bod y defnydd o e-sigaréts mewn ystafelloedd dan do yn amharu ar ansawdd yr aer, er i raddau llawer llai na sigaréts confensiynol. Mewn adolygiad o e-sigaréts ar gyfer cyfnodolyn 'Addiction', mae'r awduron yn awgrymu nad yw aerosolau e-sigaréts yn cynnwys y rhan fwyaf o'r cemegau sydd mewn mwg tybaco ond bod defnyddwyr yn anadlu allan nicotin a rhai gronynnau eraill, sef blasau, cludwyr aromâu, glyserol a phropylen glycol yn bennaf. Canfu'r adolygiad hefyd nad oes unrhyw astudiaeth hirdymor wedi ei chynnal hyd yn hyn, ond bod lefelau'r llygryddion yn llawer is na'r rhai o sigaréts a'u bod yn debygol o achosi risg lawer is o'u cymharu â sigaréts.[120] Daeth adolygiad systematig gan Farsalinos a Polosa o ddiogelwch e-sigaréts fel rhywbeth i ddisodli sigaréts tybaco i'r un casgliad.[121] Daeth adroddiad Public Health England, 'E-cigarettes: an evidence update',[122] a oedd yn edrych ar nicotin yn aer yr amgylchedd, i'r casgliad bod e-sigaréts yn rhyddhau lefelau dibwys o nicotin i aer yr amgylchedd a nodwyd dim risg i iechyd y bobl sydd o gwmpas.

290. Fodd bynnag, mae rhai astudiaethau'n awgrymu y gallai gronynnau o aerosol e-sigaréts gael eu gadael yn ddwfn yn yr ysgyfaint a chyfiawnhau pryderon ynglŷn ag iechyd[123]. Mae astudiaeth gan wyddonwyr amgylcheddol yn awgrymu ei bod yn bosibl bod pobl sy'n mewnanadlu anwedd e-sigaréts pobl eraill yn agored i risg mewn mannau caeedig â system awyru gyfyngedig pe byddai'r holl allyriadau o'r e-sigaréts yn cael eu hanadlu allan[124]. Byddai'r costau posibl hyn i iechyd yn parhau dan Opsiwn 1 mewn mangreoedd sy'n caniatáu i bobl ddefnyddio e-sigaréts dan do. Fodd bynnag, ni ellir mesur y costau hyn oherwydd nad oes data cyfredol ar gael ar effaith hirdymor mewnanadlu anwedd e-sigaréts pobl eraill.

*Tabl 7.1: Crynodeb o'r Costau ar gyfer Opsiwn 1*

| **Sector** | **Blwyddyn** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |

[120] Electronic cigarettes: review of use, content, safety, effects on smokers and potential for harm and benefit. Hajek et al. 2014. Addiction, 109, 1801–1810 doi:10.1111/add.12659
[121] Safety evaluation and risk assessment of electronic cigarettes as tobacco cigarette substitutes: a systematic review. Farsalinos a Polosa. Therapeutic Advances in Drug Safety. Ebrill 2014; 5(2): 67–86. doi: 10.1177/2042098614524430 http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4110871/
[122] 'E-cigarettes: an evidence update' Adroddiad a gomisiynwyd gan Public Health England. McNeill A, Brose LS, Calder R, Hitchman SC, Hajek P, McRobbie H. Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/457102/Ecigarettes_an_evidence_update_A_report_commissioned_by_Public_Health_England_FINAL.pdf
[123] Electronic Cigarettes – An Overview – Atodiad Mawrth 2014. Cyfrol 19. German Cancer Research Center, Heidelberg. DKFZ. Red Series Tobacco Prevention and Tobacco Control
[124] McFiggans et al 2014 http://www.slideshare.net/neilmclaren/1150-harrison-and-mc-figgans

| | £ | £ | £ | £ | £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol** | | | | | |
| Rhoi cyngor* | 1,200 | 1,500 | 1,900 | 2,300 | 2,700 |
| **Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol** | **1,200** | **1,500** | **1,900** | **2,300** | **2,700** |
| **Cyfanswm y costau** | **1,200** | **1,500** | **1,900** | **2,300** | **2,700** |

***Yn seiliedig** ar dybiaeth y gwelir cynnydd cronnus o flwyddyn i flwyddyn o 1 ymholiad busnes ac 1 ymholiad gan y cyhoedd fesul awdurdod lleol y flwyddyn.

**Manteision**

Iechyd

291. Trwy gadw'r sefyllfa bresennol, byddai defnyddwyr e-sigaréts yn cael parhau i'w defnyddio mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd (oni bai bod polisi gwirfoddol o wahardd e-sigaréts yn bodoli), a gallai hyn fod o fudd i ymdrechion rhoi'r gorau i ysmygu neu beidio. Tystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael hyd yn hyn o ba un a yw e-sigaréts yn gymorth i roi'r gorau i ysmygu. Er enghraifft, mae un astudiaeth wedi awgrymu y gallai e-sigaréts gael effaith gymedrol o ran helpu ysmygwyr i roi'r gorau iddi, gyda'r gyfradd sy'n rhoi'r gorau'n llwyr tua'r un fath ag ymhlith ysmygwyr sy'n defnyddio patsys nicotin[125]. Canfu astudiaeth arall o 5,863 o ysmygwyr fod pobl sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmygu heb gymorth proffesiynol 60% yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi llwyddo os ydynt yn defnyddio e-sigaréts nag os ydynt yn defnyddio ewyllys yn unig neu therapïau disodli nicotin[126] sydd ar gael dros y cownter, a chanfu astudiaeth o Fflandrys o 48 o ysmygwyr tybaco a oedd yn anfodlon rhoi'r gorau i ysmygu ac nad oeddent wedi defnyddio e-sigarét o'r blaen bod e-sigaréts ail genhedlaeth yn hynod effeithiol ar unwaith i leihau'r chwant am sigarét a achosir gan ymwrthod, a symptomau diddyfnu.[127]

292. Rhoddir agwedd fwy cyffredinol mewn Adolygiad gan Cochrane[128], a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014, o 13 o astudiaethau cyflawn. Canfu y gellir gweld

[125] Electronic cigarettes for smoking cessation: a randomised controlled trial. Christopher Bullen, Colin Howe, Murray Laugesen, Hayden McRobbie, Varsha Parag, Jonathan Williman, Natalie Walker. www.thelancet.com Cyhoeddwyd Ar-lein Medi 7, 2013 http://dx.doi.org/10.1016/S0140-6736(13)61842-5

[126] Brown J, Beard E, Kotz D, Michie S, a West R (2014) Real-world effectiveness of e-cigarettes when used to aid smoking cessation: A cross-sectional population study. Addiction 109: doi: 10.1111/add.12623. http://www.addictionjournal.org/press-releases/e-cigarette-use-for-quitting-smoking-is-associated-with-improved-success-rates-

[127] Effectiveness of the Electronic Cigarette: An Eight-week Flemish Study with Six-month Follow-up on Smoking Reduction, Craving and Experienced Benefits and Complaints. Adriaens et al (2014). Int. J. Environ. Res. Public Health 2014, 11(11), 11220-11248; doi:10.3390 http://www.mdpi.com/1660-4601/11/11/11220/htm

[128] Electronic cigarettes for smoking cessation and reduction (Review). 2014. The Cochrane Collaboration. Cyhoeddwyd gan by John Wiley & Sons, Ltd. Ar gael yn: http://www.cochrane.org/features/new-cochrane-evidence-shows-electronic-cigarettes-facilitate-smoking-cessation

barn arbenigol sy'n cydnabod buddiannau posibl i iechyd wrth i ysmygwyr newid i e-sigaréts, ond bod ansawdd y dystiolaeth yn isel at ei gilydd oherwydd ei bod wedi ei seilio ar nifer fechan yn unig o astudiaethau a bod angen mwy o astudiaethau o e-sigaréts. Mae awduron adroddiad Public Health England 2015 yn cydnabod nad yw'n glir a yw cynnyrch e-sigaréts presennol yn fwy neu'n llai effeithiol na meddyginiaethau trwyddedig i roi'r gorau i ysmygu. Maent yn awgrymu bod e-sigaréts llawer mwy poblogaidd na meddyginiaethau trwyddedig a'u bod yn darparu cyfle i ehangu nifer y smygwyr sy'n rhoi'r gorau i ysmygu yn llwyddiannus. Fodd bynnag, daeth astudiaeth a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016[129], a oedd â'r bwriad o asesu'r berthynas rhwng defnyddio e-sigaréts a rhoi'r gorau i ysmygu ymysg oedolion sy'n ysmygu sigaréts, i'r casgliad bod e-sigaréts fel y cânt eu defnyddio ar hyn o bryd yn ymwneud â llawer llai o smygwyr yn rhoi'r gorau i ysmygu. Mae adroddiad Public Health England 2015[130] [131] a'r astudiaeth 2016 hon[132] wedi'u beirniadu ac mae awduron yr astudiaeth wedi ymateb o ganlyniad i hyn[133] [134]

293. Ni cheir unrhyw dystiolaeth i ddangos na fyddai'r manteision hyn yn cronni dan Opsiwn 2, 3 a 4 yn ogystal, gan nad oes yr un o'r opsiynau hyn yn awgrymu y dylid gwahardd e-sigaréts yn llwyr.

Mannau cyhoeddus a gweithleoedd

294. Gallai pobl a oedd yn ysmygu tybaco ac sy'n newid i e-sigaréts gymryd llai o seibiannau ysmygu neu rai byrrach os caniateir iddynt ddefnyddio e-sigarét y tu mewn i'w gweithle. Amcangyfrifwyd mewn adroddiad gan ASH Cymru 2013[135] bod seibiannau ysmygu yn costio £41 miliwn y flwyddyn i economi Cymru. Ni ellir mesur faint o'r costau hyn y gellid eu lleihau trwy i ysmygwyr newid i ddefnyddio e-sigaréts, oherwydd diffyg tystiolaeth.

295. Dywedodd ychydig dros un o bob deg (14%) o'r gweithleoedd hynny a ymatebodd i arolwg Llywodraeth Cymru o bolisïau e-sigaréts yn y gweithle ac a nododd nad oedd ganddynt bolisi e-sigaréts, mai'r rheswm dros hynny oedd oherwydd eu bod yn cefnogi'r defnydd o e-sigaréts er mwyn rhoi'r gorau i ysmygu (o restr o atebion a gynigiwyd).

---

[129] E-cigarettes and smoking cessation in real-world and clinical settings: a systematic review and meta-analysis. Sara Kalkhoran, MD, Prof Stanton A Glantz, PhD. Published Online: 14 January 2016. DOI: http://dx.doi.org/10.1016/S2213-2600(15)00521-4. Abstract available at: http://www.thelancet.com/pdfs/journals/lanres/PIIS2213-2600(15)00521-4.pdf

[130] E-cigarettes: Public Health England's evidence-based confusion. The Lancet. Volume 386, No. 9996, p829, 29 August 2015 http://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(15)00042-2/fulltext

[131] Evidence about electronic cigarettes: a foundation built on rock or sand? BMJ 2015;351:h4863. http://www.bmj.com/content/351/bmj.h4863

[132] http://www.sciencemediacentre.org/expert-reaction-to-meta-analysis-looking-at-e-cigarette-use-and-smoking-cessation/

[133] E-cigarettes: the need for clear communication on relative risks. Ann McNeill et al. www.theLancet.com. Vol 386. September 26, 2015.

[134] http://tobacco.ucsf.edu/our-new-meta-analysis-entire-relevant-literature-shows-e-cigarettes-used-are-associated-less-not-more-quit#comment-17171

[135] The economic cost of smoking to Wales: a review of existing evidence. Dr Aimee Grant. ASH Cymru a Sefydliad Prydeinig y Galon. 2013.

296. Fodd bynnag, mae sawl sefydliad eisoes wedi mabwysiadu polisi ar e-sigaréts[136][137][138], ac o ganlyniad, byddai unrhyw fudd a geir o lai o seibiannau neu rai byrrach yn cael ei gyfyngu i sefydliadau sydd heb bolisi ar hyn o bryd i atal gweithwyr rhag defnyddio e-sigaréts dan do. Yn ogystal, deellir, yn anecdotaidd, fod rhai defnyddwyr e-sigaréts eisoes yn 'camu y tu allan' yn wirfoddol i ddefnyddio e-sigaréts fel cwrteisi i eraill neu o ran arfer oherwydd y gwaharddiad ar ysmygu. Gallai hyn gyfyngu ymhellach ar faint y fantais hon.

297. Awgrymodd rhai ymatebwyr i Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru fantais arall, sef y gall y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus normaleiddio ymddygiadau gwrth ysmygu, ac atgyfnerthu'r neges ei bod hi'n beth da rhoi'r gorau i ysmygu, ac o ganlyniad, annog pobl i roi'r gorau i ysmygu[139]. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i awgrymu bod yr effeithiau hyn yn digwydd.

### Opsiwn 2: Cyhoeddi canllawiau ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau dan do

### Disgrifiad

298. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn dosbarthu canllawiau anstatudol i fusnesau ynglŷn â chyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts yn eu mangreoedd. Ni fyddai timau gorfodi awdurdodau lleol yn gorfodi'r polisïau gwirfoddol hyn ynglŷn â gwahardd e-sigaréts, ond byddai disgwyl iddynt roi cyngor i fusnesau unigol ar roi'r canllawiau ar waith.

### Costau

Llywodraeth Cymru

299. Byddai Llywodraeth Cymru'n wynebu costau ynghlwm wrth baratoi a dosbarthu'r canllawiau gwirfoddol. Amcangyfrifir mai oddeutu £7,500 fyddai costau'r staff i baratoi'r canllawiau (ar sail 6,000 o eiriau), gan gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid i sicrhau bod yr arweiniad yn addas i'r diben, yn seiliedig ar oddeutu pum wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn (£4,600) i ddatblygu'r canllawiau, a pum wythnos o amser swyddog Cymorth Tîm cyfwerth ag amser llawn ar gyfer cymorth gweinyddol (oddeutu £2,900).[140]

---

[136] Llywodraeth Cymru. Polisïau E-sigaréts: arolwg o weithleoedd yng Nghymru. 2014. http://gov.wales/statistics-and-research/e-cigarette-policies-surveys-schools-workplaces/?skip=1&lang=cy

[137] Llywodraeth Cymru. Polisïau E-sigaréts: arolwg o weithleoedd yng Nghymru. 2014. http://gov.wales/statistics-and-research/e-cigarette-policies-surveys-schools-workplaces/?skip=1&lang=cy

[138] Ymchwil i Bolisïau ar E-sigaréts yn y Sector Lletygarwch Annibynnol. CIEH Cymru. Tachwedd 2014. Heb ei gyhoeddi.

[139] http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/white-paper/?lang=cy

[140] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff Llywodraeth Cymru

300. Y bwriad fyddai darparu fersiynau electronig o'r canllawiau a chynhyrchu nifer fechan o fersiynau papur ohonynt. Disgwylir y byddai fersiynau wedi'u hargraffu'n costio oddeutu £900. Gellid sicrhau bod y canllawiau ar gael ar wefan Business Link a'u bod yn cael eu dosbarthu trwy'r Safon Iechyd Corfforaethol a Gwobr Iechyd y Gweithle Bach, yn ogystal â thrwy Rwydwaith Cymru o Gynlluniau Ysgolion Iach a'r Cynllun Cyn ysgol Iach a Chynaliadwy.

301. Disgwylir y byddai'r gwaith dylunio a chysodi'n cymryd 1 wythnos o amser 0.5 Swyddog Gweithredol cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n costio oddeutu £300. Amcangyfrifir y byddai'r gwaith cyfieithu a phrawfddarllen yn costio oddeutu £600[141]. Cyfanswm y gost o ddatblygu, dylunio, cyfieithu ac argraffu'r canllawiau felly fyddai £9,300. Byddai Llywodraeth Cymru'n wynebu'r holl gostau hyn yn 2016/17.

302. Yn ogystal â chostau staff ar gyfer datblygu'r canllawiau, byddai peth gwaith i staff hefyd ar ôl cyhoeddi'r canllawiau, er enghraifft sicrhau bod y canllawiau'n cael eu diweddaru a'u bod yn parhau'n berthnasol. Rhagwelir y byddai oddeutu 0.1 Swyddog Gweithredol cyfwerth ag amser llawn yn cael ei neilltuo ar gyfer cefnogi'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn gyntaf, gan leihau i 0.05 Swyddog Gweithredol cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y blynyddoedd canlynol. Byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £3,000 yn 2016/17, a'r gost yn gostwng i £1,500 y flwyddyn o 2017/18 ymlaen.

303. Byddai'r canllawiau'n cael eu diweddaru bob tair blynedd. Disgwylir y byddai hyn yn cymryd oddeutu 1 wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn. Byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £900. Byddai'r costau dylunio a chyfieithu yn hanner y costau gwreiddiol, sef cyfanswm o £500. Ni fyddai unrhyw gostau argraffu ar gyfer yr adolygiad gan mai dim ond ar ffurf electronig y byddai'n cael ei gynhyrchu. Byddai hyn yn golygu mai oddeutu £1,400 fyddai cyfanswm y gost ar gyfer pob adolygiad, a hynny bob tair blynedd. Byddai'r adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal yn 2019/20.

304. Byddai angen cynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer swyddogion gorfodi awdurdodau lleol i ategu'r canllawiau, a rhagwelir y byddai'r rhain yn cael eu trefnu gan dimau gorfodi'r awdurdodau lleol. Byddai Llywodraeth Cymru'n talu'r costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r hyfforddiant. Byddai pob sesiwn yn parhau am oddeutu hanner diwrnod, a rhagwelir y byddai dwy sesiwn yn cael eu cynnal – un yn y gogledd ac un yn y de. Byddai'r sesiynau hyn yn costio oddeutu £2,000, ar sail cost llogi ystafell a darparu lluniaeth i 35 o bobl ar gyfer pob sesiwn (£1,200)[142], yn ogystal â chostau posibl ar gyfer hyfforddwyr allanol i gynnal y sesiynau (£800). Fodd bynnag, gellid lleihau'r costau hyn pe byddai'r hyfforddiant yn cael ei gyfuno â phynciau eraill perthnasol. Byddai'r gost untro hon yn daladwy yn 2016/17.

305. Gallai'r gwaith o ddatblygu, paratoi ac adolygu'r canllawiau gael ei roi i gorff allanol (awdurdod lleol, er enghraifft), ond byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i dalu'r costau.

[141] Yn seiliedig ar £75 fesul 1,000 o eiriau ar gyfer y cyfieithu a £21 fesul 1,000 o eiriau ar gyfer y prawfddarllen

[142] Yn seiliedig ar gostau sesiynau hyfforddi tebyg a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru.

Awdurdodau lleol

306. Byddai timau gorfodi awdurdodau lleol yn wynebu peth costau staff, gan gynnwys helpu i ddatblygu'r canllawiau a'r sesiynau hyfforddi ar y dechrau. Pan fydd y canllawiau wedi eu cyhoeddi, bydd costau i'r timau gorfodi yn sgil ymgysylltu â staff mangreoedd er mwyn eu hannog i roi camau gweithredu o'r canllawiau ar waith. Byddai'r canllawiau felly yn effeithio ar lwyth gwaith timau gorfodi awdurdodau lleol. Byddai hyn yn hanfodol oherwydd natur wirfoddol y canllawiau, gan y byddai'n rhaid i'r mangreoedd ddewis ei fabwysiadu.

307. Yn ogystal, efallai y byddai'n rhaid i'r timau gorfodi ymdrin ag ymholiadau a chefnogi mangreoedd i weithredu'r canllawiau. Rhagwelir y byddai angen mwy o gefnogaeth yn ystod y 12 mis cyntaf ar ôl cyhoeddi'r canllawiau ond y byddai'n llai wedyn ar gyfer y blynyddoedd dilynol. Amcangyfrifir y byddai'r gost yn gyfwerth â 0.05 swyddog gorfodi cyfwerth ag amser llawn fesul awdurdod lleol, ac wedyn yn gostwng i 0.025 cyfwerth ag amser llawn fesul awdurdod lleol. Byddai hyn yn cyfateb i gyfanswm o oddeutu £50,300 yn 2016/17, ac yn gostwng i £25,100 y flwyddyn o 2017/18 ymlaen[143].

308. Byddai costau i'r awdurdodau lleol yn sgil anfon swyddogion gorfodi ar sesiynau hyfforddi ar y canllawiau. Amcangyfrifir y byddai hyn yn costio oddeutu £9,200[144] yn 2016/17.

309. Ni fyddai'r costau hyn yn cael eu cynnwys yn y gyllideb a ddarparwyd i'r awdurdodau lleol pan ddaeth Deddf Iechyd 2006 i rym, a hynny oherwydd bod Opsiwn 2 yn swyddogaeth ychwanegol at y gyfundrefn ddi-fwg.

Mannau cyhoeddus a gweithleoedd

310. Byddai'r canllawiau'n berthnasol i bob man cyhoeddus a gweithle yng Nghymru, ac felly mae'r costau i fangreoedd sy'n dewis eu defnyddio wedi eu cynnwys yma. Rhagwelir y byddai mangreoedd sy'n eiddo i'r cyhoedd, megis amgueddfeydd, adeiladau cynghorau, ysbytai a weithredir gan Fyrddau Iechyd Lleol ac ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yn gweithredu unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Ceir 490 o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru (ac eithrio ysgolion), sy'n cyflogi 315,000 o bobl[145]. Byddai angen i bob sefydliad y sector cyhoeddus roi ystyriaeth i'r canllawiau, datblygu polisi ar e-sigaréts, ei drafod mewn pwyllgorau a/neu ar fyrddau perthnasol a chydag undebau perthnasol, a rhoi gwybod i'w staff am y polisi. Yn seiliedig ar y ffaith y byddai hyn yn cymryd pedair awr ar gyfradd o £15.17 yr awr[146,147] oddeutu £29,700 fyddai'r gost i'r sector cyhoeddus am roi ystyriaeth lawn i'r canllawiau.

---

[143] Yn seiliedig ar y ffaith y byddai costau'n cael eu dyblygu ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru

[144] Yn seiliedig ar 5 awr ar gyfradd o £26.40 yr awr (i gynnwys y sesiwn hyfforddi hanner diwrnod ac amser teithio) i 70 o swyddogion gorfodi

[145] Dadansoddiad o faint busnesau. Llywodraeth Cymru. 23 Hydref 2014. http://gov.wales/statistics-and-research/size-analysis-welsh-business/skip=1&lang=cy

[146] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (HR and Industrial relations officers). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425

[147] Mae cyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% i gynnwys argostau.

311. Er hyn, yn ôl yr arolwg gweithleoedd gan Lywodraeth Cymru ar bolisïau e-sigaréts, mae 62% o'r sefydliadau sector cyhoeddus hynny a ymatebodd eisoes wedi sefydlu polisi ar e-sigaréts neu yn y broses o sefydlu un[148]. Ystyrir y byddai'n cymryd llai o amser i sefydliadau gyflwyno'r canllawiau os oes polisi ganddynt eisoes. Byddai angen i sefydliadau o'r fath adolygu'r canllawiau; diweddaru eu polisïau yn ôl y gofyn; trafod y polisi diwygiedig mewn pwyllgorau a/neu ar fyrddau perthnasol; trafod ag undebau perthnasol; a rhoi gwybod i'r staff am y polisi diwygiedig. Yn seiliedig ar y ffaith y byddai hyn yn cymryd oddeutu dwy awr ar gyfradd o £15.17 yr awr, £30.34 fyddai'r gost i bob sefydliad sector cyhoeddus sydd eisoes wedi sefydlu polisi ar y defnydd o e-sigaréts yn eu mangreoedd. Amcangyfrifir felly mai oddeutu £20,500 fyddai'r gost i'r sector cyhoeddus o weithredu canllawiau gwirfoddol Llywodraeth Cymru yn 2016/17.[149]

312. Byddai canllawiau Llywodraeth Cymru'n cael eu diweddaru bob tair blynedd. Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag adolygu diweddariad i'r canllawiau yn ychwanegol o dan Opsiwn 2, dim ond ymhlith y sefydliadau hynny nad ydynt eisoes wedi sefydlu polisi ar e-sigaréts (oherwydd y byddai'r rhai hynny sydd â pholisi eisoes yn wynebu costau adolygiad polisi o dan Opsiwn 1). Amcangyfrifir mai oddeutu £5,600 fyddai'r gost i'r sefydliadau sector cyhoeddus am adolygu'r canllawiau a ddiweddarwyd, gwneud y diwygiadau angenrheidiol a'u hailddosbarthu i'r staff yn 2019/20. Mae hyn wedi ei seilio ar gynnal adolygiad mewn 186 o sefydliadau cyhoeddus a'r gwaith adolygu yn cymryd dwy awr i bob sefydliad, ar gyfradd o £15.17 yr awr.

313. Ceir 1,333 o ysgolion cynradd a gynhelir gan y wladwriaeth a 207 o ysgolion uwchradd a gynhelir gan y wladwriaeth yng Nghymru. Byddai angen i bob ysgol sicrhau bod yr unigolyn arweiniol perthnasol yn ystyried y canllawiau, a thrafod y polisi ar lefel gweithgor, yn ogystal â gyda llywodraethwyr yr ysgol, undebau a chynghorau ysgol. Amcangyfrifir y byddai hyn yn cymryd dwy awr ar gyfartaledd i bob ysgol (llai na lleoliadau cyhoeddus eraill gan y byddai cydgysylltwyr lleol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn darparu cymorth yn seiliedig ar brofiad mewn ysgolion eraill), ar gyfradd o £29.37 yr awr[150,151]. Oddeutu £90,400 fyddai cyfanswm y gost i ysgolion yng Nghymru yn 2016/17 am roi ystyriaeth lawn i'r canllawiau.

314. Fodd bynnag, yn ôl arolwg gan Lywodraeth Cymru o bolisïau e-sigaréts mewn ysgolion yng Nghymru[152], roedd oddeutu tri chwarter yr ysgolion uwchradd (74%) a

---

[148] Ymatebodd 294 o weithleoedd i'r arolwg, o'r 1507 a wahoddwyd. Er bod llai nag un y cant o gyflogwyr Cymru yn sefydliadau sector cyhoeddus, daeth 45% o'r ymatebion hyn gan weithleoedd sector cyhoeddus.

[149] Yn seiliedig ar 62% o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn ystyried y canllawiau yn ôl eu polisïau presennol am gost o £9,200, a 38% o'r sefydliadau sector cyhoeddus yn creu polisi newydd wedi ei seilio ar y canllawiau am gost o £11,300.

[150] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (Teaching and educational professionals). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425

[151] Mae cyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% i gynnwys argostau

[152] Llywodraeth Cymru. Polisïau E-sigaréts: arolwg o ysgolion yng Nghymru. 2014 http://gov.wales/statistics-and-research/e-cigarette-policies-surveys-schools-workplaces/?skip=1&lang=cy

thraean yr ysgolion cynradd (34%) a ymatebodd[153] wedi sefydlu polisi e-sigaréts neu roeddynt yn y broses o lunio un. Mae Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ystyried y defnydd o e-sigaréts yn eu safleoedd[154]. O ganlyniad, mae'r angen am unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru mewn ysgolion uwchradd yn debygol o fod yn gymharol isel (oddeutu 26%), ond gallai fod yn uwch ymysg ysgolion cynradd (oddeutu 66%). O ganlyniad, amcangyfrifir mai oddeutu £54,900[155] fyddai cost gweithredu Opsiwn 2 yn 2016/17 i ysgolion sydd heb bolisi cyfredol ar y defnydd o e-sigaréts.

315. Byddai angen camau tebyg ymysg ysgolion sydd eisoes wedi sefydlu polisïau ar e-sigaréts. Amcangyfrifir y byddai hyn yn cymryd oddeutu 1.5 awr ar gyfradd o £29.37 yr awr, sy'n cyfateb i gyfanswm o £26,700 yn 2016/17. Amcangyfrifir felly mai cyfanswm y gost i ysgolion yn 2016/17 fyddai £81,600.

316. Byddai canllawiau Llywodraeth Cymru'n cael eu diweddaru bob tair blynedd. Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag adolygu diweddariad i'r canllawiau yn ychwanegol o dan Opsiwn 2 dim ond ymhlith yr ysgolion hynny nad ydynt eisoes wedi sefydlu polisi ar e-sigaréts (oherwydd y byddai'r rhai hynny sydd â pholisi eisoes yn wynebu costau adolygiad polisi o dan Opsiwn 1). Amcangyfrifir mai oddeutu £41,100 fyddai'r gost i ysgolion yn 2019/20 am adolygu'r canllawiau a ddiweddarwyd, gwneud y diwygiadau angenrheidiol a thrafod mewn fforymau perthnasol. Mae hyn yn seiliedig ar gynnal adolygiad mewn 880 o ysgolion cynradd a 54 o ysgolion uwchradd, gyda'r adolygiad yn cymryd 1.5 awr i bob ysgol, ar gyfradd o £29.37 yr awr.

317. Yn y sector preifat, byddai angen i bob busnes ystyried a ddylai fabwysiadu'r canllawiau. Amcangyfrifir y ceir 231,100 o fentrau sector preifat yng Nghymru, sy'n cyflogi amcangyfrif o 1.06 miliwn o bobl. Busnesau bach neu ganolig yw 99.3% o'r sector preifat yng Nghymru.[156] Amcangyfrifir, yn achos cyflogwyr mawr (rhai sydd â 250+ o weithwyr), y byddai angen i bob cwmni:- ystyried y canllawiau ac asesu pa mor berthnasol ydynt i'w mangreoedd (uwch reolwyr fyddai'n gwneud hyn, yn ôl pob tebyg); penderfynu a ydynt am eu mabwysiadu (amcangyfrifwyd y byddai'n cymryd dwy awr ar gyfradd o £30.07 yr awr[157,158]), a datblygu polisi ar e-sigaréts a rhoi gwybod i'r staff am y polisi (amcangyfrifwyd y byddai'n cymryd oddeutu dwy awr ar

[153] Ymatebodd 31% o'r ysgolion uwchradd a 13% o'r ysgolion cynradd yng Nghymru i arolwg Llywodraeth Cymru.
[154] Mae dros 99 y cant o'r ysgolion a gynhelir yn cymryd rhan yn y Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru ac ar 31 Mawrth 2015 roedd 78 ysgol wedi derbyn y Wobr Ansawdd Genedlaethol, a asesir yn annibynnol ar ôl cymryd rhan am 9 mlynedd.
[155] Ceir 1,333 o ysgolion cynradd a 207 o ysgolion uwchradd yng Nghymru. Trwy ddefnyddio canlyniadau arolwg Llywodraeth Cymru o bolisïau e-sigaréts mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, amcangyfrifwyd y byddai oddeutu 66% o'r ysgolion cynradd (880 ysgol) a 26% o'r ysgolion uwchradd (54 ysgol) yn mabwysiadu'r canllawiau. Nid yw'r cyrifiadau yn cynnwys ysgolion arbennig nac annibynnol. Rhoddir cyfrif am ysgolion annibynnol yng nghyfrifiadau'r sector preifat.
[156] Dadansoddiad o faint busnesau. Llywodraeth Cymru. 23 Hydref 2014.
[157] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (Chief executive and senior officials). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425
[158] Mae cyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% i gynnwys argostau

gyfradd o £21.55 yr awr[159,160]). Pe byddai pob un o'r 1,618 o'r cyflogwyr mawr yn mabwysiadu'r canllawiau, oddeutu £167,000 fyddai cyfanswm y gost untro. Yn achos busnesau bach a chanolig, amcangyfrifir y byddai angen dwy awr i ystyried a gweithredu'r canllawiau, ar gyfradd o £20.49 yr awr[161]. Pe byddai'r pob un o'r 229,482 o fusnesau bach a chanolig yn mabwysiadu'r canllawiau, £9,404,200 fyddai cyfanswm y gost untro. Byddai hyn yn dod i gyfanswm o £9,571,200.

318. Fodd bynnag, tybiwyd ei bod yn annhebygol y byddai angen i bob un o'r 231,100 o fentrau sector preifat gynnal ystyriaeth lawn o'r canllawiau. Mae rhai eisoes wedi cymryd camau gwirfoddol (nododd 89% o'r cyflogwyr mawr a 47% o'r busnesau bach a chanolig a ymatebodd i'r arolwg gweithleoedd gan Lywodraeth Cymru bod ganddynt bolisi yn gwahardd y defnydd o e-sigaréts yn y safle neu eu bod yn bwriadu sefydlu un[162]). Dywedodd 18% o'r gweithleoedd hynny a ymatebodd i arolwg Llywodraeth Cymru ar bolisi e-sigaréts ac nad oedd ganddynt bolisi neu nad oeddynt yn y broses o ddatblygu un, wrth ddewis o blith rhestr o atebion, fod hyn oherwydd nad oeddent wedi cael amser i ddatblygu un eto. Amcangyfrifir felly y gallai'r ganran uchaf i fabwysiadu'r canllawiau yn y sector preifat gael ei chyfyngu i'r 18% hwn, ac amcangyfrifir y byddai hynny'n costio oddeutu £900,500[163] yn 2016/17.

319. Gallai busnesau'r sector preifat sydd wedi sefydlu polisi hefyd ddewis adolygu eu polisïau yn ôl y canllawiau. Amcangyfrifir y byddai hyn yn cymryd oddeutu hanner yr amser a gymerir i gynnal adolygiad llawn o'r canllawiau ac y byddai'n costio £74,300 i gyflogwyr mawr, a £2,210,000[164] i fusnesau bach a chanolig.

320. Cyfanswm y gost i'r sector preifat ar gyfer mabwysiadu'r canllawiau newydd ac unrhyw adolygiad o'r canllawiau presennol felly yw £3,184,000 yn 2016/17.

321. Byddai canllawiau Llywodraeth Cymru'n cael eu diweddaru bob tair blynedd. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig ag adolygu diweddariad i'r canllawiau ond yn ychwanegol o dan Opsiwn 2 ymhlith y busnesau preifat hynny nad ydynt eisoes wedi sefydlu polisi e-sigarét (oherwydd y byddai'r rhai hynny â pholisi eisoes yn wynebu costau adolygu'r polisi o dan Opsiwn 1). Amcangyfrifir bod y gost i'r sector preifat yn sgil adolygu'r canllawiau a ddiweddarwyd, gwneud diwygiadau angenrheidiol a thrafod mewn fforymau perthnasol oddeutu hanner cost adolygiad llawn. Uchafswm cost yr adolygiad hwn i'r sector breifat fyddai oddeutu £450,200 yn 2019/20.

---

[159] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (Corporate Managers). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425

[160] Mae cyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% i gynnwys argostau

[161] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (Managers, directors & senior officials). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425

[162] Ymatebodd 294 o weithleoedd i arolwg Llywodraeth Cymru. Roedd 81 o'r rhain yn weithloedd mawr (oddeutu 20% o'r gweithleoedd mawr yng Nghymru) a 213 yn fusnesau bach a chanolig (llai nag 1% o'r busnesau bach a chanolig)

[163] Yn seiliedig ar yr arolwg gweithleoedd, tybiwyd nad oes polisi gan 53% o fusnesau bach a chanolig ac 11% o gyflogwyr mawr. Rydym wedi amcangyfrif bod 18% o fusnesau preifat heb bolisi presennol ar e-sigaréts yn gyfartal i oddeutu 21,893 o fusnesau bach a chanolig ar gost o £40.98/busnes bach a chanolig a 3 chyflogwr mawr ar gost o £103.24/cyflogwr mawr

[164] Rydym yn amcangyfrif bod hyn yn gyfartal i oddeutu 107,857 o fusnesau bach a chanolig ar gost o £20.49/busnes bach a chanolig a 1,440 o gyflogwyr mawr ar gost o £51.62/cyflogwr mawr

322. Mae'r dystiolaeth gyfredol sydd ar gael ynglŷn â gweithredu polisïau e-sigaréts yng Nghymru yn gyfyngedig a nod arolwg Llywodraeth Cymru oedd cyfrannu mwy o wybodaeth. Cydnabyddir bod yr arolwg yn cynnwys rhai cyfyngiadau, gan gynnwys y ffaith iddo gael ei gynnal ar-lein a'r potensial ar gyfer tueddiad hunanddewis yn y data a dderbyniwyd. Gan nad oes data arall ar gael, defnyddiwyd arolwg hwn trwy'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

323. Fodd bynnag, cynhaliodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru (CIEH) arolwg o'r sector lletygarwch annibynnol, a chanfod bod niferoedd tebyg i'r hyn a ganfuwyd yn arolwg gweithleoedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi sefydlu polisïau ar e-sigaréts[165]. Cynhaliwyd arolwg CIEH trwy gynnal cyfweliad strwythuredig ynglŷn â pholisïau a'r defnydd o e-sigaréts mewn busnesau. Cafodd 200 o fusnesau yn y sector lletygarwch yng Nghymru eu cynnwys yn yr arolwg trwy gyfweliad personol neu ar y ffôn. Roedd nifer y busnesau a gyfwelwyd ym mhob awdurdod lleol yn seiliedig ar ddwyster y boblogaeth mewn gwahanol ardaloedd daearyddol. Ar ôl dewis busnes ar hap a sefydlu nad oeddynt yn cymryd rhan yn y Safon Iechyd Corfforaethol neu'r Wobr Gweithleoedd Bach, cysylltwyd â hwy i fod yn rhan o'r astudiaeth. O'r 200 o fusnesau annibynnol bychain a gymerodd ran yn yr arolwg[166], roedd gan 49.5% bolisi ar y defnydd o e-sigaréts (26%), neu roeddent wedi sefydlu gweithdrefnau a oedd yn gyfystyr â pholisi ar reoli e-sigaréts (23.5%). Yn ogystal, roedd 6% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn y broses o ddatblygu polisi.

324. Gallai seibiannau e-sigaréts olygu costau i fusnesau, ond dim ond pan fo'r rhain yn ychwanegol at seibiannau sydd eisoes yn cael eu cymryd gan ysmygwyr i ysmygu eu cynhyrchion tybaco. Archwilir y costau hyn yn llawn dan Opsiwn 3.

325. Amcangyfrifir bod uchafswm cost seibiannau e-sigaréts o dan Opsiwn 2 rhwng £885,200 a £1,436,600 y flwyddyn. Mae pen isaf yr amrediad wedi ei seilio ar gost seibiannau e-sigaréts ychwanegol mewn sefydliadau sector cyhoeddus (lle y disgwylir i 100% o'r safleoedd fabwysiadu'r canllawiau) a gyfrifir yn Opsiwn 3 a dim un sefydliad yn y sector preifat yn mabwysiadu'r canllawiau. Mae pen uchaf yr amrediad wedi ei seilio ar 18% o uchafswm cost seibiannau e-sigaréts ychwanegol yn y sector preifat a gyfrifir yn Opsiwn 3 (h.y. uchafswm o 18% yn mabwysiadu'r canllawiau ymhlith busnesau preifat nad oes ganddynt bolisi ar hyn o bryd); amcangyfrifir bod hyn yn dod i £551,400, yn ogystal â'r gost i'r sefydliadau sector cyhoeddus.

Y diwydiant e-sigaréts

326. Nid yw'n fwriad i gyfyngiadau gwirfoddol o'r fath effeithio ar nifer y bobl sy'n defnyddio e-sigaréts, ond cydnabyddir y gallent effeithio ar y defnydd o e-sigaréts, gan olygu bod llai o e-sigaréts yn cael eu gwerthu yng Nghymru. Archwilir yn llawn yr effaith y byddai cyfyngiadau ar eu defnydd yn ei chael ar werthiannau e-sigaréts dan

[165] Ymchwil i Bolisïau E-sigaréts yn y Sector Lletygarwch Annibynnol. Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru. Tachwedd 2014. Heb ei gyhoeddi.
[166] Roedd y 200 o safleoedd annibynnol a arolygwyd gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru yn cynnwys: 42 o westai; 42 gwely a brecwast; 42 o dafarndai; 41 o fwytai a 33 caffi

Opsiwn 3. Amcangyfrifir y byddai'r effaith ar y diwydiant e-sigaréts o dan Opsiwn 2 rhwng £0 a £198,500 y flwyddyn.

327. Mae pen uchaf yr amrediad hwn wedi ei seilio ar y canlynol:

- Mae'r farchnad ar gyfer e-sigaréts yng Nghymru wedi ei phriodoli i'r boblogaeth sy'n gweithio yn unig gan yr ystyrir y byddai cyfyngiadau gwirfoddol ar ddefnyddio e-sigaréts yn effeithio'n fwy rheolaidd arnynt;

- Yn 2013, roedd y boblogaeth sy'n gweithio yng Nghymru yn 1.387 miliwn; gyda 331,000 yn gweithio yn y sector cyhoeddus (24% o'r boblogaeth sy'n gweithio) a 1,058,000 yn gweithio yn y sector preifat (76% o'r boblogaeth sy'n gweithio);

- Amcangyfrifir felly mai £2,156,600 yw gwerth y farchnad e-sigaréts ymhlith gweithwyr y sector cyhoeddus, a £6,829,400 ymhlith gweithwyr y sector preifat;

- Mae pen isaf yr amrediad yn seiliedig ar 38% yn ychwanegol o sefydliadau cyhoeddus[167] a 0% o fusnesau preifat[168] yn mabwysiadu'r canllawiau;

- Mae pen uchaf yr amrediad yn seiliedig ar 38% yn ychwanegol o sefydliadau cyhoeddus a 18% o fusnesau preifat nad ydynt eisoes wedi sefydlu polisi, yn mabwysiadu'r canllawiau; ac,

- Mae'r amcangyfrifon a amlinellir o dan Opsiwn 3 ar faint y farchnad e-sigaréts yng Nghymru a'r ganran debygol o ddefnyddwyr e-sigaréts a fyddai'n gadael y farchnad ar ôl cyflwyno cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts hefyd yn berthnasol.

*Tabl 7.2*

| **Gostyngiad yn y farchnad (£8.986 miliwn)** | **Amrediad** | |
|---|---|---|
| | **Cyfyngiadau ychwanegol mewn 38% o sefydliadau cyhoeddus a 0% o fusnesau preifat £** | **Cyfyngiadau ychwanegol mewn 38% o sefydliadau cyhoeddus a 18% o fusnesau preifat nad ydynt eisoes wedi sefydlu polisi £** |
| Effaith fwyaf: 15% o | 122,900 | 198,500 |

[167] Yn ôl arolwg gweithleoedd Llywodraeth Cymru ar bolisïau e-sigaréts, mae 62% o'r sefydliadau sector cyhoeddus a ymatebodd eisoes wedi sefydlu polisi e-sigaréts, neu maent wrthi'n datblygu un.
[168] Dywedodd 18% o'r gweithleoedd a ymatebodd i arolwg Llywodraeth Cymru ar bolisïau e-sigaréts ac nad oedd ganddynt bolisi neu nad oeddynt wrthi'n datblygu un, mai'r rheswm am hyn oedd nad oeddynt wedi cael amser i ddatblygu un eto.

| | | |
|---|---|---|
| ddefnyddwyr e-sigaréts yn gadael y farchnad* | | |

*Gweler Opsiwn 3 am gyfeiriadau ac eglurhad pellach

328. Fel yn achos Opsiwn 3, ystyrir na fyddai unrhyw effaith ar werthiant yn digwydd ar unwaith ar ôl i safleoedd weithredu canllawiau Llywodraeth Cymru. Pe byddai'n digwydd, byddai'n fwy tebygol o ddigwydd dros gyfnod o amser. Mae unrhyw ostyngiad yn y farchnad yn debygol o fod yn barhaol ac felly mae wedi ei gyfrifo fel cost flynyddol.

Iechyd

329. Gallai fod costau i iechyd trwy i bobl ddod i gysylltiad ag anwedd e-sigaréts pobl eraill mewn mangreoedd sy'n dewis peidio â mabwysiadu'r canllawiau gwirfoddol. Amlinellwyd y rhain o dan Opsiwn 1.

330. Byddai'r costau posibl hyn i iechyd yn parhau o dan Opsiwn 2 mewn mangreoedd sy'n caniatáu i bobl ddefnyddio e-sigaréts dan do, ond byddent yn llai nag wrth gadw'r sefyllfa bresennol fel yn Opsiwn 1. Fodd bynnag, ni ellir mesur y costau posibl hyn oherwydd nad oes data cyfredol ar gael ar effaith hirdymor mewnanadlu anwedd e-sigaréts pobl eraill.

*Tabl 7.3: Crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2*

| **Sector** | **Blwyddyn** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17 £** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** |
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Costau staff ar gyfer datblygu'r canllawiau | 7,500 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dylunio a chyfieithu | 900 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau argraffu | 900 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau staff ar gyfer gweithredu'r canllawiau a sicrhau cefnogaeth barhaus ar eu cyfer | 3,000 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,500 |
| Costau adolygu'r canllawiau | 0 | 0 | 0 | 1,400 | 0 |
| Costau hyfforddiant | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth** | **14,300** | **1,500** | **1,500** | **2,900** | **1,500** |

| **Cymru** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdodau Lleol** | | | | | |
| Costau staff ar gyfer annog a chefnogi mangreoedd sy'n gweithredu'r canllawiau | 50,300 | 25,100 | 25,100 | 25,100 | 25,100 |
| Dilyn hyfforddiant | 9,200 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol** | **59,500** | **25,100** | **25,100** | **25,100** | **25,100** |
| **Mannau Cyhoeddus a Gweithleoedd** | | | | | |
| Gweithredu'r canllawiau: | | | | | |
| Y sector cyhoeddus | 20,500 | 0 | 0 | 5,600 | 0 |
| Ysgolion | 81,600 | 0 | 0 | 41,100 | 0 |
| Y sector preifat | 3,184,800 | 0 | 0 | 450,200 | 0 |
| Seibiannau e-sigaréts | 885,200 – 1,436,600 | 885,200 – 1,436,600 | 885,200 – 1,436,600 | 885,200 – 1,436,600 | 885,200 – 1,436,600 |
| **Cyfanswm y costau i fannau cyhoeddus a gweithleoedd** | **4,172,100-4,723,500** | **885,200, 1,436,600** | **885,200, 1,436,600** | **1,382,100-2,430,400** | **885,200 ,1,436,600** |
| **Y Diwydiant E-sigaréts** | | | | | |
| Effaith ar werthiannau* | 0 – 198,500 | 0 – 198,500 | 0 – 198,500 | 0 – 198,500 | 0 – 198,500 |
| **Cyfanswm y costau i'r diwydiant e-sigaréts** | **0– 198,500** | **0 – 198,500** | **0 – 198,500** | **0 – 198,500** | **0 – 198,500** |
| **Cyfanswm y costau** | **4,245,900-4,995,800** | **911,800-1,691,700** | **911,800-1,691,700** | **1,410,100-2,656,900** | **911,800 - 1,691,700** |

*Ni ragwelir y bydd yr holl gostau hyn yn digwydd yn 2016/17 ond maent wedi eu nodi yma at ddibenion cyfrifyddu.

**Manteision**

<u>Awdurdodau lleol</u>

331. Byddai manteision i dimau gorfodi awdurdodau lleol sydd, o dan y drefn bresennol, yn gorfod darparu cyngor fesul achos unigol ar y defnydd o e-sigaréts mewn mangreoedd. Mae hyn yn cymryd llawer o amser ac mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ymholiadau o'r fath wedi eu hamlinellu o dan Opsiwn 1. Ni fyddai angen ymdrin ag ymholiadau o'r fath pe câi canllawiau eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru, gan y gallent gyfeirio perchnogion mangreoedd at y canllawiau. Byddai awdurdodau lleol yn arbed costau felly.

Mannau cyhoeddus a gweithleoedd

332. Byddai safleoedd yn gallu penderfynu, fesul achos unigol, a ddylent gyflwyno cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts yn eu mangreoedd. Byddai hyn yn caniatáu iddynt fyfyrio ynghylch eu sylfaen cwsmeriaid benodol, eu hamgylchedd gwaith a'r ddelwedd y mae eu busnes yn ceisio ei chyflwyno. Nid oes modd mesur y fantais hon, ond tybir ei bod yn debygol y byddai mangreoedd yn rhoi'r canllawiau gwirfoddol ar waith ar y sail y byddai hynny o fudd i'w sefydliad.

Arall

333. Pe byddai mangreoedd yn penderfynu mabwysiadu'r canllawiau gwirfoddol, byddai llawer o'r manteision a archwiliwyd yn fanwl o dan Opsiwn 3 hefyd yn berthnasol i Opsiwn 2.

*Tabl 7.4: Crynodeb o'r arbedion cost sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2*

| **Sector** | **Blwyddyn** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17**<br>**£** | **2017/18**<br>**£** | **2018/19**<br>**£** | **2019/20**<br>**£** | **2020/21**<br>**£** |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | |
| Ymdrin ag ymholiadau / achosion | 1,200 | 1,500 | 1,900 | 2,300 | 2,700 |
| **Cyfanswm arbedion i awdurdodau lleol** | **1,200** | **1,500** | **1,900** | **2,300** | **2,700** |
| **Cyfanswm Arbedion** | **1,200** | **1,500** | **1,900** | **2,300** | **2,700** |

**Opsiwn 3: Deddfwriaeth i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig**

**Disgrifiad**

334. O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i ymestyn y gofynion di-fwg presennol ar gyfer yr holl fannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig yng Nghymru, i gynnwys y defnydd o e-sigaréts. Gallai Gweinidogion Cymru ddewis gwneud rheoliadau i ddarparu esemptiadau ychwanegol i'r gofyniad i fod yn ddi-fwg mewn perthynas â'r defnydd o e-sigaréts, er enghraifft, i ganiatáu arddangos e-sigaréts sydd wedi'u trwyddedu fel meddyginiaeth mewn ystafelloedd ymgynghori fferyllfeydd. Gallant hefyd wneud rheoliadau ar gerbydau di-fwg a mangreoedd di-fwg ychwanegol, a all gynnwys mannau nad ydynt yn gaeedig. Cynhelir asesiad o effaith darpariaethau o'r fath wrth wneud y rheoliadau perthnasol. Yr awdurdodau lleol fyddai'n gyfrifol am orfodi'r gofynion di-fwg ychwanegol. Byddai angen diweddaru canllawiau presennol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru[169] ar gyfer swyddogion ynglŷn â gorfodi'r gofynion di-fwg presennol i adlewyrchu'r cyfyngiadau ar ddefnyddio e-sigaréts mewn mangreoedd perthnasol.

335. Mae nifer o fangreoedd unigol yn y DU wedi gweithredu cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts yn eu mangreoedd. Mae nifer o daleithiau a dinasoedd yn Unol Daleithiau America (er enghraifft, New York, North Dakota a New Jersey[170]) wedi gweithredu cyfyngiadau mandadol ar ddefnyddio e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus. Mae camau eisoes wedi eu cymryd i fwrw ymlaen â chynigion tebyg yn Sbaen[171]. Mae Llywodraethau yn Ffrainc[172] ac yng Ngweriniaeth Iwerddon[173] wedi gwneud cyhoeddiadau eu bod yn bwriadu gweithredu mesurau o'r fath. Dim ond ers amser byr y mae'r cyfyngiadau yn UDA a Sbaen wedi eu sefydlu, ac nid yw Llywodraeth Cymru yn gwybod am unrhyw adolygiadau ar effaith y cyfyngiadau hyn. Fodd bynnag, cafwyd adroddiadau am rai effeithiau yn y cyfryngau a rhoddir sylw iddynt ochr yn ochr â'r rhagdybiaethau a wnaed.

336. Mae arolygon wedi dangos cefnogaeth gyhoeddus ar gyfer y mesur hwn. Nododd arolwg ym mis Mehefin 2014[174] fod 52% o'r rheini a holwyd o blaid ehangu'r gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig i gynnwys e-sigaréts. Roedd 37% yn erbyn a dywedodd 11% 'ddim yn gwybod'. Nododd arolwg tebyg yn y DU ym mis Hydref 2014[175] y byddai tua 60% o'r rheini a holwyd yn dymuno gweld e-sigaréts yn cael eu gwahardd mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig. I'r gwrthwyneb, roedd 27% yn erbyn gwahardd eu defnydd, a dywedodd 13% 'ddim yn gwybod'.

**Costau**

---

[169] http://www.wlga.gov.uk/regulatory-services-publications/enforcement-guidance-and-protocols-smoke-free-public-places/

[170] Regulating e-cigarettes and other devices. Tobacco Control Legal Consortium. http://www.publichealthlawcenter.org/topics/tobacco-control/product-regulation/e-cigarettes/resources

[171] http://www.thelocal.es/20131219/spain-bans-e-cigarettes-in-public-spaces

[172] http://www.france24.com/en/20140925-france-wants-e-cig-ban-public-plain-cigarette-packs/#./?&_suid=1418652405334059202481367716 23

[173] http://www.belfasttelegraph.co.uk/news/local-national/republic-ofoireland/ecigarettes-ban-proposed-for-republic-of-ireland-30950971.html

[174] YouGov ar ran ITV Wales. http://www.itv.com/news/wales/story/2014-07-25/wales-this-week-smoke-without-fire/

[175] YouGov ar ran The Sunday Times. http://rt.com/uk/197912-uk-ecig-ban-support/

Llywodraeth Cymru

337. Byddai Llywodraeth Cymru yn darparu arwyddion sy'n bodloni'r gofynion mandadol i reolwyr mannau perthnasol. Byddai'r arwyddion yn cynnwys neges rybudd newydd i adlewyrchu'r gofynion di-fwg ychwanegol[176]. Amcangyfrifir mai oddeutu £100,000 fyddai'r gost i Lywodraeth Cymru am argraffu a dosbarthu arwyddion di-fwg newydd, fel cost untro. Mae hyn wedi ei seilio ar y costau a dalwyd am argraffu a dosbarthu'r arwyddion di-fwg yn 2007, a byddai'r costau hyn yn daladwy yn 2016/17. Ni fyddai unrhyw dâl yn cael ei godi ar berchnogion y mangreoedd am yr arwyddion.

338. Fe fyddai costau hefyd yn gysylltiedig â hysbysu'r cyhoedd a rheolwyr mannau cyhoeddus a gweithleoedd am y gofynion di-fwg ychwanegol. Mae'r cyhoedd yn ymwybodol, i raddau helaeth iawn, o'r gofynion di-fwg presennol[177], ac mae busnesau'n ymwybodol iawn o ddeddfwriaeth di-fwg[178]. Mae'r strategaeth gyfathrebu yn cynnwys dylunio, argraffu a dosbarthu poster hyrwyddo i'w osod mewn magreoedd cyn i'r gwaharddiad ddod i rym. Byddai gweithgarwch hyrwyddo hefyd yn cael ei gynnal trwy ddefnyddio gwefan Busnes Cymru, cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddiadau masnach. Oddeutu £100,000 fyddai cost y gwaith ymgyrchu hwn yn 2016/17.

339. Yn achos y cyhoedd, byddai ymgyrch cyswllt â'r cyfryngau yn cael ei chynnal trwy ddefnyddio sianeli partner, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyfryngau cymdeithasol a gwefan Llywodraeth Cymru. Oddeutu £100,000 fyddai cost y gwaith ymgyrchu hwn yn 2016/17.

340. Byddai angen diweddaru canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n ymwneud â Deddf Iechyd 2006 a Rheoliadau Di-fwg 2007, i adlewyrchu'r gofyniad newydd i wahardd e-sigaréts. Amcangyfrifwyd y byddai'r gost o ddiweddaru canllawiau di-fwg presennol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru oddeutu'r un faint â'r gost sy'n gysylltiedig â diweddaru canllawiau gwirfoddol Llywodraeth Cymru o dan Opsiwn 2. Byddai'r gost hon o oddeutu £1,400 yn daladwy yn 2016/17. Byddai angen diweddaru'r canllawiau ac amcangyfrifir y byddai hynny'n costio oddeutu'r un faint. Byddai'r costau hyn yn daladwy yn 2019/20.

Awdurdodau lleol

341. Byddai awdurdodau lleol yn wynebu costau er mwyn gorfodi'r gofyniad newydd i wahardd e-sigaréts. Darparwyd cyllid o £2,000,000 y flwyddyn i'r awdurdodau lleol pan ddaeth Rheoliadau 2007 i rym. Byddid yn disgwyl i'r gyllideb bresennol hon dalu am y camau gorfodi ar gyfer y gofynion di-fwg ychwanegol, yn ogystal ag amser a threuliau anfon swyddogion gorfodi ar gwrs hyfforddiant.

---

[176] Byddai'r gofynion diwygiedig am arwyddion yn cael eu nodi mewn rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.
[177] Dalen ffeithiau Smokefree England. Ymchwil barn y cyhoedd.
http://www.smokefreeenngland.co.uk/thefacts/latest-research/
[178] Dalen ffeithiau Smokefree England. Ymchwil busnes.
http://www.smokefreeenngland.co.uk/thefacts/latest-research/

342. Byddai angen i swyddogion gorfodi awdurdodau lleol gael hyfforddiant ar y gofynion newydd i wahardd e-sigaréts. Byddai sefydliad achrededig yn paratoi ac yn cynnal yr hyfforddiant hwn. Gellid sicrhau arbedion maint trwy gyfuno'r hyfforddiant hwn â hyfforddiant ar agweddau eraill ar dybaco a chynhyrchion nicotin sydd ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Byddai ffi yn cael ei chodi ar gynrychiolwyr ar gyfer dilyn y cwrs gan y byddai'r cwrs yn cefnogi datblygiad proffesiynol ac yn cynnig pwyntiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Amcangyfrifir mai ffioedd y cynrychiolwyr fyddai £40 fesul swyddog.

343. Yn 2006, cynhaliwyd cwrs hyfforddi tebyg gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH) Cymru ar gyfer Deddf Iechyd 2006 a Rheoliadau Di-fwg 2007. Cynhaliwyd pedwar cwrs diwrnod llawn (dau yn y De, un yn y Gogledd ac un yn y Canolbarth), ac roedd cyfanswm o 258 o gynrychiolwyr yn bresennol. Yn ogystal, gofynnwyd i CIEH Cymru ddarparu hyfforddiant i staff pedwar awdurdod lleol, ac roedd 219 yn bresennol yn y sesiynau hyn. Darparodd CIEH hyfforddiant i gyfanswm o 477 o swyddogion gorfodi awdurdodau lleol ar Ddeddf Iechyd 2006 a Rheoliadau Di-fwg 2007. A thybio y bydd yr un nifer o swyddogion gorfodi yn dilyn yr hyfforddiant newydd, oddeutu £19,100 fyddai cyfanswm y gost i'r awdurdodau lleol, fel cost untro yn 2016/17.

344. Ni fyddai awdurdodau lleol yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer monitro cydymffurfiad â'r gofyniad newydd. Byddai'r broses o archwilio a yw mangreoedd yn cydymffurfio â'r gofyniad newydd yn cael ei chynnal yn rhan o amserlen reolaidd y swyddogion gorfodi ar gyfer y gofynion di-fwg presennol ac, er enghraifft arolygiadau hylendid bwyd.

Mannau cyhoeddus a gweithleoedd

345. Byddai angen i reolwyr mangreoedd cyhoeddus a gweithleoedd sicrhau bod yr arwyddion cywir yn cael eu harddangos. Byddai Llywodraeth Cymru'n darparu arwyddion sy'n bodloni'r gofynion newydd yn rhad ac am ddim i berchnogion mangreoedd y mae'r gofynion di-fwg ychwanegol yn berthnasol iddynt.

346. Byddai angen i unigolion perthnasol mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd sicrhau bod eu mangreoedd yn cydymffurfio â'r gofynion di-fwg newydd. O dderbyn y dylai pob man cyhoeddus a gweithle fod yn cydymffurfio eisoes â'r gofynion di-fwg presennol, amcangyfrifir mai mater syml fyddai cyflawni hyn gan mai'r cwbl y byddai angen iddynt ei wneud fyddai diweddaru eu polisïau di-fwg presennol a rhoi gwybod i'r staff. Amcangyfrifir, o ganlyniad, y byddai hyn yn cymryd chwarter yr amser ag y byddai i roi ystyriaeth lawn i ganllawiau gwirfoddol Llywodraeth Cymru ar y defnydd o e-sigaréts o dan Opsiwn 2. Gan y byddai'n ofynnol i'r holl fangreoedd gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd, mae hyn yn chwarter y costau llawn a amcangyfrifwyd o dan Opsiwn 2, (nid y costau gostyngol a addaswyd ar gyfer pe byddai nifer fach yn mabwysiadu'r canllawiau). Amcangyfrifir y costau rhwng 2016/17 fel a ganlyn:

- Sector cyhoeddus - £7,400;
- Ysgolion - £22,600; a

- Sector preifat - £2,392,800.

- **Cyfanswm y costau - £2,422,800**

347. Byddai angen i fangreoedd adolygu eu polisïau hefyd yn unol ag unrhyw ddiweddariad i ganllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2019/20. Fodd bynnag, byddai'r gost hon yn daladwy dan y gofynion di-fwg presennol, ac o ganlyniad, ni thybir ei bod yn gost ychwanegol o dan Opsiwn 3.

348. Gallai busnesau wynebu costau yn sgil seibiannau e-sigaréts, ond dim ond os yw defnyddwyr e-sigaréts yn cael defnyddio eu e-sigaréts pan fyddant yn gweithio ar hyn o bryd. Amcangyfrifwyd mewn adroddiad gan ASH Cymru yn 2013[179] fod seibiannau ysmygu yn costio £41 miliwn y flwyddyn i economi Cymru. Nid oes ymchwil ar seibiannau e-sigaréts ar gael ar lefel debyg hyd yma. Fodd bynnag, defnyddiwyd adroddiad ASH Cymru i ddatblygu amcangyfrif o'r costau posibl trwy ddefnyddio'r tybiaethau isod[180]:-

- Yn ôl Arolwg Iechyd Cymru 2013, dywedodd 21% o oedolion Cymru eu bod yn ysmygu[181];

- Yn ôl data cyflogaeth Cymru ar gyfer y cyfnod o fis Hydref i fis Rhagfyr 2013, mae 70.8% o'r bobl o oedran gweithio mewn gwaith, sef 1.387 miliwn o bobl[182], a thybir bod 21% o'r gweithwyr hyn yn ysmygu (N=291,270);

- Roedd cost gyfartalog seibiannau ysmygu fesul ysmygwr yn 2013 felly yn £140.76 y flwyddyn;

- Amcangyfrifir bod 2.1 miliwn o oedolion yn defnyddio e-sigaréts yn y DU[183]; ar sail poblogaeth, gan gyfateb i oddeutu 100,800 o oedolion yn defnyddio e-sigaréts yng Nghymru[184] a thybir bod oddeutu 70.8% o'r rhain mewn gwaith, ac

- Mae ymchwil yn dangos bod bron i holl ddefnyddwyr e-sigaréts yn gyn-ysmygwyr neu'n ysmygu o hyd[185].

---

[179] The economic cost of smoking to Wales: a review of existing evidence. Dr Aimee Grant. ASH Cymru a Sefydliad Prydeinig y Galon. 2013.
[180] Mae'r holl ddata a ddefnyddiwyd yn y tybiadau hyn yn deillio o 2013 i gyd-fynd â blwyddyn adroddiad ASH Cymru 'The economic cost of smoking to Wales: a review of existing evidence.'
[181] Arolwg Iechyd Cymru 2014. Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-health-survey/?skip=1&lang=cy
[182] Prif Ystadegau Economaidd, Rhagfyr 2013. Llywodraeth Cymru. http://wales.gov.uk/statistics-and-research/key-economic-statistics/?skip=1&lang=cy
[183] Dalen ffeithiau ASH 33: Use of electronic cigarettesamong adults in Great Britain. Mai 2015 http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets
[184] Yn 2014, roedd poblogaeth Prydain Fawr dros 16 oed yn 50.98 milliwn a phoblogaeth Cymru dros 16 oed yn 2.54 miliwn (4.98% o gyfanswm Prydain Fawr). Amcanestyniadau poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU Canol 2014 Ar gael yn: https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/NationalLevelPopulationEstimates-by-Year-Age-UKCountry
[185] Dalen ffeithiau ASH 33: Use of e-cigarettes among adults in Great Britain. May 2015 http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets

349. Pe tybid bod defnyddwyr e-sigaréts yn cymryd yr un faint o seibiannau bob dydd ag ysmygwyr, bod eu seibiannau'n parhau am yr un faint o amser, a'u bod yn ychwanegol at y seibiannau ysmygu y mae adroddiad ASH Cymru eisoes yn rhoi cyfrif amdanynt, gellid amcangyfrif y byddai seibiannau e-sigaréts yn costio £10.043 miliwn y flwyddyn (h.y. 71,366 o ddefnyddwyr e-sigaréts am £140.76 y pen) i economi Cymru.

350. Gellir addasu'r amcangyfrif hwn i adlewyrchu'r ffaith fod nifer o weithleoedd eisoes wedi gosod cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts yn eu mangreoedd. O ganlyniad, nid yw seibiannau e-sigaréts mewn mangreoedd o'r fath yn ychwanegol at Opsiwn 3.

351. Mae tabl 7.5 yn nodi'r amcangyfrifon ar gyfer costau seibiannau e-sigaréts yn ôl maint y gweithle yn y sector preifat:-

*Tabl 7.5:*

| Maint y cyflogwr | Mawr (250+) | Canolig (50-249) | Bach (10-49) | Micro (0-9) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y gweithwyr[a]** | 415,794 | 133,308 | 158,700 | 350,198 | **1,058,000[b]** |
| **Cyflogwyr sydd wedi sefydlu polisi e-sigaréts[c]** | 89% | 67% | 50% | 24% | **amh.** |
| **Nifer y gweithwyr sy'n gweithio lle nad oes unrhyw gyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts (A)** | 45,737 | 43,992 | 79,350 | 266,151 | **435,230** |
| **Tua sawl un o A sy'n defnyddio e-sigaréts[d]** | 2,287 | 2,200 | 3,968 | 13,308 | **21,763** |
| **Amcangyfrif o gost ychwanegol seibiannau e-sigaréts[e]** | £321,918 | £309,672 | £558,536 | £1,873,234 | **£3,063,360** |

[a]Seiliedig ar gyfrannau cyflogaeth fesul band nifer y gweithwyr, Dadansoddiad o Faint Busnesau Cymru 2013[186]

[b]Seiliedig ar ddadansoddiad o Faint Busnesau Cymru 2013[187]

[c]Yn ôl ymatebion i arolwg Llywodraeth Cymru ar bolisïau e-sigaréts yn y gweithle[188]

[186]http://gov.wales/statistics-and-research/size-analysis-welsh-business/?lang=cy
[187] http://wales.gov.uk/statistics-and-research/size-analysis-welsh-business/?skip=1&lang=cy

[d] Seiliedig ar amcangyfrif bod 5% o'r boblogaeth sy'n gweithio yn defnyddio e-sigaréts[189]

[e]Seiliedig ar gost gyfartalog seibiannau ysmygu o £140.76 y flwyddyn fesul gweithiwr [190]

Mae Tabl 7.6 yn dangos amcangyfrif o gostau seibiannau e-sigaréts yn y sector cyhoeddus:-:

*Tabl 7.6*

| Maint y cyflogwr | Sector cyhoeddus[e] |
|---|---|
| **Nifer y gweithwyr[a]** | 331,000 |
| **Cyflogwr sydd wedi sefydlu polisi e-sigaréts[b]** | 62% |
| **Nifer y gweithwyr sy'n gweithio lle nad oes cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts (A)** | 125,780 |
| **Amcangyfrif o nifer o A sy'n defnyddio e- sigaréts [c]** | 6,289 |
| **Amcangyfrif o gost ychwanegol seibiannau e-sigaréts[d]** | **£885,240** |

[a]Yn seiliedig ar Ystadegau Economaidd Allweddol, Rhagfyr 2013[191]

[b]Yn ôl ymatebion i arolwg gweithleoedd Llywodraeth Cymru ar bolisïau e-sigaréts; gan gynnwys ymatebion gan bobl a oedd yn nodi bod polisi e-sigaréts wedi ei sefydlu a rhai lle roedd un yn cael ei ddatblygu[192]

[c]Yn seiliedig ar amcangyfrif bod 5% o'r boblogaeth sy'n gweithio yn defnyddio e-sigaréts[193]

[d]Yn seiliedig ar gost gyfartalog seibiant ysmygu fesul gweithiwr o £140.76 y flwyddyn[194]

---

[188] Llywodraeth Cymru. Polisïau e-sigaréts: arolwg o weithleoedd yng Nghymru. 2014. http://gov.wales/statistics-and-research/e-cigarette-policies-surveys-schools-workplaces/?skip=1&lang=cy

[189] Seiliedig ar amcangyfrif fod 71,366 o ddefnyddwyr e-sigaréts mewn gwaith a phoblogaeth hysbys sy'n gweithio o 1.387 miliwn yng Nghymru.

[190] Cyfanswm cost seibiannau ysmygu o £41 miliwn wedi ei rannu â nifer yr ysmygwyr cyflogedig (N=291,270)

[191]http://gov.wales/statistics-and-research/size-analysis-welsh-business/?lang=cyhttp://wales.gov.uk/statistics-and-research/size-analysis-welsh-business/?lang=en -/statistics-and-research/size-analysis-welsh-business/?tab=previous&lang=en

[192] Llywodraeth Cymru. Polisïau e-sigaréts: arolwg o weithleoedd yng Nghymru. 2014. http://gov.wales/statistics-and-research/e-cigarette-policies-surveys-schools-workplaces/?skip=1&lang=cy

[193] Seiliedig ar amcangyfrif fod 71,366 o ddefnyddwyr e-sigaréts mewn gwaith a phoblogaeth hysbys sy'n gweithio o 1.387 miliwn yng Nghymru.

[194] Cyfanswm cost seibiannau ysmygu o £41 miliwn wedi ei rannu â nifer yr ysmygwyr cyflogedig (N=291,270)

[e]Mae'r sector cyhoeddus yma'n cynnwys pobl a gyflogir mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth.

352. Mae'n debygol bod y cyfanswm addasedig o'r amcangyfrif o gost ychwanegol seibiannau e-sigaréts i'r sector preifat (£3,063,360) a'r sector cyhoeddus (£885,240) uchod, sef £3,948,600 miliwn, yn oramcangyfrif. Mae hyn oherwydd bod cyfran fawr o'r defnyddwyr e-sigaréts, er enghraifft, yn defnyddio e-sigaréts ynghyd â chynhyrchion tybaco ("defnyddwyr deuol", fel y'u gelwir) ac o ganlyniad, mae'n debygol bod cost seibiannau ysmygu i economi Cymru eisoes yn cynnwys cyfran o'r seibiannau e-sigaréts gan ddefnyddwyr o'r fath. Mae amcangyfrifon o'r gyfran o ddefnyddwyr deuol yn amrywio; defnyddiwyd amcangyfrif o ddwy ran o dair o ddefnyddwyr deuol[195] yn y cyfrifiadau isod.

353. Nid yw'n hysbys pa mor aml y mae defnyddwyr deuol yn defnyddio e-sigaréts o'u cymharu â chynhyrchion tybaco, ac mae'n debygol o amrywio rhwng unigolion. Mae llawer o ddefnyddwyr e-sigaréts, pa un a ydynt yn ddefnyddwyr deuol ynteu'n gyn-ysmygwyr, eisoes yn mynd allan o'r adeilad yn wirfoddol i ddefnyddio eu e-sigaréts. Canfu'r arolwg a gynhaliodd Llywodraeth Cymru ymhlith gweithleoedd ar eu polisïau e-sigaréts hefyd fod 44% o'r ymatebwyr a nododd nad oeddent wedi sefydlu polisi e-sigaréts (N=121/295) wedi nodi mai'r rheswm oedd nad yw pobl yn defnyddio e-sigaréts yn eu gweithle. O ystyried y ffigur hwn, mae'r amcangyfrif uchaf, sef £3,948,600 wedi ei addasu i lawr 44% i gyfrif am y mangreoedd lle na ddefnyddir e-sigaréts ar hyn o bryd. Mae hyn yn addasu cyfanswm y gost i £2,211,200 y flwyddyn.

354. Mae data gan ASH y DU[196] yn dangos bod 15% o'r holl ddefnyddwyr e-sigaréts presennol yn nodi eu bod yn defnyddio e-sigaréts er mwyn goresgyn y gwaharddiad ar ysmygu (hynny yw, maent yn eu defnyddio mewn mannau lle na chaniateir iddynt ysmygu). Amcangyfrifir felly mai £331,700 fyddai cost leiaf seibiannau e-sigaréts i economi Cymru. Mae hyn wedi ei seilio ar ragdybiaeth y byddai'n rhaid i 15% o'r holl ddefnyddwyr e-sigaréts, a fyddai'n eu defnyddio yn y gweithle fel arfer, bellach gymryd seibiant o dan yr opsiwn hwn. Mae £331,700 yn cynrychioli 15% o ben uchaf y gost a amcangyfrifir.

355. O gymhwyso'r tybiaethau hyn, amcangyfrifir bod cost flynyddol seibiannau e-sigaréts rhwng £331,700 a £2,211,200 i economi Cymru.

356. Byddai diwydiant hefyd yn wynebu costau o ran hysbysiadau cosb benodedig a dirwyon a fyddai'n cael eu cyflwyno am droseddau sy'n ymwneud â'r gofynion di-fwg ychwanegol. Byddai'r rhain yn cyd-fynd â'r hysbysiadau cost benodedig a symiau'r dirywion am dorri'r gwaharddiad ar ysmygu. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r gofynion lle y cyflawnwyd y drosedd fyddai'n cadw'r refeniw o'r hysbysiadau cost benodedig. Ychydig iawn o achosion a welwyd o dorri Deddf Iechyd 2006 a Rheoliadau 2007, a byddid yn disgwyl lefel cydymffurfiad debyg â'r gofynion di-fwg ychwanegol. O ganlyniad, defnyddiwyd data o'r broses o fonitro cydymffurfiad â'r gwaharddiad ar ysmygu i amcangyfrif y costau i leoedd cyhoeddus a gweithleoedd yn sgil hysbysiadau cosb benodedig a dirwyon. Dim ond ar gyfer y

[195]Dalen ffeithiau ASH: Use of E-cigarettes in Great Britain 20 Hydref 2014 http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets

[196] Dalen ffeithiau ASH: Use of E-cigarettes in Great Britain 20 Hydref 2014 http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets

pedair blynedd gyntaf ar ôl gweithredu Deddf Iechyd 2006 y casglwyd data o'r fath, a thybiwyd felly bod y data ar gyfer y cyfnod dilynol yr un fath â'r data hyd at 2010/11.

357. Mae hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer y drosedd o beidio ag arddangos arwyddion di-fwg priodol yn £200 fesul hysbysiad, a gostyngir hyn i £150 os telir o fewn 15 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad. Mae'r tabl isod yn nodi amcangyfrif o gost hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer y pum mlynedd gyntaf ar ôl gweithredu'r gwaharddiad ar e-sigaréts. Nid oes data ar gael ynglŷn â'r symiau a dalwyd, ac o ganlyniad tybiwyd y byddai swm mwyaf yr hysbysiad cosb benodedig, sef £200, yn cael ei dalu bob tro.

*Tabl 7.7:*

| Blwyddyn | Hysbysiadau Cosb Benodedig a gyflwynwyd | Swm yr Hysbysiadau Cosb Benodedig (£) |
|---|---|---|
| 2016/17 | 2 | 400 |
| 2017/18 | 2 | 400 |
| 2018/19 | 2 | 400 |
| 2019/20 | 2 | 400 |
| 2020/21 | 2 | 400 |

358. Yn ôl cofnodion ynglŷn â chydymffurfiad, ni fu erioed unrhyw erlyniadau o ran peidio ag arddangos arwyddion di-fwg. Tybiwyd y byddai sefydliadau'n cydymffurfio i'r un graddau â'r gofynion newydd am arwyddion o dan Opsiwn 3, ac o ganlyniad, ni phriodolwyd unrhyw gostau i hyn.

359. Yn y tabl isod, nodir amcangyfrif o'r costau yn sgil dirwyon sy'n gysylltiedig ag erlyniadau yn ymwneud â'r drosedd o beidio ag atal ysmygu mewn lle di-fwg. Gellir rhoi dirwy nad yw'n uwch na Lefel 4 ar y raddfa safonol ar gyfer y drosedd hon, a thybiwyd y byddai'r holl ddirwyon a gyflwynwyd ar y lefel uchaf bosibl. Fodd bynnag, yn ymarferol maent yn llawer is na hyn fel arfer.

*Tabl 7.8:*

| Blwyddyn | Erlyniadau llwyddiannus | Cyfanswm y ddirwy £ |
|---|---|---|
| 2016/17 | 4 | £10,000 |
| 2017/18 | 9 | £22,500 |
| 2018/19 | 1 | £2,500 |
| 2019/20 | 0 | £0 |
| 2020/21 | 0 | £0 |

360. Er bod Hysbysiadau Cosb Benodedig a dirwyon yn gost i'r sefydliad dan sylw, maent hefyd yn ffynhonnell refeniw i'r awdurdod gorfodi perthnasol (gan dalu'n rhannol am y costau gorfodi). Sero felly yw effaith economaidd net Hysbysiadau Cosb Benodedig.

361. Fe allai mannau cyhoeddus a gweithleoedd wynebu costau eraill yn sgil yr opsiwn hwn. Yn ôl yr arolwg a gynhaliodd Llywodraeth Cymru ar bolisïau e-sigaréts mewn gweithleoedd[197], 3% yn unig o'r gweithleoedd (N=10) a oedd wedi cyflwyno newidiadau i gynorthwyo pobl i ddefnyddio e-sigaréts. Roedd bron pob un o'r newidiadau yn ymwneud â darparu cysgodfeydd ysmygu ar wahân ar gyfer defnyddwyr e-sigaréts. Ni fyddai hyn yn ofyniad mandadol o dan Opsiwn 3 fodd bynnag, ac oherwydd hynny, nid yw'r costau hyn wedi eu hasesu.

Y diwydiant e-sigaréts

362. Yn debyg i'r gwaharddiad ysmygu, ni fyddai'n fwriad i'r cyfyngiad ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a gweithleoedd effeithio ar nifer y bobl sy'n eu defnyddio. Yn rhan o'r 'Health Survey for England – 2008: Physical Activity and Fitness'[198] aseswyd effaith y gwaharddiad ysmygu yn Lloegr ar nifer y bobl sy'n ysmygu, gan ganfod nad oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol yn niferoedd y dynion a menywod a oedd yn ysmygu sigaréts cyn ac ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth ddi-fwg ar 1 Gorffennaf 2007. Gallai effaith Opsiwn 3 ar y diwydiant e-sigaréts felly fod yn fach iawn, ac amcangyfrifir mai'r gost isaf yw £0 y flwyddyn.

363. Roedd y diwydiant tybaco wedi'i hen sefydlu ar adeg cyflwyno'r gwaharddiad ysmygu, ond mae'r diwydiant e-sigaréts yn un cymharol newydd sy'n datblygu'n gyflym. O ganlyniad, cydnabyddir y gallai cyfyngiad ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig effeithio ar nifer defnyddwyr e-sigaréts yng Nghymru, yn enwedig yr ysmygwyr hynny sy'n defnyddio e-sigaréts i osgoi'r gofynion di-fwg presennol. Gallai hyn, yn ei dro, leihau gwerthiannau e-sigaréts yng Nghymru.

364. Amcangyfrifwyd bod y farchnad e-sigaréts, ac eithrio gwerthiannau ar-lein, yn y Deyrnas Unedig yn werth £91.3 miliwn ym mis Ionawr 2014.[199] Mae maint y farchnad gyfan, gan gynnwys gwerthiannau ar-lein, yn debygol o fod yn fwy na dwywaith y ffigwr hwn, gan fod gwerthiannau ar-lein, yn ôl Cymdeithas Fasnach y Diwydiant Sigaréts Electronig, ychydig yn fwy na gwerthiannau manwerthu[200]. O ganlyniad, amcangyfrifir mai £187.2 miliwn yw maint marchnad gyfan y Deyrnas Unedig[201]. Trwy gymhwyso cymhareb boblogaeth i'r ffigwr hwn[202] gellir tybio bod y farchnad e-sigaréts werth oddeutu £8.986 miliwn yng Nghymru.

---

[197] Llywodraeth Cymru. Polisïau e-sigaréts: arolwg o weithleoedd yng Nghymru. 2014 http://gov.wales/statistics-and-research/e-cigarette-policies-surveys-schools-workplaces/?skip=1&lang=cy

[198] Health Survey for England - 2008: Physical activity and fitness . Rhagfyr 17, 2009 http://hscic.gov.uk/pubs/hse/08physicalactivity

[199] Chittock M (2014). Focus on e-cigarettes: A touch of the vapours. The Grocer, Chwefror 15: 51-52, 54

[200] PJ Online. (2014). Dyfyniad gan Katherine Devlin, Llywydd ECITA. Ar gael yn: http://www.pharmaceutical-journal.com/news-and-analysis/news/boots-and-lloydspharmacy-join-the-vaping-fold-by-selling-e-cigarettes/11134333.article

[201] https://www.gov.uk/government/consultations/nicotine-inhaling-products-introducing-a-minimum-age-of-sale

[202] Yn 2013, roedd poblogaeth y DU yn 64.1 miliwn ac roedd poblogaeth Cymru yn 3.1 miliwn (4.8% o gyfanswm y DU). Amcangyfrifon Poblogaeth ar gyfer y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, Canol 2013. Swyddfa Ystadegau Gwladol, 26 Mehefin 2014. Ar gael yn:

365. Gan fod 15% o'r holl ddefnyddwyr e-sigaréts yn nodi eu bod yn defnyddio e-sigaréts i osgoi'r gofynion di-fwg[203], gellir ystyried ei bod yn rhesymol tybio na fyddai'r rhan fwyaf o'r math hwn o ddefnyddiwr e-sigaréts yn defnyddio e-sigaréts o gwbl mwyach os cyfyngir ar eu defnydd mewn lleoedd caeedig. Fodd bynnag, rhoddwyd amrywiaeth o atebion posibl i ymatebwyr yr arolwg hwn a gofynnwyd iddynt roi tic gyferbyn â'r holl rai a oedd yn berthnasol. O ganlyniad, nid yw'r rhesymau a ddarparwyd yn annibynnol ar ei gilydd. Mae'n annhebygol felly y byddai pob un o'r defnyddwyr a nododd hwn fel un o'r rhesymau, yn rhoi'r gorau i ddefnyddio e-sigaréts o ganlyniad i weithredu'r Opsiwn hwn. Tybiwyd mai gostyngiad o 15% yn y farchnad fyddai effaith fwyaf yr opsiwn hwn, gan olygu cost o oddeutu £1,347,900 y flwyddyn.

366. Fodd bynnag, amcangyfrifiwyd yn gynharach bod 561,010 o'r 1,389,000 o weithwyr sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn gweithio mewn mannau lle nad oes cyfyngiadau ar ddefnyddio e-sigaréts ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 40% o'r gweithlu y mae'r cyfyngiadau yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar eu profiad presennol. O ganlyniad, mae'r effaith fwyaf a amlinellir uchod wedi ei haddasu fel nad yw ond yn ystyried y gweithwyr yn y mangreoedd hynny nad ydynt yn cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts ar hyn o bryd. Gwnaed hyn trwy leihau 60% ar yr effaith fwyaf, ac mae hyn yn addasu pen uchaf yr amcangyfrif o'r gost i £539,200. Er y cydnabyddir bod cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig a'r diwydiant hamdden yn debygol o gael effaith hefyd, ystyrir data ynglŷn â chyflogaeth yn ddibynadwy iawn ac felly fe'i defnyddiwyd i gyfrifo'r effaith ar y farchnad. Amcangyfrifir felly bod y gost i'r diwydiant e-sigaréts rhwng £0 a £539,200 y flwyddyn.

367. Nid oes data ar gael ar sut y mae'r farchnad e-sigaréts yn debygol o ddatblygu yn ystod y cyfnod y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ei gwmpasu. Fodd bynnag, tybir na fyddai unrhyw effaith ar werthiannau yn digwydd ar unwaith ar ôl gweithredu cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts; byddent yn fwy tebygol o ddigwydd dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, at ddibenion cyfrifyddu, mae'r costau posibl i'r diwydiant e-sigaréts o ganlyniad i ostyngiad mewn gwerthiannau wedi eu dyrannu fel cost flynyddol.

368. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o ddata ar effaith y cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd mewn awdurdodaethau eraill. Fodd bynnag, ceir adroddiadau yn y cyfryngau[204] bod gwerthiannau e-sigaréts wedi gostwng 70% yn Sbaen lle y mae gwaharddiad ar y defnydd o e-sigaréts mewn rhai lleoedd cyhoeddus wedi bod mewn grym ers mis Ebrill 2014[205]. Mae sylwebyddion y farchnad[206] wedi awgrymu na ellid priodoli'r cwymp hwn yn y farchnad e-sigaréts yn Sbaen i un achos, gan y gallai nifer o ffactorau fod wedi effeithio ar y gostyngiad hwn, gan gynnwys llawer iawn o

---

http://www.ons.gov.uk/ons/rel/pop-estimate/population-estimates-for-uk--england-and-wales--scotland-and-northern-ireland/2013/index.html

[203] Dalen ffeithiau ASH: Use of E-cigarettes in Great Britain 20 Hydref 2014 http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets

[204] http://www.thinkspain.com/news-spain/24345/e-cigarette-sales-in-spain-drop-by-70-per-cent

[205] http://www.abacoadvisers.com/spain_explained/blog/spanish-law/e-cigarette-legislation-spain#

[206] www.ecigintelligence.com

fanwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion gwael yn gorlenwi'r farchnad, a'r ffaith y cyflwynwyd cyfyngiadau newydd ar oed gwerthu ar yr un pryd â'r cyfyngiadau ar ddefnydd mewn mannau cyhoeddus.

369. Yng Nghymru, mae'n bosibl y bydd y cyfyngiad ar oed gwerthu ar gyfer cynhyrchion nicotin[207] yn cael effaith ar y farchnad e-sigaréts. Mae hefyd yn bosibl y byddai effaith ar y defnydd o e-sigaréts a'r farchnad e-sigaréts yn sgil y Gyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco ddiwygiedig[208], sy'n cyflwyno gofynion mandadol o ran labelu cynhyrchion, gofynion o ran rhestrau cynhwysion a hysbysiadau, yn ogystal â gwaharddiad ar hysbysebu e-sigaréts yn drawsffiniol. Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (gan gynnwys y Deyrnas Unedig) weithredu'r Gyfarwyddeb erbyn 20 Mai 2016. Fodd bynnag, mae'r Gyfarwyddeb yn destun nifer o adolygiadau barnwrol ar hyn o bryd[209].

370. Mae'n parhau i fod yn anodd datod effaith y mesurau eraill hyn ar werthiannau e-sigaréts oddi wrth effaith uniongyrchol cyfyngiad mewn gweithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig. O ganlyniad, mabwysiadwyd agwedd geidwadol at yr amcangyfrifon, a rhoddwyd ystod ar gyfer y gostyngiad yn y farchnad yn flynyddol. Gellid gweld effaith hefyd ar nifer y bobl sy'n dechrau defnyddio cynhyrchion e-sigaréts o'r newydd, ond ni ellir mesur hyn oherwydd diffyg data.

371. Yn ogystal, mae gwerthiannau e-sigaréts trwy siopau traddodiadol, gan gynnwys siop cyfleusterau a losin, tybaco a phapurau newydd, wedi arafu'n ddiweddar wrth i oedolion sy'n defnyddio e-sigaréts newid i'w prynu ar-lein ac yn y nifer gynyddol o siopau e-sigaréts arbenigol.[210] Os yw'r duedd hon yn parhau, mae'r farchnad e-sigaréts yng Nghymru yn debygol o newid ni waeth pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd. Fodd bynnag, nid oes modd i Lywodraeth Cymru benderfynu a fydd hyn yn cael effaith negyddol ynteu cadarnhaol ar werthiannau e-sigaréts yng Nghymru.

372. Gallai cyfyngiad ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig effeithio ar gaffis e-sigaréts. Mae'r cysyniad o gaffis e-sigaréts yn ffenomenon gweddol ddiweddar, ac mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o ddau gaffi e-sigaréts[211] yng Nghymru sy'n cael eu rhedeg gan yr un perchennog. Ni fyddai'r mathau hyn o fangreoedd yn gallu caniatáu'r defnydd o e-sigaréts yn eu safleoedd dan do mwyach, a gallai hynny effeithio ar eu busnes os nad oes ganddynt unrhyw fannau awyr agored y gallent eu defnyddio. Ni chaniateir defnyddio pibellau shisha mewn mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig, ond mae barrau shisha yn parhau i weithredu yng Nghymru. Gellir dadlau bod hyn o bosibl yn golygu y gallai caffis e-sigaréts barhau i weithredu hefyd, gan ddefnyddio mannau yn yr awyr agored i ddefnyddio e-sigaréts, yn enwedig o dderbyn eu bod hefyd o bosibl yn gwerthu diodydd poeth a bwydydd. Er hynny, mae unrhyw effaith yn debygol o fod yn gyfyngedig gan mai nifer fechan o sefydliadau sydd i'w cael yng Nghymru.

---

[207] http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2015/9780111130568
[208] http://ec.europa.eu/health/tobacco/products/revision/
[209] http://www.bbc.co.uk/news/business-29876574
[210] http://www.conveniencestore.co.uk/news/e-cigarette-sales-hit-a-wall-in-grocery-stores/511008.article
[211] http://vibrant-vapours.co.uk/Coffee-Shop

373. Gallai fod effaith ar fanwerthwyr e-sigaréts arbenigol na fyddent yn gallu caniatáu i gwsmeriaid roi cynnig ar eu cynhyrchion yn eu safleoedd. Gallai hyn effeithio ar eu lefelau gwerthiant ond mae'n bosibl i fannau awyr agored gael eu defnyddio at y diben hwn. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn opsiwn i fanwerthwyr sydd wedi eu lleoli mewn canolfannau siopa neu y tu mewn i safleoedd caeedig eraill, megis marchnadoedd dan do. Yn ogystal, mae'n bosibl nad yw pob manwerthwr e-sigaréts arbenigol yn caniatáu i gwsmeriaid roi cynnig ar eu cynhyrchion. Yn gyfan gwbl, mae Llywodraeth Cymru, (trwy chwilio ar y rhyngrwyd ym mis Ionawr 2015), wedi canfod 26 o fanwerthwyr e-sigaréts arbenigol yng Nghymru ar hyn o bryd. Oherwydd diffyg data, mae'n anodd mesur yr effaith bosibl ar y busnesau hyn, ac ni wnaed unrhyw asesiad oherwydd hynny.

Llysoedd

374. Cafwyd 24 o erlyniadau yn ystod y flwyddyn gyntaf o'r gwaharddiad ysmygu yng Nghymru (rhwng 2 Ebrill 2007 a 31 Mawrth 2008). Roedd 14 o'r rhain yn llwyddiannus. Mae'r tablau isod yn nodi nifer yr erlyniadau o ran peidio ag atal ysmygu mewn man di-fwg, ac o ran ysmygu mewn man di-fwg.

*Tabl 7.9*:

| Cyfnod | Peidio ag atal ysmygu mewn man di-fwg: achosion a atgyfeiriwyd i gael eu herlyn | Ysmygu mewn man di-fwg: achosion a atgyfeiriwyd i gael eu herlyn * | Erlyniadau llwyddiannus |
|---|---|---|---|
| 2007/08 | 6 | 18 | 14 |
| 2008/09 | 10 | 24 | 18 |
| 2009/10 | 1 | 4 | 12 |
| 2010/11 | 0 | 3 | 3 |

*Mae'r rhain yn cynnwys achosion a atgyfeiriwyd yn dilyn achosion o beidio â thalu Hysbysiadau Cosb Benodedig ac achosion a atgyfeiriwyd i'w herlyn ar unwaith

375. A thybio y byddai nifer debyg o achosion yn cael eu hatgyfeirio i gael eu herlyn o ran cyfyngiad ar y defnydd o e-sigaréts mewn gweithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig a sylweddol gaeedig, effaith gyfyngedig yn unig fyddai ar y llysoedd yng Nghymru. Nid oes fframwaith manwl o'r costau wedi cael ei drafod rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eto, felly nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd.

Y Cyhoedd

376. Byddai costau i unrhyw aelodau o'r cyhoedd sy'n derbyn Hysbysiadau Cosb Benodedig ynglŷn â'r troseddau di-fwg estynedig; byddai'r rhain yn ychwanegol i'r status quo pan fyddant yn ymwneud â defnyddio e-sigarét mewn man cyhoeddus neu weithle caeedig neu sylweddol gaeedig. Byddai'r rhain yn cyd-fynd â symiau Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer troseddau presennol sy'n ymwneud ag ysmygu mewn mannau di-fwg. Byddai'r refeniw o'r Hysbysiadau Cosb Benodedig yn cael ei gadw gan yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r gofynion lle y cyflawnwyd y drosedd. Cyflwynir Hysbysiadau Cosb Benodedig o £50 yr un am y drosedd o ysmygu mewn man di-fwg, gyda gostyngiad i £30 os caiff ei dalu o fewn 15 niwrnod i

ddyddiad yr hysbysiad. Yn seiliedig ar brofiad Deddf Iechyd 2006 a Rheoliadau Di-fwg 2007, mae'r tabl canlynol yn nodi'r gost a amcangyfrifir ar gyfer Hysbysiadau Cosb Benodedig am y bum mlynedd gyntaf ar ôl gweithredu'r gofynion di-fwg estynedig, ac yn tybio bod y ddirwy uchaf yn cael ei thalu bob tro.

*Tabl 7.10:*

| Blwyddyn | Hysbysiadau Cosb Benodedig a dalwyd | Swm Hysbysiadau Cosb Benodedig (£) (talgrynnwyd i'r £100 nesaf) |
|---|---|---|
| 2016/17 | 62 | 3,100 |
| 2017/18 | 83 | 4,200 |
| 2018/19 | 79 | 4,000 |
| 2019/20 | 40 | 2,000 |
| 2020/21 | 40 | 2,000 |

377. Unwaith eto, trwy ddefnyddio profiad gyda Deddf Iechyd 2006 a Rheoliadau Di-fwg 2007, nodir yn nhabl 7.11 y costau a amcangyfrifir ar gyfer dirwyon sy'n gysylltiedig ag erlyniadau ynglŷn ag ysmygu mewn man di-fwg. Rhoddir dirwy heb fod yn uwch na Lefel 1 ar y raddfa safonol ar gyfer y drosedd hon, a thybiwyd bod yr holl ddirwyon a gyflwynir ar y lefel uchaf bosibl.

378. Yn yr un modd â'r rhai a osodir ar fannau cyhoeddus a gweithleoedd, mae'r Hysbysiadau Cosb Benodedig a'r dirwyon a osodir ar unigolion yn daliadau trosglwyddo y mae'r unigolyn yn ei dalu i'r awdurdod perthnasol. Sero felly yw effaith economaidd net yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a'r dirwyon hyn.

*Tabl 7.11:*

| Blwyddyn | Erlyniadau llwyddiannus | Cyfanswm y Dirwyon (£) |
|---|---|---|
| 2016/17 | 10 | 2,000 |
| 2017/18 | 9 | 1,800 |
| 2018/19 | 11 | 2,200 |
| 2019/20 | 3 | 600 |
| 2020/21 | 3 | 600 |

<u>Iechyd</u>

379. O dderbyn y risg y cyfeirir ati uchod y gellid effeithio ar nifer y defnyddwyr e-sigaréts yng Nghymru trwy gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn gweithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig, byddai risg gysylltiedig hefyd y gallai defnyddwyr sy'n penderfynu rhoi'r gorau i ddefnyddio e-sigaréts o ganlyniad i'r cyfyngiadau fynd yn ôl i ddefnyddio cynhyrchion tybaco. Nid oes llawer o dystiolaeth i awgrymu y bydd hyn yn digwydd. Ar ôl gweithredu gwaharddiad ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus yn Efrog Newydd, mae cyfraddau ysmygu wedi cynyddu o 14% yn 2010 i

16.1% yn 2014[212]. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill yn ogystal â'r gwaharddiad ar e-sigaréts a allai fod wedi cyfrannu at y cynnydd hwn, er enghraifft, gostyngiad yng nghyllideb rhaglenni gwrthysmygu ac ymgyrchoedd marchnata yn ystod y cyfnod. Mae'n werth nodi hefyd bod y data'n awgrymu bod nifer yr ysmygwyr yn Efrog Newydd yn cynyddu cyn i'r gwaharddiad ar e-sigaréts ddod i rym[213]. Serch hynny, o dderbyn y dystiolaeth sy'n gysylltiedig â goblygiadau negyddol cynhyrchion tybaco i iechyd, mae cynnydd bychan hyd yn oed yn nifer y bobl sy'n ysmygu yn cyflwyno'r posibilrwydd o ganlyniad anfwriadol.

380. Amcangyfrifir bod oddeutu 100,800 o bobl yn defnyddio e-sigaréts yng Nghymru a bod dwy ran o dair o'r rhai hynny sy'n defnyddio e-sigaréts hefyd yn defnyddio cynhyrchion tybaco[214]. Mae "defnyddwyr deuol" o'r fath yn parhau i'w gadael eu hunain yn agored i'r niweidiau iechyd sy'n gysylltiedig ag ysmygu tybaco[215], a gallai fod goblygiadau negyddol i iechyd unigolion ac iechyd y cyhoedd gan fod bron yr un risg o glefyd cardiofasgwlaidd yn deillio o ysmygu ychydig o sigaréts ag o ysmygu'n drwm, a gan fod y risg o ganser yr ysgyfaint yn dibynnu ers faint y mae'r unigolyn wedi bod yn ysmygu (yn ogystal â pha mor drwm)[216]. Ar y llaw arall, efallai eu bod yn lleihau rhywfaint ar y niwed os ydynt yn ysmygu llai o dybaco[217]. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fodd i fesur yr effaith pe byddai defnyddwyr deuol yn rhoi'r gorau i ddefnyddio e-sigaréts fel dewis arall yn lle rhai o'u sigaréts tybaco. Mae hyn oherwydd diffyg data ar nifer yr e-sigaréts y mae defnyddiwr deuol nodweddiadol yn eu hysmygu yn lle sigaréts tybaco, yn ogystal â diffyg data ar gydbwysedd y buddiannau iechyd yn sgil gwneud hyn. Mae adroddiad Public Health England 2015 yn amcangyfrif bod defnyddio e-sigaréts tua 95% yn fwy diogel nag ysmygu, er y bu'r ffigur hwn yn destun trafodaeth bellach.[218,219]

381. Amcangyfrifir mai e-sigaréts yw unig ffynhonnell nicotin traean o'r defnyddwyr e-sigaréts, a thybir y ceid risg y byddai rhai yn ailddechrau ysmygu, o dderbyn y byddai'r fantais bresennol o allu defnyddio eu e-sigarét mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig yn cael ei diddymu. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif mai e-sigaréts yw unig ffynhonnell nicotin oddeutu 33,600 o bobl, ac ni ellir rhagweld faint o'r defnyddwyr hyn a fyddai'n dechrau ysmygu eto o ganlyniad i gyfyngiad ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus.

382. Fe'i hystyrir yn annhebygol iawn y byddai'r holl gyn-ysmygwyr sy'n defnyddio e-sigaréts yn ailddechrau ysmygu, yn enwedig o dderbyn bod arolwg Llywodraeth

---

[212] http://www.churnmag.com/news/smoking-rates-increase-new-york-e-cigs-banned/
[213] http://www.nydailynews.com/new-york/new-yorkers-smoking-article-1.1940245
[214] Taflen wybodaeth ASH: Use of E-cigarettes in Great Britain 20 Hydref 2014 http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets
[215] http://www.nhs.uk/chq/Pages/2344.aspx?CategoryID=53
[216] Background Paper on E-cigarettes (Electronic Nicotine Delivery Systems). Rachel Grana, PhD MPH; Neal Benowitz, MD; Stanton A. Glantz, PhD. Center for Tobacco Control Research and Education University of California, San Francisco WHO Collaborating Center on Tobacco Control. Paratowyd ar gyfer Tobacco Free Initiative Sefydliad Iechyd y Byd, Rhagfyr 2013.
[217] https://www.nice.org.uk/guidance/ph45
[218] E-cigarettes: Public Health England's evidence-based confusion. The Lancet. Cyfrol 386, Rhif 9996, tud.829, 29 Awst 2015 http://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(15)00042-2/fulltext
[219] E-cigarettes: the need for clear communication on relative risks. Ann McNeill et al. www.theLancet.com. Cyfrol 386. Medi 26, 2015.

Cymru o weithleoedd[220] ac arolwg CIEH o'r sector lletygarwch[221] yn awgrymu bod rhwng traean a hanner mangreoedd o'r fath eisoes wedi gosod gwaharddiadau gwirfoddol ar y defnydd o e-sigaréts dan do. Nid oes unrhyw astudiaethau ar gael ar hyn o bryd i fesur yr effeithiau ar iechyd defnyddiwr e-sigaréts sy'n ailddechrau ysmygu sigaréts tybaco ar ôl rhoi'r gorau i ysmygu tybaco yn gyfan gwbl. Ceir astudiaeth fodd bynnag a ddarganfu fod pob ysmygwr sy'n rhoi'r gorau i ysmygu (yn yr hirdymor) yn ennill rhwng 0.99 a 2.58 blwyddyn bywyd wedi'i haddasu yn ôl ansawdd (QALY) ar gyfartaledd (gostyngol) yn ddibynnol ar oedran yr unigolyn[222]. O ganlyniad, gellid tybio y byddai pob cyn-ysmygwr sy'n defnyddio e-sigaréts ac sy'n ailddechrau ysmygu sigaréts tybaco o ganlyniad i gyfyngiad newydd ar y defnydd o e-sigaréts yn colli'r 0.99 i 2.58 o flynyddoedd ychwanegol yr oedd wedi ei hennill trwy roi'r gorau i ysmygu. Mae hyn yn tybio bod yr effaith ar iechyd yn sgil symud o e-sigaréts i ysmygu tybaco yn gyfystyr â symud o ysmygu tybaco i roi'r gorau i ysmygu (ond i'r gwrthwyneb).

383. Er nad oes modd dweud sawl defnyddiwr e-sigaréts a fyddai'n ailddechrau ysmygu cynhyrchion tybaco o ganlyniad i ymestyn y gofynion di-fwg, gellir dangos graddfa'r effaith bosibl trwy roi enghraifft. Yn 2013, y gyfradd ysmygu ymysg oedolion yng Nghymru oedd 21%. Byddai cynnydd cymharol fychan yn y gyfradd hon i 21.1% yn golygu bod 2,450 o bobl yn ychwanegol yn ysmygu cynhyrchion tybaco yng Nghymru. Yn seiliedig ar ffigyrau ennill/colled QALY a nodir yn y paragraff uchod, mae hyn yn gyfystyr â gostyngiad o rhwng 2,400 a 6,300 QALY. O dderbyn yr amcangyfrif mai £60,000 yw gwerth pob QALY, mae hyn yn cynrychioli cost o rhwng £146 miliwn a £380 miliwn. Mae'r cyfrifiadau hyn yn rhoi sefyllfa ddamcaniaethol yn unig, ac nid yw tebygolrwydd a maint unrhyw effaith o'r fath yn hysbys ar hyn o bryd. Fodd bynnag mae'r enghraifft yn awgrymu y gallai'r effeithiau posibl fod yn sylweddol, pe byddai rhywfaint o ddefnyddwyr e-sigaréts yn newid i ysmygu sigaréts. O'r herwydd, dylid effaith y polisi ar nifer yr ysmygwyr gael ei fonitro'n ofalus.

384. Gan fod 15% o ddefnyddwyr e-sigaréts yn nodi eu bod yn defnyddio e-sigaréts i osgoi'r gwaharddiad ar ysmygu[223], mae'n bosibl na fyddai'r mathau hyn o ddefnyddwyr e-sigaréts yn defnyddio e-sigaréts o gwbl mwyach os cyfyngir ar eu defnydd mewn mannau caeedig. Nid yw'n sicr a fyddai hyn yn golygu eu bod yn llai tebygol o geisio rhoi'r gorau i ysmygu. Mae arweiniad lleihau niwed[224] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yn nodi nad yw'r dystiolaeth bresennol yn eglur ynglŷn â'r buddiannau iechyd a geir wrth ysmygu llai, ond bod pobl sy'n ysmygu llai yn fwy tebygol o roi'r gorau i ysmygu ymhen amser, yn enwedig os ydynt yn defnyddio cynhyrchion trwyddedig sy'n cynnwys nicotin. Gan nad rhoi'r gorau i ysmygu oedd y prif nod, o bosibl, wrth ddefnyddio e-sigaréts yn y modd hwn,

---

[220] Llywodraeth Cymru. Polisïau E-sigaréts: arolwg o weithleoedd yng Nghymru. 2014. http://gov.wales/statistics-and-research/e-cigarette-policies-surveys-schools-workplaces/?skip=1&lang=cy

[221] Ymchwil i bolisïau e-sigaréts yn y sector lletygarwch annibynnol. CIEH Cymru. Tachwedd 2014. Heb ei gyhoeddi.

[222] Wang et al 2006. Cut Down to Quit with Nicotine Replacement Therapies (NRT) in Smoking

[223] Taflen wybodaeth ASH : Use of E-cigarettes in Great Britain. 20 Hydref 2014 http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets

[224] Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Tobacco: harm reduction approaches to smoking. Cyhoeddwyd: Mehefin 2013. Addaswyd ddiwethaf: Gorffennaf 2013. http://www.nice.org.uk/guidance/ph45

a hyd yn hyn dim ond un e-sigarét sydd wedi'i drwyddedu at ddibenion rhoi'r gorau i ysmygu yn y DU, gellid dadlau hefyd eu bod yn annhebygol iawn o roi'r gorau i ysmygu'n gyfan gwbl. Fodd bynnag, gallai defnyddwyr o'r fath ysmygu mwy o sigaréts tybaco o ganlyniad, a gallai hynny effeithio ar eu hiechyd (yn dibynnu ar faint o sigaréts tybaco yr oeddynt yn arfer eu hamnewid am e-sigaréts). Ni roddwyd prawf ar y naill ddamcaniaeth na'r llall, ac o ganlyniad, ni ellir eu mesur yma.

385. Mater arall o dan yr opsiwn hwn yw y byddai'n rhaid i ddefnyddwyr e-sigaréts adael y fangre i ddefnyddio eu e-sigarét. O ganlyniad, mae perygl y byddent yn ysmygu mwg ysmygwyr sydd eisoes yn gorfod gadael y fangre. Ni ellir mesur sut mae'r sefyllfa hon yn niweidio iechyd, gan y byddai'n dibynnu ar ba mor agos yw'r ysmygwr at y defnyddiwr e-sigarét yn ogystal ag am ba hyd y byddent yn aros felly. Gallai'r ffaith fod yn rhaid iddynt adael y fangre hefyd eu hannog i fynd yn ôl i ysmygu tybaco ond nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu mai dyna fyddai'r sefyllfa. Amcangyfrifir bod dau o bob tri defnyddiwr e-sigaréts yn eu defnyddio yn ogystal â chynhyrchion tybaco[225], ac o ganlyniad mae defnyddwyr o'r fath yn parhau i fod yn agored i'r niwed i iechyd a achosir gan ysmygu tybaco[226]. Bydd yr effaith ar iechyd yn amrywio ymysg "defnyddwyr deuol", yn dibynnu ar nifer y sigaréts tybaco y maent yn parhau i'w hysmygu ynghyd â'u e-sigarét. Byddai unrhyw risg ychwanegol i iechyd "defnyddwyr deuol" yn sgol mewnanadlu mwg ysmygwyr tybaco yn fach iawn. Oherwydd y ffactorau hyn, ni ellir mesur yr effaith ychwanegol bosibl ar iechyd.

386. Pa un bynnag, ni fyddai rheidrwydd ar ysmygwyr a defnyddwyr e-sigaréts i ymgynnull yn yr un mannau. Nid oes unrhyw ofyniad i ddarparu cysgodfannau ar gyfer ysmygwyr o dan Ddeddf Iechyd 2006 a Rheoliadau Di-fwg 2007, er bod rhai cyflogwyr yn gwneud hynny. Mewn gweithleoedd lle y darperir cysgodfannau ysmygu, gallai'r cyflogwyr gyflwyno amserau seibiannau ar wahân ar gyfer ysmygwyr a defnyddwyr e-sigaréts neu hyd yn oed gysgodfannau ar wahân ar gyfer ysmygwyr a defnyddwyr e-sigaréts os caniateir iddynt a'u bod o'r farn bod eu hangen. Byddai canllawiau yn ymdrin â'r posibilrwydd hwn.

*Tabl 7.12: Crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 3*

| **Sector** | **Blwyddyn** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17 £** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** |
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Argraffu a dosbarthu arwyddion | 100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Canllawiau CLlLC | 1,400 | 0 | 0 | 1,400 | 0 |
| Cyfathrebu:* | | | | | |
| Mangreoedd | 100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y cyhoedd | 100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |

[225] Taflen wybodaeth ASH: Use of E-cigarettes in Great Britain. 20 Hydref 2014 http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets
[226] http://www.nhs.uk/chq/Pages/2344.aspx?CategoryID=53

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **301,400** | **0** | **0** | **1,400** | **0** |
| **Awdurdodau Lleol** | | | | | |
| Hyfforddiant* | 19,100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol** | **19,100** | **0** | **0** | **1,400** | **0** |
| **Mannau cyhoeddus a gweithleoedd** | | | | | |
| Diweddaru polisïau di-fwg | 2,422,800 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Seibiannau e-sigaréts | 331,700-2,211,200 | 331,700-2,211,200 | 331,700-2,211,200 | 331,700-2,211,200 | 331,700-2,211,200 |
| Hysbysiadau Cosb Benodedig | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| Dirwyon | 10,000 | 22,500 | 2,500 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i fannau cyhoeddus a gweithleoedd** | **2,764,900-4,644,400** | **354,600-2,234,100** | **334,600 – 2,214,100** | **332,100-2,211,600** | **332,100-2,211,600** |
| **Y diwydiant e-sigaréts** | | | | | |
| Yr effaith ar werthiannau | 0-539,200 | 0-539,200 | 0-539,200 | 0-539,200 | 0-539,200 |
| **Cyfanswm y costau i'r diwydiant e-sigaréts** | **0-539,200** | **0-539,200** | **0-539,200** | **0-539,200** | **0-539,200** |
| **Y cyhoedd** | | | | | |
| Hysbysiadau Cosb Benodedig | 3,100 | 4,200 | 4,000 | 2,000 | 2,000 |
| Dirwyon | 2,000 | 1,800 | 2,200 | 600 | 600 |
| **Cyfanswm y costau i'r cyhoedd** | **5,100** | **6,000** | **6,200** | **2,600** | **2,600** |
| **Cyfanswm y costau**** | **3,090,500-5,509,200** | **360,600-2,779,300** | **340,800-2,759,500** | **336,100-2,754,800** | **334,700-2,753,400** |

*Ar gyfer yr eitemau hyn, gellid sicrhau arbedion maint, er enghraifft, trwy gysylltu'r hyfforddiant ar gyfer y timau gorfodi ar draws gwahanol agweddau ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

** Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys gwerth Hysbysiadau Cosb Benodedig a dirwyon a dalwyd gan sefydliadau ac aelodau o'r cyhoedd

**Manteision**

Manteision o ran iechyd

387. Awgrymodd Sefydliad Iechyd y Byd yn ddiweddar[227] y dylid gwahardd y defnydd o systemau electronig ar gyfer cyflenwi nicotin (ENDS) dan do. Ar 18 Hydref 2014, cytunodd partïon Confensiwn Fframwaith Sefydliad y Byd ar Reoli Tybaco i ystyried hyn a mesurau eraill yn ymwneud ag ENDS a awgrymwyd ym mhapur Sefydliad Iechyd y Byd, yn ogystal â systemau electronig nad ydynt yn cynnwys nicotin (ENNDS), gyda'r nod o gyflawni o leiaf yr amcanion canlynol, yn unol â chyfraith pob gwlad:-

(a) atal pobl nad ydynt yn ysmygu a phobl ifanc rhag dechrau defnyddio ENDS ac ENNDS, gan roi sylw arbennig i grwpiau agored i niwed:

(b) lleihau cymaint â phosibl ar risgiau posibl i iechyd defnyddwyr ENDS/ENNDS, ac amddiffyn pobl nad ydynt yn eu defnyddio rhag mewnanadlu eu hallyriadau;

(c) atal honiadau iechyd di-sail rhag cael eu gwneud ynghylch ENDS/ENNDS; ac

(ch) amddiffyn gweithgareddau rheoli tybaco rhag yr holl fuddiannau masnachol a buddiannau breintiedig eraill, gan gynnwys buddiannau'r diwydiant tybaco.

388. Byddai cyfyngiad ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd yn mynd i'r afael â phwyntiau (a) a (b) uchod, a gallai leihau cymaint â phosibl ar risgiau posibl e-sigaréts mewn perthynas â:

- gwneud i ymddygiadau ysmygu ymddangos yn normal unwaith eto;
- eu defnydd ymysg plant a phobl ifanc; ac
- eu heffaith ar ansawdd yr aer.

389. Yn unol â safbwynt Sefydliad Iechyd y Byd, mae'r canlynol wedi eu cyflwyno fel manteision yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Fodd bynnag, gan fod dadl chwyrn ynghylch manteision e- sigaréts o ran iechyd, gyda barn wedi'i hollti ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol[228,229] mae'r ddau safle wedi eu hystyried wrth asesu'r dystiolaeth.

*Gwneud ymddygiadau ysmygu'n beth normal unwaith eto*

390. Cynhyrchir rhai e-sigaréts i edrych fel sigaréts. Mae e-sigaréts yn dynwared y teimlad a'r ymddangosiad o fod yn ysmygu sigarét[230] yn ogystal â darparu rhai o'r arwyddion ymddygiadol ychwanegol y gwyddom eu bod yn bwysig o ran dibyniaeth ar nicotin, gan gynnwys y symudiad 'o'r llaw i'r geg'. Nid yw e-sigaréts wedi bod ar y

[227] Electronic Nicotine Delivery System. Adroddiad gan Sefydliad Iechyd y Byd. Confensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco. FCTC/COP/6/10. 21 Gorffennaf 2014.
[228] http://nicotinepolicy.net/n-s-p/1753-who-needs-to-see-ecigs-as-part-of-a-solution
229 https://tobacco.ucsf.edu/129-public-health-and-medical-authorities-31-countries-write-who-dg-chan-urging-evidence-based-appro
[230] Public Health England. Electronic Cigarettes: Adroddiad wedi ei gomisiynu gan Public Health England

farchnad ers digon o amser i dystiolaeth bendant fod ar gael i ddangos a yw'r effaith hon yn digwydd. Er hynny, ceir llawer o dystiolaeth ledled y byd bod gwaharddiadau ar ysmygu yn rhwystro'r arfer o ysmygu rhag ymddangos yn beth normal.

391. Mae ymchwil hydredol o'r Unol Daleithiau ymysg pobl ifanc yn eu harddegau rhwng 12 ac 16 mlwydd oed wedi canfod bod cysylltiad rhwng yr argraff ei bod yn anoddach ysmygu mewn mannau cyhoeddus a gwaharddiadau ar ysmygu yn y cartref, â llai o debygrwydd o ysmygu.[231] Rhoddodd y rhai a gymerodd ran sgôr i ba mor anodd yw hi i rywun o dan 18 mlwydd oed ysmygu mewn amrywiaeth o fannau cyhoeddus ar raddfa pedwar pwynt, o 'anodd iawn' i 'ddim yn anodd o gwbl'. Roedd yr argraff o ba mor anodd oedd hi i ddod o hyd i fan i ysmygu yn cael effaith gref gyffelyb ar atal a lleihau ysmygu ymysg pobl ifanc yn eu harddegau.[232] Canfu'r ymchwilwyr ei bod yn llai tebygol i bobl ifanc yn eu harddegau fod ar lwybr ysmygu (e.e. un nad yw'n ysmygu i ysmygwr achlysurol neu sefydlog) ar gyfer pob cynnydd mewn uned o ran yr argraff o ba mor anodd yw hi i ysmygu mewn mannau cyhoeddus. Roedd maint yr effaith o ran yr argraff o ba mor anodd yw hi i ysmygu'n gyhoeddus bron yn ddigon i wneud iawn am ddylanwad ffactorau o blaid ysmygu, megis rhieni'n ysmygu. O ran lefelau ysmygu uwch, roedd yn gwrthsefyll y dylanwad hwnnw.[233] Ceir peth tystiolaeth o astudiaeth o'r Unol Daleithiau a oedd yn dilyn pobl ifanc 12 - 17 mlwydd oed dros bedair blynedd, fod byw mewn tref lle y mae deddfwriaeth yn gwahardd ysmygu mewn bwytai, yn gysylltiedig â thebygrwydd llawer llai o symud ymlaen o ysmygu arbrofol i ysmygu sefydlog.[234]

392. Yn ogystal â lleihau'n ffisegol y mannau lle y gallai ysmygu ddigwydd, mae camau i leihau cyfleoedd i ysmygu a'i gwneud hi'n anos ysmygu yn helpu i herio'r argraff bod ysmygu'n ymddygiad normal[235] ac wedi gwneud ysmygu'n beth llai derbyniol yn gymdeithasol[236]. Dylanwadir yn gryf ar bobl ifanc gan eu hymdeimlad o'r hyn sy'n normal a deniadol.[237] Canfu un astudiaeth o Ganada fod pobl ifanc yn fwy tebygol o fod o'r farn bod ysmygu'n dderbyniol ac yn normal gan gymdeithas, po

---

[231] Bernat DH, Erickson DJ, Widome R, Perry CL a Forster JL. Adolescent smoking trajectories: results from a population-based cohort study. Journal of Adolescent Health 2008;43(4):334–40. Ar gael yn: http://www.jahonline.org/article/PIIS1054139X08001572/fulltext

[232] Song A a Glantz S. Pushing secondhand smoke and the tobacco industry outside the social norm to reduce adolescent smoking. Journal of Adolescent Health 2008;43(4):315–17. Ar gael yn: http://www.jahonline.org/article/S1054-139X(08)00235-8/fulltext

[233] Siegel M, Albers AB, Cheng DM, Hamilton WL a Biener L. Local restaurant smoking regulations and the adolescent smoking initiation process: results of a multilevel contexoddeutul analysis among Massachusetts youth. Archives of Pediatrics and Adolescent Medicine 2008;162(5):477. Ar gael yn: http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2948204/

[234] Siegel M, Albers AB, Cheng DM, Hamilton WL a Biener L. Local restaurant smoking regulations and the adolescent smoking initiation process: results of a multilevel contexoddeutul analysis among Massachusetts youth. Archives of Pediatrics and Adolescent Medicine 2008;162(5):477. Ar gael yn: http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2948204/

[235] Alesci N, Forster J a Blaine T. Smoking visibility, perceived acceptability, and frequency in various locations among youths and adults. Preventive Medicine 2003;36(3):272-81. Ar gael yn: http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/12634018

[236] Song A a Glantz S. Pushing secondhand smoke and the tobacco industry outside the social norm to reduce adolescent smoking. Journal of Adolescent Health 2008;43(4):315–17. Ar gael yn: http://www.jahonline.org/article/S1054-139X(08)00235-8/fulltext

[237] Hastings G ac Angus K. Forever cool: the influence of smoking imagery on young people. Llundain: Cymdeithas Feddygol Prydain, Bwrdd Gwyddoniaeth, 2008. Ar gael yn: http://www.management.stir.ac.uk/about-us/?a=19777

fwyaf y maent yn gweld pobl yn ysmygu mewn amrywiaeth o leoliadau.[238] O ganlyniad, trwy wahardd ysmygu mewn bwytai a mannau cyhoeddus eraill, gellir cynorthwyo i'w gwneud yn llai 'normal' i weld pobl yn ysmygu, gan helpu i ailffurfio safonau cymunedol a'r argraff o ba mor dderbyniol yn gymdeithasol yw ysmygu [239], [240].

393. Mae'r Health Survey for England – 2008: Physical Activity and Fitness[241] (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 2008) yn cynnwys asesiad o effaith y gwaharddiad ar ysmygu yn Lloegr. Yn yr arolwg, gofynnwyd i blant 8-15 mlwydd oed am leoliadau lle'r oeddent yn aml yn agos at bobl a oedd yn ysmygu. Ar ôl 1 Gorffennaf 2007, cynyddodd y gyfran a nododd nad oeddent yn agos at ysmygwyr eraill yn aml. Nododd llai o bobl na chyn 1 Gorffennaf 2007 eu bod yn agos at ysmygwyr mewn cartrefi pobl eraill, ar drafnidiaeth gyhoeddus neu mewn mannau eraill.

394. Yn rhan o adroddiad CHETS Cymru 2[242], gofynnwyd i blant a oeddent wedi gweld pobl yn defnyddio e-sigaréts y tu mewn a'r tu allan i amrywiaeth o fannau cyhoeddus yn ystod y mis blaenorol. Gwelwyd e-sigaréts yn cael eu defnyddio amlaf mewn gorsafoedd bysiau (29% y tu mewn; 32% y tu allan), gorsafoedd trenau (24% y tu mewn, 27% y tu allan) a sinemâu (20% y tu mewn; 20% y tu allan). Dywedodd plant hefyd eu bod yn gweld e-sigaréts yn cael eu defnyddio y tu mewn a'r tu allan i leoliadau hamdden (15% y tu mewn; 23% y tu allan), ysbytai (14% y tu mewn; 19% y tu allan) a meddygfeydd (12% y tu mewn, 17% y tu allan).

395. Canfu arolwg gan ASH Cymru[243] ar y defnydd o e-sigaréts ymysg pobl ifanc yng Nghymru fod 79.6% o'r ymatebwyr wedi clywed am e-sigarét, a'r ffynonellau mwyaf cyffredin o wybodaeth a nodwyd oedd y cyfryngau (40%) a ffrindiau neu'r teulu (39.6%). Fodd bynnag, roedd ffynonellau eraill yn cynnwys y rhyngrwyd (28.2%), siopau (27.8%) neu ddieithriaid yn eu defnyddio mewn man cyhoeddus (28.2%). Nododd canran uwch o ymatebwyr hŷn (17-18 mlwydd oed) mai ffrindiau neu'r teulu oedd eu ffynhonnell (48.6%) a'u bod wedi gweld dieithriaid yn eu defnyddio mewn man cyhoeddus (42.9%), o'i gymharu â'r bobl ifanc 15-16 mlwydd oed (35.6% a 24.7%), a'r rhai 13-14 mlwydd oed (39.8% a 24.3%). Nid oedd y ffynonellau ymwybyddiaeth yn annibynnol ar ei gilydd yn yr arolwg hwn, ac er nad yw'r canlyniadau o'r arolwg hwn nac adroddiad CHETS Wales 2 yn cyfateb yn union i ganrannau'r bobl ifanc sy'n defnyddio e-sigaréts, maent yn dangos bod y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus yn creu ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc.

---

[238] Smart R a Stoduto G. Interventions by students in friends' alcohol, tobacco, and drug use. Journal of Drug Education 1997;27:213-22. Ar gael yn: http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/9366127

[239] Smart R a Stoduto G. Interventions by students in friends' alcohol, tobacco, and drug use. Journal of Drug Education 1997;27:213-22. Ar gael yn: http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/9366127

[240] Eureka Strategic Research. Prosiect ymchwil ar atal y defnydd o dybaco ymhlith pobl ifanc. Cynhaliwyd ar gyfer Adran Iechyd a Heneiddio Llywodraeth Awstralia. Canberra: Yr Adran Iechyd a Heneiddio, 2005. Ar gael yn: http://www.health.gov.au/internet/main/publishing.nsf/Content/phd-pub-tobacco-literature-cnt.htm

[241] Health Survey for England - 2008: Physical activity and fitness. Rhagfyr 17, 2009 http://www.hscic.gov.uk/pubs/hse08physicalactivity

[242] http://wales.gov.uk/statistics-and-research/exposure-secondhand-smoke-cars-ecigarette-use-among-children/?skip=1&lang=cy

[243] 'Young People and the Use of E-cigarettes in Wales'. Dr Rosanne Palmer, ASH Cymru; Britt Hallingberg, Ymgeisydd PhD, DECIPHER, Prifysgol Caerdydd. Mawrth 2014

396. Mewn adolygiad o weithgarwch marchnata e-sigaréts[244], canfu ymchwilwyr fod llawer o gynhyrchion e-sigaréts yn dyblygu sigaréts mor agos, o ran eu hymddangosiad a sut y'u defnyddir, fel bod defnyddio dyfeisiau anwedd yn ymddangos yn union fel ysmygu – ac felly'n efelychu'r weithred o ysmygu. Ânt ymlaen i awgrymu bod yr ymddygiad yn parhau i efelychu'r syniad o hunan-feddyginiaethu â nicotin trwy fewnanadlu anwedd i'r ysgyfaint, er ei bod yn gwbl amlwg mai dyfais anwedd ac nid sigarét sy'n cael ei defnyddio, yn yr ystyr nad yw'r ddyfais a ddefnyddir yn debyg i sigarét gonfensiynol. Mae hyn, meddant, yn awgrymu ei bod yn bosibl i e-sigaréts hyrwyddo ysmygu yn anfwriadol.

397. Edrychodd un astudiaeth[245] o 60 o oedolion ifanc a oedd yn ysmygu bob dydd (18-35 mlwydd oed) ar ba un a allai e-sigaréts a systemau electronig eraill ar gyfer cyflenwi nicotin (ENDS) fod yn ysgogiad i gynyddu'r awydd i ysmygu ac ysfeydd am sigaréts cyffredin. Yn yr astudiaeth hon, gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran nodi sgoriau goddrychol cyn ac ar ôl iddynt fod yng nghwmni un o gynorthwywyr yr astudiaeth a oedd yn yfed dŵr potel (ciw rheoli), ac wedyn yn ysmygu naill ai sigarét arferol neu e-sigarét (ciw gweithredol). Canfu'r astudiaeth fod sgoriau awydd ac ysfa'r gwylwyr i ysmygu sigarét gyffredin yn cynyddu'n sylweddol yn sgil profi'n oddefol y ciw e-sigarét a sigarét gyffredin. Roedd yr awydd i ddefnyddio e-sigarét hefyd yn cynyddu yn sgil profi'r ciw e-sigarét ond nid y sigarét gyffredin. Daeth yr awduron i'r casgliad fod y canlyniadau'n darparu'r dystiolaeth gyntaf mewn sefyllfa dan reolaeth y gallai ysfeydd i ysmygu gael eu hysgogi mewn oedolion ifanc sy'n ysmygu bob dydd, yn sgil gweld pobl eraill yn ysmygu e-sigarét.

398. Mae rhai gweithwyr iechyd proffesiynol wedi mynegi pryder ynglŷn â'r posibilrwydd y gallai'r defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig danseilio llwyddiant y camau rheoli tybaco. Mae Ram Moorthy, dirprwy gadeirydd Cymdeithas Feddygol Prydain, wedi dweud mai un rhesymeg allweddol ar gyfer gwahardd y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd fyddai sicrhau nad yw eu defnydd yn tanseilio llwyddiant mesurau rheoli tybaco, trwy atgyfnerthu'r syniad bod ysmygu'n rhywbeth normal / derbyniol.[246] Mae Datganiad Sefyllfa Interim Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd[247] ar ddyfeisiau anweddu nicotin a chynhyrchion cysylltiedig yn nodi eu bod yn pryderu y bydd ymdrechion llwyddiannus a wnaed i sicrhau nad yw ymddygiadau ysmygu'n normal yn cael eu tanseilio, trwy farchnata dyfeisiau anweddu nicotin a thrwy i bobl eu defnyddio'n eang mewn mannau cyhoeddus caeedig.

---

[244] Promotion of electronic cigarettes: tobacco marketing reinvented? Marisa de Andrade, Gerard Hastings a Kathryn Angus. BMJ 2013;347;f7473

[245] Passive exposure to electronic cigarette (e-cigarette) use increase desire for combustible and e-cigarettes in young adult smokers. King et al. Tobacco Control BMJ.
Cyhoeddwyd ar-lein am y tro cyntaf: 21 Mai 2014. Crynodeb ar gael yn:
http://tobaccocontrol.bmj.com/content/early/2014/05/21/tobaccocontrol-2014-051563.abstract

[246] Friends of the Board of Science bulletin; BMA Board of Science. Rhif 9, Hydref 2013.

[247] http://www.adph.org.uk/category/stc/

399. Yn ôl arolwg Llywodraeth Cymru o bolisïau e-sigaréts mewn ysgolion yng Nghymru[248], dywedodd oddeutu traean yr ysgolion cynradd ac ychydig yn llai na hanner yr ysgolion uwchradd a nododd fod ganddynt bolisi e-sigaréts mai'r rheswm dros hynny oedd pryderon cysylltiedig ag effeithiau'r defnydd o e-sigaréts ar gamau nesaf, megis y posibilrwydd eu bod yn agor y drws i ysmygu tybaco, neu eu bod yn normaleiddio ymddygiad ysmygu.

400. Cyfeirir at bapurau ychanegol, a gyhoeddwyd ers i Opsiynau 1 i 3 gael eu hasesu, o dan Opsiwn 4.

*Y defnydd o e-sigaréts ymysg plant a phobl ifanc*

401. Mae llawer o bobl ifanc, gan gynnwys rhai nad ydynt erioed wedi ysmygu, wedi rhoi cynnig ar e-sigaréts. Fodd bynnag, mae defnydd rheolaidd yn llai cyffredin, ac mae'n gysylltiedig â'r defnydd o sigaréts tybaco[249]. Yn seiliedig ar ddata o Unol Daleithiau America[250],[251],[252]. gellir credu y bydd mwy o bobl ifanc yn dechrau defnyddio e-sigaréts, hyd yn oed ymysg pobl nad ydynt yn ysmygu. Un o ganfyddiadau allweddol cyhoeddiad diweddar CHETS Cymru 2[253] oedd bod plant i'w gweld yn defnyddio e-sigaréts fel ffordd newydd o arbrofi â nicotin, a bod hyn yn fwy cyffredin nag ysmygu tybaco ymysg plant 10 ac 11 mlwydd oed. Canfu'r astudiaeth fod 6% o'r plant wedi nodi iddynt ddefnyddio e-sigarét erioed, o'i gymharu â 2% a nododd eu bod wedi ysmygu sigarét tybaco erioed. Canfu'r astudiaeth hefyd nad oedd y rhan fwyaf o'r plant a nododd eu bod wedi defnyddio e-sigarét erioed wedi ysmygu sigarét tybaco[254].

402. Mae ymchwilwyr yn DECIPHer, Prifysgol Caerdydd, wedi dadansoddi'r cyfresi data o adroddiad CHETS Cymru 2 ar y cyd â'r cyfresi data o gylch diweddaraf astudiaeth HBSC Cymru (Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol). Daeth y darganfyddiadau allweddol canlynol i'r amlwg o'r dadansoddiad:

---

[248] Llywodraeth Cymru. Polisïau E-sigaréts: arolwg o ysgolion yng Nghymru. 2014. http://gov.wales/statistics-and-research/e-cigarette-policies-surveys-schools-workplaces/?skip=1&lang=cy

[249] 'Electronic-cigarette use among young people in Wales: evidence from two cross-sectional surveys.' Dr Graham Moore et al. Cyhoeddwyd 15 Ebrill 2015. http://bmjopen.bmj.com/content/5/4/e007072

[250] Electronic cigarette use and conventional cigarette use among US adolescents: a cross-sectional study. Dutra a Glantz. JAMA Pediatr.doi:10.1001/paediatricsrics.2013.5488. Cyhoeddwyd ar-lein 6 Mawrth 2014.

[251] Intentions to smoke cigarettes among never-smoking U.S. middle and high school electronic cigarette users, National Youth Tobacco Survey, 2011-2013. Bunnell et al. Nicotine Tob Res (2015) 17 (2): 228-235. doi: 10.1093/ntr/ntu166 Cyhoeddwyd ar-lein am y tro cyntaf: 20 Awst, 2014 http://ntr.oxfordjournals.org/content/17/2/228

[252] Johnston, L. D., O'Malley, P. M., Miech, R.A., Bachman, J. G., & Schulenberg, J. E. (2015). Monitoring the Future national results on adolescent drug use: Overview of key findings, 2014. Ann Arbor, Mich.: Institute for Social Research, the University of Michigan

[253] http://wales.gov.uk/statistics-and-research/exposure-seconhand-smoke-cars-ecigarette-use-among-children/?skip=1&lang=cy

[254] Children are three times as likely to try e-cigarettes as tobacco products, study finds. Jacqui Wise. Llundain. BMJ 2014;349:g7508 doi: 10.1136/bmj.g7508 (Cyhoeddwyd 5 Rhagfyr 2014)

- Mae'n fwy cyffredin i bob un o'r grwpiau oedran ar wahân i'r grŵp oedran ysgol uwchradd hynaf (15 ac 16 oed) fod wedi defnyddio e-sigaréts ar ryw adeg na bod wedi defnyddio tybaco ar ryw adeg.

- Yn gyffredinol, roedd 12.3% o bobl ifanc mewn ysgol uwchradd (11-16 oed) yn dweud eu bod wedi defnyddio e-sigaréts erioed, heb unrhyw wahaniaeth yn ôl rhyw, ethnigrwydd na chyfoeth y teulu. Mae'r diffyg patrwm cymdeithasol hwn yn awgrymu bod posibilrwydd y gallai'r defnydd o e-sigaréts gynyddu, yn annibynnol ar nodweddion economaidd-gymdeithasol neu ddemograffig.

- Gellir cymharu arbrofi ag e-sigaréts gydag arbrofi â thybaco - mae'r ddau'n cynyddu'n raddol wrth fynd yn hŷn. Roedd cyfran y bobl ifanc a oedd erioed wedi defnyddio e-sigarét ac a ddywedodd eu bod yn ysmygu ar hyn o bryd yn cynyddu o 6.9% ymhlith y grŵp 10-11 oed i 42.7% ymhlith y grŵp 15-16 oed.

- O'i gymharu â'r rhai oedd wedi ysmygu tybaco, mae'r rhai nad ydynt wedi ysmygu o gwbl yn llawer llai tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio e-sigaréts. Fodd bynnag, gan fod grŵp y rhai nad ydynt wedi ysmygu o gwbl yn llawer mwy, mewn termau absoliwt roedd yn cynnwys bron cynifer o bobl ifanc a oedd wedi defnyddio e-sigaréts ambell waith â’r grŵp o ysmygwyr, sy’n grŵp llai.

- Roedd y rhai sy'n ysmygu bob wythnos 100 gwaith yn fwy tebygol na'r rhai nad ydynt yn ysmygu i ddweud eu bod yn defnyddio e-sigaréts yn rheolaidd. Roedd y cysylltiad ag e-sigaréts yr un mor gryf rhwng y rhai a oedd yn ysmygwyr ar hyn o bryd a'r rhai a oedd yn dweud eu bod wedi ysmygu ar ryw adeg, sy'n awgrymu nad yw pobl ifanc yn defnyddio e-sigaréts fel dull effeithiol o roi'r gorau i ysmygu. Fodd bynnag mae'n bwysig nodi nad oedd yr ymchwil yn mesur defnydd dyddiol o e-sigaréts.

- Dim ond 1.5% o'r grŵp 11-16 oed oedd yn dweud eu bod yn defnyddio e-sigaréts yn rheolaidd (h.y. defnyddio e-sigarét bob mis o leiaf). Roedd defnydd rheolaidd o e-sigaréts yn fwy tebygol ymysg y rhai a oedd wedi ysmygu canabis.

403. Daeth yr awduron i'r casgliad fod llawer o bobl ifanc (gan gynnwys y rhai nad oeddent wedi ysmygu o gwbl) wedi rhoi cynnig ar e-sigaréts, ond bod defnydd rheolaidd yn llai cyffredin ac yn cael ei gysylltu'n gryf â defnydd o dybaco. Maent yn nodi bod e-sigaréts yn annhebygol o fod yn cyfrannu at ddibyniaeth ar nicotin ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau, fel y mae pethau ar hyn o bryd, oherwydd bod cyn lleied yn eu defnyddio’n rheolaidd. Maent yn nodi hefyd, fodd bynnag, bod angen cynnal ymchwil hydredol er mwyn deall sut mae’r defnydd o e-sigaréts yn newid mewn gwahanol grwpiau oedran ac er mwyn deall natur y cysylltiadau amserol rhwng y defnydd o e-sigaréts a thybaco.[255]

[255] Moore G, Hewitt G, Evans J, et al. Electronic-cigarette use among young people in Wales: evidence from two cross-sectional surveys. BMJ Open 2015;5: e007072. doi:10.1136/ bmjopen-2014-007072 http://bmjopen.bmj.com/ Yn y wasg

404. Canfu astudiaeth o'r grŵp 14-17 oed yng Ngogledd-orllewin Lloegr gyfrannau sy'n arbrofi ag e-sigaréts (bod wedi rhoi cynnig arnynt neu eu prynu yn yr achos hwn) sy'n ymddangos yn gyson ag astudiaethau eraill â grwpiau oedran tebyg.[256]

405. Canfuwyd bod nicotin yn niweidiol i ymennydd sy'n datblygu[257]. Mae hefyd yn rhwydd mynd yn gaeth i nicotin; mae'r bobl ifanc sy'n fwyaf hawdd eu swyno yn colli rheolaeth dros eu defnydd o dybaco o fewn diwrnod neu ddau i'r adeg y maent yn mewnanadlu sigarét gonfensiynol am y tro cyntaf.[258] Mae plant yn eu harddegau cynnar hefyd yn fwy sensitif i nodweddion boddhaus nicotin o'u cymharu ag oedolion.[259] Gall dibyniaeth ynddi ei hun gael effaith andwyol ar iechyd pobl a'u perthynas ag eraill[260]. Mae'r rhan fwyaf o e- sigaréts yn cynnwys nicotin[261] ac felly mae'r sawl sy'n eu defnyddio yn agored i nicotin.

406. Mae'r sail dystiolaeth fod e-sigaréts yn peri i bobl ddechrau ysmygu tybaco yn parhau i fod yn gyfyngedig, ond nid oes digon o dystiolaeth ar gael i brofi nad yw hynny'n digwydd.

407. Canfu ymchwil ansoddol a gynhaliwyd yn Swydd Gaer a Glannau Mersi bod rhai pobl ifanc yn eu harddegau hŷn yn cysylltu e-sigaréts ag ymdrechion i roi'r gorau i ysmygu, ond bod pobl ifanc, ar y cyfan, yn gweld e-sigaréts fel cynnyrch ynddynt eu hunain, sy'n awgrymu bod llawer o bobl ifanc yn eu defnyddio er difyrrwch neu er mwyn rhoi cynnig ar rywbeth newydd. Yn ôl yr ymchwil hon, y brif ffactor i bobl ifanc oedd y gwahanol flasau a dyluniad yr e-sigaréts a'r cyfle i ddefnyddwyr addasu eu dyfeisiau a'u gwneud yn rhywbeth personol. Awgrymodd yr awduron y gall e-sigaréts, â'u dyluniadau lliwgar a'u gwahanol flasau, fod yn ffordd fwy hygyrch a deniadol i bobl ifanc arbrofi gyda nicotin os nad ydynt yn hoffi blas na theimlad sigaréts tybaco. [262]

408. Awgrymodd astudiaeth fach ymhlith merched 11-12 oed yng Ngogledd Cymru fod merched mewn ardaloedd penodol yn gwybod llawer am y gwahanol flasau o e-sigaréts sydd ar gael ac ymhle y gellir eu prynu. Er enghraifft, mewn dau grŵp ffocws yn Wrecsam, roedd y genethod yn siarad am siop pizza sy'n gwerthu e- sigaréts i blant saith oed neu hŷn. Canfu'r ymchwil hefyd fod athrawon mewn ysgol leol yn Wrecsam yn mynd ag e-sigaréts oddi ar blant bob dydd.[263]

---

[256] Hughes et al. Associations between e-cigarette access and smoking and drinking behaviours in teenagers BMC Public Health 2015, 15:244 http://www.biomedcentral.com/1471-2458/15/244
[257] http://www.surgeongeneral.gov/library/reports/50-years-of-progress/50-years-of-progress-by-section.html
[258] Di Franza J et al (2007). Symptoms of tobacco dependence after brief intermittent use: the development and assessment of nicotine dependence in youth, Archives of Pediatrics and Adolescent Medicine 162 (7): 704-710
[259] The dynamic effects of nicotine on the developing brain. Dwyer, J.B., McQuown, S.C., a Leslie, F.M. (2009) Pharmacology & Therapeutics, 122, 125-139.
[260] http://www.nhs.uk/Livewell/addiction/Pages/addictionwhatisit.aspx
[261] ASH Briefing. Electronic Cigarettes. November 2014. http://ash.org.uk/information/facts-and-stats/ash-briefings
[262] Hardcastle, K, Hughes, K, Worsley, J, Bennett, A, Ireland, R and Sweeney, S (2014). "Most people I know have got one": Young people's perceptions and experiences of electronic cigarettes. Centre for Public Health ym Mhrifysgol John Moores, Lerpwl.
[263] Evans, K. (2014). Smoking in girls aged 11-12 years in North Wales. Social Change UK ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

409. Hysbysir bod e-sigaréts ar gael mewn 7,000 gwahanol flas yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.[264] Defnyddir cynhyrchion tybaco confensiynol â blas yn anghymesur gan bobl ifanc[265] a bydd y Gyfarwyddeb Cynhyrchion Tybaco ddiwygiedig (2014/40/EU) yn gwahardd blasau mewn cynhyrchion tybaco am y rheswm hwn. Fodd bynnag, canfu un astudiaeth a oedd yn edrych ar effaith disgrifiadau o'r blasau ar lefelau diddordeb pobl ifanc yn eu harddegau nad oeddent yn ysmygu ac oedolion a oedd yn ysmygu fod y blasau e-sigaréts y rhoddwyd prawf arnynt yn apelio mwy at yr oedolion a oedd yn ysmygu nag at y bobl ifanc yn eu harddegau nad oeddent yn ysmygu. Er hyn, roedd y diddordeb mewn blasau yn isel ymhlith y ddau grŵp.[266]

410. Canfu'r ail adroddiad ar Newidiadau yng Nghysylltiad Plant â Mwg Tybaco yn yr Amgylchedd" (CHETS Cymru 2)[267] fod rhywfaint o awgrym y gallai'r defnydd o e-sigaréts fod yn gysylltiedig â bwriadau gwrthysmygu gwannach, yn benodol:

- Ymysg y plant nad oeddent yn ysmygu a ddywedodd eu bod wedi defnyddio e-sigarét, nododd 14% efallai y byddent yn dechrau ysmygu o fewn y ddwy flynedd nesaf (o'i gymharu â 2% o'r rhai nad oeddent wedi defnyddio e-sigarét); ac

- Er mai ychydig o blant a ddywedodd y byddant yn ysmygu o fewn dwy flynedd, roedd y plant a oedd wedi defnyddio e-sigarét yn llawer llai tebygol o ddweud na fyddant yn bendant yn ysmygu, ac yn fwy tebygol o ddweud efallai y byddent.

411. O ran y cwestiwn a yw e-sigaréts yn arwain at ysmygu, mae Cyfadran Iechyd y Cyhoedd y Deyrnas Unedig wedi dweud: "*No longitudinal studies in the UK have examined whether electronic cigarettes serve as 'gateways' to future tobacco use. These data are urgently required. Until then, the precautionary principle suggests it would be rash to dismiss the worrying trends in US children.*"

412. Canfu un astudiaeth y gallai e-sigaréts hwyluso'r defnydd parhaol o nicotin. Canfu astudiaeth o fwy na 75,000 o bobl ifanc yn eu harddegau yn Korea[268] fod cysylltiad cryf rhwng y defnydd o e-sigaréts ac ysmygu sigaréts, ac ysmygu trymach,

---

[264] Sefydliad Iechyd y Byd. (2014) Electronic nicotine delivery systems. FCTC/COP/6/10 rev.1. Adroddiad ar gyfer Cynhadledd Partïon Confensiwn Fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd ar Reoli Tybaco, Chweched Sesiwn 13-18 Hydref 2014. [Ar-lein]. Ar gael yn: http://apps.who.int/gb/fctc/PDF/cop6/FCTC_COP6_10Rev1-en.pdf

[265] E-Cigarettes A Scientific Review. Rachel Grana, PhD, MPH; Neal Benowitz, MD; Stanton A. Glantz,PhD http://circ.ahajournals.org/content/129/19/1972.full?ijkey=d28c5d971050a38249828b4dc44736615120eb97&keytype2=tf_ipsecsha

[266] The impact of flavour descriptors on non-smoking teens' and adult smokers' interest in electronic cigarettes. Shiffman et al. 2014. Nicotine Tob Res (2015) doi: 10.1093/ntr/ntu333. http://ntr.oxfordjournals.org/content/early/2015/01/06/ntr.ntu333.short?rss=1

[267] http://wales.gov.uk/statistics-and-research/exposure-secondhand-smoke-cars-ecigarette-use-among-children/?skip=1&lang=cy

[268] Lee, S. et al. (2014). "Electronic cigarette use among Korean adolescents: a cross-sectional study of market penetration, dual use, and relationship to quit attempts and former smoking" yn y Journal of Adolescent Health 2014; 54(6), tud.684-690.

a bod y rhan fwyaf o'r defnyddwyr e-sigaréts yn eu defnyddio yn ogystal â sigaréts yn hytrach nag fel dewis arall yn lle sigaréts confensiynol.

*Mewnanadlu anwedd e-sigaréts pobl eraill*

413. Gallai'r ffaith bod pobl yn llai agored i fewnanadlu anwedd pobl eraill gyflwyno buddiannau i iechyd. Nododd Canolfan Ymchwil Canser yr Almaen yn 2014 yn eu hatodiad ar e-sigaréts[269] fod sawl astudiaeth newydd yn cadarnhau bod y defnydd o e-sigaréts mewn ystafelloedd da do yn amharu ar ansawdd yr aer, er i raddau llawer llai na sigaréts confensiynol. Mae rhai astudiaethau'n awgrymu y gallai gronynnau o aerosol e-sigaréts gael eu gadael yn ddwfn yn yr ysgyfaint a chyfiawnhau pryderon ynglŷn ag iechyd. Awgrymodd un astudiaeth y cyfeiriwyd ati yn yr atodiad hwn na ddylai anwedd pobl eraill fod yn destun pryder ynglŷn ag iechyd, gan nad yw lefelau'r sylweddau peryglus posibl mewn aerosol e-sigarét ar lefel a fyddai'n cyfiawnhau pryder ynglŷn ag iechyd yn ôl y safonau a ddefnyddir i sicrhau diogelwch gweithleoedd. Mae hyn yn dilyn canfyddiadau cyffelyb mewn dau adolygiad arall[270],[271] ar ddiogelwch e-sigaréts, a ganfu fod lefelau'r llygryddion mewn anwedd e-sigaréts yn llawer is nag mewn mwg sigaréts.

414. Fodd bynnag, mae Canolfan Canser yr Almaen yn haeru ei bod yn ddadleuol, am nifer o resymau, defnyddio terfynau tocsicoleg ar gyfer mewnanadlu anwedd yn oddefol. Yn gyntaf, o ran sylweddau sy'n achosi neu'n tueddu i achosi canser, ni ellir pennu terfynau uchaf a nodi y byddai'r sylweddau hyn yn ddiogel o dan y trothwyon hynny. Yn ail, mae gwerthoedd trothwy wedi eu pennu ar gyfer sylweddau unigol ac ni ellir eu defnyddio ar gyfer cymysgedd o wahanol sylweddau fel sydd mewn aerosol e-sigarét. Yn drydydd, mae gwerthoedd trothwy yn asesu'r effeithiau ar iechyd o fod yn agored i lawer mwy o'r sylwedd mewn gweithleoedd yn gyffredinol; nid ydynt yn ystyried yr effaith ar grwpiau sensitif, megis pobl ag alergedd, pobl sy'n dioddef o glefyd cronig na phlant. Yn bedwerydd, mae mewnanadlu anwedd yn wirfoddol yn wahanol iawn i fod yn agored i sylweddau yn anfwriadol mewn gweithleoedd.

Awdurdodau lleol

415. Un o brif fanteision Opsiwn 3 fyddai cefnogi'r broses o orfodi'r gofynion di-fwg presennol. Mae sawl erlyniad o dan y gofynion di-fwg wedi bod yn aflwyddiannus am i'r diffynnydd honni ei fod yn defnyddio e-sigarét ar yr adeg berthnasol, yn hytrach nag ysmygu. Byddai Opsiwn 3 yn ei gwneud yn drosedd ysmygu neu ddefnyddio e-sigarét mewn man cyhoeddus neu weithle di-fwg. Byddai manteision i dimau gorfodi'r awdurdodau lleol hefyd sydd, yn y sefyllfa bresennol, yn gorfod darparu cyngor fesul achos ar y defnydd o e-sigaréts mewn mangreoedd. Mae hyn yn cymryd llawer o amser ac amlinellir y costau ar gyfer ymholiadau o'r fath o dan Opsiwn 1. Byddai'r bwriad o gysoni gofynion i wahardd e-sigaréts â'r gofynion di-fwg

[269] Electronic Cigarettes – An Overview – Atodiad Mawrth 2014. RHifyn 19. German Cancer Research Center, Heidelberg. DKFZ. Red Series Tobacco Prevention and Tobacco Control.
[270] Electronic cigarettes: review of use, content, safety, effects on smokers and potential for harm and benefit. Hajek et al. 2014. Addiction, 109, 1801–1810 doi:10.1111/add.12659
[271] Safety evaluation and risk assessment of electronic cigarettes as tobacco cigarette substitutes: a systematic review. Farsalinos a Polosa. Therapeutic Advances in Drug Safety. Ebrill 2014; 5(2): 67–86. doi: 10.1177/2042098614524430 http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4110871/

presennol yn gwneud y gyfraith yn syml ac yn hawdd ei gweithredu, ei deall, a'i gorfodi ar gyfer mangreoedd, aelodau o'r cyhoedd ac awdurdodau lleol.

Mannau cyhoeddus a gweithleoedd

416. Byddai sefydliadau sydd eisoes wedi penderfynu cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts yn eu mangreoedd yn elwa, gan y byddai eu polisïau yn cael eu hategu gan ddeddfwriaeth, a byddid yn ymdrin â'u pryderon ynghylch gorfodi'r ddeddfwriaeth ddi-fwg bresennol yn y ffordd fwyaf effeithiol.

417. Mae'r dystiolaeth yn esblygu'n gyson ynglŷn â'r manteision posibl o ran iechyd sy'n gysylltiedig â defnyddio e-sigaréts fel ffordd o roi'r gorau i ysmygu, a'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r defnydd ohonynt ymhlith pobl ifanc ac i'r rhai sydd o gwmpas y defnyddiwr. Byddai sefydliadau sy'n ansicr ar hyn o bryd a ddylent gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts yn eu mangreoedd, o bosibl oherwydd bod y materion yn gwrthddweud ei gilydd, yn elwa ar beidio â gorfod ystyried y cwestiwn hwn eu hunain. Byddai sefydliadau sydd eisoes wedi rhoi cyfyngiadau gwirfoddol ar waith ar y defnydd o e-sigaréts yn eu mangreoedd yn elwa ar beidio â gorfod adolygu eu polisïau'n rheolaidd. Er y byddai angen adolygu canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o dro i dro o bosibl, er mwyn cynnwys y dyfeisiau newydd sy'n cyrraedd ar y farchnad er enghraifft, ni fyddai hwn yn adolygiad rheolaidd ac ni fyddai angen i fangreoedd di-fwg dreulio llawer o amser yn ei ystyried. Yn seiliedig ar y costau a amcangyfrifir o dan Opsiwn 2 ar gyfer adolygu polisïau presennol ar e-sigaréts o'u cymharu â chanllawiau Llywodraeth Cymru, amcangyfrifir y gallai sefydliadau sydd eisoes wedi sefydlu polisïau ar y defnydd o e-sigaréts, arbed hyd at £2,320,200 bob tair blynedd. Mae'r arbedion potensial hyn wedi eu rhannu'n gyfartal dros dair blynedd o 2018/19, sef £773,400 y flwyddyn.

*Tabl 7.13: Arbedion cost i fangreoedd sydd eisoes wedi sefydlu polisïau ar y defnydd o e-sigaréts*

| **Math o sefydliad** | **Arian a arbedir (£)** |
|---|---|
| Sefydliadau'r sector cyhoeddus | 9,200 |
| Ysgolion | 26,700 |
| Sector preifat: cyflogwyr mawr | 74,300 |
| Sector preifat: Busnesau Bach a Chanolig | 2,210,000 |
| **Yr holl sefydliadau** | **2,320,200** |

418. Fe allai cyflogwyr arbed costau mewn ffyrdd eraill. Awgrymodd yr American Industrial Hygiene Association yn 2014 yn y Papur Gwyn 'Electronic Cigarettes in the Indoor Environment': "*if e-cigarettes are not regulated in public places, contaminants*

*produced by them in the ambient air may keep customers away. At this point, most Americans would not want to be an airplane passenger or be eating in a restaurant where traditional cigarette smoking is freely permissible. If e-cigarettes are not regulated in workplaces, the real and/or perceived effects will likely result in lost productivity, comparable to the lost productivity associated with poor indoor environmental quality*."[272]

419. Mae'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) yn cynnig arweiniad tebyg i gyflogwyr ar y defnydd o e-sigaréts yn y gweithle. Mae ACAS yn awgrymu y gallai cyflogwyr ddymuno ystyried a yw dyfeisiau o'r fath yn debygol o anesmwytho gweithwyr eraill, yn enwedig os ydynt yn feichiog neu'n ceisio rhoi'r gorau i ysmygu eu hunain - neu a yw eu defnyddio dan do yn cyd-fynd â delwedd broffesiynol y sefydliad, yn enwedig os yw cleientiaid neu aelodau o'r cyhoedd yn debygol o ddod i'r gweithle. Mae ei arweiniad hefyd yn awgrymu y cydnabyddir ar y cyfan bod ysmygu bellach yn cael ei gysylltu ag amserau seibiant yn hytrach nag amser gwaith ers i'r gwaharddiad ar ysmygu ddod i rym. O ganlyniad, gallai cyflogwyr fod yn amharod i ganiatáu e-sigaréts mewn amgylchedd gwaith ac efallai ei bod yn well ganddynt ymdrin â hwy yn union yr un modd â sigaréts confensiynol.[273]

420. Mae'n bosibl felly y byddai cyflogwyr yn arbed costau o ran cysylltiadau cyhoeddus a chynhyrchiant staff yn sgil gwaharddiad ar e-sigaréts. Fodd bynnag, ni ellir mesur yr arbedion cost posibl hyn. Gellid sicrhau'r manteision hyn hefyd o dan Opsiwn 2 ond ni fyddai mor hawdd eu cyflawni gan na fyddent yn cael eu hategu gan ddeddfwriaeth.

*Tabl 7.14: Crynodeb o'r arbedion cost sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 3*

| **Sector** | **Blwyddyn** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17 £** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** |
| **Awdurdodau Lleol** | | | | | |
| Ymdrin ag ymholiadau / achosion | 1,200 | 1,500 | 1,900 | 2,300 | 2,700 |
| **Cyfanswm yr arbedion i awdurdodau lleol** | **1,200** | **1,500** | **1,900** | **2,300** | **2,700** |
| **Mannau Cyhoeddus a Gweithleoedd** | | | | | |
| Adolygu polisïau yn unol â'r canllawiau | 0 | 0 | 773,400 | 773,400 | 773,400 |
| **Cyfanswm yr arbedion i fannau** | **0** | **0** | **773,400** | **773,400** | **773,400** |

[272] 'White Paper: Electronic Cigarettes in the Indoor Environment.' American Industrial Hygiene Association. Hydref 19, 2014.
[273] http://www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=4391

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **cyhoeddus a gweithleoedd** | | | | | |
| **Cyfanswm yr arbedion** | **1,200** | **1,500** | **775,300** | **775,700** | **776,100** |

**Opsiwn 4: Deddfwriaeth i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus penodedig**

**Disgrifiad**

421. O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn rhestr benodedig o fannau cyhoeddus yng Nghymru.

422. Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno rhestr o fangreoedd penodol lle byddai cyfyngiad ar y defnydd o e-sigaréts. Mae'r mangreoedd hynny a fyddai'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts yn cynnwys: sefydliadau addysg i bobl dan 18 oed; mangreoedd lle darperir gofal plant; mangreoedd sy'n gweini bwyd a diod; cludiant cyhoeddus a chanolfannau cludiant cyhoeddus (megis gorsafoedd trenau a bysiau); cludiant ysgol; ac ysbytai. Byddai'r cyfyngiad ar e-sigaréts yn y mangreoedd a restrir uchod dim ond yn berthnasol i safleoedd caeedig neu sylweddol gaeedig.

423. Ac eithrio sefydliadau addysg i rai dan 18 oed, dim ond y rhannau o'r safleoedd hynny sydd ar agor i'r cyhoedd fyddai angen gwahardd y defnydd o e-sigaréts a dim ond pan fyddant ar agor i'r cyhoedd. Mae'n rhaid i sefydliadau addysg i rai dan 18 oed wahardd y defnydd o e-sigaréts yn gyfan gwbl oherwydd bod gan blant fynediad i bob ardal mewn safle o'r fath; hyd yn oed y rhai hynny nad ydynt o reidrwydd ar agor i'r cyhoedd megis yr ystafell athrawon.

424. Byddai'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru o dan yr opsiwn hwn yn cynnwys canllawiau i gefnogi mangreoedd y mae'n ofynnol iddynt wahardd y defnydd o e-sigaréts, a chanllawiau i swyddogion gorfodi, yn ogystal â chanllawiau i fangreoedd nad ydynt wedi eu cynnwys yn y cyfyngiadau deddfwriaethol ar y defnydd o e-sigaréts yn eu mangreoedd (y cyfeirir atynt o hyn allan yn ganllawiau Llywodraeth Cymru). Ni fyddai timau gorfodi'r awdurdod lleol yn gorfodi'r polisïau gwirfoddol hyn ynglŷn â gwahardd e-sigaréts, er y byddai disgwyl iddynt roi cyngor ar dderbyn y canllawiau yn eu mangreoedd unigol.

425. Gall mangreoedd nad yw'n ofynnol iddynt wahardd y defnydd o e-sigaréts o dan yr Opsiwn hwn ddewis ystyried a chymhwyso'r agweddau gwirfoddol ar ganllawiau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fel y nodir o dan Opsiwn 2, nid yw'n debygol y bydd llawer o sefydliadau y tu allan i'r sector cyhoeddus yn derbyn y canllawiau gwirfoddol. Mae'r mangreoedd a nodir o dan Opsiwn 4 yn cynrychioli cyfran fawr o holl sefydliadau'r sector cyhoeddus, y mae llawer ohonynt eisoes yn gweithredu cyfyngiadau gwirfoddol ar y defnydd o e-sigaréts yn eu safleoedd. O ystyried hyn, nid yw'n debygol y bydd y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu ar yr agweddau gwirfoddol ar ganllawiau Llywodraeth Cymru yn sylweddol, felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn yr opsiwn hwn.

426. Mae'r costau ar gyfer mannau cyhoeddus a'r diwydiant e-sigaréts a gyflwynir yn yr Opsiwn hwn wedi eu seilio felly ar y mangreoedd a restrir uchod yn unig yn cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts ac maent wedi eu cyfrifo o'r costau a'r buddion a aseswyd o dan Opsiwn 3. Gan ddefnyddio data cyflogaeth[274], mae Opsiwn 4 yn cynrychioli oddeutu 38% o'r mangreoedd a nodir o dan Opsiwn 3. Fodd bynnag, gan fod y mangreoedd hyn ar agor i'r cyhoedd, byddai'r mesurau hyn yn amddiffyn cyfran uwch o boblogaeth Cymru. At hynny, gan ei bod yn debygol iawn y bydd plant yn bresennol yn y mangreoedd a nodir, byddai cyfyngiadau yn y mangreoedd hyn yn gyfraniad pwysig i atal ailnormaleiddio ymddygiadau ysmygu ar gyfer plant a phobl ifanc.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

427. Byddai Llywodraeth Cymru yn darparu arwyddion i reolwyr mangreoedd perthnasol sy'n bodloni'r gofynion gorfodol. Byddai'r arwyddion yn cynnwys neges rybuddio newydd i gyfleu'r gwaharddiad ar ddefnyddio e-sigaréts yn y safleoedd[275]. Amcangyfrifir y bydd y gost i Lywodraeth Cymru argraffu a dosbarthu arwyddion ychwanegol yn 38% o'r gost gyfwerth o dan Opsiwn 3, a fyddai'n gost o oddeutu £38,000. Ni fyddai perchnogion mangreoedd yn gyfrifol am gost yr arwyddion.

428. Amcangyfrifir y bydd y costau sy'n gysylltiedig â chyfleu'r cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus penodol yn gyson â'r rhai a amlinellir o dan Opsiwn 3. Mae hyn oherwydd y byddai nifer y bobl y byddai angen iddynt wybod am y newidiadau yn aros yr un fath. Byddai costau'r gwaith ymgyrchu cyhoeddus felly oddeutu £100,000 yn 2016/17.

429. Gan y byddai angen i oddeutu 38% o fangreoedd wahardd y defnydd o e-sigaréts o dan yr Opsiwn hwn o'i gymharu ag Opsiwn 3, amcangyfrifwn mai £38,000 fyddai'r costau sy'n gysylltiedig â chyfleu'r cyfyngiadau i'r mangreoedd perthnasol yn 2016/17 (38% o'r costau a amlinellir o dan Opsiwn 3).

430. Fel y nodwyd eisoes, byddai Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau i gefnogi gweithrediad y gofyniad newydd o wahardd e-sigaréts. Byddai'r canllawiau yn rhoi cyngor i fangreoedd nad yw'n ofynnol iddynt yn ôl y gyfraith i wahardd y defnydd o e-sigaréts, ond yr hoffant efallai ystyried cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts yn eu mangreoedd yn wirfoddol. Amlinellir y costau sy'n gysylltiedig â datblygu canllawiau Llywodraeth Cymru o dan Opsiwn 2. Rhagwelir y byddai'r costau ar gyfer datblygu, cynnal a diweddaru'r canllawiau tua'r un peth yn yr Opsiwn hwn.

431. Cyfanswm y gost o ddatblygu, dylunio, cyfieithu ac argraffu canllawiau Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf felly fyddai £9,300. Byddai'r holl gostau hyn yn daladwy yn 2016/17.

---

[274] Swyddi gweithwyr yng Nghymru fesul diwydiant a blwyddyn. https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Employees-Only/Business-Register-and-Employment-Survey-SIC2007/employeejobsinwales-by-industry-year

[275] Byddai'r gofynion diwygiedig o ran arwyddion yn cael eu nodi mewn rheoliadau yn amodol ar y weithdrefn negyddol.

432. Cyfanswm cost ymgysylltiad staff Llywodraeth Cymru pan fydd canllawiau Llywodraeth Cymru wedi eu cyhoeddi fyddai oddeutu £3,000 yn 2016/17, gan ostwng i £1,500 y flwyddyn o 2017/18 ymlaen.

433. Byddai canllawiau Llywodraeth Cymru yn cael eu diweddaru bob tair blynedd. Byddai cyfanswm cost pob adolygiad felly oddeutu £1,400, yn daladwy bob tair blynedd. Byddai'r adolygiad cyntaf yn digwydd yn 2019/20.

434. Gellid anfon y gwaith o ddatblygu, cynhyrchu ac adolygu canllawiau Llywodraeth Cymru allan i gorff allanol (er enghraifft awdurdod lleol). Os caiff y gwaith hwn ei anfon allan byddai Llywodraeth Cymru yn dal yn gorfod talu'r costau.

435. Byddai angen diweddaru canllawiau di-fwg CLILC i gyfeirio at y ddeddfwriaeth ddi-fwg newydd, sy'n ailddatgan Deddf Iechyd 2006. Byddai hefyd angen eu diweddaru i gyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru am y cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts. Amcangyfrifir y bydd y costau sy'n gysylltiedig â diweddaru canllawiau CLILC yr un â'r rhieni a nodir o dan Opsiwn 3 a byddai'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r costau hyn felly yn £1,400 yn 2016/17. Byddai cost diweddariadau eraill yn unol â hyn, a bydd y diweddariadau cyntaf yn digwydd yn 2019/20.

Awdurdodau Lleol

436. Fel yn achos Opsiwn 3 ni fyddai costau ychwanegol i awdurdodau lleol ar gyfer monitro'r gwaith o gydymffurfio â'r cyfyngiadau newydd. Byddai swyddogion gorfodi yn archwilio cydymffurfiad mangreoedd â'r gofyniad newydd hwn yn rhan o'u harchwiliadau rheolaidd ar gyfer y gofynion di-fwg presennol, ac archwiliadau hylendid bwyd, er enghraifft. Byddai mangreoedd sy'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts o dan yr Opsiwn hwn bob tro yn ddi-fwg hefyd. Gallai cyngor ar ba un a ddylid cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mangreoedd nad oes gofyniad arnynt i wahardd y defnydd o e-sigaréts o dan yr opsiwn hwn barhau fesul achos (yn unol â'r drefn arferol), er y byddai swyddogion gorfodi yn elwa ar arweiniad gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r cyngor hwn.

437. Byddai angen i swyddogion gorfodi yr awdurdod lleol gael hyfforddiant am y cyfyngiadau newydd ar y defnydd o e-sigaréts. Byddai'r costau sy'n gysylltiedig â darparu a mynd i'r hyfforddiant yr un peth â'r rhai a aseswyd o dan Opsiwn 3, gan y byddai'r un fformat hyfforddi yn cael ei ddefnyddio a byddai angen i'r un nifer o swyddogion fynd ar yr hyfforddiant. Felly byddai cyfanswm y gost i awdurdodau lleol fynd ar hyfforddiant yn gost un tro o oddeutu £19,100 yn 2016/17.

Mannau cyhoeddus a gweithleoedd

438. Byddai angen i reolwyr mangreoedd cyhoeddus sicrhau bod yr arwyddion cywir wedi eu dangos. Byddai Llywodraeth Cymru yn darparu'r arwyddion newydd sy'n bodloni'r gofynion newydd ac ni fydd cost am hyn i berchnogion y mangreoedd sy'n gynwysedig yn y cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts.

439. Ni fyddai costau ychwanegol i weithleoedd nad ydynt yn fannau cyhoeddus a nodir yn y ddeddfwriaeth.

440. Byddai'n ofynnol i'r bobl berthnasol yn y mannau cyhoeddus a nodir yn y ddeddfwriaeth sicrhau bod eu mangreoedd yn cadw at y cyfyngiadau newydd ar y defnydd o e-sigaréts. O ystyried y dylai'r holl fannau cyhoeddus a nodir eisoes fod yn cydymffurfio â'r gofynion di-fwg presennol, amcangyfrifir y dylai fod yn syml cyflawni hyn. Byddai angen iddynt greu polisi ar y defnydd o e-sigaréts, a fyddai'n debyg i'r polisi presennol ar ysmygu, a chyfleu'r polisi i'r staff. Amcangyfrifir y byddai hyn felly yn cymryd hanner yr amser y byddai ystyriaeth lawn o ganllawiau gwirfoddol Llywodraeth Cymru ar y defnydd o e-sigaréts o dan Opsiwn 2. Mae hyn yn fwy nag Opsiwn 3, a nodwyd yn un chwarter o gostau llawn Opsiwn 2, gan ei fod yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai mangreoedd yn datblygu polisi dim e-sigaréts newydd i adlewyrchu'r gofynion deddfwriaeth (h.y. nid dim ond yn diweddaru eu polisi di-fwg fel o dan Opsiwn 3). Mae'r costau a nodir isod felly yn hanner o'r costau llawn a amcangyfrifir o dan Opsiwn 2[276] (nid y costau gostyngedig a addaswyd ar gyfer defnydd cyfyngedig).

441. Cyflwynir y costau hyn am bob sector yr effeithir arno. Mae Opsiwn 2 yn nodi cost derbyn y canllawiau gwirfoddol yn y sector cyhoeddus (pob sefydliad ac eithrio ysgolion), ysgolion a gynhelir, busnesau bach a chanolig a chyflogwyr mawr. At ddiben yr Opsiwn hwn, mae colegau addysg bellach a gynhelir (colegau AB) ac ysbytai GIG Cymru yn y sector cyhoeddus ac felly wedi eu datgan fel hanner o gost derbyn y canllawiau yn llawn o dan Opsiwn 2 ar gyfer pob sefydliad y sector cyhoeddus.[277] Mae ysgolion a gynhelir wedi eu nodi fel hanner y gost o dderbyn y canllawiau yn llawn ar gyfer mangreoedd o'r fath o dan Opsiwn 2. Mae'r costau ar gyfer ysgolion annibynnol, ysbytai preifat a darparwyr gofal plant wedi eu seilio ar hanner y gost lawn o dderbyn y canllawiau yn llawn i bob busnes bach a chanolig yn Opsiwn 2[278] a'r data sydd ar gael ar nifer yr ysgolion annibynnol,[279] ysbytai preifat,[280] a darparwyr gofal plant yng Nghymru. Mae'r costau ar gyfer mangreoedd sy'n gweini bwyd a diod a darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus yn seiliedig ar ddata cyflogaeth ar gyfer y sectorau hyn wedi ei rannu i hanner y gost lawn o dderbyn y canllawiau yn Opsiwn 2 o ran y sector preifat.[281]

442. Mae'r costau a amcangyfrifir fesul sector, a fyddai'n daladwy yn 2016/17, fel a ganlyn:

- Colegau AB ac ysbytai GIG Cymru - £14,900;

---

[276] Mae cost lawn derbyn y canllawiau o dan Opsiwn 2 yn gost un tro yn 2016/17 o £9,691,300.

[277] Y gost lawn a amcangyfrifir ar gyfer derbyn y canllawiau yn Opsiwn 2 o ran sefydliadau'r sector cyhoeddus yw £29,700.

[278] Y gost lawn a amcangyfrifir ar gyfer derbyn y canllawiau yn Opsiwn 2 o ran busnesau bach a chanolig yw £40.98.

[279] Yn ôl data Llywodraeth Cymru, mae 66 o ysgolion annibynnol yng Nghymru. http://gov.wales/statistics-and-research/address-list-of-schools/?skip=1&lang=cy

[280] Mae Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru yn cynnwys: 6 ysbyty aciwt; 6 sefydliad iechyd meddwl (sy'n cynnwys 23 uned); a 2 sefydliad sy'n darparu gwasanaethau anabledd. www.wiha.org.uk

[281] Yn ôl Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), mae 4,333 o ddarparwyr gofal plant cofrestredig yng Nghymru. http://cssiw.org.uk/find-a-care-service/service-directory/?skip=1&lang=cy

- Ysgolion a gynhelir[282] - £45,200;
- Ysgolion annibynnol[283] - £1,400;
- Ysbytai preifat[284] - £300;
- Darparwyr gofal plant[285] - £88,800;
- Darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus[286] - £153,600;
- Mangreoedd sy'n gweini bwyd a diod[287] - £357,500;
- **Cyfanswm y costau - £661,700**

443. Byddai gofyniad hefyd i fangreoedd adolygu eu polisïau yn erbyn unrhyw ddiweddariad i ganllawiau dim e-sigaréts yn 2019/20.[288] Rhagdybiwyd y byddai adolygu polisiau yn erbyn unrhyw ddiweddariad i'r canllawiau yn cymryd hanner yr amser y byddai yr adolygiad cyntaf i ganllawiau gwreiddiol Llywodraeth Cymru. Mae'r costau a amcangyfrifir a fyddai'n daladwy bob tair blynedd, a'r adolygiad cyntaf yn 2019/20, fel a ganlyn:

- Colegau AB ac ysbytai GIG Cymru - £7,500;
- Ysgolion a gynhelir – £22,600;
- Ysgolion annibynnol - £700;
- Ysbytai preifat - £200;
- Darparwyr gofal plant - £44,400;
- Darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus gan y sector preifat - £76,800;
- Mangreoedd sy'n gweini bwyd a diod - £178,800;
- **Cyfanswm y gost - £331,000**

444. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â chreu polisïau dim e-sigaréts newydd a diweddaru polisïau yn erbyn unrhyw ganllawiau diwygiedig yn debygol o fod yn oramcangyfrif. Mae hyn oherwydd y defnyddiwyd y costau ar gyfer pob sefydliad yn y sector cyhoeddus i gyfrifo'r costau ar gyfer colegau AB a gynhelir ac ysbytai GIG Cymru. Pan ddefnyddiwyd data cyflogaeth, mae'r data sydd ar gael yn cynrychioli sectorau ehangach na'r mangreoedd yr effeithir arnynt. Byddai'r rhai sy'n gyflogedig mewn 'trafnidiaeth a storio' yn ymestyn y tu hwnt i'r rhai a gyflogir gan ddarparwyr trafnidiaeth gyhoeddus.

---

[282] Rhagdybir y byddai polisïau di-fwg ysgolion a gynhelir yn ymestyn i'w darpariaeth cludiant ysgol ac felly nid yw'n ofynnol cael ystyriaeth benodol ar gyfer cludiant ysgol. Y gost lawn a amcangyfrifir ar gyfer derbyn y canllawiau o ran ysgolion a gynhelir yn Opsiwn 2 yw £90,400.

[283] Rhagdybir y byddai polisïau di-fwg ysgolion annibynnol yn ymestyn i'w darpariaeth cludiant ysgol ac felly nid yw'n ofynnol cael ystyriaeth benodol ar gyfer cludiant ysgol. Y gost lawn a amcangyfrifir ar gyfer derbyn y canllawiau o ran ysgolion annibynnol yn Opsiwn 2 yw £2,700.

[284] Y gost lawn a amcangyfrifir ar gyfer derbyn y canllawiau o ran ysbytai preifat yw £600.

[285] Y gost lawn a amcangyfrifir ar gyfer derbyn y canllawiau o ran darparwyr gofal plant yw £177,600.

[286] Rhagdybir y byddai polisïau di-fwg darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus yn ymestyn i'w canolfannau trafnidiaeth ac felly nid yw'n ofynnol cael ystyriaeth benodol ar gyfer y mangreoedd hynny. Yn ôl data StatsCymru, roedd 3.21% o'r rhai a oedd yn gyflogedig yn 2013 yn gweithio mewn 'trafnidiaeth a storio'. Y gost lawn a amcangyfrifir ar gyfer derbyn y canllawiau o ran darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus yw £307,200.

[287] Yn ôl data StatsCymru, roedd 7.47% o'r rhai a oedd yn gyflogedig yn 2013 yn gweithio mewn 'llety a gweithgareddau gwasanaethu bwyd'. Y gost lawn a amcangyfrifir ar gyfer derbyn y canllawiau o ran mangreoedd sy'n gweini bwyd a diod yw £715,000.

[288] Nid yw costau adolygu polisïau yn sgil diweddariadau i'r canllawiau wedi eu nodi yn Opsiwn 3 oherwydd y byddai'n ofynnol i fangreoedd wneud hynny o dan y gofynion di-fwg presennol ac felly nid yw'r costau yn ychwanegol i'r status quo.

445. Rhagdybir y byddai amledd hysbysiadau cosb benodedig (FPN) neu ddirwyon a roddir i reolwyr mangreoedd o ran y gofynion dim e-sigaréts newydd yr un peth â'r hyn a nodir o dan Opsiwn 3. Er bod cwmpas Opsiwn 4 yn fwy cyfyng nag Opsiwn 3 o ran nifer y mangreoedd sy'n gynwysedig, cydnabu y gallai cyfyngiad rhannol ar y defnydd o e-sigaréts fod yn fwy cymhleth i'w roi ar waith na'r cyfyngiadau llawn yn Opsiwn 3, ac felly gallai arwain at nifer tebyg o droseddau. Byddai swyddogion gorfodi yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda rheolwyr mangreoedd y bydd yn ofynnol iddynt wahardd y defnydd o e-sigaréts er mwyn lliniaru unrhyw ddryswch posibl. O dan yr opsiwn hwn, bydd lefel y dirwyon o ran y drosedd o fethu ag atal defnydd e-sigaréts mewn mannau dim e-sigaréts yn llai na'r lefel o dan y drefn ddi-fwg (Lefel 3 ar y raddfa safonol, yn hytrach na Lefel 4 ar gyfer troseddau di-fwg). Felly, er y tybir y bydd amledd y dirwyon yr un peth ag yn Opsiwn 3, mae'r gost sy'n gysylltiedig â'r dirwyon hynny yn uchafswm o £1,000 y ddirwy. Fel yn Opsiwn 3, rhagdybiwyd y byddai'r holl ddirwyon ar y lefel uchaf. Fodd bynnag, maent yn aml yn is na hyn mewn gwirionedd. Adlewyrchir cost yr FPN a'r dirwyon sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 4 yn y tablau isod:

*Tabl 7.15:*

| **Blwyddyn** | **FPN a ddosbarthwyd** | **Swm yr FPN (£)** |
|---|---|---|
| 2016/17 | 2 | 400 |
| 2017/18 | 2 | 400 |
| 2018/19 | 2 | 400 |
| 2019/20 | 2 | 400 |
| 2020/21 | 2 | 400 |

*Tabl 7.16:*

| **Blwyddyn** | **Erlyn llwyddiannus** | **Cyfanswm y Ddirwy £** |
|---|---|---|
| 2016/17 | 4 | £4,000 |
| 2017/18 | 9 | £9,000 |
| 2018/19 | 1 | £1,000 |
| 2019/20 | 0 | £0 |
| 2020/21 | 0 | £0 |

446. Gallai fod costau i'r mannau cyhoeddus penodedig yn sgil egwyl ar gyfer e-sigarét i'r staff sy'n gweithio yn y mannau cyhoeddus hynny. Ystyrir bod y costau hyn yn ddibwys o dan yr opsiwn hwn, oherwydd na fyddai angen o reidrwydd i weithwyr adael y safle i ddefnyddio'r e-sigarét, yn hytrach gallent ddefnyddio'r teclyn yn rhannau'r safle nad ydynt ar agor i'r cyhoedd, megis ystafell staff neu storfa, neu mewn unrhyw ardal nad yw wedi ei dynodi yn ardal dim e-sigaréts lle caniateir hynny yn y darpariaethau. Beth bynnag, yr unig gostau ar gyfer egwylion ychwanegol fyddai mewn mannau cyhoeddus lle mae gweithwyr yn cael defnyddio eu e-sigaréts wrth weithio ar hyn o bryd. Mae gan lawer o'r mangreoedd, y bydd yn ofynnol iddynt wahardd y defnydd o e-sigaréts o dan yr opsiwn hwn, gyfyngiadau gwirfoddol ar waith eisoes ar y defnydd o e-sigaréts yn eu hardaloedd caeedig, fel y gwelir isod.

Sefydliadau addysg a thrafnidiaeth ysgol

447. Byddai'r defnydd o e-sigaréts mewn sefydliadau addysgol i rai dan 18 oed (ysgolion cynradd ac uwchradd a cholegau addysg bellach) wedi ei gyfyngu yn yr holl ardaloedd caeedig a sylweddol gaeedig wrth gael eu defnyddio ar gyfer darparu addysg. Gellid bod costau yn gysylltiedig felly ag egwylion e-sigaréts mewn ysgolion a cholegau addysg bellach.

448. Gellir dadlau y byddai staff sy'n gweithio mewn sefydliadau addysgol i rai dan 18 oed ddim ond yn gallu defnyddio eu e-sigarét yn ystod amseroedd egwyl am resymau proffesiynoldeb yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r un peth yn debygol o fod yn wir am bobl sy'n gweithio ar drafnidiaeth ysgol, yn ogystal ag am resymau iechyd a diogelwch wrth yrru. Ystyrir felly mai cost pen isaf egwylion e-sigaréts mewn ysgolion ar gyfer Opsiwn 4 yw £0 y flwyddyn.

449. Yn ôl data StatsCymru[289], roedd 10.72% o'r rhai a oedd yn gyflogedig yng Nghymru yn 2013 yn gweithio ym maes 'addysg'. Ar sail y gost flynyddol o egwylion e-sigaréts i economi Cymru yr amcangyfrifir yn Opsiwn 3 ei fod rhwng £331,700 a £2,211,200, byddai'r gost pen uchaf a amcangyfrifir ar gyfer egwylion e-sigarét i'r rhai a gyflogir ym maes addysg rhwng £35,600 a £237,000 y flwyddyn (h.y. 10.72% o'r costau a amlinellir yn Opsiwn 3). Mae hyn yn debygol o fod yn oramcangyfrif oherwydd y byddai'r rhai sy'n gyflogedig ym maes 'addysg' yn cynnwys y rhai sy'n gyflogedig, er enghraifft, mewn prifysgolion nad ydynt wedi eu cynnwys yn yr opsiwn hwn.

450. Nid ystyriwyd egwylion e-sigaréts ychwanegol i bobl sy'n gweithio ar gludiant ysgol. Mae hyn oherwydd ei bod yn debygol eu bod eisoes yn ofynnol iddynt ddefnyddio ei e-sigaréts yn ystod amseroedd egwyl a amserlennwyd.

451. Un o ddangosyddion Gwobr Ansawdd Genedlaethol y Cynllun Ysgolion Iach yw bod ysgolion wedi atal y defnydd o e-sigaréts ar safleoedd a thir yr ysgol.[290] Mae dros 99% o ysgolion a gynhelir yn ymwneud â'r Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, ac ar 31 Rhagfyr 2015, roedd 92 o ysgolion wedi cyflawni'r Wobr Ansawdd Genedlaethol, a asesir yn annibynnol yn dilyn 9 mlynedd o fod ar y

[289] https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Employees-Only/Business-Register-and-Employment-Survey-SIC2007/employeejobsinwales-by-industry-year

[290] http://dera.ioe.ac.uk/11425/2/100730schoolawardindiccy.pdf

rhaglen. Gellir dadlau felly wrth i ragor o ysgolion yng Nghymru gyflawni'r wobr ansawdd y byddai effaith ar gost egwylion e-sigaréts mewn ysgolion beth bynnag. Fodd bynnag, ni ellir mesur hyn ac ni roddwyd ystyriaeth i hyn yma.

Trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus

452. Byddai'r defnydd o e-sigaréts wedi ei gyfyngu yn yr holl fannau caeedig a sylweddol gaeedig ar gerbydau a ddefnyddir i gludo'r cyhoedd, ac yn y cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus cysylltiedig, gan gynnwys swyddfeydd tocynnau, ystafelloedd aros ac adeiladau gorsafoedd. Yr unig ardaloedd o'r mangreoedd hynny y byddai'n ofynnol iddynt wahardd y defnydd o e-sigaréts fyddai'r rhai sydd ar agor i'r cyhoedd a hynny pan fyddant ar agor i'r cyhoedd yn unig. Ni fyddai angen o reidrwydd felly i'r mangreoedd hyn wahardd y defnydd o e-sigaréts yn gyfan gwbl, yn dibynnu ar y cynllun a'r cyfleusterau.

453. Mae llawer o gwmnïau trenau a bysiau sy'n darparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru eisoes wedi gwahardd y defnydd o e-sigaréts ar eu cerbydau. Mae llawer hefyd yn gweithredu cyfyngiadau tebyg yn eu cyfleusterau trafnidiaeth, gan gynnwys Arriva Trains Wales, Great Western Trains, Virgin Trains, bysiau Arriva, Megabus, bysiau First Cymru a Thrafnidiaeth De Cymru (Castell-nedd). Gellir dadlau felly y byddai'r staff sy'n gweithio mewn trafnidiaeth gyhoeddus ddim ond yn gallu defnyddio eu e-sigaréts yn ystod amseroedd egwyl a amserlennwyd ar hyn o bryd oherwydd polisïau presennol neu am resymau iechyd neu broffesiynoldeb. Ystyrir felly mai cost pen isaf egwylion e-sigaréts ar gyfer gweithwyr trafnidiaeth gyhoeddus o dan Opsiwn 4 yw £0 y flwyddyn.

454. Yn ôl data StatsCymru[291], roedd 3.21% o'r rhai a oedd yn gyflogedig yng Nghymru yn 2013 yn gweithio mewn 'trafnidiaeth a storio'. Ar sail y gost flynyddol o egwylion e-sigaréts i economi Cymru yr amcangyfrifir yn Opsiwn 3 ei fod rhwng £331,700 a £2,211,200, byddai'r gost pen uchaf a amcangyfrifir ar gyfer egwylion e-sigarét i'r rhai a gyflogir mewn trafnidiaeth rhwng £10,600 a £71,000 y flwyddyn. Mae hyn yn debygol o fod yn oramcangyfrif oherwydd bod y rhai sy'n gyflogedig mewn 'trafnidiaeth a storio' yn sector llawer ehangach na'r sefydliadau sy'n gynwysedig o dan yr opsiwn hwn.

455. Amcangyfrifir y bydd cost egwylion e-sigarét i'r rhai a gyflogir mewn trafnidiaeth felly rhwng £0 a £71,000 y flwyddyn.

Ysbytai

456. Byddai'r defnydd o e-sigaréts mewn ysbytai wedi ei gyfyngu yn yr holl ardaloedd caeedig a sylweddol gaeedig sydd ar agor i'r cyhoedd, a/neu a gaiff eu defnyddio i ddarparu gofal i gleifion. Ni fyddai'r mangreoedd felly o reidrwydd yn gwahardd y defnydd o e-sigaréts yn gyfan gwbl, yn dibynnu ar y cynllun a'r cyfleusterau. Yn ogystal â hyn, byddai rheolwyr ysbytai yn gallu pennu ystafell neu

[291] https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Employees-Only/Business-Register-and-Employment-Survey-SIC2007/employeejobsinwales-by-industry-year

ardal ar y safle y gellid caniatau'r defnydd o e-sigaréts (h.y. pennu ardal neu ystafell nad yw e-sigaréts wedi eu gwahardd yno).

457. Mae gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru, ac eithrio Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, eisoes waharddiadau gwirfoddol ar y defnydd o e-sigaréts yn ardaloedd dan do eu hysbytai. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru ar ddeall bod y bwrdd iechyd hwn wedi cynnig ymestyn ei bolisi di-fwg presennol i gynnwys y defnydd o e-sigaréts ymhob ardal lle na cheir ysmygu o fis Ebrill 2016.

458. Felly, erbyn y byddai Opsiwn 4 yn dod i rym, bydd yn ofynnol i bob adeilad ysbyty yn GIG Cymru fod yn ardaloedd dim e-sigaréts. Ystyrir felly mai cost pen isaf egwylion e-sigaréts ychwanegol ar gyfer gweithwyr yn ysbytai GIG Cymru o dan Opsiwn 4 yw £0 y flwyddyn.

459. Nid oes data ar gael ar hyn o bryd ynglŷn â'r cyfyngiadau presennol ar y defnydd o e-sigaréts yn y sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Gellir dadlau fodd bynnag y byddai staff sy'n gweithio yn y sector hwn ddim ond yn gallu defnyddio eu e-sigarét yn ystod amseroedd egwyl a amserlennwyd ar hyn o bryd, am resymau iechyd a diogelwch neu broffesiynoldeb. Ystyrir felly mai cost pen isaf egwylion e-sigaréts ychwanegol ar gyfer gweithwyr yn y sector gofal iechyd annibynnol o dan Opsiwn 4 yw £0 y flwyddyn.

460. Yn ôl Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru, cyflogir 1,928 o bobl gan y sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru.[292] Yn Opsiwn 3, amcangyfrifir bod 5% o'r boblogaeth gyflogedig yn defnyddio e-sigaréts[293] ac y byddai egwylion e-sigarét ar gyfer gweithwyr sy'n defnyddio e-sigarét yn costio oddeutu £140.73 y gweithiwr y flwyddyn i sefydliadau[294]. Amcangyfrifir felly y byddai cost pen uchaf egwylion e-sigarét ychwanegol yn y sector gofal iechyd annibynnol yn £13,600 y flwyddyn.

461. Amcangyfrifir y bydd cost egwylion e-sigarét i'r rhai a gyflogir mewn ysbytai (GIG a gofal iechyd annibynnol) felly rhwng £0 a £13,600 y flwyddyn.

Mangreoedd sy'n gweini bwyd a diod

462. Byddai'r defnydd o e-sigaréts mewn mangreoedd sy'n gweini bwyd a diod wedi ei gyfyngu yn yr holl ardaloedd caeedig a sylweddol gaeedig sydd ar agor i'r cyhoedd, ond dim ond ar yr adegau pan fo'r rhannau hynny ar agor i'r cyhoedd. Ni fyddai'r mangreoedd felly o reidrwydd yn gwahardd y defnydd o e-sigaréts yn gyfan gwbl, yn dibynnu ar y cynllun a'r cyfleusterau. Byddai bariau a thafarndai â threfniadau trwyddedi alcohol sy'n gwahardd plant rhag mynd i mewn i'r lle heb oedolyn (a elwir yn 'dafarndai gwlyb') wedi eu heithrio o'r gofyniad i wahardd y defnydd o e-sigaréts.

---

[292] Yn ôl Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru (WIHA), roedd 1928 o bobl yn cael eu cyflogi gan y sector gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ym mis Mawrth 2014. Mae'r WIHA wedi ei wneud o: 6 ysbyty aciwt; 6 sefydliad iechyd meddwl (sy'n cynnwys 23 uned); a 2 sefydliad sy'n darparu gwasanaethau anabledd dysgu. www.wiha.org.uk

[293] Ar sail yr amcangyfrif bod 71,366 o ddefnyddwyr e-sigaréts mewn cyflogaeth a phoblogaeth waith hysbys o 1.387 miliwn yng Nghymru.

[294] Ar sail adroddiad ASH Cymru yn 2013 a amcangyfrifodd gost egwylion ysmygu i economi Cymru y flwyddyn, Arolwg Iechyd Cymru a data cyflogaeth ar gyfer Cymru.

463. Ystyrir ei bod yn anhebygol bod pobl sy'n gweithio mewn mangreoedd sy'n gweini bwyd a diod yn cael defnyddio eu e-sigarét wrth weini neu baratoi bwyd a/neu ddiod, ni waeth a oes polisi eisoes ar waith yn y safle ar y defnydd o e-sigaréts. Gallai hyn fod am resymau hylendid, proffesiynoldeb a moesau i gwsmeriaid. Mae'n debygol bod cyfyngiad eisoes felly ar ddefnyddio e-sigaréts yn ystod amseroedd egwyl a amserlennwyd mewn mangreoedd sy'n gweini bwyd a diod. Ystyrir felly mai cost pen isaf egwylion e-sigaréts ychwanegol ar gyfer gweithwyr mewn mangreoedd sy'n gweini bwyd a diod o dan Opsiwn 4 yw £0 y flwyddyn.

464. Yn ôl data StatsCymru[295], roedd 7.47% o'r rhai a oedd yn gyflogedig yng Nghymru yn 2013 yn gweithio mewn 'gweithgareddau llety a gwasanaeth bwyd'. Ar sail y gost flynyddol o egwylion e-sigaréts i economi Cymru yr amcangyfrifir yn Opsiwn 3 ei bod rhwng £331,700 a £2,211,200, byddai'r gost pen uchaf a amcangyfrifir ar gyfer egwylion e-sigarét i'r rhai a gyflogir mewn mangreoedd sy'n gweini bwyd a diod rhwng £44,400 a £165,200 y flwyddyn. Mae hyn yn debygol o fod yn oramcangyfrif oherwydd bod y rhai hynny ar gyflogir mewn 'gweithgareddau llety a gwasanaeth bwyd' yn sector llawer ehangach na'r hyn sy'n gynwysedig o dan yr opsiwn hwn.

465. Amcangyfrifir y bydd cost egwylion e-sigarét i weithwyr mewn mangreoedd sy'n gweini bwyd a diod felly rhwng £0 a £165,200 y flwyddyn.

Darparwyr Gofal Plant

466. Byddai'r defnydd o e-sigaréts mewn mangreoedd sy'n darparu gofal plant wedi ei gyfyngu yn yr holl rannau caeedig a sylweddol gaeedig o'r safleoedd sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gofal plant. Ni fyddai'r safle cyfan felly o reidrwydd yn gwahardd y defnydd o e-sigaréts yn gyfan gwbl, yn dibynnu ar y cynllun a'r cyfleusterau.

467. Nid oes data cyfredol ar gael am y cyfyngiadau presennol sydd ar gael ar y defnydd o e-sigaréts gan ddarparwyr gofal plant. Fodd bynnag fe'i hystyrir yn annhebygol iawn bod pobl sy'n gweithio mewn mangreoedd sy'n darparu gofal plant yn cael defnyddio eu e-sigarét wrth ofalu am blant, ni waeth a oes polisi eisoes ar waith neu beidio yn y safle ar y defnydd o e-sigaréts. Mae hyn oherwydd natur y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, a fyddai'n cynnwys lefelau uchel o ryngweithio â phlant, ac am resymau hylendid a phroffesiynoldeb. Mae'n debygol bod y defnydd o e-sigaréts mewn mangreoedd sy'n darparu gofal plant eisoes wedi ei gyfyngu i amseroedd egwyl a amserlennwyd.

468. Byddai'r cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts mewn mangreoedd sy'n darparu gofal plant yn cynnwys gofal plant a ddarperir mewn cartref rhywun (a elwir yn 'wasanaethau gwarchod plant'). Fodd bynnag, byddai'r gofyniad i wahardd y defnydd o e-sigaréts yn gymwys dim ond i'r rhannau o'r cartref a gaiff eu defnyddio ar gyfer gofal plant. Gellid defnyddio e-sigarét felly yn rhannau'r cartref nad ydynt yn

[295] https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Employees-Only/Business-Register-and-Employment-Survey-SIC2007/employeejobsinwales-by-industry-year

cael eu defnyddio i ddarparu gofal plant, hyd yn oed yn ystod yr amser pan fo'r gofal plant hwnnw yn cael ei ddarparu. Mae'n annhebygol y bydd costau yn gysylltiedig ag amseroedd egwyl e-sigarét ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau gofal plant.

469. Ystyrir felly mai cost egwylion e-sigaréts ychwanegol mewn mangreoedd sy'n darparu gofal plant o dan Opsiwn 4 yw £0 y flwyddyn.

Pob sector o dan Opsiwn 4

470. Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost ar gyfer amseroedd egwyl ychwanegol i'r rhai sy'n gyflogedig mewn mangreoedd sy'n gynwysedig yn yr opsiwn hwn rhwng £0 a £486,800.

Y diwydiant e-sigaréts

471. Fel yr amlinellir o dan Opsiwn 3, nid bwriad y cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig fyddai effeithio ar gyfraddau mynychder. O ystyried yr ystod gyfyng o fangreoedd y byddai galw arnynt i wahardd y defnydd o e-sigaréts o dan Opsiwn 4, y mae llawer ohonynt eisoes wedi cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts yn eu hardaloedd dan do, gallai effaith Opsiwn 4 ar y diwydiant e-sigaréts fod yn ddibwys a'r gost leiaf a amcangyfrifir yw £0 y flwyddyn.

472. O dan Opsiwn 3 pen uchaf y gost a amcangyfrifir i'r diwydiant e-sigaréts yw £539,200. Yn ôl data StatsCymru[296], roedd oddeutu 450,700 o'r rhai a oedd yn gyflogedig yng Nghymru yn 2013 yn gweithio yn y sectorau y byddai'r opsiwn yn effeithio arnynt, sef 38% o'r holl bobl sydd wedi eu cyflogi yng Nghymru. Mae'r data cyflogaeth hyn wedi eu cymhwyso i ben uchaf y gost a amcangyfrifir i'r diwydiant e-sigaréts yn Opsiwn 3, i'w cymhwyso i'r costau yn Opsiwn 4. Mae'r gost uchaf a amcangyfrifir i'r diwydiant e-sigaréts yn Opsiwn 4 hyd at £204,900.

473. Amcangyfrifir felly bod y gost i'r diwydiant e-sigaréts rhwng £0 a £204,900 y flwyddyn. Mae pen uchaf y costau a amcangyfrifwyd yn debygol o fod yn oramcangyfrif oherwydd bod y data cyflogaeth a ddefnyddir i gynrychioli'r sectorau yn ehangach na'r mangreoedd y mae'r opsiwn yn effeithio arnynt. Byddai'r rhai sy'n gyflogedig mewn 'trafnidiaeth a storio' yn ymestyn y tu hwnt i'r rhai a gyflogir gan ddarparwyr trafnidiaeth gyhoeddus.

474. Cydnabyddir y gallai'r cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts yn y mangreoedd a nodir o dan Opsiwn 4 effeithio ar y defnydd o e-sigaréts mewn mathau eraill o fangreoedd. Gallai hyn fod, er enghraifft, oherwydd bod rhai defnyddwyr e-sigarét yn dewis cyfyngu ar eu defnydd o'u e-sigarét ymhob man cyhoeddus, nid dim ond yn y rhai a nodir o dan yr Opsiwn hwn. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai hyn yn digwydd felly nid aseswyd unrhyw effeithiau dilynol ar batrymau defnyddio e-sigaréts y tu allan i'r mangreoedd a nodwyd.

475. Fel y nodwyd yn Opsiwn 3, gallai ffactorau eraill hefyd effeithio ar y defnydd o e-sigaréts yng Nghymru yn 2016/17, megis y cyfyngiadau oedran ar gyfer gwerthu

[296] https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Jobs/Employees-Only/Business-Register-and-Employment-Survey-SIC2007/employeejobsinwales-by-industry-year

cynhyrchion nicotin[297], y Gyfarwyddeb Cynnyrch Tybaco ddiwygiedig[298], a newid yn y dull o werthu i fynd yn fwy ar-lein ac i brynu o siopau e-sigaréts arbenigol[299]. Felly mae'n anodd gwahanu effaith uniongyrchol y cyfyngiad arfaethedig o dan Opsiwn 4 o'r ffactorau eraill hyn. Oherwydd hyn, ystyriwyd yr amcangyfrifon yn geidwadol, a chymhwyswyd amrediad gostyngol i'r farchnad yn flynyddol. Gellid effeithio hefyd ar nifer y defnyddwyr newydd o gynnyrch e-sigaréts, ond ni ellir meintioli hyn oherwydd diffyg data. Fodd bynnag ystyrir bod unrhyw effaith o'r math hwn yn fach iawn o dan Opsiwn 4 oherwydd y mathau o fangreoedd a nodir, a'r ffaith fod llawer o fangreoedd eisoes yn cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts yn eu mannau dan do.

Llysoedd

476. Rhagdybir y byddai'r effaith ar y llysoedd yn gyfyng, fel y disgrifir o dan Opsiwn 3.

Y Cyhoedd

477. Rhagdybir y byddai'r costau i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n derbyn FPN o ran y gofynion dim e-sigaréts newydd yr un peth â'r hyn a nodir o dan Opsiwn 3. Er bod cwmpas Opsiwn 4 yn fwy cyfyng nag Opsiwn 3 o ran nifer y mangreoedd sydd wedi'u cynnwys, cydnabyddir y gallai cyfyngiad rhannol ar y defnydd o e-sigaréts fod yn fwy cymhleth i'w roi ar waith na'r cyfyngiadau llawn yn Opsiwn 3, ac y gallai hefyd arwain at nifer debyg o droseddau. Byddai strategaeth gyfathrebu Llywodraeth Cymru yn cyfleu'r darpariaethau newydd yn glir i liniaru unrhyw effaith bosibl.

Iechyd

478. Gallai fod costau i iechyd yn sgil dod i gysylltiad ag anwedd e-sigaréts pobl eraill mewn mangreoedd lle nad yw'n ofynnol iddynt wahardd y defnydd o e-sigaréts ac sy'n dewis peidio â mabwysiadu canllawiau Llywodraeth Cymru. Amlinellwyd y rhain o dan Opsiwn 1.

479. Byddai'r costau posibl hyn i iechyd yn parhau o dan Opsiwn 4 mewn mangreoedd sy'n caniatau y defnydd o e-sigaréts dan do, ond byddai'n llai na chynnal y status quo fel yn Opsiwn 1 oherwydd bod rhagor o fangreoedd yn debygol o wahardd y defnydd o e-sigaréts pan fyddant ar agor i'r cyhoedd. Fodd bynnag, ni ellir meintioli'r costau hyn oherwydd y diffyg data ar hyn o bryd ynglŷn ag effaith hirdymor dod i gysylltiad ag anwedd e-sigaréts pobl eraill.

480. Fel yr amlinellir yn Opsiwn 3, mae risg posibl y gallai defnyddwyr e-sigaréts sydd wedi penderfynu peidio â'u defnyddio yn sgil y cyfyngiadau ddychwelyd i ddefnyddio cynhyrchion tybaco. Mae rhai gweithwyr iechyd proffesiynol yn rhybuddio y bydd cysoni'r defnydd o e-sigaréts â chynhyrchion tybaco yn anfon y neges eu bod yr un mor niweidiol â chynhyrchion tybaco. Gallai hyn atal ysmygwyr rhag newid i e-sigaréts yn gyfan gwbl neu eu defnyddio i ysmygu llai. Nid yw effeithiau'r cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus mewn gwledydd eraill wedi eu hadolygu felly nid oes tystiolaeth y naill ffordd na'r llall o'r tebygolrwydd

[297] http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2015/9780111130568
[298] http://ec.europa.eu/health/tobacco/products/revision/
[299] http://www.conveniencestore.co.uk/news/e-sigarét-sales-hit-a-wall-in-grocery-stores/511008.article

y bydd yr effaith hon yn digwydd. Fodd bynnag, mae peth tystiolaeth bod canfyddiadau pobl o ddiogelwch cymharol e-sigaréts yn newid.[300] Nid yw'r dull o dan Opsiwn 4 yn golygu bod y defnydd o e-sigaréts yn cael ei gysoni ag ysmygu tybaco ym mhob mangre. Felly gellir dadlau pe bai'r effaith hon yn digwydd, y byddai'n digwydd i raddau llai o dan yr Opsiwn hwn.

481. Yn ogystal â hyn, mae cyfyngiad eisoes ar y defnydd o e-sigaréts mewn llawer o'r lleoedd y nodir ei bod yn ofynnol iddynt wahardd y defnydd o e-sigaréts o dan Opsiwn 4. Byddai pobl sy'n gweithio yn y mangreoedd a nodwyd yn gallu parhau i ddefnyddio eu e-sigarét yn y rhannau o'r mangreoedd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd, neu yn yr ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer darparu gofal plant/ gofal i gleifion/ addysg i rai dan 18 oed/ bwyd a diod/ cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus (fel y bo'n briodol).

482. Ystyrir felly y bydd yn anhebygol iawn y byddai llawer o gyn-ysmygwyr sy'n defnyddio e-sigaréts yn dychwelyd i ysmygu o ganlyniad i Opsiwn 4.

483. Gan fod 15% o ddefnyddwyr e-sigaréts yn datgan eu bod yn defnyddio e-sigaréts i osgoi'r gofynion di-fwg[301], mae'n bosibl na fyddai'r mathau hyn o ddefnyddwyr e-sigaréts yn eu defnyddio o gwbl bellach os ydynt yn eu defnyddio mewn mannau caeedig y mae cyfyngiad arnynt. Fel y nodwyd o dan Opsiwn 3, gallai hyn leihau'r tebygolrwydd o ymgais i roi'r gorau i ysmygu neu beidio, ac felly ni ellir ei feintioli.

484. Fel y nodwyd o dan Opsiwn 3, mae risg y gallai defnyddwyr e-sigaréts sy'n gorfod gadael y safle ddod i gysylltiad â mwg ysmygwyr eraill y mae'n ofynnol eisoes iddynt adael y safle, gan beri niwed i iechyd.

485. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn Opsiwn 3, ni fyddai'n ofynnol i ysmygwyr a defnyddwyr e-sigaréts ymgynnull yn yr un ardaloedd. Byddai'r canllawiau yn ymdrin â'r posibilrwydd o ddarparu llochesi ar wahân i ysmygwyr a defnyddwyr e-sigaréts yn y mangreoedd a nodir.

*Tabl 7.17: Crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 4*

| **Sector** | **Blwyddyn** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17**<br>**£** | **2017/18**<br>**£** | **2018/19**<br>**£** | **2019/20**<br>**£** | **2020/21**<br>**£** |
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | |

[300] 'E:cigarettes: an evidence update' Adroddiad a gomisiynwyd gan Public Health England. McNeill A, Brose LS, Calder R, Hitchman SC, Hajek P, McRobbie H. Sydd ar gael ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/457102/Ecigarettes_an_evidence_update_A_report_commissioned_by_Public_Health_England_FINAL.pdf

[301] Taflen ffeithiau ASH: Y defnydd o E-sigaréts ym Mhrydain Fawr 20 Hydref 2014 http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Argraffu a dosbarthu arwyddion | 38,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Canllawiau CLlLC | 1,400 | | | 1,400 | |
| Canllawiau Llywodraeth Cymru | 12,300 | 1,500 | 1,500 | 2,900 | 1,500 |
| Cyfathrebu:* | | | | | |
| Mangreoedd | 38,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Y Cyhoedd | 100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **189,700** | **1,500** | **1,500** | **4,300** | **1,500** |
| **Awdurdodau Lleol** | | | | | |
| Hyfforddiant* | 19,100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol** | **19,100** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Mannau Cyhoeddus a Thrafnidiaeth Gyhoeddus a Chludiant Ysgol** | | | | | |
| Diweddaru polisïau di-fwg | 661,700 | 0 | 0 | 331,000 | 0 |
| Egwylion e-sigarét | 0-486,800 | 0-486,800 | 0-486,800 | 0-486,800 | 0-486,800 |
| FPN | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| Dirwyon | 4,000 | 9,000 | 1,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i fannau cyhoeddus a thrafnidiaeth gyhoeddus a chludiant ysgol** | **666,100-1,152,900** | **9,400-496,200** | **1,400-488,200** | **331,400-818,200** | **400-487,200** |
| **Y Diwydiant E-sigaréts** | | | | | |
| Effaith ar werthiannau | 0-204,900 | 0-204,900 | 0-204,900 | 0-204,900 | 0-204,900 |
| **Cyfanswm y** | **0-204,900** | **0-204,900** | **0-** | **0-** | **0-** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **costau i'r diwydiant e-sigaréts** | | | **204,900** | **204,900** | **204,900** |
| **Y Cyhoedd** | | | | | |
| FPN | 3,100 | 4,200 | 4,000 | 2,000 | 2,000 |
| Dirwyon | 2,000 | 1,800 | 2,200 | 600 | 600 |
| **Cyfanswm y costau i'r cyhoedd** | **5,100** | **6,000** | **6,200** | **2,600** | **2,600** |
| **Cyfanswm y costau**** | **880,000-1,571,700** | **16,900-708,600** | **9,100-700,800** | **338,300-1,030,000** | **4,500-696,200** |

* Ar gyfer yr eitemau hyn, gallai fod darbodion maint i'w hennill o gysylltu, er enghraifft, hyfforddiant timau gorfodi ar draws gwahanol agweddau ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru).

** Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys gwerth yr FPN a'r dirwyon y mae sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd yn eu talu.

**Manteision**

Iechyd

486. Trafodir y manteision iechyd sy'n gysylltiedig â chyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts yn yr holl fannau cyhoeddus o dan Opsiwn 3. Nod Opsiwn 4 yw mynd i'r afael â'r pryder y gallai'r defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus ailnormaleiddio ymddygiadau ysmygu i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn canolbwyntio ar gyfrannu tuag at atal plant rhag cael eu hannog i ysmygu neu ddechrau defnyddio e-sigaréts am resymau hamdden; gan leihau unrhyw effaith y gallai ei gael ar ysmygwyr presennol sy'n defnyddio neu'n ystyried defnyddio e-sigaréts i roi'r gorau i ysmygu, trwy osgoi cysoni'r defnydd o e-sigaréts â'r defnydd o dybaco yn gyfan gwbl. Gellir dadlau felly bod yr un manteision iechyd o dan Opsiwn 4 ag sydd o dan Opsiwn 3, er efallai i raddau llai nag o dan Opsiwn 3.

487. Ers asesu Opsiynau 1 i 3, cyhoeddwyd papurau ychwanegol ynglŷn ag effeithiau e-sigaréts ar blant a phobl ifanc ac felly maent wedi eu cynnwys isod.

Ailnormaleiddio ymddygiad ysmygu

488. Canfu adroddiad PHE yn 2015[302] fod ysmygu sigaréts wedi lleihau ymysg oedolion ac ieuenctid yn Lloegr ers cyflwyno e-sigaréts i'r farchnad. Mae'r awduron yn awgrymu bod hyn yn dangos diffyg tystiolaeth hyd yn hyn bod e-sigaréts yn ailnormaleiddio ysmygu ac y gallai, yn hytrach, fod yn cyfrannu at ostyngiadau pellach mewn ysmygu, neu ddadnormaleiddio ysmygu.

[302] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/457102/Ecigarettes_an_evidence_update_A_report_commissioned_by_Public_Health_England_FINAL.pdf

489. Yn ei adroddiad yn 2014, mae Sefydliad Iechyd y Byd[303] yn cyflwyno barn debyg, trwy nodi nad yw ailnormaleiddio i'w weld yn y DU trwy ei fesur yn ôl mynychder ysmygu. Fodd bynnag, mae hefyd yn datgan na ellir casglu a yw'r duedd ostyngol o ran ysmygu a'r duedd gynyddol yn y defnydd o e-sigaréts yn cysylltu'n achosol.

490. Mae erthyglau golygyddol yn The Lancet[304] a'r British Medical Journal[305] wedi barnu adroddiad y PHE oherwydd gwendidau methodolegol ac wedi datgan gwrthdaro diddordebau gan rai o'r cyfranwyr. Mae awduron adroddiad PHE wedi ymateb ers hynny[306], gan ddadlau bod yr ystadegau y gofynwyd amdanynt yn rhan o gorff llawer ehangach o dystiolaeth, a oedd yn ymchwilio i ba mor effeithiol y mae e-sigaréts yn helpu pobl i roi'r gorau i ysmygu, ymysg manteision posibl eraill.

491. Canfu astudiaeth hydredol ymysg dros ddwy fil o fyfyrwyr ysgol uwchradd yn Los Angeles[307] – a gyhoeddwyd ar ôl adroddiad PHE 2015, fod y rhai a oedd wedi defnyddio e-sigaréts erioed yn fwy tebygol na'r rhai nad oeddent yn eu defnyddio i adrodd ar y defnydd o gynhyrchion tybaco dros y flwyddyn nesaf. Edrychodd yr astudiaeth hon ar a yw'r defnydd o e-sigaréts ymysg pobl 14 oed nad ydynt erioed wedi trïo tybaco llosgadwy, yn gysylltiedig â'r risg o ddechrau defnyddio cynhyrchion tybaco llosgadwy. Awgrymodd yr awduron, yn seiliedig ar y data hyn, ei bod yn annhebygol bod amlder uchel rhai yn eu harddegau sy'n defnyddio e-sigaréts a thybaco llosgadwy a adroddwyd mewn arolygon trawsadrannol cenedlaethol yn ddiweddar[308] [309] ddim ond yn cynnwys ysmygwyr ifanc sydd wedi dechrau defnyddio e-sigaréts wedyn. Ar y cyd, awgrymodd y canlyniadau hyn y posibilrwydd y gallai'r cysylltiad rhwng y defnydd o e-sigaréts a thybaco llosgadwy weithio'r ddwy ffordd ymysg pobl yn eu harddegau cynnar. Daeth yr awduron i'r casgliad bod angen rhagor o ymchwil i ddeall a allai'r cysylltiad hwn fod yn achosol.

492. Gan roi sylwadau ar yr astudiaeth ddiweddar o Los Angeles mewn erthygl olygyddol yn JAMA[310], dywedodd Nancy Rigotti *"the authors are appropriately cautious in interpreting their findings, acknowledging the limitations of observational studies for inferring causation...Nevertheless, the report...is the strongest evidence to date that e-cigarettes might pose a health hazard by encouraging adolescents to*

---

[303] http://apps.who.int/gb/fctc/PDF/cop6/FCTC_COP6_10Rev1-en.pdf

[304] E-cigarettes: Public Health England's evidence-based confusion. The Lancet. Volume 386, No. 9996, p829, 29 Awst 2015 http://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(15)00042-2/fulltext

[305] Evidence about electronic cigarettes: a foundation built on rock or sand? BMJ 2015;351:h4863. http://www.bmj.com/content/351/bmj.h4863

[306] E-cigarettes: the need for clear communication on relative risks. Ann McNeill et al. www.theLancet.com. Vol 386. 26 Medi, 2015.

[307] Association of Electronic Cigarette Use With Initiation of Combustible Tobacco Product Smoking in Early Adolescence. http://jama.jamanetwork.com/article.aspx?articleid=2428954

[308] Arrazola RA, Singh T, Corey CG, et al. Tobacco use among middle and high school students – United States, 2011-2014. MMWR Morb Mortal Wkly Rep.2015;64(14):381-385.

[309] Johnston LD, Miech RA, O'Malley PM, et al. Use of alcohol, cigarettes, and number of illicit drugs declines among US teens. http://ns.umich.edu/new/multimedia/videos/22575-e-cigarettes-surpass-tobacco-cigarettes-among-teens

[310] E-cigarettes use and subsequent use by adolescents. Nancy A. Rigotti, MD. The Journal of the American Medical Association. ISSN:0098-7484;2015;314(7);673-674.

*start smoking conventional tobacco procucts."* Fodd bynnag, beirniadwyd canfyddiadau'r astudiaeth gan eraill.[311]

Y defnydd o e-sigaréts ymysg plant a phobl ifanc

493. Canfu adroddiad PHE 2015[312] fod y defnydd o e-sigaréts ymysg pobl ifanc yn anghyffredin, gydag oddeutu 2% yn eu defnyddio o leiaf yn fisol a 0.5% yn eu defnyddio'n wythnosol. Mae'r defnydd o e-sigaréts ymysg pobl ifanc yn parhau yn is nag ymysg oedolion, gyda lleiafrif o bobl ifanc Prydain yn dweud eu bod wedi trïo e-sigaréts (~13%). Er bod rhywfaint o arbrofi ag e-sigaréts ymysg pobl ifanc nad ydynt erioed wedi ysmygu, canfu awduron yr adroddiad fod mynychder y defnydd (o leiaf yn fisol) ymysg pobl nad ydynt erioed wedi ysmygu, yn 0.3% neu lai. Tynnwyd y canfyddiadau hyn o arolygon ASH Smokefree GB ymysg yr ifanc i asesu'r defnydd o e-sigaréts ymysg pob ifanc, wedi eu hategu gan astudiaeth yng ngogledd-orllewin Lloegr, dau arolwg cenedlaethol traws-adrannol yng Nghymru ac un arolwg cenedlaethol yn yr Alban. Er bod rhywfaint o arbrofi ag e-sigaréts ymysg pobl nad ydynt erioed wedi ysmygu, daeth yr awduron i'r casgliad fod bron pob un o'r rhai sy'n defnyddio e-sigaréts yn gyson yn ysmygwyr sigaréts rheolaidd. Argymhellodd yr awduron felly y dylai tueddiadau yn y defnydd o e-sigaréts ymysg pobl ifanc barhau i gael eu monitro gan ddefnyddio diffiniadau safonol o ddefnydd.

494. Nid yw adroddiad PHE 2015 yn cyfeirio at arolwg ASH Cymru 2015[313] i'r defnydd o e-sigaréts ymysg pobl ifanc yng Nghymru. Canfu arolwg ASH Cymru 2015, o'r 608 o bobl ifanc a arolygwyd nad oeddent erioed wedi ysmygu sigaréts tybaco, fod 9.4% (n=57) erioed wedi trïo e-sigarét, a bod defnydd rheolaidd ymysg pobl nad oeddent erioed wedi ysmygu yn 0.16% (n=1). Roedd arolwg ASH Cymru 2015 yn ailadrodd arolwg a gynhaliwyd yn 2014[314] ac mae'n dangos cynnydd yn y defnydd arbrofol o e-sigaréts ymysg pobl ifanc yng Nghymru ers yr arolwg blaenorol[315].

495. Mae data o'r National Youth Tobacco Survey 2014 a gyhoeddwyd gan y Center for Disease Control and Prevention a'r U.S. Food and Drug Administration's Center for Tobacco Products[316], yn dangos bod y duedd gynyddol yn y defnydd o e-sigaréts ymysg myfyrwyr ysgolion canolradd ac uwchradd yn yr UDA wedi parhau. Mae canfyddiadau o Arolwg 2014 yn dangos bod y defnydd presennol o e-sigaréts (wedi eu defnyddio o o leiaf unwaith yn y 30 diwrnod diwethaf) ymysg myfyrwyr ysgol uwchradd wedi cynyddu o 4.5% yn 2013 i 13.4% yn 2014, gan godi o oddeutu

---

[311] http://www.sciencemediacentre.org/expert-reaction-to-study-on-e-cigarette-use-and-subsequent-smoking-in-us-teenagers/

[312] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/457102/Ecigarettes_an_evidence_update_A_report_commissioned_by_Public_Health_England_FINAL.pdf

[313] Young People and the Use of E-cigarettes in Wales'. Sarah Fuller, Dr Steven Macey and Elen de Lacy, ASH Wales. April 2015

[314] 'Young People and the Use of E-cigarettes in Wales' Dr Rosanne Palmer, ASH Wales; Britt Hallingberg, PhD Candidate, DECIPHER, Cardiff University. March 2014

[315] The 2014 survey found that of the 346 young people surveyed who had never smoked tobacco cigarettes, 3.8% had ever tried an e-cigarette. 79.6% of the young people surveyed had heard of an e-cigarette with the most common sources reported being the media (40%) and friends or family (39.6%). Other sources of awareness came from shops (27.8%) and strangers using them in a public place (28.2%).

[316] http://www.cdc.gov/media/releases/2015/p0416-e-cigarette-use.html

660,000 i 2 filiwn o fyfyrwyr yn yr UDA. Ymysg myfyrwyr ysgol ganolradd, gwnaeth y defnydd presennol o e-sigaréts fwy na threblu o 1.1% yn 2013 i 3.9% yn 2014 – cynnydd o oddeutu 120,000 i 450,000 o fyfyrwyr yn yr UDA. Mae data 2014 yn dangos am y tro cyntaf ers i'r arolwg ddechrau casglu data ar e-sigaréts yn 2011, fod y defnydd presennol o e-sigaréts yn fwy na'r defnydd presennol o gynhyrchion tybaco eraill ar y cyfan, gan gynnwys sigaréts confensiynol. Nid yw'n hysbys o ddata'r arolwg a yw'r defnydd o e-sigaréts wedi disodli'r defnydd o sigaréts tybaco yn y grŵp oedran hwn.

Awdurdodau lleol

496. Un o brif fanteision Opsiwn 3 fyddai cefnogi gorfodaeth y gofynion di-fwg presennol oherwydd y byddai'n cysoni'r defnydd o e-sigaréts â'r defnydd o sigaréts confensiynol. Byddai'r un fanteision hefyd yn cael eu cyflawni o dan yr opsiwn hwn ond dim ond i raddau penodol o ran y mangreoedd y mae'n ofynnol iddynt wahardd y defnydd o e-sigaréts. Byddai'r holl fangreoedd sy'n gwahardd y defnydd o e-sigaréts hefyd yn ddi-fwg, a byddai gan swyddogion gorfodi yr awdurdod lleol restr clir o'r mangreoedd a ddylai fod yn ddi-fwg ac yn rhydd o e-sigaréts.

Mannau cyhoeddus a gweithleoedd

497. Fel yn Opsiwn 3, byddai rheolwyr mangreoedd sy'n gynwysedig yn yr opsiwn hwn sydd eisoes wedi penderfynu cyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts yn eu mangreoedd yn elwa ar yr opsiwn hwn, gan y byddai eu polisïau yn cael eu cefnogi naill ai drwy ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wahardd y defnydd o e-sigaréts, neu drwy gysoni â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir**

498. Nid yw Opsiwn 1 yn bodloni'r amcan polisi ac mae'n parhau â'r arfer presennol.

499. Gallai Opsiwn 2 annog rhai sefydliadau i gymryd camau i gyfyngu ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd. Fodd bynnag, o ystyried yr amcangyfrif bod rhwng traean a hanner y mangreoedd eisoes wedi gweithredu, ni ddisgwylir i lawer iawn o sefydliadau eraill weithredu'n wirfoddol, yn enwedig o ystyried bod cynlluniau eraill a chyngor eisoes ar gael. Yn ogystal, derbynnir mai adnoddau cyfyngedig sydd gan fusnesau bach a chanolig i roi ymyriadau ar waith[317] a'u bod yn llai tebygol o gymryd camau gwirfoddol. O ganlyniad, ni ddisgwylir i Opsiwn 2 gael effaith fawr o ran bodloni'r amcanion polisi.

500. Byddai Opsiwn 3 yn atal e-sigaréts rhag tanseilio'r gofynion di-fwg presennol. Trwy ddarparu mwy o eglurder a sicrwydd mewn deddfwriaeth, gellid cael gwared â'r dryswch ar hyn o bryd ynglŷn ag ymhle y ceir ac na cheir defnyddio e-sigaréts.

501. Byddai Opsiwn 3 hefyd yn cyd-fynd ag agwedd Llywodraeth Cymru o geisio atal niwed i iechyd y gellid ei osgoi, trwy leihau'r risg y bydd ymddygiadau ysmygu'n

[317] Williams, S.J. and Snow, D.M. (2012) Promoting health in small and medium-sized enterprises. Journal of Small Business and Enterprise Development. 19 (4). p.729-744.

dod yn beth normal unwaith eto, yn ogystal â'r risg y gallai'r defnydd o e-sigaréts arwain at ysmygu tybaco, yn enwedig ymysg plant a phobl ifanc. Byddai'r mesur hwn yn ategu mesurau deddfwriaethol eraill sydd yn yr arfaeth, gan gynnwys cyflwyno oed gwerthu ar gyfer e-sigaréts a chynhyrchion nicotin eraill[318]. Fel y nodwyd yn y dadansoddiad, perygl Opsiwn 3 fyddai canlyniadau anfwriadol o gyfuno defnyddio e-sigaréts a defnyddio tybaco – yn bennaf bydd y risg bosibl y byddai'r nifer sy'n defnyddio cynnyrch tybaco yn cynyddu.

502. Opsiwn 4 yw'r opsiwn a ffefrir gan ei fod yn ceisio parhau i ddad-normaleiddio ysmygu mewn mannau lle na chaniateir ysmygu bellach gan leihau nifer y mannau lle mae modd gweld ymddygiadau ysmygu. Bydd hyn felly yn dylanwadu ar synnwyr o plant o'r hyn sy'n normal a'r hyn sy'n ddeniadol, yn yr un modd â'r hyn a gyflawnwyd trwy wahardd ysmygu mewn mannau caeedig. I gydbwyso'r pryderon hyn â manteision iechyd posibl e-sigaréts ar gyfer oedolion sy'n ysmygu sydd am roi'r gorau i ysmygu neu am ysmygu llai o dybaco, mae'r cyfyngiadau ar ddefnyddio e-sigaréts yn Opsiwn 4 yn gyfyngedig i'r mannau hynny yn unig lle mae'n debygol y bydd plant yn bresennol ac felly lle byddai normaleiddio effaith ymddygiadau ysmygu unwaith eto yn debygol o gael y dylanwad mwyaf. Caiff mannau lle mai oedolion sy'n mynd yno gan amlaf (megis gweithleoedd, carchardai a thafarndai a bariau nad ydynt yn gwerthu bwyd) eu heithrio, un ai trwy gael eu hepgor o'r rhestr o fannau heb e-sigaréts neu drwy nodi eithriadau. Felly mae gan Opsiwn 4 brif fanteision tebyg i Opsiwn 3 ond ei fod yn creu arfer ar wahân ar gyfer defnyddio e-sigaréts i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng eu niwed perthnasol i iechyd wrth eu hsytyried ochr yn ochr â thybaco.

503. Amcangyfrifir y rhoddir blwyddyn yn ychwanegol, ar gyfartaledd, i bob unigolyn y llwyddir i'w atal rhag dechrau ysmygu.[319] Rhoddir gwerth o £60,000 y pen ar y flwyddyn ychwanegol hon.[320] Gan ddefnyddio'r ffigyrau cyfanredol ar gyfer costau ac arbedion, byddai angen i Opsiwn 4 atal o leiaf 21 ac uchafswm o 79 o blant rhag dechrau ysmygu tybaco dros y cyfnod o bum mlynedd i'r mesur hwn fod yn niwtral o ran cost.

## Cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin (Rhan 2, Pennod 2)

### Opsiynau

[318] https://www.gov.uk/government/consultations/nicotine-inhaling-products-introducing-a-minimum-age-of-sale

[319] Age of Sale for Nicotine Inhaling Products: Impact Assessment. https://www.gov.uk/government/consultations/nicotine-inhaling-products-introducing-a-minimum-age-of-sale

[320] Rhoddir gwerth o £60,000 i flwyddyn bywyd wedi'i haddasu yn ôl ansawdd. Pan nad yw amcangyfrifon blwyddyn bywyd wedi'i haddasu yn ôl ansawdd ar gael ac yn briodol, defnyddir y gwerth hwn ar gyfer Blynyddoedd Bywyd. Mae hyn yn gyson â phrisiad tebyg ar gyfer polisïau sy'n lliniaru'r risg o farwolaeth neu afiachusrwydd gan adrannau eraill o'r Llywodraeth, ar sail astudiaethau o'r hyn y mae aelodau'r cyhoedd yn fodlon ei wario ar gyfartaledd I leihaua'r risg o farwolaeth iddynt eu hunain neu i wella'u canlyniadau iechyd eu hunain.

504. Ystyriwyd pedwar opsiwn:

- Opsiwn 1 - Gwneud dim;
- Opsiwn 2 - Cyflwyno cofrestr wirfoddol o fanwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco neu nicotin;
- Opsiwn 3 - Cyflwyno cofrestr genedlaethol y mae rhaid i fanwerthwyr gofrestru arni er mwyn gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin, yn ogystal â chyflwyno gwell trefn ar gyfer Gorchmynion Mangre o dan Gyfyngiad. Hwn yw'r opsiwn a ffefrir; ac
- Opsiwn 4 - Cyflwyno cynllun trwyddedu cadarnhaol ar gyfer manwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu nicotin.

**Opsiwn 1 - Gwneud dim**

**Disgrifiad**

505. Ni fyddai unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol o dan yr opsiwn hwn. Byddai swyddogion safonau masnach lleol yn parhau i fonitro'r ddeddfwriaeth bresennol ynglŷn â thybaco, a byddai angen iddynt fonitro unrhyw ddeddfwriaeth newydd ar gynhyrchion nicotin. Wrth wneud hynny, byddent yn defnyddio gwybodaeth neu ffynonellau data lleol yn unig, heb fod cofrestr genedlaethol ar gael iddynt.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

506. Ni fyddai unrhyw gostau newydd i Lywodraeth Cymru yn deillio o'r opsiwn hwn. Trosglwyddwyd £2 filiwn yn flaenorol i Grant Cynnal Refeniw llywodraeth leol er mwyn cefnogi gweithgareddau gorfodi ynglŷn â thybaco, o ganlyniad i Reoliadau Mangreoedd Di-fwg etc. (Cymru) 2007.[321] Byddai'r cyllid hwn yn parhau i fod yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Awdurdodau lleol

507. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol nac adrannau safonau masnach yn deillio o'r opsiwn hwn. Byddai'r cyllid presennol yn parhau i gael ei ddarparu yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw i gefnogi gweithgareddau gorfodi.

Manwerthwyr

508. Ni fyddai manwerthwyr yn wynebu unrhyw gostau newydd oherwydd yr opsiwn hwn. Efallai y byddai rhai costau yn parhau yn sgil dirwyon yn ymwneud â pheidio â chydymffurfio â deddfwriaeth sy'n bodoli, ond byddai'r costau hynny eisoes yn bodoli. Yn 2013/14, talodd manwerthwyr gyfanswm o £1,500 o ddirwyon mewn perthynas â gwerthu tybaco i unigolion o dan oed.

[321] Daeth Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc. (Cymru) 2007 (O.S. Rhif 2007/787 (Cy.68)) i rym ar 2 Ebrill 2007.

## Manteision

509. Mae'r opsiwn hwn yn cynnal y sefyllfa polisi presennol, ac fel y cyfryw, ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

## Opsiwn 2 – Cyflwyno cofrestr wirfoddol ar gyfer manwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco neu nicotin

## Disgrifiad

510. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu datblygu cofrestr genedlaethol wirfoddol o fanwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin. Gallai hon gael ei chynnal gan awdurdod lleol arweiniol neu gorff arall. Byddai manwerthwyr sy'n gwerthu'r cynhyrchion hyn yn dewis cofrestru eu mangreoedd. Byddai'r data ar gael i swyddogion safonau masnach, a byddai'r data hyn yn darparu peth gwybodaeth am fanwerthwyr yn eu hardal sy'n gwerthu'r cynhyrchion hyn. Gan mai cofrestr wirfoddol fyddai hon, ni fyddai unrhyw ffi gofrestru i fanwerthwyr.

## Costau

Llywodraeth Cymru

511. Byddai cost gychwynnol ar gyfer datblygu'r gofrestr. Byddai'n cael ei datblygu a'i chynnal ar-lein, gyda ffurflen gais ar-lein ar gyfer y manwerthwyr. Gallai Llywodraeth Cymru gaffael y gwaith o ddatblygu'r gofrestr neu gallai awdurdod lleol arweiniol ymgymryd â'r gwaith. Amcangyfrifir mai oddeutu £26,900 fyddai costau datblygu'r gofrestr, yn seiliedig ar wybodaeth o'r Alban (lle y mae cofrestr statudol wedi ei sefydlu). Byddai'r costau hyn yn cael eu rhannu rhwng 2016/17 (£21,500) a 2017/18 (£5,400). Byddai ffurflen gais bapur wrth gefn hefyd yn cael ei datblygu ar gyfer manwerthwyr na allent, o bosibl, gael gafael ar y fersiwn ar-lein, a byddai hynny'n cael ei gynnwys yn y costau datblygu hyn.

512. Yn ogystal, byddai angen peth amser staff i gaffael a rheoli'r contract trwy gydol ei ddatblygiad. Amcangyfrifir y byddai hyn yn cymryd oddeutu tair wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn, gan gostio oddeutu £2,800.[322] Byddai'r costau hyn yn cael eu rhannu rhwng 2016/17 (£2,200) a 2017/18 (£600).

513. Yn ychwanegol at y costau datblygu, byddai costau parhaol TGCh ar gyfer y brif gronfa ddata. Byddai'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, storfeydd wrth gefn rhag colli data, costau gweinydd a chostau ar gyfer datrys problemau technegol. Disgwylir y byddai'r costau blynyddol hyn yn oddeutu £10,000, yn seiliedig ar wybodaeth o'r Alban. Byddai'r gost flynyddol hon yn cael ei hysgwyddo o 2018/19 ymlaen.

[322] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff Llywodraeth Cymru.

514. Er mwyn cefnogi'r broses o lansio cofrestr wirfoddol, byddai hefyd angen cael rhywfaint o gyhoeddusrwydd yn ystod y cyfnod cychwynnol i godi ymwybyddiaeth ac annog manwerthwyr i gofrestru. Disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o'r cyhoeddusrwydd hwn yn cael ei greu trwy straeon newyddion rhad ac am ddim yn y wasg, yn ogystal â thrwy rwydweithiau rhanddeiliaid (er enghraifft, safonau masnach, y trydydd sector a grwpiau sy'n cynrychioli'r sector manwerthu). Disgwylir y byddai angen oddeutu chwe wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch ar gyfer hyn, a byddai hynny'n cyfateb i oddeutu £5,500[323]. Byddai'r costau hyn yn cael eu rhannu rhwng 2016/17 (£2,800) a 2017/18 (£2,700).

515. Byddai hefyd angen neilltuo peth adnodd staff i reoli a monitro'r gofrestr, yn ogystal â chofnodi unrhyw ffurflenni cofrestru papur a dderbynnir gan fanwerthwyr. Oherwydd mai cofrestr wirfoddol fyddai hon, mae'n anodd barnu faint o'r 8,225[324] o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin a fyddai'n cofrestru, ac o ganlyniad, faint o amser staff y byddai hyn yn ei gymryd. O ystyried y ganran isel a ymunodd â'r Cynllun Achredu Landlordiaid[325] (0.02%), sef cynllun cofrestru gwirfoddol, amcangyfrifir y byddai angen swydd 1.0 Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn ar gyfer rheoli'r gofrestr gan y byddai'r swyddog hwn hefyd yn cyfrannu at annog manwerthwyr i gofrestru er mwyn i gynifer gofrestru ag y bo modd. Disgwylir y byddai'n cymryd mwy o amser i annog manwerthwyr i ymuno â chofrestr wirfoddol na chofrestr statudol. Oddeutu £40,600 fyddai cost y swydd yn y flwyddyn gyntaf (2017/18). Yn ogystal, byddai rhywfaint o gostau cymorth staff ar gyfer gweinyddu'r gofrestr. Disgwylir y byddai hyn yn cymryd amser 0.1 swyddog Cymorth Tîm cyfwerth ag amser llawn y flwyddyn, sy'n cyfateb i oddeutu £2,600. Yn seiliedig ar y tybiaethau hyn, disgwylir y byddai cyfanswm y costau staff yn cyfateb i oddeutu £43,200 ar gyfer y 12 mis cyntaf (2017/18).

516. Mae'n debyg y byddai angen llai o amser i reoli a gweinyddu'r gofrestr dros amser. Amcangyfrifir y byddai angen 0.2 Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn, erbyn 12 mis ar ôl y lansiad, i reoli'r gofrestr a pharhau i weithio gyda manwerthwyr i annog mwy ohonynt i gofrestru. Byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £8,100 y flwyddyn. Byddai hefyd angen cymorth gweinyddol parhaus, ond byddai'n debygol o leihau i 0.05 swyddog Cymorth Tîm cyfwerth ag amser llawn, sy'n cyfateb i gost flynyddol o £1,300. Mae'n debygol y byddai'r rhan fwyaf o'r manwerthwyr wedi ymuno â'r gofrestr yn ystod y cyfnod cychwynnol, gyda chanran isel yn unig yn ymuno ar ôl hynny. Byddai hyn yn lleihau'r costau staff blynyddol i oddeutu £9,400 o 2018/19 ymlaen.

517. Byddai'r costau staff a amlinellir uchod yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru, neu fel arall, gallai'r gwaith o reoli a gweinyddu'r gofrestr gael ei gyflawni gan gorff allanol (er enghraifft, awdurdod lleol neu gorff arall yn ei rhedeg ar ran

[323] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff Llywodraeth Cymru.
[324] Mae'r ffigur hwn wedi ei seilio ar oddeutu 6,525 o fanwerthwyr tybaco (addaswyd o ddata'r Alban a ddarparwyd yn yr Enhanced Tobacco Sales Enforcement Programme Report 2010-14 a luniwyd gan Safonau Masnach yn yr Alban) ac ar amcangyfrif o 1,700 o fanwerthwyr cynhyrchion nicotin (dim data dibynadwy ar gael).
[325] Memorandwm Esboniadol Bil Tai (Cymru). Llywodraeth Cymru Tachwedd 2013 http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld9784-em-r%20-%20explanatory%20memorandum%20housing%20(wales)%20bill/pri-ld9784-em-r-w.pdf

Llywodraeth Cymru). Pe byddai corff allanol yn rheoli a gweinyddu'r gofrestr, byddai Lywodraeth Cymru'n darparu arian ar gyfer y costau cysylltiedig.

Awdurdodau lleol

518. Ni fyddai awdurdodau lleol nac adrannau safonau masnach yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol yn sgil yr opsiwn hwn. Byddai'r cyllid presennol ar gyfer cyflawni gweithgareddau gorfodi a rhoi cyfarwyddyd a gwybodaeth i fanwerthwyr yn parhau i gael ei ddarparu trwy'r Grant Cynnal Refeniw. Gan y byddai'r gofrestr yn un wirfoddol, ni fyddai unrhyw drosedd newydd yn cael ei chysylltu â hi, ac o ganlyniad, ni fyddai unrhyw gostau gorfodi ychwanegol.

Manwerthwyr

519. Ni fyddai manwerthwyr yn wynebu unrhyw gostau cofrestru yn sgil yr opsiwn hwn, ar wahân i'r amser y byddai'n ei gymryd i'r staff ystyried cofrestru a chyflawni'r dasg o gofrestru. Y bwriad fyddai cadw'r broses gofrestru mor syml â phosibl, a defnyddio dull tebyg i'r un a geir yn yr Alban[326]

520. Mae'n bosibl y byddai manwerthwyr yn wynebu rhywfaint o gostau am yr amser y byddai staff yn ei dreulio'n ystyried a ydynt eisiau ymuno â'r gofrestr wirfoddol. Yn seiliedig ar gyflog manwerthwyr sy'n gwerthu tybaco/cynhyrchion nicotin o £11.90 yr awr[327,328], amcangyfrif bod oddeutu 3,290 o fusnesau unigol yn gweithredu fel 8,225 manwerthwr tybaco a chynhyrchion nicotin yng Nghymru (tybir y byddai penderfyniad yn cael ei wneud yn ganolog gan fusnes yn hytrach nag yn unigol gan bob safle manwerthu), a thybiaeth y byddai'r camau uchod yn cymryd oddeutu awr, byddai'n costio oddeutu £39,200 i fanwerthwyr yn 2017/18. Byddai'r union gost yn amrywio yn ddibynnol ar yr amser a dreulir gan fanwerthwyr yn ystyried a ddylent ymuno â'r gofrestr ai peidio.

521. Amcangyfrifir mai oddeutu pum i ddeg munud a gymerai i'r staff lenwi ffurflen gais i gofrestru un fangre, a munud neu ddwy ar gyfer pob mangre ychwanegol. Mae costau staff wedi eu hamcangyfrif ar ben uchaf yr amrediad hwn gan ddefnyddio'r un tybiaethau ag a ddefnyddir uchod.

522. Fel y nodwyd uchod mae oddeutu 3,290 o fusnesau sy'n gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin yng Nghymru. Rhagwelir y byddai'n costio oddeutu £6,500 mewn amser staff i'r busnesau hyn lenwi ceisiadau, gan dreulio 10 munud ar bob un. Byddai angen llenwi ceisiadau sy'n cymryd dwy funud yr un wedyn ar gyfer y 4,935 manwerthwr arall, a fyddai'n costio oddeutu £2,000. Cyfanswm y gost i fanwerthwyr felly am lenwi ceisiadau fyddai £8,500.

523. Gan y byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno cofrestr wirfoddol, mae'n annhebygol y byddai pob manwerthwr yn cofrestru. Pe byddai canran debyg o fanwerthwyr yn cofrestru ag ar gyfer y Cynllun Achredu Landlordiaid, 0.02% yn unig o'r manwerthwyr

[326] Cofrestr Manwerthwyr Tybaco'r Alban http://www.tobaccoregisterscotland.org/ cyrchwyd Ionawr 2015.
[327] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (Managers and Directors in Wholesale and retail). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425
[328] Mae cyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% er mwyn cynnwys argostau.

tybaco a fyddai'n cofrestru, sy'n cyfateb i oddeutu 165 o fanwerthwyr. Byddai hyn yn lleihau cyfanswm y gost ar gyfer manwerthwyr sy'n cofrestru i oddeutu £200[329]. Byddai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid (megis grwpiau cynrychioli manwerthwyr) yn gwneud pob ymdrech i annog manwerthwyr i gofrestru. Amcangyfrifir bod y gost a wynebir gan fanwerthwyr sy'n cofrestru felly rhwng £200 ac £8,500 yn 2017/18.

524. Oherwydd natur wirfoddol y gofrestr, nid oes modd gwybod sawl manwerthwr yn union fyddai'n cofrestru bob blwyddyn. O'r herwydd, mae'r costau a amlinellir yn y tabl isod yn seiliedig ar amrediad, o amcangyfrif o'r gyfran isaf a fyddai'n cofrestru (0.02% o'r cyfanswm o oddeutu 8,225 o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin) i'r gyfran uchaf (100% o'r cyfanswm o 8,225 o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin). Gan ei bod yn debygol y byddai llai o fanwerthwyr yn ymuno â'r gofrestr bob blwyddyn, mae'r costau staff uchaf i fanwerthwyr wedi eu gostwng £200 y flwyddyn o 2018/19. Mae hyn yn seiliedig ar amcangyfrif bod 165 o fanwerthwyr yn ymuno â'r gofrestr ac nid yw'r rhain felly'n cael eu cynnwys yn yr amrediad yn y flwyddyn ganlynol.

*Tabl 7.18 - Crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2*

| | **2016/17 £** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Datblygu'r gofrestr | 23,700 | 6,000 | 0 | 0 | 0 |
| Costau TGCh parhaus | 0 | 0 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd | 2,800 | 2,700 | 0 | 0 | 0 |
| Costau staff rheolaidd | 0 | 43,200 | 9,400 | 9,400 | 9,400 |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **26,500** | **51,900** | **19,400** | **19,400** | **19,400** |
| **Manwerthwyr** | | | | | |
| Costau staff ar gyfer cofrestru | 0 | 200 - 8,500 | 200 - 8,300 | 200 - 8,100 | 200 - 7,900 |
| Costau staff ar gyfer ystyried ymuno â'r gofrestr wirfoddol | 0 | 39,200 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y** | **0** | **39,400 -** | **200 -** | **200 -** | **200 - 7,900** |

[329] Bil Tai (Cymru), Tachwedd 2013, Llywodraeth Cymru. Cofrestrodd 0.02% o'r landlordiaid a gofrestrwyd o dan Gynllun Achredu Landlordiaid Cymru dros gyfnod o bum mlynedd.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **costau i fanwerthwyr** | | **47,700** | **8,300** | **8,100** | |
| **Cyfanswm y costau** | **26,500** | **91,300-99,600** | **19,600 - 27,700** | **19,600 - 27,500** | **19,600 - 27,300** |

**Manteision**

525. Byddai cofrestr wirfoddol ar gyfer manwerthwyr cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin yn darparu gwybodaeth ychwanegol i'r awdurdodau lleol am nifer y manwerthwyr yn eu hardal sy'n gwerthu'r cynhyrchion hyn. Byddai'r wybodaeth ychwanegol hon yn cynorthwyo gweithgareddau gorfodi. Fodd bynnag byddai'r manteision yn amrywio yn ôl faint o fanwerthwyr sy'n dewis cofrestru. Pe byddai canran debyg o'r manwerthwyr yn cofrestru â chanran y landlordiaid a ymunodd â Chynllun Achredu Landlordiaid Cymru (0.02%), ychydig iawn o fanteision a fyddai'n deillio o'r wybodaeth a gesglir. Yn ogystal, mae'n rhesymol tybio na fyddai cofrestr wirfoddol o bosibl yn aros yn gyfredol, gan na fyddai cymhelliant i'r manwerthwyr sy'n cofrestru roi gwybod wedi hynny pan fyddai unrhyw fanylion yn newid.

526. Y brif fantais y gellid ei chynnig i fanwerthwyr fyddai bod modd i swyddogion safonau masnach ddosbarthu gwybodaeth a/neu arweiniad iddynt, na fyddent o bosibl yn ei derbyn fel arall, pe byddent yn ymuno â chofrestr wirfoddol genedlaethol.

**Opsiwn 3 - Cyflwyno cofrestr genedlaethol y mae'n rhaid i fanwerthwyr gofrestru arni er mwyn gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin, yn ogystal â sefydlu gwell trefn ar gyfer Gorchmynion Mangre o dan Gyfyngiad.**

**Disgrifiad**

527. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu datblygu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin. Gallai awdurdod lleol arweiniol neu gorff arall ei chynnal, gan gyflawni swyddogaeth yr Awdurdod Cofrestru. Byddai'n rhaid i'r manwerthwyr gofrestru pe byddent yn gwerthu unrhyw un o'r cynhyrchion hyn, a byddai'n drosedd eu gwerthu pa na fyddent wedi eu cofrestru. Byddai ffi gofrestru i fanwerthwyr, sef £30 ar gyfer y fangre gyntaf, a £10 ar gyfer pob mangre ychwanegol. Ni fyddai'n ofynnol i'r manwerthwyr ailgofrestru bob hyn a hyn, ond yn hytrach, byddai'n ofynnol iddynt roi gwybod i'r asiantaeth sy'n gyfrifol am gadw'r gofrestr am unrhyw newidiadau perthnasol i'w manylion.

528. Yn ogystal â llunio cofrestr, byddai troseddau ychwanegol yn ymwneud â thybaco yn cael eu hychwanegu at y rhestr gyfredol o droseddau a allai sbarduno awdurdod lleol i gyflwyno cais am orchymyn mangre o dan gyfyngiad. Bwriad hyn fyddai creu cynllun trwyddedu negyddol mwy effeithiol ar gyfer Cymru a fyddai'n atgyfnerthu'r ffaith ei bod yn bwysig i fanwerthwyr gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol. Ystyr trwyddedu negyddol yw bod yr holl fanwerthwyr yn cael gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin oni bai eu bod yn destun Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, a phryd hynny, caiff y caniatâd hwnnw ei ddirymu dros dro. Câi

adwerthwr werthu'r cynhyrchion hyn unwaith eto ar ôl i'r Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad ddod i ben.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

529. Byddai cost gychwynnol ynghlwm wrth ddatblygu'r gofrestr. Byddai'r rhain yr un fath â'r rhai a amlinellir o dan Opsiwn 2, sef £23,700 yn 2016/17 a £6,000 yn 2017/18.

530. Er mwyn cefnogi'r broses o lansio'r gofrestr, byddai hefyd angen cael rhywfaint o gyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth ac annog manwerthwyr i gofrestru. Disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o'r cyhoeddusrwydd hwn yn cael ei greu trwy straeon newyddion rhad ac am ddim yn y wasg, yn ogystal â thrwy rwydweithiau rhanddeiliaid (er enghraifft, safonau masnach, y trydydd sector a grwpiau sy'n cynrychioli'r sector manwerthu). Mae'r dull hwn wedi ei ddefnyddio ar gyfer deddfwriaethau eraill cysylltiedig â thybaco megis y gwaharddiad ar arddangos. Disgwylir y byddai'r costau ar gyfer cyhoeddusrwydd yn debyg i'r rhai hynny a amlinellir o dan Opsiwn 2 h.y. £2,800 yn 2016/17 a £2,700 yn 2017/18.

Awdurdodau lleol

531. Byddai angen adnodd staff ar gyfer rheoli a monitro'r gofrestr yn barhaus. Rhagwelir y gallai 0.5 swyddog gorfodi awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn gyflawni'r swyddogaeth hon ar gyfer yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru, am y chwe mis cyntaf, gan leihau i 0.05 swyddog cyfwerth ag amser llawn wedi hynny oherwydd ei bod yn debygol y byddai llawer o ymholiadau'n cael eu derbyn yn y cyfnod cychwynnol. Byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £13,200 yn y flwyddyn gyntaf ac yna £2,400 y flwyddyn wedi hynny[330]. Yn ogystal â rheoli'r gofrestr, byddai angen cymorth gweinyddol i gofnodi unrhyw ffurflenni cofrestru papur a monitro'r gofrestr. Rhagwelir y byddai hyn yn gofyn am amser 0.5 swyddog gweinyddol cyfwerth am amser llawn ar gyfer y chwe mis cyntaf, a fyddai'n lleihau wedyn i 0.1 swyddog gweinyddol cyfwerth ag amser llawn. Y rheswm am hyn yw ei bod yn debygol y byddai angen mwy o gymorth gweinyddol ar gyfer y chwe mis cyntaf, gan mai dyma pryd y disgwylid derbyn y rhan fwyaf o'r ceisiadau cofrestru. O ganlyniad, disgwylir y byddai'r cymorth hwn yn costio oddeutu £7,700 ar gyfer y flwyddyn gyntaf, gan leihau i oddeutu £2,600 y flwyddyn. Cyfanswm costau staff yr awdurdodau lleol er mwyn rheoli a monitro'r gofrestr felly yw £20,900 yn 2017/18 a £5,000 y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol.

532. Byddai rhai costau TGCh ynghlwm wrth gynnal y gofrestr (er enghraifft, creu storfeydd wrth gefn, a chostau gweinydd), a byddai'r rhain yn union yr un fath â'r rhai a amlinellir o dan Opsiwn 2 (£10,000 y flwyddyn o 2018/19). Gan y byddai awdurdod lleol o bosibl yn cael ei ddynodi fel yr awdurdod cofrestru arweiniol, yr awdurdod lleol sydd â'r cyfrifoldeb hwn a fyddai'n ysgwyddo'r costau. Fodd bynnag, byddai cyfuniad o'r ffioedd cofrestru a godir ar fanwerthwyr a chyllid gan Lywodraeth Cymru yn talu'r costau hyn.

[330] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff awdurdodau lleol. Mae argostau wedi eu cynnwys yn y costau hyn.

533. Byddai angen paratoi canllawiau hefyd ar gyfer manwerthwyr. Rhagwelir y byddai'r rhain yn cael eu datblygu gan gynrychiolwyr safonau masnach, ac y byddai'n cymryd oddeutu un mis o amser Swyddog Gorfodi Awdurdod Lleol cyfwerth ag amser llawn (yn seiliedig ar 6,000 o eiriau). Byddai hyn hefyd yn cyfateb i £3,800. Yn ogystal â datblygu'r canllawiau, byddai costau'n gysylltiedig â chyfieithu a dylunio. Rhagwelir y byddai'r dylunio a'r cysodi'n costio oddeutu £300. Amcangyfrifir y byddai'r cyfieithu a'r prawfddarllen yn costio oddeutu £600[331]. Cyfanswm cost datblygu, dylunio a chyfieithu'r canllawiau felly fyddai £4,700. Byddai'r gost hon yn cael ei hysgwyddo yn 2016/17.

534. Byddai'r canllawiau'n cael eu diweddaru bob tair blynedd. Rhagwelir y byddai'n cymryd oddeutu un wythnos o amser Swyddog Gorfodi Awdurdod Lleol cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n cyfateb i oddeutu £900. Byddai'r dylunio a'r cyfieithu'n costio hanner y costau gwreiddiol, cyfanswm o £500. Ni fyddai unrhyw gostau argraffu ar gyfer yr adolygiad gan mai ar ffurf electronig yn unig y byddai'r ddogfen yn cael ei chynhyrchu. Cyfanswm y gost am bob adolygiad felly fyddai oddeutu £1,400, bob tair blynedd. Byddai'r adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal yn 2019/20.

535. Byddai angen cynnal sesiynau hyfforddi yn ystod 2017/18 ar gyfer Swyddogion Gorfodi Llywodraeth Leol, a rhagwelir mai swyddogion safonau masnach fyddai'n eu rhedeg. Byddai pob sesiwn yn parhau am oddeutu hanner diwrnod, a rhagwelir y byddai dwy sesiwn yn cael eu cynnal – un yn y Gogledd a'r llall yn y De. Amcangyfrifir y byddai'r sesiynau hyn yn costio oddeutu £1,200, yn seiliedig ar logi un ystafell a darparu lluniaeth ar gyfer 35 o bobl ar gyfer pob sesiwn. Byddai hefyd angen peth amser staff ar gyfer datblygu'r hyfforddiant, a rhagwelir y byddai hynny'n cyfateb i oddeutu pythefnos o amser Swyddog Gorfodi Awdurdod Lleol cyfwerth ag amser llawn, gan gostio oddeutu £1,800 (tybir y bydd y gost o ddatblygu'r hyfforddiant yn cael ei wynebu yn 2016/17). Yn ychwanegol at gostau cynnal y sesiynau, byddai'r awdurdodau lleol yn wynebu costau yn sgil caniatáu i'r swyddogion gorfodi ddilyn yr hyfforddiant. Amcangyfrifir y byddai hyn yn costio oddeutu £9,200[332]. Amcangyfrifir felly y bydd £10,400 o gostau hyfforddi yn cael eu hwynebu yn 2017/18.

536. Er bod awdurdodau lleol yn derbyn cyllid trwy'r Grant Cynnal Refeniw i orfodi deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli, megis deddfwriaeth ynglŷn ag arddangos cynhyrchion tybaco yn y man gwerthu a deddfwriaeth ynglŷn ag oed gwerthu, nid ydynt yn cael cyllid ar gyfer unrhyw un o'r troseddau sy'n gysylltiedig â chreu'r gofrestr ar gyfer manwerthwyr. Yn yr Alban, yn 2010-11, amcangyfrifwyd bod 19,678 o fanwerthwyr tybaco, ac yn dilyn lansio Cofrestr Manwerthu Tybaco yr Alban, gostyngodd y nifer hwn i 11,114 yn 2012/13. Er y gallai nifer o ffactorau fod wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn, mae'n bosibl nad yw rhai manwerthwyr wedi cofrestru. Gallai sefyllfa debyg godi yng Nghymru. O ganlyniad, byddai'n ofynnol i swyddogion safonau masnach ymchwilio i adroddiadau ynglŷn â manwerthwyr sydd heb gofrestru yn gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu ddyfeisiau mewnanadlu nicotin. Yn yr

[331] Yn seiliedig ar £75 fesul 1000 o eiriau ar gyfer y cyfieithu, £21 fesul 1000 o eiriau ar gyfer y prawfddarllen.

[332] Yn seiliedig ar 5 awr ar gyfradd cyflog o £26.40 yr awr ar gyfer Swyddog Gorfodi Llywodraeth Leol (i gynnwys y sesiwn hyfforddi hanner diwrnod ac amser teithio) i 70 o swyddogion gorfodi fod yn bresennol.

Alban, cyflwynwyd Hysbysiadau Cosb Benodedig i saith manwerthwr oherwydd eu bod yn rhedeg busnes tybaco heb fod wedi eu cofrestru[333].

537. Byddai effaith hefyd ar adnoddau staffio yn sgil cynnwys troseddau ychwanegol a allai sbarduno Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, o ganlyniad i fynd â manwerthwyr o flaen y llys i gael Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad. Disgwylir mai ychydig iawn o achosion a fyddai'n mynd gerbron y llys.

Manwerthwyr

538. Gallai manwerthwyr wynebu rhywfaint o gostau yn sgil treulio amser yn ymgyfarwyddo â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r newidiadau. Yn seiliedig ar gyfradd gyflog fesul awr manwerthwyr sy'n gwerthu tybaco (£11.90[334,335]), yr amcangyfrif bod 3,290 o fusnesau unigol yn cwmpasu'r amcangyfrif o 8,225 o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin yng Nghymru, ac y byddai'r camau uchod yn cymryd dwy awr, oddeutu £78,300 fyddai'r costau i'r manwerthwyr yn 2017/18.

539. Er mai'r nod fyddai cadw'r broses gofrestru mor syml â phosibl, fel y broses a ddefnyddir yn yr Alban, byddai rhywfaint o amser staff yn cael ei dreulio'n llenwi ffurflen gais. Disgwylir y byddai'n cymryd oddeutu pum i ddeg munud i gofrestru un fangre, a munud neu ddwy ychwanegol ar gyfer pob mangre ychwanegol. Byddai'r costau hyn yn debyg i'r rhai a amlinellwyd o dan Opsiwn 2. Fodd bynnag, gan y byddai'r gofrestr a gynigir o dan yr opsiwn hwn yn fandadol, cyfrifwyd y costau ar y sail y byddai pob un o'r 8,225 o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin amcangyfrifedig yn cofrestru. Amcangyfrifir y byddai hyn yn costio oddeutu £8,500 i'r sector manwerthu yn 2017/18 (mae hyn yn seiliedig ar lefel uchaf yr amcangyfrif o'r amser y byddai'n ei gymryd i gofrestru yn Opsiwn 2).

540. Yn ychwanegol at yr amser staff a dreulir yn dilyn y broses gofrestru, byddai ffi gofrestru i fanwerthwyr. Cynigir gosod ffi o £30 ar gyfer y fangre gyntaf, a £10 am bob mangre ychwanegol. Amcangyfrifwyd o dan Opsiwn 2 bod 3,290 o fusnesau yn gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin yng Nghymru, gan gwmpasu 8,225 o fanwerthwyr. Trwy ddefnyddio'r amcangyfrifon hyn, gellid cyfrifo y byddai'n costio oddeutu £148,100 i'r holl fanwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin gofrestru. Oherwydd y byddai gan y manwerthwyr chwe mis i gofrestru ar ôl i'r gofrestr ddod yn weithredol, disgwylir y byddai'r costau hyn yn gostwng yn 2017/18. Er bod y ffi gofrestru yn gost i'r manwerthwyr, mae'n ffynhonnell refeniw i'r awdurdod arweiniol a byddai'n cael ei ddefnyddio i dalu am y gwaith cynnal a gweinyddu a'r costau staff.

541. Ni fyddai unrhyw ffi'n cael ei chodi am ailgofrestru nac am ddiwygio manylion manwerthwyr ar y gofrestr. Fodd bynnag, fe fyddai ffioedd yn cael eu codi ar fusnes cofrestredig am ychwanegu mangre arall, neu am wneud cais newydd i gofrestru. Ar

[333] Enhanced Tobacco Sales Enforcement Programme Report 2010-14. Safonau Masnach yn yr Alban

[334] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtie; (Managers and Directors in Wholesale and retail). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425

[335] Mae'r cyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% er mwyn cynnwys argostau.

ôl cyflwyno'r gofrestr, byddai gan fanwerthwyr cyfredol chwe mis i gofrestru. Ar ôl y cyfnod cychwynnol hwn, yr unig ffioedd a fyddai'n cael eu cynhyrchu fyddai rhai ar gyfer manwerthwyr neu fangreoedd newydd sy'n gwerthu tybaco a/neu gynhyrchion nicotin. Nid oes data ar gael ar faint o fanwerthwyr newydd bob blwyddyn fyddai'n dechrau gwerthu'r cynhyrchion hyn, ond disgwylir na fyddai'r costau hyn yn uchel iawn. Yn yr Alban, mae cyfanswm y manwerthwyr sydd ar y gofrestr tybaco wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn.

542. Gallai manwerthwyr wynebu costau hefyd oherwydd y troseddau newydd a fyddai'n gysylltiedig â'r gofrestr, yn ogystal â throseddau presennol sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth arall berthnasol. Byddai'r rhan fwyaf o'r costau sy'n gysylltiedig â'r gofrestr ar ffurf Hysbysiadau Cosb Benodedig, ac o ganlyniad, ni fyddent yn arwain at gostau cyfreithiol ychwanegol oni bai bod manwerthwr yn dewis peidio â thalu cosb yr Hysbysiad Cosb Benodedig neu'n methu â'i thalu. Yn seiliedig ar ddata o'r Alban,[336] amcangyfrifir y byddai oddeutu saith Hysbysiad Cosb Benodedig (am redeg busnes tybaco heb fod wedi cofrestru) a dwy ddirwy (am beidio â thalu Hysbysiad Cosb Benodedig) yn cael eu cyflwyno bob blwyddyn. Amcangyfrifir y gallai hyn olygu cyfanswm costau o oddeutu £11,100 i fanwerthwyr. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai'r costau gwirioneddol yn llai, gan y byddai gostyngiad am dalu Hysbysiadau Cosb Benodedig yn gynnar, a gallai'r dirwyon a osodir hefyd fod yn is.

543. Oherwydd y cysylltir troseddau tybaco eraill â'r broses Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, fe allai nifer y manwerthwyr y cyflwynir Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad iddynt gynyddu. Byddai hyn yn eu hatal rhag gwerthu cynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin, yn dibynnu ar ba Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad a gyflwynir. Byddai hyn yn effeithio ar eu hincwm posibl, nid yn unig oherwydd na fyddent yn gallu gwerthu'r cynhyrchion hyn, ond hefyd oherwydd y byddai perygl iddynt golli cwsmeriaid cynhyrchion eraill i gystadleuwyr. Yn seiliedig ar ddata o'r Alban[337], amcangyfrifir y byddai oddeutu dau gais am Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yn cael eu prosesu bob blwyddyn.

544. Er bod y rhain yn gostau ychwanegol na fyddai manwerthwyr yn Lloegr yn eu hwynebu, mae'n anhebygol y bydd effaith ar allu busnesau i gystadlu oherwydd graddfa'r costau y mae pob busnes yn ei wynebu a'r gweithgaredd cysylltiedig.

Llysoedd

545. Yn seiliedig ar nifer yr achosion sy'n cael eu hatgyfeirio i gael eu herlyn yn yr Alban yn sgil troseddau cysylltiedig â'r gofrestr fanwerthu, amcangyfrifir y byddai pedwar achos yn cael eu hatgyfeirio at y llysoedd yng Nghymru. Am y rheswm hwnnw, effaith fechan iawn a fyddai i'w gweld ar y llysoedd yng Nghymru. Nid oes fframwaith manwl o'r costau wedi cael ei drafod rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eto, felly nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd.

[336] Enhanced Tobacco Sales Enforcement Programme Report 2010-14. Safonau Masnach yn yr Alban
[337] Enhanced Tobacco Sales Enforcement Programme Report 2010-14. Safonau Masnach yn yr Alban

*Tabl 7.19 – Crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 3*

| | 2016/17 £ | 2017/18 £ | 2018/19 £ | 2019/20 £ | 2020/21 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Datblygu'r gofrestr (gan gynnwys costau staff) | 23,700 | 6,000 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd | 2,800 | 2,700 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **26,500** | **8,700** | **0** | **0** | **0** |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | |
| Gwaith cynnal a gweinyddu parhaus | 0 | 0 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| Costau staff | 0 | 20,900 | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| Costau llunio canllawiau | 4,700 | 0 | 0 | 1,400 | 0 |
| Costau hyfforddi | 1,800 | 10,400 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol** | **6,500** | **31,300** | **15,000** | **16,400** | **15,000** |
| **Manwerthwyr** | | | | | |
| Costau staff ar gyfer ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd | 0 | 78,300 | 0 | 0 | 0 |
| Costau staff ar gyfer ymdrin â chofrestriadau | 0 | 8,500 | 0 | 0 | 0 |
| Ffioedd cofrestru | 0 | 148,100 | 0 | 0 | 0 |
| Costau yn sgil Hysbysiadau Cosb Benodedig neu ddirwyon[338] | 0 | 11,100 | 11,100 | 11,100 | 11,100 |
| **Cyfanswm y costau i fanwerthwyr** | **0** | **246,000** | **11,100** | **11,100** | **11,100** |
| **Cyfanswm y costau** | **33,000** | **286,000** | **26,100** | **27,500** | **26,100** |
| **Refeniw ffioedd i Awdurdodau Lleol** | **0** | **148,100** | **0** | **0** | **0** |
| **Cost net** | **33,000** | **137,900** | **26,100** | **27,500** | **26,100** |

[338] Dim ond y troseddau newydd sy'n gysylltiedig â'r gofrestr (neu'r siawns y byddai mwy o Orchmynion Mangre o dan Gyfyngiad yn cael eu cyflwyno yn seiliedig ar y newidiadau a gynigir trwy Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)) sydd wedi eu cynnwys. Mae'r niferoedd wedi eu seilio ar droseddau yn yr Alban.

546. Nid yw'r ffioedd cofrestru a godir ar fanwerthwyr wedi eu cynnwys yn y gost net gan eu bod yn cael eu defnyddio i dalu rhywfaint o gostau'r awdurdodau lleol. Gan mai dim ond un ffi gofrestru fyddai'n daladwy, byddau refeniw'r awdurdodau lleol o'r ffioedd cofrestru yn 2017/18 yn uwch na chostau gweinyddu'r awdurdodau lleol yn y flwyddyn honno. Byddai unrhyw arian dros ben yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gwaith o gynnal a gweinyddu'r gofrestr yn y blynyddoedd dilynol. Byddai Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ar gyfer unrhyw ddiffyg rhwng y ffioedd a'r costau dros amser.

**Manteision**

547. Prif fantais gorfodi manwerthwyr i gofrestru fyddai'r ffaith y câi rhestr gynhwysfawr ei chynhyrchu o fanwerthwyr sy'n gwerthu tybaco neu gynhyrchion nicotin. Byddai hyn yn cynorthwyo swyddogion safonau masnach yn eu gweithgareddau gorfodi, er enghraifft mynd i'r afael â manwerthwyr sy'n gwerthu tybaco i unigolion o dan oed.

548. Gellid cefnogi hyn ymhellach drwy ddarparu adnoddau, hyfforddiant a chanllawiau. Pe byddai rhestr gynhwysfawr ar gael o'r holl fanwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu nicotin, byddai swyddogion safonau masnach ac awdurdodau iechyd yn gallu gweithio'n fwy effeithiol i dargedu cyngor, arweiniad ac ymgyrchoedd sy'n berthnasol i'r diwydiannau hyn, gan sicrhau bod pob manwerthwr cofrestredig yn derbyn y wybodaeth hon.

549. Er nad yw cofrestr manwerthwyr, wedi ei hategu gan well proses ar gyfer Gorchmynion Mangre o dan Gyfyngiad, yn debygol o gael yr un effaith â chynllun trwyddedu cadarnhaol, mae ymchwilwyr wedi dod i'r casgliad mai un o'r strategaethau sy'n fwyaf tebygol o lwyddo i leihau gwerthiannau dan oed yw tynnu trwyddedau'n ôl am dorri'r gyfraith[339].

550. Cyn belled â bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gorfodi'n ddigonol, dylai'r Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad ar ei newydd wedd fod yn symbyliad cryf, gan y byddai manwerthwyr yn bryderus ynglŷn â cholli ffynhonnell refeniw bwysig. Byddai manwerthwyr hefyd yn deall y gallent golli eu gallu i werthu'r cynhyrchion hyn pe na byddent yn cydymffurfio â deddfwriaeth tybaco a chynhyrchion nicotin. Gallai hyn arwain at golli refeniw mewn meysydd eraill pe byddai cwsmeriaid yn dewis mynd i rywle arall.

551. Amcangyfrifir bod blwyddyn yn cael ei hychwanegu at fywyd unigolyn, ar gyfartaledd, os llwyddir i'w atal rhag dechrau ysmygu.[340] Rhoddir gwerth o £60,000 y pen ar y flwyddyn ychwanegol hon. [341] Cost net Opsiwn 3 dros y cyfnod cychwynnol

---

[339] Licensing of Tobacco Retailers and Wholesalers. Cyhoeddwyd gan The Allen Consulting Group. Rhagfyr 2002

[340] Age of Sale for Nicotine Inhaling Products: Impact Assessment. https://www.gov.uk/government/consultations/nicotine-inhaling-products-introducing-a-minimum-age-of-sale

[341] Rhoddir gwerth o £60,000 i flwyddyn bywyd wedi'i haddasu yn ôl ansawdd. Pan nad yw amcangyfrifon blwyddyn bywyd wedi'i haddasu yn ôl ansawdd ar gael ac yn briodol, defnyddir y gwerth hwn ar gyfer Blynyddoedd Bywyd. Mae hyn yn gyson â phrisiad tebyg o bolisïau sy'n lliniaru

o bum mlynedd yw £241,900; felly er mwyn bod yn niwtral o ran cost, byddai'n rhaid atal tua phedwar o bobl ifanc rhag dechrau ysmygu.

**Opsiwn 4 - Cyflwyno cynllun trwyddedu cadarnhaol ar gyfer manwerthwyr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu nicotin**

**Disgrifiad**

552. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys datblygu cynllun trwyddedu tybaco a chynhyrchion nicotin, a fyddai'n golygu, yn wahanol i Opsiwn 3, y byddai angen i fanwerthwyr gael trwydded cyn gallu gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu nicotin. Disgwylir y byddai awdurdod arweiniol yn rheoli'r cynllun trwyddedu ac yn cynnal y gronfa ddata, ond y byddai swyddogion yn ardaloedd pob awdurdod lleol yn adolygu ceisiadau am drwydded neu geisiadau i adnewyddu trwydded. Byddai'r swyddogion lleol hyn hefyd yn gyfrifol am orfodi'r cynllun trwyddedu. Byddai'n rhaid i fanwerthwyr ddangos tystiolaeth o'r modd y maent yn bodloni’r meini prawf sylfaenol er mwyn cael trwydded, a byddai angen i'r dystiolaeth hon gael ei hadolygu cyn i drwydded gael ei dyfarnu. Byddai'n drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu nicotin heb drwydded. Dim ond am flwyddyn y byddai'r drwydded yn ddilys, sy'n golygu y byddai'n rhaid i fanwerthwyr wneud cais i adnewyddu'r drwydded bob blwyddyn, yn debyg i drwydded alcohol y mae'n rhaid ei hadnewyddu bob blwyddyn.

553. O dan yr opsiwn hwn, byddai angen i fanwerthwyr presennol wneud cais am drwydded er mwyn parhau i werthu tybaco a/neu gynhyrchion nicotin, a byddai angen i fanwerthwyr newydd a fyddai'n dymuno gwerthu'r cynhyrchion hyn wneud cais am drwydded hefyd. Y bwriad fyddai cynnwys cyfnod pontio o adeg cychwyn y darpariaethau, er mwyn i fanwerthwyr presennol gael gwneud cais am drwydded. Mae'n debyg mai chwe mis fyddai’r cyfnod pontio, ond byddai'n rhaid trafod pa mor briodol yw hyn gyda'r rhanddeiliaid yr effeithir arnynt yn gyntaf.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

554. Byddai cost gychwynnol ynghlwm wrth ddatblygu elfen TGCh y system drwyddedu. Byddai hyn yn cynnwys cronfa ddata o fanwerthwyr sydd eisoes yn gwerthu tybaco ac sydd wedi cael trwydded, yn ogystal â'r ddarpariaeth ar gyfer gwneud ceisiadau a thalu ar-lein. Disgwylir y byddai'r gronfa ddata hon yn debyg i'r un a ddefnyddid ar gyfer y gofrestr yn Opsiynau 2 a 3, ac felly byddai'r costau yn debyg i'r opsiynau hynny. Byddai hyn yn cyfateb i gostau o £23,700 yn 2016/17 a £6,000 yn 2017/18 i dalu am waith datblygu’r gronfa ddata a chostau staff cysylltiedig.

555. Byddai angen rhybuddio manwerthwyr ynglŷn â'r dyletswyddau statudol newydd a'r hyn y byddai'n ofynnol iddynt ei wneud. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy erthyglau di-dâl yn y wasg a'r cyfryngau, trwy sianeli cyfathrebu presennol yr

---

risg marwolaeth neu afiachusrwydd gan adrannau eraill y Llywodraeth, yn seiliedig ar astudiaethau o’r hyn y mae aelodau o’r cyhoedd ar gyfartaledd yn fodlon ei wario i leihau’r risg o farwolaeth iddynt eu hunain, neu i wella eu canlyniadau iechyd eu hunain.

awdurdodau lleol (er enghraifft y wefan, rhwydweithiau safonau masnach) a thrwy randdeiliaid. Mae'r dull hwn wedi ei ddefnyddio ar gyfer deddfwriaethau tybaco eraill megis y gwaharddiad ar arddangos. Byddai'r costau hyn yn debyg i'r costau cyfatebol a amlinellwyd o dan Opsiwn 3.

Awdurdodau lleol

556. Byddai cost yr Opsiwn hwn yn uwch na chost Opsiynau 2 a 3 i'r awdurdodau lleol oherwydd y gofynion cynyddol o dan system drwyddedu. Gallai'r manwerthwyr wneud cais am drwydded trwy'r post neu ar-lein, a'r awdurdodau lleol fyddai'n gyfrifol am gadarnhau bod y manwerthwr yn gymwys a chyhoeddi trwydded. Rhagwelir y byddai'r ffioedd a delir gan fanwerthwyr er mwyn cael trwydded yn talu am rywfaint o'r costau hyn.

557. Amcangyfrifir y byddai angen 22 o Swyddogion Gorfodi Awdurdodau Lleol cyfwerth ag amser llawn er mwyn rheoli cynllun trwyddedu yn 2017/18. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar yr amser y byddai'n ei gymryd i roi cymorth i fanwerthwyr lenwi cais am drwydded, adolygu ceisiadau am drwydded neu i adnewyddu trwydded, cymryd camau gorfodi o ran troseddau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau cynhyrchion tybaco/nicotin, ac adolygu apeliadau. Yn seiliedig ar yr amcangyfrif hwn, rhagwelir y byddai hyn yn costio cyfanswm o £1,019,600 yn y flwyddyn gyntaf.[342] Byddai angen parhaus am 22 o 0.75 Swyddogion Gorfodi Awdurdodau Lleol i reoli'r cynllun. Byddai hyn yn golygu cost o £764,700 y flwyddyn. Yn ogystal, byddai angen Gweinyddwr cyfwerth ag amser llawn i gefnogi'r cynllun, gan gynnwys monitro'r gronfa ddata, prosesu ceisiadau papur ar y gronfa ddata electronig, cyflwyno trwyddedau a bod yn gyswllt cyntaf i fanwerthwyr. Byddai'r swydd hon yn cael ei lleoli o fewn yr awdurdod lleol sydd â phrif gyfrifoldeb dros reoli'r cynllun a byddai'n ymdrin â Chymru gyfan. Rhagwelir y byddai hyn yn costio oddeutu £25,700 y flwyddyn.

558. Byddai costau TGCh o £10,000 y flwyddyn, a wynebir o dan Opsiynau 2 a 3 am gynnal y gofrestr, yn cael eu hwynebu o dan yr opsiwn hwn hefyd.

559. Byddai angen llunio canllawiau hefyd i gefnogi cynllun trwyddedu newydd. Er y byddai cynllun trwyddedu yn fwy cymhleth i awdurdodau lleol, rhagwelir y byddai'r canllawiau i fanwerthwyr yn ddim mwy na 6,000 o eiriau. Oherwydd hynny rhagwelir y byddai'r costau hyn yr un faint â'r costau a amlinellwyd o dan Opsiwn 3.

560. Byddai angen cynnal sesiynau hyfforddi yn ystod 2017/18 ar gyfer Swyddogion Gorfodi Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi'r cynllun, ac mae'n debyg mai swyddogion safonau masnach fyddai'n eu harwain. Rhagwelir y byddai'r hyfforddiant yn cymryd mwy o amser na'r hyfforddiant ar gyfer Opsiwn 3 oherwydd cymhlethdod ychwanegol y cynllun trwyddedu. Rhagwelir y byddai pob sesiwn yn cymryd oddeutu diwrnod (chwe awr gan gynnwys egwyliau), gan gynnal un yn y Gogledd ac un yn y De. Byddai'r sesiynau hyn yn costio oddeutu £1,900, yn seiliedig ar logi un ystafell a darparu lluniaeth i 35 o bobl ar gyfer pob sesiwn. Byddai hefyd angen peth amser staff ar gyfer datblygu a rhedeg yr hyfforddiant, a rhagwelir y

[342] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff awdurdodau lleol. Mae argostau wedi eu cynnwys yn y costau hyn.

byddai hynny'n cyfateb i oddeutu tair wythnos o amser Swyddog Gorfodi Awdurdod Lleol cyfwerth ag amser llawn, gan gostio oddeutu £2,600[343], a fyddai'n cael eu hwynebu yn 2016/17. Yn ychwanegol at gostau rhedeg y sesiynau hyfforddi, byddai awdurdodau lleol yn wynebu costau yn sgil caniatáu i'r swyddogion gorfodi ddilyn yr hyfforddiant. Rhagwelir y byddai hyn yn costio oddeutu £14,800[344].

Manwerthwyr

561. Gallai manwerthwyr wynebu rhywfaint o gostau yn sgil treulio amser yn ymgyfarwyddo â'r cynllun trwyddedu newydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Gan ei bod yn debygol y gallai hwn fod yn fwy cymhleth na'r arferion presennol (sef nad oes angen gwneud cais am drwydded er mwyn gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin) amcangyfrifir y gallai gymryd oddeutu tair awr i fanwerthwyr ymgyfarwyddo'n llwyr â'r newidiadau. Yn seiliedig ar gyfradd tâl yr awr o £11.90[345], a'r amcangyfrif bod 8,225 o fanwerthwyr cynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin yng Nghymru y byddai angen iddynt wneud cais am drwydded, oddeutu £293,600 fyddai cyfanswm y costau i fanwerthwyr yn 2017/18.

562. Amcangyfrifir mai cost trwydded newydd fyddai oddeutu £130. Byddai tâl blynyddol o £90 fesul mangre wedyn. Mae hyn yn seiliedig ar y gost o weinyddu'r cynllun i'r awdurdodau lleol. Rhagwelir mai cost ffioedd trwydded i fanwerthwyr, fyddai £1,069,200 yn y flwyddyn gyntaf (2017/18) i gael trwyddedau newydd, a chost flynyddol o £781,400 am y ffioedd adnewyddu blynyddol. Mae hyn yn seiliedig ar yr amcangyfrif bod 8,225 o fanwerthwyr ar draws Cymru sy'n gwerthu un ai cynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin. Yn ychwanegol at y costau hyn, byddai angen i unrhyw fanwerthwyr newydd sy'n dymuno gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin o 2017/18 gael trwydded cyn y bydd ganddynt hawl i werthu'r cynhyrchion hyn. Nid oes data ynglŷn â sawl manwerthwr newydd y flwyddyn sy'n gwerthu'r cynhyrchion hyn, fodd bynnag disgwylir y byddai nifer y manwerthwyr newydd bob blwyddyn yn isel. Yn yr un modd ag Opsiwn 3, mae'r ffioedd hyn yn ffynhonnell refeniw i'r awdurdodau lleol a byddid yn eu defnyddio i dalu am y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r cynllun.

563. Yn ogystal â'r ffi, byddai costau'n gysylltiedig â'r amser y byddai aelodau staff yn ei gymryd i lenwi cais a chyflwyno'r dystiolaeth gefnogol angenrheidiol. Rhagwelir y byddai'n cymryd oddeutu dwy awr i lenwi cais am drwydded newydd, ac oddeutu awr ar gyfer cais i adnewyddu trwydded. Gan dybio bod cyfanswm o 8,225 o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin, a chyflog o £11.90 yr awr[346,347], byddai hyn yn golygu cyfanswm o £195,800 o gostau staff cychwynnol ar gyfer pob

[343] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff awdurdodau lleol. Mae argostau wedi eu cynnwys yn y costau hyn.
[344] Yn seiliedig ar 8 awr am dâl o £26.40 yr awr (yn cynnwys y sesiwn hyfforddi a'r amser teithio) i 70 o swyddogion gorfodi fod yn bresennol.
[345] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (Managers and Directors in retail and wholesale). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425
[346] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (Managers and Directors in retail and wholesale). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425
[347] Mae'r cyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% er mwyn cynnwys argostau

manwerthwr tybaco a chynhyrchion nicotin a £97,900 y flwyddyn o 2018/19 i adnewyddu trwyddedau.

564. Yn olaf, byddai costau i fanwerthwyr mewn perthynas â chamau gorfodi cysylltiedig â'r cynllun trwyddedu megis dirwyon neu golli gwerthiant am fod eu trwydded wedi ei dirymu. Pan fo trwydded manwerthwr yn cael ei dirymu, gan ei atal rhag gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin, byddai cwsmeriaid rheolaidd sy'n prynu'r cynhyrchion hyn yn gwario eu harian gyda chystadleuydd a fyddai'n gallu gwerthu'r cynhyrchion hyn. Gallai, o ganlyniad, golli busnes o ran nwyddau ar wahân i gynhyrchion tybaco/nicotin.

*Tabl 7.20 – Crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 4*

| | **2016/17 £** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Datblygu'r gronfa ddata | 23,700 | 6,000 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfathrebu | 2,800 | 2,700 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **26,500** | **8,700** | **0** | **0** | **0** |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | |
| Gwaith cynnal parhaus ar y gronfa ddata | 0 | 0 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| Costau staff | 0 | 1,045,300 | 790,400 | 790,400 | 790,400 |
| Costau llunio canllawiau | 4,700 | 0 | 0 | 1,400 | 0 |
| Costau hyfforddi | 2,600 | 16,700 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol** | **7,300** | **1,062,000** | **800,400** | **801,800** | **800,400** |
| **Manwerthwyr** | | | | | |
| Costau staff ar gyfer ymgyfarwyddo â'r cynllun trwyddedu newydd | 0 | 293,600 | 0 | 0 | 0 |
| Costau staff ar gyfer gwneud cais am drwydded /adnewyddu | 0 | 195,800 | 97,900 | 97,900 | 97,900 |
| Ffioedd trwydded/ adnewyddu* | 0 | 1,069,200 | 781,400 | 781,400 | 781,400 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y costau i'r manwerthwyr** | **0** | **1,558,600** | **879,300** | **879,300** | **879,300** |
| **Cyfanswm y costau** | **33,800** | **2,629,300** | **1,679,700** | **1,681,100** | **1,679,700** |
| **Refeniw ffioedd i Awdurdodau Lleol** | | **1,069,200** | **781,400** | **781,400** | **781,400** |
| **Cost net** | **33,800** | **1,560,100** | **898,300** | **899,700** | **898,300** |

* Nid yw ffioedd cofrestru a godir ar fanwerthwyr wedi eu cynnwys yn y gost net gan eu bod yn cael eu defnyddio i dalu costau llywodraeth leol.

**Manteision**

565. Byddai cynllun trwyddedu cadarnhaol yn gyfle i roi addysg a gwybodaeth wedi ei thargedu i fanwerthwyr drwy'r broses o wneud cais am drwydded, a thrwy ddarparu cofnod cynhwysfawr o bob manwerthwr sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin.

566. Byddai hyn hefyd yn gyson â'r neges bod gwerthu tybaco yn debyg i weithgareddau eraill sydd â risg bosibl i iechyd, yn yr ystyr mai braint amodol yw gwerthu cynhyrchion tybaco ac nid hawl ddiamod. Gallai hefyd gynyddu ymwybyddiaeth manwerthwyr o'u cyfrifoldebau cyfreithiol, a byddai'r drosedd o werthu cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin heb drwydded yn ffactor ychwanegol i'w hysgogi i gyflawni eu cyfrifoldebau.

567. O'r tri gwahanol fodel o drwyddedu manwerthwyr tybaco (cofrestru, trwyddedu negyddol neu drwyddedu cadarnhaol), awgryma tystiolaeth mai cynllun trwyddedu cadarnhaol yw'r arfer gorau er mwyn rheoli tybaco. Yn nhalaith California, gwelwyd gostyngiad o fwy na 30% yn lefel y tybaco a werthir i bobl ifanc mewn un ar ddeg cymuned yn sgil cyflwyno deddfau trwyddedu lleol cadarn.[348]

**Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir**

568. Mae Opsiwn 1 yn parhau â'r sefyllfa bresennol. Byddai'n golygu bod swyddogion safonau masnach yn parhau i fonitro'r ddeddfwriaeth bresennol ac ymdrin yn briodol ag unrhyw achos o dorri'r deddfwriaethau presennol. O ystyried nad yw'r duedd o werthu cynhyrchion tybaco i bobl o dan oed wedi gostwng i lefel dderbyniol ers i'r oedran gwerthu newid o 16 i 18 yn 2007, mae'n annhebygol y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at unrhyw ostyngiad amlwg yng ngwerthiant cynhyrchion tybaco i bobl sydd o dan oed. Yn ogystal, ar ôl cyflwyno deddfwriaeth ar oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion nicotin, bydd perygl y byddai'r cynhyrchion hyn

[348] Tobacco Supply Strategies in a Local Government Context. Cyhoeddwyd gan dîm hybu iechyd Cancer Society Auckland ym mis Hydref 2013

hefyd yn cael eu gwerthu i rai o dan 18 oed, yn yr un modd â chynhyrchion eraill sydd â chyfyngiad oed megis tybaco ac alcohol.

569. Mae Opsiwn 2 yn cynnig cyflwyno cofrestr wirfoddol. Mae'n annhebygol y byddai cofrestr wirfoddol yn rhoi rhestr gynhwysfawr i swyddogion safonau masnach o'r manwerthwyr yn eu hardal sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu nicotin. Ystyrir y byddai hyn yn lleihau budd cofrestr yn sylweddol, a gallai olygu mai bychan iawn fyddai unrhyw effaith o ran lleihau nifer yr achosion o werthu tybaco i bobl o dan oed a gallu pobl ifanc i gael gafael ar dybaco a chynhyrchion nicotin. Oherwydd hynny mae'n annhebygol y bydd yn cael effaith sylweddol o ran lleihau nifer y bobl ifanc sy'n ysmygu. Rhagwelir hefyd na fyddai hyn yn cael effaith fawr o ran atal gwerthiant cynhyrchion nicotin i bobl o dan oed, na helpu gyda gorfodaeth.

570. Mae Opsiwn 4 yn cynnig cyflwyno cynllun trwyddedu cadarnhaol. Awgryma tystiolaeth y gall cynllun trwyddedu cadarnhaol gael effaith gadarnhaol ar ostwng y niferoedd sy’n ysmygu, er bod y dystiolaeth yn aneglur ynglŷn â’r fantais o ran gostwng yr achosion o werthu i bobl o dan oed o'i gymharu â thrwyddedu negyddol. Fodd bynnag, mae'r costau sy’n gysylltiedig â chyflwyno cynllun trwyddedu cadarnhaol yn llawer uwch nag unrhyw rai o'r opsiynau eraill. Byddai'r opsiwn hwn yn benodol yn codi cost reolaidd ychwanegol ar fanwerthwyr tybaco yng Nghymru oherwydd yr angen i adnewyddu'r drwydded bob blwyddyn.

571. Mae Opsiwn 3 yn cynnig cyflwyno cofrestr genedlaethol yn ogystal â sefydlu gwell trefn ar gyfer Gorchmynion Mangre o dan Gyfyngiad, a hwn yw'r opsiwn a ffefrir. Ystyrir y byddai'r bygythiad o dynnu'r drwydded yn ôl, trwy gyflwyno Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, yn ogystal â mwy o fonitro a gwell sianeli cyfathrebu, yn annog manwerthwyr i gydymffurfio’n well â deddfwriaeth ar reoli tybaco ac y byddai’n fwy tebygol felly na’r arfer presennol o effeithio ar lefelau gwerthiant i bobl sydd o dan oed. Mewn cysylltiad â deddfwriaeth ar gynhyrchion nicotin, byddai'n rhesymol tybio y byddai'r effaith yn debyg.

572. Byddai cofrestr genedlaethol fandadol o fanwerthwyr yn sicrhau bod gan swyddogion safonau masnach lleol restr gynhwysfawr o fanwerthwyr yn eu hardal. Byddai hyn yn gymorth iddynt orfodi deddfwriaeth gyfredol megis rheoliadau oedran gwerthu ac arddangos. Gan yr ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai nifer fawr o fanwerthwyr yn cofrestru ar gofrestr wirfoddol, ystyrir bod cofrestr statudol yn fwy tebygol o fod yn effeithiol er mwyn sicrhau bod gan yr awdurdodau lleol restr gynhwysfawr o fanwerthwyr yn eu hardal sy'n gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin. Yn ogystal, byddai'r gofrestr yn galluogi swyddogion safonau masnach lleol i dargedu cyngor, cyfarwyddyd a chefnogaeth tuag at fanwerthwyr sy'n gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin.

573. Gellid felly wneud y broses Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yn fwy effeithiol trwy ychwanegu troseddau priodol ychwanegol at y rhestr o droseddau a all sbarduno cais gan awdurdod lleol am Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, megis gwerthu tybaco anghyfreithlon. Byddai hyn yn cyflwyno mantais ychwanegol, sef gosod cyfnod o amser, a bennir gan Lys yr Ynadon, y gwaherddir manwerthwyr sydd wedi cyflawni nifer o droseddau ar y rhestr estynedig rhag gwerthu cynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin. Bydd gwell trefn ar gyfer Gorchmynion Mangre o Dan Gyfyngiad yn atgyfnerthu pa mor bwysig yw hi i fanwerthwyr gydymffurfio â

deddfwriaeth a luniwyd i amddiffyn pobl ifanc rhag cael gafael ar dybaco a chynhyrchion nicotin.

## Rhoi tybaco etc i bersonau o dan 18

### Opsiynau

574. Ystyriwyd tri opsiwn:
- Opsiwn 1 – Gwneud dim;
- Opsiwn 2 – Cyflwyno canllawiau i fanwerthwyr ynglŷn â gwerthu o bell a rhoi tybaco a chynhyrchion nicotin; ac
- Opsiwn 3 – Cyflwyno deddfwriaeth i wahardd rhoi tybaco a chynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed, a chyflwyno canllawiau i fanwerthwyr sy'n cynnig gwasanaeth gwerthu o bell, gan ymdrin â rhoi'r cynhyrchion hyn i bobl. Hwn yw'r opsiwn a ffefrir.

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

### Disgrifiad

575. Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw newid, byddai'n golygu bod manwerthwyr yn dal i benderfynu ar eu polisïau eu hunain o ran gwerthu cynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin o bell a'u rhoi i bobl, heb unrhyw ganllawiau na chyfeiriad gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd nid yw'n gyfreithlon gwerthu tybaco i berson o dan 18 oed. Fodd bynnag, nid yw hynny'n cynnwys danfon y cynhyrchion hyn. Ar hyn o bryd mae gan bob un o'r prif archfarchnadoedd bolisïau â'r nod o atal archebion rhag cael eu rhoi i gwsmeriaid o dan 18 oed. Fodd bynnag, mae manwerthwyr eraill a allai gynnig gwasanaeth danfon neu 'glicio a chasglu' y mae'n bosibl nad yw eu telerau ac amodau'n cynnwys darpariaeth ar gyfer rhoi cynhyrchion tybaco neu nicotin i rywun sydd o dan 18 oed. Mae telerau ac amodau'r rhan fwyaf o'r prif archfarchnadoedd yn nodi bod gwerthiant wedi ei gwblhau pan fo arian wedi ei gyfnewid yn hytrach na phan fo'r nwyddau'n cael eu danfon.

### Costau

576. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r opsiwn hwn. Mae nifer o fanwerthwyr wedi datblygu eu Telerau ac Amodau ein hunain ar werthu o bell a rhoi eu cynhyrchion i bobl, gan gynnwys cynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin, ac ni fyddai angen eu newid. Ni fyddai unrhyw rwymedigaeth ychwaith ar fanwerthwyr nad oes ganddynt bolisïau o'r fath ar hyn o bryd i gyflwyno newidiadau.

### Manteision

577. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r perygl y gallai plant a phobl ifanc o dan 18 oed gael gafael ar dybaco a chynhyrchion nicotin trwy brynu'r nwyddau hyn o

bell a'u rhoi iddynt. Oherwydd hynny, nid oes unrhyw fanteision ychwanegol i'r opsiwn hwn.

### Opsiwn 2 – cyhoeddi canllawiau i fanwerthwyr ynglŷn â danfon tybaco a chynhyrchion nicotin

### Disgrifiad

578. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod Llywodraeth Cymru'n paratoi canllawiau, ar y cyd â rhanddeiliaid o'r sector manwerthu ac unrhyw bartïon eraill a chanddynt fuddiant (e.e. cynrychiolwyr safonau masnach). Byddai'r canllawiau'n nodi arferion gorau i fanwerthwyr eu dilyn, ac yn nodi camau y gallai'r manwerthwyr eu cymryd er mwyn lleihau'r perygl o roi tybaco a chynhyrchion nicotin i bobl ifanc o dan 18 oed.

### Costau

Llywodraeth Cymru

579. Byddai Llywodraeth Cymru'n wynebu costau'n gysylltiedig â datblygu a chyhoeddi'r canllawiau. Amcangyfrifir mai oddeutu £7,500 fyddai'r costau staff ar gyfer paratoi'r canllawiau (yn seiliedig ar 6,000 o eiriau), gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y canllawiau'n addas ar gyfer y diben. Mae hyn yn seiliedig ar oddeutu pum wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn (£4,600) i ddatblygu'r canllawiau, a phum wythnos o swyddog Cymorth Tîm cyfwerth ag amser llawn i roi cymorth gweinyddol (oddeutu £2,900).[349]

580. Rhagwelir, y byddai'r gwaith dylunio a chysodi'n cymryd wythnos o amser 0.5 Swyddog Gweithredol cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n costio oddeutu £300. Amcangyfrifir y byddai'r gwaith cyfieithu a phrawfddarllen yn costio oddeutu £600[350]. Cyfanswm cost datblygu, dylunio a chyfieithu'r canllawiau felly fyddai £8,400.

581. Y bwriad fyddai darparu fersiynau electronig o'r canllawiau, a chynhyrchu a dosbarthu nifer fechan o gopïau papur i awdurdodau lleol. Rhagwelir mai oddeutu £900 fyddai'r costau argraffu. Byddai'r costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r canllawiau yn cael eu hysgwyddo yn 2016/17.

582. Byddai'r canllawiau'n cael eu diweddaru bob tair blynedd. Rhagwelir y byddai hyn yn cymryd oddeutu 1 wythnos o waith gan Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n cyfateb i oddeutu £900. Byddai gwaith dylunio a chyfieithu yn hanner y costau gwreiddiol, sef cyfanswm o £500. Ni fyddai unrhyw gostau argraffu ar gyfer yr adolygiad gan mai dim ond yn electronig y byddai hwn yn cael ei gynhyrchu. Oddeutu £1,400 fyddai cyfanswm cost pob adolygiad o'r canllawiau felly, a hynny bob tair blynedd. Byddai'r adolygiad cyntaf yn digwydd yn 2019/20.

583. Byddai angen cynnal sesiynau hyfforddi ar gyfer staff safonau masnach a fyddai'n cefnogi manwerthwyr i weithredu'r canllawiau. Rhagwelir mai cynrychiolwyr

[349] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff Llywodraeth Cymru
[350] Yn seiliedig ar £75 fesul 1000 o eiriau am y cyfieithu a £21 fesul 1000 o eiriau am y prawfddarllen.

safonau masnach fyddai'n cynnal y sesiynau hyn, ond Llywodraeth Cymru fyddai'n talu'r costau. Byddai pob sesiwn yn cymryd oddeutu hanner diwrnod a rhagwelir y byddai dwy sesiwn yn cael ei chynnal, un yn y Gogledd ac un yn y De. Byddai'r sesiynau hyn yn costio oddeutu £2,000, sy'n cynnwys llogi ystafell a lluniaeth i 35 o bobl ym mhob sesiwn (oddeutu £1,200)[351], a chostau posibl hyfforddwyr allanol i redeg rhan o'r sesiynau (£800). Byddai'r gost hon yn cael ei hysgwyddo yn 2016/17.

Awdurdodau lleol

584. Byddai safonau masnach hefyd yn wynebu rhywfaint o gostau staff, a fyddai'n canolbwyntio ar gynorthwyo i ddatblygu'r canllawiau a mynd i'r sesiynau hyfforddi ar y dechrau. Byddai'n costio oddeutu £9,200[352] yn 2016/17 i 70 o Swyddogion Gorfodi'r Awdurdod Lleol ddilyn yr hyfforddiant.

585. Ar ôl i'r canllawiau gael eu cyhoeddi, gwaith swyddogion safonau masnach fyddai ymgysylltu â manwerthwyr er mwyn eu hannog i roi camau o'r canllawiau ar waith, er mwyn lleihau'r risg y gallai pobl ifanc gael gafael ar gynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin. Byddai hyn yn elfen hanfodol oherwydd eu bod yn ganllawiau gwirfoddol. Yn ogystal, mae'n bosibl y byddai angen i safonau masnach ymdrin ag ymholiadau a chynorthwyo manwerthwyr i weithredu'r canllawiau. Rhagwelir y byddai angen mwy o'r cymorth hwn yn y flwyddyn gyntaf ar ôl cyhoeddi'r canllawiau, ond y byddai'n gostwng wedi hynny wrth i'r galw leihau. Amcangyfrifir y byddai'r gost am y 12 mis cyntaf yn cyfateb i swydd 0.05 swyddog gorfodi cyfwerth ag amser llawn ym mhob awdurdod lleol, gan ostwng i swydd 0.025 ym mhob awdurdod lleol wedi hynny. Byddai hyn yn golygu cyfanswm o oddeutu £50,300 yn 2016/17, gan ostwng i £25,100 y flwyddyn o 2017/18.

586. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai ar nifer fechan o fanwerthwyr angen copi papur o'r canllawiau. Disgwylir y byddai hyn yn costio oddeutu £400. Awdurdodau lleol fyddai'n talu am hyn, ond byddai'r costau i bob un yn fach iawn.

587. Ar ôl cyhoeddi'r canllawiau, byddai adrannau safonau masnach yn nodi pa fanwerthwyr sy'n cynnig gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin o bell a'u rhoi i'r cwsmer, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r canllawiau newydd. Rhagwelir y byddai un awdurdod lleol yn cyflawni'r swyddogaeth hon ar ran yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Byddai hyn yn cymryd mis o amser swydd Swyddog Gorfodi cyfwerth ag amser llawn ac yn costio oddeutu £3,800. Mae hyn wedi ei gynnwys gyda "cyfathrebu / costau postio" yn nhabl crynodeb o gostau Opsiwn 2.

Manwerthwyr

588. Gallai manwerthwyr wynebu rhywfaint o gostau yn sgil yr amser y byddent yn ei dreulio'n cynorthwyo i ddatblygu'r canllawiau ac yn ymgyfarwyddo â'r canllawiau terfynol a gweithredu unrhyw newidiadau i leihau'r risg o ddanfon cynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin i bobl ifanc o dan 18 oed. Yn seiliedig ar dâl yr awr

[351] Yn seiliedig ar gostau sesiynau hyfforddi tebyg a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru.
[352] Yn seiliedig ar 5 awr am gyflog o £26.40 yr awr (gan gynnwys y sesiwn hyfforddi hanner diwrnod ac amser teithio) er mwyn i 70 o swyddogion gorfodi fynychu.

manwerthwyr sy'n gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin (£11.90[353],[354]), yr amcangyfrif bod 3,290 o fusnesau unigol yn cwmpasu'r amcangyfrif o 8,225 o fanwerthwyr cynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin yng Nghymru, ac y byddai'r camau uchod yn cymryd awr, oddeutu £39,200 fyddai'r gost i fanwerthwyr yn 2016/17. Fodd bynnag, mae'n debygol fod hwn yn oramcangyfrif gan ei bod yn debygol na fydd pob un o'r manwerthwyr hyn yn cynnig gwasanaeth gwerthu o bell, gan gynnwys rhoi tybaco a chynhyrchion nicotin i'r cwsmer.

589. Yn yr un modd, pan fydd y canllawiau'n cael eu diweddaru bob tair blynedd, gall manwerthwyr orfod treulio rhywfaint o amser yn ymgyfarwyddo â'r canllawiau diwygiedig ac yn gweithredu unrhyw newidiadau y mae angen iddynt eu gwneud er mwyn lleihau'r risg y gallai tybaco a chynhyrchion nicotin gael eu danfon i bobl ifanc o dan 18 oed. Gan y rhagwelir mai dim ond newidiadau cyfyngedig a fyddai'n cael eu gwneud i'r canllawiau, disgwylir na fyddai'r costau hyn yn uwch na hanner costau 2016/17. Amcangyfrifir felly mai £19,600 fyddai'r costau hyn, ac mai yn 2019/20 y byddai manwerthwyr yn eu hwynebu.

*Tabl 7.21 – crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2*

| **Costau** | **2016/17 £** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Costau staff ar gyfer datblygu'r canllawiau | 7,500 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dylunio a chyfieithu | 900 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau argraffu | 900 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau adolygu'r canllawiau | 0 | 0 | 0 | 1,400 | 0 |
| Costau hyfforddiant | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **11,300** | **0** | **0** | **1,400** | **0** |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | |
| Costau staff ar gyfer annog a chefnogi manwerthwyr i weithredu'r canllawiau. | 50,300 | 25,100 | 25,100 | 25,100 | 25,100 |
| Amser staff i ddilyn hyfforddiant | 9,200 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfathrebu/costau postio | 4,200 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol (gyda'i gilydd)** | **63,700** | **25,100** | **25,100** | **25,100** | **25,100** |
| **Manwerthwyr** | | | | | |

[353] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (Managers and Directors in retail and wholesale). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425

[354] Mae'r cyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% er mwyn cynnwys argostau.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau diwygio neu ddatblygu Telerau ac Amodau a pholisïau ar ddanfon cynhyrchion tybaco | 39,200 | 0 | 0 | 19,600 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i'r sector manwerthu** | **39,200** | **0** | **0** | **19,600** | **0** |
| **Cyfanswm y costau** | **114,200** | **25,100** | **25,100** | **46,100** | **25,100** |

**Manteision**

590. Gallai'r gwaith o lunio'r canllawiau a'u dosbarthu i fanwerthwyr sy'n cynnig gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin o bell i gwsmeriaid helpu i wella eu polisïau a'u gweithdrefnau ar gyfer rhoi'r cynhyrchion hyn i'w cwsmeriaid, er mwyn cynorthwyo i amddiffyn pobl ifanc rhag cael gafael ar y cynhyrchion hyn. Nid oes tystiolaeth bendant o faint o bobl ifanc o dan 18 oed sy'n cael gafael ar dybaco a chynhyrchion nicotin trwy eu prynu o bell, ond gallai canllawiau helpu i sicrhau bod llai o blant a phobl ifanc yn gallu cael gafael ar gynhyrchion tybaco drwy eu prynu o bell. Fodd bynnag, gan na fyddai'r canllawiau'n seiliedig ar ddeddfwriaeth, byddai'n dibynnu ar gamau gwirfoddol y manwerthwyr. Ni fu modd mesur y manteision hyn.

**Opsiwn 3 - Cyflwyno deddfwriaeth i wahardd rhoi cynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed, a chyflwyno canllawiau ategol i fanwerthwyr sy'n cynnig gwerthu o bell, gan gynnwys rhoi'r cynhyrchion hyn i'r cwsmer.**

**Disgrifiad**

591. Mae'r opsiwn hwn yn debyg i Opsiwn 2 ond yn ogystal â pharatoi canllawiau i fanwerthwyr, byddai hefyd yn golygu ei gwneud yn drosedd rhoi cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin i berson neu bersonau gan wybod eu bod o dan 18 oed. Wrth roi tybaco a chynhyrchion nicotin, byddai'n drosedd pe na byddent wedi eu cynnwys mewn pecyn sydd wedi ei selio a bod enw a chyfeiriad yr unigolyn dan sylw arno.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

592. Amcangyfrifir y byddai costau paratoi'r canllawiau a chost yr hyfforddiant yr un fath â'r costau a amlinellwyd yn Opsiwn 2.

593. Byddai'n rhaid rhybuddio manwerthwyr ynglŷn â'r dyletswyddau statudol newydd a'r hyn y byddai angen iddynt ei wneud. Er mwyn cyflawni hyn, byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grwpiau cynrychiolwyr a rhanddeiliaid i baratoi erthyglau di-dâl i'r wasg a'r cyfryngau ynglŷn â'r ddeddfwriaeth newydd a'u cyhoeddi mewn cyhoeddiadau masnach perthnasol a'r wasg yng Nghymru, yn yr un modd â

deddfwriaeth arall ym maes tybaco megis y gwaharddiad ar arddangos. Rhagwelir y byddai hyn yn cymryd pum wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn yn y cyfnod cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Byddai hyn yn costio oddeutu £4,600[355].

Awdurdodau lleol

594. Er mwyn cefnogi'r gwaith cyfathrebu a amlinellir uchod, byddai swyddogion safonau masnach yn nodi'r manwerthwyr sy'n cynnig gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin o bell, gan gynnwys eu rhoi i'r cwsmeriaid, er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau statudol. Rhagwelir y byddai un awdurdod lleol yn cyflawni'r swyddogaeth hon ar ran pob awdurdod lleol yng Nghymru. Byddai hyn yn cymryd mis o amser Swyddog Gorfodi cyfwerth ag amser llawn, ac yn costio oddeutu £3,800.

595. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai ar nifer fechan o fanwerthwyr angen copi papur o'r canllawiau. Disgwylir y byddai hyn yn costio oddeutu £400. Byddai'r costau hyn yn cael eu talu gan awdurdodau lleol.

596. Byddai adrannau safonau masnach yn wynebu rhywfaint o gostau yn sgil helpu i ddatblygu'r canllawiau a chynorthwyo manwerthwyr i roi unrhyw gamau ar waith ar ôl cyhoeddi'r canllawiau. Disgwylir y byddai hyn yn gyfwerth â swydd 0.05 Swyddog Gorfodi Awdurdod Lleol cyfwerth ag amser llawn am y flwyddyn gyntaf, gan ostwng i swydd 0.01 cyfwerth ag amser llawn y flwyddyn ar gyfer pob awdurdod lleol. Cyfanswm y costau fyddai £50,300 yn 2016/17, gan ostwng i gost flynyddol o £10,000 o 2017/18.

597. Yn ogystal â chostau cefnogi manwerthwyr, byddai awdurdodau lleol yn wynebu costau yn sgil rhyddhau swyddogion gorfodi i ddilyn hyfforddiant ar faterion gorfodi. Rhagwelir y gellid ymdrin â hyn mewn sesiwn hyfforddi hanner diwrnod, ac yn hynny o beth mae'r costau hyn yr un faint â'r costau a amlinellwyd o dan Opsiwn 2.

598. Byddai angen i swyddogion safonau masnach gyflawni profion prynu yn gysylltiedig â'r drosedd newydd. Rhagwelir y byddai pob sefyllfa prawf prynu yn costio oddeutu £1,300 am amser y staff a £90 i brynu'r nwyddau a ddefnyddir yn y prawf.[356] Mae hyn yn cynnwys cost dod o hyd i dŷ gwag addas y gellir ei ddefnyddio ar gyfer sefyllfa'r prawf prynu, recriwtio gwirfoddolwr ifanc i gymryd rhan, goruchwylio'r prawf prynu a chostau prynu'r tybaco a chynhyrchion nicotin sy'n cael eu danfon. Byddai pob sefyllfa brynu yn cynnwys tri phrawf prynu. Byddai'r amser a gymerir i baratoi ar gyfer y profion yn cyfyngu ar faint y sampl, ond byddai angen iddo fod o faint rhesymol. O ganlyniad, rhagwelir y gellid cynnal rhwng un a thair sefyllfa brawf (a fyddai'n cynnwys rhwng tri a naw prawf prynu) ar gyfer pob awdurdod lleol pob blwyddyn. Byddai hyn yn rhoi cyfanswm o rhwng 66 a 198 ledled Cymru, o'i gymharu â'r 332 prawf oedran prynu a gynhaliwyd yn 2012/13. Rhwng £31,000 a £93,000 y flwyddyn fyddai cyfanswm cost y profion hyn felly.

[355] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff Llywodraeth Cymru
[356] Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol

599. Gan nad oes data ar gael ar hyn o bryd ar lefel y cynhyrchion tybaco sy'n cael eu gwerthu o bell yng Nghymru, a dim gwybodaeth o ganlyniad i hynny ynglŷn â nifer y bobl ifanc sy'n prynu tybaco o bell, defnyddiwyd data'r Alban ar nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a gyflwynir i siopau sy'n gwerthu tybaco i bobl ifanc o dan 18 i amcangyfrif sawl Hysbysiad Cosb Benodedig fyddai'n cael eu cyflwyno am roi cynhyrchion tybaco i bobl ifanc o dan 18. Gan nad oes opsiwn i gyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig am werthu tybaco i bobl ifanc o dan oed yng Nghymru a Lloegr, nid oes data cyfatebol ar nifer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a gyflwynwyd yn bodoli yng Nghymru.

600. Yn yr Alban, cyflwynwyd cyfanswm o 169 o Hysbysiadau Cosb Benodedig yn 2013-14[357]. Dengys ystadegau masnach fod oddeutu 0.3% o sigaréts yn cael eu gwerthu ar-lein. O ystyried yr amcangyfrif bod 8,225 o fanwerthwyr yn gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin yng Nghymru, amcangyfrifir y gallai pedair trosedd ddigwydd y flwyddyn[358]. O ystyried nifer fechan yr Hysbysiadau Cosb Benodedig sy'n mynd gerbron y llys yn yr Alban (oddeutu 15%), mae'n annhebygol y byddai unrhyw un o'r rhain yn arwain at achos llys. Yn hytrach gallent arwain at rybudd, gyda swyddogion safonau masnach yn gweithio gyda'r manwerthwr i sicrhau nad yw'n troseddu eto. Rhagwelir y byddai'r rhybuddion hyn yn rhan o drefn waith arferol y swyddogion gorfodi.

Cost i fanwerthwyr (gan gynnwys gyrwyr sy'n danfon y cynhyrchion)

601. Gallai manwerthwyr wynebu rhywfaint o gostau yn sgil yr amser y byddent yn ei dreulio'n cynorthwyo i ymgyfarwyddo â'r canllawiau, ac yn sgil gweithredu unrhyw newidiadau i leihau'r risg o roi tybaco a chynhyrchion nicotin i bobl ifanc o dan 18 oed. Yn seiliedig ar gyfnod o ddwy awr o ymgyfarwyddo, tâl yr awr o £11.90[359],[360], a'r amcangyfrif bod 3,290 o fusnesau unigol yn cwmpasu'r amcangyfrif o 8,225 o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin yng Nghymru, oddeutu £78,300 fyddai'r costau i fanwerthwyr yn 2016/17. Fodd bynnag mae'n debygol fod hyn yn oramcangyfrif gan ei bod yn debygol nad yw rhai o'r manwerthwyr hyn yn cynnig gwasanaeth gwerthu o bell.

602. Yn yr un modd, pan fydd y canllawiau'n cael eu diweddaru bob 3 blynedd, gall manwerthwyr orfod treulio rhywfaint o amser yn ymgyfarwyddo â'r canllawiau diwygiedig ac yn gweithredu unrhyw newidiadau y maent yn eu gwneud er mwyn lleihau'r risg y gallai tybaco a chynhyrchion nicotin gael eu danfon i bobl ifanc o dan 18 oed. Gan y rhagwelir mai dim ond newidiadau cyfyngedig a fyddai'n cael eu gwneud i'r canllawiau, disgwylir na fyddai'r costau hyn yn uwch na hanner costau 2016/17, sef oddeutu £39,200.

---

[357] SCOTTS. Enhanced Tobacco Sales Enforcement Programme Report 2010-14. SCOTTS 2014

[358] Mae hyn wedi ei gyfrifo yn ôl nifer pro rata o Hysbysiadau Cosb Benodedig am werthu tybaco i bobl ifanc o dan oed (68.7% o ddata'r Alban gan fod 31.3% yn llai o fanwerthwyr tybaco yng Nghymru) a chan amcangyfrif y gallai 0.3% o'r rhain fod wedi eu cyflwyno am werthu tybaco a ddanfonir.

[359] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (Managers and Directors in retail and wholesale). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425

[360] Mae'r cyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% er mwyn cynnwys argostau.

603. Gallai'r gyrwyr sy'n danfon y cynhyrchion wynebu cost yn sgil dirwyon am roi cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin i berson neu bersonau o dan 18 oed heb iddynt fod yng nghwmni person 18 oed neu hŷn. Yn seiliedig ar yr amcangyfrif y byddai uchafswm o bedwar achos y flwyddyn[361] yn mynd gerbron llys (er ei bod yn debygol na fyddai unrhyw achosion yn mynd gerbron llys ac y byddid yn ymdrin â hwy gyda rhybuddion), a rhagdybiaeth bod pob achos yn arwain at ddirwy o £250 a chostau o £250 (yn unol ag achos am drosedd o werthu tybaco i berson o dan 18 oed ym mis Hydref 2014), amcangyfrifir mai £2,000 fyddai cyfanswm y gost bob blwyddyn. Byddai'r enillion o'r dirwyon hyn yn cael eu cadw gan Lysoedd EM a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

604. Gan mai dim ond mewn sefyllfaoedd pan fyddai'r gyrrwr sy'n danfon cynhyrchion yn ymwybodol ei fod yn rhoi cynhyrchion tybaco neu gynhyrchion nicotin i rywun sydd o dan 18 oed y byddai'r drosedd yn digwydd, ni fyddai gwasanaethau sy'n danfon nwyddau mewn pecyn sydd wedi ei gau yn llwyr â chyfeiriad arno yn cael ei gyfrif fel bod yn drosedd. Mae'n debyg mai ychydig iawn o gostau y bydd busnesau y tu allan i Gymru yn eu hwynebu felly.

*Tabl 7.22 – Crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 3*

| **Costau** | **2016/17 £** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Costau staff ar gyfer datblygu'r canllawiau | 7,500 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dylunio a chyfieithu | 900 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau argraffu | 900 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfathrebu | 4,600 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau adolygu'r canllawiau | 0 | 0 | 0 | 1,400 | 0 |
| Costau i dalu am yr hyfforddiant | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **15,900** | **0** | **0** | **1,400** | **0** |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | |
| Costau staff i gynorthwyo manwerthwyr i | 50,300 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |

[361] Mae hyn wedi ei gyfrifo yn ôl nifer pro rata o Hysbysiadau Cosb Benodedig am werthu tybaco i bobl ifanc o dan oed (68.7% o ddata'r Alban gan fod 31.3% yn llai o fanwerthwyr tybaco yng Nghymru) a chan amgancyfrif y gallai 0.3% o'r rhain fod wedi eu cyflwyno am werthu tybaco a ddanfonir.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| weithredu'r canllawiau | | | | | |
| Costau staff er mwyn i staff dderbyn hyfforddiant | 9,200 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfathrebu/ costau postio | 4,200 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Profion prynu | 31,000 – 93,000 | 31,000 – 93,000 | 31,000 – 93,000 | 31,0000 – 93,000 | 31,000 – 93,000 |
| **Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol** | **94,700-156,700** | **41,000 – 103,000** | **41,000 – 103,000** | **41,000 – 103,000** | **41,000 – 103,000** |
| **Sector manwerthu (gan gynnwys gyrwyr sy'n danfon y cynhyrchion)** | | | | | |
| Costau diwygio neu ddatblygu Telerau ac Amodau a pholisïau ar ddanfon tybaco a chynhyrchion nicotin | 78,300 | 0 | 0 | 39,200 | 0 |
| Costau yn sgil dirwyon[362] | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 |
| **Cyfanswm y costau i'r sector manwerthu** | **80,300** | **2,000** | **2,000** | **41,200** | **2,000** |
| **Cyfanswm y costau** | **190,900-252,900** | **43,000-105,000** | **43,000-105,000** | **83,600-145,600** | **43,000-105,000** |

**Manteision**

605. Byddai'r manteision a amlinellwyd o dan Opsiwn 2 yn gymwys i Opsiwn 3 hefyd, ac felly nid ydynt yn cael eu hailadrodd yma.

606. Yn ogystal, trwy ei gwneud yn drosedd rhoi tybaco a chynhyrchion nicotin i bobl ifanc o dan 18 oed byddid yn atgyfnerthu eto bwysigrwydd atal plant a phobl ifanc rhag cael gafael ar y cynhyrchion hyn. Byddai'r drosedd yn cryfhau’r fframwaith deddfwriaethol yn y maes hwn ac yn helpu i atgyfnerthu polisi'r manwerthwr ei hun, yn ogystal â gwneud y sefyllfa’n fwy eglur a chyson.

607. Byddai Llywodraeth Cymru’n paratoi canllawiau cysylltiedig i fanwerthwyr er mwyn cefnogi’r drosedd. Byddai’r rhain yn amlinellu camau y gellir eu cymryd i leihau'r risg y gallai eu gweithwyr neu asiantwyr danfon trydydd parti roi tybaco a chynhyrchion nicotin i bobl ifanc o dan 18 oed. Byddai'n ofynnol i fanwerthwyr weithredu'r canllawiau hyn er mwyn osgoi cyflawni trosedd a chael dirwy, gan gynyddu effaith unrhyw ganllawiau.

[362] Yn seiliedig ar uchafswm o 3 achos yn mynd gerbron y llys (er ei bod yn debygol na fyddai unrhyw achos yn mynd gerbron y llys gan y byddid yn ymdrin â hwy gyda rhybuddion), a phob achos yn cael dirwy o £250 a chostau o £250 (fel yn achos trosedd ym mis Hydref 2014).

608. Trwy gyflwyno'r drosedd hon, ynghyd â'r canllawiau i fanwerthwyr, rhagwelir y gellid atgyfnerthu deddfwriaeth arall sydd eisoes yn bodoli, megis deddfwriaeth oedran gwerthu[363] a'r gwaharddiad ar werthu tybaco o beiriannau[364]. Gyda'i gilydd, nod y mesurau hyn yw lleihau'r risg i iechyd pobl ifanc o'r niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio nicotin, ond nid oes modd mesur cyfraniad y cam ychwanegol hwn.

609. Amcangyfrifir bod blwyddyn yn cael ei hychwanegu at fywyd unigolyn, ar gyfartaledd, os llwyddir i'w atal rhag dechrau ysmygu.[365] Rhoddir gwerth o £60,000 y pen ar y flwyddyn ychwanegol hon.[366] Cyfanswm cost yr opsiwn a ffefrir (Opsiwn 3) dros y cyfnod cychwynnol o bum mlynedd yw rhwng £403,500 a £713,500. Felly er mwyn bod yn niwtral o ran cost, byddai'n rhaid atal 7-12 o bobl ifanc rhag dechrau ysmygu.

**Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir**

610. Nid yw Opsiwn 1 yn bodloni'r amcan polisi gan y byddai'n parhau ag arfer presennol, a byddai'r risgiau presennol y gallai pobl ifanc o dan 18 oed gael gafael ar y cynhyrchion hyn yn dal i fodoli. Gallai Opsiwn 2 annog manwerthwyr i gymryd camau i gryfhau eu polisïau presennol ar roi cynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin i'r cwsmer, neu annog y manwerthwyr hynny nad oes ganddynt bolisi ar hyn o bryd i ddatblygu un. Fodd bynnag, mae risg sylweddol mai nifer gyfyngedig a fyddai'n mabwysiadu'r canllawiau, a fyddai'n golygu effaith gyfyngedig.

611. Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir, gan ei fod yn cyfuno dau ddull o gyfyngu ar y cyfleoedd i unigolion o dan 18 oed brynu cynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin o bell, sef deddfwriaeth a chanllawiau. Ystyrir mai'r ddau ddull hyn yn gweithio gyda'i gilydd sy'n fwyaf tebygol o leihau'r risg y gallai pobl ifanc o dan 18 oed gael gafael ar gynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin drwy eu harchebu o bell a derbyn y cynhyrchion wedi hynny. Byddai'r opsiwn hwn yn cefnogi deddfwriaethau eraill i atal plant a phobl ifanc rhag cael gafael ar dybaco a chynhyrchion nicotin, gan sicrhau effaith gronnus gadarnhaol ar nifer y bobl ifanc sy'n defnyddio cynhyrchion o'r fath.

612. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn cryfhau arferion presennol manwerthwyr yn hytrach na dibynnu ar y sector manwerthu i reoleiddio ei bolisïau ei hun yn y maes hwn. Dengys tystiolaeth sy'n ymwneud ag alcohol[367] y gallai'r dull presennol olygu bod modd i blant a phobl ifanc gael gafael ar dybaco a chynhyrchion nicotin o bell o hyd. Yn ogystal, dengys tystiolaeth fod camau gwirfoddol ym maes ysmygu, yn

---

[363] Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933
[364] Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011
[365] Age of Sale for Nicotine Inhaling Products: Impact Assessment. https://www.gov.uk/government/consultations/nicotine-inhaling-products-introducing-a-minimum-age-of-sale
[366] Rhoddir gwerth o £60,000 ar flwyddyn bywyd wedi'i haddasu yn ôl ansawdd. Pan nad yw amcangyfrifon blwyddyn bywyd wedi'i haddasu yn ôl ansawdd ar gael ac yn briodol, defnyddir y gwerth hwn ar gyfer Blynyddoedd Bywyd. Mae hyn yn gyson â phrisiadau tebyg o bolisïau sy'n lliniaru risg marwolaeth ac afiachusrwydd gan adrannau eraill y Llywodraeth, yn seiliedig ar astudiaethau o'r hyn y mae aelodau o'r cyhoedd yn fodlon ei wario, ar gyfartaledd, i leihau'r risg o farwolaeth iddynt eu hunain neu i wella eu canlyniadau iechyd eu hunain.
[367] Alcohol Concern (2013) '*On your doorstep: Underage access to alcohol via home delivery services*'

gyffredinol, yn cael effaith negyddol ar anghydraddoldebau iechyd, gan fod grwpiau sydd â lefelau uwch o anghydraddoldebau yn eithaf amharod i'w mabwysiadu.[368]

## Triniaethau Arbennig

### Opsiynau

613. Ystyriwyd tri opsiwn o sylwedd, ac mae'r trydydd wedi ei rannu'n ddau is-opsiwn:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim;
- Opsiwn 2 – Datblygu a chyhoeddi canllawiau ar arfer gorau ar gyfer aciwbigo, tatŵio, lliwio'r croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis, a chynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth;
- Opsiwn 3A – Cyflwyno system drwyddedu ar gyfer Triniaethau Arbennig. Hwn yw'r opsiwn a ffefrir; ac
- Opsiwn 3B – Cyflwyno system drwyddedu ar gyfer Triniaethau Arbennig ynghyd â chofrestr ganolog o'r holl ymarferwyr trwyddedig a mangreoedd neu gerbydau cymeradwy sy'n cyflawni triniaethau arbennig yng Nghymru.

### Opsiwn 1 – Gwneud Dim

### Disgrifiad

614. Ni fyddai unrhyw newid i'r ddeddfwriaeth bresennol o dan yr opsiwn hwn. Darperir prif bwerau awdurdodau lleol ar gyfer rheoleiddio busnesau sy'n cyflawni triniaethau aciwbigo, tatŵio, lliwio'r croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis yn eu hardal gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982[369]. Mae'r Ddeddf hon yn cynnwys y pŵer i gyflwyno is-ddeddfau at y diben o sicrhau glendid mangreoedd a gosodiadau cofrestredig, glendid unigolion cofrestredig (a'r rhai sy'n eu cynorthwyo), a glanhau a sterileiddio offer. Mae Gweinidogion Cymru wedi datblygu is-ddeddfau enghreifftiol cynhwysfawr sy'n adlewyrchu canllawiau cyfredol ar reoli heintiau ac arfer gorau'r diwydiant[370]. Mae'r pwerau a ddarperir gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn fabwysiadol ac felly gall awdurdodau lleol ddewis pa driniaethau y maent yn gyfrifol am eu rheoli, a pha un a ydynt am gyflwyno is-ddeddfau.

615. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi mabwysiadu'r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf ac, ym mis Mehefin 2015, roedd chwech wedi dewis mabwysiadu is-ddeddfau enghreifftiol Llywodraeth Cymru hyd yn hyn. Mae gan yr

---

[368] Y Comisiwn Ewropeaidd. Identifying best practices in actions on tobacco smoking to reduce health inequalities. Y Comisiwn Ewropeaidd 2014. http://ec.europa.eu/health/social_determinants/docs/2014_best_practice_sum_en.pdf. Cyrchwyd ym mis Rhagfyr 2014.

[369] Adrannau 14 a 15, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1982/30

[370] Is-ddeddfau enghreifftiol Cymru ynghylch aciwbigo, tatŵio, lliwio croen lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis. http://wales.gov.uk/topics/health/protection/communicabledisease/acupuncture/?lang=cy

awdurdodau lleol eraill is-ddeddfau ar waith, ond mae'r rhain yn amrywio o ran cwmpas a chynnwys. Er enghraifft, mae gan rai awdurdodau lleol is-ddeddfau sy'n ymdrin â thriniaethau penodol fel tatŵio, ac mae gan eraill is-ddeddfau sy'n berthnasol i bob triniaeth.

616. Gall awdurdodau lleol godi ffi gofrestru untro ar fusnesau sy'n cyflawni unrhyw un o'r triniaethau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982. Mae'r strwythurau ffioedd yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall. Mae pob awdurdod lleol yn codi ffioedd cofrestru ar fangreoedd lle y cyflawnir y triniaethau, ac mae rhai yn codi ffioedd cofrestru ar gyfer y fangre ac ymarferwyr unigol.

617. Mae'r ffi'n amrywio rhwng awdurdodau lleol hefyd. Rhwng £49 a £300 (cyfartaledd o £130) yw'r ffi gofrestru i fangreoedd; mae ffi gofrestru bersonol rhwng £38 a £117 (cyfartaledd o £73). Mae'r awdurdodau lleol hefyd yn codi ffioedd ychwanegol am amrywio cofrestriad[371]. Ar hyn o bryd mae'r awdurdodau lleol yn defnyddio'r ffioedd cofrestru hyn, yn ogystal â'r cyllid craidd a ddarperir i'r awdurdod lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw, i dalu'r costau gorfodi yn y sector hwn.

618. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974[372] yn gymwys ledled Cymru ac yn gwneud darpariaeth gyffredinol ar gyfer iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i bob unigolyn sy'n cyflawni triniaethau arbennig, gan gynnwys gweithwyr peripatetig sy'n cyflawni triniaethau yng nghartref y cleient.

**Costau**

619. Gan mai dyma'r opsiwn llinell sylfaen nid oes unrhyw gostau ychwanegol. Mae'r adran ganlynol yn cynnig amcangyfrif o'r costau y mae'r partïon amrywiol yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Llywodraeth Cymru

620. Nid oes unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â chefnogi awdurdodau lleol mewn perthynas â'u pwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.

621. Yn ogystal â Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, mae gan awdurdodau lleol bwerau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 i wneud cais i Ynad Heddwch gyflwyno gorchymyn Rhan 2A at ddiben atal, rheoli i achos o haint neu halogiad neu ledaeniad haint neu halogiad, amddiffyn rhag hynny, neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd. Gallai'r gorchymyn ymwneud ag unigolion, pethau neu fangreoedd. Ers i'r pwerau ddod i rym yn 2010, mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi eu defnyddio i wneud cais am orchymyn os byddant yn tybio bod perygl o haint neu halogiad lle mae triniaethau fel tatŵio a thyllu cosmetig yn cael eu cyflawni dan amgylchiadau anhylan. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol o'r defnydd o'r pwerau hyn, gan ddefnyddio

[371] Darparwyd y wybodaeth gan awdurdodau lleol
[372] Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/37/introduction

cyngor gan yr awdurdodau lleol a gweithwyr meddygol proffesiynol. Amcangyfrifir bod yr adolygiad blynyddol hwn yn costio £2,500 mewn amser staff bob blwyddyn (yn seiliedig ar gostau Llywodraeth Cymru o £1,700, costau o £400 i'r awdurdodau lleol a chostau o £400 i Iechyd Cyhoeddus Cymru). Cyhoeddir canlyniad yr adolygiad yn ddwyieithog ar wefan Lywodraeth Cymru am gost fach.

Awdurdodau lleol

622. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli busnesau sy'n cyflawni'r triniaethau mewn lleoliadau masnachol, a chynnal arolygiadau a gwaith cydymffurfiad gyda'r busnesau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n hylan ac yn unol â'u rhwymedigaethau statudol (gan gynnwys eu rhwymedigaethau Iechyd a Diogelwch).

623. Fel a nodir uchod, roedd chwe awdurdod lleol wedi mabwysiadu is-ddeddfau enghreifftiol Llywodraeth Cymru hyd at fis Mehefin 2015. Amcangyfrifir mai tua £5,000[373] yw'r gost o fabwysiadu'r is-ddeddfau hyn i bob awdurdod lleol. Amcangyfrifir felly mai £30,000 yw gwariant awdurdodau lleol hyd at fis Mehefin 2015. Gan y byddai awdurdodau lleol yn parhau i gael eu hannog i fabwysiadu'r is-ddeddfau enghreifftiol hyn, gallai fod cost ychwanegol o hyd at £80,000 erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd i'r un ar bymtheg o awdurdodau lleol sy'n weddill yng Nghymru. Ar gyfer y tabl sy'n rhoi crynodeb o'r costau ar ddiwedd yr adran hon, tybiwyd y byddai pob un o'r awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r is-ddeddfau enghreifftiol dros y bum mlynedd nesaf, ac y byddai'r costau'n cael eu rhannu dros y bum mlynedd.

624. Mae'r drefn arolygu'n amrywio yn ôl y driniaeth a gyflawnir a lefel y risg. Bydd awdurdod lleol yn cynnal arolygiad cychwynnol ar ôl derbyn cais i gofrestru mangre. Amcangyfrifir bod yr arolygiad hwn yn costio tua £170 a chaiff ei adfer gan y busnes sy'n gwneud y cais cofrestru. Amcangyfrifir bod tua 190 o fangreoedd newydd y flwyddyn yn cofrestru ledled Cymru, sy'n arwain at gost flynyddol o £32,300. Telir y costau hyn trwy'r ffioedd cofrestru a delir gan fusnesau ac ymarferwyr.

625. Yn gyffredinol, cynhelir ymweliadau cydymffurfiad blynyddol â'r busnesau hynny sy'n darparu triniaethau tatŵio a thyllu cosmetig. Amcangyfrifir bod tua 462 o fusnesau'n darparu'r triniaethau hyn yng Nghymru.[374] Amcangyfrifir bod un ymweliad cydymffurfiad yn costio £170. Ym mhob awdurdod lleol felly, amcangyfrifir bod ymweliadau cydymffurfiad yn costio tua £78,500 y flwyddyn.

626. Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn dynodi bod y cwynion a dderbynnir yn ymwneud â busnesau sy'n darparu gwasanaethau tatŵio a thyllu cosmetig yn bennaf. Amcangyfrifir y ceir tua 70 o gwynion yn ymwneud â busnesau ac ymarferwyr sy'n cyflawni'r triniaethau hyn bob blwyddyn[375]. Gall y costau ar gyfer ymchwilio a gwneud gwaith dilynol o ran cwyn amrywio, gan y caiff rhai cwynion eu datrys yn gyflym, tra bod angen ymchwilio i eraill yn fanwl, a chynnal erlyniad llwyddiannus mewn achosion prin. Amcangyfrifir mai £170[376] fesul cwyn yw'r

[373] Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol
[374] Yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan awdurdodau lleol
[375] Yn seiliedig ar ddata gan awdurdodau lleol sy'n dynodi y derbynnir cwynion yn ymwneud â 15% o fusnes tatŵio a thyllu cosmetig.
[376] Yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan awdurdodau lleol

gost i awdurdod lleol am ymchwilio o gŵyn, sy'n cyfateb i gyfanswm o tua £11,900 bob blwyddyn ledled Cymru. O ran erlyniadau llwyddiannus, mae gan awdurdodau lleol yr opsiwn o gymryd camau i adfer eu costau. Mae'r tabl canlynol yn nodi amcangyfrif o'r costau arolygu a chydymffurfio dros bum mlynedd.

*Tabl 7.23*

| **Costau awdurdodau lleol o ganlyniad i arolygu a gwaith cydymffurfiad** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17 (£)** | **2017/18 (£)** | **2018/19 (£)** | **2019/20 (£)** | **2020/21 (£)** |
| Arolygiadau cychwynnol ar gyfer cofrestriadau newydd | 32,300 | 32,300 | 32,300 | 32,300 | 32,300 |
| Costau ymweliadau cydymffurfiad | 78,500 | 78,500 | 78,500 | 78,500 | 78,500 |
| Costau ymchwilio i gwynion | 11,900 | 11,900 | 11,900 | 11,900 | 11,900 |
| **Cyfanswm** | **122,700** | **122,700** | **122,700** | **122,700** | **122,700** |

627. Pwerau cyfyngedig sydd gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd i atal unigolion sy'n cyflawni'r triniaethau heb fod wedi'u cofrestru, yn enwedig os oes perygl i iechyd y cyhoedd. Mae rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio pwerau yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984[377] i wneud cais am orchymyn i atal unigolyn rhag ymarfer, er enghraifft ym maes tatŵio, oherwydd y risgiau y maent yn eu peri i iechyd y cyhoedd. Hyd at fis Mehefin 2015, gwnaed cyfanswm o 27 gorchymyn (o'r enw Gorchmynion Rhan 2A o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984) o ran tatŵio ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth yn 2010. Amcangyfrifir bod y gost i awdurdod lleol am wneud cais a gweithredu gorchymyn Rhan 2A yn amrywio rhwng £800 a £3,000. Mae hyn yn cynnwys ffi o £210 y mae rhai Llysoedd Ynadon hefyd wedi ei gosod ar awdurdodau lleol sy'n gwneud cais am orchymyn. Mae'r tabl isod yn dangos nifer flynyddol ragamcanol y gorchmynion Rhan 2A dros y bum mlynedd nesaf ac amcangyfrif o'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhain. Tybir y bydd nifer y gorchmynion yn y blynyddoedd i ddod yr un fath a'r nifer y gwnaed cais amdanynt ac a ganiatawyd yn 2013/14.

*Tabl 7.24*

| **Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 – Gorchmynion Rhan 2a ar gyfer tatŵio** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |
| Nifer | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 |

[377] Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 fel y'i diwygiwyd gan Ran 3 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/14/part/3 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010. Ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/topics/health/protection/communicabledisease/legislation/?lang=cy

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ragamcanol yr achosion | | | | | |
| Costau cysylltiedig | £8,800 – £33,000 | £8,800 – £33,000 | £8,800 – £33,000 | £8,800 – £33,000 | £8,800 – £33,000 |

628. Amcangyfrifir felly bod awdurdodau lleol yn gwario cyfanswm o rhwng £146,500 a £170,700 bob blwyddyn (a bydd yn gostwng pan fydd pob un o'r awdurdodau lleol wedi mabwysiadu'r is-ddeddfau enghreifftiol). Mae cyfanswm y gwariant blynyddol rhwng £6,700 a £7,600 fesul awdurdod lleol. Fodd bynnag, gellir adfer tua £52,400 o'r cyfanswm gan yr ymarferwyr a'r busnesau newydd syn cofrestru yn ystod y flwyddyn trwy eu ffioedd cofrestru, fel a nodir o dan y costau i ymarferwyr a busnesau.

Costau i'r GIG

629. Ceir costau i GIG Cymru o ganlyniad i ymdrin â chymhlethdodau sy'n deillio o'r triniaethau, megis heintiau ar y croen. Mae mwyafrif y costau'n deillio o driniaethau tatŵio a thyllu cosmetig. Mae'r paragraffau canlynol felly'n rhoi peth asesiad o gostau'r triniaethau hyn at ddibenion enghreifftiol. Ond gan nad oes asesiad cywir o'r holl gostau ar gael, ni chawsant eu cynnwys yn y tabl cryno ar ddiwedd yr opsiwn hwn. Er bod costau i'r GIG yn gysylltiedig ag ymdrin â chymhlethdodau yn dilyn aciwbigo, lliwio'r croen yn lled-barhaol ac electrolysis[378], ystyrir bod y rhain yn fach ac ni chawsant eu hasesu.

630. Mae'n hysbys y gall tyllu cosmetig arwain at gymhlethdodau, megis chwyddiadau, haint, gwaedu, alergedd a rhwyg neu anaf arall[379]. Gallai niwed i nerfau a chreithio ddigwydd hefyd os caiff triniaethau eu cyflawni'n wael. Er bod hynny'n brin, gall pobl orfod cael eu derbyn i'r ysbyty hefyd yn sgil cymhlethdodau'n deillio o dyllu cosmetig a gallai fod yn arbennig o ddifrifol i'r rhai â chyflyrau iechyd sylfaenol.

631. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddata ar nifer y bobl sy'n cael tyllu'r corff am resymau cosmetig yng Nghymru, ac nid oes unrhyw dystiolaeth benodol am gyfradd y cymhlethdodau iechyd sy'n deillio o dyllu cosmetig. Gan fod data o wledydd eraill yn brin hefyd, seiliwyd amcangyfrif o'r costau iechyd ar y data mwyaf perthnasol sydd ar gael. Daw'r data hyn o astudiaeth Bone et al[380] yn Lloegr. Dangosodd yr astudiaeth hon fod 10% o bobl 16 mlwydd oed a hŷn (ystod 9.4% - 10.6%) yn dweud iddynt erioed gael twll yn eu corff ac eithrio yn llabed y glust. Ceir 2,527,247[381] o bobl sy'n 16 oed neu hŷn yng Nghymru a, chan dybio canran o 10%, byddai hyn yn golygu bod o leiaf 252,725 o bobl â thyllau yn y corff ac eithrio yn llabed y glust. Mae'r ffigur hwn yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel gan nad yw'n cynnwys pob ifanc sy'n iau nag 16 oed.

---

[378] BMJ 2001;323:486
[379] Bone A, Ncube F, Nichols T a Noah ND (2008) Body piercing in England: a survey of piercing at sites other than earlobe BMJ *336* 1426
[380] Bone A, Ncube F, Nichols T a Noah ND (2008) Body piercing in England: a survey of piercing at sites other than earlobe BMJ *336* 1426
[381] https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/PopulationEstimates-by-LocalAuthority-Year

632. Gan mai dim ond 4.1% o bobl 45 oed a hŷn sydd ag un neu fwy o dyllau yn eu corff[382], tybir bod y mwyafrif llethol o driniaethau tyllu'r corff yn cael eu cyflawni ar bobl 16-44 mlwydd oed. Ceir cyfnod o 29 mlynedd felly pryd y derbynnir y rhan fwyaf o dyllau yn y corff. Gan ddefnyddio'r dybiaeth hon, mae cyfanswm o 8,715 o driniaethau tyllu'r corff yn debygol o gael eu cyflawni yng Nghymru bob blwyddyn. Ystyrir bod hwn yn amcangyfrif ceidwadol o gofio nad yw'n cynnwys yr unigolion hynny â sawl twll yn eu corff neu'r rhai sy'n iau nag 16 oed.

633. Canfu astudiaeth Bone et al yr hysbyswyd ynghylch cymhlethdodau mewn 27.5% o'r achosion o dyllu'r corff (byddai hyn yn cyfateb i oddeutu 2,400 o bobl yn profi cymhlethdodau yng Nghymru bob blwyddyn), gyda phroblemau sy'n ddigon difrifol i ofyn am ragor o gymorth mewn 12.9% o achosion (byddai hyn yn cyfateb i 1,124 o bobl yn gofyn am ragor o gymorth yng Nghymru bob blwyddyn).

634. Cynhaliodd yr astudiaeth ddadansoddiad mwy manwl o gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â thriniaethau i roi twll yng nghorff pobl 16-24 mlwydd oed, gan amcangyfrif bod 5.1% o'r triniaethau hyn yn arwain at ofyn am help gan fferyllydd, 3% gan feddyg teulu, 0.6% yn arwain at orfod mynd i adran damweiniau ac achosion brys a 0.9% yn golygu bod yn unigolyn wedi cael ei dderbyn i'r ysbyty. Tybir bod y rhai nad ydynt yn gofyn am ragor o gymorth gan wasanaethau'r GIG yn mynd yn ôl at yr ymarferydd a gyflawnodd y driniaeth. Gan dybio bod y patrwm hwn o ran defnyddio gwasanaethau'r GIG yn cael ei ailadrodd ar draws pob grŵp oedran, defnyddiwyd y data hyn fel sail i amcangyfrif nifer yr unigolion sy'n derbyn gwasanaethau'r GIG yng Nghymru a'r costau cysylltiedig (tabl isod). Pan fo amrywiaeth o driniaethau posibl, mae ystod o gostau wedi eu darparu.

*Tabl 7.25*

| **Costau defnyddio gwasanaethau'r GIG ar ôl cael triniaeth tyllu'r corff** | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r cymorth y gofynnwyd amdano ar ôl triniaeth tyllu'r corff** | **Nifer y rhai 16 oed a hŷn sy'n gofyn am gymorth bob blwyddyn** | **Cost Uned** | **Cost Flynyddol (£)** |
| Ymgynghoriad â Fferyllydd | 444 | £5.44 (ymgynghoriad 4.6 munud)<br>£13.85 (ymgynghoriad 11.7 munud) | 2,400 – 6,100 |
| Ymgynghoriad â meddyg teulu a thriniaeth gwrthfiotig | 261 | £34.33<br>(£31.70 am ymgynghoriad a £2.63 am gwrs 7 diwrnod o wrthfiotigau ar ffurf tabledi) | 9,000 |
| Mynd i adran damweiniau ac | 52 | Cost yn anhysbys. Defnyddiwyd cyfartaledd | 4,700 |

[382] Bone A, Ncube F, Nichols T a Noah ND (2008) Body piercing in England: a survey of piercing at sites other than earlobe BMJ *336* 1426

| | | | |
|---|---|---|---|
| achosion brys | | wedi'i bwysoli yr holl driniaethau cleifion allanol - £91 (chwartel isaf) | |
| Derbyn i'r Ysbyty | 78 | Cyfnod byr nad yw'n ddewisol fel claf mewnol £399 (yn seiliedig ar y chwartel isaf).<br>Cyfnod byr nad yw'n ddewisol fel claf mewnol £1,902 (chwartel isaf) | 31,100 – 148,400 |
| **Cyfanswm** | **835** | **-** | **47,200 – 168,200** |

635. Tatŵio yw'r brif ffynhonnell arall o gostau i'r GIG yn sgil y triniaethau. Nid oes unrhyw ddata wedi'u cyhoeddi ar nifer yr achosion o datŵio yn y DU ac felly daw'r data mwyaf perthnasol sydd ar gael o'r tu allan i'r DU. Yn ôl Arolwg Harris yn 2012, mae gan 21% o'r holl oedolion yn yr Unol Daleithiau o leiaf un tatŵ[383]. Mae'r canfyddiad hwn yn debyg i astudiaeth a gynhaliwyd yn yr Unol Daleithiau yn 2006, a ganfu fod gan 24% o'r ymatebwyr datŵs[384].

636. Amcangyfrifir bod 357 o safleoedd yn darparu triniaethau tatŵio yng Nghymru a bod pob mangre ar gyfartaledd yn cyflogi dau ymarferydd. Tybiwyd bod pob ymarferydd yn gweithio tridiau'r wythnos, 44 wythnos y flwyddyn, gan gyflawni tair triniaeth bob dydd[385] Yn seiliedig ar y tybiaethau hyn, amcangyfrifir bod tua 282,700 o driniaethau tatŵio yn cael eu cyflawni yng Nghymru bob blwyddyn. Nodir bod angen mwy nag un driniaeth yn aml ar gyfer rhai tatŵs.

637. 2-3%[386] yw cyfradd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â thatŵs yn yr Unol Daleithiau. O drosglwyddo'r gyfradd hon i Gymru, ac o dybio cyfradd cymhlethdodau sydd ar ben uchaf y raddfa hon, amcangyfrifir bod 8,500 o bobl yn profi cymhlethdodau bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai pob cymhlethdod yn peri i unigolyn droi at wasanaethau'r GIG. Mae llawer o unigolion sy'n cael anawsterau'n debygol o fynd yn ôl at yr ymarferydd a gyflawnodd y driniaeth, neu geisio cymryd meddyginiaeth ei hun. Amcangyfrifir y byddai tua 10% o'r holl bobl sy'n profi cymhlethdodau'n troi at y GIG (oddeutu 850 achos y flwyddyn).

638. Mae amrywiaeth o gymhlethdodau a thriniaethau cysylltiedig yn deillio o driniaethau tatŵio. Yn yr un modd â chymhlethdodau tyllu cosmetig, gallai unigolion ofyn am gymorth gan amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys fferyllwyr, meddygon teulu ac adrannau damweiniau ac achosion brys. Nid oes unrhyw ddata ar gael ynglŷn â thriniaeth gan y GIG ar gyfer y cymhlethdodau hyn, felly tybiwyd y byddai'r costau yr un faint â'r amrediad cymedrig ar gyfer trin cymhlethdodau sy'n deillio o dyllu'r corff (£56-£201). Gan ddefnyddio'r tybiaethau hyn, gellir amcangyfrif mai £47,600 – £170,900 yw cyfanswm y gost o drin cymhlethdodau sy'n deillio o datŵs bob blwyddyn.

---

[383] http://www.harrisinteractive.com/NewsRoom/HarrisPolls/tabid/447/mid/1508/articleId/970/ctl/ReadCustom%20Default/Default.aspx
[384] http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pubmed/16908345
[385] Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol
[386] http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC3236178/

*Tabl 7.26 – Crynodeb o gostau'r GIG o ganlyniad i driniaethau tyllu'r corff a thatŵio*

| Costau'r GIG o ganlyniad i driniaethau tyllu'r corff a thatŵio | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau (£)** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |
| Cymhlethdodau yn sgil tyllu'r corff ymhlith pobl rhwng 16 a 24 oed | 47,200 – 168,200 | 47,200 – 168,200 | 47,200 – 168,200 | 47,200 – 168,200 | 47,200 – 168,200 |
| Cymhlethdodau yn deillio o datŵio – pob oedran | 47,600– 170,900 | 47,600– 170,900 | 47,600– 170,900 | 47,600– 170,900 | 47,600– 170,900 |
| **Cyfanswm y costau** | **94,800-339,100** | **94,800-339,100** | **94,800-339,100** | **94,800-339,100** | **94,800-339,100** |

639. Gall nifer o gyflyrau difrifol eraill ddod i'r amlwg o ganlyniad i'r triniaethau hyn, fel a drafodir isod. Oherwydd bod cyflyrau o'r fath yn codi mor anaml yng Nghymru, ni chyfrifwyd y costau yn y cyfrifiadau.

640. Mae'n bosibl y gall unrhyw driniaethau sy'n cynnwys treiddio'r croen arwain at drosglwyddo feirysau a gludir yn y gwaed, fel hepatitis B, hepatitis C a HIV[387]. Mae costau triniaeth ar gyfer yr heintiau hyn yn amrywio'n sylweddol ond, fel enghraifft, mae cwrs o driniaeth ar gyfer hepatitis C yn costio rhwng £39,000 ac £80,000[388].

641. Ceir cymhlethdodau difrifol hefyd a all godi yn sgil heintiau sy'n cael eu dal yn ystod triniaeth, er enghraifft haint ffugmonas yn gysylltiedig â rhoi twll yng nghartilag y corff. Gallai fod angen llawdriniaeth adlunio mewn achosion difrifol ac amcangyfrifir bod y gost hon yn unig tua £1,329[389] yr achos.

642. Mewn achosion anarferol, pryd y nodwyd diffygion sylweddol mewn arferion rheoli heintiau busnes, gall fod angen cyflawni ymarfer hysbysu cleientiaid ("edrych yn ôl"). Cynhelir ymarfer "edrych yn ôl" i nodi unrhyw gleientiaid a allai fod wedi'u heintio gan feirysau a gludir yn y gwaed ac mae'n cynnwys nodi cleientiaid trwy'r cofnodion i gysylltu â hwy a chynnig prawf ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed. Amcangyfrifir bod ymarfer edrych yn ôl diweddar, a gynhaliwyd mewn ymateb i ddiffygion difrifol o ran rheoli heintiau, wedi costio o leiaf £0.25 miliwn ac y bydd wedi effeithio ar tua 1,000 o bobl, y mwyafrif ohonynt yn bobl ifanc.[390] Mae'r costau hyn yn

[387] Hayes, MO. Harkness, GA. (2001) Body piercing as a risk factor for viral hepatitis: an integrated research review. American Journal of Infection Control. 29, 271-274.
[388] NICE consults on draft guidance recommending ledipasvir-sofosbuvir (Harvoni) for treating chronic hepatitis C (3 Mawrth 2015). https://www.nice.org.uk/news/press-and-media/nice-consults-on-draft-guidance-recommending-ledipasvir-sofosbuvir-harvoni-for-treating-chronic-hepatitis-c
[389] Yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.
[390] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Trawsgrifiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2015. Tystiolaeth gan Dr Richardson, paragraff 171 http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1309
.

debygol o amrywio'n fawr gan ddibynnu ar yr achos a'r GIG fyddai'n gyfrifol amdanynt yn bennaf. Fodd bynnag, oherwydd natur ysbeidiol yr ymarferion hyn, a'r ffaith nad oes modd rhagweld pa mor aml y byddent yn digwydd, nid yw'r costau hyn wedi cael eu hystyried yn y costau blynyddol i'r GIG nac awdurdodau lleol. Er mai yn anaml y byddai'n rhaid talu'r costau hyn, mae pob achos yn debygol o arwain at wariant sylweddol.

643. Mae cymhlethdodau iechyd eraill fel poen, anghysur a gorbryder yn arwain at gostau i unigolion yn ogystal â'r GIG. Er na ellir mesur lefel cymhlethdodau o'r fath, byddai unrhyw ostyngiad ynddynt o fudd i'r GIG. Gall cymhlethdodau fod yn arbennig o ddifrifol i'r bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol, ac mae achosion wedi eu cofnodi pan fo unigolion wedi marw ar ôl triniaeth tyllu cosmetig[391,392].

644. Yn ogystal â'r costau i'r GIG, gallai unrhyw gymhlethdodau iechyd o ganlyniad i'r triniaethau hyn achosi costau i gyflogwyr yng Nghymru os yw staff yn absennol neu'n llai cynhyrchiol. Ni fu modd mesur y gost economaidd hon.

Ymarferwyr a busnesau sy'n cyflawni triniaethau aciwbigo, tatŵio, lliwio'r croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis

645. Mae'n ofynnol i fusnesau sy'n darparu'r triniaethau dalu ffi gofrestru untro ar hyn o bryd. Fel a nodir uchod, mae'r ffioedd cofrestru'n amrywio rhwng awdurdodau lleol. Amcangyfrifir y cofrestrir tua 190 o fangreoedd bob blwyddyn a bod 380 o unigolion yn cofrestru bob blwyddyn. Gan ddefnyddio'r ffioedd cyfartalog o £130 i gofrestru mangre a £73 ar gyfer unigolion, byddai hyn yn gyfanswm o £24,700 i gofrestru busnesau newydd a £27,700 i gofrestru ymarferwyr newydd bob blwyddyn. Amcangyfrifir mai oddeutu £52,400 fyddai cyfanswm blynyddol y gost i fusnesau felly. Oherwydd y gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol wrth godi ffioedd, megis y disgresiwn o ran codi am gofrestriadau personol, rhifau dangosol yn unig yw'r rhain.

646. Mae ymarferwyr a'r busnesau newydd hyn hefyd yn wynebu costau o ran yr amser a gymerir i gwblhau cais. Er bod systemau ymgeisio awdurdodau lleol yn amrywio, amcangyfrifir bod cais yn cymryd oddeutu 30 munud i'w gwblhau. Gan dybio bod tâl gros cyfartalog yr awr ymarferydd yn £15.94[393,394], ac y byddai 380 o geisiadau unigol a 190 o geisiadau ar gyfer mangreoedd yn cael eu cyflwyno, amcangyfrifir mai oddeutu £4,500 y flwyddyn fyddai'r costau yn deillio o wneud ceisiadau. Nid yw'n ofynnol adnewyddu ceisiadau ar hyn o bryd.

647. Ni fyddai unrhyw gostau eraill i fusnesau sy'n cyflawni'r triniaethau hyn o dan yr opsiwn hwn.

Tabl 7.27 – crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 1*

---

[391] BBC News online (2005) Lip piercing death 'misadventure'. Ar gael yn: http://news.bbc.co.uk/1/hi/england/south_yorkshire/4429298.stm

[392] BBC News online (2010) Caerphilly woman's infection death after tongue pierce. Ar gael yn: http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11543757

[393] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (artist). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425

[394] Mae'r cyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% i gynnwys argostau.

| Costau (£) | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau i Lywodraeth Cymru** | | | | | |
| Adolygiad blynyddol o Orchmynion Rhan 2A | 2,500 | 2,500 | 2,500 | 2,500 | 2,500 |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **2,500** | **2,500** | **2,500** | **2,500** | **2,500** |
| **Costau i awdurdodau lleol** | | | | | |
| Arolygiadau cychwynnol ar gyfer cofrestriadau newydd | 32,300 | 32,300 | 32,300 | 32,300 | 32,300 |
| Costau ymweliadau cydymffurfiad | 78,500 | 78,500 | 78,500 | 78,500 | 78,500 |
| Costau ymchwilio i gwynion | 11,900 | 11,900 | 11,900 | 11,900 | 11,900 |
| Gorchmynion Rhan 2A | 8,800 – 33,000 | 8,800 – 33,000 | 8,800 – 33,000 | 8,800 - 33,000 | 8,800 – 33,000 |
| Mabwysiadu is-ddeddfau enghreifftiol | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 20,000 |
| **Cyfanswm y Costau i Awdurdod Lleol** | **146,500-170,700** | **146,500-170,700** | **146,500-170,700** | **146,500-170,700** | **151,500-175,700** |
| **Costau Net i Awdurdodau Lleol**** | **94,100-118,300** | **94,100-118,300** | **94,100-118,300** | **94,100-118,300** | **99,100-123,300** |
| **Costau i fusnesau** | | | | | |
| Ffioedd cofrestru untro | 52,400 | 52,400 | 52,400 | 52,400 | 52,400 |
| Amser ar gyfer paratoi'r cais | 4,500 | 4,500 | 4,500 | 4,500 | 4,500 |
| **Costau i** | **56,900** | **56,900** | **56,900** | **56,900** | **56,900** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fusnesau** | | | | | |
| **Cyfanswm y Costau **** | **153,500 – 177,700** | **153,500 – 177,700** | **153,500 – 177,700** | **153,500 – 177,700** | **158,500-182,700** |

* Fel yr eglurwyd yn gynharach, ni chafodd costau'r GIG eu cynnwys yn y tabl.
** Nid yw'r costau cofrestru untro y mae busnesau ac ymarferwyr yn eu talu wedi cael eu cynnwys yma gan y cânt eu defnyddio i dalu am gostau'r awdurdodau lleol.

**Manteision**

648. Mae'r opsiwn hwn yn parhau â'r safbwynt polisi cyfredol ac felly ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol.

**Opsiwn 2 – Datblygu a chyhoeddi canllawiau ar arfer gorau ar gyfer aciwbigo, tatŵio, lliwio'r croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis, a chynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth.**

**Disgrifiad**

649. Byddai Llywodraeth Cymru yn datblygu a pharatoi canllawiau arfer gorau, anstatudol i ymarferwyr ynglŷn ag aciwbigo, tatŵio, lliwio'r croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis. Byddai angen gweithio gyda rhanddeiliaid o'r sector, awdurdodau lleol a phartïon eraill a chanddynt fuddiant er mwyn datblygu'r canllawiau. Byddai'r canllawiau'n cael eu seilio ar dystiolaeth ac yn nodi camau y gall ymarferwyr a busnesau eu cymryd er mwyn defnyddio arferion gwaith diogel, â'r nod o hybu diogelwch a chysondeb ar draws y sector. Byddai copïau o'r canllawiau ar gael ar-lein neu ar ffurf copi papur i'w dosbarthu i'r busnesau a'r ymarferwyr sy'n cyflawni'r triniaethau hyn.

650. Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth. Byddai dwy ran bwysig i'r ymgyrch, sef codi ymwybyddiaeth ymysg ymarferwyr a busnesau, a lledaenu gwybodaeth i'r cyhoedd.

651. Byddai'r canllawiau'n cael eu gweithredu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Byddai cofnodion cyfredol yr awdurdodau lleol yn cael eu defnyddio i adnabod busnesau perthnasol, er mwyn targedu'r canllawiau. Ni fyddai timau gorfodi'r awdurdodau lleol yn cymryd unrhyw gamau gorfodi, ond byddid yn disgwyl iddynt roi cyngor ar ba mor berthnasol yw'r canllawiau i ymarferwyr a busnesau unigol. Byddai hyfforddiant ymwybyddiaeth yn cael ei ddarparu i staff awdurdodau lleol ynglŷn â'r canllawiau, ynghyd ag ymgyrch i roi gwybod i'r cyhoedd am y problemau iechyd posibl sydd ynghlwm wrth y triniaethau hyn.

652. Byddai'r canllawiau o dan yr opsiwn hwn yn ychwanegol at y system gofrestru gyfyngedig o dan Opsiwn 1. O ganlyniad, caiff yr holl gostau presennol a wynebir o dan Opsiwn 1 eu cario ymlaen o dan yr opsiwn hwn.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

653. Byddai Llywodraeth Cymru yn wynebu cost ar gyfer datblygu, dylunio a chyfieithu'r canllawiau; byddai costau staff yn cael eu cynnwys yn y costau cyffredinol hyn.

654. Byddai'r canllawiau'n cael eu modelu ar y canllawiau "Tatooing and Body Piercing Guidance: Toolkit"[395] ac yn canolbwyntio ar reoli risgiau'n effeithiol, safonau ymarfer a gofynion ymarferol. O ganlyniad, byddai'n darparu gwybodaeth ar gyfer awdurdodau gorfodi, ymarferwyr a busnesau. Byddai angen i'r canllawiau hyn gwmpasu pob un o'r triniaethau, ac mae gan bob un ei phroblemau ei hun. O ganlyniad, rhagwelir y byddai angen i'r canllawiau fod yn ddogfen gynhwysfawr a byddai angen cyfraniad sylweddol gan staff. I baratoi'r canllawiau, (tua 20,000 o eiriau), rhagwelir y byddai'n cymryd oddeutu chwe mis o amser 0.5 Uwch-swyddog Gweithredol cyfwerth ag amser llawn (sy'n cyfateb i oddeutu £13,000), a chwe mis o amser 0.2 swyddog Cymorth Tîm cyfwerth ag amser llawn (sy'n cyfateb i oddeutu £2,600).[396]

655. Rhagwelir y byddai'r gwaith dylunio a chysodi yn gofyn am bythefnos o amser Swyddog Gweithredol cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n costio oddeutu £1,400. Amcangyfrifir y byddai'r gwaith cyfieithu a phrawfddarllen yn costio oddeutu £1,900.[397] O ganlyniad, £18,900 fyddai cyfanswm y gost o ddatblygu, dylunio a chyfieithu'r canllawiau.

656. Er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl, byddai copïau o'r canllawiau'n cael eu hanfon i bob mangre sy'n cyflawni'r triniaethau yng Nghymru (oddeutu 890 o safleoedd cofrestredig yng Nghymru). Byddai pum copi o'r canllawiau hefyd yn cael eu hanfon at bob awdurdod lleol, gan olygu y byddai angen cynhyrchu cyfanswm o oddeutu 1,000 o fersiynau papur. Byddai'n costio oddeutu £3,800 i argraffu'r canllawiau hwn a £1,500 i'w dosbarthu, gan roi cyfanswm o £5,300.[398] Byddai fersiynau electronig o'r canllawiau ar gael hefyd.

657. Byddai'r canllawiau'n cael eu diweddaru bob tair blynedd. Rhagwelir y byddai hyn yn gofyn am oddeutu un wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n cyfateb i oddeutu £900. Byddai'r costau dylunio a chyfieithu yn dod i hanner y costau gwreiddiol, sef cyfanswm o £1,700. Ni fyddai unrhyw gostau argraffu ar gyfer yr adolygiad, gan mai ar ffurf electronig yn unig y byddai'n cael ei gynhyrchu. O ganlyniad, oddeutu £2,600 fyddai cyfanswm y gost ar gyfer pob adolygiad, a hynny bob tair blynedd. Byddid yn cynnal yr adolygiad cyntaf yn 2019/20.

---

[395] Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, Labordy Iechyd a Diogelwch, Public Health England ac Undeb y Diwydiant Tatŵio a Thyllu'r Corff (2013) Tattooing and body piercing guidance: Toolkit.
[396] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff Llywodraeth Cymru
[397] Yn seiliedig ar £75 fesul 1000 o eiriau ar gyfer cyfieithu, a £21 fesul 1000 o eiriau ar gyfer prawfddarllen.
[398] Yn seiliedig ar waith blaenorol a wnaed gan Lywodraeth Cymru.

658. Efallai y byddai angen sesiynau hyfforddi ar gyfer Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd neu ar gyfer aelodau eraill o staff llywodraeth leol, er mwyn eu cynorthwyo i annog ymarferwyr a busnesau i dderbyn y cyngor a roddir yn y canllawiau. Rhagwelir y byddai Llywodraeth Cymru yn talu am y costau hyn ac y byddai'r gwaith yn cael ei roi ar gontract i gyflenwr sydd â hygrededd ymhlith y proffesiwn iechyd yr amgylchedd. Disgwylir y byddai dwy sesiwn yn cael eu cynnal - un yn y Gogledd ac un yn y De. Byddai'r sesiynau hyfforddi hyn yn cael eu cynnal yn 2016/17. Oddeutu £900 fyddai cost datblygu deunyddiau a thaflenni'r cwrs, ac oddeutu £2,000 fyddai cost cynnal y ddwy sesiwn gyda 35 o bobl yn mynd i bob un. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o £2,900. Byddai'r amser ar gyfer dilyn yr hyfforddiant yn cael ei gynnwys yn yr amser hyfforddiant blynyddol. Disgwylir y gellid arbed arian yn gyffredinol trwy gyfuno'r hyfforddiant â'r sesiynau ar gyfer gwahardd tyllu rhan bersonol o gorff pobl o dan 16 oed.

659. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith bosibl y canllawiau, byddai angen cyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth ymysg busnesau ac ymarferwyr. Byddai hyn yn cael ei wneud yn bennaf trwy sylw rhad ac am ddim mewn cyfnodolion masnach, trwy rwydweithiau rhanddeiliaid, a thrwy ddefnyddio adnoddau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Byddai angen gwaith cyfathrebu ehangach hefyd i dynnu sylw'r cyhoedd, gan gynnwys pobl ifanc a rhieni, am y problemau iechyd posibl sydd ynghlwm wrth y triniaethau hyn a phwysigrwydd sicrhau bod yr ymarferydd a'r busnes yr ymwelir â hwy i gael triniaeth aciwbigo, tatŵio, lliwio'r corff yn lled-barhaol, tyllu cosmetig neu electrolysis wedi eu cofrestru â'r awdurdod lleol. Byddai ymgyrch o'r fath yn cynnwys cysylltiadau cyhoeddus, cyfryngau cymdeithasol a gweithio gydag ysgolion/sefydliadau ieuenctid, ac yn costio oddeutu £10,000. Gan y byddai'r opsiwn hwn yn gofyn i ymarferwyr weithredu'n wirfoddol, disgwylir y byddai angen ailadrodd y gwaith cyfathrebu bob dwy flynedd. Disgwylir y gellid arbed arian yn gyffredinol yn 2016/17, a phob dwy flynedd wedi hynny, trwy gyfuno'r gwaith cyfathrebu â'r gwaith ar gyfer y gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gyrff unigolion o dan 16 oed.

Awdurdodau lleol

660. Er y byddid yn annog staff llywodraeth leol i gynorthwyo ymarferwyr i ddefnyddio'r canllawiau fel rhan o'u trefn waith arferol, cydnabyddir y byddai rhai costau staff cysylltiedig. Byddai'r rhain yn cynnwys cynorthwyo i ddatblygu'r canllawiau, mynd i sesiynau hyfforddiant ac ymgysylltu ag ymarferwyr a busnesau er mwyn eu hannog i ddilyn y canllawiau. Gan y byddai busnesau ac ymarferwyr yn cael dewis pa un a ydynt am roi'r canllawiau ar waith ai peidio, gallai anogaeth gan staff awdurdodau lleol i wneud hynny fod yn waith pwysig.

661. Mae hefyd yn debygol y gallai fod angen i Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ac aelodau staff perthnasol eraill ymdrin ag ymholiadau ad hoc oddi wrth ymarferwyr a busnesau ynglŷn â'r canllawiau. Mae'n debygol y byddai mwy o'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn cyn cyflwyno'r canllawiau, a'r flwyddyn gyntaf ar ôl hynny, ac ni fyddai'n dod i gyfanswm o fwy na hanner mis o amser Swyddog Iechyd yr Amgylchedd cyfwerth ag amser llawn[399] fesul awdurdod lleol yn ystod y ddwy flynedd hyn, gan ostwng i hanner y swm hwn ar gyfer y blynyddoedd dilynol. Byddai

[399] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff awdurdodau lleol. Mae argostau wedi cael eu cynnwys yn y costau hyn.

hyn yn cyfateb i oddeutu £38,000 (£1,725 fesul awdurdod lleol) yn 2016/17 a 2017/18, a'r gost yn lleihau ar ôl hynny i oddeutu £19,000 (£862 fesul awdurdod lleol) y flwyddyn. Fodd bynnag, disgwylir y gellid arbed arian yn gyffredinol trwy gyfuno'r gwaith hwn â'r gwaith ar y gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff unigolion o dan 16 oed.

Ymarferwyr a busnesau sy'n rhoi triniaethau aciwbigo, tatŵio, lliwio'r corff yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis

662. Byddai ymarferwyr a busnesau yn debygol o wynebu costau yn sgil yr amser a dreulir yn ymgyfarwyddo â'r canllawiau, ac yn gweithredu unrhyw newidiadau i'w hymarfer. Er yr amcangyfrifir mai oddeutu 20,000 o eiriau fydd y canllawiau, byddent yn amlinellu'n fanwl yr ymarfer a argymhellir ar gyfer pob triniaeth. Mae'n annhebygol felly y bydd angen i ymarferwyr ddarllen y ddogfen gyfan yn drylwyr. Tybir mai dim ond y canllawiau ar gyfer y driniaeth/triniaethau y maent yn eu cyflawni y byddai'r ymarferwyr yn eu darllen yn fanwl. Amcangyfrifir mai chwarter y canllawiau cyfan fyddai hynny. Gan dybio bod tâl gros cyfartalog yr awr ymarferydd yn £15.94[400],[401], bod oddeutu 2,086 o ymarferwyr yn cyflawni'r triniaethau penodedig yng Nghymru[402], ac y byddai'r gweithgareddau uchod yn cymryd dwy awr fesul ymarferydd, byddai'r gost i ymarferwyr/busnesau yn dod i oddeutu £66,500 yn 2016/17. Byddai hefyd gost flynyddol o oddeutu £12,100 i ymarferwyr newydd, er mwyn ymgyfarwyddo â'r canllawiau. Fodd bynnag, gallai hyn oramcangyfrif y costau gan ei bod yn debygol fod rhai o'r ymarferwyr a busnesau hyn eisoes yn dilyn y dulliau arfer gorau, a gallai eraill benderfynu peidio â dilyn y canllawiau gan y byddent yn rhai gwirfoddol.

663. Yn yr un modd, pan gaiff y canllawiau eu diweddaru bob tair blynedd, gallai ymarferwyr a busnesau dreulio peth amser yn ymgyfarwyddo â'r canllawiau diwygiedig ac yn rhoi unrhyw newidiadau ar waith. Gan y rhagwelir mai dim ond newidiadau cyfyngedig a fyddai'n cael eu gwneud, disgwylid na fyddai'r costau hyn fesul ymarferydd yn fwy na hanner y costau yn 2016/17, sef amcangyfrif o £33,300.

Tabl 7.28 - crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2

| Costau (£) | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau i Lywodraeth Cymru** | | | | | |
| Costau staff ar gyfer datblygu'r canllawiau | 15,600 | 0 | 0 | 900 | 0 |
| Cyfieithu a dylunio | 3,300 | 0 | 0 | 1,700 | 0 |
| Argraffu a dosbarthu'r canllawiau | 5,300 | 0 | 0 | 0 | 0 |

[400] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (artist). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425
[401] Mae'r cyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% er mwyn cynnwys argostau.
[402] Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyfforddiant | 2,900 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyhoeddusrwydd | 10,000 | 0 | 10,000 | 0 | 10,000 |
| **Cyfanswm y Costau i Lywodraeth Cymru** | **37,100** | **0** | **10,000** | **2,600** | **10,000** |
| **Costau i awdurdodau lleol** | | | | | |
| Amser staff yn ymdrin ag ymholiadau ad hoc gan ymarferwyr a busnesau ynglŷn â'r canllawiau | 38,000 | 38,000 | 19,000 | 19,000 | 19,000 |
| **Cyfanswm y Costau i Awdurdodau Lleol** | **38,000** | **38,000** | **19,000** | **19,000** | **19,000** |
| **Costau i fusnesau** | | | | | |
| Yr amser a dreulir yn ymgyfarwyddo â'r canllawiau ac yn rhoi unrhyw newidiadau i'w hymarfer ar waith | 66,500 | 12,100 | 12,100 | 33,300 | 12,100 |
| **Cyfanswm y Costau i Fusnesau** | **66,500** | **12,100** | **12,100** | **33,300** | **12,100** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Cyffredinol y Costau** | **141,600** | **50,100** | **41,100** | **54,900** | **41,100** |

**Manteision**

664 Amcangyfrifir o dan Opsiwn 1 y derbynnir cwynion sy'n ymwneud â 70 o ymarferwyr a busnesau'r triniaethau yng Nghymru bob blwyddyn. Mae'n bosibl y gellid cynorthwyo i leihau'r nifer hon drwy baratoi a dosbarthu canllawiau ar arferion gwaith diogel ar gyfer y bobl sy'n rhoi'r triniaethau hyn, ynghyd â chyfleu negeseuon addysgol a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Gallai canllawiau hefyd gyflwyno dull gwaith cyson o ran gorfodi. Byddai unrhyw welliannau yn arwain at ostyngiadau i

gostau'r GIG o dan Opsiwn 1. Fodd bynnag, gan na fyddai unrhyw ofyniad cyfreithiol yn sail i'r canllawiau, nid yw eu heffaith yn debygol o fod yn fawr.

**Opsiwn 3A - Cyflwyno system drwyddedu ar gyfer Triniaethau Arbennig**

**Disgrifiad**

665. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu diddymu Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 mewn perthynas â Chymru, a chyflwyno deddfwriaeth i greu system drwyddedu genedlaethol, orfodol ar gyfer rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru. Byddai'r triniaethau arbennig hyn yn cael eu diffinio yn y ddeddfwriaeth fel aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio. Er mwyn cynnal unrhyw un o'r triniaethau arbennig hyn, byddai angen i unigolyn fod yn drwyddedig, a'r fangre (gan gynnwys cerbydau) lle y mae'n gweithredu fod wedi ei chymeradwyo. Byddai'r awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu ymarferwyr ac arolygu mangreoedd, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf penodol cyn y gellid caniatáu trwydded neu gymeradwyo mangre. Rhagwelir y byddai'r system drwyddedu yn dod yn weithredol yn 2017/18 (tan yr adeg hon, disgwylir i'r system gofrestru bresennol barhau).

666. Yn yr un modd ag Opsiwn 2, byddai Llywodraeth Cymru'n datblygu canllawiau ar driniaethau arbennig i gynorthwyo ymarferwyr a busnesau i ddeall y ddeddfwriaeth a'i gofynion. Byddai canllawiau ar gyfer yr awdurdodau lleol hefyd yn cael eu paratoi i'w cynorthwyo i orfodi'r ddeddfwriaeth. Byddai angen gweithio gydag ymarferwyr a busnesau o'r sector, awdurdodau lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartïon eraill a chanddynt fuddiant er mwyn datblygu'r canllawiau. Byddai copïau ar gael ar-lein neu ar ffurf copi papur, a byddent yn cael eu dosbarthu i'r awdurdodau lleol ac i fusnesau ac ymarferwyr sy'n darparu triniaethau arbennig.

667. Byddai Llywodraeth Cymru'n darparu hyfforddiant ac arweiniad i awdurdodau lleol ar gynnwys y ddeddfwriaeth a dulliau gorfodi.

668. Yn ogystal, byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ynghylch y system drwyddedu. Byddai'r ymgyrch yn cynnwys dwy brif ran :

a. Codi ymwybyddiaeth ymarferwyr a busnesau o'r system drwyddedu. Byddai hyn yn golygu gohebu'n uniongyrchol â'r bobl a fydd yn ddarostyngedig i'r gofynion deddfwriaethol; a
b. Lledaenu gwybodaeth i'r cyhoedd i roi gwybod iddynt am y system drwyddedu, a'r risgiau o beidio ag ymweld ag ymarferydd trwyddedig / mangre gymeradwy.

669. Byddai'r system drwyddedu a gynigir o dan yr opsiwn hwn yn disodli'r system a amlinellir o dan Opsiwn 1. Byddai'r costau a amlinellir isod yn cael eu hysgwyddo yn lle'r costau o dan Opsiwn 1 (h.y. nid yw'r costau a ddangosir isod yn ychwanegol i'r rhai hynny o dan Opsiwn 1).

**Costau**

Llywodraeth Cymru

670. Byddai Llywodraeth Cymru'n wynebu costau ar gyfer datblygu, dylunio a chyfieithu'r ddwy gyfres o'r canllawiau (un ar gyfer ymarferwyr a busnesau, a'r llall ar gyfer yr awdurdodau lleol). I baratoi'r ddwy gyfres o ganllawiau (25,000 o eiriau ar gyfer dogfen canllawiau ymarferwyr a busnesau, a 25,000 o eiriau ar gyfer dogfen canllawiau'r awdurdodau lleol), disgwylir y byddai'n cymryd oddeutu chwe mis o amser 0.75 Uwch-swyddog Gweithredol cyfwerth ag amser llawn (sy'n cyfateb i £19,500) a chwe mis o amser 0.4 swyddog Cymorth Tîm cyfwerth ag amser llawn (sy'n cyfateb i £5,200). Byddai hyn yn dod i gyfanswm o £24,700.[403]

671. Disgwylir y byddai'r gwaith dylunio a chysodi yn gofyn am bedair wythnos o amser Swyddog Gweithredol cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n costio oddeutu £2,800. Amcangyfrifir y byddai'r gwaith cyfieithu a phrawfddarllen yn costio oddeutu £4,800.[404] O ganlyniad, £32,300 yw cyfanswm y gost ar gyfer datblygu, dylunio a chyfieithu'r canllawiau.

672. Fel a nodir yn Opsiwn 2, er mwyn dosbarthu'r canllawiau byddai angen anfon copi at yr holl fangreoedd sy'n cyflawni triniaethau arbennig yng Nghymru (oddeutu 890 o fangreoedd cofrestredig). Byddai pum copi o'r canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol yn cael eu hanfon i bob awdurdod lleol yng Nghymru, gan olygu y byddai angen cynhyrchu cyfanswm o oddeutu 1,000 o fersiynau papur. Byddai'r gwaith argraffu yn costio oddeutu £4,400 a'r gwaith dosbarthu yn costio £1,500, gan roi cyfanswm o £5,900 (yn seiliedig ar waith blaenorol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru). Byddai fersiynau electronig o'r canllawiau ar gael hefyd.

673. O ganlyniad, byddai'n costio cyfanswm o oddeutu £38,200 ar gyfer y gwaith cychwynnol o ddatblygu, paratoi a dosbarthu'r canllawiau. Byddai'r costau hyn yn cael eu hysgwyddo yn 2016/17.

674. Byddai'r canllawiau'n cael eu diweddaru bob tair blynedd. Rhagwelir y byddai hyn yn cymryd oddeutu pythefnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n cyfateb i oddeutu £1,800. Byddai'r costau dylunio a chyfieithu yn dod i hanner y costau gwreiddiol, sef cyfanswm o £3,800. Ni fyddai unrhyw gostau argraffu ar gyfer yr adolygiad, gan mai dim ond ar ffurf electronig y byddai'n cael ei gynhyrchu. O ganlyniad, oddeutu £5,600 fyddai cyfanswm y gost ar gyfer pob adolygiad, a hynny bob tair blynedd. Byddai'r adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal yn 2019/20.

675. Yn yr un modd ag Opsiwn 2, byddai sesiynau hyfforddi yn cael eu darparu ar gyfer Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd neu staff perthnasol arall awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i orfodi'r ddeddfwriaeth. Byddai Llywodraeth Cymru yn talu am yr hyfforddiant, a byddai'n cael ei roi ar gontract i gyflenwr sydd â hygrededd ymhlith y proffesiwn iechyd yr amgylchedd. Disgwylir y byddai pedair sesiwn yn cael eu cynnal ledled Cymru, a hynny yn 2016/17. Oddeutu £1,800 fyddai cost datblygu deunyddiau

[403] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff Llywodraeth Cymru.
[404] Yn seiliedig ar £75 fesul 1000 o eiriau ar gyfer cyfieithu, a £21 fesul 1000 o eiriau ar gyfer prawfddarllen.

a thaflenni'r cwrs, ac oddeutu £4,000 fyddai cost cynnal y pedair sesiwn gyda 35 o bobl yn mynd i bob un ohonynt, sy'n dod i gyfanswm o £5,800. Disgwylir y gellid arbed arian yn gyffredinol trwy gyfuno'r hyfforddiant hwn â'r hyfforddiant ar gyfer gweithredu'r gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff pobl o dan 16 oed. Byddai'r amser ar gyfer dilyn yr hyfforddiant yn cael ei gynnwys yn yr amser hyfforddiant blynyddol.

676. Byddai'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn canolbwyntio ar hysbysu ymarferwyr a busnesau, yn ogystal â'r cyhoedd, am y system drwyddedu. Gan y byddai'r ddeddfwriaeth yn cynnwys troseddau newydd, rhagwelir y byddai angen pecyn cyfathrebu ehangach na'r un a nodir yn Opsiwn 2. Er mwyn cyfathrebu ag ymarferwyr a busnesau sy'n darparu triniaethau arbennig, byddai Llywodraeth Cymru'n cyfathrebu'n uniongyrchol â'r rhai hynny a fyddai'n ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth drwy bost uniongyrchol, cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Ar hyn o bryd, yr awdurdodau lleol sy'n cofrestru'r rhai hynny sy'n darparu'r triniaethau hyn, ac o ganlyniad, byddid yn defnyddio'r manylion cyswllt hynny. Byddai straeon newyddion yn cael eu darparu i gyfnodolion masnach a rhwydweithiau rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â chyfryngau cymdeithasol, a gellid codi mwy o ymwybyddiaeth o fewn y farchnad trwy dargedu gwefannau perthnasol. Amcangyfrifir y byddai'r gwaith hwn yn costio hyd at £10,000 ac y byddai'n gost untro a wynebir yn 2016/17. Fodd bynnag, byddid yn ystyried yr angen i ailadrodd y gwaith cyfathrebu yn ddiweddarach, yn rhan o'r broses adolygu, er mwyn cynnal ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth newydd. Byddai'r union gostau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad ac felly nid ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

677. Byddai gwaith cyfathrebu ehangach yn canolbwyntio ar rybuddio'r cyhoedd, gan gynnwys pobl ifanc a rhieni, am y problemau iechyd posibl sydd ynghlwm wrth driniaethau arbennig a phwysigrwydd sicrhau bod yr ymarferwyr/busnesau yr ymwelir â hwy i gael triniaeth aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis neu datŵio, wedi eu trwyddedu a bod y fangre lle y maent yn gweithio wedi ei chymeradwyo. Byddai hyn yn cynnwys cysylltiadau cyhoeddus, cyfryngau cymdeithasol a gweithio gydag ysgolion/sefydliadau ieuenctid. Amcangyfrifir y byddai'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn costio £10,000. Fel yn achos Opsiwn 2, gellid arbed arian trwy gyfuno'r gwaith cyfathrebu ar gyfer triniaethau arbennig â'r gwaith ar gyfer y gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff unigolion o dan 16 oed. Er y disgwylir wynebu'r costau cyfathrebu yn 2016/17, byddid yn ystyried yr angen i ailadrodd y gwaith cyfathrebu yn ddiweddarach, er mwyn cynnal neu wella'r ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth newydd. Byddai'r union gostau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad ac felly nid ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

<u>Awdurdodau lleol</u>

678. Byddai'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol orfodi gofynion y system drwyddedu. Byddai'n ofynnol i'r awdurdodau lleol drwyddedu'r unigolion hynny y maent o'r farn eu bod yn bodloni'r meini prawf diffiniedig a monitro i ba raddau y maent yn glynu wrth yr amodau trwyddedu, yn ogystal â chymeradwyo mangreoedd/cerbydau lle y gellir cyflawni triniaethau arbennig. Yn ogystal, byddai'n ofynnol i'r awdurdodau lleol orfodi'r ddeddfwriaeth pan fo angen, gan gynnwys cymryd camau gweithredu i atal triniaethau arbennig rhag cael eu cynnal gan

ymarferwyr didrwydded ac mewn mangreoedd anghymeradwy. Fel a nodwyd yn Opsiwn 1, mae gan awdurdodau lleol bwerau cyfyngedig eisoes i reoli busnesau sy'n darparu gwasanaeth aciwbigo, tatŵio, lliwio'r croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis, ac maent eisoes yn cymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r busnesau hyn. Fodd bynnag, byddai'r system drwyddedu newydd yn cyflwyno gofynion llymach er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ac o ganlyniad, disgwylir y byddai angen cymryd mwy o gamau gorfodi o ran y triniaethau hyn.

679. O ran trwyddedu ymarferwyr unigol, byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried a phrosesu cais, ac os cytunir arno, gynhyrchu trwydded. Rhagwelir mai oddeutu £60 fyddai'r gost i'r awdurdodau lleol ar gyfer pob trwydded[405]. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r drwydded gynnwys llun o'r ddeiliad y drwydded; mae'r gost o gynhyrchu trwydded llun wedi ei chynnwys yn y £60. Mewn rhai achosion, gallai fod angen i'r awdurdod lleol gyfarfod â'r ymgeisydd i drafod y cais, ond byddai hyn yn cael ei benderfynu ar sail pob achos unigol. O ganlyniad, nid oes unrhyw amcangyfrif wedi ei gynnwys ar gyfer trafodaethau o'r fath.

680. Amcangyfrifir bod 2,086 o unigolion yn cyflawni triniaethau arbennig yng Nghymru ar hyn o bryd[406]. Gan gymryd y ffigur hwn fel amcangyfrif o nifer y trwyddedau personol a fyddai'n cael eu dosbarthu, amcangyfrifir mai £125,200 fyddai cyfanswm y gost i'r awdurdodau lleol am brosesu a dosbarthu trwyddedau personol. Byddai'r swm hwn yn daladwy ychydig ar ôl i'r system drwyddedu ddod i rym yn 2017/18. Tybiwyd bod 380 o ymarferwyr unigol newydd yn ymuno â'r farchnad bob blwyddyn, gan arwain at gostau o £22,800 y flwyddyn i gael trwydded ar gyfer yr ymarferwyr newydd hyn, o 2018/19 ymlaen. Gan y byddai trwyddedau'r ymarferwyr yn ddilys am dair blynedd, byddai'r costau hyn yn cael eu hailadrodd bob tair blynedd. Fodd bynnag, at ddibenion cyfrifo costau, tybiwyd y bydd nifer gyfartal o ymarferwyr yn rhoi'r gorau i fasnachu bob blwyddyn (h.y. bod 380 o ymarferwyr unigol yn rhoi'r gorau i fasnachu bob blwyddyn). O ganlyniad, byddai'r costau adnewyddu yn 2020/21 yn is na chostau sicrhau trwyddedau yn 2017/18.

681. Er mwyn cymeradwyo mangre lle y cyflawnir triniaethau arbennig, disgwylir y byddai'r awdurdod lleol yn prosesu'r cais ac yn cynnal ymweliad arolygu. Pe byddai'r fangre yn bodloni'r amodau gofynnol, byddai'r awdurdod lleol yn ei chymeradwyo ac yn rhoi tystystrif cymeradwyaeth i'w harddangos. Rhagwelir y byddai'r gost i'r awdurdod lleol oddeutu £170 fesul mangre a gymeradwywyd[407]. Amcangyfrifir bod 890 o fangreoedd lle y cynhelir y triniaethau arbennig diffiniedig yng Nghymru ar hyn o bryd[408]. Gan gymryd y ffigur hwn fel amcangyfrif o sawl cymeradwyaeth a fyddai'n cael ei chyflwyno i fangreoedd o dan y system drwyddedu newydd, amcangyfrifir mai £151,300 fyddai'r gost i awdurdodau lleol am brosesu a chyflwyno cymeradwyaethau ar gyfer mangreoedd yn 2017/18. Tybiwyd bod 190 o fusnesau newydd yn agor bob blwyddyn, gan arwain at gostau o £32,300 y flwyddyn o 2018/19 ymlaen ar gyfer y busnesau newydd hyn.

682. Gan y byddai'r cymeradwyaethau ar gyfer y mangreoedd yn ddilys am dair blynedd, byddai'r costau hyn yn cael eu hailadrodd bob tair blynedd. Fodd bynnag,

[405] Darparwyd y ffigur gan awdurdodau lleol.
[406] Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol
[407] Darparwyd y ffigur gan awdurdodau lleol
[408] Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol

at ddibenion cyfrifo costau, tybiwyd y bydd nifer gyfartal o fusnesau yn rhoi'r gorau i fasnachu bob blwyddyn (h.y. bod 190 o fangreoedd yn rhoi'r gorau i fasnachu bob blwyddyn). O ganlyniad, byddai'r costau adnewyddu yn 2020/21 yn is na'r costau cofrestru yn 2017/18, fel y'u dangosir yn y tabl isod. Byddai costau adnewyddu parhaus o 2021/22 ymlaen, ond byddai'r rhain yn is nag yn 2020/21.

*Tabl 7.29*

| **Costau gweinyddu cofrestriadau** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17 (£)** | **2017/18 (£)** | **2018/19 (£)** | **2019/20 (£)** | **2020/21 (£)** |
| Costau gweinyddol trwyddedau ymarferwyr a chymeradwyo mangreoedd | 32,300* | 276,500 | 55,100 | 55,100 | 55,100 |
| Costau gweinyddol adnewyddu | 0 | 0 | 0 | 0 | 166,300 |
| **Cyfanswm y costau** | 32,300 | 276,500 | 55,100 | 55,100 | 221,400 |

*y costau cofrestru o dan y system bresennol (Opsiwn 1).

683. Pe byddai awdurdod lleol yn bwriadu gwrthod caniatáu, adnewyddu neu amrywio trwydded neu gais am gymeradwyo mangre, byddai'n rhaid iddo gyflwyno hysbysiad i'r ymgeisydd, a fyddai wedyn yn cael cyflwyno sylwadau gerbron Pwyllgor Trwyddedu'r awdurdod lleol. Câi'r ymgeisydd apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor i lys ynadon. Gan y rhagwelir y byddai'r awdurdodau lleol yn gweithio'n agos gyda'r rhai sy'n ceisio cael trwydded/cymeradwyaeth ar gyfer mangre, ni ddisgwylir y byddai nifer uchel o achosion yn cael eu clywed gan Bwyllgor Trwyddedu nac apeliadau i'w clywed gan lys ynadon. Ar y sail honno, amcangyfrifir y byddai'r costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno sylwadau neu apeliadau yn isel iawn, ond nid ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

684. Byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol hefyd am fonitro cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth yn ystod cyfnod dilys y drwydded neu gymeradwyaeth y fangre. Byddai hyn yn golygu gweithio gyda deiliaid trwyddedau a mangreoedd cymeradwy, er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Fel yn achos y cynllun cofrestru presennol, disgwylir y byddai awdurdodau lleol yn cynnal ymweliadau cydymffurfio ar sail risg, gan ymweld yn fwy aml ag ymarferwyr sy'n darparu triniaethau tatŵio a thyllu'r corff na thriniaethau arbennig eraill. Fel a nodir yn Opsiwn 2, amcangyfrifir y ceir oddeutu 462 o fusnesau sy'n rhoi triniaethau tatŵio a thyllu'r corff yng Nghymru, ac amcangyfrifir mai £170 yw cost un ymweliad cydymffurfio. Ar draws yr holl awdurdodau lleol, amcangyfrifir mai oddeutu £78,500 y flwyddyn yw cyfanswm cost ymweliadau cydymffurfio.

685. Pe byddai gan awdurdod lleol bryderon (wedi eu codi, er enghraifft, yn ystod ymweliad cydymffurfio neu drwy gŵyn) fod trwyddedai neu fangre gymeradwy yn

torri eu hamodau trwyddedu mandadol, câi gyflwyno Hysbysiad Camau Adfer i'r trwyddedai neu i'r unigolyn sydd â'r gymeradwyaeth ar gyfer y fangre, i'w gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau penodol. Byddai cyfnod cydymffurfio o 14 diwrnod o leiaf ar gyfer cymryd y camau a bennir, er mwyn osgoi cyflawni trosedd. Amcangyfrifir y byddai oddeutu 5% i 10% o'r rhai hynny sydd â thrwydded neu gymeradwyaeth ar gyfer mangre yn cael Hysbysiad Camau Adfer bob blwyddyn. Amcangyfrifir mai cost Hysbysiad Camau Adfer fyddai £380[409], gan gynnwys amser swyddog, ymweliadau a gwaith gweinyddol. Gan dybio y byddai rhwng 150 a 300 o Hysbysiadau Camau Adfer yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn gyntaf, amcangyfrifir mai rhwng £57,000 a £114,000 fyddai cyfanswm y gost. Tybir y byddai busnesau a'r cyhoedd yn dod yn fwy cyfarwydd â'r ddeddfwriaeth dros amser, ac y byddai hyn yn gwella'r safonau, gan arwain at ostyngiad o 10% yn nifer yr Hysbysiadau Camau Adfer a gyflwynir flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2020/21 ac wedyn y byddai'r nifer yn aros yn sefydlog.

686. Byddai gan awdurdodau lleol y pŵer hefyd i atal triniaethau arbennig rhag cael eu cynnal gan unigolion didrwydded neu mewn mangre anghymeradwy. Byddai angen i'r awdurdodau lleol nodi unigolion didrwydded, ac wedyn cyflwyno hysbysiad atal, a fyddai'n ei wahardd rhag cyflawni triniaeth arbennig. Fel a nodir yn Opsiwn 2, mae awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn defnyddio pwerau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 i gyflwyno cais am Orchymyn Rhan 2A, er mwyn atal unigolyn rhag cynnal triniaethau tatŵio anghofrestredig. Amcangyfrifir y cyflwynir ceisiadau ac y caniateir 11 o Orchmynion Rhan 2A bob blwyddyn ynglŷn â'r ymarfer hwn.

687. Byddai'r opsiwn hwn yn darparu pwerau mwy cynhwysfawr ar gyfer ymdrin â gweithgaredd a waharddwyd, trwy broses symlach. O dderbyn y dull mwy cynhwysfawr hwn, amcangyfrifir y gallai awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad atal mewn tua 50 o achosion ledled Cymru yn ystod y flwyddyn gyntaf. Er y byddai'r broses a nodir o dan yr opsiwn hwn yn wahanol i'r un y darperir ar ei chyfer o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, fe fyddai rhai elfennau tebyg o ran y gost o ymchwilio a gweithredu Gorchymyn Rhan 2A. O ganlyniad, amcangyfrifir mai rhwng £40,000 a £142,000 fyddai'r costau sy'n gysylltiedig ag atal gweithgaredd didrwydded/anghymeradwy yn ystod y flwyddyn gyntaf (amcangyfrifir mai rhwng £800 a £2,840 yw'r gost fesul achos, yn dibynnu ar gymhlethdod yr achos)[410]. Tybir y byddai busnesau a'r cyhoedd yn dod yn fwy cyfarwydd â'r ddeddfwriaeth dros amser, ac y byddai hyn yn gwella'r safonau, gan arwain at ostyngiad o 10% yn nifer yr hysbysiadau atal a gyflwynir flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2020/21, ac wedyn y byddai'r nifer a gyflwynir yn aros yn sefydlog.

688. Gellid talu rhai o'r costau hyn pe byddai'r Llys Ynadon yn dyfarnu cyfraniad tuag at y costau erlyn i'r awdurdod lleol os yw'r achos yn llwyddiannus. Fodd bynnag, gallai'r llys orchymyn hefyd i'r awdurdod lleol ddigolledu unigolyn am incwm y mae wedi'i golli. Nid yw'r costau hyn wedi eu cynnwys gan ei bod yn anodd eu hamcangyfrif oherwydd eu bod yn amrywio cymaint.

[409] Data a ddarparwyd gan awdurdodau lleol.
[410] Yn seiliedig ar y costau sy'n gysylltiedig â'r Gorchmynion Rhan 2A presennol.

689. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gadw cofrestr o drwyddedau triniaethau arbennig a mangreoedd cymeradwy, a fydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Disgwylir y byddai'r awdurdodau lleol yn defnyddio eu gwefannau eu hunain i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd, a hynny am gost ychwanegol fach. Fodd bynnag, fe fyddai cost ar gyfer cynnal y wybodaeth a sicrhau ei bod yn gyfredol. Amcangyfrifir mai oddeutu £9,200 fyddai'r gost flynyddol i'r awdurdodau lleol sicrhau bod eu data yn gywir (2 awr o amser gweinyddu y mis fesul awdurdod lleol).

690. Mae'n debygol hefyd y byddai llywodraeth leol yn wynebu costau staff eraill yn gysylltiedig â datblygu'r canllawiau, mynd i sesiynau hyfforddi, codi ymwybyddiaeth yn gyffredinol ac ymdrin ag ymholiadau ad hoc ynghylch y ddeddfwriaeth newydd. Amcangyfrifir y byddai mwy o'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd a'r flwyddyn gyntaf ar ôl ei chyflwyno, ac at ei gilydd, byddai'n dod i ddim mwy na'r hyn sy'n cyfateb i fis o amser Swyddog Iechyd yr Amgylchedd cyfwerth ag amser llawn[411] fesul awdurdod lleol bob blwyddyn yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, gan ostwng i hanner y swm hwn ar gyfer y blynyddoedd dilynol. Byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £76,000 (£3,450 fesul awdurdod lleol) yn 2016/17 a 2017/18, a'r gost yn lleihau ar ôl hynny i oddeutu £38,000 (£1,725 fesul awdurdod lleol). Fodd bynnag, disgwylir y gellid arbed arian yn gyffredinol trwy gyfuno'r gwaith hwn â'r gwaith ar gyfer y gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff unigolion o dan 16 oed. Ar hyn o bryd, nid oes modd rhoi amcangyfrif cywir o'r arbedion cost potensial hyn.

*Tabl 7.30*

| **Costau cydymffurfiad a chostau gweinyddol eraill** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17 (£)** | **2017/18 (£)** | **2018/19 (£)** | **2019/20 (£)** | **2020/21 (£)** |
| Archwiliadau cydymffurfiad blynyddol | 78,500* | 78,500 | 78,500 | 78,500 | 78,500 |
| Cyflwyno Hysbysiadau Camau Adfer | - | 57,000 - 114,000 | 51,300 – 102,600 | 46,200 - 92,300 | 41,600 – 83,100 |
| Atal gweithgareddau didrwydded | 8,000 – 33,000* | 40,000 – 142,000 | 36,000 – 127,800 | 32,400 - 115,000 | 29,200 – 103,500 |
| Cynnal data ar y gofrestr | - | 9,200 | 9,200 | 9,200 | 9,200 |
| Costau cyffredinol eraill | 76,000 | 76,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 |
| **Cyfanswm y costau** | **162,500 – 187,500** | **260,700 – 419,700** | **213,000 – 356,100** | **204,300 – 333,000** | **196,500 – 312,300** |

*y gost o dan y system gofrestru bresennol (Opsiwn 1)

[411] Costau wedi eu seilio ar bwynt 37 ar raddfa gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol, yn ogystal â chynnydd o 30% i gynnwys argostau.

691. Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi awdurdodau lleol i osod ffioedd rhesymol i dalu costau gweinyddu ceisiadau yn ogystal â gweithredu a gorfodi'r system drwyddedu. O ganlyniad, byddai modd i awdurdodau lleol adennill costau i raddau sylweddol wrth weinyddu'r system. Byddai'r ffïoedd trwyddedu/cymeradwyo, ynghyd â'r cyllid craidd a ddarperir i'r awdurdodau lleol trwy'r Grant Cynnal Refeniw, yn talu'r gost o weithredu'r system drwyddedu.

Ymarferwyr a busnesau sy'n rhoi triniaethau arbennig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio)

692. Byddai ymarferwyr a busnesau yn debygol o wynebu costau yn sgil yr amser a dreulir yn ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd a'r canllawiau cysylltiedig. Er yr amcangyfrifir mai oddeutu 25,000 o eiriau fydd y canllawiau, byddent yn amlinellu'n fanwl yr ymarfer a argymhellir ar gyfer pob triniaeth arbennig. Mae'n annhebygol felly y bydd angen i ymarferwyr ddarllen y ddogfen gyfan yn drylwyr. Tybir mai dim ond y canllawiau ar gyfer y driniaeth/triniaethau y maent yn eu cyflawni y byddai'r ymarferwyr yn eu darllen, sef chwarter y canllawiau cyfan, yn ôl yr hyn a amcangyfrifir. Gan y gellid erlyn ymarferwyr sy'n peidio â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd, rhagwelir y byddai angen mwy o amser ar gyfer y gwaith ymgyfarwyddo hwn (3 awr) nag yn achos Opsiwn 2. Fodd bynnag, ystyrir bod y tybiaethau eraill sy'n ymwneud â'r gwaith hwn, a nodir ar gyfer Opsiwn 2, yn parhau i fod yn berthnasol. Byddai hyn yn awgrymu mai oddeutu £99,800 fyddai cyfanswm y gost ar gyfer y gwaith ymgyfarwyddo hwn i fusnesau yn 2017/18. Mae hyn yn cyfateb i gost o £48 fesul ymarferydd, o ystyried bod cyfanswm o 2,086 o ymarferwyr. Byddai costau blynyddol rheolaidd i ymarferwyr newydd ar gyfer ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth newydd.

693. Fel yn achos Opsiwn 2, byddai'r canllawiau'n cael eu diweddaru bob 3 blynedd, a gallai ymarferwyr a busnesau wynebu rhywfaint o gostau bryd hynny yn ymgyfarwyddo â'r canllawiau diwygiedig a rhoi unrhyw newidiadau angenrheidiol ar waith. Gan mai canllawiau diwygiedig fyddai'r rhain, rhagwelir na fyddai'r costau hyn yn fwy na hanner y costau yn 2017/18, sef amcangyfrif o £49,900. Disgwylir y byddent yn cael eu diweddaru am y tro cyntaf yn 2010/21.

*Tabl 7.31*

| **Costau ymgyfarwyddo i ymarferwyr** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17 (£)** | **2017/18 (£)** | **2018/19 (£)** | **2019/20 (£)** | **2020/21 (£)** |
| Costau ymgyfarwyddo | 0 | 99,800 | 18,600 | 18,600 | 18,600 |
| Costau ymgyfarwyddo â'r canllawiau diwygiedig | 0 | 0 | 0 | 0 | 49,900 |
| **Cyfanswm y costau** | **0** | **99,800** | **18,600** | **18,600** | **68,500** |

694. Byddai'n ofynnol i ymarferwyr a busnesau gyflwyno cais i'r awdurdod lleol am drwydded neu gymeradwyaeth ar gyfer mangre. Disgwylir y byddai'r broses hon yn un syml ac y byddai'n cael ei dilyn ar-lein yn y rhan fwyaf o'r achosion. Er mai'r bwriad fyddai cadw'r broses mor syml â phosibl, byddai'r staff yn treulio rhywfaint o amser yn cwblhau'r cais. Disgwylir y byddai'n cymryd oddeutu 30 munud i baratoi cais. O dan y ddeddfwriaeth, byddai angen i drwydded triniaethau arbennig ymarferydd gynnwys llun o ddeiliad y drwydded. Mewn rhai achosion, gallai hyn olygu bod angen i'r ymgeisydd fynd i swyddfa'r awdurdod lleol i gael tynnu'r llun. O ganlyniad, byddai'n cymryd cyfanswm o oddeutu 1.5 awr i gyflwyno cais am drwydded triniaethau arbennig.

695. Gan dybio bod cyflog gros cyfartalog yr awr ymarferydd yn £15.94[412,413], ac y byddai 2,086 o geisiadau ar gyfer trwyddedau, ac 890 ar gyfer cymeradwyaethau mangreoedd[414], amcangyfrifir mai oddeutu £57,000 fyddai cyfanswm y costau am gyflwyno ceisiadau. Byddai costau blynyddol o £10,600 ar gyfer cwblhau ceisiadau newydd. Byddai'r trwyddedau'n cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, ond tybir y byddai'r gost i fusnes am gwblhau'r ceisiadau yn cael ei haneru gan y byddai'r broses yn symlach.

*Tabl 7.32*

| **Cost cyfle cwblhau cais** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17 (£)** | **2017/18 (£)** | **2018/19 (£)** | **2019/20 (£)** | **2020/21 (£)** |
| Ceisiadau mangreoedd | 4,500* | 7,100 | 1,500 | 1,500 | 1,500 |
| Ceisiadau ymarferwyr | | 49,900 | 9,100 | 9,100 | 9,100 |
| Adnewyddu cymeradwyaeth mangre | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,300 |
| Adnewyddu trwydded ymarferydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 11,300 |
| **Cyfanswm y costau** | **4,500*** | **57,000** | **10,600** | **10,600** | **23,200** |

*y gost o dan y system gofrestru bresennol (Opsiwn 1)

[412] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (artist). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425
[413] Mae'r cyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% i gynnwys argostau.
[414] Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol

696. Yn ychwanegol at yr amser staff ar gyfer y broses o wneud cais, byddai ffi'n cael ei chodi am gael trwydded unigol neu gymeradwyaeth mangre. Câi strwythur y ffi ei bennu gan bob awdurdod lleol ond byddai Llywodraeth Cymru'n annog yr awdurdodau lleol i osod ffioedd cyffredinol, cymesur. Disgwylir y byddai trwydded unigol yn costio £60, a chymeradwyaeth mangre yn costio £170. Byddai hyn yn dod i gyfanswm cychwynnol o £276,500 a fyddai'n cael ei hysgwyddo yn 2017/18. Gan dybio bod 190 o fusnesau newydd yn cael eu sefydlu bob blwyddyn, a 380 o ymarferwyr newydd yn cofrestru, byddai costau blynyddol rheolaidd o £55,100 ar gyfer cofrestriadau newydd. Byddai trwyddedau'n cael eu hadnewyddu bob tair blynedd fel a nodir yn y tabl isod:

*Tabl 7.33*

| **Costau cofrestru** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17 (£)** | **2017/18 (£)** | **2018/19 (£)** | **2019/20 (£)** | **2020/21 (£)** |
| **Costau unigolion a mangreoedd** | 52,400* | 276,500 | 55,100 | 55,100 | 55,100 |
| **Costau adnewyddu** | 0 | 0 | 0 | 0 | 166,300 |
| **Cyfanswm y costau** | 52,400* | 276,500 | 55,100 | 55,100 | 221,400 |

*y costau o dan y system gofrestru bresennol (Opsiwn 1)

697. Disgwylir y byddai mwyafrif yr ymarferwyr yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Byddai hysbysiad atal yn cael ei gyflwyno mewn ymateb i achosion o dorri'r ddeddfwriaeth, megis cynnal triniaethau arbennig heb fod â thrwydded neu gynnal triniaethau arbennig mewn mangreoedd nad ydynt wedi eu cymeradwyo. Byddai torri amodau hysbysiad atal yn destun dirwy anghyfyngedig i adlewyrchu difrfioldeb y drosedd. Nid yw'n bosibl rhoi ffigur pendant ar gyfer y dirwyon a roddid, gan y byddai gan y Llysoedd Ynadon lawer o ddisgresiwn ynghylch hyn. Fodd bynnag, at ddibenion yr ymarfer hwn, defnyddiwyd dirwy o £5,000 ar gyfer y cyfrifiadau. Amcangyfrifwyd yn gynharach y gellid cyflwyno oddeutu 50 hysbysiad atal i unigolion yn y flwyddyn gyntaf. Rhagwelir y byddai oddeutu 10 o'r rhain yn arwain at ddirwy. O ganlyniad, hyd at £50,000 fyddai cyfanswm y gost flynyddol i ymarferwyr anghofrestredig yn y flwyddyn gyntaf (2017/18). Amcangyfrifwyd yn gynharach y byddai gostyngiad o 10% yn nifer yr hysbysiadau atal a gyflwynir flwyddyn ar ôl blwyddyn. Byddai'r un gostyngiad yn berthnasol i'r dirwyon a gyflwynir. Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi fyddai'n cadw'r enillion o'r ffïoedd hyn. Rhagwelir mai nifer fach iawn o apeliadau a fyddai'n cael eu cyflwyno yn erbyn hysbysiadau atal.

698. Amcangyfrifwyd uchod y byddai rhwng 150 a 300 o Hysbysiadau Camau Adfer yn cael eu cyflwyno i ymarferwyr a mangreoedd cofrestredig yn ystod y flwyddyn gyntaf, yn nodi'r camau gofynnol er mwyn bodoli'r amodau trwyddedu mandadol. Amcangyfrifwyd hefyd y byddai gostyngiad o 10% yn nifer yr

Hysbysiadau Camau Adfer a gyflwynir flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rhagwelir y byddai'r ymarferwyr a'r mangreoedd, yn y rhan fwyaf o'r achosion, yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i gyflawni'r camau adfer a argymhellwyd. Gan y gallai cost camau adfer amrywio'n fawr, ac nad yw'n hysbys hyn o bryd, nid yw wedi ei hamcangyfrif yma.

699. Byddai unrhyw un sy'n torri Hysbysiad Camau Adfer yn derbyn dirwy anghyfyngedig. Amcangyfrifir y byddai 5% o'r Hysbysiadau Camau Adfer a gyflwynir yn arwain at ddirwy oherwydd peidio â chydymffurfio. Gan dybio y byddai cyfanswm y dirwyon unigol yn £5,000, gallai cyfanswm cost y dirwyon i ymarferwyr a busnesau felly fod rhwng £37,500 a £75,000 yn ystod y flwyddyn gyntaf (2017/18). Rhagwelir y byddai'r gost hon yn gostwng oddeutu 10% flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2020/21 ac wedyn y byddai'r nifer a gyflwynir yn aros yn sefydlog.

700. Byddai'r ddeddfwriaeth o dan yr opsiwn hwn yn darparu proses apeliadau fel bod modd cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol i'r Llys Ynadon. O ystyried mai nifer fach o achosion y disgwylir i Lys Ynadon eu hystyried, ychydig iawn o effaith a fyddai ar lysoedd yng Nghymru. Nid oes fframwaith manwl o'r costau wedi cael ei drafod rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eto, felly nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd.

701. Cydnabyddir y bydd y sector yn wynebu costau ychwanegol yn sgil y gofynion ar y busnesau hynny sy'n rhoi triniaethau arbennig yng Nghymru. Fodd bynnag, ystyrir bod y costau ychwanegol hyn yn rhai y gellid eu cyfiawnhau ar sail amddiffyn iechyd y cyhoedd.

702. Gan y byddai'r costau a wynebir gan fusnesau yn gymesur â maint y busnes, disgwylir mai effaith fach a welir ar gystadleuaeth. Hefyd, gallai trefn reoleiddio well roi mwy o hyder i'r cyhoedd yn y sector triniaethau arbennig yng Nghymru ac arwain at gael mwy o gwsmeriaid.

Llysoedd

703. Gellid cyflwyno apeliadau i'r Llys Ynadon mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth (megis apêl yn erbyn gwrthod cais am drwydded neu gymeradwyo mangre, neu yn erbyn dirwyon a godwyd ynglŷn â chamau gorfodi, megis torri amodau Hysbysiad Camau Adfer). Fodd bynnag, disgwylir y byddai awdurdodau lleol yn cynorthwyo ymarferwyr a busnesau, ac yn rhoi'r cyfle iddynt gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth cyn cymryd unrhyw gamau ychwanegol. Gan y byddai llawer o sylwadau'n cael eu clywed yn gyntaf gan bwyllgor trwyddedu awdurdodau lleol, disgwylir mai nifer fach iawn o apeliadau a fyddai'n cael eu cyflwyno i Lys Ynadon, sef 10-15 o achosion bob blwyddyn yng Nghymru, yn ôl yr hyn a amcangyfrifwyd. Nid oes fframwaith manwl o'r costau wedi cael ei drafod rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eto, felly nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd.

*Tabl 7.34* Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 3A

| **Sector** | **Blwyddyn** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** |

| | £ | £ | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau i Lywodraeth Cymru** | | | | | |
| Datblygu, dylunio, cyfieithu, paratoi a dosbarthu dwy gyfres o ganllawiau | 38,200 | 0 | 0 | 3,800 | 0 |
| Costau staff ar gyfer adolygu'r canllawiau | 0 | 0 | 0 | 1,800 | 0 |
| Sesiynau hyfforddi | 5,800 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ar gyfer ymarferwyr / busnesau ac aelodau o'r cyhoedd | 20,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **64,000** | **0** | **0** | **5,600** | **0** |
| **Costau ychwanegol** | **61,500** | **-2,500** | **-2,500** | **3,100** | **-2,500** |
| **Costau i Awdurdodau Lleol** | | | | | |
| Costau trwyddedau ymarferwyr a chofrestru mangreoedd | 32,300* | 276,500 | 55,100 | 55,100 | 55,100 |
| Costau adnewyddu | 0 | 0 | 0 | 0 | 166,300 |
| Archwiliadau cydymffurfio blynyddol | 78,500* | 78,500 | 78,500 | 78,500 | 78,500 |
| Cyflwyno Hysbysiadau Camau Adfer / archwiliadau | 11,900 | 57,000 – 114,000 | 51,300 – 102,600 | 46,200 – 92,300 | 41,600 – 83,100 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| cydymffurfio | | | | | |
| Atal gweithgaredd anhrwyddedig | 8,800 – 33,000* | 40,000 – 142,000 | 36,000 – 127,800 | 32,400 – 115,000 | 29,200 – 103,500 |
| Cynnal data ar y gofrestr | - | 9,200 | 9,200 | 9,200 | 9,200 |
| Costau cyffredinol eraill | 76,000 | 76,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 |
| **Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol** | **207,500 – 231,700** | **537,200 – 696,200** | **268,100 – 411,200** | **259,400 – 388,100** | **417,900 – 533,700** |
| **Costau ychwanegol** | **61,000** | **166,600-301,400** | **118,900-237,800** | **110,200-214,700** | **97,400-189,000** |
| **Costau i fusnesau** | | | | | |
| Costau ymgyfarwyddo â'r canllawiau | 0 | 99,800 | 18,600 | 18,600 | 68,500 |
| Costau cyfle cwblhau cais | 4,500* | 57,000 | 10,600 | 10,600 | 23,200 |
| Costau cofrestru | 52,400* | 276,500** | 55,100** | 55,100** | 221,400** |
| Hysbysiadau Camau Adfer sy'n arwain at ddirwy anghyfyngedig | 0 | 37,500-75,000 | 33,800-67,500 | 30,400-60,800 | 27,300-54,700 |
| **Cyfanswm y costau i fusnesau** | **56,900*** | **470,800 – 508,300** | **118,100-151,800** | **114,700 - 145,100** | **340,400 - 367,800** |
| **Costau ychwanegol** | **0** | **413,900-451,400** | **61,200-94,900** | **57,800-88,200** | **283,500 - 310,900** |
| **Costau i ymarferwyr anghofrestredig** | | | | | |
| Hysbysiadau Atal a gyflwynir – dirwy anghyfyngedig | 0 | 50,000 | 45,000 | 40,500 | 36,500 |
| **Costau ychwanegol** | **0** | **50,000** | **45,000** | **40,500** | **36,500** |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y costau**** | **276,000-300,200** | **781,500-978,000** | **376,100-552,900** | **365,100 - 524,400** | **573,400 - 716,600** |
| **Costau ychwanegol ar ben Opsiwn 1** | **122,500** | **628,000-800,300** | **222,600-375,200** | **211,600 - 346,500** | **414,900 - 533,900** |

*costau o dan y system gofrestru bresennol (Opsiwn1)
**nid yw ffïoedd cofrestru untro a wynebir gan ymarferwyr a busnesau wedi eu cynnwys yng nghyfanswm y gost, gan eu bod yn cael eu talu i awdurdodau lleol a'u defnyddio i wrthbwyso'r costau ar gyfer gweinyddu'r cynllun trwyddedu.

**Manteision**

Arbedion y GIG

704. Mantais bennaf y system drwyddedu fyddai arbed arian i'r GIG ac iechyd yr unigolyn. Fel yr eglurwyd yn gynharach, ceir risgiau iechyd hysbys yr adroddir yn helaeth amdanynt ac y gellir eu priodoli i unrhyw driniaethau sy'n golygu treiddio trwy'r croen. O dan Opsiwn 1, amcangyfrifwyd bod y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â thatŵio a thyllu cosmetig yn arwain at gostau o £49,200 - £175,400 o leiaf i'r GIG bob blwyddyn. Byddai unrhyw leihad yn y cymhlethdodau sy'n deillio o driniaethau arbennig yn lleihau costau i'r GIG.

705. Byddai unrhyw gymhlethdodau y llwyddir i'r hosgoi hefyd yn arwain at enillion QALY i unigolion, ond ni ellir eu mesur yma. Pennor gwerth o £60,000 i un QALY. A derbyn mai rhwng £1,358,900 a £1,834,400 dros y cyfnod o bum mlynedd yw cost net gronnus Opsiwn 3A uwchlaw cost cynnal y status quo a amlinellir yn Opsiwn 1, byddai'n rhaid i'r cynllun trwyddedu arwain at enillion QALY o rhwng 23 a 31 er mwyn bod yn niwtral o ran cost.

Manteision eraill

706. Ystyrir bod y ddeddfwriaeth bresennol yn annigonol i amddiffyn y cyhoedd yn ddigonol – barn a ategir gan ymatebion rhanddeiliaid i ymgynghoriad i'r Papur Gwyn ar Iechyd y Cyhoedd.[415] O dan yr opsiwn hwn, byddai'r system drwyddedu yn gosod gofynion ar ymarferwyr a busnesau a disgwylid iddynt wella safonau a sicrhau y cynhelir yr holl driniaethau arbennig mewn modd diogel a phriodol. Gan y byddai'r ddeddfwriaeth hefyd yn darparu dulliau gorfodi priodol, disgwylir y byddai'r awdurdodau lleol yn canfod eu bod yn gallu ymdrin ag achosion o dorri gofynion mewn modd mwy syml, a diogelu iechyd y cyhoedd yn fwy effeithiol oherwydd hynny. Yn ogystal, mae'n annhebygol y byddai angen i awdurdodau lleol fwrw ymlaen â Gorchmynion Rhan 2A, gan y byddai ganddynt ddulliau mwy effeithiol o ymdrin ag ymarfer heb ei awdurdodi.

707. Byddai'r rhan fwyaf o'r deiliaid trwydded sy'n cyflawni triniaethau arbennig, a'r mangreoedd lle y'u cynhelir, hefyd yn elwa o safbwynt enw da. Trwy fodloni'r

[415] http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/publichealth/skip=1&lang=cy

gofynion trwyddedu, byddent yn gallu dangos yn annibynnol i'r cyhoedd eu bod yn cadw at safonau hylendid a glanweithdra priodol, yn ogystal â'u hamddiffyn eu hunain rhag risgiau iechyd trwy ddefnyddio gweithdrefnau rheoli heintiau priodol.

708. Byddai'r pecyn cyfathrebu a amlinellwyd yn gynharach yn bwysig er mwyn sicrhau bod ymarferwyr a busnesau, yn ogystal â'r cyhoedd, yn ymwybodol o'r system drwyddedu. Byddai'r cyhoedd yn fwy ymwybodol o beryglon defnyddio ymarferwyr didrwydded a mangreoedd nad ydynt wedi eu cymeradwyo, yn ogystal â pheryglon cyflawni'r triniaethau arnynt eu hunain neu ar eu ffrindiau. Gan y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd am y trwyddedau a gyhoeddwyd ganddynt a'r mangreoedd y maent wedi eu cymeradwyo, gallai unrhyw un sy'n dymuno cael triniaeth arbennig edrych ar wefan eu hawdurdod lleol i weld pa ymarferwyr a busnesau sydd wedi bodloni'r safonau cenedlaethol. Byddai hyn o gymorth i wneud y drefn yn fwy tryloyw a sicrhau bod gan bobl fwy o wybodaeth ynglŷn â thriniaethau arbennig.

709. Yn ogystal â'r arian y gallai'r GIG ei arbed, fel y'i nodir uchod, gallai fod manteision economaidd ehangach i'r system drwyddedu pe byddai gwelliant yn safonau'r sector yn arwain at lai o achosion o absenoldeb o'r gweithlu oherwydd cymhlethdodau iechyd ar ôl cael triniaeth.

**Opsiwn 3B – Cyflwyno system drwyddedu ar gyfer Triniaethau Arbennig ynghyd â chofrestr ganolog o'r holl ymarferwyr trwyddedig a mangreoedd (neu gerbydau) cymeradwy sy'n darparu triniaethau arbennig**

710. Yn ogystal â'r system drwyddedu genedlaethol, orfodol a nodir yn Opsiwn 3A, byddai'r opsiwn hwn hefyd yn golygu datblygu gwefan i ddarparu cofrestr genedlaethol, ganolog o'r holl ymarferwyr trwyddedig a mangreoedd (gan gynnwys cerbydau) cymeradwy sy'n darparu triniaethau arbennig yng Nghymru. Byddai'r gofrestr ganolog yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol arweiniol, a byddai ar gael i'r holl awdurdodau lleol at ddibenion gorfodi. Byddai hefyd ar gael i aelodau o'r cyhoedd ei gweld. O ganlyniad, mae'r asesiad o gostau a manteision o dan Opsiwn 3B yn canolbwyntio yn unig ar yr elfen sy'n ychwanegol at Opsiwn 3A.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

711. Byddai'r holl gostau a drafodwyd o dan Opsiwn 3A yn cael eu hailadrodd yn yr opsiwn hwn. Yn ogystal, byddai costau ar gyfer datblygu'r gofrestr ganolog ac ar gyfer y gwaith parhaus o'i rheoli.

712. Fe fyddai cost gychwynnol ar gyfer datblygu'r gofrestr. Byddai'n cael ei datblygu a'i chynnal ar-lein, gyda gwybodaeth yn cael ei chasglu am ymarferwyr a mangreoedd o dan y system drwyddedu (a amlinellir yn llawn o dan Opsiwn 3A) a'i bwydo i mewn i'r gofrestr ganolog. Gallai Llywodraeth Cymru gaffael y gwaith o ddatblygu'r gofrestr neu gallai awdurdod lleol arweiniol wneud y gwaith. Yn seiliedig ar wybodaeth o gofrestr manwerthwyr tybaco'r Alban, amcangyfrifir mai oddeutu £26,900 fyddai cost gychwynnol y gwaith datblygu, a hwnnw'n daladwy yn 2016/17.

713. Byddai angen amser staff i gaffael a rheoli'r contract ar gyfer datblygu'r wefan. Amcangyfrifir y byddai hyn yn gofyn am oddeutu tair wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n costio oddeutu £2,800 yn 2016/17.

Awdurdodau lleol

714. Byddai angen amser staff i fwydo data a gesglid gan bob awdurdod lleol i mewn i'r gofrestr ganolog. Amcangyfrifir y byddai angen oddeutu tair wythnos o amser Swyddog Gweinyddol cyfwerth ag amser llawn i drosglwyddo'r data i gofrestr ganolog. Mae hyn yn cyfateb i £2,100 a fyddai'n daladwy yn 2017/18.

715. Ar ôl i gofrestr ganolog gael ei sefydlu, byddai'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal y data sy'n berthnasol i'w ardal, a'u diweddaru fel y bo angen. Byddai'r gofyniad hwn yn debyg i'r un yn Opsiwn 3A lle y bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddarparu manylion i'r cyhoedd am yr holl drwyddedau a mangreoedd cymeradwy ym maes triniaethau arbennig. O dan Opsiwn 3A, amcangyfrifwyd mai oddeutu £9,200 fyddai'r gost weinyddu flynyddol i'r awdurdodau lleol o 2017/18 ymlaen (dwy awr o amser Swyddog Gweinyddol y mis fesul awdurdod lleol). Rhagwelir y byddai'r costau hyn yn cael eu hailadrodd o dan yr opsiwn hwn, gan y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi'r data mewn cofrestr ganolog.

716. Yn ogystal â'r costau datblygu, byddai costau rheoli TGCh rheolaidd. Byddai'r costau rheolaidd hyn yn cynnwys materion cynnal a chadw megis gwneud copïau wrth gefn o'r data rhag eu colli, costau gweinydd, a chostau i ddatrys problemau technegol. Yn seiliedig ar wybodaeth o'r Alban (ynglŷn â'i chofrestr manwerthwyr tybaco), rhagwelir y gallai'r costau blynyddol hyn fod oddeutu £10,000, i gael eu rhannu rhwng yr awdurdodau lleol. Byddai'r rhain yn daladwy o 2017/18 ymlaen.

Ymarferwyr a busnesau sy'n cynnal triniaethau arbennig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio)

717. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i ymarferwyr a busnesau ar ben y rhai a amlinellir o dan Opsiwn 3A. Ni fyddai angen darparu unrhyw wybodaeth ar ben y gofynion a nodir yn y system drwyddedu o dan Opsiwn 3A.

718. Byddai'r holl gostau a amlinellir o dan Opsiwn 3A yn berthnasol i'r opsiwn hwn. Mae'r costau a amlinellir isod yn ychwanegol at y costau a nodir yn Opsiwn 3A.

*Tabl 7.35* crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 3B

| | **2016/17 £** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Rheoli contract ar gyfer datblygu'r wefan | 2,800 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu cofrestr ganolog | 26,900 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **29,700** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Awdurdodau Lleol** | | | | | |
| Trosglwyddo data cychwynnol | 0 | 2,100 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnal y gofrestr a diweddaru'r data | 0 | 9,200 | 9,200 | 9,200 | 9,200 |
| Costau cynnal TGCh | 0 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| **Cyfanswm y costau i Awdurdodau lleol** | **0** | **21,300** | **19,200** | **19,200** | **19,200** |
| **Cyfanswm y Costau (yn ychwanegol i Opsiwn 3A)** | **29,700** | **21,300** | **19,200** | **19,200** | **19,200** |

**Manteision**

Arbedion i'r GIG

719. Byddai'r holl arbedion i'r GIG a amlinellir o dan Opsiwn 3A yn cael eu hailadrodd o dan yr opsiwn hwn.

Awdurdodau lleol

720. Gan y byddai'r holl wybodaeth am ddeiliaid trwydded a mangreoedd mewn un gronfa ddata ganolog, a'r wybodaeth ynglŷn â gorfodi ar gael i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru, disgwylir y byddai cofrestr ganolog yn cynorthwyo awdurdodau lleol gyda'u cyfrifoldebau monitro a gorfodi. Byddai hyn yn arbennig o wir o ran ymarferwyr a fyddai'n gweithredu ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Ni ellir mesur y fantais hon.

Ymarferwyr a busnesau sy'n cyflawni triniaethau arbennig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio)

721. Byddai'r gofrestr ganolog yn cynorthwyo ymarferwyr a busnesau i godi ymwybyddiaeth o'u statws fel pobl sydd wedi bodloni'r gofynion trwyddedu, ac yn

galluogi darpar gleientiaid i gysylltu â hwy. Yn ogystal, pe byddai ymarferydd, busnes neu aelod o'r cyhoedd yn dod i wybod bod unigolyn yn gweithredu'n groes i'r ddeddfwriaeth, byddai'n gallu edrych ar y gofrestr ganolog a hysbysu'r awdurdod lleol.

Y cyhoedd

722. Byddai cyfleuster canolog, hygyrch ar gael i'r cyhoedd y gallent chwilio drwyddo i ddod o hyd i ymarferydd trwyddedig, neu fangre wedi ei chymeradwyo yn eu hardal. Er y byddai'r wybodaeth hon hefyd ar gael o dan Opsiwn 3A, ni fyddai angen i aelodau o'r cyhoedd fod yn ymwybodol o ffiniau awdurdodau lleol er mwyn chwilio am ymarferwyr lleol a bod yn ffyddiog fod yr ymarferydd neu'r busnes a ddewisir ganddynt ar gyfer rhoi triniaeth arbennig wedi bodloni'r safonau cenedlaethol.

**Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir**

723. Mae Opsiwn 1 yn parhau â'r status quo ac nid yw'n bodloni'r amcan polisi. Mae'n parhau â'r sefyllfa lle y mae awdurdodau lleol yn mabwysiadu dulliau anghyson o orfodi, a lle yr ystyrir bod y pwerau sydd ar gael i reoli busnesau sy'n darparu gwasanaeth aciwbigo, tatŵio, lliwio'r croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis yn annigonol.

724. Mae Opsiwn 2 yn darparu canllawiau ar sail wirfoddol. Gallai hyn annog ymarferwyr a busnesau i gymryd camau i atgyfnerthu eu hymarfer a'u polisïau cyfredol ar gyfer cynnal y triniaethau, neu annog y rhai hynny nad oes ganddynt bolisi ar hyn o bryd i ddatblygu un. Gallai'r cyhoedd hefyd fod yn fwy ymwybodol o'r problemau iechyd posibl sydd ynghlwm wrth y triniaethau hyn a phwysigrwydd sicrhau bod yr ymarferydd/busnes y maent yn ymweld ag ef wedi ei gofrestru. Fodd bynnag, gan fod yr opsiwn hwn wedi ei seilio ar gamau gwirfoddol yn unig, nid yw'r effaith yn debygol o fod yn sylweddol.

725. Mae Opsiwn 3A yn cynnig system drwyddedu fandadol ar gyfer y rhai hynny sy'n darparu triniaethau arbennig yng Nghymru, ynghyd â safonau cenedlaethol cysylltiedig. Yn hynny o beth, y nod fyddai gwella safonau a sicrhau bod y triniaethau hyn yn cael eu rheoleiddio'n well ac mewn modd mwy cyson ledled Cymru. Ystyrir bod y canllawiau ategol a'r gweithgarwch cyfathrebu yn darparu'r cydbwysedd gorau rhwng cost a'r tebygrwydd o gyflawni'r amcan polisi, a'r manteision diriaethol ac anniriaethol i gleientiaid, y GIG, ymarferwyr a busnesau.

726. Er bod Opsiwn 3A yn darparu ar gyfer cynllun trwyddedu ac yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyhoeddi gwybodaeth ynglŷn ag ymarferwyr a busnesau, mae Opsiwn 3B yn ehangu'r rhain ymhellach trwy greu cofrestr ganolog o ymarferwyr a mangreoedd. Cydnabyddir y byddai cofrestr ganolog o'r fath yn cyflwyno rhai manteision i awdurdodau lleol, busnesau a'r cyhoedd, gan ei gwneud yn haws iddynt gael gafael ar wybodaeth. Fodd bynnag, o dderbyn y darpariaethau a fyddai eisoes yn cael eu gwneud o dan Opsiwn 3A, rhagwelir mai bach iawn fyddai unrhyw fanteision ychwanegol o dan yr opsiwn hwn. O ganlyniad, Opsiwn 3A yw'r opsiwn a ffefrir ar hyn o bryd. Gellid rhoi mwy o ystyriaeth i Opsiwn 3B yn ei dro.

## Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff (Rhan 4)

### Opsiynau

727. Ystyriwyd tri opsiwn:
- Opsiwn 1 – Gwneud dim;
- Opsiwn 2 – Cyhoeddi canllawiau i ymarferwyr/busnesau i annog yn erbyn rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person sydd o dan 16 oed; ac
- Opsiwn 3 – Cyflwyno gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff person sydd o dan 16 oed. Hwn yw'r opsiwn a ffefrir.

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

### Disgrifiad

728. Ni fyddai unrhyw newid i'r sefyllfa bresennol o dan yr opsiwn hwn. Er bod rhai ymarferwyr/busnesau yng Nghymru yn gwrthod rhoi twll mewn rhan bersonol o gyrff pobl ifanc (tyllu'r tethi, bronnau, yr organau cenhedlu, y ffolennau neu'r tafod), byddai'n dal yn bosibl o dan y gyfraith i berson o dan 16 oed gael twll mewn rhan bersonol o'r corff pe byddent yn dymuno.

### Costau

729. Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw newid, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y GIG yn parhau i ysgwyddo rhywfaint o gostau iechyd. Mae'n hysbys y gall tyllu'r corff arwain at gymhlethdodau, megis chwyddiadau, haint, gwaedu, alergedd a rhwyg neu anaf[416]. Gellir achosi niwed i'r nerfau a chreithio hefyd os bydd y triniaethau'n cael eu gwneud yn wael. Yn ogystal â hyn, o ran tyllu'r tafod yn benodol, cafwyd adroddiadau o dorri a tholcio dannedd.[417] Er bod cymhlethdod yn sgil tyllu'r corff yn brin, gall arwain at dderbyn i'r ysbyty a gall fod yn arbennig o ddifrifol i'r rhai sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol.

730. Gellir amcangyfrif mai oddeutu £34 fyddai'r costau iechyd yn gysylltiedig ag un achos o dwll heintiedig mewn rhan bersonol o'r corff sy'n cael ei drin â gofal sylfaenol, fel y'u dangosir yn y tabl isod:-

*Tabl 7.36*

| Disgrifiad | Cost (£) |
|---|---|
| Ymgynghoriad â Meddyg Teulu[418] | 31.70 |

[416] Bone A, Ncube F, Nichols T a Noah ND (2008) Body piercing in England: a survey of piercing at sites other than earlobe BMJ *336* 1426

[417] Stead LR, Williams JV, Williams AC a Robinson CM (2006) 'An investigation into the practice of tongue piercing in the South West of England', 'British Dental Journal' *200* 103-107.

[418] Amcangyfrifwyd y gost gan Lywodraeth Cymru, ar sail y ffaith mai £430 miliwn yw cost uniongyrchol darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol drwy'r contract, y darperir 16,953 o ymgynghoriadau i boblogaeth Cymru o 3.082,400 a bod 25% o'r ymgynghoriadau'n cael eu heithrio

| | |
|---|---|
| Cost triniaeth ar gyfer haint ar y croen y gellir ei briodoli i dwll mewn rhan bersonol o'r corff[419] | (cwrs 7 diwrnod o dabledi gwrthfiotig)<br>2.63 |

731. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y costau hyn yn gywir o safbwynt y GIG yng Nghymru. Er bod data o astudiaethau achos ar nifer y bobl ifanc yng Nghymru sy'n cael rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff – er enghraifft, nodwyd bod 6 o bobl ifanc o dan 16 oed wedi cael rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn yr ymarfer edrych yn ôl yn dilyn yr achos heintiau ar y croen mewn stiwdio tyllu a thatŵio yng Nghasnewydd[420] - nid yw'n hysbys beth yw cyfanswm nifer y bobl ifanc o dan 16 oed yng Nghymru sydd wedi cael tyllu'r corff. Nid oes tystiolaeth benodol ychwaith ar gyfradd y cymhlethdodau iechyd i bobl yn y grŵp oedran hwn sy'n cael rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff.

732. Gan fod data o wledydd eraill hefyd yn brin, mae amcangyfrif o'r costau iechyd sy'n deillio o'r opsiwn hwn yn seiliedig ar y data mwyaf perthnasol sydd ar gael. Daw'r data hyn o astudiaeth Bone et al[421] o bobl ifanc 16-24 oed yn Lloegr, sy'n dangos bod 6.5% (rhwng 5.3% a 8.0%) yn dweud eu bod wedi cael twll yn y tafod ac 0.8% (0.4%-1.5%) wedi cael twll yn eu horganau cenhedlu. Roedd 3.0% (1.8%-4.8%) o'r rhai a gafodd dyllu'r corff yn nodi eu bod wedi gorfod cael cymorth gan feddyg teulu oherwydd cymhlethdodau.

733. Gyda'r data hwn, gwnaed y tybiaethau canlynol:-

- mae 62,056 o bobl ifanc 14 a 15 oed yng Nghymru[422] ;

- mae nifer y bobl ifanc o dan 16 oed sydd wedi cael twll mewn rhan bersonol o'r corff yn amrywio o 0.04% (10% o ben isaf yr amrediad ar gyfer twll yn yr organau cenhedlu o astudiaeth Bone et al) i 5.3% (pen isaf yr amrediad ar gyfer twll yn y tafod o astudiaeth Bone et al). Ystyrir ei bod yn debygol y bydd nifer y bobl ifanc o dan 16 oed sydd wedi cael twll mewn rhan bersonol o'r corff yn llai na'r nifer yn astudiaeth Bone et al gan ei bod yn ymdrin â grŵp oedran hŷn (pobl ifanc 16-24 oed); a

- 4.8% yw'r gyfran sy'n ceisio cymorth gan feddyg teulu ar gyfer cymhlethdodau'n gysylltiedig â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff (pen uchaf yr amrediad yn astudiaeth Bone et al). Ystyrir y bydd y gyfran sydd angen cymorth gyda chymhlethdodau'n gysylltiedig â chael twll mewn rhan bersonol o'r corff ym mhen uchaf yr amrediad yn astudiaeth Bone et al,

---

gan mai nyrs neu weithiwr iechyd proffesiynol arall sy'n eu cynnal am bwysoliad o 25% o gost Meddyg Teulu.

[419] Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (68) Medi 2014- Mawrth 2015. Clarithromycin, 500mg pecyn 14 tabled.

[420] Tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 9 Gorffennaf 2015

[421] Bone A, Ncube F, Nichols T a Noah ND (2008) Body piercing in England: a survey of piercing at sites other than earlobe BMJ *336* 1426

[422] Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn Llywodraeth Cymru (1991 ymlaen) yn ôl awdurdodau lleol Cymru, rhanbarthau Lloegr a gwledydd y DU, fesul blwyddyn oedran a rhyw. Rhyddhawyd 26 Mehefin 2014.

gan fod gan bobl ifanc o dan 16 oed lai o brofiad neu ddealltwriaeth, o bosibl, o sut i lanhau neu ofalu am dwll i osgoi haint.

734. Mae’r tybiaethau hyn yn awgrymu bod rhwng 25 a 3,300 o bobl ifanc o dan 16 oed yn cael rhoi twll mewn rhan bersonol o'u corff yng Nghymru bob blwyddyn, a bod rhwng un a 158 yn mynd at feddygon teulu ynglŷn â chymhlethdod cysylltiedig. Gan dybio y byddai pob un sy'n mynd at ei feddyg teulu gyda chymhlethdodau’n gysylltiedig â chael twll mewn rhan bersonol o’r corff yn cael yr un driniaeth ag a nodwyd eisoes o dan yr opsiwn hwn, amcangyfrifir mai rhwng £34 a £5,400 fyddai cost hyn i'r GIG.

735. Dylid nodi bod angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r ffigyrau hyn gan eu bod yn seiliedig ar dybiaethau sy'n deillio o un astudiaeth. Gallent fod yn is mewn gwirionedd os yw nifer y bobl sy'n cael rhoi twll mewn rhan bersonol o'u corff yn llai na’r amcangyfrif uchod. Yn yr un modd, gallai’r ffigurau fod yn uwch mewn gwirionedd, gan fod cyfraddau cymhlethdod yn uwch yn sgil tyllau mewn rhan bersonol o'r corff nag yn sgil tyllau mewn rhannau eraill o'r corff[423]. Mae'n bosibl hefyd y gallai pobl ifanc o dan 16 oed â thwll heintiedig mewn rhan bersonol o'r corff fod angen triniaeth ddrutach gan y GIG na gofal sylfaenol, megis mynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys neu gael eu derbyn i’r ysbyty.

736. Yn ogystal, mae'n bosibl y byddai angen gofal y GIG ar gyfer problemau tymor hwy. Gan fod pobl ifanc yn parhau i dyfu yn eu harddegau, gallai twll mewn rhan bersonol o'r corff a gafodd ei wneud yn ystod ei ieuenctid arwain at gymhlethdodau wrth i gorff y person ifanc newid a datblygu, neu gallai problemau seicolegol godi a fyddai angen sylw.

737. Mae'n bosibl y byddai awdurdodau lleol hefyd yn wynebu rhywfaint o gostau am roi cyngor i ymarferwyr/busnesau ar roi tyllau mewn rhannau personol o gyrff pobl ifanc, ond ystyrir y byddai'r costau'n isel iawn.

### Manteision

738. Mae'n debygol na fyddai manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Gallai ymarferwyr/busnesau sy'n tyllu'r corff barhau â'u gweithgareddau presennol gan na fyddai cyfyngiadau ar eu cwsmeriaid.

### Opsiwn 2 – Cyhoeddi canllawiau i fusnesau/ymarferwyr tyllu'r corff i annog yn erbyn rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person sydd o dan 16 oed

### Disgrifiad

739. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod Llywodraeth Cymru'n paratoi canllawiau anstatudol, gan weithio gyda rhanddeiliaid y sector tyllu'r corff a phartïon eraill â buddiant (e.e. Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd). Byddai'r canllawiau’n nodi camau

[423] Bone A, Ncube F, Nichols T a Noah ND (2008) Body piercing in England: a survey of piercing at sites other than earlobe BMJ *336* 1426

y gallai busnesau/ymarferwyr eu cymryd i'w gwneud yn llai tebygol bod pobl ifanc o dan 16 oed yn cael twll mewn rhan bersonol o'r corff, megis gofyn am brawf o oedran eu cleientiaid cyn rhoi'r twll. Byddai copïau o'r canllawiau ar gael ar-lein neu mewn copi papur i'w ddosbarthu i'r ymarferwyr hynny sy'n rhoi tyllau mewn rhan bersonol o'r corff.

740. Ni fyddai'r canllawiau'n cael eu gorfodi gan dimau gorfodi'r awdurdodau lleol, ond byddai disgwyl iddynt roi cyngor i ymarferwyr/busnesau unigol ar roi'r canllawiau ar waith. Byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu i godi ymwybyddiaeth staff yr awdurdodau lleol o'r canllawiau, yn ogystal ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth i roi gwybod i bobl ifanc am y risgiau a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chael rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

741. Byddai Llywodraeth Cymru'n wynebu costau'n gysylltiedig â pharatoi a chyhoeddi'r canllawiau. Amcangyfrifir mai oddeutu £4,600 fyddai'r costau staff er mwyn paratoi'r canllawiau (yn seiliedig ar 4,000 o eiriau), gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y canllawiau'n addas ar gyfer y diben. Mae hyn yn seiliedig ar oddeutu tair wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn (£2,800) i ddatblygu'r canllawiau, a thair wythnos o amser swyddog Cymorth Tîm cyfwerth ag amser llawn i roi cymorth gweinyddol (oddeutu £1,800).[424]

742. Rhagwelir y byddai'r gwaith dylunio a chysodi'n cymryd wythnos o amser 0.3 Swyddog Gweithredol cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n costio oddeutu £200. Amcangyfrifir y byddai'r gwaith cyfieithu a phrawfddarllen yn costio oddeutu £400.[425] Cyfanswm cost datblygu, dylunio a chyfieithu'r canllawiau felly fyddai £5,200, a hynny yn 2016/17.

743. Ar hyn o bryd, mae gan awdurdodau lleol bwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 i gofrestru'r busnesau hynny sy'n cynnig gwasanaeth tyllu cosmetig, ond gan nad oes modd nodi'n gyson pa fath o driniaethau tyllu y mae pob un o'r busnesau'n ei ddarparu, nid yw'n hysbys sawl un o'r ymarferwyr/busnesau yng Nghymru sy'n cynnig gwasanaeth i roi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Fodd bynnag, os tybir y byddai blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu fersiynau electronig o'r canllawiau, rhagwelir mai dim ond nifer fechan o fersiynau papur o'r canllaw a fyddai'n cael eu paratoi. Ni fyddai hyn yn costio mwy na £400. Byddai'r gost hon yn cael ei hysgwyddo yn 2016/17.

744. Byddai'r canllawiau'n cael eu diweddaru bob tair blynedd. Rhagwelir y byddai'n cymryd oddeutu wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n cyfateb i oddeutu £900. Byddai costau dylunio a chyfieithu yn hanner y gost wreiddiol, sef cyfanswm o £300. Ni fyddai costau argraffu yn achos yr adolygiad gan mai dim ond yn electronig y byddai'n cael ei baratoi. Oddeutu

[424] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff Llywodraeth Cymru
[425] Yn seiliedig ar £75 fesul 1000 o eiriau ar gyfer y cyfieithu a £21 fesul 1000 o eiriau ar gyfer y prawfddarllen.

£1,200 felly fyddai cyfanswm cost pob adolygiad, a hynny bob 3 blynedd. Byddai'r adolygiad cyntaf yn cael ei gynnal yn 2019/20.

745. Mae'n bosibl y bydd ar Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd neu aelodau staff perthnasol eraill llywodraeth leol angen sesiynau hyfforddi i'w cynorthwyo i annog ymarferwyr/busnesau i weithredu ar y cyngor yn y canllawiau. Rhagwelir mai Llywodraeth Cymru fyddai'n talu am hyn ac y byddai'r gwaith yn cael ei roi ar gontract allanol i gyflenwr â hygrededd ymhlith proffesiwn iechyd yr amgylchedd. Rhagwelir y byddai dwy sesiwn yn cael eu cynnal, un yn y Gogledd ac un yn y De. Byddai'r sesiynau hyfforddi hyn yn cael eu cynnal yn 2016/17. Oddeutu £900 fyddai cost datblygu deunyddiau a thaflenni ar gyfer y cwrs, ac oddeutu £2,000 fyddai'r gost o gynnal y ddwy sesiwn gyda 35 o bobl yn bresennol ym mhob un, sef cyfanswm o £2,900. Disgwylir y gellid arbed arian trwy gyfuno'r hyfforddiant hwn â'r hyfforddiant ar gyfer gweithredu'r darpariaethau ynglŷn â thriniaethau arbennig.

746. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith bosibl y canllawiau newydd, byddai angen cyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o'r canllawiau ymhlith busnesau/ymarferwyr sy'n rhoi tyllau mewn rhannau personol o'r corff. Gellid gwneud hynny, er enghraifft, drwy straeon newyddion am ddim mewn cylchgronau masnach a thrwy rwydweithiau rhanddeiliaid. Byddai angen gwaith cyfathrebu ehangach hefyd er mwyn rhybuddio pobl ifanc a rhieni ynglŷn â materion iechyd a materion amddiffyn plant a allai fod yn gysylltiedig â rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Mae'n debyg y byddai ymgyrch o'r fath yn cynnwys cysylltiadau cyhoeddus, cyfryngau cymdeithasol a gwaith gydag ysgolion/sefydliadau ieuenctid ac y byddai'n costio £5,000. Gan fod yr opsiwn hwn yn gofyn i ymarferwyr/busnesau gymryd camau gwirfoddol, disgwylir y bydd angen i'r gwaith cyfathrebu gael ei ailadrodd bob dwy flynedd. Disgwylir y gellid arbed arian yn gyffredinol yn 2016/17, a phob dwy flynedd o hynny ymlaen, pe byddai'r gwaith cyfathrebu'n cael ei gyfuno â'r gwaith ar driniaethau arbennig. Byddai'r union arbedion o ran cost yn dibynnu ar y camau sydd wedi'u cymryd ac felly nid ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

Awdurdodau lleol

747. Er y byddai aelodau staff llywodraeth leol yn cael eu hannog i gefnogi ymarferwyr/busnesau i roi'r canllawiau ar waith fel rhan o'u trefn waith arferol, cydnabyddir y byddai llywodraeth leol yn wynebu rhywfaint o gostau. Byddai'r costau hyn yn ymwneud â chynorthwyo i ddatblygu'r canllawiau, mynd i sesiynau hyfforddi ac ymgysylltu ag ymarferwyr/busnesau i'w hannog i ddilyn y canllawiau. Gan y byddai modd i fusnesau/ymarferwyr ddewis rhoi'r canllawiau ar waith neu beidio, gallai anogaeth gan staff llywodraeth leol wneud cyfraniad pwysig.

748. Mae'n debygol hefyd y byddai angen i Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ac aelodau eraill perthnasol o staff llywodraeth leol ymdrin ag ymholiadau ad hoc gan ymarferwyr/busnesau ynglŷn â'r canllawiau. Mae'n debyg y byddai mwy o'r gwaith ychwanegol hwn i'w wneud cyn cyflwyno'r canllawiau ac yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi hynny, ac ni fyddai'n golygu mwy na hanner mis o oriau Swyddog Iechyd yr Amgylchedd cyfwerth ag amser llawn[426] ym mhob awdurdod lleol yn ystod y ddwy

[426] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff awdurdodau lleol. Mae argostau wedi eu cynnwys yn y costau hyn

flynedd hyn. Byddai'n gostwng i hanner y swm hwn am y blynyddoedd dilynol. Byddai hyn yn gyfwerth ag oddeutu £38,000 (£1,725 fesul awdurdod lleol) yn 2016/17 a 2017/18, gyda'r gost yn lleihau'n sylweddol i oddeutu £19,000 y flwyddyn (£862 fesul awdurdod lleol). Fodd bynnag, disgwylir y gellid arbed arian yn gyffredinol trwy gyfuno'r gwaith hwn â'r gwaith ar driniaethau arbennig. Byddai'r union arbedion o ran cost yn dibynnu ar y camau sydd wedi'u cymryd ac felly nid ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

Ymarferwyr/Busnesau

749. Gallai ymarferwyr/busnesau wynebu rhywfaint o gostau yn sgil yr amser y byddent yn ei dreulio'n cynorthwyo i ddatblygu'r canllawiau ac ymgyfarwyddo â hwy, ac yn gweithredu unrhyw newidiadau a wneir ganddynt i atal pobl ifanc rhag cael twll mewn rhan bersonol o'u cyrff. Gan dybio bod tâl yr awr tyllwyr cyrff cosmetig o fewn categori crefftau medrus y Swyddfa Ystadegau Gwladol (£15.94)[427][428], bod tua 1,000 o ymarferwyr/busnesau sy'n rhoi tyllau mewn rhannau personol o'r corff yng Nghymru[429] ac y byddai'r camau uchod yn cymryd dwy awr, oddeutu £31,900 fyddai'r gost i ymarferwyr/busnesau yn 2016/17. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn oramcangyfrif gan ei bod yn debygol bod rhai o'r ymarferwyr hyn eisoes yn gwrthod rhoi twll mewn rhan bersonol o gyrff pobl ifanc o dan 16. Gallai eraill benderfynu peidio â dilyn y canllawiau gan y byddent yn rhai gwirfoddol yn hytrach na rhai statudol. Rhagwelir mai ychydig iawn o incwm y byddai'r diwydiant tyllu'r corff yng Nghymru yn ei golli yn sgil yr opsiwn hwn, er nad oes modd asesu hyn yn gywir.

750. Yn yr un modd, pan gaiff y canllawiau eu diweddaru bob tair blynedd, mae'n bosibl y bydd angen i ymarferwyr/busnesau dreulio rhywfaint o amser yn ymgyfarwyddo â'r canllaw diwygiedig ac yn gweithredu unrhyw newidiadau i atal pobl ifanc rhag cael twll mewn rhan bersonol o'r corff. Gan y rhagwelir mai dim ond ychydig iawn o newidiadau a fyddai'n cael eu gwneud i'r canllaw, ni ddisgwylir i'r costau hyn fod yn fwy na hanner y costau a wynebwyd yn 2016/17, sef oddeutu £1,400.

Crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2

*Tabl 7.37*

| Costau | 2016/17 £ | 2017/18 £ | 2018/19 £ | 2019/20 £ | 2020/21 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | |
| Costau staff ar gyfer datblygu'r canllawiau | 4,600 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dylunio a chyfieithu | 600 | 0 | 0 | 0 | 0 |

[427] ASHE 2014 (provisional) Work Region Occupation Table 15.6a Hourly pay excluding overtime; (artist - non Wales data). http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-337425
[428] Mae'r cyfraddau yr awr wedi eu cynyddu 30% er mwyn cynnwys argostau.
[429] Yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau argraffu | 400 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adolygu'r canllawiau | | | | 1,200 | |
| Hyfforddiant | 2,900 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfathrebu | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **13,500** | **0** | **5,000** | **1,200** | **5,000** |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | |
| Costau hyfforddi staff ac annog ymarferwyr i weithredu'r canllawiau | 38,000 | 38,000 | 19,000 | 19,000 | 19,000 |
| **Ymarferwyr/busnesau** | | | | | |
| Costau staff i ymgyfarwyddo â'r canllawiau | 31,900 | 0 | 0 | 1,400 | 0 |
| **Cyfanswm y costau** | **83,400** | **38,000** | **24,000** | **21,600** | **24,000** |

**Manteision**

751. Er nad oes fawr o ddata ar gael ynglŷn â nifer y bobl ifanc o dan 16 oed sy'n cael rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, amcangyfrifwyd yn gynharach o dan Opsiwn 1 bod rhwng 25 a 3,300 o bobl ifanc o dan 16 oed yn cael twll mewn rhan bersonol o'r corff bob blwyddyn. Mae'n bosibl y gellid cynorthwyo i leihau'r nifer hwn trwy baratoi a dosbarthu canllawiau yn annog ymarferwyr/busnesau i beidio â rhoi tyllau mewn rhannau personol o gyrff pobl ifanc sydd o dan 16 oed, ynghyd â lledaenu neges addysgiadol i bobl ifanc a rhieni ar y pwnc. Fodd bynnag, gan na fyddai unrhyw ofyniad cyfreithiol yn sail i'r canllawiau, a bod rhai ymarferwyr/busnesau eisoes yn gwrthod twll mewn rhan bersonol o gorff unrhyw un sydd o dan 16 oed, nid yw'n debygol y caiff yr opsiwn hwn lawer iawn o effaith.

**Opsiwn 3 – Cyflwyno gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff person sydd o dan 16 oed.**

**Disgrifiad**

752. Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno deddfwriaeth sy'n gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person sydd o dan 16 oed. Byddai hyn yn ei gwneud yn drosedd i ymarferydd rhoi twll o'r fath. Byddai hefyd yn drosedd i wneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff person sydd o dan 16 oed, a byddai awdurdodau

lleol yn cael pwerau i ymchwilio ac i erlyn unrhyw berson y canfyddir ei fod yn torri'r gyfraith.

753. Yn ogystal (ac yn debyg i'r hyn a amlinellwyd yn Opsiwn 2), byddai Llywodraeth Cymru'n paratoi canllawiau i helpu awdurdodau lleol i orfodi'r ddeddfwriaeth, a byddai ymgyrch codi ymwybyddiaeth yn cael ei chynnal i roi gwybod i bobl ifanc ynglŷn â'r risgiau a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chael twll mewn rhan bersonol o'r corff.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

754. Byddai'r costau i Lywodraeth Cymru am baratoi ac adolygu'r canllawiau ac am hyfforddi Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a staff perthnasol eraill yn debyg i'r hyn a amlinellwyd o dan Opsiwn 2. Fel yn achos Opsiwn 2, disgwylir y gellid arbed arian drwyddi draw trwy gyfuno'r hyfforddiant â'r hyfforddiant ar gyfer gweithredu triniaethau arbennig.

755. Gan y byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn drosedd i ymarferydd wneud trefniadau i roi twll neu roi twll mewn rhan bersonol o gorff person o dan 16 oed, rhagwelir y byddai angen pecyn cyfathrebu mwy cynhwysfawr nag y byddai ei angen gyda'r dull hybu arfer da / codi ymwybyddiaeth a amlinellwyd yn Opsiwn 2. Mae'n bosibl y byddai pecyn cyfathrebu o'r fath yn cael ei anelu at ymarferwyr ac at bobl ifanc.

756. Mae'n bosibl y byddai'r pecyn yn cynnwys:

- ymgyrch i godi ymwybyddiaeth yr holl ymarferwyr / busnesau tyllu cosmetig ynglŷn â'r drosedd newydd gan ddefnyddio cyhoeddiadau masnachol a'r cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft, ynghyd â marchnata uniongyrchol ar gyfer y rhai y mae'n hysbys eu bod yn rhoi tyllau mewn rhannau personol o'r corff; ac
- ymgyrch yn hysbysu pobl ifanc a rhieni am y ddeddfwriaeth newydd a'r materion iechyd ac amddiffyn plant a allai fod ynghlwm wrth dyllu rhannau personol o'r corff. Fe allai hyn gynnwys cysylltiadau cyhoeddus, y cyfryngau cymdeithasol a gweithio gydag ysgolion / sefydliadau ieuenctid.

757. Rhagwelir y byddai pecyn cyfathrebu o'r fath yn costio £10,000, er y gellid arbed arian trwy ei gyfuno â'r gwaith cyfathrebu ar gyfer triniaethau arbennig. Byddai'r gost untro hon yn daladwy yn 2016/17, er y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi, yn rhan o'r broses adolygu, i'r angen i ailadrodd gwaith cyfathrebu'n ddiweddarach, er mwyn cynnal neu wella ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth newydd. Byddai'r union arbedion o ran cost yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad ac felly nid ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

Awdurdodau lleol

758. Er na fyddai'r ddeddfwriaeth yn gofyn am amserlen reolaidd o arolygiadau o fangreoedd, a bod gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ddyletswyddau eisoes mewn cysylltiad â busnesau sy'n darparu triniaethau tyllu cosmetig, cydnabyddir y byddai llywodraeth leol yn wynebu peth costau staff ychwanegol. Byddai'r rhain yn cynnwys cynorthwyo i ddatblygu'r canllawiau, mynd i'r sesiynau hyfforddi, codi ymwybyddiaeth yn gyffredinol, ac ymdrin ag ymholiadau ad hoc ynglŷn â'r ddeddfwriaeth newydd. Yn ogystal, byddai'r ddeddfwriaeth yn rhoi pwerau newydd i awdurdodau lleol ac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd camau gorfodi.

759. Er y disgwylir y byddai mwyafrif yr ymarferwyr/busnesau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, mae'n bosibl y bydd rhai na fyddant yn cydymffurfio â'r gwaharddiad. Mae'n debyg y byddai'r achosion hyn yn dod i sylw awdurdodau lleol trwy gwynion neu trwy i awdurdodau lleol gynnal profion prynu. Disgwylir i nifer y cwynion fod yn isel ac y byddai pob awdurdod lleol, gan ddibynnu ar y wybodaeth a fydd ar gael, yn cynnal un prawf prynu bob blwyddyn ar gyfartaledd. Ar y sail honno, rhagdybir na fyddai Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn cynnal mwy na chwech erlyniad yng Nghymru bob blwyddyn.

760. O ystyried y paragraffau blaenorol, rhagwelir y byddai baich gwaith staff awdurdodau lleol yn fwy yn ystod y cyfnod yn arwain at gyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd ac yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl ei gweithredu. Ni fyddai hyn yn cymryd mwy na'r hyn sy'n cyfateb i fis o amser un Swyddog Iechyd yr Amgylchedd fesul awdurdod lleol yn ystod y ddwy flynedd hyn, gan leihau i hanner yr amser hwn ar gyfer y blynyddoedd canlynol. Byddai hyn gyfwerth â £76,000 (£3,450 fesul awdurdod lleol) yn 2016/17 a 2017/18, â'r gost wedyn yn gostwng i oddeutu £38,000 (£1,725 fesul awdurdod lleol). Fodd bynnag disgwylir y gellid arbed arian drwyddi draw trwy gyfuno'r gwaith hwn â'r gwaith ar gyfer triniaethau arbennig. Byddai'r union arbedion o ran cost yn dibynnu ar y camau sydd wedi'u cymryd ac felly nid ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

Llysoedd

761. Fel y nodwyd uchod, ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth arwain at fwy na chwech erlyniad y flwyddyn. Byddai'r effaith ar y llysoedd yng Nghymru felly yn fach. Nid oes fframwaith manwl o'r costau wedi cael ei drafod rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eto, felly nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd.

Ymarferwyr/Busnesau

762. Gallai ymarferwyr/busnesau wynebu rhywfaint o gostau yn sgil yr amser y byddent yn ei dreulio'n cynorthwyo i ddatblygu'r gofynion newydd ac yn ymgyfarwyddo â hwy, ac yn gweithredu unrhyw newidiadau i'w prosesau er mwyn sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael tyllau mewn rhannau personol o'r corff. Gan y gellid erlyn unrhyw ymarferydd neu fusnes nad yw'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd, rhagwelir y byddai angen neilltuo mwy o amser (tair awr) i'r gwaith ymgyfarwyddo hwn nag yn achos Opsiwn 2. Er hynny, ystyrir bod y rhagdybiaethau eraill mewn cysylltiad â'r gwaith hwn a amlinellwyd ar gyfer Opsiwn 2 yn parhau i fod yn berthnasol: byddai hyn yn awgrymu cost o oddeutu £47,800 i ymarferwyr/busnesau ar gyfer y gwaith ymgyfarwyddo hwn yn 2016/17.

763. Fel yn achos Opsiwn 2, byddai'r canllawiau'n cael eu diweddaru bob tair blynedd, ac ar yr adegau hynny, gallai ymarferwyr/busnesau wynebu rhai costau wrth ymgyfarwyddo â'r canllawiau diwygiedig a rhoi unrhyw newidiadau ar waith i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Gan y rhagwelir mai newidiadau cyfyngedig yn unig a fyddai'n cael eu gwneud i'r canllawiau, disgwylir na fyddai'r costau hyn yn fwy na hanner y costau a wynebwyd yn 2016/17, sef amcangyfrif o £23,900.

764. Yn ogystal, fe allai'r diwydiant tyllu cosmetig yng Nghymru golli peth incwm pe byddai'r ddeddfwriaeth yn llwyddo i atal pobl ifanc o dan 16 oed rhag cael tyllau mewn rhannau personol o'r corff. Cyfrifwyd y byddai hyn rhwng £600 a £156,800 y flwyddyn, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- bod rhwng 25 a 3,300 o bobl ifanc yn y grŵp oedran hwn yn derbyn triniaeth o'r fath bob blwyddyn;
- bod cost cael twll mewn rhan bersonol o'r corff rhwng £25 a £50[430]; a
- bod 95% o ymarferwyr/busnesau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, gan ei bod yn cyd-fynd ag arfer proffesiynol da[431].

765. Gan fod trafodaethau ag ymarferwyr wedi awgrymu na fyddent yn wynebu unrhyw gost ariannol, neu lawer o gost ariannol, yn sgil gwaharddiad ar roi tyllau mewn rhannau personol o gyrff pobl ifanc o dan 16 oed, ymddengys mai pen isaf yr amrediad uchod yw'r canlyniad mwyaf tebygol.

766. Mae'r ffaith y disgwylir i fwyafrif yr ymarferwyr gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, ac i nifer fach o achosion o dor-cyfraith gael eu canfod trwy gwynion neu brofion prynu, yn awgrymu na fyddai rhyw lawer o ddirwyon yn cael eu codi ar ymarferwyr tyllu cosmetig. Amcangyfrifwyd yn gynharach na fyddai Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd ledled Cymru yn erlyn mwy na tri achos y flwyddyn. Cynigir y byddai'r troseddau o wneud trefniadau i roi twll neu roi twll mewn rhan bersonol o gyrff pobl ifanc sydd o dan 16 oed yn destun dirwy anghyfyngedig i adlewyrchu difrifoldeb y troseddau. Nid yw'n bosibl rhoi ffigur pendant ar gyfer y dirwyon a roddid, gan y byddai gan y Llysoedd Ynadon lawer o ddisgresiwn ynghylch hyn. Fodd bynnag, at ddibenion yr ymarfer hwn, defnyddiwyd dirwy o £5,000 ar gyfer y cyfrifiadau. Amcangyfrifir, felly, fod cyfanswm cost y dirwyon i ymarferwyr tua £15,000 y flwyddyn[432]. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd ymarferwyr/busnesau a erlynir yn gorfod talu ffioedd cyfreithiol, ad-dalu costau i awdurdodau lleol a thalu iawndal i ddioddefwyr. Byddai'r costau hyn yn amrywiol iawn ac felly nid oes modd eu hasesu'n gywir.

*Tabl 7.38* Crynodeb o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 3

| **Costau (£)** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | |

[430]Yn seiliedig ar chwiliad ar-lein o ymarferwyr tyllu cosmetig (Ionawr 2015)
[431]Yn seiliedig ar God Ymarfer a Moeseg y British Body Piercing Association, er enghraifft
[432]Gan fod dirwyon yn cael eu gosod o bryd i'w gilydd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder nid ydym wedi ystyried unrhyw gynnydd mewn dirwyon dros amser.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff ar gyfer datblygu canllawiau | 4,600 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dylunio a chyfieithu | 600 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Costau argraffu | 400 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Hyfforddiant | 2,900 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adolygu'r canllawiau | 0 | 0 | 0 | 1,200 | 0 |
| Cyfathrebu | 10,000 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i Lywodraeth Cymru** | **18,500** | **0** | **0** | **1,200** | **0** |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | |
| Costau staff i gynorthwyo manwerthwyr i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth | 76,000 | 76,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 |
| **Ymarferwyr/busnesau** | | | | | |
| Costau staff i ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd | 47,800 | 0 | 0 | 23,900 | 0 |
| Cost busnes a gollir | 600 - 156,800 | 600 -156,800 | 600 - 156,800 | 600 -156,800 | 600 - 156,800 |
| Cost dirwyon | 0 – 15,000 | 0 - 15,000 | 0 -15,000 | 0 – 15,000 | 0 – 15,000 |
| **Cyfanswm y costau i ymarferwyr/busnesau** | **48,400 – 219,600** | **600 – 171,800** | **600 - 171,800** | **24,500- 195,700** | **600 - 171,800** |
| **Cyfanswm y costau** | **142,900- 314,100** | **76,600 – 247,800** | **38,600 – 209,800** | **41,900- 234,900** | **38,600 – 209,800** |

**Manteision**

Arbedion y GIG

767. Y brif fantais y gellir ei mesur a fyddai'n deillio o'r ddeddfwriaeth arfaethedig fyddai arbed arian i'r GIG. Rhoddwyd amcangyfrif yn gynharach yn yr adran hon o'r gost i'r GIG yng Nghymru o drin cymhlethdodau iechyd ymhlith pobl ifanc o dan 16 oed yn deillio o gael tyllau mewn rhannau personol o'r corff. Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon hyn, a rhagdybio y bydd 95% o ymarferwyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth arfaethedig, amcangyfrifir y byddai'r GIG yn arbed rhwng £34 a £5,100 y flwyddyn.

768. Cydnabyddir na fyddai'r GIG o bosibl yn arbed yr arian hwn i gyd. Un sefyllfa bosibl yw y bydd pobl ifanc o dan 16 oed sy'n benderfynol o gael tyllau mewn rhannau personol o'u cyrff yn cael eu gyrru at ymarferwyr llai safonol gan greu

marchnad i fusnesau amheus neu beri i fwy o bobl ifanc wneud tyllau yn eu cyrff eu hunain. Gallai arferion o'r fath ddigwydd mewn amgylchedd anhylan, gan gynyddu'r perygl o gymhlethdodau iechyd ar ôl rhoi'r tyllau a chreu galw ychwanegol am wasanaethau'r GIG. Byddai'r pecyn cyfathrebu a amlinellwyd yn gynharach yn bwysig o ran gwneud pobl ifanc yn ymwybodol o beryglon defnyddio ymarferwyr/busnesau nad ydynt wedi'u trwyddedu i gyflawni triniaethau arbennig, ac o beryglon rhoi tyllau yn eu cyrff hunain neu gyrff eu ffrindiau.

Arbedion eraill

769. Yn ogystal â'r arbedion posibl i'r GIG a nodwyd uchod, byddai nifer o fanteision eraill y mae'n fwy anodd eu mesur yn deillio o'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Yn gyntaf, byddai gosod gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff person o dan 16 oed yn dod ag eglurdeb i'r sefyllfa. Mae llawer o'r ymarferwyr sydd wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru wedi dweud nad ydynt yn rhoi tyllau mewn mannau personol o gyrff pobl ifanc, ond oherwydd nad yw'r gyfraith yn ei wahardd ar hyn o bryd, mae modd i berson o dan 16 oed gael twll mewn rhan bersonol o'r corff. Byddai'r opsiwn hwn yn atgyfnerthu arfer da ymarferwyr fel y rhain, ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o ba mor ddifrif y gall triniaethau o'r fath fod i bobl ifanc.

770. Yn ail, byddai manteision i bobl ifanc. Amcangyfrifwyd uchod bod rhwng un a 77 o bobl ifanc o dan 16 oed y flwyddyn ar hyn o bryd yn profi cymhlethdodau iechyd sydd angen cymorth meddyg teulu ar ôl cael twll mewn rhan bersonol o'r corff. Mae'n bosibl hefyd bod nifer o bobl ifanc o dan 16 oed sy'n ceisio help gyda chymhlethdodau iechyd gan fferyllwyr ac ymarferwyr tyllu cosmetig, neu mewn achosion mwy difrifol gan adran damweiniau ac achosion brys, ar ôl cael rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, a bod eraill sydd â chymhlethdodau iechyd o bosibl yn peidio â cheisio help o gwbl. Gan fod i gymhlethdodau iechyd fel poen, anghysur a gorbryder gostau i unigolion yn ogystal ag i'r GIG, gellir gweld y bydd eu lleihau trwy osod gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff pobl ifanc o dan 16 oed yn fanteisiol, er na ellir mesur y fantais honno.

771. Yn drydydd, byddai manteision o safbwynt amddiffyn plant a phobl ifanc a allai fod yn eu rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle y maent yn agored i niwed er mwyn cael rhoi twll mewn rhan bersonol o'u corff. Trwy gael y driniaeth, mae pobl ifanc yn rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle caiff eu rhannau personol eu dangos, eu cyffwrdd a'u tyllu gan oedolyn a allai fod wedi bod yn ddieithr iddynt cyn hynny.

772 Yn bedwerydd, gan y byddai gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff pobl ifanc o dan 16 oed, os yw ymarferwyr yn cydymffurfio â'r gyfraith ni ddylent bellach wynebu cwynion gan rieni mewn perthynas â'r mater hwn.

**Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir**

773. Nid yw Opsiwn 1 yn bodloni'r amcan polisi. Mae'n parhau â'r arfer presennol a byddai'n golygu mai prin fyddai'r amddiffyniad, os o gwbl, i blant a phobl ifanc rhag y peryglon sydd ynghlwm â chael rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Wrth i dyllu'r corff ddod yn fwy poblogaidd a mwy derbyniol, mae hefyd yn bosibl y bydd y costau

iechyd sy'n deillio o drin cymhlethdodau yn sgil rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn neu berson ifanc o dan 16 oed yn cynyddu dros amser.[433]

774. Gallai Opsiwn 2 annog ymarferwyr/busnesau i weithredu i gryfhau eu polisïau presennol ynglŷn â rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff pobl ifanc o dan 16 oed, neu annog y rhai sydd heb bolisi i ddatblygu un. Mae'n bosibl hefyd y bydd pobl ifanc a rhieni yn dod yn fwy ymwybodol o beryglon cael rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Fodd bynnag, gan fod yr Opsiwn hwn wedi ei seilio ar weithredu gwirfoddol, nid yw'n debyg o gael llawer o effaith.

775. Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir. Mae'n defnyddio dau ddull sy'n ategu'i gilydd i wahardd yr arfer o roi twll mewn rhan bersonol o gorff pobl ifanc o dan 16 oed. Mae'r cyfuniad o'r ddau ddull – gwahardd y driniaeth trwy ddeddfwriaeth a sefydlu gweithgarwch cyfathrebu ategol gydag ymarferwyr a phobl ifanc – yn darparu'r cydbwysedd gorau rhwng costau a thebygolrwydd o gyflawni'r amcan polisi, a'r manteision diriaethol ac anniriaethol i bobl ifanc, y GIG ac ymarferwyr. Y rheswm am hyn yw y byddai gan ymarferwyr fwy o fuddiant mewn rhoi'r canllawiau a baratowyd gan Lywodraeth Cymru ar waith, a mwy o gymhelliad i wneud hynny, nag o dan Opsiwn 2, yn bennaf oherwydd y perygl y gallent gyflawni trosedd a chael eu cosbi.

## Gwasanaethau fferyllol (Rhan 5)

776. Ystyriwyd tri opsiwn:-

- Opsiwn 1 - Gwneud dim;
- Opsiwn 2 - Disodli'r system bresennol â mynediad wedi'i seilio ar angen gan ddefnyddio asesiadau angen fferyllol, a chyflwyno trefn ymadael sy'n caniatáu ar gyfer gweithredu'n effeithiol yn erbyn darparwyr sy'n tangyflawni neu sy'n torri amodau eu gwasanaeth. Hwn yw'r opsiwn a ffefrir; a
- Diddymu trefniadau 'rheoli mynediad' a chaniatáu marchnad rydd o ran darparu gwasanaethau fferyllol y GIG.

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

### Disgrifiad

777. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw newidiadau polisi'n cael eu gwneud a rhagwelir y byddai'r newidiadau cynyddol a welwyd yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol dros y blynyddoedd diwethaf yn parhau. Byddai nifer gyffredinol y fferyllfeydd yng Nghymru yn aros yn sefydlog, gan y byddai'r trefniadau presennol yn parhau i rwystro fferyllfeydd newyd rhag ymuno â'r farchnad. Byddai niferoedd y fferyllfeydd a fyddai'n darparu gwasanaethau ychwanegol yn cynyddu'n raddol iawn.

778. Byddai Byrddau Iechyd Lleol yn parhau i gynllunio gwasanaethau fferyllol mewn gwahanol ffyrdd, a byddai'r drefn o gomisiynu gwasanaethau yn parhau i amrywio. Byddai'r fferyllfeydd hynny sydd ar hyn o bryd yn dewis peidio â darparu

[433] Stead LR, Williams JV, Williams AC a Robinson CM (2006) 'An investigation into the practice of tongue piercing in the South West of England', 'British Dental Journal' *200* 103-107.

gwasanaethau ychwanegol yn parhau i wrthsefyll ceisiadau i ehangu'r hyn y maent yn ei gynnig, er colled trigolion lleol. Byddai cyfran uchel o geisiadau i gael darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn parhau i arwain at apêl at Weinidogion Cymru.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

779. Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw newid, byddai Gweinidogion Cymru'n parhau i benderfynu ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau BILl, o ran ceisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG ac o ran torri amodau gwasanaeth. Byddai costau felly'r un faint ag y maent yn awr a byddent yn gysylltiedig â dyletswyddau Gweinidogion Cymru i benderfynu ar yr apeliadau hyn. Amcangyfrifwyd yn flaenorol mai oddeutu £6,000 fesul apêl[434] (prisiau 2007/08) yw costau apêl i Awdurdod Ymgyfreitha'r GIG o dan drefniadau yn Lloegr, a oedd ar y pryd yn cyfateb i'r trefniadau yng Nghymru. Er nad yw'n digwydd yn aml, o bryd i'w gilydd byddai penderfyniadau Gweinidogion Cymru yn cael eu herio trwy adolygiad barnwrol.[435] O brofiad adolygiadau blaenorol amcangyfrifir mai £30,000 yw costau'r adolygiad barnwrol.

Byrddau Iechyd Lleol

780. Byddai BILl yn parhau i benderfynu ar geisiadau a wneir gan unigolion sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol y GIG gan ddefnyddio'r profion statudol presennol, hynny yw a yw'n angenrheidiol neu'n hwylus caniatáu cais er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau (fferyllol) a ddarperir yn ddigonol. Gwnaed 22 o geisiadau o'r fath yn 2013-14[436]. Byddau BILl hefyd yn parhau i benderfynu ar achosion honedig o dorri amodau gwasanaeth pan ofynnir iddynt wneud hynny gan BILl eraill. Byddai costau felly yr un faint ag y maent yn awr. Wrth bennu'r ffi i'w dalu gan unigolion sy'n gwneud cais i gael eu cynnwys ar y rhestr fferyllol, amcangyfrifodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru mai £600 fesul cais fyddai'r costau cysylltiedig i GIG Cymru.

Unigolion sy'n gwneud cais i gael eu cynnwys ar y rhestr fferyllol

781. Byddai unigolion sy'n dymuno cael eu cynnwys ar y rhestr fferyllol yn parhau i wneud cais i'w BILl. Yr ymgeisydd fyddai'n penderfynu ym mha leoliad y byddai gwasanaethau ychwanegol yn cael eu darparu.

782. Fel y sefyllfa bresennol, byddai gofyn i ymgeiswyr dalu ffi mewn perthynas â'u cais[437] er mwyn talu'r costau a ysgwyddir gan GIG Cymru wrth wneud penderfyniad. Ar hyn o bryd £600 yw'r ffi hon ar gyfer ceisiadau llawn i ddarparu gwasanaethau fferyllol, a chodir ffi is am newid perchnogaeth gan fod hynny'n golygu llai o waith gweinyddol i'r BILl. Er ei bod yn bosibl i'r ffioedd hyn newid dros amser, byddent yn

[434]Yr Adran Iechyd (2008). *Impact assessment of proposals to reform 'market entry' based on pharmaceutical needs assessment*. Yr Adran Iechyd. Llundain.
[435]Un adolygiad barnwrol o'r fath yn unig sydd wedi ei gynnal yn ystod y 4 mlynedd diwethaf.
[436] Llywodraeth Cymru. (2014). *Community Pharmacy Services*. Llywodraeth Cymru, Caerdydd.
[437]Gwnaed 22 o geisiadau yn 2013-14

parhau i gael eu gosod ar lefel sy'n gymesur â'r gwaith y mae'n rhaid i'r BILl ymgymryd ag ef i benderfynu pob cais.

Eraill

783. Caiff amryw o sefydliadau eraill, megis contractwyr fferyllol presennol, Pwyllgorau Fferyllol Lleol, Cynghorau Meddygol Lleol neu Gynghorau Iechyd Cymuned, gyflwyno syniadau ynglŷn â cheisiadau i fod ar y rhestr fferyllol. Ni fyddai'r sefydliadau hyn yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol yn sgil yr opsiwn hwn. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i gleifion chwaith. Byddai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r system presennol yn parhau.

**Manteision**

784. Ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol yn deillio o'r opsiwn hwn o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.

**Opsiwn 2 - Disodli'r system bresennol â mynediad wedi'i seilio ar angen gan ddefnyddio asesiadau angen fferyllol, a chyflwyno trefn ymadael sy'n caniatáu ar gyfer gweithredu'n effeithiol yn erbyn darparwyr sy'n tangyflawni neu sy'n torri amodau eu gwasanaeth**

785. Ceir dwy ran i'r asesiad o'r opsiwn hwn. Asesir costau a manteision yr elfen mynediad seiliedig ar angen yn gyntaf, ac yna asesir costau a manteision y drefn ymadael arfaethedig.

**Disgrifiad**

786. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r trefniadau 'rheoli mynediad' presennol yn cael eu diddymu a'u disodli gan system newydd. Ni fyddai fferyllfeydd ond yn cael caniatâd i ddarparu gwasanaethau'r GIG pe byddent yn gallu profi y byddent yn llenwi'r bwlch o ran angen lleol penodol nad yw wedi ei ddiwallu neu wasanaeth penodol y mae gofyn amdano'n lleol, pe byddent yn cael caniatâd i ddarparu gwasanaethau fferyllol.

787. Er mwyn cefnogi'r newid hwn, byddai gofyn i'r BILl asesu anghenion fferyllol eu poblogaethau'n gadarn a chyhoeddi datganiad o'r anghenion hynny ar ffurf Asesiad o Anghenion Fferyllol. Byddai cynnwys ac amseriad Asesiadau Anghenion Fferyllol yn cael eu penderfynu trwy ddeddfwriaeth.

788. Byddai'r Asesiad o Anghenion Fferyllol yn ddogfen dryloyw sy'n dangos yn fwy eglur a phendant i gontractwyr a newydd-ddyfodiaid posibl i'r farchnad beth yw anghenion iechyd cymunedau lleol, a'r safonau a ddefnyddir wrth asesu ceisiadau. Byddai'r Asesiad o Anghenion Fferyllol felly'n galluogi newydd-ddyfodiaid i'r farchnad sicrhau bod eu gwasanaethau'n cyd-fynd ag anghenion lleol, ac yn galluogi darparwyr presennol i sicrhau bod eu gwasanaethau'n cyd-fynd ag anghenion ac o bosibl ymestyn eu gwasanaethau. Ni fyddai unrhyw gostau i gontractwyr o ran yr elfen mynediad seiliedig ar angen.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

789. Byddai Llywodraeth Cymru'n datblygu canllawiau i gefnogi BILl i gynnal Asesiad o Anghenion Fferyllol ac i oruchwylio'r drefn ar gyfer gadael y farchnad. Byddai hyn yn cynnwys datblygu templed safonol ar gyfer Asesiad o Anghenion Fferyllol. Byddai'r canllawiau'n cael eu paratoi yn 2017/18, ar ôl datblygu is-ddeddfwriaeth ac ymgynghori yn ei chylch.

790. Byddai Llywodraeth Cymru'n wynebu costau yn gysylltiedig â pharatoi a chyhoeddi'r canllawiau. Amcangyfrifir mai oddeutu £7,500 fyddai'r costau staffio er mwyn paratoi'r canllawiau (yn seiliedig ar 6,000 o eiriau), gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y canllawiau'n ateb y diben. Mae hyn yn seiliedig ar oddeutu pum wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn (£4,600) i ddatblygu'r canllawiau, a phum wythnos o amser swyddog Cymorth Tîm cyfwerth ag amser llawn ar gyfer cymorth gweinyddol (oddeutu £2,900)[438]

791. Rhagwelir y byddai grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu i oruchwylio a datblygu'r canllawiau. Gan fod y canllawiau'n rhai technegol, rhagdybiwyd y byddai angen i hyn gynnwys cynrychiolwyr cynghorau iechyd cymuned, contractwyr fferyllfeydd cymuned, meddygon teulu a chynrychiolwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru. Amcangyfrifir y byddai tri unigolyn o bob grŵp yn mynd i hyd at bump o gyfarfodydd hanner diwrnod.

792. Amcangyfrifir costau mynd i gyfarfodydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn ôl costau cyfle'r amser, hynny yw, enillion rhagdybiedig wedi eu cynyddu 30% ar gyfer argostau. Amcangyfrifir amser cleifion yn unol â chanolrif enillion yn y DU (£25,000 y flwyddyn), gwerthusir amser meddygon teulu yn unol â chyflog cyfartalog meddygon teulu (£106,100 y flwyddyn) fel y'u hamcangyfrifwyd gan y Personal Social Services Research Unit (PSSRU, 2014), gwerthusir amser fferyllwyr yn unol â chyflogau cyfartalog fferyllwyr (£38,735 y flwyddyn, gan y PSSRU, 2014) ac amcangyfrifwyd gwerth amser staff Iechyd Cyhoeddus Cymru ar bwynt canol band 8d yr Agenda ar gyfer Newid (£74,084 y flwyddyn) (Agenda ar gyfer Newid 2014/15). Cyfanswm costau'r grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer datblygu canllawiau a thempled yr Asesiad o Anghenion Fferyllol yw £9,200 (wedi'i seilio ar £4,000 ar gyfer meddygon teulu, £1,500 ar gyfer fferyllwyr, £900 ar gyfer cleifion a £2,800 ar gyfer cynrychiolwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru).

793. Rhagwelir y byddai angen wythnos o amser 0.5 Swyddog Gweithredol cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y gwaith dylunio a chysodi, a fyddai'n costio oddeutu £300. Amcangyfrifir y byddai cyfieithu a phrawfddarllen yn costio oddeutu £600.[439]

794. Byddai'r canllawiau'n cael eu cyhoeddi ar fformat electronig yn unig. Ni fyddai unrhyw gostau cyhoeddi felly.

---

[438] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff Llywodraeth Cymru

[439] Yn seiliedig ar £75 fesul 1000 o eiriau ar gyfer cyfieithu a £21 fesul 1000 o eiriau ar gyfer prawfddarllen.

795. Cyfanswm cost datblygu canllawiau felly (gan gynnwys costau'r grŵp llywio) fyddai £17,600. Byddai'r canllawiau'n cynnwys pob agwedd ar gynnal Asesiad o Anghenion Fferyllol a goruchwylio'r broses o adael y farchnad a byddent yn cael eu paratoi yn 2017/18.

Byrddau Iechyd Lleol

*Cost cwblhau Asesiadau o Anghenion Fferyllol*

796. Rhagdybir y byddai angen cyfraniad un uwch reolwr o Fwrdd Iechyd Lleol am dri mis, ac un swyddog cymorth gweinyddol am un mis i gwblhau Asesiad o Anghenion Fferyllol. Pennir gwerth eu cyflogau ar bwynt canol bandiau 8b a 4 yr Agenda ar gyfer Newid sef £52,235 a £20,983 (Agenda ar gyfer Newid 2014/15), wedi eu cynyddu 30% ar gyfer argostau. Rhagdybir y byddai gofyn cynnal tri chyfarfod cyhoeddus i roi cyhoeddusrwydd i bob Asesiad o Anghenion Fferyllol am gost o £500 yr un, gan ychwanegu £1,500 at y costau. Y gost uniongyrchol i bob BILl am baratoi Asesiad o Anghenion Fferyllol felly fyddai £20,700. Disgwylir y byddai'r cylch cyntaf o Asesiadau o Anghenion Fferyllol yn cael ei gynnal yn 2017/18.

797. Rhagdybir y byddai angen adolygu Asesiad o Anghenion Fferyllol yn drwyadl bob pedair blynedd, ac amcangyfrifir y byddai'r costau a amlinellwyd uchod yn cael eu hailadrodd ar gyfer y gwaith hwn. Yn ogystal, rhagdybiwyd y byddai BILl yn gwneud mân ddiweddariadau i'w Hasesiad o Anghenion Fferyllol yn y blynyddoedd rhwng yr adolygiadau cynhwysfawr, gan gymryd un wythnos o amser uwch reolwr ac un wythnos o gymorth gweinyddol. Byddai'r gost o ddiweddaru bob tro felly oddeutu £1,800 fesul BILl.

798. Er na fyddai unrhyw ofyniad ffurfiol i wneud hynny, rhagwelir y gallai'r BILl o bosibl ddymuno ffurfio grŵp i oruchwylio'r broses o gwblhau eu Hasesiad o Anghenion Fferyllol oherwydd bod y broses yn un dechnegol. Rhagdybiwyd y byddai pob BILl yn cynnwys y cyngor iechyd cymuned, contractwyr fferyllfeydd cymuned, meddygon teulu a chynrychiolwyr o'r tîm iechyd y cyhoedd lleol. Amcangyfrifir y byddai tri unigolyn o bob grŵp yn mynd i hyd at bump o gyfarfodydd hanner diwrnod yn ystod y flwyddyn gyntaf, a phob pedwaredd flwyddyn wedi hynny. Amcangyfrifir mai dwywaith yn unig y byddent yn cyfarfod rhwng yr adegau hynny.

799. Amcangyfrifir costau mynd i gyfarfodydd y grŵp llywio lleol yn ôl costau cyfle'r amser, hynny yw, enillion rhagdybiedig, wedi eu cynyddu 30% ar gyfer argostau. Amcangyfrifir amser cleifion yn unol â chanolrif enillion yn y DU (£25,000 y flwyddyn), gwerthusir amser meddygon teulu yn unol â chyflog cyfartalog meddygon teulu (£106,100 y flwyddyn) fel y'i hamcangyfrifwyd gan y Personal Social Services Research Unit (PSSRU, 2014), gwerthusir amser fferyllwyr yn unol â chyflogau cyfartalog fferyllwyr (£38,735 y flwyddyn, gan y PSSRU, 2014) ac amcangyfrifwyd gwerth amser staff y tim Iechyd Cyhoeddus Lleol ar bwynt canol band 8a yr Agenda ar gyfer Newid (£44,261 y flwyddyn). Cyfanswm cost amser unigolion wrth gefnogi pob BILl i gynnal ei Asesiad o Anghenion Fferyllol yw £8,000 fesul BILl yn y flwyddyn gyntaf ac yn ystod pob blwyddyn pryd y bydd yr Asesiad o Anghenion Fferyllol yn

cael ei ddiweddaru'n drylwyr, a £3,000 fesul BILl am y cyfnod rhwng yr adegau hynny.

800. Byddai pob asesiad yn cael ei gyhoeddi ar fformat electronig yn unig. Ni fyddai unrhyw gostau cyhoeddi felly.

801. Yn ogystal â'r gwaith datblygu, byddai costau cyfieithu ynghlwm wrth yr Asesiad o Anghenion Fferyllol. Amcangyfrifir y byddai costau cyfieithu tua £600 fesul BILl ar gyfer pob diweddariad trylwyr (yn seiliedig ar 6,000 o eiriau), a £100 ar gyfer pob blwyddyn arall (yn seiliedig ar 1,000 o eiriau)[440].

802. Amcangyfrifir felly mai £205,100 pob pedair blynedd, a £34,300 ar gyfer pob blwyddyn arall fyddai cyfanswm cost Asesiadau o Anghenion Fferyllol ar gyfer y Byrddau Iechyd Lleol i gyd (gan gynnwys costau'r grŵp llywio). Mae hyn yn gyfartal i gostau o oddeutu £29,300 bob pedair blynedd, a £4,900 am bob blwyddyn arall fesul Bwrdd Iechyd Lleol.

*Cost yn deillio o gomisiynu gwasanaethau ychwanegol i ddiwallu anghenion fferyllol.*

803. Byddai'r costau sy'n deillio o gomisiynu gwasanaethau ychwanegol yn dibynnu ar ba anghenion, os o gwbl, y mae Asesiad o Anghenion Fferyllol pob BILl yn nodi nad ydynt wedi eu diwallu. Petai BILl yn nodi nad oes unrhyw anghenion fferyllol heb eu diwallu, ni fyddai unrhyw gost ychwanegol. Rhoddir y costau yn yr adran hon felly fel enghreifftiau.

804. Amcangyfrifwyd y costau a'r manteision diweddarach trwy lunio sefyllfa ddamcaniaethol wedi'i seilio ar amrywiaeth yn y Gwasanaethau Gwell Lleol a ddarperir. Er mwyn cael amcangyfrif ceidwadol o fantais net, rhagdybiwyd y bydd y gwasanaethau gwell a ddarperir, lle bo angen, yn adlewyrchu anghenion fferyllol y boblogaeth leol. Felly, gan ragdybio y byddai Asesiad o Anghenion Fferyllol cadarn yn arwain at gomisiynu gwasanaethau ychwanegol i ddiwallu anghenion y boblogaeth, byddai cost i'r BILl am ddarparu'r gwasanaethau hyn.

805. O dan Asesiadau Anghenion Fferyllol, byddai BILl yn gallu dylanwadu ar ansawdd gwasanaethau a pha mor rhwydd yw hi i gleifion gael gafael arnynt trwy gomisiynu gwasanaethau yn yr ardaloedd â'r angen mwyaf. Gallai Asesiadau Anghenion Fferyllol felly beri i BILl gomisiynu mwy o wasanaethau oddi wrth gontractwyr presennol yn ogystal ag oddi wrth newydd-ddyfodiaid. Byddai cost i BILl am ddarparu'r gwasanaethau hyn.

806. O'r 714 fferyllfa yng Nghymru, yn 2013/14 darparwyd y pedwar gwasanaeth gwell lleol (Iechyd y Cyhoedd) canlynol:

- Atal cenhedlu brys – 542 fferyllfa;
- Rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3 – 144 fferyllfa;
- Cyfnewid chwistrellau a nodwyddau – 213 fferyllfa; a
- Brechiad tymhorol rhag y ffliw – 236 fferyllfa

[440] Yn seiliedig ar £75 fesul 1000 o eiriau ar gyfer cyfieithu a £21 fesul 1000 o eiriau ar gyfer prawfddarllen

Mae hyn yn cyfateb i ddarparu 1.6 o'r gwasanaethau hyn fesul fferyllfa ar gyfartaledd.

807. Y gwariant ar y gwasanaethau hyn yn 2013/14 oedd £1,454,759. Rhennir hyn fel a ganlyn:

- Atal cenhedlu brys - £594,315
- Rhoi'r gorau i ysmygu lefel 3 - £497,715
- Cyfnewid chwistrellau a nodwyddau - £243,083
- Brechiad tymhorol rhag y ffliw - £119,646

808. Mae tystiolaeth a gyhoeddwyd yn awgrymu[441] bod cryn amrywiaeth o ran y graddau y mae Byrddau Iechyd Lleol yn comisiynu gwasanaethau fferyllol ychwanegol. Er ei bod yn debyg fod nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys y ffaith y bydd rhai gwasanaethau'n cael eu darparu gan ddarparwyr ar wahân i fferyllfeydd, ystyrir y gellir priodoli peth o'r amrywiaeth o leiaf i ffactorau sefydliadol, gan gynnwys y ffaith nad yw penderfyniadau comisiynu'r BILl yn cyd-fynd ag anghenion eu poblogaethau. Cefnogir y farn hon gan dystiolaeth a ddarparwyd i Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei ymchwiliad i gyfraniad fferylliaeth gymunedol at wasanaethau iechyd yng Nghymru[442].

809. Heb yr Asesiadau Anghenion Fferyllol nid oes unrhyw ddull o fesur yn wrthrychol i ba raddau y mae anghenion yn cael eu diwallu ar hyn o bryd. Felly, er mwyn sicrhau yr amcangyfrifir costau'n geidwadol, rhagdybiwyd bod y gwasanaethau gwell a gomisiynwyd gan y BILl eisoes yn diwallu'r mwyafrif llethol o anghenion fferyllol eu poblogaethau. Amcangyfrifwyd eu bod yn diwallu rhwng 70% a 90% o'r holl anghenion.

810. O dan y trefniadau newydd, felly, disgwylir cynnydd o rhwng 10% a 30% yn y gwasanaethau, gyda chostau'n cynyddu i'r un graddau, o 2018/19. Rhoddir amrywiaeth o sefyllfaoedd posibl yn y tabl isod, yn cynrychioli'r achosion gorau, gwaethaf a mwyaf tebygol yn dilyn y newid. Mae'r ffigur ar gyfer y sefyllfa fwyaf tebygol wedi ei defnyddio yn y tablau sy'n rhoi crynodeb ar ddiwedd yr opsiwn hwn.

*Tabl 7.39*

| | |
|---|---|
| Nifer y gwasanaethau gwell a ddarperir gan fferyllfeydd ar gyfartaledd | 1.6 |
| Cyfanswm cost y gwasanaethau gwell a ddarperir (£) | £1,454,759 |
| Cynnydd yn narpariaeth gwasanaethau gwell (achos gorau) | 30% |
| Cynnydd yn narpariaeth gwasanaethau gwell (achos gwaethaf) | 10% |

[441]Llywodraeth Cymru. (2014).*Gwasanaethau Fferylliaeth Gymunedol*. Llywodraeth Cymru, Caerdydd.
[442]Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2012). *Ymchwiliad i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru.* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.

| | |
|---|---|
| Cynnydd yn narpariaeth gwasanaethau gwell (achos mwyaf tebygol) | 20% |
| Cynnydd yng nghostau gwasanaethau gwell (£ y flwyddyn) (achos gorau) | £436,400 |
| Cynnydd yng nghostau gwasanaethau gwell (£ y flwyddyn) (achos gwaethaf) | £145,500 |
| Cynnydd yng nghostau gwasanaethau gwell (£ y flwyddyn) (achos mwyaf tebygol) | £291,000 |

**Manteision**

811. Yn yr adran nesaf cyfrifwyd y fantais net drwyddi draw trwy gymryd y gwahaniaeth rhwng y manteision gostyngol a'r costau cyfle gostyngol.

812. Modelwyd y fantais o ran cwtogi amser teithio a'r manteision o ran iechyd gan edrych ar un gwasanaeth fferyllol yn unig. Golyga hyn fod amcangyfrif y manteision yn geidwadol dros ben.

*Manteision iechyd yn deillio o ddarparu mwy o wasanaethau*

813. Er nad oes unrhyw ddata i brofi'n ddigamsyniol nad yw anghenion fferyllol yn cael eu diwallu ar hyn o bryd yng Nghymru, mae cryn amrywiaeth yn y gwasanaethau a ddarperir. Mae lle i ehangu gwasanaethau gwell mewn rhai ardaloedd BILl, gyda'r boblogaeth leol yn debygol o elwa ar y gwasanaethau hynny.

814. Er mwyn amcangyfrif y fantais net mewn modd ceidwadol, rhagdybiwyd y byddid yn cyfrannu at ddiwallu anghenion y boblogaeth leol trwy ddarparu gwasanaethau gwell. Defnyddiwyd gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu i fodelu'r manteision i gleifion yn sgil gynyddu'r ardaloedd sy'n elwa ar wasanaethau gwell.

815. Er mwyn cyflwyno esiampl enghreifftiol o gostau ychwanegol posibl, amcangyfrifir yn geidwadol mai'r sefyllfa fwyaf tebygol o dan yr opsiwn hwn yw y byddai 20% yn fwy o wasanaethau'n cael eu darparu (mewn termau absoliwt) o ganlyniad i gyflwyno Asesiadau Anghenion Fferyllol a theilwra gwasanaethau gwell i adlewyrchu anghenion y boblogaeth leol. Felly, rhagdybiwyd bod 80% o'r fantais bosibl eisoes yn cael ei gyflawni.

816. Yn 2013/14, darparodd 144 o fferyllfeydd wasanaeth lefel 3 rhoi'r gorau i ysmygu. Mae'r manteision o ran canlyniadau iechyd wedi'u hallosod o'r buddiannau i bobl a roddodd y gorau i ysmygu o ganlyniad i'r gwasanaeth, yn ôl blynyddoedd o fywyd wedi'u haddasu yn ôl ansawdd (QALY).

817. Yn 2013/14, ceisiodd 5,403 o gleifion roi'r gorau i ysmygu trwy wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu gan fferyllfeydd, ac roedd 2,016 o'r rhain yn dal heb ysmygu

bedair wythnos ers dechrau eu hymdrechion i ro'r gorau iddi.[443] Y ganran sy'n rhoi'r gorau iddi am byth yn sgil gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu yw 7% (gan ystyried y rhai a fyddai wedi rhoi'r gorau iddi pe byddai gwasanaethau'n bodoli ai peidio) a rhagdybiwyd bod hyn hefyd yn wir o ran cleifion yn defnyddio gwasanaethau a arweinir gan fferyllfeydd.

818. Mae'r manteision i iechyd pobl sy'n rhoi'r gorau i ysmygu yn sylweddol. Bydd unigolion sy'n rhoi'r gorau iddi ar eu hennill o ran hyd ac ansawdd bywyd. Mae'r nifer o flynyddoedd a enillir yn amrywio yn ôl oedran yr unigolyn pan fydd yn rhoi'r gorau i ysmygu. Cyfrifwyd y blynyddoedd o fywyd a enillir trwy roi'r gorau i ysmygu gan Brifysgol Birmingham[444] yn ôl grwpiau oedran fel y'u dangosir isod:-

*Tabl 7.40*

| Oedran yn rhoi'r gorau iddi (blynyddoedd) | Blynyddoedd a enillwyd | QALY |
|---|---|---|
| <35 | 10 | 8.44 |
| 35-45 | 9 | 7.36 |
| 45-54 | 6 | 4.47 |
| 55-64 | 3 | 1.455 |

819. Nid oedd data ar gael ar broffil oedran defnyddwyr gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu mewn fferyllfeydd. Fodd bynnag, roedd data ar gael ar gyfer pobl a roddodd y gorau i ysmygu trwy'r gwasanaeth cenedlaethol rhoi'r gorau i ysmygu, Dim Smygu Cymru yn 2012/13[445]. Dangosir hyn yn y tabl isod:-

*Tabl 7.41*

| Grŵp oedran | Nifer a roddodd y gorau i ysmygu | % o'r holl rai a roddodd y gorau i ysmygu |
|---|---|---|
| <18 | 14 | 0.53 |
| 18-34 | 414 | 15.80 |
| 35-59 | 1518 | 57.96 |
| 60+ | 664 | 25.35 |

[443] Yn seiliedig ar wybodaeth reoli a gedwir gan Lywodraeth Cymru
[444] Wang et al 2006. Cut Down to Quit with Nicotine Replacement Therapies (NRT) yn Smoking Cessation: Systematic review of effectiveness and economic analysis. Prifysgol Birmingham.
[445] Dim Smygu Cymru. Adroddiad Blynyddol Dim Smygu Cymru 2012/13.Iechyd Cyhoeddus Cymru.

820. Er mwyn cyfrifo'r enillion QALY ar gyfartaledd sy'n gysylltiedig â rhoi'r gorau i ysmygu, rhagdybiwyd y byddai proffil y bobl sy'n rhoi'r gorau iddi mewn fferyllfeydd yr un fath â phroffil y bobl sy'n defnyddio Dim Smygu Cymru. Oherwydd nad yw'r grwpiau oedran a ddefnyddir gan Dim Smygu Cymru yr un fath â'r rhai y mae enillion QALY ar gael ar eu cyfer, ac er mwyn sicrhau amcangyfrif ceidwadol o'r manteision, priodolwyd enillion QALY i'r grwpiau oedran a nodwyd gan Dim Smygu Cymru, gan ddefnyddio amcangyfrifon is. Dangosir y rhain yn y tabl isod:-

*Tabl 7.42*

| Grŵp oedran | Enillion QALY | Enillion QALY gostyngol[446] |
|---|---|---|
| <18 | 8.44 | 2.22 |
| 18-34 | 8.44 | 2.22 |
| 35-59 | 4.47 | 2.14 |
| 60+ | 0 | 0 |

821. Trwy gymhwyso'r enillion QALY gostyngol hyn i gyfran y rhai sy'n rhoi'r gorau i ysmygu ym mhob grŵp oedran yn rhoi ffigur QALY gostyngol o 1.6 QALY fesul unigolyn sy'n rhoi'r gorau i ysmygu ar gyfartaledd.

822. Gan ddefnyddio'r data o 2013/2014 ynglŷn â gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu mewn fferyllfeydd a'r cynnydd a amcangyfrifir yn y gwasanaethau hynny o ganlyniad i Asesiadau Anghenion Fferyllol, dangosir yr effaith ar y niferoedd sy'n rhoi'r gorau i ysmygu yn yr hir dymor bob blwyddyn yn y tabl isod:-

*Tabl 7.43*

| | |
|---|---|
| Nifer yr ysmygwyr sy'n derbyn triniaeth bob blwyddyn o dan y trefniadau presennol. | 5,403 |
| Nifer yr ysmygwyr nad ydynt wedi aillddechrau ar ôl 4 wythnos | 2,016 |

[446] Mae ffigurau QALY wedi'u gostwng 3.5% ym mhapur Wang et al (2006). Gostyngir manteision iechyd 1.5% gan amlaf, felly mae hyn yn rhoi amcangyfrif ceidwadol o'r ennillion QALY.

| | |
|---|---|
| Amcangyfrif o'r nifer sy'n rhoi'r gorau i ysmygu yn yr hirdymor (7% o'r rhai sydd wedi rhoi'r gorau am 4 wythnos) | 141 |
| Cynnydd yn y nifer sy'n rhoi'r gorau iddi yn yr hirdymor (achos gorau = cynnydd o 30%) | 42 |
| Cynnydd yn y nifer sy'n rhoi'r gorau iddi yn yr hirdymor (achos gwaethaf = cynnydd o 10%) | 14 |
| Cynnydd yn y nifer sy'n rhoi'r gorau iddi yn yr hirdymor (achos mwyaf tebygol = cynnydd o 20%) | 28 |

823. Gyda QALY gostyngol o 1.6 ar gyfartaledd fesul unigolyn sy'n rhoi'r gorau i ysmygu yn yr hirdymor, amcangyfrifir mai amrediad y QALY a enillir bob blwyddyn o ganlyniad i Asesiad o Anghenion Fferyllol yw rhwng 22 (achos gwaethaf) a 67 (achos gorau), a 45 QALY yw'r amcangyfrif mwyaf tebygol.

824. Gan bennu mai £60,000 yw gwerth QALY, amcangyfrifir mai rhwng £1.32 miliwn a £4.02 miliwn yw'r fantais sy'n deillio o'r rhai sy'n rhoi'r gorau i ysmygu yn yr hirdymor, a £2.7 miliwn yw'r amcangyfrif mwyaf tebygol. Disgwylir i'r fantais hon gronni o 2018/19. Mae hwn yn debygol o fod yn amcangyfrif ceidwadol gan nad yw'n ystyried ffactorau allanol eraill y mae ysmygu'n eu hachosi (fel gwariant y GIG neu wariant personol).

825. Ni werthuswyd yn uniongyrchol y manteision posibl o ganlyniad i'r cynnydd a ddisgwylir yn y gwasanaethau eraill a ddarperir gan fferyllfeydd. Byddem yn disgwyl cynnydd tebyg mewn darpariaeth a manteision; fodd bynnag, ni fesurwyd y rhain er mwyn sicrhau bod yr amcangyfrif net o'r manteision yn un ceidwadol.

*Manteision yn deillio o leihau amser teithio*

826. Er mwyn cyfrifo'r manteision sy'n deillio o leihau amser teithio, defnyddiwyd yr un dull â'r hyn a fabwysiadwyd gan y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) yn ei hastudiaeth yn 2010, *Evaluating the impact of the* 2003 *OFT study on the Control of Entry regulations in the retail pharmacies market*[447]. Er bod yr astudiaeth honno'n ymdrin â Lloegr, ystyrir ei bod yn rhesymol rhagdybio bod y farchnad fferylliaeth gymunedol yng Nghymru ar hyn o bryd yn debyg i'r farchnad yn Lloegr cyn cyflwyno'r newidiadau rheoli mynediad yn 2005. Addaswyd y manteision o ran lleihau amser teithio, fel y'u mesurwyd yn adroddiad y Swyddfa Masnachu Teg, i adlewyrchu'r lleihad mwy ceidwadol mewn amser teithio yr ystyrir y byddem yn ei gael yng Nghymru. Rhagwelir y byddem yn gweld newidiadau bach yng Nghymru yn nifer y fferyllfeydd yn sgil cyflwyno Asesiadau Anghenion Fferyllol (mewn cyferbyniad â'r cynnydd sylweddol yn nifer y fferyllfeydd a welwyd yn Lloegr, ond y byddai mwyafrif y manteision yn deillio o'r ffaith y byddai'r fferyllfeydd wedi eu dosbarthu'n well ar y cyfan (mewn cyferbyniad â'r clystyrau o fferyllfeydd a welwyd yn Lloegr).

[447]Y Swyddfa Masnachu Teg. 2010. *Evaluating the impact of the 2003 OFT study on the Control of Entry regulations in the retail pharmacies market. Y Swyddfa Masnachu Teg. Llundain.*

827. Yn 2013/14 cyflwynwyd tua 34.4 miliwn o ffurflenni presgripsiwn i'w dosbarthu mewn fferyllfeydd yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli 68.8 miliwn o deithiau'n gysylltiedig â phresgripsiynau, gan fod pobl yn teithio'n ôl a blaen o'r fferyllfa. Amcangyfrifwyd, yn Adroddiad y Swyddfa Masnachu Teg y cyfeiriwyd ato'n gynharach, bod tua 14% o bresgripsiynau yn cael eu danfon yn hytrach na'u casglu, gan leihau nifer y teithiau sy'n gysylltiedig â phresgripsiynau i 59.2 miliwn y flwyddyn. Rhagdybiwyd bod cyfuniad o'r ffaith y bydd fferyllfeydd newydd yn ymuno â'r farchnad mewn ardaloedd ag anghenion heb eu diwallu, ynghyd â'r ffaith y bydd gwasanaethau fferyllol wedi eu dosbarthu'n well, yn arwain at leihad bach ar gyfartaledd yn y pellter sydd angen ei deithio i fferyllfeydd. A rhagdybio lleihad o 10 metr ar gyfartaledd, ac o ddefnyddio amcangyfrifon o isafswm o 5.85 ac uchafswm o 8.78 cilomedr yr awr ar y rhaniad 54/46 rhwng teithiau mewn car neu ar droed yn dilyn y fethodoleg a fabwysiadwyd yn adroddiad y Swyddfa Masnachu Teg, mae hyn yn rhoi arbedion amser teithio blynyddol o rhwng 67,426 awr a 101,196 awr.

828. Mae angen amcangyfrifon o werth amser defnyddwyr er mwyn mesur effaith arbedion mewn amser teithio. Mae'r Adran Drafnidiaeth yn darparu amcangyfrif o werth amser at ddiben dadansoddi prosiectau trafnidiaeth arferol. Mae cryn wahaniaeth rhwng amser gwaith ac amser nad yw'n amser gwaith. (£26.73 a £4.46 yr awr ym mhrisiau 2002), gan adlewyrchu a oes costau cyfle o safbwynt allbwn llafur. Mae proffil oedran ac incwm defnyddwyr presgripsiwn, a'r ffaith bod y rhan fwyaf o bresgripsiynau'n ailadroddiadau, yn awgrymu mai ychydig iawn o amser gwaith sy'n cael ei dreulio ar deithiau'n gysylltiedig â phresgripsiynau.

829. Yn ôl ymchwil defnyddwyr Swyddfa Masnachu Teg, oddeutu 5% o ymweliadau â fferyllfa ar gyfer presgripsiwn sy'n cychwyn o'r gwaith a digwydd 87% o'r rhain yn ystod y diwrnod gwaith, er y rhagwelir bod nifer sylweddol o ymweliadau'n cael eu gwneud yn ystod yr awr ginio. Ar y llaw arall, bydd rhai ymweliadau sy'n cychwyn o'r cartref neu feddygfa yn disodli amser gwaith. Heb ddata pendant, gwnaed y rhagdybiaeth geidwadol nad yw mwy na 2% o amser teithio i fferyllfa ac yn ôl yn disodli amser gwaith. Mae hyn yn arwain at Werth Amser o £6.30 yr awr ar gyfartaledd ar gyfer cwsmeriaid presgripsiwn, ar ôl addasu'r gwerthoedd ar gyfer y twf mewn Gwerth Amser (VOT) ers 2002, gan ddefnyddio'r graddfeydd twf a osodwyd gan yr Adran Drafnidiaeth yn yr un ffynhonnell.

830. Gan ddefnyddio'r amcangyfrif o Werth Amser ar gyfartaledd, byddai mantais o rhwng £424,800 a £637,600 yn deillio o arbed amser teithio blynyddol yn gysylltiedig â'r Asesiad o Anghenion Fferyllol. Eto, disgwylir i'r fantais flynyddol hon gronni o 2018-19 ymlaen. Er mwyn darparu amcangyfrif ceidwadol, ac addasu ar gyfer goramcangyfrifon posibl yn nifer y teithiau, mae pen isaf yr ystod hwn wedi'i gynnwys yn y tablau ar ddiwedd yr opsiwn hwn.

*Arbed costau yn sgil llai o geisiadau*

831. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i berson sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol y GIG wneud cais i'r BILl perthnasol. Rhaid i ddarpar ymgeiswyr benderfynu drostynt eu hunain ynglŷn ag anghenion fferyllol y boblogaeth y byddai'r fferyllfa y bwriadant ei hagor yn ei gwasanaethu, ac ynglŷn â pha mor ddigonol yw'r gwasanaethau fferyllol sydd eisoes yn bodoli. O dan yr opsiwn hwn, byddai darpar ymgeiswyr yn y dyfodol yn gallu cyfeirio at Asesiad o Anghenion Fferyllol y BILl wrth

benderfynu gwneud cais ai peidio. Gan fod dros hanner yr holl geisiadau (ac eithrio'r rhai'n ymwneud â mân gynlluniau ail-leoli) a ddaw gerbron y BILl yn cael eu gwrthod ar hyn o bryd (59% yn 2013/14), rhagwelir na fyddai cyfran o'r ceisiadau a wneir o dan y system bresennol yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol. Y rheswm am hyn yw y byddai'n amlwg ar unwaith o Asesiad o Anghenion Fferyllol y BILl nad oes angen gwasanaethau fferyllol ychwanegol.

832. Ar hyn o bryd, mae ymgeiswyr yn talu ffi bob tro y maent yn gwneud cais i gael eu cynnwys ar restr fferyllol BILl. Y ffi ar gyfer ymuno â'r rhestr am y tro cyntaf ar hyn o bryd yw £600. Disgwylir y byddai nifer y ceisiadau sy'n annhebyg o lwyddo yn lleihau, ond y byddai cynnydd mewn ceisiadau na fyddent yn cael eu gwneud ar hyn o bryd trwy iddynt gael eu hysgogi gan angen a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Fferyllol. Er mwyn sicrhau amcangyfrif ceidwadol o'r manteision net, a chan fod y lleihad net yn nifer y ceisiadau'n debyg o fod yn isel, ni fesurwyd faint o gostau fyddai'n cael eu harbed. Fodd bynnag, disgwylir y bydd rhai darpar ymgeiswyr yn elwa o'i gymharu â'r trefniadau presennol.

*Arbed costau yn sgil llai o apeliadau ynglŷn â mynediad*

833. Mae'r penderfyniadau a wneir gan Fyrddau Iechyd Lleol mewn perthynas â chaniatáu i ddarparwyr gwasanaethau fferyllol ychwanegol ymuno â'r farchnad yn aml yn destun apeliadau. Cyflwynir apeliadau o'r fath i Weinidogion Cymru.

834. Dylai llai o apeliadau gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru o ganlyniad i ymgynghori mwy wrth baratoi Asesiadau Anghenion Fferyllol a gwneud penderfyniadau mwy eglur oherwydd bod ceisiadau'n cael eu barnu yn erbyn datganiadau pendant o anghenion fferyllol. Dangosir nifer yr apeliadau a benderfynwyd gan Weinidogion Cymru rhwng 2009/10 a 2013/14 isod:-

*Tabl 7.44*

| Blwyddyn | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Apeliadau a benderfynwyd | 8 | 29 | 28 | 39 | 11 | **115** |

835. Mae nifer yr apeliadau i Weinidogion Cymru mewn unrhyw gyfnod yn amrywio'n fawr. Mae'n bosibl bod apeliadau a dderbynnir yn ystod un flwyddyn yn cael eu penderfynu yn y flwyddyn ganlynol ac mewn rhai achosion, fel y rhai sy'n cynnwys adolygiad barnwrol, gall penderfyniadau apêl gymryd mwy o amser na hynny. Amcangyfrifir mai oddeutu 23 o apeliadau y flwyddyn a benderfynir gan Weinidogion Cymru.

836. Amcangyfrifwyd yn flaenorol mai oddeutu £6,000 oedd cost cyflwyno pob apêl i Awdurdod Ymgyfreitha'r GIG o dan drefniadau yn Lloegr, a oedd ar y pryd yn

cyfateb i'r trefniadau yng Nghymru[448]. Byddai hyn yn golygu mai £156,000 fyddai cyfanswm y gost flynyddol i Weinidogion Cymru am benderfynu 23 o apeliadau'r flwyddyn (wedi ei gynyddu o £138,000 ym mhrisiau 2007/08).

837. Er y disgwylir i nifer yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau BILl leihau, ceir ansicrwydd sylweddol wrth amcangyfrif faint o apeliadau a fyddai'n cael eu cyflwyno yn dilyn y newidiadau. Un rheswm am hyn yw y byddai penderfyniadau'r BILl yn fwy tryloyw ac yn haws eu deall, ond byddai disgwyl hefyd i lai o geisiadau gael eu cyflwyno ar hap yn y lle cyntaf oherwydd bod Asesiad o Anghenion Fferyllol wedi ei sefydlu.

838. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rhoddir amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd posibl yn y tabl isod, yn cynrychioli'r achosion gorau, gwaethaf a'r mwyaf tebygol yn dilyn y newid. Rhagdybir y byddai rheoliadau ynglŷn â system fynediad newydd seiliedig ar anghenion yn dod i rym yn 2017, ac y byddid yn ymdrin â phob apêl sy'n weddill o dan y system bresennol yn ystod 2017/18.

*Tabl 7.45*

| **Blwyddyn** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** |
|---|---|---|---|---|---|
| Apeliadau a ddisgwylir o dan y drefn bresennol. | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 |
| Amcangyfrif o gostau apeliadau (£ 000s) | 156 | 156 | 156 | 156 | 156 |
| Lleihad yn nifer yr apeliadau o dan y drefn newydd (achos gorau) | 0% | 0% | 30% | 30% | 30% |
| Lleihad yn nifer yr apeliadau o dan y system newydd (achos gwaethaf) | 0% | 0% | 5% | 5% | 5% |
| Lleihad yn nifer yr apeliadau o dan y system newydd (achos mwyaf tebygol) | 0% | 0% | 20% | 20% | 20% |
| Amcangyfrif o'r arbedion o dan y drefn newydd (£) (achos gorau) | 0 | 0 | 46,800 | 46,800 | 46,800 |

[448]Yr Adran Iechyd (2008). *Impact assessment of proposals to reform 'market entry' based on pharmaceutical needs assessment*. Yr Adran Iechyd. Llundain.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o'r arbedion o dan y drefn newydd (£) (achos gwaethaf) | 0 | 0 | 7,800 | 7,800 | 7,800 |
| Amcangyfrif o'r arbedion o dan y drefn newydd (£) (achos mwyaf tebygol) | 0 | 0 | 31,200 | 31,200 | 31,200 |

839. O dan y sefyllfa fwyaf tebygol, disgwylir gostyngiad o 20% yn nifer yr apeliadau i Weinidogion Cymru. Byddai hyn yn arwain at arbed £31,200 y flwyddyn o 2018/19 ymlaen.

*Manteision ehangach*

840. Rhagwelir y byddai manteision anuniongyrchol eraill hefyd yn deillio o'r opsiwn hwn. Yn benodol, rhagwelir y byddai gwasanaethau iechyd yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon trwy gynyddu'r gwasanaethau hyn, gan ryddhau amser meddygon teulu. Disgwylid gweld manteision economaidd i gymunedau lleol hefyd lle mae fferyllfeydd newydd yn cael eu sefydlu. Nodwyd mai fferyllfeydd cymunedol yw un o'r busnesau hanfodol sy'n sicrhau bod cymunedau'n ffynnu'n economaidd[449]. Bydd newydd-ddyfodiaid felly'n cyfrannu at gynnal cymunedau lleol, gan ddarparu swyddi lleol a chyfleoedd i siopa, a chan adeiladu cyfalaf cymdeithasol. Fodd bynnag, ni fesurwyd y manteision hyn.

*Anfanteision i gontractwyr fferyllol wrth i fferyllfeydd newydd ymuno â'r farchnad.*

841. Ni ragwelir unrhyw anfantais net i gontractwyr fferyllol, gan y byddai manteision cyfatebol i newydd-ddyfodiaid yn gwneud iawn am unrhyw anfanteision i gontractwyr presennol.

**Trefn ymadael**

**Disgrifiad**

842. Ynghyd â threfn fynediad wedi ei seilio ar angen, byddai trefn ymadael hefyd yn cael ei chyflwyno a fyddai'n arwain at weithredu effeithiol fesul cam i ymdrin â darparwyr sy'n methu â chyflawni'r dyletswyddau a nodir yn eu telerau gwasanaeth, ac sy'n derbyn tâl gan y GIG heb gyflawni eu rhwymedigaethau cytundebol i'r GIG. Yn y pen draw, pe byddai fferyllfa'n torri amodau ei gwasanaeth yn gyson, neu pe byddai'n torri amodau mewn modd arwyddocaol, gallai BILl dynnu'r fferyllfa oddi ar ei restr fferyllol.

843. Nodwyd ym Mhapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd bod Llywodraeth Cymru'n dymuno sicrhau bod cosbau mwy effeithiol ar gael i fynd i'r afael â pherfformiad gwael. Trwy gyflwyno darpariaethau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag ansawdd,

[449]Yr Adran Iechyd. (1999) *Improving Shopping Access for People Living in Deprived Neighbourhoods – a paper for discussion*. Yr Adran Iechyd. Llundain.

gellid rhoi cymhelliad i gontractwyr wella modd y maent yn cyflwyno'u gwasanaethau, a rhoi'r grym i BILl ddad-gomisiynu gwasanaethau pan fo gwasanaeth digonol eisoes ar gael ond nad yw'r contractwr yn bodloni safonau ansawdd sylfaenol.

844. Ynghyd â'r pwerau sy'n bodoli eisoes yn adrannau 82 ac 83 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006, ystyrir bod angen pwerau ychwanegol i alluogi BILl i dynnu contractwyr oddi ar y rhestr fferyllol pan fyddant yn torri amodau eu contract â'r GIG yn gyson neu mewn modd difrifol.

845. Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi BILl i gymryd camau effeithiol a chymesur, gan gynnwys tynnu'n ôl yr hawl i ddarparu gwasanaethau fferyllol, yn erbyn contractwyr nad ydynt yn cyrraedd lefelau derbyniol o ran ansawdd. Disgwylir i hyn fod o fudd uniongyrchol trwy sicrhau bod llai o wasanaeth o ansawdd gwael yn cael ei ddarparu gan y darparwyr hyn, ond byddai hefyd yn rhoi cymhelliad i'r holl fferyllfeydd wella eu safonau.

**Costau**

846. Disgwylid i Fyrddau Iechyd Lleol wynebu costau wrth weinyddu'r mesurau hyn; wrth gasglu a dadansoddi gwybodaeth i adnabod contractwyr o ansawdd gwael; wrth weithredu yn eu herbyn; ac wrth reoli apeliadau yn erbyn eu penderfyniadau.

847. Byddai contractwyr yn wynebu costau wrth gasglu'r wybodaeth y mae ar y BILl ei hangen er mwyn gweinyddu'r system hon. Byddai contractwyr y cymerir camau yn eu herbyn hefyd yn wynebu costau wrth gynnal eu hamddiffyniad. Bydd effeithiau'r cynigion yn y pen draw yn dibynnu ar fanylion y rheoliadau a ddygir gerbron o dan y ddeddfwriaeth sylfaenol. Felly, cyfrifwyd costau a manteision enghreifftiol ar gyfer sefyllfaoedd cynrychiadol a allai ddigwydd ar ôl rhoi'r rheoliadau ar waith. Byddai'n rhaid dilyn y gweithdrefnau ymgynghori arferol ar gyfer y rheoliadau, a byddent yn cael eu datblygu gan roi sylw dyledus i'r risgiau, y costau a'r manteision a fyddai'n deillio ohonynt.

848. Byddai Llywodraeth Cymru'n darparu canllawiau ynglŷn â'r system ymadael a byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yng nghanllawiau'r Asesiad o Anghenion Fferyllol a drafodwyd yn gynharach wrth asesu Opsiwn 2. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol tu hwnt i'r rhai a amlinellwyd eisoes.

*Costau i'r Byrddau Iechyd Lleol wrth reoli perfformiad*

849. Mae BILl eisoes yn rheoli perfformiad contractwyr fferyllol yn rhan o fframwaith contract presennol gwasanaethau fferyllol y GIG. Rhagdybir na fyddent yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol er mwyn nodi fferyllfeydd y dylid ystyried gweithredu yn eu herbyn.

850. Yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Byrddau Iechyd Lleol, amcangyfrifir y gallent weithredu yn erbyn hyd at bump o gontractwyr fferyllol bob blwyddyn. Byddai pob achos yn arwain at gostau staff wrth grynhoi gwybodaeth ychwanegol, rheoli'r weithdrefn ddisgyblu ac amddiffyn unrhyw apeliadau - a rhagdybir, fel sefyllfa achos gwaethaf, y cyflwynir apêl ym mhob achos. Rhagdybir y byddai angen cyfanswm o

un uwch reolwr ac un swyddog cymorth gweinyddol o'r BILl am hyd at 10 diwrnod ar gyfer y broses hon; pennir gwerth cyflogau blynyddol ar bwynt canol bandiau 8b a 4 yr Agenda ar gyfer Newid sef £52,235 a £20,983 (Agenda ar gyfer Newid 2014/15) wedi ei gynyddu 30% ar gyfer argostau. Yn seiliedig ar brofiad blaenorol, rhagdybir costau cyfreithiol o £3,900 fesul achos ar gyfartaledd. Amcangyfrifir felly mai £34,500 yw cyfanswm y gost flynyddol i'r Byrddau Iechyd Lleol, a wynebir o 2018/19.

*Costau cydymffurfio i'r contractwyr*

851. Disgwylir y byddai contractwyr yn wynebu costau wrth ddarparu'r wybodaeth y mae ar y BILl ei hangen ar gyfer asesiadau. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o gontractwyr eisoes yn gwneud y gwaith hwn er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau presennol ar gyfer monitro perfformiad. Fodd bynnag, rhagdybir y ceir nifer fach o gontractwyr nad ydynt yn gwneud y gwaith hwn a bydd y contractwyr hynny felly yn wynebu costau ychwanegol. Amcangyfrifir y byddai hyn yn golygu gwaith a chost ychwanegol i 10% o gontractwyr (tua 70). Amcangyfrifir ei bod yn cymryd wythnos bob blwyddyn i ddangos cydymffurfiaeth. Os gwneir y gwaith gan dechnegydd fferyllol, â'i amser yn costio £15 yr awr (gan gynnwys argostau)[450], a bod hyn yn berthnasol i 70 o gontractwyr, £39,000 fydd y costau blynyddol, o 2018/19.

*Costau i gontractwyr yn deillio o amddiffyn achosion*

852. Rhagdybir y bydd contractwr sy'n amddiffyn achos yn wynebu'r un costau â'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n dwyn yr achos yn ei erbyn. Mae hyn yn golygu cost flynyddol o £34,500 o 2018/19.

*Costau i gontractwyr presennol yn deillio o elw a gollwyd*

853. Rhagdybir y bydd unrhyw elw a gollir gan gontractwyr sy'n rhoi'r gorau i fod yn gyflenwyr i'r GIG, yn cael ei wrthbwyso gan yr elw a enillir gan gontractwyr presennol neu gan y newydd-ddyfodiaid sy'n eu disodli.

*Tabl 7.46 - Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2*

| | 2016/17<br>£ | 2017/18<br>£ | 2018/19<br>£ | 2019/20<br>£ | 2020/21<br>£ | 2021/22<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau** | | | | | | |
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | |
| Costau i ddatblygu canllawiau | 0 | 17,600 | 0 | 0 | 0 | 0 |

[450] Yn seiliedig ar ben uchaf y raddfa band 4 agenda ar gyfer newid ac ychwanegu 30% o argostau

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Gost i Lywodraeth Cymru** | **0** | **17,600** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Byrddau Iechyd Lleol** | | | | | | |
| | | | | | | |
| Costau'n gysylltiedig â chynnal Asesiadau o Anghenion Fferyllol | - | 205,100 | 34,300 | 34,300 | 34,300 | 205,100 |
| Costau'n deillio o gomisiynu gwasanaethau ychwanegol i ddiwallu anghenion fferyllol | - | - | 291,000 | 291,000 | 291,000 | 291,000 |
| Costau cyflawni gwaith rheoli perfformiad | - | - | 34,500 | 34,500 | 34,500 | 34,500 |
| **Cyfanswm y gost i Fyrddau Iechyd Lleol** | | **205,100** | **359,800** | **359,800** | **359,800** | **530,600** |
| **Contractwyr** | | | | | | |
| Cost cydymffurfiad i gontractwyr | - | - | 39,000 | 39,000 | 39,000 | 39,000 |
| Costau amddiffyn achosion i gontractwyr | - | - | 34,500 | 34,500 | 34,500 | 34,500 |
| **Cyfanswm y gost i gontractwyr** | | | **73,500** | **73,500** | **73,500** | **73,500** |
| **Cyfanswm y costau** | **-** | **222,700** | **433,300** | **433,300** | **433,300** | **604,100** |

**Manteision**

854. Disgwylir y bydd ansawdd gwasanaethau'n gwella trwy roi pwerau i bob BILl i gymryd camau yn erbyn contractwyr gwael – drwy wella safonau darparwyr gwael a rhai nad ydynt yn cyflawni'r safonau gofynnol, neu drwy dynnu eu hawliau i ddarparu gwasanaethau'r GIG yn ôl, a thrwy greu cymhelliad cyffredinol i wella safonau.

855. Nid oes modd rhagweld union werth y fantais i'r claf y gellir ei ddisgwyl o ganlyniad i'r mesurau hyn. Er mwyn gwerthuso a yw'r manteision yn fwy na'r costau, mae felly angen creu sefyllfa gredadwy, geidwadol, sy'n rhoi amcangyfrif rhy isel o fantais net debygol y mesurau. Felly nid yw'r manteision sy'n gysylltiedig â chryfhau'r trefniadau ymadael wedi cael eu mesur.

*Tabl 7.47 - Crynodeb o'r manteision sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2*

| **Benefits** | **2016/17 £** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** | **2021/22 £** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Manteision o ran iechyd | - | - | 2.70m | 2.70m | 2.70m | 2.70m |
| Lleihad mewn amseroedd teithio | - | - | 424,800 | 424,800 | 424,800 | 424,800 |
| Gostyngiad yn nifer yr apeliadau i Weinidogion Cymru o dan y drefn newydd | - | - | 31,200 | 31,200 | 31,200 | 31,200 |
| **Cyfanswm y manteision** | | **-** | **3,156,000** | **3,156,000** | **3,156,000** | **3,156,000** |

*Tabl 7.48: - Trosolwg o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2*

| **Trosolwg o'r Costau a'r Manteision â Gwerth Ariannol (£)** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y gost** | **-** | **222,700** | **433,300** | **433,300** | **433,300** | **604,100** |
| **Cyfanswm y manteision** | | **-** | **3,156,000** | **3,156,000** | **3,156,000** | **3,156,000** |
| **Manteision net** | | **-222,700** | **2,722,700** | **2,722,700** | **2,722,700** | **2,551,900** |

**Opsiwn 3 - Diddymu trefniadau 'rheoli mynediad' a chaniatáu marchnad rydd ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol y GIG**

**Disgrifiad**

856 Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi grymoedd y farchnad i benderfynu ar nifer a lleoliad fferyllfeydd cymunedol a'r gwasanaethau a gynigir ganddynt. Mae'n debygol y byddai nifer y fferyllfeydd yn cynyddu'n sylweddol, gyda chynnydd cysylltiedig mewn costau. Nid oes modd amcangyfrif pa mor sylweddol fyddai'r cynnydd yn niferoedd y fferyllfeydd, er bod profiad yn Lloegr yn dangos y gwelwyd cynnydd o 18% rhwng 2005/06 a 2012/13 yn sgil cyflwyno esemptiadau cyfyngedig i'r profion rheoli mynediad[451]. Daeth y rhain i rym yn 2005.

**Costau a manteision**

857. Mae'n debygol y gwelid rhai manteision, o ran gwell mynediad, dewis a chystadleuaeth, trwy ddiddymu trefniadau rheoli mynediad. Fodd bynnag, mae hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd yn yr ardaloedd lle y gwelir y galw economaidd uchaf, sydd eisoes yn cael eu gwasanaethu'n dda. Byddai'r enillion economaidd yn gostwng yn raddol, gan y byddai pob newydd-ddyfodiad yn dod â manteision cysylltiedig is ond yr un costau sefydlog.

858. Byddai newid i'r ddeddfwriaeth yn debygol o arwain at amharu llawer iawn ar y farchnad. Byddai newydd-ddyfodiaid a nifer o fferyllfeydd sy'n bodoli eisoes yn ceisio sicrhau'r sefyllfaoedd masnachu mwyaf manteisiol er mwyn cynyddu refeniw.

859. Mae'n eithriadol o anodd gwneud tybiaethau credadwy o ran costau a manteision yr opsiwn hwn. Mae'n annhebygol iawn y byddai grymoedd y farchnad yn cyflawni'r amcanion polisi o ran sicrhau bod gwasanaethau'n cyd-fynd ag anghenion lleol, oherwydd y byddai'r rhan fwyaf o newydd-ddyfodiaid yn penderfynu ble i sefydlu eu fferyllfa ar sail ffigurau presgripsiynau, gan mai dyma'r data sydd ar gael am y farchnad, yn hytrach nag ar sail gwasanaethau iechyd y cyhoedd, na ellir eu hasesu ar hyn o bryd. Mae'n debygol y byddai rhai fferyllfeydd yn symud o leoliadau presennol o fewn cymunedau i leoliadau sydd wrth ymyl meddygfeydd mawr. Mewn sefyllfaoedd o'r fath byddai'n anos i bobl gael gafael ar wasanaethau mewn rhai ardaloedd, a byddai'n dod yn haws mewn ardaloedd eraill. Byddai hyn yn cael effaith yn arbennig ar gymunedau gwledig. Ystyrir felly bod y dewis hwn yn anfoddhaol ac nid yw wedi cael ei fesur.

**Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir**

860. Mae'r dystiolaeth yn dangos manteision newid y trefniadau rheoli mynediad presennol yng Nghymru. Trwy gyflwyno Asesiadau Anghenion Fferyllol a threfniadau mynediad seiliedig ar anghenion, gellid mynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol lle nad yw anghenion fferyllol yn cael eu hasesu fel mater o drefn o bosibl, a lle nad yw'r drefn o gynllunio gwasanaethau fferyllol o reidrwydd yn cyd-fynd ag

[451] HSCIC (2013) General Pharmaceutical Services in England - 2003-04 to 2012-13

anghenion iechyd a nodwyd. Byddai'r newidiadau hefyd yn cryfhau swyddogaeth y BILl o ran penderfynu pwy sy'n darparu gwasanaethau o'r fath ac ymhle, ac yn darparu adnoddau rheoli perfformiad i wella ansawdd a chysondeb y gwasanaethau a ddarperir gan gontractwyr fferyllol.

861. Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau presennol, ond mae ymatebion i ymgynghoriad blaenorol[452] ar reoli mynediad yng Nghymru yn awgrymu y ceir consensws bod y trefniadau hyn wedi dyddio ac yn annigonol. Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid yn cydnabod ac yn cefnogi'r angen am newid. Nid ystyrir bod Opsiwn 3 yn cyflawni'r amcan polisi allweddol. Mae tystiolaeth o Loegr yn dangos bod dadreoleiddio yn arwain at sicrhau bod fferyllfeydd ar gael yn rhwyddach i bobl, gan fod mwy ohonynt. Fodd bynnag, mae fferyllfeydd yn tueddu i glystyru yn agos at ei gilydd yn gyffredinol mewn ardaloedd lle nad oes llawer o angen[453]. Opsiwn 2 felly yw'r opsiwn a ffefrir gan ei fod yn mynd i'r afael â'r angen i gael gwell trefniadau ar gyfer cynllunio, gwneud penderfyniadau a rheoli perfformiad. Mae'r dadansoddiad ceidwadol a gynhaliwyd yn awgrymu y byddai manteision y newid yn mwy na gwneud iawn am y costau, gan arwain at werth presennol net cadarnhaol o oddeutu £10,497,300 dros y cyfnod o bum mlynedd.

## Darparu toiledau (Rhan 6)

862. Ystyriwyd pedwar opsiwn:-

- Opsiwn 1 - Gwneud dim;
- Opsiwn 2 – Ailneilltuo'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus;
- Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddatblygu a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol. Hwn yw'r opsiwn a ffefrir; ac
- Opsiwn 4 – Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o doiledau ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

### Disgrifiad

863 Nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw newid i'r sefyllfa bresennol. Ni fyddai deddfwriaeth ychwanegol yn cael ei chyflwyno, a mater i ddisgresiwn pob awdurdod lleol o hyd fyddai darparu toiledau at ddefnydd y cyhoedd.

864. Sefydlwyd y Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus yn 2009/10 i sicrhau bod mwy o gyfleusterau toiledau ar gael am ddim i'r cyhoedd yng Nghymru. Y nod oedd gwella ansawdd y cyfleusterau hyn a'u gwneud yn fwy hygyrch, drwy annog awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth â busnesau lleol i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'u cyfleusterau. Estynnwyd gwahoddiad i bob awdurdod lleol yng Nghymru gymryd rhan. Roedd y Cynllun yn ad-dalu awdurdodau lleol (hyd at uchafswm o £17,500 fesul awdurdod lleol bob blwyddyn) am daliadau o hyd at £500

[452] Llywodraeth Cymru (2011). Cynigion i ddiwygio a moderneiddio Gwasanaethau Fferyllol y GIG yng Nghymru

[453] http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_063460

a wnaed i fusnesau lleol, am ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'u cyfleusterau toiledau am ddim.

865. Yn 2014/15 trosglwyddwyd £200,000 i'r Grant Cynnal Refeniw mewn ymdrech i sicrhau bod cyllid awdurdodau lleol yn fwy hyblyg. Bellach, mae'n fater i bob awdurdod lleol benderfynu sut i ddefnyddio'r arian hwn i ddarparu ei amrywiaeth o wasanaethau, er mwyn diwallu anghenion a chyflawni blaenoriaethau ei gymunedau.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

866. Ni fyddai Llywodraeth Cymru'n wynebu unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fel y nodir uchod, mae £200,000 y flwyddyn wedi'i gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw i wella mynediad i'r cyhoedd at gyfleusterau toiledau yng Nghymru.

Awdurdodau lleol

867. Ni fyddai awdurdodau lleol yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol o dan yr opsiwn hwn. Gallai awdurdodau lleol yn dal i ddefnyddio cyllid o'r Grant Cynnal Refeniw er mwyn caniatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'u cyfleusterau toiledau am ddim. Amcangyfrifir y byddai'n costio cyfanswm blynyddol o £33,000 i awdurdodau lleol ddosbarthu'r grant llawn o £200,000. Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn awgrymu bod gwariant cyfredol ar grantiau yn oddeutu 75% o'r swm a ddarparwyd o dan y Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus. O dderbyn y byddai awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio'r grantiau ar y lefel bresennol, byddai'r costau gweinyddu oddeutu 75% o hynny, sef cyfanswm o £24,800 bob blwyddyn. Darperir mwy o wybodaeth am lefel y gwariant grant o dan Opsiwn 2. Mae risg y byddai'r ddarpariaeth o doiledau i'r cyhoedd eu defnyddio yn gostwng o dan yr opsiwn hwn.

*Tabl 7.49: Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 1*

| | **2016/17 £** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau i Lywodraeth Cymru** | | | | | |
| Cyfraniad at y Grant Cynnal Refeniw | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 |
| **Costau i awdurdodau lleol** | | | | | |
| Amser staff | 24,800 | 24,800 | 24,800 | 24,800 | 24,800 |
| **Cyfanswm y costau** | **224,800** | **224,800** | **224,800** | **224,800** | **224,800** |

**Manteision**

868. Gan nad yw'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw newid, ni fyddai manteision ychwanegol i Lywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol.

869. Byddai arian yn dal i fod ar gael o fewn y Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol sicrhau bod cyfleusterau toiledau ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, o dderbyn nad yw'r grantiau hyn yn cael eu neilltuo, mae risg y gallai awdurdodau lleol flaenoriaethu gwariant mewn meysydd eraill, oherwydd pwysau ariannol, yn hytrach na chyfleusterau toiledau. Er y gallai fod manteision i iechyd, twristiaeth a'r economi ddeillio o wella'r ddarpariaeth toiledau, mae'n annhebygol y byddai manteision ychwanegol i'r cyhoedd yn gyffredinol o dan yr opsiwn hwn. Hefyd, gallai fod anfanteision os na chynhelir y status quo.

870. Byddai busnesau yn dal i allu gwneud cais i'w hawdurdod lleol am arian i wella mynediad i'r cyhoedd at gyfleusterau toiledau. Ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol i fusnesau. Fodd bynnag, pe byddai awdurdod lleol yn rhoi llai o flaenoriaeth i'r mater hwn drwy ei ddefnydd o'r Grant Cynnal Refeniw, efallai y byddai anfanteision i'r busnesau sy'n derbyn grant ar hyn o bryd.

**Opsiwn 2 – Ailneilltuo'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus**

**Disgrifiad**

871. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn ail-neilltuo'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus drwy ei dynnu o'r Grant Cynnal Refeniw. Yna byddai Llywodraeth Cymru'n clustnodi'r £200,000 er mwyn gwella darpariaeth toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd ledled Cymru.

872. Yn ystod dadl fer yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru[454] yn 2013, cadarnhaodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar y pryd y byddai cronfa'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus (ynghyd ag arian arall) yn cael ei chynnwys ym mhrif ffrwd y Grant Cynnal Refeniw. Pwysleisiodd y Gweinidog ba mor bwysig oedd darpariaeth toiledau cyhoeddus gan awdurdodau lleol a dywedodd ei bod yn ei gwneud yn glir na ellid ac na ddylid gweld y cam hwn fel esgus i leihau'r ddarpariaeth.

873. Mae gwybodaeth a gasglodd Llywodraeth Cymru gan awdurdodau lleol yn ystod 2014 yn nodi bod saith awdurdod lleol, ers newid y dull ariannu, un ai wedi atal y Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus yn eu hardal, wrthi'n gwneud hynny, neu wedi ei adolygu yn ystod 2014/15. Hefyd, mae pum awdurdod lleol arall nad ydynt wedi cymryd rhan yn y cynllun. Mae hyn yn golygu nad yw'r cynllun yn weithredol, neu ei fod wedi cael ei adolygu yn ystod 2014/15, mewn 12 awdurdod lleol.

874. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn adolygu gweithrediad y Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus blaenorol, gyda golwg ar ei

[454] http://www.assembly.wales/en/bushome/pages/rop.aspx?meetingid=184&language=en&c=RecordofProceedings&startDt=13/11/2013&endDt=13/11/2013#110676

ail-neilltuo. Byddai disgwyl i bob awdurdod lleol gymryd rhan a defnyddio eu dyraniad grant.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

875. Byddai Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus blaenorol, gan ystyried unrhyw werthusiadau blaenorol, ac yna'n gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol. Disgwylir mai £10,600 fydd cost cwblhau'r adolygiad hwn, gan gynnwys ymgysylltu ag awdurdodau lleol, busnesau ac unrhyw grwpiau cynrychiadol perthnasol eraill, (oddeutu chwe wythnos o Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn, fyddai'n cyfateb i £7,100, yn ogystal ag un mis a hanner o swyddog Cymorth Tîm cyfwerth ag amser llawn, yn cyfateb i £3,500)[455]. Byddai'r costau hyn yn daladwy yn 2016/17. Byddai'r adolygiad hwn yn golygu na fyddai angen i awdurdodau lleol gynnal eu hadolygiadau eu hunain o'r cynllun.

876. Byddai'r cynllun yn cael ei adolygu eto ar ôl tair blynedd, gan olygu bod cyfanswm costau Llywodraeth Cymru o £10,600 yn cael eu hailadrodd yn 2019/20.

877. Ni fyddai'r £200,000 i dalu am gynllun penodol yn gost flynyddol ychwanegol, gan y caiff ei ddarparu ar hyn o bryd i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Byddai'r swm hwn yn cael ei ail-neilltuo o'r gyllideb honno. Byddai'r cynllun yn cael ei reoli yn unol â chanllaw dyrannu grantiau Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y byddai angen 0.05 Swyddog Gweithredol cyfwerth ag amser llawn, am gost flynyddol o £1,500 i reoli'r cynllun grant. Byddai hyn yn cyfateb i dreulio oddeutu dwy awr bob wythnos yn rheoli'r cynllun.

Awdurdodau lleol

878. Byddai'r arian yn cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol unigol yn unol â chanlyniad adolygiad y cynllun. Dim ond ar roi arian fel rhan o'r cynllun grant wedi'i adnewyddu y gellid gwario'r grant a ddarperir i awdurdod lleol.

879. Byddai'r opsiwn hwn yn lleihau gallu pob awdurdod lleol i gyfeirio arian o'r Grant Cynnal Refeniw i feysydd blaenoriaeth eraill. Mewn achosion lle nad yw awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn gwario swm cyfatebol o'u dyraniad grant ar gyfleusterau toiledau, byddai angen iddynt wneud toriadau i wasanaethau eraill yn sgil ail-neilltuo'r arian hwn.

880. Yn 2013/14, rhoddodd awdurdodau lleol grant i 327 busnes am drefnu bod eu cyfleusterau toiledau ar gael i'r cyhoedd, yn dod i gyfanswm o £147,910[456]. Gan dybio ffigurau tebyg ar gyfer 2014/15, gellir amcangyfrif bod £52,090 wedi cael ei ddarparu i awdurdodau lleol ond wedi ei wario ar feysydd ar wahân i ddarparu toiledau cyhoeddus. Pe byddai Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau wario'r dyraniad llawn o £200,000 ar ddarparu toiledau cyhoeddus,

[455] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff Llywodraeth Cymru
[456] Ffigurau Llywodraeth Cymru

mae'n debygol y byddai'r £52,090 hwn yn cael ei gymryd oddi ar wasanaethau eraill. Fodd bynnag, gan fod nifer o awdurdodau lleol yn adolygu'r cynllun neu wedi ei atal (fel y nodir uchod), mae'n rhesymol credu y gallai mwy na £52,090 gael ei gymryd oddi ar wasanaethau eraill.

881. Byddai angen ystyried costau staff awdurdod lleol hefyd. Byddai hyn yn cynnwys ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn ystod yr adolygiad o'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus, ac yna cost flynyddol barhaus gweinyddu'r grant i fusnesau. Rhagwelir y byddai angen 0.05 Swyddog Gweinyddol cyfwerth ag amser llawn i gyflawni'r gwaith gweinyddu parhaus, am gost flynyddol o £1,500 i bob awdurdod lleol[457]. Byddai hyn yn cyfateb i oddeutu dwy awr yr wythnos. Gan y byddai'r gost hon yn cael ei dyblygu ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol, £33,000 fyddai cyfanswm y gost. Gan ystyried y gost o £24,800 am weinyddu'r cynllun grant yn Opsiwn 1, byddai hyn yn gost ychwanegol o £8,200.

882. Gallai adolygiad o'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus arwain at newidiadau i'r modd y gellir gwario'r cyllid gan awdurdodau lleol yn y dyfodol. Er enghraifft, mae'n bosibl y gallai awdurdodau lleol ariannu'r costau ar gyfer gwella cyhoeddusrwydd ac arwyddion o'r arian grant. Byddai'r gyfran o'r cyllid cyffredinol y gellid ei defnyddio i'r diben hwn yn amrywio gan ddibynnu ar flaenoriaethau lleol, ac felly nid oes modd ei asesu. Fodd bynnag, byddai'r cyfanswm cyllid sydd ar gael o dan Gynllun Grant diwygiedig yn y dyfodol yn parhau ar y lefelau presennol.

Busnesau

883. Gallai fersiwn wedi'i hadolygu o'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus arwain at fwy o gyhoeddusrwydd ac arwyddion, â'r nod o sicrhau y gwneir mwy o ddefnydd o'r toiledau yn y busnesau hynny sy'n derbyn grant. Er nad oes modd mesur hynny, gallai busnesau wynebu cynnydd yn y costau cynnal a glanhau, a chostau nwyddau megis papur a sebon, pe byddai eu toiledau'n cael eu defnyddio'n amlach. Fodd bynnag, bwriedir i'r grant o £500 dalu'r costau hyn.

*Tabl 7.50: Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2*

| | **2016/17 £** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau i Lywodraeth Cymru** | | | | | |
| Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 |
| Amser Staff i Reoli'r Grant | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,500 |
| Amser Staff i Gynnal yr Adolygiad | 10,600 | 0 | 0 | 10,600 | 0 |

[457] Yn seiliedig ar gostau cynllunio awdurdodau lleol. Mae argostau wedi eu cynnwys yn y costau hyn.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Costau Llywodraeth Cymru** | **212,100** | **201,500** | **201,500** | **212,100** | **201,500** |
| **Costau i awdurdodau lleol** | | | | | |
| Amser staff | 33,000 | 33,000 | 33,000 | 33,000 | 33,000 |
| **Cyfanswm Costau Awdurdodau Lleol** | **33,000** | **33,000** | **33,000** | **33,000** | **33,000** |
| **Cyfanswm y Costau** | **245,100** | **234,500** | **234,500** | **245,100** | **234,500** |
| **Costau ychwanegol ar ben Opsiwn 1** | **20,300** | **9,700** | **9,700** | **20,300** | **9,700** |

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

884. Byddai Llywodraeth Cymru yn cael mwy o sicrwydd bod pob awdurdod lleol, i raddau helaeth, yn ymdrin mewn modd cyson â'r cynllun yng Nghymru, ac y byddai swm cyson yn cael ei wario ar wella darpariaeth toiledau. Byddai adolygiad o'r cynllun blaenorol, gydag ymgysylltiad gan randdeiliaid allweddol, yn ceisio gwneud yn fawr o effaith y cynllun yn gyffredinol.

885. Mae sawl awdurdod lleol wedi nodi eu bod wedi bwriadu adolygu'r modd y maent yn gweinyddu'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus. Trwy gynnal adolygiad o dan arweiniad Llywodraeth Cymru, gellid gweithredu mewn modd cyson ar draws Cymru, yn hytrach na chynnal nifer o adolygiadau gwahanol gan ddefnyddio dulliau gwahanol.

Y cyhoedd

886. Gallai'r opsiwn hwn olygu bod mwy o doiledau ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio a mwy o amrywiaeth o leoedd lle y ceir toiledau. Pe byddai pob awdurdod yn gwario ei ddyraniad uchaf ar roi grantiau yn unig, gallai toiledau oddeutu 18 safle busnes fod ar gael i'r cyhoedd o fewn ardal pob awdurdod lleol.

887. Fodd bynnag, fe fyddai risg y gallai awdurdodau lleol geisio lleihau effaith toriadau i wasanaethau eraill drwy drosglwyddo arian a ddefnyddir ar gyfer darpariaeth toiledau cyhoeddus uniongyrchol ar hyn o bryd i flaenoriaethau eraill. Gallai hyn wrthbwyso unrhyw gynnydd mewn mynediad at doiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd y gellid ei gyflawni.

Busnesau

888. Byddai cyfle i fusnesau wella'r cynllun blaenorol drwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru fel rhan o adolygiad. Gall busnesau hefyd weld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr pe byddai eu cyfleusterau toiledau ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd. Gallai hyn arwain at gynnydd mewn trosiant busnes. Nid oes modd mesur hyn na'r manteision posibl eraill.

**Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu strategaeth toiledau lleol**

**Disgrifiad**

889. O dan yr opsiwn hwn byddai dyletswydd yn cael ei gosod ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i baratoi strategaeth toiledau lleol, ymgynghori yn ei chylch a'i chyhoeddi. Byddai'r sefyllfa gyfreithiol bresennol sy'n pennu y caiff awdurdodau lleol ddarparu toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd yn gymwys hefyd. Byddai arian Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella mynediad i'r cyhoedd at gyfleusterau toiledau yn dal i gael ei ddarparu ym mhrif ffrwd y Grant Cynnal Refeniw.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

890. Byddai'n ofynnol i Lywodraeth Cymru baratoi canllawiau i gyd-fynd â dyletswydd newydd. Byddai Llywodraeth Cymru'n wynebu costau yn gysylltiedig â pharatoi a chyhoeddi'r canllawiau. Amcangyfrifir mai oddeutu £7,500 fyddai'r costau staffio ar gyfer paratoi'r canllawiau (yn seiliedig ar 6,000 o eiriau), gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y canllawiau'n ateb y diben. Mae hyn yn seiliedig ar oddeutu pum wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn (£4,600) i ddatblygu'r canllawiau, a phum wythnos o amser swyddog Cymorth Tîm cyfwerth ag amser llawn (oddeutu £2,900).[458]

891. Disgwylir y byddai angen tua wythnos o amser 0.5 Swyddog Gweithredol cyfwerth ag amser llawn i ddylunio a chysodi'r canllawiau, gan gostio oddeutu £300. Amcangyfrifir y byddai cyfieithu a phrawfddarllen yn costio oddeutu £600.[459] Ni fyddai unrhyw gostau argraffu gan y byddent yn cael eu cynhyrchu'n electronig yn unig. Cyfanswm y gost ar gyfer datblygu, dylunio a chyfieithu'r canllawiau felly fyddai £8,400 a byddai hyn yn daladwy yn 2016/17.

892. Byddai'r canllawiau'n cael eu diweddaru bob pedair i bum mlynedd, i gyd-fynd â'r cylch ar gyfer paratoi'r strategaethau gan awdurdodau lleol. Amcangyfrifir y byddai hyn yn cymryd un wythnos o amser Swyddog Gweithredol Uwch cyfwerth ag amser llawn, a fyddai'n cyfateb i oddeutu £900. Byddai'r costau dylunio a chyfieithu

[458] Yn seiliedig ar gostau cynllunio Llywodraeth Cymru
[459] Yn seiliedig ar £75 fesul 1000 o eiriau ar gyfer y cyfieithu a £21 fesul 1000 o eiriau ar gyfer y prawddarllen.

yn hanner y costau gwreiddiol, sef cyfanswm o £500. Ni fyddai unrhyw gostau argraffu ar gyfer yr adolygiad gan y byddai'n cael ei gynhyrchu'n electronig yn unig. Cyfanswm y gost ar gyfer pob adolygiad felly fyddai oddeutu £1,400, bob pedair i bum mlynedd. Disgwylir y byddai'r adolygiad cyntaf yn digwydd yn 2021/22.

893. Byddai'r cyfraniad o £200,000 i'r Grant Cynnal Refeniw bob blwyddyn yn parhau.

Awdurdodau lleol

894. Byddai angen i awdurdodau lleol gynnal asesiad o'r angen i doiledau yn eu hardal fod ar gael at ddefnydd y cyhoedd a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ymhen blwyddyn i'r etholiadau llywodraeth leol cyntaf i'w cynnal ar ôl i'r darpariaethau ddod i rym. Gallai'r asesiad o anghenion gynnwys dadansoddi'r toiledau cyhoeddus a ddarperir ar hyn o bryd, ymgysylltu â chymunedau lleol a rhanddeiliaid ynghylch yr angen yn eu barn hwy, ac ystyried ffactorau eraill megis dulliau priodol ar gyfer tynnu sylw at gyfleusterau.

895. Byddai'r strategaethau'n cynnwys datganiad yn egluro'r camau y mae'r awdurdodau lleol yn cynnig eu cymryd i ddiwallu'r anghenion a nodwyd ganddynt. Disgwylir y bydd angen dwy ran o dair o amser swyddog cyfwerth ag amser llawn am fis i asesu angen a datblygu strategaeth (yn cyfateb i £2,300), gyda goruchwyliaeth gan uwch swyddog cyfwerth ag amser llawn a fyddai'n neilltuo traean o'i amser am fis (yn cyfateb i £2,000)[460]. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar ragdybiaeth nad oes gan yr awdurdod lleol strategaeth wedi ei sefydlu ynghylch toiledau lleol, ac nad yw eisoes wrthi'n datblygu un.

896. Gan gymryd y byddai'r strategaeth yn cael ei pharatoi yn unol â'r model arfer gorau, byddai'n symud trwy broses graffu benodol awdurdod lleol. Mae'n debyg y cynhelid ymchwiliad craffu Gorchwyl a Gorffen ac adolygiad cyn-graffu cyn i'r strategaeth gael ei chymeradwyo a'i chyhoeddi gan yr awdurdod lleol. Mae'n debygol hefyd y byddai pwyllgor craffu oddi mewn i'r awdurdod lleol hefyd yn monitro'r broses o weithredu'r strategaeth, yn amodol ar raglenni gwaith. Ar gyfer y broses uchod, amcangyfrifir y byddai angen traean o amser Swyddog Craffu Gradd 9 cyfwerth ag amser llawn dros gyfnod o dri mis (yn cyfateb i gost o £3,900), a mis o Ymchwilydd Craffu Gradd 8 cyfwerth ag amser llawn (yn cyfateb i gost o £3,000).[461]

897. Cyn eu cyhoeddi, byddai angen hefyd i awdurdodau lleol ymgynghori ar eu strategaethau toiledau lleol. Byddai amrywiaeth o opsiynau ymgynghori ar gael i awdurdodau lleol, gydag amrywiol gostau cysylltiedig. Byddai'r broses hon yn debygol o gynnwys holiaduron, sesiynau galw heibio, sylw yn y cyfryngau lleol ac ymgysylltiad ar-lein, am gost o oddeutu £6,000.[462]

898. Amcangyfrifir felly mai oddeutu £17,200 fyddai cyfanswm y gost i bob awdurdod lleol ar gyfer datblygu'r strategaethau i ddechrau. Y cyfanswm, wrth

[460] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff awdurdodau lleol. Mae argostau wedi eu cynnwys yn y costau hyn.
[461] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff awdurdodau lleol. Mae argostau wedi eu cynnwys yn y costau hyn.
[462] Yn ôl ffigurau a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol

ddyblygu'r costau hyn i bob un o'r 22 awdurdod lleol, fyddai £378,400. Byddai'r costau hyn yn daladwy yn 2017/18, yn dilyn etholiadau llywodraeth leol.

899. Ddwy flynedd ar ôl cyhoeddi ei strategaeth toiledau lleol, byddai'n ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi a chyhoeddi datganiad cynnydd interim. Byddai'r datganiad yn amlinellu'r camau y mae'r awdurdod lleol wedi eu cymryd yn unol â'i strategaeth yn ystod y ddwy flynedd ers y tro diwethaf iddo'i gyhoeddi neu ei adolygu. Byddai angen cyhoeddi'r Datganiad dim hwyrach na chwe mis ar ôl diwedd y cyfnod dwy flynedd hwnnw. Disgwylir y byddai paratoi'r datganiad cynnydd interim yn golygu bod awdurdodau lleol yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'u strategaeth ac y byddai'n cymryd hanner yr amser yr oedd ei angen ar gyfer datblygu'r strategaeth yn y lle cyntaf i swyddog cyfwerth â llawn amser ei wneud (cyfwerth â £1,200). Byddai goruchwyliaeth gan uwch-swyddog cyfwerth â llawn amser yn angenrheidiol, gyda'r swyddog yn rhoi traean o'i amser am wythnos i hyn (cyfwerth â £500).[463]

900. Byddai cyfanswm cost cynhyrchu datganiad cynnydd interim i bob awdurdod lleol, felly, yn £1,700. Byddai ailadrodd y costau hyn ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol yn dod i £20,400. Byddai'r costau hyn yn codi am y tro cyntaf yn 2019/20, ac yn cael eu hailadrodd yn unol â chylch y strategaethau toiledau lleol.

901. Byddai gofyn hefyd i bob awdurdod lleol gynnal adolygiad ar ei strategaeth toiledau lleol bob pedair i bum mlynedd, ymhen blwyddyn i etholiadau llywodraeth leol. Os oes angen newidiadau, byddai angen diwygio'r strategaethau a chynnal ymgynghoriad. Mae'n debygol y byddai angen llai o adnoddau ar gyfer adolygu'r strategaeth yn y dyfodol nag ar gyfer ei datblygu'n wreiddiol. Rhagdybir, felly, y byddai angen llai o amser staff i gefnogi'r gwaith hwn. Fodd bynnag, rhagwelir mai'r un fyddai'r costau staffio ar gyfer craffu ar y strategaeth. Os caiff ei diwygio, yr un hefyd fyddai'r costau ymgynghori. Amcangyfrifir, felly, mai cyfanswm cost adolygu'r strategaeth a'r costau craffu ac ymgynghori cysylltiedig fyddai £331,100 (£15,050 fesul awdurdod lleol).

902. Byddai awdurdodau lleol yn parhau i ddosbarthu arian o'r Grant Cynnal Refeniw i fusnesau at ddiben gadael i'r cyhoedd ddefnyddio'u cyfleusterau toiledau yn rhad ac am ddim. Amcangyfrifwyd y byddai'n costio cyfanswm o £33,000 i ddosbarthu'r £200,000 i gyd. O ystyried y ddyletswydd i baratoi strategaeth toiledau lleol, rhagdybir y byddai awdurdodau lleol yn fwy tebygol o ddefnyddio'r £200,000 cyfan at ddiben dyraniadau grant ac y byddai costau gweinyddu'n gyfwerth â £33,000 bob blwyddyn (£1,500 fesul awdurdod lleol) o 2018/19 ymlaen.

*Tabl 7.51: Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 3*

| | **2016/17 £** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** | **2021/22 £** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau i Lywodraeth Cymru** | | | | | | |
| Paratoi'r canllawiau | 8,400 | | 0 | 0 | 0 | 1,400 |

[463] Yn seiliedig ar gostau cynllunio staff awdurdodau lleol. Mae argostau wedi eu cynnwys yn y costau hyn.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ychwanegol i'r Grant Cynnal Refeniw | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 |
| **Cyfanswm y Costau i Lywodraeth Cymru** | **208,400** | **200,000** | **200,000** | **200,000** | **200,000** | **201,400** |
| **Costau i Lywodraeth Cymru sy'n ychwanegol ar ben Opsiwn 1** | **8,400** | **0** | **0** | **0** | **0** | **1,400** |
| **Costau i awdurdodau lleol** | | | | | | |
| Datblygu'r strategaeth ac ymgynghori | 0 | 378,400 | 0 | 0 | 0 | 331,100 |
| Amser Staff i Reoli'r Grant | 24,800 | 24,800 | 33,000 | 33,000 | 33,000 | 33,000 |
| Datblygu adroddiad cynnydd interim | 0 | 0 | 0 | 20,400 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol** | **24,800** | **403,200** | **33,000** | **53,400** | **33,000** | **364,100** |
| **Cyfanswm y costau i awdurdodau lleol sy'n ychwanegol ar ben Opsiwn 1** | **0** | **378,400** | **8,200** | **28,600** | **8,200** | **339,300** |
| **Cyfanswm y Costau** | **233,200** | **603,200** | **233,000** | **253,400** | **233,000** | **565,500** |
| **Costau Ychwanegol ar ben Opsiwn 1** | **8,400** | **378,400** | **8,200*** | **28,600*** | **8,200*** | **340,700** |

* Mae'r costau ychwanegol yn y blynyddoedd hyn yn ymwneud yn unig â'r cynnydd mewn costau rheoli er mwyn hwyluso gwario'r £200,000 cyfan ar grantiau a chost datblygu adroddiadau cynnydd interim. Byddai costau ychwanegol ar ben hynny'n dibynnu ar ddatblygu a gweithredu'r strategaethau. Gan fod y strategaethau yn dibynnu ar ddisgresiwn pob awdurdod lleol ar ôl asesu'r angen yn yr ardal, nid oes modd amcangyfrif y costau ychwanegol er mwyn cynyddu lefelau'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai mwy o'r manteision a drafodir isod yn cael eu gwireddu trwy wario mwy ar weithredu'r strategaethau.

903 Byddai'r costau staffio a wynebir gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn 2020/21 yn cael eu hailadrodd bob pedair i bum mlynedd, gan gyd-fynd â chyfnodau adolygu'r strategaethau.

**Manteision**

Llywodraeth Cymru

904. Byddai Llywodraeth Cymru'n cael sicrwydd bod gan bob awdurdod lleol ledled Cymru strategaeth toiledau lleol i ddiwallu anghenion ei gymuned o ran y cyfleusterau hyn. Gallai'r strategaeth hon gynnwys gwybodaeth megis lleoliad y toiledau a manylion sut y byddid yn mynd ati i ddiwallu'r angen yn y tymor hir. Gallai

pwyslais ar ddarparu gwell gwybodaeth a gwell prosesau blaengynllunio yn annog awdurdodau i ddefnyddio arian mewn ffordd fwy strategol mewn perthynas â thoiledau cyhoeddus.

Awdurdodau lleol

905. Wrth ddatblygu eu strategaeth, byddai awdurdodau lleol yn cynnal asesiad o'r angen am gyfleusterau toiledau i fod ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd yn eu hardal hwy, a byddent yn datblygu eu strategaeth i ddiwallu'r angen hwnnw. O ystyried yr hyblygrwydd a gynigir i awdurdodau lleol wrth weithredu eu strategaeth, mae'n anodd mesur yn gywir y manteision a allai ddeillio o unrhyw welliannau yn y ddarpariaeth. Rhoddir amcan o amrywiaeth y manteision isod.

*Iechyd*

906. Gellir sicrhau effeithiau cadarnhaol ar iechyd trwy wella ansawdd a nifer y toiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd a ddarperir. Darparodd Age Cymru a Senedd Pobl Hŷn Cymru dystiolaeth i ymchwiliad gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru[464] i gyfleusterau toiledau cyhoeddus, gan ddisgrifio'r camau mae pobl yn eu cymryd i osgoi'r angen i ddefnyddio toiledau pan fyddant oddi cartref. Mae'r rhain yn cynnwys peidio â chymryd meddyginiaeth hanfodol a allai olygu bod arnynt angen defnyddio'r toiled yn amlach, neu yfed llai o hylif sy'n arwain at ddadhydradu a phroblemau iechyd cysylltiedig. Gallai'r ymddygiadau hyn greu'r angen am driniaeth bellach.

907 Dywedodd 23% o'r bobl a arolygwyd ar gyfer adroddiad ar gyfleusterau cyhoeddus o Ynys y Garn[465] eu bod yn cynllunio neu weithiau'n cynllunio eu teithiau yn ôl y toiledau a ddarperir, a'r prif resymau a roddwyd oedd cyflyrau meddygol megis anhwylderau ar y bledren a'r coluddyn, meddyginiaeth ddiwretig a pherthnasau/ plant dibynnol.

908 Cyflwynwyd tystiolaeth i ymchwiliad gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru[466] i gyfleusterau toiledau cyhoeddus, bod llawer o bobl â chyflyrau ar y bledren neu'r coluddyn yn peidio â mynd allan rhag ofn na fyddant yn gallu defnyddio toiled. Gall pobl, o'r herwydd, fynd yn fwy segur, ynysig, sâl a/neu isel eu hysbryd, gan arwain, o bosibl, at angen am ragor o driniaeth. Er enghraifft, amcangyfrifwyd gan ymchwil a ddarparwyd i'r Pwyllgor, y byddai oddeutu 22,000 o'r boblogaeth o 600,000 yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn dioddef oherwydd anymataliaeth y bledren neu'r coluddyn ac y gallai diffyg darpariaeth toiledau effeithio arnynt.

909. Mantais bosibl arall yw lleihau achosion o faeddu ar y strydoedd, a allai leihau'r gost o lanhau strydoedd i awdurdodau lleol. *"Street fouling is an increasing issue as the number of toilets decrease and the night time economy brings drinkers into town and city centres, this has public health implications as well as raising costs of street cleaning. A survey of local authorities by ENCAMS showed that over 30%*

[464] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=2572 Tudalen14.
[465] McDermott, P & Kernohan, W. The adequacy and public perception of the public toilet provision on Guernsey. Tudalen 63.
[466] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=2572 Tudalen 13

*of cities and almost 20% of towns said that human fluids on their streets were a major problem."*[467]

*Twristiaeth*

910. Gellid cael effaith gadarnhaol ar dwristiaeth yng Nghymru trwy wella ansawdd a nifer y toiledau. Canfu arolwg gan ENCAMS[468] fod 60% o ymwelwyr yn ystyried bod toiledau cyhoeddus yn ffactor bwysig wrth benderfynu â pha draeth i ymweld.

*Yr economi*

911. Gallai'r cyhoedd fod yn llai awyddus i dreulio amser yn siopa mewn canolfannau trefi os gwyddant nad yw'r ddarpariaeth o ran toiledau'n ddigonol. Canfu'r arolwg uchod hefyd fod 38% o fenywod naill ai'n dewis peidio ag ymweld ag ardal neu'n dewis treulio llai o amser yno os yw'r ddarpariaeth o ran toiledau yn annigonol. Gallai hyn effeithio'n sylweddol ar fusnesau lleol.

**Opsiwn 4 – Awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o ddarpariaeth o doiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd ar gael**

**Disgrifiad**

912. O dan yr opsiwn hwn, byddai dyletswydd statudol ar bob awdurdod leol yng Nghymru i sicrhau bod digon o ddarpariaeth o doiledau i'w defnyddio gan y cyhoedd ar gael. Byddai'n ofynnol cwblhau asesiad anghenion i benderfynu ar y math o gyfleusterau, yn ogystal â'r nifer a'r lleoliad, sydd eu hangen ar gyfer darpariaeth ddigonol. Byddai dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio strategaeth a sicrhau bod y ddarpariaeth hon wedyn yn cael ei gwireddu.

913. Wrth sicrhau bod digon o ddarpariaeth o doiledau i'r cyhoedd eu defnyddio ar gael, byddai gan awdurdodau lleol amrywiaeth o opsiynau. Byddai'r rhai hyn yn cynnwys darparu'r toiledau hynny i'r cyhoedd trwy gynlluniau tebyg i'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus, toiledau cyhoeddus mewn lleoedd megis canolfannau siopa ac adeiladau cyhoeddus (megis amgueddfeydd, canolfannau chwaraeon), yn ogystal â darparu cyfleusterau a gynhelir gan awdurdodau lleol. Mae'r opsiwn hwn, felly, yn debyg i Opsiwn 3, ond gyda dyletswydd ychwanegol i sicrhau bod digon o ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus ar gael.

**Costau**

Llywodraeth Cymru

914. Byddai'r costau i Lywodraeth Cymru yr un faint ag o dan Opsiwn 3.

Awdurdodau lleol

[467] Datganiad polisi ENCAMS (Environmental Campaigns) ar doiledau cyhoeddus. Ar gael yn: http://kb.keepbritaintidy.org/toilets/background.html
[468] http://kb.keepbritaintidy.org/toilets/background.html

915. Byddai'r costau i awdurdodau lleol a fyddai'n gysylltiedig â datblygu strategaeth toiledau lleol yr un faint ag o dan Opsiwn 3.

916 Ar ôl i awdurdod lleol ddatblygu strategaeth toiledau lleol, byddai dyletswydd ychwanegol wedyn arno i weithredu'r strategaeth honno er mwyn sicrhau bod darpariaeth toiledau cyhoeddus ddigonol ar gael. Mae ystod y dulliau y gallai awdurdodau lleol eu mabwysiadu i sicrhau mynediad yn rhy eang i bennu eu costau'n gywir. Fodd bynnag, er mwyn rhoi amcan o'r costau posibl a fyddai'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn, tybiwyd y byddai awdurdodau lleol yn diwallu hanner yr angen am ddarpariaeth ychwanegol trwy adeiladu cyfleusterau newydd ('toiledau a ddarperir yn uniongyrchol'), a'r hanner arall drwy ehangu cynllun tebyg i'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus. Derbynnir y byddai dulliau gweithredu awdurdodau'n amrywio'n fawr, ond ystyrir bod y dull a amlinellir isod yn amcangyfrif rhesymol.

917. Mae cwmni sy'n arbenigo mewn darparu toiledau cyhoeddus wedi darparu costau ar gyfer blociau o bedwar toiled (uned ag un toiled hygyrch ynghyd â thri chiwbicl arall). Cysylltwyd ag un cwmni yn unig at ddibenion enghreifftiol. £107,500 oedd y gost am floc o bedwar o doiledau.[469] Rhagwelir y byddai awdurdodau lleol yn rhannu cost adeiladu cyfleusterau toiledau newydd dros dair blynedd, rhwng 2018/19 a 2020/21, cyn adolygu'r modd y gweithredwyd eu strategaeth.

918. Trwy ddarparu mwy o doiledau'n uniongyrchol yn y modd hwn, byddai awdurdodau lleol hefyd yn wynebu costau ychwanegol o ran glanhau a chynnal a chadw. Er ei bod yn anodd amcangyfrif y costau hyn gan y byddai pob awdurdod lleol yn ymdrin â'r mater yn wahanol, £10,500 yr uned fyddai'r costau blynyddol yn ôl y ffigurau a ddarparwyd gan ddarparwr toiledau cyhoeddus arbenigol. Byddai cyfanswm gwariant o £20,500 yn talu am yr holl gostau, gan gynnwys rheoli refeniw, deunyddiau traul, darnau ar gyfer gwaith atgyweirio, cyfleustodau, ardrethi, trwsio yn dilyn fandaliaeth, glanhau a chynnal a chadw. Gellid talu, o bosibl, am rai o'r costau hyn trwy godi tâl ar y cyhoedd i ddefnyddio'r toiledau. Amcangyfrifir mai'r refeniw cyfartalog, ar sail codi tâl o 20c, fyddai oddeutu £10,000 yr uned bob blwyddyn. Tybir, felly, mai £10,500 yr uned bob blwyddyn fyddai'r gost flynyddol net.

919. Tybiwyd y byddai unrhyw gynllun tebyg i'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus yn parhau i ddarparu grantiau gwerth £500 y flwyddyn i fusnesau. Tybiwyd hefyd fod pob busnes sy'n cael grant yn darparu pedwar ciwbicl at ddefnydd y cyhoedd.

920. Mae lefelau'r ddarpariaeth toiledau yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall ar hyn o bryd. Yn argymhellion cyfredol Cymdeithas Toiledau Prydain, awgrymir cymarebau ar gyfer nifer y toiledau sydd eu hangen ar gyfer poblogaeth benodol. Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd y ffigurau hyn yn yr amcangyfrif hwn; byddai asesiad angen yn cael ei gynnal ar lefel leol, ar sail ffactorau megis nifer yr ymwelwyr yn lleol, darpariaeth arall sydd ar gael a demograffeg y boblogaeth.

[469] Darparwyd y prisiau gan y darparwr toiledau cyhoeddus

921. Ar sail ffigurau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru yn ystod 2014, ceir oddeutu 950 o gyfleusterau toiledau cyhoeddus ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfleusterau a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol, cyfleusterau cynghorau cymuned a'r rhai a ddarperir trwy'r cynllun grant. Tybir bod pedwar ciwbicl ar gyfartaledd i bob cyfleuster toiledau. Gan nad yw'n hysbys faint o angen heb ei ddiwallu y byddai asesiadau awdurdodau lleol yn ei nodi, cyfrifwyd ystod enghreifftiol o opsiynau. Mae'r opsiynau hyn yn ystyried costau darparu mwy o doiledau ledled Cymru trwy ddefnyddio cyfraddau amrywiol o gynnydd yn y ddarpariaeth. Rhagwelir y gallai asesiad ceidwadol o'r angen nodi'r angen i gynyddu'r ddarpariaeth 50%. Gallai amcangyfrif uwch nodi'r angen i ddyblu nifer y toiledau a ddarperir ledled Cymru. Darparwyd hefyd y gost ar gyfer cynnydd o 75% er mwyn rhoi enghraifft ychwanegol.

922. Dengys y tablau isod y costau a amcangyfrifir am gynyddu'r ddarpariaeth 50%, 75% a 100%. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:-

- Mae oddeutu 950 o gyfleusterau toiledau cyhoeddus sy'n eiddo i awdurdodau lleol ledled Cymru.
- Byddai pob awdurdod lleol yn diwallu angen ychwanegol a nodir trwy ddarparu hanner y ddarpariaeth ychwanegol trwy gyfleusterau a ddarperir yn uniongyrchol, a'r hanner arall trwy ddyrannu grantiau;
- Cost cyfalaf creu cyfleuster toiledau ychwanegol wedi'i ddarparu'n uniongyrchol fyddai £107,500;
- Byddai costau adeiladu cyfleusterau toiledau ychwanegol wedi'u darparu'n uniongyrchol yn cael eu dosbarthu'n gyfartal dros dair blynedd, rhwng 2018/19 a 2020/21;
- Byddai i unrhyw gyfleuster toiledau ychwanegol a ddarperir yn uniongyrchol gostau cynnal a chadw rheolaidd o £10,500 bob blwyddyn;
- Y costau blynyddol rheolaidd ar gyfer unrhyw gyfleusterau toiledau ychwanegol a ddarperir trwy ddyrannu grantiau fyddai £500; ac
- Mae cost flynyddol o £10,000 fesul uned i'r cyhoedd mewn ffïoedd i ddefnyddio'r cyfleusterau, a bydd hwn yn cyfrannu tuag at gynnal a chadw'r cyfleusterau ychwanegol a ddarperir yn uniongyrchol.

*Tabl 7.52*

| **Opsiwn** | **Cynnydd yn y ddarpariaeth** | **Unedau ychwanegol sydd eu hangen** | **Cyfanswm cost cyfalaf darpariaeth uniongyrchol £** | **Costau rheolaidd blynyddol darpariaeth uniongyrchol £** | **Cost flynyddol dyrannu grantiau (yn ychwanegol at y cyllid presennol o £200,000) £** | **Cyfanswm y gost flynyddol £** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4a** | **50%** | 475 | 25,531,300 | 2,493,800 | 118,800 | 2,612,600 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4b** | **75%** | 712.5 | 38,296,900 | 3,740,600 | 178,100 | 3,918,700 |
| **4c** | **100%** | 950 | 51,062,500 | 4,987,500 | 237,500 | 5,225,000 |

*Tabl 7.53 Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 4a*

*Opsiwn 4a – cynnydd o 50% yn y ddarpariaeth*

| | **2016/17 £** | **2017/18 £** | **2018/19 £** | **2019/20 £** | **2020/21 £** | **2021/22 £** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau i Lywodraeth Cymru** | | | | | | |
| Amser staff | 8,400 | | 0 | 0 | 0 | 1,400 |
| Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | | |
| Datblygu'r strategaeth ac ymgynghori | | 378,400 | 0 | 0 | 0 | 331,100 |
| Amser staff i reoli grantiau | 24,800 | 24,800 | 43,400 | 43,400 | 43,400 | 43,400 |
| Buddsoddiad cyfalaf | | 0 | 8,510,400 | 8,510,400 | 8,510,400 | 0 |
| Cynnal a chadw blynyddol | | 0 | 831,300 | 1,662,500 | 2,493,800 | 2,493,800 |
| Cost flynyddol ychwanegol y Cynllun Grant | | 0 | 118,800 | 118,800 | 118,800 | 118,800 |
| **Cost i'r cyhoedd** | | | | | | |
| Ffioedd defnyddio | 0 | 0 | 791,700 | 1,588,300 | 2,375,000 | 2,375,000 |
| **Cyfanswm y Costau** | **233,200** | **603,200** | **10,495,600** | **12,123,400** | **13,741,400** | **5,563,500** |
| **Costau Ychwanegol ar ben Opsiwn 1** | **8,400** | **378,400** | **10,270,800** | **11,898,600** | **13,516,600** | **5,338,700** |

*Tabl 7.54 Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 4b*

*Opsiwn 4b – cynnydd o 75% yn y ddarpariaeth*

| | 2016/17 £ | 2017/18 £ | 2018/19 £ | 2019/20 £ | 2020/21 £ | 2021/22 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau i Lywodraeth Cymru** | | | | | | |
| Amser staff | 10,300 | | 0 | 0 | 0 | 2,400 |
| Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | | |
| Datblygu'r strategaeth ac ymgynghori | | 378,400 | 0 | 0 | 0 | 331,100 |
| Amser staff i reoli grantiau | 24,800 | 24,800 | 49,600 | 49,600 | 49,600 | 49,600 |
| Buddsoddiad cyfalaf | | 0 | 12,765,600 | 12,765,600 | 12,765,600 | 0 |
| Cynnal a chadw blynyddol | | 0 | 1,246,900 | 2,493,700 | 3,740,600 | 3,740,600 |
| Cost flynyddol y Cynllun Grant | | 0 | 178,100 | 178,100 | 178,100 | 178,100 |
| **Cost i'r cyhoedd** | | | | | | |
| Ffioedd defnyddio | 0 | 0 | 1,187,500 | 2,375,000 | 3,562,500 | 3,562,500 |
| **Cyfanswm y Costau** | **233,200** | **603,200** | **15,627,700** | **18,062,000** | **20,496,400** | **8,063,300** |
| **Costau Ychwanegol ar ben Opsiwn 1** | **8,400** | **378,400** | **15,402,900** | **17,837,200** | **20,271,600** | **7,838,500** |

*Tabl 7.55: Crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 4c*

*Opsiwn 4c – cynnydd o 100% yn y ddarpariaeth*

| | 2016/17 £ | 2017/18 £ | 2018/19 £ | 2019/20 £ | 2020/21 £ | 2021/22 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau i** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lywodraeth Cymru** | | | | | | |
| Amser staff | 8,400 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,400 |
| Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 | 200,000 |
| **Awdurdodau lleol** | | | | | | |
| Datblygu'r strategaeth ac ymgynghori | | 378,400 | 0 | 0 | 0 | 331,100 |
| Amser staff i reoli grantiau | 24,800 | 24,800 | 62,000 | 62,000 | 62,000 | 62,000 |
| Buddsoddiad cyfalaf | | 0 | 17,020,800 | 17,020,800 | 17,020,800 | 0 |
| Cynnal a Chadw Blynyddol | | 0 | 1,662,500 | 3,325,000 | 4,987,500 | 4,987,500 |
| Cost flynyddol y Cynllun Grant | | 0 | 237,500 | 237,500 | 237,500 | 237,500 |
| **Cost i'r cyhoedd** | | | | | | |
| Ffioedd defnyddio | 0 | 0 | 1,583,300 | 3,166,700 | 4,750,000 | 4,750,000 |
| **Cyfanswm y Costau** | **233,200** | **603,200** | **20,766,100** | **24,012,000** | **27,257,800** | **10,570,500** |
| **Costau Ychwanegol** | **8,400** | **378,400** | **20,541,300** | **23,787,200** | **27,033,000** | **10,344,700** |

923. Byddai'r costau staff a wynebir gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn 2020/21 yn digwydd eto bob pedair i bum mlynedd, yn unol â'r drefn adolygu.

924. Byddai costau sylweddol ynghlwm wrth adeiladu cyfleusterau toiledau newydd a ddarperir yn uniongyrchol. Rhagwelir y byddai'r gost hon yn lleihau wrth i bob cylch o strategaethau gael ei ailadrodd, ac wrth i'r bwlch rhwng yr angen a nodir a'r ddarpariaeth bresennol gulhau o ganlyniad i weithredu strategaethau blaenorol.

**Manteision**

925. Mae’r manteision ar gyfer yr opsiwn hwn yr un â’r rhai a nodir o dan Opsiwn 3. Unwaith eto, nid oes modd mesur i ba raddau y byddai’r manteision hyn yn cael eu gwireddu. Fodd bynnag, gellir tybio y byddai’r opsiwn hwn yn sicrhau mwy o’r manteision, gan y byddai lefel y mynediad at ddarpariaeth toiledau ddigonol yn cael ei hasesu ac y byddai’n ofynnol yn gyfreithiol i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn mynd i’r afael ag unrhyw ddiffyg a nodir.

**Crynodeb a'r opsiwn a ffefrir**

926. Nid yw Opsiwn 1 yn bodloni’r amcan polisi. Mae’n parhau ag ymarfer presennol ac ni fyddai’n annog awdurdodau lleol i wella darpariaeth toiledau lleol. Ceir risg ychwanegol y byddai mynediad at gyfleusterau toiledau cyhoeddus yn lleihau o dan yr opsiwn hwn.

927. Gallai opsiwn 2 annog awdurdodau lleol i wario mwy ar ddarparu toiledau cyhoeddus. Fodd bynnag, gallai fod angen gwneud toriadau mewn meysydd eraill o ganlyniad i ailneilltuo’r cyllid, ac ni fyddai’n cefnogi polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru o roi hyblygrwydd i awdurdodau lleol unigol.

928. Opsiwn 3 yw’r opsiwn a ffefrir. Mae’r dull hwn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio strategaeth toiledau lleol, y maent yn atebol amdani. Rhaid i’r strategaeth roi ystyriaeth i anghenion y boblogaeth leol. Wedyn byddai modd i awdurdodau weithredu’r strategaeth yn y modd gorau, yn unol ag unrhyw bwysau ar eu cyllidebau. Dylai awdurdodau lleol ddatblygu gwell dealltwriaeth o anghenion eu cymuned trwy’r dull hwn, a cheisio ffyrdd o ddiwallu’r angen hwnnw.

929. Er y byddai Opsiwn 4 yn bodloni’r amcan polisi, byddai’n cyflwyno costau a allai fod yn afresymol i awdurdodau lleol ar adeg pan fo cyllidebau eisoes yn dynn. Nid oes consensws ynghylch lefelau’r ddarpariaeth toiledau sy’n ofynnol i’w hystyried yn ddigonol. Yn dibynnu ar lefel yr angen a nodir wrth ddatblygu’r strategaeth, gallai’r ddyletswydd o dan Opsiwn 4 fod yn faich gormodol ar awdurdodau lleol.

# 8. Asesu Cystadleuaeth ac Effeithiau Penodol

## Asesu Cystadleuaeth

930. Oherwydd yr amryfal faterion o dan sylw ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), amrywio a wna'r graddau y mae'r darpariaethau'n effeithio ar gystadleuaeth. Cwblhawyd profion hidlo cystadleuaeth ar wahân felly, ac fe'u cyflwynir isod.

### Tybaco a chynhyrchion nicotin

#### i) Cyfyngiadau ar ddefnyddio tybaco ac e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig a sylweddol gaeedig

| Y prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy na 10% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy nag 20% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a yw cyfran y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd yn 50% o'r farchnad o leiaf? | Nac ydy |
| **C4**: A fyddai cost y rheoleiddio yn effeithio lawer yn fwy ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad | Na fyddai |

| Y prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| eu cynhyrchion? | |

**ii) Cofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin**

| Y prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy na 10% o'r farchnad? | Oes* |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy nag 20% o'r farchnad? | Oes* |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a yw cyfran y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd yn 50% o'r farchnad o leiaf? | Oes* |
| **C4**: A fyddai cost y rheoleiddio yn effeithio lawer yn fwy ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

***Gan nad oes data ar gael ynghylch cyfran manwerthwyr cynhyrchion tybaco a/neu nicotin o'r farchnad, defnyddiwyd y gyfran o'r farchnad ar gyfer gwerthiant bwydydd

**Rhoi tybaco etc. i bersonau o dan 18**

| Y prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy na 10% o'r farchnad? | Oes* |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy nag 20% o'r farchnad? | Oes* |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a yw cyfran y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd yn 50% o'r farchnad o leiaf? | Oes* |
| **C4**: A fyddai cost y rheoleiddio yn effeithio lawer yn fwy ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

***** Gan nad oes data ar gael ynghylch cyfran manwerthwyr cynhyrchion tybaco a/neu nicotin o'r farchnad, defnyddiwyd y gyfran o'r farchnad ar gyfer gwerthiant bwydydd

**Triniaethau arbennig**

| Y prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y | Nac oes |

| Y prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy na 10% o'r farchnad? | |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy nag 20% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a yw cyfran y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd yn 50% o'r farchnad o leiaf? | Nac ydy |
| **C4**: A fyddai cost y rheoleiddio yn effeithio lawer yn fwy ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

**Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff**

| Y prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy na 10% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y | Nac oes |

| Y prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy nag 20% o'r farchnad? | |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a yw cyfran y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd yn 50% o'r farchnad o leiaf? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai cost y rheoleiddio yn effeithio lawer yn fwy ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

**Gwasanaethau fferyllol**

| Y prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy na 10% o'r farchnad? | Oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy nag 20% o'r farchnad? | Nac oes |

| Y prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a yw cyfran y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd yn 50% o'r farchnad o leiaf? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai cost y rheoleiddio yn effeithio lawer yn fwy ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau? | Ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Byddai (ond dim mwy nag sy'n wir ar hyn o bryd) |

**Darparu toiledau**

| Y prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy na 10% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran sy'n fwy nag 20% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a yw cyfran y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd yn 50% o'r farchnad o leiaf? | Nac oes |

| Y prawf hidlo cystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |
| **C4**: A fyddai cost y rheoleiddio yn effeithio lawer yn fwy ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, na fyddai'n ofynnol i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

## Effeithiau Penodol

931. Cyflawnwyd cyfres o asesiadau effaith ar y meysydd polisi y mae'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ('y Bil') yn ymdrin â hwy, yn rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Roedd yr effeithiau'n amrywio mewn nifer o feysydd polisi ond roeddent yn gadarnhaol at ei gilydd. Rhoddir crynodeb o'r enghreifftiau o'r prif effeithiau yn y paragraffau canlynol.

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

932. Mae Llywodraeth Cymru yn rhwymedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y Rheoliadau Dyletswyddau Cydraddoldebau Penodol i Gymru, Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (CEHD). Ar ôl cynnal asesiadau ar wahanol elfennau'r Bil, canfuwyd effeithiau cadarnhaol at ei gilydd ar grwpiau agored i niwed a rhai gwarchodedig. Er mai bwriad y cynigion yw bod o fudd i iechyd a lles poblogaeth Cymru gyfan, nododd y broses hefyd effeithiau penodol ar gyfer grwpiau gwarchodedig. I osgoi dyblygu, rhoddir crynodeb ar wahân o'r effeithiau penodol ar blant a phobl ifanc, yn yr adran ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

933. Mae'r newidiadau mewn perthynas â **gwasanaethau fferyllol** yn lled dechnegol eu natur, ond yn rhai arwyddocaol o safbwynt cydraddoldeb. Mae'n hawdd cyrraedd fferyllfeydd cymunedol ac maent yn cynnig amgylchedd cyfleus, llai

ffurfiol i bobl na allant neu nad ydynt yn dymuno ymweld â mathau eraill ar wasanaethau iechyd. Bydd y newidiadau yn y modd y gwneir penderfyniadau am wasanaethau fferyllol lleol, er mwyn creu system sy'n ymateb yn well i anghenion fferyllol cymunedau lleol, yn arwain at gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd yn well, gan sicrhau amrywiaeth o fanteision. Yn eu plith, bydd dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys ar gael yn rhwyddach, bydd brechiadau tymhorol rhag y ffliw ar gael yn rhwyddach i bobl y mae'r risg iddynt yn uwch, ceir gwell dealltwriaeth o anghenion fferyllol grwpiau lleiafrifol, a bydd y gwasanaethau cywir ar gael yn brydlon i fenywod beichiog neu famau newydd, pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol. Trwy barhau i ddatblygu swyddogaeth fferyllfeydd cymunedol o safbwynt iechyd y cyhoedd, gellid hefyd sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn rhwyddach i bobl sy'n llai tebygol o fod wedi'u cofrestru gyda Meddyg Teulu lleol, er enghraifft teithwyr a phobl sy'n ceisio lloches.

934 Yn yr un modd, caiff y newidiadau i'r broses o gynllunio **darpariaeth toiledau** effeithiau cadarnhaol ar nifer o grwpiau penodol. Gall diffyg darpariaeth effeithio'n anghymesur ar rai o'r grwpiau hyn. Mae'n hysbys bod diffyg darpariaeth yn cael effeithiau negyddol penodol ar bobl hŷn, gan gynnwys effeithiau ar eu hannibyniaeth, y graddau y maent yn cymryd rhan yn y gymuned a'r graddau y cânt eu hynysu'n gymdeithasol. Bydd gwella darpariaeth hefyd o fantais i grwpiau eraill, megis menywod, teuluoedd ifanc, pobl sydd â rhai cyflyrau meddygol penodol a phobl ddigartref. Bydd asesiad pob awdurdod lleol o anghenion ei gymuned hefyd yn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymateb yn briodol i anghenion eu cymunedau, gan gynnwys anghenion pobl ag anableddau.

935. Bydd y cynllun trwyddedu **trinaethau arbennig** yn cael effaith gadarnhaol at ei gilydd ar bawb sy'n dewis cael un o'r triniaethau arbennig a ddiffinnir, gan gynnwys pobl mewn grwpiau gwarchodedig neu rai sy'n agored i niwed. Bydd y gofynion o gymorth i wella safonau mewn modd cyson ledled Cymru, a sicrhau bod unigolion yn fwy gwybodus am y risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â thriniaethau penodol, a bod modd iddynt nodi darparwyr y gwyddant eu bod wedi bodloni'r gofynion ar gyfer trwyddedu. Y bwriad yw y bydd y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol cynnal ymgynghoriad â chwsmeriaid cyn ac ar ôl y driniaeth, a dylai hyn eu cynorthwyo i ddeall yn well sut i ofalu am glwyfau ac osgoi heintiau. Bydd hyn o fantais i bawb ond ceir manteision penodol i rai grwpiau megis pobl ag anableddau dysgu.

Hawliau dynol

936. Mae'r meysydd polisi yn y Bil yn codi nifer o ystyriaethau hawliau dynol. Er enghraifft, mae nifer o'r darpariaethau'n cynnwys gosod cyfyngiadau ar rai gweithgareddau neu ymddygiadau, neu ar y defnydd o rai cynhyrchion o dan amgylchiadau a ddiffinnir. Wrth ddatblygu'r Bil, ystyriwyd materion yn fanwl er mwyn cael cydbwysedd priodol rhwng amddiffyn hawliau unigolion mewn senarios penodol, ac amddiffyn hawliau'r boblogaeth yn gyffredinol.

937. Nodir, wrth ddeddfu ym meysydd polisi cymdeithasol, gan gynnwys iechyd y cyhoedd, y rhoddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel deddfwrfa etholedig ffiniau gwerthfawrogiad eang wrth bennu'r cydbwysedd priodol rhwng hawliau dynol sy'n anghyson â'i gilydd. Fel y nodir isod, ystyrir bod y cydbwysedd a geir yn

narpariaethau'r Bil yn dod o fewn y ffiniau disgresiwn hyn a bod y Bil, felly, o fewn cymhwysedd y Cynunlliad Cenedlaethol.

938. Yn benodol, nodir y gall Rhan 2 o'r Bil ('Tybaco a Chynhyrchion Nicotin'), gymhwyso Erthyglau 8 a 14 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r CEHD ("A1P1").

939. Mae Rhan 2 o'r Bil yn cyfyngu ar ryddid person i ysmygu mewn annedd preifat sydd hefyd yn weithle, ond dim ond yn y rhannau hynny o'r annedd a ddefnyddir fel lle i weithio, a dim ond ar yr adegau y defnyddir hwy fel lle i weithio. Mae Erthygl 8 o'r CEHD yn pennu'r hawl i gael parch tuag at fywyd preifat, y cartref a gohebiaeth. Mae'r hawliau hyn yn hawliau amodol (hynny yw, nid ydynt yn absoliwt) a gellir ymyrryd â hwy wrth ganlyn un neu ragor o nodau dilys, gan gynnwys amddiffyn iechyd neu foesau.

940. Ystyrir, o safbwynt Erthygl 8 o'r CEHD, fod y darpariaethau'n rhoi cydbwysedd priodol – sydd o fewn ffiniau gwerthfawrogiad y Cynulliad Cenedlaethol – rhwng rhyddid perchennog tŷ i ysmygu yn y cartref a hawliau gweithwyr a rhai sy'n ymweld â'r tŷ i beidio â chael eu rhoi mewn perygl oherwydd mwg ail-law.

941. Nid yw'n cael ei ystyried bod darpariaethau'r Bil ar gyfyngu ar ddefnyddio e-sigaréts yn cymhwyso Erthygl 8 i'r un graddau. Mae'r cyfyngiadau'n berthnasol i anheddau preifat dim ond os defnyddir yr anheddau hynny i ddarparu gofal plant proffesiynol, a dim ond yn y rhannau ac ar yr adegau y defnyddir hwy at y diben hwnnw. Ystyrir, a derbyn y potensial isel o ymyriad a'r risg y bydd bod yn bresennol pan fydd e-sigaréts yn cael eu defnyddio yn normaleiddio ymddygiadau ysmygu mewn plant a phobl ifanc, mae'r cydbwysedd y mae'r darpariaethau ar e-sigaréts yn ei roi yn deg ac o fewn ffiniau disgresiwn y Cynulliad Cenedlaethol.

942. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i ba un ai a yw cyfyngu ar ddefnyddio e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus penodol lle mae plant yn debygol o fod yn bresennol yn rheolaidd yn unig (h.y. nid ym mhob man cyhoeddus) yn cymhwyso Erthygl 14 o'r CEHD. Mae Erthygl 14 yn nodi na chaiff darpariaethau cyfraith genedlaethol sy'n amddiffyn neu'n cymhwyso hawliau'r CEHD wahaniaethu ar sail rhyw, hil na statws arall. Ystyrir, i'r graddau bod y darpariaethau ynghylch e-sigaréts yn berthnasol i rai mangreoedd cyhoeddus yn unig, y gellir cyfiawnhau'r driniaeth wahaniaethol ar y sail mai'r mangreoedd lle mae e-sigaréts wedi'u gwahardd yw'r rhai lle mae plant yn fwyaf tebygol o fod yn bresennol yn rheolaidd a lle mae'r risg y bydd defnyddio e-sigaréts yn normaleiddio ymddygiadau ysmygu mewn plant a phobl ifanc ar ei uchaf.

943. Yn olaf, nodir y gellid ystyried bod y ffaith fod y Bil yn cyfyngu ar ysmygu a defnyddio e-sigaréts mewn mangreoedd penodol ar adegau pendol yn rheoli, i ryw raddau, y ffordd y gellir defnyddio'r eiddo. Gall hyn, felly, gymhwyso A1P1, sy'n darparu ynghylch mwynhau eiddo'n heddychlon. Gellid cyfiawnhau ymyrryd âr hawl hon os ydyw er lles y cyhoedd.

944. Ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn y cyswllt hwn yn rhoi cydbwysedd teg rhwng hawl person i ddefnyddio ei eiddo heb gyfyngiadau a'r peryglon posibl i iechyd os na chyfyngir ar ysmygu (oherwydd y peryglon iechyd o ganlyniad i fwg ail-law) a defnyddio e-sigaréts (yn bennaf oherwydd y risg y gallai bod yn bresennol pan fo e-sigaréts yn cael eu defnyddio mewn eiddo lle mae plant yn debygol o fod yn bresennol yn rheolaidd normaleiddio ymddygiadau ysmygu). Mae'r cydbwysedd a

ddarperir yn dod o fewn y ffiniau disgresiwn a ganiateir i aelod-wladwriaethau yn y cyswllt hwn.

945. Nodir y gallai'r system drwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig sy'n cael ei chreu yn Rhan 3 o'r Bil gael ei hystyried fel rheolaeth i ryw raddau ar y defnydd a wneir o eiddo. Gellir, felly, cymhwyso A1P1 i hyn. Ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn y cyswllt hwn yn rhoi cydbwysedd teg rhwng hawl person i ddefnyddio ei eiddo heb gyfyngiadau a'r manteision posibl i iechyd o gael system drwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig (h.y. rheoli heintiau). Mae'r cydbwysedd a ddarperir yn dod o fewn y ffiniau disgresiwn a ganiateir i aelod-wladwriaethau yn y cyswllt hwn.

946. O ran Rhan 4 o'r Bil, sy'n creu gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn o dan 16 oed, ystyriwyd a yw cyfyngiad o'r fath yn cymhwyso Erthygl 8 a 14 ai peidio. I'r graddau fod y darpariaethau'n ymyrryd ag ymreolaeth bersonol plant o dan 16 oed a bod hyn wedi'i amddiffyn o dan Erthygl 8, mae'r ymyrryd yn angenrheidiol ar gyfer, ac yn gymesur i, amddiffyn iechyd a llesiant plant. Ystyrir, i'r graddau nad yw plant o dan 16 oed yn gallu cael rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yng Nghymru, fod y driniaeth wahaniaethol (o'i gymharu â rhai dros 16 oed) wedi'i gyfiawnhau gan fod y ddarpariaeth yn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed posibl.

947. Nodir y gellid ystyried bod y darpariaethau ynghylch asesiadau o anghenion fferyllol yn Rhan 5 o'r Bil, i ryw raddau, yn rheolaeth ar y defnydd a wneir o eiddo. Gellid, felly cymhwyso A1P1 i hyn. Ystyrir bod darpariaethau'r Bil yn y cyswllt hwn yn rhoi cydbwysedd teg rhwng hawl person i ddefnyddio ei eiddo heb gyfyngiadau a'r manteision posibl i iechyd o asesu anghenion fferyllol mewn ardal ac, felly, gwella mynediad at wasanaethau fferyllol. Mae'r cydbwysedd a ddarperir yn dod o fewn y ffiniau disgresiwn a ganiateir i aelod-wladwriaethau yn y cyswllt hwn.

948. Mae nifer o'r cynigion yn mynd ati'n fwriadol i hyrwyddo egwyddorion hawliau dynol. Er enghraifft, gallai'r cynigion ynghylch **darpariaeth toiledau** leihau'r posibilrwydd y gallai unigolyn gael ei drin mewn modd diraddiol (Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol).

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

949. O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 mae dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau o sylwedd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i brotocolau dewisol wrth gyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau Gweinidogol. Mae hyn yn golygu bod angen iddynt ystyried yr holl faterion sy'n berthnasol i'r penderfyniad y maent yn ei wneud a gwneud popeth bosibl i sicrhau ei fod yn hybu hawliau plant.

950. Trwy ei gyfuniad o ddarpariaethau, mae'r Bil yn cefnogi sawl un o erthyglau'r Confensiwn, gan gynnwys:-

- **Erthygl 3 –** Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio i sicrhau'r hyn sydd er lles pennaf pob plentyn;
- **Erthygl 6 –** Dylai pob plentyn gael yr hawl i fyw. Dylai llywodraethau sicrhau bod pob plentyn yn goroesi ac yn datblygu'n iach;

- **Erthygl 12 –** Mae gan blant yr hawl i fynegi'r hyn a ddylai ddigwydd yn eu barn hwy, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a'r hawl i'w safbwyntiau gael eu hystyried;
- **Erthygl 23 –** Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael gofal a chymorth arbennig er mwyn byw bywydau llawn ac annibynnol;
- **Erthygl 24 –** Dylai plant gael yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da;
- **Erthygl 31 –** Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio a chwarae, ac ymuno mewn ystod o weithgareddau; ac,
- **Erthygl 36 –** Dylid amddiffyn plant rhag unrhyw weithgareddau a allai wneud niwed i'w datblygiad.

951. Mae pwysigrwydd amddiffyn iechyd plant, ac atal niweidiau i iechyd yn y dyfodol, yn thema gyffredin ar draws llawer o ddarpariaethau'r Bil. Mae Erthyglau 3 a 36 yn arbennig o berthnasol i'r darpariaethau sy'n ymdrin â thybaco a chynhyrchion nicotin. Mae'n hanfodol atal plant a phobl ifanc rhag cael gafael ar gynhyrchion tybaco er mwyn eu hamddiffyn rhag niweidiau iechyd o ganlyniad i ysmygu, ac mae hyn yn un o amcanion allweddol y **gofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin** yn ogystal â'r darpariaethau sy'n mynd i'r afael â **rhoi tybaco i bersonau o dan 18**. Un arall o amcanion allweddol y Bil yw gwneud ymddygiadau ysmygu yn llai amlwg a normal. Mae'r darpariaethau sy'n gosod **cyfyngiadau ar ysmygu a defnyddio e-sigaréts** yn enghraifft o'r egwyddor hon, gan roi pwyslais arbennig ar yr effeithiau ar bobl ifanc. Mewn cysylltiad ag e-sigaréts yn benodol, mae'r darpariaethau hefyd yn ceisio mynd i'r afael â phryderon y gallent achosi i blant a phobl ifanc symud ymlaen i ysmygu tybaco.

952. Mae'r angen i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed y gellid ei osgoi hefyd wrth wraidd y cynigion ynghylch **rhoi tyllau mewn mannau personol o'r corff**. Mae'r darpariaethau hyn yn gyson â dyletswydd Gweinidogion Cymru i weithredu er lles pennaf plant a'u hamddiffyn rhag niwed a chamfanteisio.

953. Bydd y darpariaethau sy'n mynd i'r afael â **gwasanaethau fferyllol** yn cefnogi Erthygl 24 gan mai nod y rhain yw sicrhau bod y gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaethau hyn yn diwallu'n briodol anghenion cymunedau lleol. Mae potensial i hyn gael amrywiaeth o fanteision cadarnhaol i iechyd a lles plant a phobl ifanc. Efallai y bydd mwy o fferyllfeydd yn darparu 'Gwasanaethau Gwell' yn sgil cynnal gwell asesiadau o anghenion fferyllol lleol, gan gynnwys meddyginiaeth ar gyfer trin mân anhwylderau sy'n gyffredin ymhlith plant, megis rhwymedd, pigyn clust, dolur rhydd, clefyd gwair, llau pen, ecsema ysgafn, brech cewyn a thorri dannedd. Ar ben arall yr ystod oedran, gallai pobl ifanc 16-18 oed neu sydd bron yn 16 oed elwa o well darpariaeth ym maes dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu.

954. Mae Erthygl 24 hefyd yn hyrwyddo'r hawl i gael gwybodaeth a fydd yn helpu plant a phobl ifanc i ddiogelu'u hiechyd. Ategir hyn gan y darpariaethau sy'n mynd i'r afael â **thriniaethau arbennig.** Bydd y bwriad i sefydlu gofynion i gynnal ymgynghoriadau cyn ac ar ôl y driniaeth a'r gofrestr gyhoeddus o fusnesau trwyddedig yn cynorthwyo pobl ifanc i gael rhagor o wybodaeth wrth ystyried triniaeth ddiffiniedig.

955. Cefnogir Erthyglau 23 a 31 y Confensiwn trwy wella'r dull o gynllunio **darpariaeth toiledau**. Gallai hyn fod o fudd i blant a theuluoedd ifanc sy'n dibynnu yn aml ar gyfleusterau toiledau a newid cewynnau ar gyfer babanod pan fyddant oddi cartref, a darparu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc, yn enwedig y rheini sydd ag anabledd neu rai cyflyrau meddygol, gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau y tu allan i'r cartref.

956. Bydd y rhan o'r Bil sy'n ymwneud â **darpariaeth toiledau** hefyd yn cefnogi Erthygl 12 gan y bydd disgwyl i awdurdodau lleol asesu anghenion eu cymunedau o ran cyfleusterau toiledau, gan gynnwys anghenion plant a phobl ifanc, ac ymgysylltu'n briodol â hwy wrth asesu anghenion lleol. Yn yr un modd, mewn cysylltiad â **gwasanaethau fferyllol**, bydd Byrddau Iechyd Lleol yn ymgynghori â'r cyhoedd wrth gynnal yr asesiadau anghenion fferyllol. Bydd y darpariaethau hyn, felly, yn cynorthwyo i gefnogi hawliau pobl ifanc i fynegi'u barn ar faterion sy'n effeithio arnynt.

**Yr Effaith ar y Gymraeg**

957. O dan Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, rhaid cynnal asesiad o effeithiau deddfwriaeth sylfaenol arfaethedig ar y Gymraeg a chynhaliwyd cyfres o asesiadau effaith ar gyfer pob maes polisi yn y Bil. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi ei strategaeth "*Iaith Fyw; Iaith Byw*" ar gyfer y Gymraeg ar gyfer y cyfnod 2012-17, â'r nod o weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith. O safbwynt iechyd yn benodol, mae'r strategaeth "*Mwy na Geiriau*" yn ceisio cryfhau gwasanaethau Cymraeg ymhlith gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen.

958. Mae'r materion sy'n cael sylw yn y Bil yn ymwneud â materion unigol ym maes iechyd y cyhoedd, yn hytrach na darpariaeth gwasanaethau iechyd cyffredinol a pha mor rhwydd yw cael gafael arnynt. O'r herwydd, nifer gyfyngedig o effeithiau uniongyrchol a geir ar y Gymraeg, yn rhai cadarnhaol na negyddol. Fodd bynnag, ceir nifer o effeithiau mwy anuniongyrchol, ac mae darpariaethau'r Bil yn cefnogi nifer o amcanion "*Iaith Fyw; Iaith Byw*" yn anuniongyrchol. Y mwyaf perthnasol o'r rhain yw'r nod o gryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned, yn enwedig yng nghyd-destun datblygu asedau iechyd y gymuned.

959. Mae potensial i'r Bil gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, mae'r cynigion ynghylch **darpariaeth toiledau** a **gwasanaethau fferyllol** yn cynnwys asesu anghenion cymunedau lleol am wasanaethau a chyfleusterau, mewn modd sy'n cynnwys ymgysylltu'n ystyrlon â dinasyddion lleol. Wrth asesu anghenion lleol, y disgwyl yw y bydd y broses ymgysylltu'n cynnwys holl sbectrwm y bobl yn eu cymunedau, gan gynnwys aelodau sy'n siarad Cymraeg. O'r herwydd, gallai'r broses hon wneud y Gymraeg yn fwy amlwg mewn lleoliadau cymunedol, ac annog y gymuned i gymryd rhan trwy gyfrwng y Gymraeg yn y broses o gynllunio a llunio gwasanaethau a chyfleusterau lleol.

960. O ran **gwasanaethau fferyllol** yn benodol**,** wrth baratoi eu hasesiadau o anghenion fferyllol bydd angen i fyrddau iechyd ystyried unrhyw ffactorau perthnasol:- gan gynnwys nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg, a oes gwasanaethau fferyllol cyfrwng Cymraeg ar gael gan fferyllfeydd sy'n bodoli eisoes, ac i ba raddau y

mae'r ffaith bod/nad oes gwasanaethau fferyllol ar gael yn cyfrannu at ddigonolrwydd neu annigonolrwydd gwasanaethau fferyllol. Os bydd asesiadau o'r fath yn dangos bod y gwasanaethau fferyllol sydd ar gael i gymuned yn annigonol oherwydd nad ydynt ar gael yn y Gymraeg, bydd angen i fwrdd iechyd ystyried hyn ochr yn ochr ag anghenion fferyllol eraill sydd heb eu diwallu wrth gynllunio gwasanaethau fferyllol.

961. Bydd nifer o ddarpariaethau'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mewn nifer o feysydd polisi y mae'r Bil yn ymdrin â hwy, gallai hyn gynnwys paratoi arwyddion dwyieithog yn ogystal â llunio a dosbarthu dogfennau a chanllawiau dwyieithog, a chyfleoedd i hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff dogfennau eu paratoi yn unol â chynlluniau neu bolisïau iaith Gymraeg / safonau iaith Gymraeg y sefydliad perthnasol.

**Datblygiad cynaliadwy**

962. Fel rhan o sgrinio effaith y Bil o ran polisïau, rhoddwyd ystyriaeth i'r pum prif ddangosydd yng Nghynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Y rhain yw:-

- Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy;
- Cynnal yr Amgylchedd;
- Economi Gynaliadwy;
- Cymdeithas Gynaliadwy; a,
- Lles Cymru.

963. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn gwneud cyfraniad pwysig at agenda ehangach sy'n canolbwyntio ar atal niwed y gellid ei osgoi i iechyd a lles. Mae'r pwyslais hwn ar egwyddorion ataliol yn elfen hanfodol o ddatblygiad cynaliadwy, gan mai'r nod yw sicrhau manteision cynaliadwy i unigolion a chymdeithas yn y tymor hir.

964. Oherwydd natur y materion y mae'r Bil yn ymdrin â hwy, nid yw'r darpariaethau yn cael effaith uniongyrchol gadarnhaol na negyddol oherwydd ar nifer o ddangosyddion ategol y Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Er enghraifft, nid oes unrhyw effeithiau uniongyrchol o ran y dangosyddion ategol ar gyfer Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy neu Gynnal yr Amgylchedd, gan gynnwys dim effeithiau ar fioamrywiaeth nac ôl troed ecolegol Cymru, heblaw am botensial i leihau amser teithio o ganlyniad i'r newidiadau i **wasanaethau fferyllol**. Fodd bynnag, mae'r dangosyddion ar gyfer Economi Gynaliadwy, Cymdeithas Gynaliadwy a Lles Cymru yn fwy uniongyrchol berthnasol.

*Economi Gynaliadwy*

965. Mae'r darpariaethau ynghylch **gwasanaethau fferyllol** yn benodol yn cefnogi economi gynaliadwy trwy wella'r modd y caiff asedau cymunedol pwysig eu cynllunio a'r darparu. Nodwyd bod fferyllfeydd cymunedol yn un o'r busnesau hanfodol sy'n sicrhau ffyniant economaidd mewn cymunedau. Trwy gynllunio a darparu eu gwasanaethau'n well felly, gellir cyfrannu at gynnal cymunedau lleol, gan ddarparu mynediad at siopau a chyflogaeth leol, a chynorthwyo i ddatblygu cyfalaf cymdeithasol.

966. Trwy gynllunio **darpariaeth toiledau** yn well, gellir cynorthwyo pobl (er enghraifft pobl hŷn a phobl sydd â chyflyrau meddygol penodol) i ddod yn fwy

hyderus wrth chwarae rhan gyflawn a gweithredol yn eu cymunedau, a thrwy hynny helpu i hyrwyddo cyfleusterau lleol a'r economi leol ehangach. Gan y bydd angen i awdurdodau lleol ystyried yr amrywiaeth lawn o gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer darparu mynediad at doiledau lleol, gallai hyn hefyd gynyddu nifer yr ymwelwyr ar gyfer rhai adeiladau/busnesau yn yr ardal oddi amgylch. Er enghraifft, gallai hyn beri i ragor o bobl fanteisio ar wasanaethau yn yr un adeiladau, neu annog pobl i ymweld eto.

967. Ar y llaw arall, cydnabu'r asesiadau effaith ar gyfer y **gofrestr manwerthwyr cynhyrchion tybaco a chynhyrchion nicotin** yr effaith negyddol bosibl y gellid ei chael ar rai busnesau lleol trwy iddynt beidio â chael eu cynnwys ar gofrestr, neu gael eu hatal dros dro oddi arni. Gallai effeithiau tebyg posibl fod yn gysylltiedig â **thriniaethau arbennig** os yw trwydded neu gais am gymeradwyaeth yn cael ei wrthod neu ei ddirymu. Yn y ddau achos bydd modd i swyddogion gorfodi gynnig cyngor ac arweiniad ynghylch y camau i sicrhau cydymffurfiad â'r gofynion perthnasol, gan liniaru'r posibilrwydd hwn. Ar ben hynny, yn achos triniaethau arbennig, os bydd llai o bobl oherwydd darpariaethau oddi mewn i'r Bil yn dal heintiau neu'n dioddef effeithiau andwyol y gellid eu hosgoi (naill ai trwy wella ymarfer neu well dealltwriaeth o unrhyw gamau ôl-ofal gofynnol), gallai busnesau lleol eraill elwa o ganlyniad i golli llai o oriau gwaith trwy afiechyd.

*Cymdeithas Gynaliadwy*

968. Nod y darpariaethau ynghylch **gwasanaethau fferyllol** yw gwella'r dull o gynllunio a darparu'r gwasanaethau hyn, trwy sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn well ag anghenion cymunedau lleol. Yn yr un modd, trwy wella **darpariaeth toiledau** gellir annog pobl y gallai fod angen iddynt ddefnyddio'r toiled yn rheolaidd ac y mae darpariaeth wael yn effeithio arnynt, i wneud mwy o ymarfer corff a pharhau'n fwy corfforol egnïol, a thrwy hynny helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Yn ogystal, mae'r potensial i'r darpariaethau ynghylch **tybaco** gyfrannu at leihau ymhellach y cyfraddau sy'n ysmygu, sy'n dueddol o fod yn uwch fel rheol mewn ardaloedd mwy difreintiedig ac ymhlith pobl mewn dosbarthiadau cymdeithasol-economaidd is.

*Lles Cymru*

969. Prif ddiben darpariaethau'r Bil yn gyffredinol yw cefnogi a gwella lles cyffredinol Cymru, trwy geisio mynd i'r afael â chyfres o bryderon penodol ym maes iechyd y cyhoedd. Nod y darpariaethau ynghylch **tybaco a chynhyrchion nicotin**, gyda'i gilydd, yw gwneud ymddygiadau ysmygu'n llai amlwg, ac atal pobl ifanc rhag cael gafael ar y cynhyrchion hyn. Ceisiant, felly, amddiffyn iechyd a lles y dyfodol rhag risgiau clefydau sy'n gysylltiedig ag ysmygu a bod yn gaeth i nicotin.

970. Nodir yn glir yn rhai o'r paragraffau blaenorol y cyfraniad a wneir at les cyffredinol Cymru trwy wella **darpariaeth toiledau** a mynediad at **wasanaethau fferyllol**. Yn ychwanegol, bydd y darpariaethau ym maes **triniaethau arbennig** a gwahardd **tyllu rhannau personol** o gyrff pobl o dan 16 hefyd yn amddiffyn iechyd a lles yn y dyfodol trwy helpu i osgoi niweidiau i iechyd y gellid eu rhwystro.

**Prawfesur o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad**

971 Bydd y newidiadau arfaethedig yn y Bil yn effeithio ar ardaloedd trefol a gwledig, a byddant yn berthnasol yn yr un modd i bob rhan o Gymru. Canfu'r asesiadau sgrinio prawfesur gwledig y bydd ystyriaethau hefyd i nifer o'r meysydd polisi sy'n arbennig o berthnasol i ardaloedd gwledig.

972. Mae i'r heriau presennol ynghylch **darpariaeth toiledau** effeithiau arbennig o ddifrifol mewn ardaloedd a chymunedau gwledig. Trafodwyd problem gyffredinol darpariaeth toiledau a mynediad atynt yn aml yng nghyd-destun ardaloedd gwledig, lle y deellir bod effaith darpariaeth wael yn anghymesur o fawr oherwydd bod y cyfleusterau sydd ar gael yn bellach oddi wrth ei gilydd. Trwy gynllunio'n well a sicrhau bod cyfleusterau ar gael yn rhwyddach felly, gellir sicrhau manteision penodol i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, gan gyfrannu at gynnal cymunedau gwledig. Bydd y gofynion i ymgynghori ar strategaethau o gymorth i sicrhau ymgysylltiad priodol sy'n adlewyrchu cyfansoddiad poblogaethau lleol, gan gynnwys anghenion penodol cymunedau gwledig. Gall hefyd fod manteision anuniongyrchol i fusnesau gwledig os bydd gwell darpariaeth yn annog rhagor o bobl i ddod yn rhan o'r gymuned ac i ymweld ag ardal fwy nag unwaith.

973. Bydd ardaloedd gwledig yn gweld effeithiau cadarnhaol yn sgil gwella'r dull o gynllunio a darparu **gwasanaethau fferyllol**. Gall pobl mewn ardaloedd gwledig ddibynnu mwy ar y gwasanaethau a ddarperir gan fferyllfeydd cymunedol os yw hi'n haws iddynt gyrraedd y rhain na gwasanaethau eraill. Os nodir bylchau mewn gwasanaethau mewn cymunedau gwledig trwy gyfrwng yr asesiadau anghenion fferyllol, dylai hyn arwain at gymryd camau i sicrhau darpariaeth ddigonol.

974. Gweithredir **cofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin** yn yr un modd ledled Cymru. Fodd bynnag, nodwyd yn sgil yr ymarfer sgrinio effaith y gallai'r effaith o bosibl fod yn fwy mewn ardaloedd gwledig pe câi unrhyw fanwerthwyr eu rhwystro rhag gwerthu'r cynhyrchion hyn os methant â chydymffurfio â'r gofynion. Gall fod llai o gwsmeriaid i gynorthwyo i gynnal siopau bach, annibynnol os ydynt yn colli incwm o werthu'r cynhyrchion hyn. Gallai cwsmeriaid hefyd orfod teithio ymhellach i brynu'r cynhyrchion hyn os bydd llai o opsiynau eraill ar gael yn lleol. Bydd swyddogion gorfodi awdurdodau lleol yn cynnig cyngor a chymorth i fanwerthwyr i'w helpu i beidio â thorri'r gofynion, gan liniaru'r effaith bosibl hon. Gallai effeithiau tebyg fod yn gysylltiedig â'r darpariaethau **triniaethau arbennig**, a gellid lliniaru'r rhain yn yr un modd.

975. Rhagwelir na fydd unrhyw wahaniaethau o ran costau ar gyfer cofrestru o ganlyniad i fod mewn ardaloedd gwledig yn unig. Fodd bynnag, gall fod potensial i'r angen i dalu ffioedd gael mwy o effaith ar rai ardaloedd gwledig, er enghraifft os bydd gan ardal gyfran uwch o fusnesau bach neu unig fasnachwyr. Bydd yr effaith bosibl hon yn cael ei lliniaru trwy bennu unrhyw ffioedd ar lefel ni ystyrir yn afresymol i unig ymarferwyr neu fanwerthwyr bach.

976. At ei gilydd, bydd y dulliau gorfodi ar gyfer y newidiadau y darparwyd ar eu cyfer yn y Bil yn defnyddio systemau lleol sy'n bodoli eisoes. Bydd hyn yn sicrhau y defnyddir gwybodaeth ac arbenigedd lleol swyddogion gorfodi ac arolygu, gan gynnwys profiad o weithredu mewn cyd-destun gwledig.

**Iechyd a Lles**

977. Gwella ac amddiffyn iechyd a lles poblogaeth Cymru yw diben cyffredinol y Bil. Mae'n ceisio sefydlu cyfres o fesurau cyfreithiol ymarferol ac ataliol, a phob un wedi'i gynllunio i gynorthwyo i fynd i'r afael â her benodol i iechyd y cyhoedd. Gyda'i gilydd, nod y cynigion yw cael effaith gronnus, gadarnhaol ar iechyd a lles yn gyffredinol. Mae'r darpariaethau hefyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol o safbwynt anghydraddoldeb iechyd, gan fod modd i'r materion sy'n cael sylw yn y Bil effeithio'n anghymesur ar yr unigolion, y teuluoedd a'r cymunedau mwyaf difreintiedig.

978 Mae'r Bil yn cyfuno nifer o ddulliau o ddylanwadu ar y ffactorau cymdeithasol a chymunedol sy'n dylanwadu ar iechyd. Mae'r darpariaethau sy'n ymdrin â **thybaco a chynhyrchion nicotin** yn parhau â'r traddodiad cryf o ddeddfu i fynd i'r afael â materion pwysig sy'n ymwneud â ffordd o fyw, gan geisio cryfhau mwy fyth ar y fframwaith cyfreithiol helaeth sy'n bodoli eisoes yn y meysydd hyn.

979 Yn yr un modd, ceisia'r darpariaethau ynghylch **triniaethau arbennig** a **thyllu rhannau personol o'r corff** osgoi a lleihau'r risg o niweidiau posibl i iechyd. O safbwynt triniaethau arbennig yn benodol, ceir effaith gadarnhaol ar yr amgylchiadau sy'n effeithio ar iechyd cwsmeriaid a chyflogeion trwy sicrhau bod ymarferwyr a'u hadeiladau'n bodloni safonau penodedig ac yn cadw atynt.

980. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â **gwasanaethau fferyllol** a **darpariaeth toiledau** yn canolbwyntio ar wasanaethau a chyfleusterau sy'n gwneud cyfraniad pwysig o ran iechyd y cyhoedd. Mae pob fferyllfa gymunedol wedi'i chontractio i helpu i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw gan gynnwys darparu cyngor ynghylch bwyta'n iach. Pan fo fferyllfeydd wedi'u hachredu i ddarparu gwasanaethau ychwanegol (megis gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu), mae hyn hefyd yn cefnogi ffyrdd iachach o fyw. Nod y strategaethau toiledau lleol y darperir ar eu cyfer o dan y Bil yw lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, yn enwedig ymhlith grwpiau sy'n agored i niwed. Y nod felly, wrth sicrhau darpariaeth ddigonol, yw gwella seilwaith a chyfleusterau cymunedol mewn modd sydd o gymorth i iechyd da a lles.

**Yr Effaith ar Breifatrwydd**

981. Dangosodd yr ymarfer sgrinio am effeithiau ar breifatrwydd y bydd nifer o feysydd yn y Bil yn cynnwys trin a phrosesu gwybodaeth bersonol. Pan fo hyn yn berthnasol, bydd angen i reolwr y data sicrhau bod ei ddulliau prosesu'n cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998. Meysydd mwyaf perthnasol y Bil yw'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer **manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin,** a **thriniaethau arbennig**. Bydd y rhain yn cynnwys ymdrin â gwybodaeth bersonol am fanwerthwyr, ymarferwyr a'u mangreoedd. Cedwir data ar gofrestr manwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin yn ganolog, a bydd ar gael i awdurdodau lleol at ddibenion gorfodi. Bydd gwybodaeth fwy cyfyngedig (er enghraifft enw a chyfeiriad busnes manwerthwr) ar gael i'r cyhoedd. Yn achos triniaethau arbennig, cedwir gwybodaeth am ddeiliaid trwyddedau gan awdurdodau lleol a bydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd disgwyl hefyd i ymarferwyr gynnal cofnodion priodol am eu cwsmeriaid.

982. Bydd unigolion yn cyflwyno'r math hwn o wybodaeth bersonol o ganlyniad i'w swyddogaeth yn y busnes. Bydd angen i'r rheolwyr data a'r proseswyr data

perthnasol gydymffurfio ag egwyddorion a deddfwriaeth briodol ynghylch diogelu data. Bydd trefn brosesu deg a phriodol yn allweddol i hyn, er mwyn i unigolion a/neu'r busnesau y maent yn eu cynrychioli, fod yn ymwybodol o sut y caiff y data personol ei ddefnyddio – yn enwedig pan fo rhaid iddynt ddarparu data personol. Bydd yr un egwyddorion yn berthnasol i'r wybodaeth bersonol a gedwir gan ymarferwyr triniaethau arbennig am eu cwsmeriaid.

983. Mae'r newidiadau i'r broses o gynllunio **darpariaeth toiledau** yn cynnwys gofynion i ymgysylltu ac ymgynghori'n lleol. Mae'n debyg yr ymdrinnir â pheth gwybodaeth bersonol wrth weinyddu'r camau hyn. Bydd y rheolwyr data perthnasol yn gyfrifol am sicrhau y prosesir unrhyw ddata personol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Yn achos awdurdodau lleol, er enghraifft, bydd ganddynt weithdrefnau eisoes ar gyfer cynnal ymgynghoriadau, gan gynnwys ymdrin ag unrhyw wybodaeth bersonol. Yn ogystal, bydd pob unigolyn yn dewis a fydd yn dymuno ymateb i ymarfer ymgynghori neu wneud eu hymateb yn ddienw.

984. Yn achos **gwasanaethau fferyllol**, mae gan bob BILl ei restr fferyllol ei hun ac felly bydd ganddynt eisoes brotocolau diogelu data er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol. Mae'n annhebygol y bydd data a gesglir trwy'r asesiadau anghenion fferyllol newydd yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol sensitif, nac y bydd unrhyw fanylion perthnasol yn ddienw.

985. Er na ddisgwylir hyn ond o dan nifer fach o amgylchiadau, mae posibilrwydd y caiff rhai unigolion eu herlyn oherwydd y newidiadau cyfreithiol a wnaed o dan y Bil. Os digwydd hyn, prosesir unrhyw wybodaeth bersonol gan yr awdurdodau perthnasol yn unol â'r gweithdrefnau a'r ddeddfwriaeth arferol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig o dan rai amgylchiadau, er enghraifft lle y gellid cadw gwybodaeth bersonol sensitif fel rhan o unrhyw erlyniad yn gysylltiedig â rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person o dan 16 oed. Mewn achosion o'r fath, ystyrir mai'r awdurdodau perthnasol fydd y rheolwr data a'u dyletswydd hwy fydd sicrhau y cydymffurfir â Deddf Diogelu Data 1998.

**Yr effaith ar y sector gwirfoddol**

986. Mae amrywiaeth o sefydliadau'r sector gwirfoddol yn ymwneud â'r agenda iechyd y cyhoedd, yn aml â buddiannau penodol mewn rhai materion penodol. Er nad yw darpariaethau'r Bil yn effeithio'n uniongyrchol ar sefydliadau'r sector gwirfoddol, bydd gan sefydliadau sy'n cynrychioli sectorau neu grwpiau penodol yn y boblogaeth ddiddordeb byw yn y modd y gweithredir y Bil.

987. Mae sefydliadau'r sector gwirfoddol hefyd yn debygol o gymryd rhan mewn prosesau ymgysylltu ac ymgynghori sy'n gysylltiedig â gweithredu gwahanol feysydd o'r Bil. Mae hefyd yn debygol y bydd y sector yn cyfrannu at y gwaith o fonitro'r ddeddfwriaeth a chyfrannu at adolygiadau ar ôl ei gweithredu.

**Yr effaith ar y system farnwrol**

988. Bydd nifer o droseddau newydd yn cael eu creu o dan wahanol rannau o'r Bil, er enghraifft yn ymwneud â'r darpariaethau ar **dybaco a chynhyrchion nicotin**, **triniaethau arbennig** a **rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff**. Bydd trefniadau ar

gyfer apelio wedi eu sefydlu hefyd mewn cysylltiad â'r amrywiol ddarpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Bil. Gan ddefnyddio profiad blaenorol mewn meysydd tebyg, disgwylir y bydd y rhan fwyaf o sefydliadau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn gyffredinol, a nifer fach iawn o achosion llys a ddisgwylir. Disgwylir i'r effaith gyffredinol ar y llysoedd ac ar y system farnwrol yng Nghymru fod yn isel felly. Pan fo effeithiau posibl wedi eu nodi, cyfeirir atynt yn y mannau priodol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

# 9. Adolygiad ôl-weithredu

989. Mae sawl elfen i'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ac mae wedi ei gynllunio i gynnig sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer gweithredu mewn sawl maes ar wahân, a hynny er mwyn osgoi niweidiau i iechyd y gellid eu hosgoi. Rhaid i'r trefniadau adolygu, monitro a gwerthuso adlewyrchu'r cyd-destun cyffredinol hwn.

990. Datblygir rhaglen o weithgarwch monitro a gwerthuso i gyfateb i weithgareddau a dyddiadau allweddol. Bydd dulliau ymchwil a gwerthuso amrywiol yn cael eu hystyried, yn dibynnu ar y math o ddata sy'n ofynnol. Bydd y trefniadau monitro a gwerthuso'n cynnwys cyfres gydlynol o elfennau, a bydd rhai o'r rhain yn gyffredin i ddwy elfen neu ragor o'r Bil tra bydd eraill, oherwydd natur benodol rhai rhannau, yn cael eu cynllunio'n bwrpasol. Yn achos rhai elfennau, bydd angen i gyfnod rhesymol o amser fynd heibio cyn y gellir asesu canlyniad y darpariaethau, a gellid cyfyngu ar y gallu i ddangos newid oherwydd y defnyddir mesurau wedi eu modelu neu fesurau llinell sylfaen wedi eu hamcangyfrif mewn rhai meysydd.

991. Gellir rhannu'r trefniadau monitro a gwerthuso arfaethedig yn dri chategori bras. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn cwmpasu 'r gwaith o fonitro data ac ystadegau iechyd arferol, data gweinyddol ac adolygiad annibynnol. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i gomisiynu ymchwil benodol i weithrediad rhai rhannau o'r Bil pryd bynnag y nodir angen am ymchwil o'r fath.

Data ac ystadegau iechyd

992. Pryd bynnag y bo modd, trefnir bod y gwaith o fonitro gweithrediad y Bil yn cyd-fynd â gwaith perthnasol arall. Bydd data a ddarperir mewn arolygon a gynhelir yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru (a phartneriaid), felly, yn ffynhonnell ddata bwysig i gynorthwyo i fonitro'r ddeddfwriaeth. Ar yr un pryd, efallai y bydd angen ystyried trefniadau newydd ar gyfer casglu data yn ôl yr angen.

993. Er y bydd data iechyd rheolaidd yn cynnig ffynhonnell wybodaeth hanfodol, rhaid nodi bod camau gweithredu eraill ar y gweill hefyd i ymdrin â nifer o faterion yr â'r Bil i'r afael â hwy. Bydd felly'n anodd priodoli'n llawn rai tueddiadau ar lefelau poblogaeth (fel y gellid eu nodi trwy ddata o'r fath hon) i effeithiau'r Bil. Er enghraifft, mae darpariaethau'r Bil ynghylch tybaco a chynhyrchion nicotin yn ceisio gwneud cyfraniad cyffredinol at leihau cyfraddau ysmygu ymhlith plant a phobl ifanc, trwy wneud rhai cynhyrchion yn llai amlwg a'i gwneud yn anos cael gafael ar y cynhyrchion hyn. Fodd bynnag, ni fyddai'n bosibl priodoli'r duedd hon i'r Bil yn unig, yn enwedig o ystyried datblygiadau eraill perthnasol mewn deddfwriaeth megis cynigion i gyflwyno pecynnau safonol ar gyfer tybaco, a chyflwyno cyfyngiadau oedran ar werthu cynhyrchion nicotin yn ddiweddar, yn ogystal â dylanwadau cymdeithasol eraill.

Data gweinyddol

994. Yn yr un modd, gwneir y defnydd gorau o'r wybodaeth weinyddol fwyaf perthnasol sydd eisoes yn cael ei chasglu. Yr hyn sy'n bwysig yw y bydd yn cynnwys ystod o ddata a gesglir gan awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'r pynciau sy'n cael sylw yn y Bil. Bydd hyn yn cynnwys:

- data ar yr arolygiadau a gynhaliwyd;
- gwybodaeth ym maes gorfodi, gan gynnwys data ar rybuddion ysgrifenedig, hysbysiadau cosb benodedig ac erlyniadau; a
- data ar gwynion/ymholiadau a dderbynnir gan adrannau safonau masnach ac iechyd yr amgylchedd.

Adolygiad annibynnol

995. Bydd trydedd elfen y trefniadau adolygu cyffredinol yn darparu ar gyfer proses ffurfiol o gynnal adolygiad annibynnol ar ôl cyfnodau penodedig. Rhagwelir y bydd rhanddeiliaid allweddol yn gwneud cyfraniad ffurfiol trwy grwpiau arbenigol sydd eisoes yn bodoli. Oherwydd yr amryfal faterion sy'n cael sylw yn y Bil, rhagwelir y byddai'n fwyaf priodol i wahanol grwpiau gyflawni'r swyddogaeth hon. Ymhlith y grwpiau a allai gyflawni swyddogaeth o'r fath ar gyfer gwahanol elfennau'r Bil y mae Pwyllgor Diogelu Iechyd Cymru, Pwyllgor Fferyllol Cymru a'r Bwrdd Cyflawni ar Reoli Tybaco, ond gellid ystyried neu sefydlu Grwpiau neu Baneli fel y bo'n briodol.

996. Câi pob grŵp arbenigol y dyrennir y math hwn o gyfrifoldeb iddo y dasg ffurfiol o gynnal adolygiad o'r Bil (neu ran o'r Bil), gan ddilyn cylch tair blynedd o bosibl. Wedyn byddai pob grŵp yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru yn y lle cyntaf. Ni fyddai'r elfen hon o adolygu yn digwydd yn annibynnol ar y gweddill, gan y byddai data rheolaidd a data gweinyddol yn helpu i hysbysu dyfarniadau grwpiau arbenigol o'r fath.

997 Gellir darparu darlun ymarferol o sut y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei monitro trwy gyfeirio at y darpariaethau sy'n cyfyngu ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd, a defnyddio e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus penodol. Bydd timau gorfodi awdurdodau lleol yn monitro i ba raddau y cydymffurfir â'r cyfyngiadau. Rhagwelir y bydd gofyn i bob awdurdod lleol lenwi ffurflen chwarterol ar gyfer Llywodraeth Cymru, a'r ffurflen honno heb fod yn fwy nag un ochr A4. Gofynnir i awdurdodau lleol roi manylion ynghylch: nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a gyflwynwyd mewn cysylltiad â throseddau ym maes ysmygu a defnyddio e-sigaréts, nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a dalwyd a nifer yr achosion llys a'r erlyniadau.

998. Caiff effaith y cyfyngiadau ei monitro trwy'r dulliau presennol o olrhain nifer y plant ac oedolion yng Nghymru sy'n defnyddio tybaco ac e-sigaréts ac sy'n agored iddynt. Bydd ffynonellau pwysig ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys yr Arolwg i Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol ac Arolwg Iechyd Cymru[470].

[470] O 2016-17, bydd Arolwg Iechyd Cymru â'r Arolwg Cenedlaethol, Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru ac Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru yn cael eu cyfuno i greu un arolwg.

# Atodiad A – Nodiadau Esboniadol

**BIL IECHYD Y CYHOEDD (CYMRU)**

---

**NODIADAU ESBONIADOL**

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) fel y'i gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Mehefin 2015.

2. Fe'u lluniwyd gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil ac i helpu'r drafodaeth arno drwy roi gwybodaeth amdano. Nid ydynt yn rhan o'r Bil ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil. Os ymddengys nad oes angen rhoi esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Bil, nis rhoddir.

**CEFNDIR POLISI**

4. Mae iechyd a llesiant poblogaeth Cymru yn parhau i wella. Yn gyffredinol, mae pobl yn byw yn hirach ac yn mwynhau iechyd gwell nag erioed o'r blaen. Fodd bynnag, mae Cymru yn parhau i wynebu nifer o heriau iechyd penodol a sylweddol. Mae'r rhain yn amrywio o heriau demograffig hollgyffredinol megis poblogaeth sy'n heneiddio ac anghydraddoldebau parhaus mewn iechyd, i rai sy'n fwy arwahanol a ddaw yn sgil dewisiadau o ran ffordd o fyw a datblygiadau cyfoes mewn cymdeithas.

5. Yn y gorffennol, mae deddfwriaeth wedi chwarae rôl bwysig o ran gwella ac amddiffyn iechyd. Bernir bod deddfwriaeth mewn meysydd mor amrywiol â gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig a gwisgo gwregysau diogelwch wedi gwneud cyfraniadau sylweddol i iechyd a llesiant.

6. Datblygwyd y Bil hwn yn dilyn ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, a oedd yn cynnwys cyfres o gynigion deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â nifer o faterion iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r Bil yn canolbwyntio ar lunio amodau cymdeithasol sy'n ffafriol i iechyd da, a phan fo'n bosibl, osgoi ffactorau sy'n niweidio iechyd y gellir eu hosgoi.

**TROSOLWG CYFFREDINOL O'R BIL**

7. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau mewn nifer o feysydd polisi arwahanol, a nod pob un ohonynt yw ymdrin â heriau cyfoes i iechyd a llesiant yng Nghymru.

8. Yn y Bil ceir 126 o adrannau (mewn 8 Rhan) a 5 Atodlen.

- Rhan 1 – Trosolwg

- Rhan 2 – Tybaco a Chynhyrchion Nicotin

  - Mae Pennod 1 yn cyfyngu ar ysmygu mewn gweithleoedd a mannau cyhoeddus, ac mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ehangu'r gwaharddiad i fangreoedd eraill, ac i gerbydau, ac mae'n gwahardd y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn mangreoedd a cherbydau cyhoeddus penodedig;
  - Mae Pennod 2 yn sefydlu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin;
  - Mae Pennod 3 yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau i ychwanegu at y troseddau sy'n cyfrannu at Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yng Nghymru;
  - Mae Pennod 4 yn gwahardd rhoi tybaco neu gynhyrchion nicotin (pan fyddant yn cael eu danfon neu eu casglu mewn cysylltiad â'u gwerthu) i berson o dan 18 oed sydd ar ei ben ei hun;

- Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer creu cynllun trwyddedu mandadol i fusnesau/ymarferwyr sy'n cynnig 'Triniaethau Arbennig' penodedig, sef aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio;

- Mae Rhan 4 yn cyflwyno gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff personau o dan 16 oed;

- Mae Rhan 5 yn newid y trefniadau ar gyfer dyfarnu ar geisiadau ar gyfer cynnwys cofnod ar restr fferyllol Bwrdd Iechyd Lleol, i system sy'n seiliedig ar anghenion wedi eu hasesu o safbwynt cymunedau lleol;

- Mae Rhan 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth toiledau lleol er mwyn cynllunio sut y byddant yn diwallu anghenion eu cymunedau o ran cael mynediad at doiledau cyhoeddus;

- Mae Rhan 7 yn cynnwys darpariaeth amrywiol ynghylch y defnydd o dderbyniadau cosb benodedig mewn cysylltiad â throseddau sgorio hylendid bwyd; ac

- Mae Rhan 8 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau cyffredinol, gan gynnwys mewn perthynas â rheoliadau, dehongli, pwerau i wneud darpariaethau canlyniadol a throsiannol, a threfniadau dod i rym.

**SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

**RHAN 1**
**TROSOLWG**

9. Mae adran 1 yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau'r Bil. Mae'n crynhoi'r pynciau yr ymdrinnir â hwy ym mhob Rhan ddilynol.

**RHAN 2**
**TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN**

**PENNOD 1: YSMYGU A'R DEFNYDD O DDYFEISIAU MEWNANADLU NICOTIN**

10. Mae'r Bennod hon yn cynnwys darpariaethau sy'n gwneud mangreoedd cyhoeddus caeedig, mangreoedd cyhoeddus sylweddol gaeedig a gweithleoedd a rennir yn ddi-fwg. Cyfeirir atynt fel 'mangreoedd di-fwg'. At ddiben y Bennod hon, ystyr 'di-fwg' yw na chaniateir ysmygu, oni bai bod y mangreoedd wedi eu hesemptio drwy reoliadau a wneir o dan adran 13 o'r Bil.

11. Gall rheoliadau hefyd ddarparu i fangreoedd ychwanegol fod yn ddi-fwg o dan amgylchiadau penodol. Nid oes angen i'r mangreoedd di-fwg ychwanegol hyn fod yn gaeedig nac yn sylweddol gaeedig. Caiff cerbydau hefyd fod yn ddi-fwg; cyfeirir at gerbydau o'r fath fel 'cerbydau di-fwg' yn y Bennod hon.

12. Mae'r Bennod hon yn ailddatgan Rhan 1 o Bennod 1 o Ddeddf Iechyd 2006 ar Fangreoedd, Mannau a Cherbydau Di-fwg ("Smoke-Free Premises, Places and Vehicles") o ran Cymru. Nid yw'r ailddatgan hwn yn gwneud newidiadau sylweddol mewn perthynas ag ysmygu mewn mangreoedd di-fwg sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig.

13. Mae dyfeisiau mewnanadlu nicotin yn ffenomen weddol newydd. Mae'r Bil yn cyflwyno cyfyngiadau ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin (a elwir yn e-sigaréts yn gyffredin, ac y cyfeirir atynt yn ddiweddarach fel DMNau) mewn rhai mangreoedd penodedig lle y mae plant yn debygol o fod yn bresennol ac mewn cerbydau a ddefnyddir ar gyfer cludiant i'r ysgol neu drafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn rhwystro ailnormaleiddio ymddygiadau ysmygu, yn benodol ymhlith pobl ifanc. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wahardd y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn mangreoedd a cherbydau ychwanegol. Bydd cyfyngu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn mannau cyhoeddus penodol yn gweithio ochr yn ochr â deddfwriaeth arall, gan gynnwys Rheoliadau Cynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Oedran Gwerthu) 2015, sydd, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol, yn ei gwneud yn drosedd yng Nghymru a Lloegr i werthu dyfeisiau mewnanadlu nicotin i bersonau o dan 18 oed neu i'w prynu ar eu cyfer.

**Adran 2: Ysmygu a dyfeisiau mewnanadlu nicotin**

14. Mae'r adran hon yn darparu'r diffiniadau o "ysmygu", "dyfais mewnanadlu nicotin" a "defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin" ar gyfer Pennod 1 o Ran 2 o'r Bil. Mae'r diffiniad o "ysmygu" yn cwmpasu ysmygu sigaréts, pibau, sigârs, sigaréts llysieuol a phibau dŵr (a elwir yn aml yn bibau hookah neu shisha) etc. Mae'r diffiniad o "dyfais mewnanadlu nicotin" yn cynnwys pob math o ddyfeisiau sy'n cael eu defnyddio i fewnanadlu nicotin drwy getyn ceg, ond nid yw'n cynnwys dyfeisiau a ddefnyddir i ysmygu.

15. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i esemptio dyfeisiau a fyddai fel arall yn dod o fewn y diffiniad o ddyfais mewnanadlu nicotin.

**Adran 3: Ehangu i ddyfeisiau eraill**

16. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu i ddyfeisiau pellach sy'n galluogi i sylwedd gael ei fewnanadlu ddod o fewn y Bennod hon pan fônt wedi eu bodloni bod hyn yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru. Gall dyfeisiau ychwanegol o'r fath alluogi neu beidio â galluogi i nicotin gael ei fewnanadlu. Gallai Gweinidogion Cymru, er enghraifft, ddefnyddio'r pwerau hyn pe bai'n dod yn amlwg bod dyfeisiau eraill yn tanseilio gorfodi'r gwaharddiad ar ysmygu neu ar y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin a/neu'n cyfrannu at ailnormaleiddio ymddygiadau ysmygu, ac o'r herwydd yn cael effaith negyddol ar iechyd pobl Cymru.

**Adran 4: Y drosedd o ysmygu mewn mangre ddi-fwg neu gerbyd di-fwg**

17. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn drosedd i ysmygu mewn mangre ddi-fwg neu gerbyd di-fwg. Dim ond yn y llys ynadon y caniateir gwrando achos am y drosedd hon a chaniateir i'r drosedd gael ei chosbi ar gollfarn gan ddirwy nad yw'n uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol. Nodir y lefelau ar y raddfa safonol yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982. Caiff swyddog awdurdodedig ddyroddi hysbysiad cosb benodedig yn hytrach nag erlyn. Mae adran 29 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am hysbysiadau cosb benodedig.

**Adran 5: Y drosedd o ddefnyddio dyfais mewnanadlu nicotin mewn mangre ddi-DMN neu gerbyd di-DMN**

18. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn drosedd i ddefnyddio dyfais mewnanadlu nicotin mewn mangre ddi-DMN neu gerbyd di-DMN. Dim ond yn y llys ynadon y caniateir gwrando achos am y drosedd ac mae modd ei chosbi ar gollfarn drwy ddirwy nad yw'n uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol. Nodir y lefelau ar y raddfa safonol yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982. Caiff swyddog awdurdodedig ddyroddi hysbysiad cosb benodedig yn hytrach nag erlyn. Mae adran 29 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am hysbysiadau cosb benodedig.

**Adran 6: Y drosedd o fethu ag atal ysmygu mewn mangre ddi-fwg**

19. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr gweithleoedd di-fwg a mangreoedd cyhoeddus di-fwg gymryd camau rhesymol i atal ysmygu yn y mannau hynny. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i osod dyletswyddau cyfatebol mewn cysylltiad ag unrhyw fangreoedd di-fwg ychwanegol a cherbydau di-fwg a ddynodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 10 neu 12. Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau hyn yn cyflawni trosedd. Dim ond yn y llys ynadon y caniateir gwrando achos am y drosedd hon a chaniateir i'r drosedd gael ei chosbi ar gollfarn gan ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol. Nodir y lefelau ar y raddfa safonol yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

**Adran 7: Y drosedd o fethu ag atal y defnydd o ddyfais mewnanadlu nicotin mewn mangre ddi-DMN**

20. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr mangreoedd di-DMN gymryd camau rhesymol i atal y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin yn y mannau hynny. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i osod dyletswyddau cyfatebol mewn cysylltiad ag unrhyw gerbydau a drinnir fel pe baent yn ddi-DMN o dan adran 16 neu 17. Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau hyn yn cyflawni trosedd. Dim ond yn y llys ynadon y caniateir gwrando achos am y drosedd ac mae modd ei chosbi ar gollfarn drwy ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Nodir y lefelau ar y raddfa safonol yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

**Adran 8: Gweithleoedd**

21. Mae'r adran hon yn manylu ar ystyr "gweithleoedd" yng nghyd-destun y mangreoedd di-fwg yn y Bennod hon. Ystyr "gweithle" yw man a ddefnyddir fel man gwaith gan fwy nag un person (ni waeth a yw'r bobl hynny yn gweithio yno ar yr un pryd) neu fan gwaith i un person ond y caiff y cyhoedd gael mynediad iddo. Pan fo rhannau o'r fangre yn unig yn cael eu defnyddio fel man gwaith, dim ond y rhannau hynny sy'n ddi-fwg. Ym mhob achos, dim ond yr ardaloedd hynny sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig sy'n ddi-fwg. Mae pob gweithle yn ddi-fwg drwy'r amser, ac eithrio nad yw annedd a ddefnyddir fel gweithle ond yn ddi-fwg pan y'i defnyddir felly.

**Adran 9: Mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd**

22. Mae'r adran hon yn manylu ar ystyr "mangreoedd sydd ar agor i'r cyhoedd" yng nghyd-destun mangreoedd di-fwg yn y Bennod hon. Mae'n cynnwys pob mangre sydd ar agor i'r cyhoedd (ni waeth a yw hyn drwy wahoddiad ai peidio, neu a delir am fynediad ai peidio). Pan fo rhannau o'r fangre yn unig ar agor i'r cyhoedd, dim ond y rhannau hynny sy'n ddi-fwg. Dim ond pan fydd ar agor i'r cyhoedd y bydd unrhyw fangre o'r fath yn ddi-fwg a dim ond yn yr ardaloedd hynny sy'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig.

**Adran 10: Mangreoedd di-fwg ychwanegol**

23. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddynodi mangreoedd di-fwg ychwanegol. Nid oes angen i'r rhain fod yn gaeedig neu'n sylweddol gaeedig (h.y. cânt fod yn fannau agored fel meysydd chwarae, tir ysgol, tir ysbyty, etc.). Dim ond os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod dynodi mangreoedd di-fwg ychwanegol yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru y cânt ddynodi'r mangreoedd hynny. Mae'r pwerau hyn yn wahanol i'r rheini o dan adran 4 o Ddeddf Iechyd 2006, sy'n golygu na chaiff Gweinidogion Cymru ond dynodi man di-fwg ychwanegol yng Nghymru os oes risg sylweddol, yn eu barn hwy, y byddai personau sy'n mynd i'r fan yn agored i lawer o fwg pe bai'n parhau heb ddynodiad.

24. Caiff rheoliadau Gweinidogion Cymru hefyd ddarparu ar gyfer esemptiadau i statws di-fwg unrhyw fangreoedd di-fwg ychwanegol. Caiff y rheoliadau, er enghraifft, ganiatáu i'r person a chanddo ofal am y fangre ddi-fwg ychwanegol ddynodi ardaloedd lle y mae ysmygu i'w ganiatáu. Byddai rhaid i'r dynodiad fod yn unol ag unrhyw amodau a nodir yn y rheoliadau.

**Adran 11: Darpariaeth bellach ynghylch mangreoedd di-fwg ychwanegol: anheddau**

25. Mae'r adran hon yn cyfyngu ar bŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi anheddau yn fangreoedd di-fwg ychwanegol. Dim ond i'r graddau nad ydynt yn gaeedig nac yn sylweddol gaeedig ac i'r graddau y maent yn weithleoedd neu ar agor i'r cyhoedd y caniateir i Weinidogion Cymru ddynodi anheddau ychwanegol yn ddi-fwg, a dim ond ar yr adegau y mae person o dan 18 oed yn bresennol y caniateir iddynt gael eu gwneud yn ddi-fwg.

**Adran 12: Cerbydau di-fwg**

26. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu i gerbydau fod yn ddi-fwg. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y mathau o gerbydau sydd i fod yn ddi-fwg, yr amgylchiadau y maent yn ddi-fwg odanynt, i'r cerbyd fod yn ddi-fwg mewn ardaloedd penodol ac ar gyfer esemptiadau i unrhyw un neu ragor o'r gofynion hyn. Er enghraifft, caiff y rheoliadau ddynodi cerbydau a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus (e.e. bysiau), cerbydau sy'n weithleoedd (e.e. tacsis), a cherbydau preifat sy'n cludo personau o dan 18 oed yn rhai di fwg.

27. Dim ond pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod dynodi cerbyd yn ddi-fwg yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru y cânt ddynodi'r cerbyd hwnnw.

**Adran 13: Mangreoedd di-fwg: esemptiadau**

28. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i esemptio mangreoedd neu fannau yng Nghymru o'r gofyniad i fod yn ddi-fwg. Caiff y rheoliadau hyn esemptio mangreoedd ddiffiniedig neu ardaloedd penodol o fewn mangreoedd diffiniedig. Caiff y rheoliadau hyn hefyd ddarparu ar gyfer esemptiadau amodol, a chaiff yr amodau gynnwys bod yr ardaloedd ysmygu wedi eu dynodi felly gan y person a chanddo ofal am y fangre.

29. Mae pŵer cyfatebol i esemptio mangreoedd, at ddibenion mangreoedd di-fwg o dan Ddeddf Iechyd 2006, wedi ei gynnwys yn adran 3 o'r Ddeddf honno. Mae rheoliad 3 o Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007, a wnaed drwy arfer y pŵer yn adran 3 o Ddeddf Iechyd 2006, yn nodi'r mangreoedd y caiff rheolwyr ddynodi ystafelloedd ysmygu ynddynt (h.y. cânt ddynodi ystafelloedd fel rhai esempt o ofynion di-fwg Deddf Iechyd 2006). Ar hyn o bryd, mae esemptiadau yn gymwys i ystafelloedd penodol mewn cartrefi gofal, hosbisau i oedolion, unedau iechyd meddwl, cyfleusterau ymchwil neu brofi, gwestai, gwestai bach, tafarndai, hostelau a chlybiau aelodau.

**Adran 14: Mangreoedd di-DMN**

30. Mae'r adran hon yn esbonio bod Atodlen 1 yn darparu manylion mangreoedd di-DMN. Rhestrir mangreoedd di-DMN yn Rhannau 1 a 2 o'r Atodlen, a rhestrir esemptiadau yn Rhan 3.

31. Mae'r adran hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ychwanegu mangre at yr Atodlen neu ddileu mangre oddi arni, neu i newid y disgrifiad o fangre yn yr Atodlen. Dim ond os yw'r fangre eisoes yn ddi-fwg ac os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod ychwanegu'r fangre yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru y caniateir i fangre gael ei hychwanegu at yr Atodlen.

**Adran 15: Mangreoedd di-DMN: dynodi mangreoedd yn Rhan 2 o Atodlen 1**

32. Mae'r adran hon yn caniatáu i reolwr y fangre ddi-DMN a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 1 ddynodi ardal o fewn ei fangre lle y byddai defnyddio DMN yn cael ei ganiatáu, er enghraifft at ddibenion rhoi'r gorau i ysmygu. Rhoddir y pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau sy'n pennu'r amodau y dylid eu bodloni er mwyn i ddynodiad fod yn un dilys, sy'n ei gwneud yn ofynnol cadw cofnodion o ddynodiadau, ac ynghylch yr amgylchiadau y mae dynodiad i beidio â chael effaith odanynt.

**Adran 16: Cerbydau a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a chludiant i'r ysgol**

33. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gerbydau a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a chludiant i'r ysgol fod yn ddi-DMN. Mae hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddarparu i'r cerbydau hynny gael eu trin fel pe na baent yn ddi-DMN. Caiff y rheoliadau hefyd ddarparu bod y cerbydau i gael eu trin fel pe na baent yn ddi-DMN o dan amgylchiadau penodedig a/neu ar adegau penodedig, a/neu mewn ardaloedd penodedig a/neu os yw amodau penodol wedi eu bodloni.

**Adran 17: Cerbydau di-DMN ychwanegol**

34. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i bennu cerbydau di-DMN ychwanegol mewn rheoliadau, cyhyd â'u bod wedi eu bodloni bod gwneud hynny yn debygol o gyfrannu at hybu iechyd pobl Cymru. Rhaid i'r cerbydau o dan sylw eisoes fod yn gerbydau di-fwg. Gellid dynodi'r cerbydau hynny yn ddi-DMN o dan amgylchiadau penodedig a/neu mewn ardaloedd penodedig. Caiff y rheoliadau hefyd ddarparu ar gyfer esemptiadau o'r gofynion di-DMN. Ni chaniateir i long neu hofrenfad gael ei drin fel cerbyd di-DMN.

**Adran 18: Arwyddion: mangreoedd di-fwg**

35. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n meddiannu neu'n rheoli mangreoedd cyhoeddus di-fwg neu weithleoedd di-fwg arddangos arwyddion di-fwg yn unol â rheoliadau. Rhaid i'r arwyddion hynny fodloni'r fanyleb ar gyfer arwyddion di-fwg fel y'i nodir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru. Caiff gofynion ar gyfer arwyddion di-fwg gynnwys manylebau ynghylch dimensiynau'r arwydd, isafswm maint y testun a'r ffont, unrhyw waith graffig neu symbol y mae rhaid ei gynnwys ac unrhyw rybudd gorfodol. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod dyletswydd gyfatebol ar y rheini sy'n meddiannu neu'n rheoli mangreoedd di-fwg ychwanegol (adran 10) a cherbydau di-fwg (adran 12). Caiff rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol arddangos arwyddion mewn ardaloedd a ddynodir fel rhai nad ydynt yn ddi-fwg.

36. Mae methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn yn drosedd. Dim ond yn y llys ynadon y caniateir gwrando achos am y drosedd hon a chaniateir i'r drosedd gael ei chosbi ar gollfarn gan ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Nodir y lefelau ar y raddfa safonol yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982. Caiff swyddog awdurdodedig ddyroddi hysbysiad cosb benodedig yn hytrach nag erlyn. Mae adran 29 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am hysbysiadau cosb benodedig.

**Adran 19: Arwyddion: mangreoedd di-DMN**

37. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n meddiannu neu'n rheoli mangreoedd di-DMN arddangos arwyddion di-DMN yn unol â rheoliadau. Rhaid i'r arwyddion hynny fodloni'r fanyleb ar gyfer arwyddion di-DMN fel y'i nodir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru. Caiff gofynion ar gyfer arwyddion di-DMN gynnwys manylebau ynghylch dimensiynau'r arwydd, isafswm maint y testun a'r ffont, unrhyw waith graffig neu symbol y mae rhaid ei gynnwys ac unrhyw rybudd gorfodol. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod dyletswydd gyfatebol ar y rheini sy'n meddiannu neu'n rheoli cerbydau di-DMN (adran 16) neu gerbydau di-DMN ychwanegol (adran 17). Caiff rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol arddangos arwyddion mewn ardaloedd a ddynodir fel rhai nad ydynt yn ddi-DMN o ganlyniad i ddynodiadau a wneir o dan adran 15 neu reoliadau a wneir o dan adran 16(7) neu 17(3)(c).

38. Mae methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn yn drosedd. Dim ond yn y llys ynadon y caniateir gwrando achos am y drosedd ac mae modd ei chosbi ar gollfarn drwy ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Nodir y lefelau ar y raddfa safonol yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982. Caiff swyddog awdurdodedig ddyroddi hysbysiad cosb benodedig yn hytrach nag erlyn. Mae adran 29 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am hysbysiadau cosb benodedig.

**Adran 20: Awdurdodau gorfodi**

39. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar awdurdodau gorfodi i orfodi'r darpariaethau di-fwg a di-DMN yn y Bennod hon. Bydd yr awdurdodau gorfodi perthnasol yn cael eu dynodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, mae cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru wedi eu dynodi i orfodi darpariaethau di-fwg Deddf Iechyd 2006.

40. Caiff awdurdodau gorfodi drefnu trosglwyddo achos penodol i awdurdod gorfodi arall, er enghraifft, pan fo'r awdurdodau gorfodi hynny yn ymchwilio i'r un person am droseddau sy'n ymwneud â mangreoedd di-fwg a cherbydau di-fwg.

41. Yn y Bennod hon, swyddog awdurdodedig yw unrhyw berson a awdurdodir gan yr awdurdod gorfodi i gyflawni ei swyddogaethau gorfodi. Gall swyddog awdurdodedig fod neu beidio â bod yn swyddog i'r awdurdod gorfodi.

**Adran 21: Pwerau mynediad**

42. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i unrhyw fangre yng Nghymru, ac eithrio mangreoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd, ar unrhyw adeg resymol os yw'n ystyried ei bod yn

angenrheidiol mewn perthynas â throsedd yn y Bennod hon. Mae'r adran hon yn gymwys i gerbyd fel pe bai'n fangre.

43. Ni chaniateir i swyddogion awdurdodedig ddefnyddio grym i fynd i mewn i fangreoedd neu gerbydau wrth arfer eu pŵer o dan yr adran hon. Os gofynnir iddynt wneud hynny, rhaid i swyddogion awdurdodedig ddangos tystiolaeth o'u hawdurdod cyn mynd i mewn i unrhyw fangreoedd neu gerbydau. Mae adran 67(9) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn darparu bod rhaid i swyddogion awdurdodedig yr awdurdod gorfodi, wrth weithredu yng nghwrs eu swyddogaethau gorfodi, roi sylw i'r cod ymarfer perthnasol a wnaed o dan y Ddeddf honno. Felly, rhaid i swyddogion awdurdodedig roi sylw i God Ymarfer B Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 wrth arfer eu swyddogaethau gorfodi.

**Adran 22: Gwarant i fynd i mewn i annedd**

44. Mae'r adran hon yn darparu y caiff ynad heddwch ddyroddi gwarant i alluogi swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd. Dim ond pan fo'r ynad heddwch wedi ei fodloni bod seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd wedi ei chyflawni yn y fangre a'i bod yn angenrheidiol mynd i mewn i'r fangre at ddiben cadarnhau a yw trosedd o'r fath wedi ei chyflawni y caniateir i warant gael ei dyroddi. Os oes angen caiff swyddog awdurdodedig gael mynediad drwy rym. Mae'r adran hon yn gymwys i gerbyd fel pe bai'n fangre.

**Adran 23: Gwarant i fynd i mewn i fangreoedd eraill**

45. Mae'r adran hon yn darparu y caiff ynad heddwch ddyroddi warant i alluogi swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i unrhyw fangreoedd, gan gynnwys cerbydau, yng Nghymru. Nid yw hyn yn cynnwys mangreoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel anheddau yr ymdrinnir â hwy yn adran 22. Mae'r adran yn nodi'r amgylchiadau pan ganiateir i warant gael ei dyroddi. Os oes angen caiff swyddog awdurdodedig gael mynediad drwy rym.

**Adran 24: Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad**

46. Mae'r adran hon yn galluogi swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre o dan adran 21, 22 neu 23 i fynd ag unrhyw bersonau eraill neu unrhyw gyfarpar y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn briodol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol, os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, i'r swyddog awdurdodedig adael y fangre wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi. Mae'r darpariaethau yn yr adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Adran 25: Pwerau arolygu, etc.**

47. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i swyddogion awdurdodedig i gynnal arolygiadau o fangreoedd a cherbydau. Caiff swyddogion ofyn am eitemau, eu harolygu, cymryd samplau ohonynt a/neu fynd â'r eitem(au) a/neu'r samplau o'r fangre. Er enghraifft, efallai y bydd swyddogion yn dymuno edrych ar gofnod teledu cylch cyfyng o'r fangre, profi cynnwys nicotin dyfeisiau mewnanadlu, cadw

malurion ysmygu at ddibenion tystiolaeth neu gymryd dogfennau neu gopïau o ddogfennau. Cânt hefyd ofyn am wybodaeth a chymorth gan unrhyw berson ond nid yw'n ofynnol i'r person hwnnw ateb unrhyw gwestiynau na chyflwyno unrhyw ddogfen y byddai ganddo hawl i wrthod eu hateb neu ei chyflwyno yn ystod trafodion llys yng Nghymru a Lloegr. Caiff y swyddog awdurdodedig ddadansoddi unrhyw samplau a gymerir. Rhaid i'r swyddog awdurdodedig adael datganiad sy'n rhoi manylion unrhyw eitemau sydd wedi eu cymryd, ac sy'n nodi'r person y caniateir gofyn iddo i'r eiddo gael ei ddychwelyd. Mae'r darpariaethau yn yr adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Adran 26: Rhwystro etc. swyddogion**

48. Mae'r adran hon yn darparu bod unrhyw berson sy'n rhwystro'n fwriadol swyddog awdurdodedig rhag arfer ei swyddogaeth o dan y Bennod hon yn cyflawni trosedd. Mae unrhyw berson sy'n methu, heb achos rhesymol, â darparu i'r swyddog gyfleusterau y mae'n rhesymol i'r swyddog ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu darparu i gyflawni ei swyddogaethau yn cyflawni trosedd ond nid yw'n ofynnol i'r person hwnnw ateb unrhyw gwestiynau na chyflwyno unrhyw ddogfen y byddai ganddo hawl i wrthod eu hateb neu ei chyflwyno yn ystod trafodion llys yng Nghymru a Lloegr. Dim ond yn y llys ynadon y caniateir gwrando achos am y drosedd hon a chaniateir i'r drosedd gael ei chosbi ar gollfarn gan ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Nodir y lefelau ar y raddfa safonol yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

**Adran 27: Eiddo a gedwir: apelau**

49. Mae'r adran hon yn darparu diogelwch ychwanegol sy'n ymwneud â'r darpariaethau pwerau mynediad ac arolygu. Mae'n galluogi person a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth y mae swyddog awdurdodedig yn mynd ymaith ag ef o'r fangre o dan adran 25(1)(c) i wneud cais i lys ynadon am orchymyn sy'n gofyn i'r eiddo gael ei ryddhau. Gan ddibynnu ar ystyriaeth y llys i gais, caiff wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo a gedwir gael ei ryddhau.

**Adran 28: Eiddo a gyfeddir: digolledu**

50. Mae'r adran hon yn darparu hawl i berson y mae cymryd meddiant o'r eiddo o dan adran 25(1)(c) yn effeithio arno i wneud cais i lys ynadon i gael ei ddigolledu. Pan fo'r amgylchiadau a nodir yn is-adran (2) wedi eu bodloni (h.y. bod y person wedi dioddef colled neu ddifrod oherwydd bod yr eiddo wedi ei gymryd ac nad yw'r golled neu'r difrod oherwydd ei esgeulustod neu ei ddiffyg), caiff y llys orchymyn i'r awdurdod lleol ddigolledu'r ceisydd.

**Adran 29: Hysbysiadau cosb benodedig**

51. Mae'r adran hon yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig i bersonau y credir eu bod wedi cyflawni troseddau penodol o dan y Bennod hon. Gall cosb benodedig gael ei dyroddi am y troseddau a ganlyn:
    - ysmygu mewn mangreoedd di-fwg neu gerbydau di-fwg;
    - defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin mewn mangreoedd di-DMN neu gerbydau di-DMN; a

- methu â chydymffurfio â'r gofynion i osod arwyddion.

52. Caniateir i hysbysiadau cosb benodedig gael eu dyroddi i berson, partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth. Mae talu hysbysiad cosb benodedig yn rhyddhau'r person y credir ei fod wedi cyflawni trosedd o gael ei gollfarnu am y drosedd mewn llys. Mae'r adran hefyd yn cyflwyno Atodlen 2 ar gosbau penodedig (am sylwebaeth ar hyn, gweler Atodlen 2 isod).

**Adran 30: Dehongli'r Bennod hon**

53. Mae'r adran hon yn nodi ystyr termau allweddol a ddefnyddir yn y Bennod hon.

54. Mae'r adran hefyd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiffinio'r hyn a olygir wrth "caeedig", "sylweddol gaeedig" ac "nad yw'n gaeedig nac yn sylweddol gaeedig" at ddibenion y Bennod hon. Mae'r diffiniadau presennol o "caeedig" a "sylweddol gaeedig", at ddibenion mangreoedd di-fwg o dan Ddeddf Iechyd 2006, wedi eu nodi yn rheoliad 2 o Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007.

**PENNOD 2: MANWERTHWYR TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN**

55. Mae'r Bennod hon yn cynnwys darpariaethau a fydd yn creu cofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin. Bydd yn ofynnol i bob fanwerthwr sy'n gwerthu naill ai cynhyrchion tybaco, cynhyrchion nicotin neu'r ddau o fangre i'r cyhoedd yng Nghymru gofrestru er mwyn gwerthu cynhyrchion tybaco a/neu gynhyrchion nicotin.

**Adran 32: Dyletswydd i gynnal cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin**

56. Mae'r adran hon yn sefydlu cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin yng Nghymru. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion personau sy'n cynnal busnes sy'n gwerthu tybaco neu gynhyrchion nicotin yng Nghymru. Mae'r adran yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod cofrestru i gynnal y gofrestr. Bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn pennu corff, er enghraifft awdurdod lleol, i weithredu fel yr awdurdod cofrestru.

57. Caiff y gofrestr gynnwys gwybodaeth briodol arall.

**Adrannau 33 a 34: Cais am gofnod yn y gofrestr a Chaniatáu cais**

58. Mae adran 33 yn caniatáu i fanwerthwyr wneud cais i fod ar y gofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin. Ni chaiff yr awdurdod cofrestru wrthod cais ond os yw'r ceisydd yn ddarostyngedig i Orchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad o dan adran 12B o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Ni chaniateir i fangre gael ei hychwanegu at y gofrestr os yw ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad o dan adran 12A o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Os yw'r cais yn cynnwys mwy nag un fangre yna dim ond y mangreoedd nad ydynt yn ddarostyngedig i Orchymyn Mangre o dan Gyfyngiad a fydd yn cael eu hychwanegu at y gofrestr.

59. Mae Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yn orchymyn a wneir gan lys ynadon sy'n gwahardd mangre fanwerthu rhag gwerthu cynhyrchion tybaco am gyfnod o hyd at 12 mis. Mae hyn yn atal unrhyw werthiant o gynhyrchion tybaco, gan gynnwys papurau sigaréts, o'r tu mewn i'r mangreoedd hynny hyd nes y bydd y Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad yn peidio â chael effaith. O 1 Hydref 2015 ymlaen mae'r gwaharddiad hefyd yn gymwys i'r gwerthiant o gynhyrchion nicotin. Nid yw llys yn gallu dyroddi Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad ond os yw wedi ei fodloni bod person sydd wedi ei gollfarnu o drosedd o ran tybaco yn y fangre o dan sylw hefyd wedi cyflawni troseddau eraill o ran tybaco ar o leiaf ddau achlysur o fewn cyfnod o ddwy flynedd. Mae trosedd o ran tybaco wedi ei diffinio yn adran 12D o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1993 ac mae'n cynnwys gwerthu tybaco i berson o dan 18 oed. O 1 Hydref 2015 ymlaen mae'r diffiniad o drosedd o ran tybaco wedi ei ddiwygio i gynnwys trosedd o dan adran 92 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (gwahardd gwerthu nicotin i bersonau o dan 18 oed).

60. Mae Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad yn gwahardd person a enwir sydd wedi ei gollfarnu o drosedd o ran tybaco rhag gwerthu cynhyrchion tybaco am gyfnod o hyd at 12 mis. Fel yn achos Gorchymyn Mangre o dan Gyfyngiad, ni fydd llys ynadon yn cael gwneud Gorchymyn Gwerthu o dan Gyfyngiad ond os yw wedi ei fodloni bod y person a enwir hefyd wedi cyflawni troseddau eraill o ran tybaco ar o leiaf ddau achlysur blaenorol o fewn cyfnod o ddwy flynedd.

61. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth ychwanegol gael ei darparu wrth gyflwyno cais i gynnwys person yn y gofrestr a chânt wneud darpariaethau i ffi gael ei thalu wrth gyflwyno cais.

**Adran 35: Dyletswydd i roi hysbysiad o newidiadau penodol**

62. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar fanwerthwyr i hysbysu'r awdurdod cofrestru o fewn 28 o ddiwrnodau am newidiadau i gofnod sydd wedi ei gynnwys yn y gofrestr, er enghraifft os nad yw'r manwerthwr bellach yn gwerthu cynhyrchion tybaco o'r fangre sydd wedi ei chynnwys ar y gofrestr.

**Adran 36: Dyletswydd i ddiwygio'r gofrestr**

63. Mae'r adran hon yn amlinellu'r broses y mae rhaid i'r awdurdod cofrestru ei dilyn wrth wneud newidiadau i'r gofrestr. Mae hefyd yn nodi'r amgylchiadau pan fydd rhaid i'r awdurdod cofrestru wneud newidiadau i'r gofrestr.

64. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ganiatáu i'r awdurdod cofrestru godi ffi am ddiwygio'r gofrestr.

**Adran 37: Mynediad i'r gofrestr**

65. O dan yr adran hon rhaid i'r awdurdod cofrestru gyhoeddi rhestr o'r holl bersonau a mangreoedd hynny sydd ar y gofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin. Pan fo'r busnes yn cael ei gynnal o gerbyd, stondin, pabell neu strwythur symudol arall, rhaid i'r rhestr nodi'r awdurdodau lleol y mae'n gweithredu ynddynt.

**Adran 38: Mangreoedd a eithrir**

66. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i esemptio mangreoedd rhag gorfod cofrestru ar y gofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin er mwyn gwerthu tybaco neu gynhyrchion nicotin.

**Adran 39: Strwythurau symudol, etc.**

67. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i addasu'r cymhwysiad o'r Bennod hon mewn perthynas â mangre sy'n gerbyd, yn stondin, yn babell neu'n strwythur symudol, e.e. i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth ychwanegol gael ei darparu wrth gyflwyno cais i gynnwys cofnod yn y gofrestr mewn perthynas â mangre sy'n strwythur symudol etc.

**Adran 40: Troseddau**

68. Mae'r adran hon yn creu troseddau mewn perthynas â'r gofrestr. Mae is-adrannau (6) a (7) yn nodi'r lefelau gwahanol o gosb ar gyfer y troseddau. Nid yw'r ddirwy ar gyfer cynnal busnes tybaco neu fusnes nicotin heb ei gofrestru wedi ei chyfyngu gan unrhyw lefelau ar y raddfa safonol, felly'r llys ynadon a fydd yn dyfarnu ar swm y ddirwy. Mae modd cosbi troseddau eraill â dirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol. Mae'r lefelau ar y raddfa safonol wedi eu nodi yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982. Caniateir i hysbysiad cosb benodedig gael ei ddyroddi gan swyddog awdurdodedig yn lle dirwy. Mae adran 51 yn cynnwys rhagor o fanylion am hysbysiadau cosb benodedig.

**Adran 41: Swyddogion awdurdodedig**

69. Mae'r adran hon yn egluro bod unrhyw gyfeiriadau at swyddogion awdurdodedig yn y Bennod hon yn gyfeiriadau at swyddog sydd wedi ei awdurdodi gan awdurdod lleol, pa un a yw'n swyddog i'r awdurdod lleol ai peidio.

**Adran 42: Pwerau mynediad**

70. Mae'r adran hon yn amlinellu o dan ba amgylchiadau y caniateir i swyddog awdurdodedig fynd i mewn i fangre yng Nghymru at ddiben gorfodi darpariaethau sy'n ymwneud â'r gofrestr o fanwerthwyr.

71. Ni chaiff swyddogion awdurdodedig fynd i mewn i fangre drwy rym wrth arfer eu pŵer o dan yr adran hon. Os gofynnir iddynt wneud hynny, rhaid i swyddogion awdurdodedig ddangos tystiolaeth o'u hawdurdod cyn mynd i mewn i unrhyw fangre. Mae adran 67(9) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn darparu bod rhaid i swyddogion awdurdodedig yr awdurdod gorfodi, wrth weithredu yng nghwrs eu swyddogaethau gorfodi, roi sylw i'r cod ymarfer perthnasol sydd wedi ei wneud o dan y Ddeddf honno. Felly, rhaid i swyddogion awdurdodedig roi sylw i God Ymarfer B Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 wrth arfer eu swyddogaethau gorfodi.

**Adrannau 43 a 44: Gwarant i fynd i mewn i annedd a Gwarant i fynd i mewn i fangreoedd eraill**

72. Mae'r adrannau hyn yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff ynad heddwch ddyroddi gwarant i fynd i mewn i fangre ddomestig neu fangre busnes yng Nghymru at ddiben gorfodi darpariaethau sy'n ymwneud â'r gofrestr o fanwerthwyr. Mae'r warant yn parhau mewn grym am 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y llofnododd yr ynad heddwch y warant.

**Adran 45: Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad**

73. Mae'r adran hon yn galluogi swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre o dan adran 42, 43 neu 44 i fynd ag unrhyw bersonau eraill neu unrhyw gyfarpar y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn briodol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol, os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, i'r swyddog awdurdodedig adael y fangre wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi. Mae'r darpariaethau yn yr adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Adran 46: Pwerau arolygu, etc.**

74. Mae'r adran hon yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig gynnal arolygiadau mewn mangreoedd. Caiff swyddogion ofyn am eitemau a'u harolygu, cymryd samplau ohonynt a /neu fynd â'r eitem(au) o'r fangre. Cânt hefyd ofyn am wybodaeth a chymorth gan unrhyw berson a all eu helpu i gyflawni eu swyddogaeth. Caiff y swyddog awdurdodedig ddadansoddi unrhyw samplau a gymerir. Rhaid i'r swyddog awdurdodedig adael datganiad sy'n rhoi manylion unrhyw eitemau sydd wedi eu cymryd ac sy'n nodi'r person y caniateir gofyn iddo i'r eiddo gael ei ddychwelyd. Caiff swyddogion hefyd gymryd copïau o unrhyw ddogfennau.

**Adran 47: Rhwystro etc. swyddogion**

75. Mae'r adran hon yn datgan bod unrhyw berson sy'n rhwystro'n fwriadol swyddog awdurdodedig rhag cyflawni ei swyddogaeth o dan y Bennod hon yn cyflawni trosedd. Mae unrhyw berson sy'n methu, heb achos rhesymol, â darparu i'r swyddog gyfleusterau y mae'n rhesymol i'r swyddog ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu darparu i gyflawni ei swyddogaethau, sy'n methu, heb achos rhesymol, â rhoi gwybodaeth, neu sy'n gwneud datganiad anwir neu gamarweiniol hefyd yn cyflawni trosedd. Mae modd cosbi'r drosedd â dirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Mae'r lefelau ar y raddfa safonol wedi eu nodi yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

**Adran 48: Pŵer i wneud pryniannau prawf**

76. Caiff swyddog awdurdodedig wneud pryniannau a sicrhau y darperir gwasanaethau sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog at ddiben gorfodi mewn perthynas â'r Bennod hon.

**Adran 49: Eiddo a gedwir: apelau**

77. Mae'r adran hon yn darparu diogelwch ychwanegol sy'n ymwneud â'r darpariaethau pwerau mynediad ac arolygu. Mae'n galluogi person a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth yr eir ymaith ag ef o'r fangre gan swyddog

awdurdodedig o dan adran 46(1)(c) i wneud cais i lys ynadon am orchymyn sy'n gofyn i'r eiddo gael ei ryddhau. Gan ddibynnu ar ystyriaeth y llys i gais, caiff wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo a gedwir gael ei ryddhau.

**Adran 50: Eiddo a gyfeddir: digolledu**

78. Mae'r adran hon yn darparu hawl i berson y mae cymryd meddiant o'r eiddo o dan adran 46(1)(c) yn effeithio arno i wneud cais i lys ynadon i gael ei ddigolledu. Pan fo'r amgylchiadau a nodir yn is-adran (2) wedi eu bodloni (h.y. bod y person wedi dioddef colled neu ddifrod oherwydd bod yr eiddo wedi ei gymryd ac nad yw'r golled neu'r difrod wedi digwydd oherwydd ei esgeulustod neu ei ddiffyg), caiff y llys orchymyn i'r awdurdod lleol ddigolledu'r ceisydd.

**Adran 51: Hysbysiadau cosb benodedig**

79. Mae'r adran hon yn darparu manylion ynghylch pa bryd y caiff swyddog awdurdodedig ddyroddi hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throsedd sy'n gysylltiedig â'r gofrestr. Gall cosb benodedig gael ei dyroddi ar gyfer y troseddau a ganlyn:-
    a. Person cofrestredig yn cynnal busnes tybaco neu fusnes nicotin mewn mangre ac eithrio'r rhai a nodir yng nghofnod y person ar y gofrestr;
    b. Person cofrestredig yn cynnal busnes tybaco mewn mangre sy'n strwythur symudol, megis stondin neu gerbyd, mewn ardal awdurdod lleol ac eithrio'r rhai a nodir yng nghofnod y person ar y gofrestr; ac
    c. Person cofrestredig sy'n methu â chydymffurfio ag adran 35 (dyletswydd i roi hysbysiad o newidiadau penodol).

80. Caniateir i hysbysiadau cosb benodedig gael eu dyroddi i berson, partneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth. Drwy dalu'r hysbysiad cosb benodedig, caiff y person y credir ei fod wedi cyflawni trosedd ei ryddhau o gael ei gollfarnu am y drosedd mewn llys. Mae'r adran hefyd yn cyfeirio at Atodlen 2 ar gosbau penodedig (am sylwebaeth ar hyn, gweler Atodlen 2 isod).

**PENNOD 3: GWAHARDDIAD AR WERTHU TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN**

**Adran 53: Gorchmynion mangre o dan gyfyngiad: trosedd o ran tybaco neu nicotin**

81. Mae'r adran hon yn diwygio adran 12D o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Mae'r adran honno yn nodi nifer o droseddau sy'n drosedd dybaco neu nicotin ("tobacco or nicotine offence") at ddibenion adrannau 12A a 12B. Caniateir i orchmynion mangre o dan gyfyngiad a gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad gael eu gwneud mewn cysylltiad â phersonau sydd wedi eu collfarnu o droseddau o ran tybaco neu nicotin. Mae'r diwygiad yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn ychwanegu troseddau newydd, a chaniateir i gollfarnau mewn perthynas â'r troseddau hynny gael eu defnyddio i gefnogi cais i wneud gorchymyn mangre o dan gyfyngiad.

**PENNOD 4: RHOI TYBACO ETC. I BERSONAU O DAN 18 OED**

**Adrannau 54 a 55: Y drosedd o roi tybaco etc. i bersonau o dan 18 oed a Threfniadau mewn cysylltiad â rhoi tybaco etc.**

82. Mae adran 54 yn ei gwneud yn drosedd rhoi tybaco, papurau sigaréts neu gynhyrchion nicotin, gan wybod hynny, wrth ddanfon nwyddau, i berson sydd o dan 18 oed, oni bai ei fod yng nghwmni rhywun sy'n 18 oed neu'n hŷn.

83. Er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd, pan fo tybaco, papurau sigaréts neu gynhyrchion nicotin wedi eu cynnwys mewn pryniant o nwyddau (pa un ai ar eu pennau eu hunain neu fel rhan o bryniant mwy), gallai fod angen i'r person sy'n danfon y nwyddau, er enghraifft, dynnu unrhyw dybaco, papurau sigaréts neu gynhyrchion nicotin o'r danfoniad os nad yw wedi ei fodloni bod y person sy'n cael y nwyddau yn 18 oed neu'n hŷn.

84. Mae'r drosedd hefyd yn cynnwys unrhyw dybaco, papurau sigaréts neu gynhyrchion nicotin sydd wedi eu prynu o bell (er enghraifft, dros y ffôn neu drwy'r rhyngrwyd) i'w casglu o fangre yng Nghymru (y cyfeirir ato'n aml fel "clicio a chasglu").

85. Ni chyflawnir trosedd os yw'r tybaco, y papurau sigaréts neu'r cynhyrchion nicotin wedi eu lapio a'u selio. Er enghraifft, gallent fod wedi eu selio mewn amlen, neu wedi eu lapio mewn papur brown ac wedi eu selio â thâp. Hefyd, rhaid i'r parsel fod ag arno enw a chyfeiriad y person y dylid danfon y parsel ato.

**Adran 56: Gorfodi**

86. Mae adran 5 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried, o leiaf unwaith y flwyddyn, a yw'n briodol iddynt gynnal rhaglen o gamau gorfodi sy'n ymwneud â gwahanol droseddau sy'n gysylltiedig â thybaco. Mae rhaglen orfodi yn golygu dwyn erlyniadau, ymchwilio i gwynion a chymryd camau i ostwng troseddau.

87. Mae adran 56 yn diwygio adran 5 o Ddeddf 1991 i wneud y drosedd o roi tybaco, papurau sigaréts neu gynhyrchion nicotin i berson o dan 18 oed, gan wybod hynny, fel y manylir arno yn adran 54, yn un o'r troseddau y mae rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru ystyried rhaglen orfodi mewn cysylltiad â hwy.

**Adran 57: Dehongli'r Bennod hon**

88. Mae adran 57 yn cynnwys diffiniadau sy'n ymwneud â phennod 4. Diffinnir "cynnyrch nicotin" drwy gyfeirio at reoliadau o dan adran 92 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Mae'r adran honno yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud reoliadau sy'n gwahardd gwerthu cynhyrchion nicotin i bersonau o dan 18 oed yng Nghymru a Lloegr. Mae'r drosedd o dan adran 54 yn gymwys i gynhyrchion nicotin y gwaherddir eu gwerthu i'r rheini o dan 18 oed yn unol â'r rheoliadau hynny.

89. Caiff rheoliadau o dan adran 92 o Ddeddf 2014 wneud darpariaeth wahanol mewn cysylltiad â chynhyrchion nicotin penodol. Er enghraifft, caniateir i rai cynhyrchion nicotin gael eu gwahardd i'w gwerthu i'r rheini o dan 16 oed yn unig. Mae diffinio "cynnyrch nicotin" drwy gyfeirio at reoliadau o dan adran 92 yn golygu mai dim ond os yw'r cynnyrch nicotin o dan sylw wedi ei wahardd i'w werthu i'r

person o dan 18 oed o dan sylw y mae wedi ei roi iddo y cyflawnir y drosedd o dan adran 54.

## RHAN 3
## TRINIAETHAU ARBENNIG

### Adran 59: Beth yw triniaeth arbennig?

90. Mae'r adran hon yn rhestru'r triniaethau hynny sy'n cael eu hystyried yn driniaeth arbennig at ddibenion y Rhan hon. Y triniaethau hyn yw aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio. Mae pob un o'r triniaethau wedi eu diffinio yn adran 96(1). Caniateir i ystyr triniaeth arbennig gael ei ddiwygio drwy reoliadau, fel y'i darperir gan adran 95.

### Adran 60: Gofyniad i unigolyn sy'n rhoi triniaeth arbennig gael ei drwyddedu

91. Mae adran 60(2) yn darparu bod rhaid i berson sy'n rhoi triniaeth arbennig i rywun arall yng Nghymru yng nghwrs busnes gael ei drwyddedu oni bai ei fod yn ymarferydd sydd wedi ei esemptio. Mae'r gofyniad hefyd yn gymwys i'r personau hynny sydd wedi eu dynodi mewn cysylltiad â thriniaeth arbennig o dan adran 63. Dim ond i unigolion y mae'r gofyniad trwyddedu hwn yn gymwys.

92. Fodd bynnag, nid yw'r gofyniad yn estyn i berson sy'n cael ei drin drwy adran 62 fel pe bai wedi ei esemptio o'r gofyniad i gael ei drwyddedu mewn cysylltiad â'r driniaeth arbennig honno.

### Adran 61: Darpariaeth gyffredinol ynghylch trwyddedau triniaeth arbennig

93. Mae'r adran hon yn darparu mai awdurdod lleol sy'n dyroddi trwydded triniaeth arbennig. Mae'r drwydded triniaeth arbennig yn awdurdodi i'r driniaeth arbennig (neu'r triniaethau arbennig hynny) a bennir yn y drwydded gael ei rhoi gan ddeiliad y drwydded.

94. Fodd bynnag, nid yw trwydded triniaeth arbennig yn awdurdodi person i roi triniaeth arbennig mewn mangre neu mewn cerbyd sydd naill ai wedi ei meddiannu gan neu ei feddiannu gan ddeiliad y drwydded, neu sydd yn cael ei rheoli neu ei reoli gan ddeiliad y drwydded, neu sydd o dan ei reolaeth, oni bai bod y fangre neu gerbyd y bydd y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi ynddi neu ynddo wedi ei chymeradwyo neu ei gymeradwyo (fel sy'n ofynnol gan adran 72). Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd y bydd triniaeth arbennig yn cael ei rhoi ynddi neu ynddo gan ddeiliad y drwydded gael ei nodi ar y drwydded triniaeth arbennig. Bydd y gofyniad hwn yn sicrhau bod telerau ymarfer deiliad y drwydded yn glir i'r cleientiaid a'r swyddogion gorfodi.

95. Nid yw'r gofyniad ar ddeiliad y drwydded i roi triniaethau arbennig o fangre neu gerbyd a gymeradwywyd yn unig yn gymwys os yw'r fangre neu'r cerbyd wedi ei phennu neu ei bennu mewn rheoliadau a wneir o dan adran 71(8). Felly bydd y rheoliadau hyn yn galluogi i fangreoedd neu gerbydau penodol fod yn esempt rhag y gofynion cymeradwyo a'r gofyniad o ran eu nodi ar y drwydded.

96. Mae trwydded triniaeth arbennig yn awdurdodi y caniateir i driniaeth arbennig gael ei rhoi am y cyfnod a bennir ar y drwydded. Ni chaniateir i'r cyfnod hwn fod yn hwy na 7 niwrnod (i roi sylw i arddangosfeydd dros dro, adloniant neu ddigwyddiadau eraill), neu dair blynedd. Unwaith y bydd y drwydded wedi dod i ben, rhaid gwneud cais i'r awdurdod lleol am drwydded yn ei lle.

97. Darperir ar gyfer y weithdrefn ar gyfer gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig, gan gynnwys y broses ar gyfer amrywio, adolygu neu ddirymu trwydded, yn Atodlen 4.

98. Mae adran 61(8) yn nodi ystyr y tri therm allweddol ("cyfnod y drwydded"; "deiliad trwydded" a "trwydded dros dro") y cyfeirir atynt yn y Rhan.

**Adran 62: Unigolion sydd wedi eu hesemptio**

99. Mae'r adran hon yn darparu'r amgylchiadau pan fo unigolyn yn esempt rhag y gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig er mwyn rhoi'r driniaeth arbennig. Mae is-adran (2) yn darparu bod unigolyn sy'n aelod o broffesiwn a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (ga) o adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 yn esempt, oni bai bod rheoliadau yn pennu ei bod yn ofynnol cael trwydded mewn perthynas â thriniaeth arbennig benodol. Mae'r proffesiynau hyn yn cynnwys meddygon, deintyddion a nyrsys.

100. Mae is-adran (3) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn galluogi unigolion sy'n aelodau o broffesiwn (ond nid y proffesiynau hynny a bennir ym mharagraffau (a) i (ga) o adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002) neu sy'n weithwyr o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau, i fod yn esempt os ydynt wedi eu cofrestru gyda chofrestr gymhwysol. Mae cofrestr gymhwysol wedi ei diffinio yn is-adran (4) fel un a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal neu gofrestr wirfoddol sydd wedi ei hachredu gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

101. Mae'r pwerau hyn i wneud rheoliadau yn darparu'r disgresiwn i Weinidogion Cymru i esemptio proffesiynau cymhwysol o'r gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig.

**Adran 63: Dynodi unigolyn at ddibenion adran 60(3)**

102. Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod yr amod yn is-adran (2) wedi ei fodloni, mae'r adran hon yn galluogi'r awdurdod lleol i roi hysbysiad i unigolyn gan ei ddynodi'n berson y mae'n ofynnol iddo gael trwydded triniaeth arbennig os yw'n bwriadu rhoi triniaeth arbennig benodedig.

103. Yr amod yn is-adran (2) yw bod y person yn debygol o roi'r driniaeth benodedig i rywun arall yng Nghymru, bod rhoi'r driniaeth yn peri risg sylweddol neu y gallai beri risg sylweddol o niwed i iechyd dynol, ac er mwyn dileu neu leihau'r risg honno ei bod yn briodol dynodi'r person. Nid yw gallu'r awdurdod lleol i ddynodi'r person yn dibynnu ar roi'r driniaeth arbennig yng nghwrs busnes; felly gall person sy'n rhoi triniaeth arbennig o dan unrhyw amgylchiadau ac at unrhyw ddiben (megis o'r cartref ac nid am dâl) gael ei ddynodi.

104. Rhaid i'r hysbysiad a ddarperir i'r unigolyn bennu paham y mae'r awdurdod wedi penderfynu dynodi'r unigolyn, y dyddiad y bydd y dynodiad yn cymryd effaith (caniateir i'r dyddiad fod yn ddyddiad yr hysbysiad neu'n ddyddiad ar ôl hynny), a gwahardd yr unigolyn rhag rhoi'r driniaeth arbennig benodedig, oni bai bod hynny o dan awdurdod trwydded triniaeth arbennig. Rhaid i'r hysbysiad hefyd ddatgan y caiff y person apelio yn erbyn y dynodiad a'r cyfnod y caniateir i apêl gael ei dwyn ynddo.

105. Unwaith y bydd yr hysbysiad dynodi wedi ei gyflwyno, bydd yn parhau yn ei le hyd nes y bydd yr awdurdod lleol yn ei dynnu'n ôl, gan atal yr unigolyn dynodedig rhag rhoi'r driniaeth arbennig benodedig oni bai bod hynny o dan awdurdod trwydded triniaeth arbennig. Os yw'r awdurdod lleol yn tynnu'r dynodiad yn ôl, rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad i'r unigolyn. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys y rhesymau dros dynnu'r dynodiad yn ôl a'r dyddiad y mae tynnu'r dynodiad yn ôl i gymryd effaith. Unwaith y bydd y dynodiad wedi ei dynnu'n ôl bydd y gwaharddiad ar roi'r driniaeth arbennig yn peidio â chael effaith.

**Adran 64: Meini prawf trwyddedu**

106. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r meini prawf trwyddedu. Rhaid i'r meini prawf trwyddedu ymwneud â gwybodaeth unigolyn ("ceisydd") am—

a. rheoli heintiau a chymorth cyntaf, yng nghyd-destun y driniaeth arbennig y mae'r cais yn ymwneud â hi;
b. y dyletswyddau a osodir, o dan y Rhan hon neu yn rhinwedd y Rhan hon, ar berson sydd wedi ei awdurdodi i roi'r driniaeth arbennig y mae'r cais yn ymwneud â hi. Enghraifft o'r dyletswyddau hyn yw'r gofynion i ddilysu oedran mewn perthynas â thatŵio a rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff.

107. Caiff y meini prawf trwyddedu hefyd, ymhlith pethau eraill, ymwneud â chymhwystra unigolyn i gael trwydded, y fangre neu'r cerbyd y mae triniaeth arbennig i gael ei rhoi ynddi neu ynddo a'r cyfarpar a ddefnyddir wrth roi triniaeth arbennig (neu mewn cysylltiad â rhoi triniaeth arbennig). Bydd y meini prawf trwyddedu yn nodi'r holl ofynion y mae rhaid eu bodloni er mwyn i'r cais am drwydded triniaeth arbennig gael ei ganiatáu.

108. Caiff y meini prawf trwyddedu hefyd gynnwys pethau megis safonau cymhwysedd i roi triniaeth arbennig. Caiff hyn gynnwys yr hyfforddiant cymwys a wneir gan y ceisydd neu wybodaeth y ceisydd am y driniaeth arbennig.

109. Caiff reoliadau a wneir o dan yr adran hon hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnal arolygiad o'r fangre neu'r cerbyd a nodir yn y cais cyn i drwydded gael ei dyroddi neu ei hadnewyddu. Mae hyn er mwyn galluogi'r awdurdod lleol i ddyfarnu ar gydymffurfedd y fangre neu'r cerbyd â'r meini prawf trwyddedu. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth wahanol ar gyfer disgrifiadau gwahanol o fangreoedd a cherbydau; ar gyfer triniaethau arbennig gwahanol; ac ar gyfer yr amgylchiadau gwahanol y rhoddir triniaeth arbennig odanynt. Caiff yr amgylchiadau hyn gynnwys pa mor aml neu reolaidd y rhoddir triniaeth neu'r cyfnod ar gyfer rhoi triniaeth. Caiff y meini prawf trwyddedu hefyd

gyfeirio at y sail y bydd y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi arni a phennu'r gofynion mewn perthynas ag arfer y triniaethau.

110. Y sail y rhoddir triniaeth arbennig arni yw: ar sail beripatetig (h.y. mae'r ceisydd yn bwriadu arfer triniaeth arbennig mewn mangreoedd gwahanol, er enghraifft cartrefi cleientiaid); ar sail safle sefydlog; ar sail symudol (os rhoddir y driniaeth arbennig mewn cerbyd) neu ar sail dros dro (os rhoddir y driniaeth arbennig yng nghwrs adloniant, arddangosfa neu ddigwyddiad arall nad yw'n hwy na saith niwrnod). Bydd y rheoliadau felly yn nodi'r meini prawf y mae rhaid eu bodloni mewn perthynas ag arfer pob triniaeth arbennig, ym mhob lleoliad.

**Adran 65: Amodau trwyddedu mandadol**

111. Mae adran 65 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'r amodau trwyddedu mandadol. Bydd yr amodau trwyddedu mandadol yn rhoi manylion y gofynion y mae rhaid i ddeiliad trwydded triniaeth arbennig lynu wrthynt. Caiff yr amodau trwyddedu mandadol fod yn wahanol gan ddibynnu ar y driniaeth sy'n cael ei rhoi ac ar y sail y caiff ei rhoi arni h.y. ar sail beripatetig neu o leoliad penodol. Mae is-adrannau (2) a (3) yn nodi'r elfennau y mae rhaid i'r amodau trwyddedu mandadol ymwneud â hwy a'r gofynion y mae rhaid iddynt gael eu cynnwys yn y rheoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys y gofynion mewn perthynas â dilysu oedran unigolyn y mae'r driniaeth arbennig i gael ei rhoi iddo mewn perthynas â thatŵio a rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff; arferion rheoli heintiau; safonau hylendid; a sut y mae rhaid i ddeiliad y drwydded gynnal ei gofnodion. Rhaid i'r rheoliadau hefyd gynnwys amod sy'n atal deiliad trwydded rhag rhoi triniaeth arbennig i unigolyn sy'n feddw neu yr ymddengys ei fod yn feddw, pa un ai yn rhinwedd diodydd, cyffuriau, neu unrhyw fodd arall.

112. Caiff yr amodau trwyddedu mandadol hefyd wneud darpariaeth bellach sy'n ymwneud â'r cyflwr (gan gynnwys glanhau a chynnal a chadw'r fangre neu'r cerbyd lle y rhoddir y driniaeth arbennig neu lle y mae'r cyfarpar neu'r deunydd yn cael ei gadw neu ei baratoi) a sut y mae rhaid i ddeiliad trwydded arddangos ei drwydded.

113. Caiff yr amodau trwyddedu mandadol hefyd bennu'r ffordd y mae triniaeth arbennig i gael ei rhoi. Bydd hyn yn cynnwys y cyfarpar y dylid ei ddefnyddio, sut y dylai'r driniaeth gael ei rhoi a'r gofynion mewn perthynas â'r dillad diogelu y mae deiliad y drwydded yn eu gwisgo. Caniateir i ddarpariaethau sy'n ymwneud â gwybodaeth a ddarperir gan ddeiliad y drwydded neu i ddeiliad trwydded cyn rhoi trwydded arbennig ac ar ôl rhoi trwydded arbennig gael eu pennu yn yr amodau hefyd.

114. Caiff y rheoliadau ddarparu bod amodau trwyddedu mandadol gwahanol yn gymwys mewn perthynas â dibenion gwahanol. Er enghraifft gall fod amodau trwyddedu mandadol gwahanol ar gyfer mangreoedd a cherbydau gwahanol, ar gyfer triniaethau arbennig gwahanol ac er mwyn rhoi sylw i'r amgylchiadau gwahanol ar gyfer arfer triniaeth arbennig.

**Adran 66: Ymgynghori ynghylch meini prawf trwyddedu ac amodau trwyddedau mandadol**

115. Cyn gwneud rheoliadau o dan adrannau 64 neu 65, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried a oes personau yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rhai y mae'r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt ac ymgynghori â hwy fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn sicrhau yr ymgynghorir â'r rhai y mae'r rheoliadau yn effeithio arnynt a bod eu safbwyntiau yn cael eu hystyried.

**Adran 67: Caniatâd neu wrthodiad mandadol i gais am drwydded triniaeth arbennig**

116. Mae'r adran hon yn amlinellu'r amgylchiadau pan fo rhaid i'r awdurdod lleol ganiatáu neu wrthod cais am drwydded triniaeth arbennig. Mae'r manylion o ran sut y mae rhaid i gais am drwydded gael ei wneud wedi eu nodi yn Atodlen 4. Rhaid i'r awdurdod lleol ganiatáu'r cais am drwydded triniaeth arbennig os yw wedi ei fodloni bod yr holl feini prawf trwyddedu cymwys wedi eu bodloni mewn cysylltiad â rhoi'r driniaeth arbennig, gan awdurdodi felly i'r driniaeth gael ei rhoi ar y sail, neu yn y fangre neu'r cerbyd, a bennir yn y cais. Mae gan yr awdurdod lleol yr hyblygrwydd i roi trwydded triniaeth arbennig o dan amgylchiadau pan fo un neu ragor o fangreoedd neu gerbydau wedi eu rhestru ar y cais, ond pan na fo pob mangre/cerbyd yn bodloni'r gofynion cymeradwyo. O dan yr amgylchiadau hynny, dim ond o'r fangre/cerbyd a gymeradwywyd y bydd y person wedi ei drwyddedu i ymarfer.

117. Os nad yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod yr holl feini prawf trwyddedu cymwys wedi eu bodloni, rhaid iddo roi hysbysiad i'r ceisydd bod y cais wedi ei wrthod. Mae'r broses y mae rhaid i'r awdurdod lleol ei dilyn mewn perthynas â darparu hysbysiad a chyfathrebu â'r ceisydd (gan gynnwys y broses sydd ar gael iddo ar gyfer cyflwyno sylwadau) wedi ei darparu yn Atodlen 4. Bydd pwyllgor trwyddedu'r awdurdod (neu un o'i is-bwyllgorau) yn ystyried y cais ac yn gwneud penderfyniad. Caiff y ceisydd apelio i'r llys ynadon yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol.

**Adran 68: Disgresiwn i ganiatáu cais am drwydded triniaeth arbennig**

118. Nid yw'r gofyniad ar yr awdurdod lleol i ganiatáu'r cais yn gymwys yn achos ceisydd sydd wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol. Mae'r troseddau perthnasol wedi eu darparu o dan is-adran (3). Mae pŵer i wneud rheoliadau ar gael yn is-adran (5) i ddiwygio'r rhestr o droseddau perthnasol yn is-adran (3) drwy ychwanegu, amrywio neu ddileu disgrifiad o drosedd.

119. Os yw'r ceisydd wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol, mae'r awdurdod lleol yn cadw'r disgresiwn i roi trwydded triniaeth arbennig, os yw'n hynny'n briodol yn ei farn ef, gan roi sylw i natur y drosedd ac unrhyw driniaeth arbennig y mae'r cais yn ymwneud â hi. Fel arall, caiff yr awdurdod lleol benderfynu peidio â dyroddi trwydded, ac felly rhaid iddo ddarparu hysbysiad i'r ceisydd i'w hysbysu bod y cais wedi ei wrthod. Mae collfarn am drosedd berthnasol i'w diystyru gan yr awdurdod lleol os yw wedi ei disbyddu at ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (p.53).

**Adran 69: Caniatáu neu wrthod cais i adnewyddu**

120. Mae adrannau 67 ac 68 yn gymwys at ddibenion cais i adnewyddu trwydded triniaeth arbennig yn yr un ffordd ag fel pe bai'r cais yn gais i ddyroddi trwydded.

**Adran 70: Dirymu trwydded triniaeth arbennig**

121. Mae'r adran hon yn darparu disgresiwn i'r awdurdod lleol i ddirymu trwydded triniaeth arbennig (neu ddirymu'r drwydded i'r graddau y mae'n ymwneud â rhoi triniaeth arbennig benodol), os yw wedi ei fodloni bod yr amodau yn is-adran (2) wedi eu bodloni, neu fod y rheini yn is-adran (3) wedi eu bodloni. Y set gyntaf o amodau yw (a) bod deiliad y drwydded wedi methu â chydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol cymwys; a (b) bod peidio â chydymffurfio yn peri risg sylweddol, neu y gallai beri risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol. Mae'r ail set o amodau yn ymwneud â chollfarnau am drosedd berthnasol a hefyd yn darparu sail y caiff awdurdod lleol ddirymu trwydded triniaeth arbennig arni, er enghraifft, os nad oedd yr awdurdod lleol yn ymwybodol o'r gollfarn am drosedd berthnasol ar adeg rhoi'r drwydded, neu pan na fo'r gollfarn wedi digwydd cyn dyroddi'r drwydded.

122. Bydd y dirymiad yn cael effaith ar ôl i'r cyfnod ar gyfer dwyn apêl neu apêl bellach ddod i ben, neu ar ôl tynnu'n ôl unrhyw apêl neu apêl bellach, mewn cysylltiad â'r dirymiad. Mae manylion pellach am y weithdrefn ar gyfer dirymu wedi eu darparu yn Atodlen 4.

**Adran 71: Rhoi triniaeth arbennig yng nghwrs busnes: gofyniad i gael cymeradwyaeth**

123. Mae adran 71 yn sefydlu bod rhaid i berson sy'n cynnal busnes, y rhoddir triniaeth arbennig yng nghwrs y busnes hwnnw, gydymffurfio â dau ofyniad. Mae'r gofynion hyn hefyd yn gymwys i unigolion dynodedig gan eu bod yn cael eu trin fel pe baent yn cynnal busnes at ddibenion yr adran hon ac adran 72.

124. Y gofyniad cyntaf yw bod y driniaeth yn cael ei rhoi mewn mangre neu mewn cerbyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 72. Mae'r ail ofyniad yn sicrhau bod cydymffurfedd, unwaith y'i cymeradwyir, â'r amodau cymeradwyo mandadol (a ddarperir yn adran 72(3)). Bydd y gofynion cymeradwyo hefyd yn gymwys yn achos arddangosfa, adloniant neu ddigwyddiad arall y mae aelodau o'r cyhoedd yn gallu cael mynediad iddo a lle y rhoddir triniaeth arbennig gan berson yng nghwrs busnes. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'r person sy'n trefnu'r arddangosfa, yr adloniant neu'r digwyddiad yn gyfrifol am sicrhau bod y fangre wedi ei chymeradwyo ac y cydymffurfir â'r amodau cymeradwyo mandadol cymwys. Mae is-adran (7) yn egluro mai'r fangre ei hun, yn hytrach na'r busnesau unigol sy'n gweithredu o'r fangre honno, y mae rhaid ei chymeradwyo. Gall enghraifft fod pan fo busnesau unigol yn gweithredu wrth fyrddau mewn arddangosfa mewn gwesty; yn yr achos hwn byddai'n ofynnol i'r fangre fod wedi ei chymeradwyo yn hytrach na'r stondinau unigol.

125. Mae is-adran (8) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i esemptio mangreoedd neu gerbydau penodol o'r gofynion cymeradwyo. Caniateir i'r fangre neu'r cerbyd gael ei disgrifio neu ei ddisgrifio yn y rheoliadau drwy gyfeirio at y personau sy'n rheoli'r fangre neu'r cerbyd neu y mae'r fangre neu'r cerbyd o dan reolaeth y person hwnnw; natur y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn y fangre neu'r cerbyd; yr amgylchiadau gwahanol y rhoddir triniaeth arbennig odanynt yn y fangre neu'r cerbyd; neu nifer yr unigolion sy'n rhoi triniaethau

arbennig. Bydd hyn yn galluogi i fangreoedd neu gerbydau penodol gael eu hesemptio o'r gofynion cymeradwyo. Er enghraifft, caniateir i fangre lle y rhoddir triniaeth arbennig gan unigolyn sydd wedi ei esemptio fod yn esempt.

**Adran 72: Cymeradwyo mangreoedd a cherbydau mewn cysylltiad â rhoi triniaeth arbennig**

126. Mae'r adran hon yn galluogi awdurdod lleol i gymeradwyo mangre neu gerbyd er mwyn caniatáu i driniaeth arbennig (neu driniaethau arbennig) gael ei rhoi (neu eu rhoi) ynddi neu ynddo drwy ddyroddi tystysgrif gymeradwyo. Bydd cymeradwyaeth i fangre neu gerbyd yn para am gyfnod o naill ai uchafswm o saith niwrnod (os yw'n ymwneud â thriniaethau a roddir ar sail dros dro (h.y. yng nghwrs adloniant, arddangosfa neu ddigwyddiad arall), neu dair blynedd. Rhaid i'r cyfnod y mae'r gymeradwyaeth yn ddilys ar ei gyfer gael ei bennu ar y dystysgrif gymeradwyo. Rhaid i'r fangre fod yn ardal yr awdurdod lleol a rhaid ystyried bod y cerbyd yn cael ei yrru, ei ddefnyddio neu ei gadw yn ardal yr awdurdod lleol, er mwyn i'r awdurdod lleol ei chymeradwyo neu ei gymeradwyo.

127. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chymeradwyo mangreoedd a cherbydau. Rhaid i'r rheoliadau hyn gwmpasu'r meini prawf sydd i'w bodloni er mwyn i'r cais gael ei ganiatáu, yr amgylchiadau pan fo cais am gymeradwyaeth i gael ei ganiatáu a'r broses i geisydd apelio yn erbyn gwrthodiad i gais. Yn ogystal, bydd y rheoliadau yn pennu'r amodau (yr "amodau cymeradwyo mandadol") y mae rhaid cydymffurfio â hwy er mwyn cadw'r gymeradwyaeth. Caniateir i'r amodau hyn gynnwys y cyfleusterau sydd ar gael yn y fangre neu yn y cerbyd, megis cyfleusterau addas ar gyfer glanhau dwylo, a darparu manylion arddangos tystysgrif gymeradwyo mewn mangre neu gerbyd a gymeradwywyd. Diben arddangos tystysgrifau cymeradwyo yw gwella tryloywder mewn perthynas ag arfer triniaethau arbennig, a'r nod yw galluogi defnyddwyr i nodi bod yr awdurdod lleol wedi cymeradwyo'r fangre neu'r cerbyd at ddibenion triniaeth(au) arbennig.

128. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth ynghylch y ffordd y mae cais am gymeradwyaeth yn cael ei wneud a sut i ddelio â'r cais (gan gynnwys talu ffi), yr amgylchiadau pan na chaniateir i gais am gymeradwyaeth gael ei ganiatáu neu pan ganiateir i gymeradwyaeth gael ei rhoi yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol, a'r broses a fydd yn gymwys ar gyfer adnewyddu cymeradwyaeth. Yn ogystal, caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y mae awdurdod lleol yn dyfarnu ar swm y ffi sy'n daladwy gan geisydd wrth wneud cais am gymeradwyaeth i fangre neu gerbyd, yn ogystal â manylion canlyniadau methu â chydymffurfio â'r gofyniad i dalu ffi (megis dirymu cymeradwyaeth).

129. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaeth wahanol ar gyfer disgrifiadau gwahanol o fangreoedd a cherbydau; ar gyfer triniaethau arbennig gwahanol; ac ar gyfer yr amgylchiadau gwahanol y rhoddir triniaeth arbennig odanynt.

**Adran 73: Tystysgrifau cymeradwyo**

130. Mae'r adran hon yn darparu'r manylion ynghylch ffurf a chynnwys tystysgrifau cymeradwyo. Rhaid i'r dystysgrif gymeradwyo ddatgan y dyddiad y

cymeradwywyd y fangre neu'r cerbyd gan yr awdurdod lleol (y "dyddiad cymeradwyo"); y driniaeth arbennig y mae'r fangre neu'r cerbyd wedi ei chymeradwyo neu wedi ei gymeradwyo ar ei chyfer; a'r dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben. Os yw'r dystysgrif gymeradwyo yn ymwneud â mangre, rhaid iddi hefyd ddatgan cyfeiriad y fangre. Yn achos cerbyd, rhaid i'r dystysgrif gymeradwyo hefyd ddatgan rhif cofrestru'r cerbyd, os oes un ganddo, neu fel arall nodi'r cerbyd ym mha ffordd bynnag y mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei bod yn briodol. Mae is-adran (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach drwy reoliadau ynghylch ffurf a chynnwys tystysgrifau cymeradwyo.

**Adran 74: Terfynu cymeradwyaeth yn wirfoddol**

131. Mae'r adran hon yn darparu hyblygrwydd i berson sydd wedi cael cymeradwyaeth i fangre neu gerbyd mewn cysylltiad â thriniaeth arbennig i derfynu'r gymeradwyaeth yn wirfoddol, er enghraifft os yw ei amgylchiadau yn newid. Caiff y person roi hysbysiad i'r awdurdod lleol a ddyroddodd y gymeradwyaeth, gan bennu'r dyddiad y daw'r gymeradwyaeth i ben.

132. Rhaid i'r awdurdod lleol y rhoddir yr hysbysiad iddo gymryd camau rhesymol i ddwyn yr hysbysiad o derfynu gwirfoddol i sylw personau y mae'n meddwl bod yr hysbysiad yn debygol o effeithio arnynt, er enghraifft deiliaid trwydded a restrir fel rhai sy'n gweithredu o'r fangre neu'r cerbyd y cyfeirir ati neu ato yn yr hysbysiad. Bwriedir hyn er mwyn osgoi sefyllfa pan fo ymarferydd yn parhau i weithio mewn mangre neu gerbyd nad yw bellach wedi ei chymeradwyo neu wedi ei gymeradwyo gan y byddai, drwy wneud hynny, yn cyflawni trosedd.

133. Mae is-adran (5) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaethau pellach ynghylch yr hysbysiad, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) ynghylch yr wybodaeth sydd i gael ei chynnwys yn yr hysbysiad.

**Adran 75: Dirymu cymeradwyaeth**

134. Mae'r adran hon yn galluogi'r awdurdod lleol i ddirymu cymeradwyaeth i fangre neu gerbyd os yw wedi ei fodloni bod y ddau amod yn is-adran (2) wedi eu bodloni. Yr amodau hyn yw na chydymffurfiwyd â'r amodau cymeradwyo mandadol sy'n gymwys i'r fangre neu'r cerbyd (fel sy'n ofynnol gan adran 72(3)), a bod peidio â chydymffurfio yn peri risg sylweddol, neu y gallai beri risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol.

135. Er mwyn dirymu'r gymeradwyaeth, rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad i'r person a wnaeth gais am y gymeradwyaeth.

136. Mae Atodlen 4 yn amlinellu'r broses ar gyfer dirymu'r gymeradwyaeth. Hon yw'r un broses ag ar gyfer dirymu trwydded triniaeth arbennig (fel y'i darperir gan adran 70) ac mae'n darparu y caiff y person apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i'r llys ynadon.

137. Darperir ar gyfer y dyddiad y bydd y dirymiad yn cael effaith ohono yn is-adran (4). Mae hyn yn ystyried y prosesau apelio a'r amserlenni a nodir yn Atodlen 4.

**Adran 76: Dirymu cymeradwyaeth: gofynion hysbysu**

138. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi hysbysiad i berson mewn cysylltiad â dirymiad, neu ddirymiad arfaethedig, o gymeradwyaeth i fangre neu gerbyd. Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i ddwyn yr hysbysiad i sylw unrhyw bersonau y mae'n meddwl bod y dirymiad yn debygol o effeithio arnynt (er enghraifft, deiliaid trwydded a restrir fel rhai sy'n gweithredu o'r fangre neu'r cerbyd yr effeithir arni neu arno).

**Adran 77: Dyletswydd i gynnal cofrestr o drwyddedau triniaeth arbennig a mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd**

139. Fel rhan o ofynion yr awdurdod lleol o dan y Rhan hon, mae adran 77 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnal cofrestr sy'n cynnwys manylion yr holl drwyddedau triniaeth arbennig dilys sydd wedi eu dyroddi ganddo, yn ogystal â manylion yr holl fangreoedd a cherbydau sydd wedi eu cymeradwyo ganddo ar hyn o bryd. Rhaid i'r gofrestr hon fod ar gael i'r cyhoedd er mwyn caniatáu i aelodau'r cyhoedd weld manylion deiliaid trwyddedau a/neu fangreoedd neu gerbydau a gymeradwywyd yn eu hardal, er enghraifft ar wefan yr awdurdod lleol. Diben y ddarpariaeth hon yw gwella tryloywder mewn perthynas ag arfer triniaethau arbennig, a'i nod yw rhoi hyder i ddefnyddwyr.

140. Mae is-adrannau (2) a (3) yn pennu'r wybodaeth y mae rhaid ei darparu yn y gofrestr mewn perthynas â thrwyddedau a chymeradwyaethau.

141. Mewn cysylltiad â thrwyddedau, mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r gofrestr gofnodi gwybodaeth gan gynnwys enw deiliad y drwydded, y dyddiad y dyroddwyd y drwydded, y driniaeth arbennig a awdurdodir gan y drwydded a'r cyfnod y mae'r drwydded yn ddilys ar ei gyfer (h.y. 7 niwrnod neu 3 blynedd). Os yw'r drwydded yn ymwneud â rhoi triniaeth arbennig mewn mangre neu gerbyd penodol, rhaid i'r gofrestr gynnwys gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r gymeradwyaeth. Yn achos cymeradwyaethau i fangre a cherbyd, mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r gofrestr gynnwys gwybodaeth megis enw'r person sydd wedi cael y gymeradwyaeth, y dyddiad y dyroddwyd y gymeradwyaeth a'r cyfnod y mae'n ddilys ar ei gyfer, yn ogystal â'r driniaeth arbennig yr awdurdodir iddi gael ei rhoi yn y fangre honno neu'r cerbyd hwnnw. Bydd gwybodaeth benodol megis cyfeiriad y fangre neu rif cofrestru'r cerbyd hefyd yn ofynnol.

142. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff yr awdurdod lleol sy'n cynnal y gofrestr gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'n ystyried ei bod yn briodol.

143. Er y bydd yr is-adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal ei gofrestr ei hun, mae is-adran (6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i drefnu i gofrestr ganolog gael ei chadw gan un awdurdod lleol penodedig. Gan y caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gymryd rhan yn y gofrestr ganolog a darparu ei wybodaeth iddi, byddai hyn yn cynnwys gwybodaeth am bob trwydded a chymeradwyaeth sy'n ddilys yng Nghymru ar hyn o bryd. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyfrannu at gostau cofrestr ganolog o'r fath.

144. Nod cofrestr ganolog fyddai cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu swyddogaethau gorfodi mewn perthynas â thriniaethau arbennig, yn ogystal â darparu un ffynhonnell o wybodaeth i'r cyhoedd.

**Adran 78: Ffioedd**

145. Mae'r adran hon yn darparu i awdurdod lleol y gallu i godi ffi ar ddeiliad trwydded triniaeth arbennig neu gymeradwyaeth i fangre neu gerbyd. Caniateir i'r ffi gael ei chymhwyso naill ai'n gyfnodol neu fel arall am gyhyd ag y mae'r drwydded/cymeradwyaeth yn cael effaith. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y ffordd y mae awdurdod lleol i ddyfarnu ar swm y ffi a godir, gan roi sylw i'r costau y mae'r awdurdod yn mynd iddynt neu y disgwylir i'r awdurdod fynd iddynt mewn cysylltiad â'r Rhan hon, yn ogystal â'r ffordd y mae'r ffi yn cael ei thalu, ei had-dalu neu ei hadennill os nad yw wedi ei thalu.

**Adran 79: Hysbysiadau stop**

146. Os yw'r awdurdod lleol yn ymwybodol o unigolyn sy'n rhoi triniaeth arbennig yn ei ardal heb drwydded neu sy'n cynnal busnes o fangre neu gerbyd nad yw wedi ei chymeradwyo neu ei gymeradwyo, caiff yr awdurdod lleol ddyroddi hysbysiad stop i'r unigolyn neu'r person hwnnw. Nod yr hysbysiad stop yw gwahardd rhoi'r driniaeth arbennig a bennir yn yr hysbysiad.

147. Mae torri'r hysbysiad stop yn drosedd (fel y'i darperir gan adran 84(4)) ac mae modd ei chosbi drwy ddirwy ddiderfyn. Nodir y lefelau ar y raddfa safonol yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

148. Rhaid darparu'r hysbysiad stop i'r person o dan sylw a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol yn is-adrannau (4) a (5). Mae hyn yn cynnwys y rheswm dros yr hysbysiad stop, manylion y gwaharddiad a hysbysu'r person sy'n ddarostyngedig i'r hysbysiad am ei hawl i apelio yn ei erbyn. Bydd yr hysbysiad stop yn gymwys yn unrhyw le yng Nghymru a bydd yn effeithiol hyd nes y bydd y person yn cael y drwydded neu'r gymeradwyaeth berthnasol.

**Adran 80: Trwyddedau triniaeth arbennig: hysbysiadau camau adfer i ddeiliad trwydded**

149. Os daw awdurdod lleol yn ymwybodol bod deiliad trwydded yn torri amod trwyddedu mandadol cymwys, caiff ddyroddi hysbysiad camau adfer i ddeiliad y drwydded. Rhaid i'r hysbysiad camau adfer bennu'r materion sy'n arwain at y toriad a'r camau y mae rhaid i ddeiliad y drwydded eu cymryd i sicrhau cydymffurfedd â'r amodau trwyddedu mandadol cymwys. Os yw'r awdurdod wedi ei fodloni bod torri'r amod trwyddedu mandadol yn peri risg sylweddol, neu y gallai beri risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol, caiff yr hysbysiad hefyd wahardd rhoi triniaeth arbennig hyd nes bod y camau a bennir yn yr hysbysiad wedi eu cymryd. Caiff y gwaharddiad ymwneud â rhoi'r driniaeth arbennig mewn ardal o Gymru (er enghraifft, ardal yr awdurdod lleol) neu ym mhob rhan o Gymru.

150. Rhaid i'r hysbysiad bennu'r cyfnod cydymffurfio (a rhaid i hwn beidio â bod yn llai na 14 o ddiwrnodau) y dylai deiliad y drwydded gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad camau adfer ynddo. Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod y

camau a bennir yn yr hysbysiad wedi eu cymryd, rhaid iddo ddyroddi tystysgrif gwblhau i ddeiliad y drwydded i ryddhau'r hysbysiad, fel sy'n ofynnol gan adran 82.

151. Rhaid i'r hysbysiad camau adfer hefyd ddarparu manylion hawl deiliad y drwydded i apelio i'r llys ynadon yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol.

152. Er bod torri'r hysbysiad adfer yn drosedd (fel y'i darperir gan adran 84(5)) a bod modd ei chosbi drwy ddirwy ddiderfyn, rhaid i'r awdurdod lleol beidio â dechrau achos yn erbyn deiliad y drwydded hyd nes bod y cyfnod cydymffurfio wedi dod i ben. Os bydd deiliad y drwydded yn cymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad camau adfer o fewn y cyfnod cydymffurfio, ni fydd yr awdurdod lleol yn dwyn achos am drosedd. Bydd yr awdurdod lleol, fodd bynnag, yn gallu ymgymryd ag achos os bydd deiliad y drwydded yn parhau i arfer triniaeth arbennig, er gwaethaf y gwaharddiad a osodir ar ei arfer. Yn ychwanegol at yr hysbysiad camau adfer, caiff yr awdurdod lleol hefyd ddirymu trwydded triniaeth arbennig os yw deiliad y drwydded yn methu â chydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol cymwys.

**Adran 81: Mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd: hysbysiadau camau adfer ar gyfer mangre**

153. Yn debyg i'r darpariaethau a nodir yn adran 80, mae adran 81 yn galluogi'r awdurdod lleol i ddyroddi hysbysiad camau adfer i berson mewn cysylltiad â mangre neu gerbyd a gymeradwywyd. Caniateir i'r hysbysiad gael ei ddyroddi os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod y person yn torri amod cymeradwyo mandadol cymwys. Rhaid i'r hysbysiad camau adfer bennu'r rheswm neu'r rhesymau dros y toriad a'r camau y mae rhaid i ddeiliad y drwydded eu cymryd i sicrhau cydymffurfedd. Os yw'r awdurdod wedi ei fodloni bod torri'r amod cymeradwyo mandadol yn peri risg sylweddol, neu y gallai beri risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol, caiff yr hysbysiad hefyd wahardd rhoi'r driniaeth arbennig yn y fangre neu yn y cerbyd hyd nes bod y camau a bennir yn yr hysbysiad wedi eu cymryd. Yn yr achos hwn, rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i ddwyn yr hysbysiad i sylw unrhyw bersonau y mae'n meddwl ei bod yn debygol yr effeithir arnynt (er enghraifft, deiliaid trwydded a restrir fel rhai sy'n gweithredu o'r fangre neu'r cerbyd). Mae hyn yn sicrhau nad yw pobl sy'n rhoi triniaethau arbennig o'r fangre/cerbyd yn cyflawni trosedd yn anfwriadol drwy dorri'r gwaharddiad.

154. Rhaid i'r hysbysiad bennu'r cyfnod cydymffurfio (a rhaid i hwn beidio â bod yn llai na 14 o ddiwrnodau) y dylai deiliad y drwydded gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad camau adfer ynddo. Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod y camau a bennir yn yr hysbysiad wedi eu cymryd, rhaid iddo ddyroddi tystysgrif gwblhau i ddeiliad y drwydded i ryddhau'r hysbysiad, fel sy'n ofynnol gan adran 82.

155. Rhaid i'r hysbysiad hefyd ddarparu manylion hawl y person i apelio i'r llys ynadon yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i ddyroddi hysbysiad camau adfer. Mae torri'r hysbysiad yn drosedd (fel y darperir ar ei gyfer gan adran 84(6)) ac mae modd ei chosbi drwy ddirwy ddiderfyn. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod lleol beidio â dechrau achos hyd nes bod y cyfnod cydymffurfio wedi dod i ben.

156. Os bydd y person yn cymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad adfer o fewn y cyfnod cydymffurfio, ni fydd yr awdurdod lleol yn dwyn achos am drosedd. Bydd yr awdurdod lleol, fodd bynnag, yn gallu ymgymryd ag achos os bydd y person yn parhau i arfer y driniaeth arbennig o'r fangre neu'r cerbyd a bennir yn yr hysbysiad, er gwaethaf y gwaharddiad. Yn ychwanegol at yr hysbysiad camau adfer, caiff yr awdurdod lleol hefyd ddirymu cymeradwyaeth i fangre neu gerbyd os yw'r person yn methu â chydymffurfio ag amod cymeradwyo mandadol.

**Adran 82: Tystysgrif gwblhau**

157. Mewn perthynas â hysbysiad camau adfer a ddyroddir gan yr awdurdod lleol o dan adran 80 neu 81, os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod y camau a bennir yn yr hysbysiad wedi eu cymryd, rhaid iddo roi tystysgrif ("tystysgrif gwblhau") i'r person i ryddhau'r hysbysiad. Y rheswm dros hyn yw sicrhau bod y person a oedd yn ddarostyngedig i'r hysbysiad a'r awdurdod lleol yn ymwybodol y cydymffurfiwyd â'r hysbysiad camau adfer a bod ganddynt gofnod o'r camau sydd wedi eu cymryd. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd gymryd camau rhesymol i ddwyn y dystysgrif gwblhau neu'r hysbysiad i sylw unrhyw bersonau y mae'n meddwl ei fod yn debygol o effeithio arnynt.

158. Caiff y person sy'n ddarostyngedig i'r hysbysiad wneud cais i'r awdurdod lleol am dystysgrif gwblhau ar unrhyw adeg. Yr awdurdod lleol fydd yn pennu'r broses gwneud cais a'r wybodaeth sy'n ofynnol. Os bydd yr awdurdod lleol yn gwrthod y cais, rhaid iddo roi hysbysiad i'r person bod y cais wedi ei wrthod. Yn ychwanegol, rhaid rhoi'r rhesymau dros y gwrthodiad a'r wybodaeth am y broses apelio i'r person.

**Adran 83: Apelau**

159. Mae'r adran hon yn rhoi i berson hawl i apelio i'r llys ynadon yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol o dan adran 79, 80 neu 81. Hefyd, caniateir i apêl gael ei gwneud yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i wrthod cais am dystysgrif gwblhau (adran 82). Caiff y llys ynadon gymryd unrhyw un neu ragor o'r camau a bennir yn is-adran (5); mae'r rhain yn cynnwys cadarnhau'r hysbysiad neu'r gwrthodiad, diddymu neu amrywio'r hysbysiad, neu atgyfeirio'r achos i'r awdurdod lleol i'w waredu yn unol â'r cyfarwyddydau a roddir gan y llys.

160. Os caiff penderfyniad yr awdurdod lleol ei amrywio neu ei ddiddymu, caiff y llys ynadon orchymyn i'r awdurdod lleol ddigolledu'r person am golled a ddioddefodd o ganlyniad i'r hysbysiad. Er enghraifft, gellid digolledu'r person am golli incwm oherwydd penderfyniad yr awdurdod lleol i'w rwystro rhag gweithio.

**Adran 84: Troseddau**

161. Mae adran 84 yn nodi'r troseddau sy'n gymwys mewn perthynas â'r Rhan. Ymhlith eraill, caiff troseddau eu cyflawni os bydd person yn methu â chydymffurfio â'r amodau trwyddedu neu gymeradwyo, neu'n methu â chydymffurfio â chamau gorfodi a orchmynnir gan awdurdod lleol megis hysbysiad stop neu hysbysiad camau adfer, heb achos rhesymol. Mae trosedd hefyd ar gyfer gwneud datganiad

anwir neu gamarweiniol (gan gynnwys os yw'r person yn gwybod ei fod yn anwir neu'n gamarweiniol neu'n ddi-hid o ran a yw'n anwir neu'n gamarweiniol) wrth wneud cais am drwydded neu gymeradwyaeth i fangre neu gerbyd.

162. O'i gollfarnu, mae person sydd wedi ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored i ddirwy ddiderfyn. Nodir y lefelau ar y raddfa safonol yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

**Adran 85: Swyddogion awdurdodedig**

163. Mae'r adran hon yn egluro bod unrhyw gyfeiriad at swyddogion awdurdodedig yn adrannau 86 i 94 yn gyfeiriad at unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi i arfer swyddogaethau awdurdod lleol, pa un a yw'n swyddog i'r awdurdod lleol ai peidio.

**Adran 86: Pwerau mynediad, etc.**

164. Mae adran 86 yn galluogi swyddog awdurdodedig i fynd i mewn, ar unrhyw adeg resymol, i fangre (ac eithrio mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd) os oes gan y swyddog reswm dros gredu bod triniaeth arbennig wedi ei rhoi, yn cael ei rhoi neu'n debygol o gael ei rhoi yn y fangre, neu fod deunydd neu gyfarpar sy'n ymwneud â thriniaeth arbennig yn cael ei gadw neu ei baratoi yn y fangre. Nid yw'r pŵer i fynd i mewn i fangre yn galluogi'r swyddog awdurdodedig i fynd i mewn drwy rym. Os yw'n ofynnol, rhaid i swyddog awdurdodedig ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad cyn mynd i mewn i'r fangre. Mae'r pŵer mynediad hefyd yn gymwys i gerbyd.

165. Mae adran 67(9) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn darparu bod rhaid i swyddogion awdurdodedig yr awdurdod gorfodi, wrth weithredu yng nghwrs eu swyddogaethau gorfodi, roi sylw i'r cod ymarfer perthnasol a wnaed o dan y Ddeddf honno. Felly, rhaid i swyddogion awdurdodedig roi sylw i God Ymarfer B Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 wrth arfer eu swyddogaethau gorfodi.

**Adran 87: Gwarant i gael mynd i mewn i annedd**

166. Os yw mynediad i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd yn angenrheidiol, rhaid i'r awdurdod lleol wneud cais ysgrifenedig i ynad heddwch. Mae adran 87 yn galluogi ynad heddwch i lofnodi gwarant a thrwy hynny awdurdodi swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i'r annedd, os oes angen drwy rym. Bydd unrhyw warant o'r fath mewn grym am y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd ei llofnodi gan yr ynad heddwch. Mae'r adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Adran 88: Gwarant i fynd i mewn i fangreoedd eraill**

167. Os yw mynediad i fangre nad yw'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd yn angenrheidiol, mae adran 88 yn galluogi ynad heddwch i lofnodi gwarant gan awdurdodi unrhyw swyddog awdurdodedig i fynd i fewn i'r fangre, os oes angen drwy rym. Gellir cael y warant drwy wneud cais ysgrifenedig i ynad heddwch. Rhaid i'r fangre y mae mynediad iddi yn cael ei geisio gael ei

defnyddio at ddibenion busnes, neu ar gyfer busnes ac fel annedd. Yn achos mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd, rhaid i warant gael ei cheisio o dan adran 87. Mae'r adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd.

168. Er mwyn i warant gael ei llofnodi, rhaid i un neu ragor o'r gofynion a nodir yn is-adrannau (2) i (5) gael eu bodloni. Mae'r rhain yn cynnwys bod cais i fynd i mewn i'r fangre wedi ei wrthod neu'n debygol o gael ei wrthod; bod cais am fynediad, neu roi hysbysiad o fwriad i wneud cais am warant, yn debygol o danseilio diben y mynediad; nad yw'r fangre wedi ei meddiannu; neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro, a bod aros iddo ddychwelyd yn debygol o danseilio diben y mynediad. Unwaith y bydd y warant wedi ei llofnodi, bydd mewn grym am y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd ei llofnodi gan yr ynad heddwch.

**Adran 89: Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad**

169. Mae'r adran hon yn galluogi swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre o dan adran 86, 87 neu 88 i fynd ag unrhyw bersonau eraill neu unrhyw gyfarpar sy'n briodol ym marn y swyddog. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol, os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, i'r swyddog awdurdodedig adael y fangre wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi. Mae'r darpariaethau yn yr adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Adran 90: Pwerau arolygu, etc.**

170. Unwaith y bydd swyddog awdurdodedig wedi cael mynediad i fangre, caiff ymgymryd ag arolygiadau ac archwiliadau at ddibenion swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â thriniaethau arbennig. Caiff hyn gynnwys arolygu ac archwilio'r fangre, edrych ar gofnodion teledu cylch cyfyng a'u cadw a chael copïau o ddogfennau, megis cofnodion triniaeth a dogfennau cydsyniad. Caiff y swyddog awdurdodedig hefyd ei gwneud yn ofynnol cyflwyno unrhyw beth, neu gymryd meddiant o unrhyw beth a'i gadw am gyhyd ag y mae'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddiben arfer swyddogaethau'r awdurdod. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, rhaid i'r swyddog adael yn y fangre ddatganiad sy'n cynnwys manylion yr hyn sydd wedi ei gymryd ac sy'n nodi'r person y caniateir gofyn iddo i'r eiddo gael ei ddychwelyd**.**

171. Caiff y swyddog awdurdodedig hefyd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi gwybodaeth iddo, neu ddarparu cyfleusterau a chymorth mewn cysylltiad â materion sydd o fewn rheolaeth y person. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i berson ateb unrhyw gwestiwn na chyflwyno unrhyw ddogfen y byddai ganddo hawl i wrthod ei ateb neu ei chyflwyno yn ystod achos mewn llys yng Nghymru a Lloegr. Mae'r adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Adran 91: Rhwystro etc. swyddogion**

172. Mae'r adran hon yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'n rhwystro'n fwriadol swyddog awdurdodedig rhag arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 86 i 90.

173. Mae person yn cyflawni trosedd os yw, heb achos rhesymol, yn methu â darparu i swyddog awdurdodedig gyfleusterau sy'n ofynnol yn rhesymol o dan adran 90(1) neu os yw'n methu â chydymffurfio â gofyniad o dan adran 90(1)(b) neu (d) megis cyflwyno deunydd teledu cylch cyfyng, neu ddarparu gwybodaeth.

174. Mae person sydd wedi ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Nodir y lefelau ar y raddfa safonol yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

**Adran 92: Pŵer i wneud pryniannau prawf**

175. Caiff swyddog awdurdodedig wneud pryniannau a threfniadau, a sicrhau y darperir gwasanaethau os yw'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddiben gorfodi swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â thriniaethau arbennig. Mae hyn yn cynnwys cael cymorth person i ganfod a yw triniaeth arbennig yn cael ei rhoi mewn mangre neu gerbyd yn groes i'r gofynion yn y Rhan hon.

**Adran 93: Eiddo a gedwir: apelau**

176. Mae'r adran hon yn darparu diogelwch ychwanegol sy'n ymwneud â'r darpariaethau pwerau mynediad ac arolygu. Mae'n galluogi person a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth yr eir ymaith ag ef o'r fangre gan swyddog awdurdodedig o dan adran 90(1)(c) i wneud cais i lys ynadon am orchymyn sy'n gofyn i'r eiddo gael ei ryddhau. Gan ddibynnu ar ystyriaeth y llys i gais, caiff wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo a gedwir gael ei ryddhau.

**Adran 94: Eiddo a gyfeddir: digolledu**

177. Mae'r adran hon yn darparu hawl i berson y mae cymryd meddiant o'r eiddo o dan adran 90(1)(c) yn effeithio arno i wneud cais i lys ynadon i gael ei ddigolledu. Pan fo'r amgylchiadau a nodir yn is-adran (2) wedi eu bodloni (h.y. bod y person wedi dioddef colled neu ddifrod oherwydd bod yr eiddo wedi ei gymryd ac nad yw'r golled neu'r difrod wedi digwydd oherwydd ei esgeulustod neu ei ddiffyg), caiff y llys orchymyn i'r awdurdod lleol ddigolledu'r ceisydd.

**Adran 95: Pŵer i ychwanegu neu ddileu triniaethau arbennig**

178. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, drwy reoliadau, y rhestr o driniaethau arbennig a gynhwysir yn adran 59. Cyn i'r rheoliadau gael eu gwneud, mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried a oes personau yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rheini y mae'r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt, ac ymgynghori â hwy fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn sicrhau yr ymgynghorir â'r rheini y mae'r rheoliadau yn effeithio arnynt ac yr ystyrir eu safbwyntiau.

179. Caiff y diwygiad ychwanegu math neu ddisgrifiad o driniaeth at y rhestr neu ddileu math neu ddisgrifiad o driniaeth oddi arni, neu caiff amrywio'r disgrifiad o driniaeth sydd eisoes ar y rhestr. Caniateir i'r driniaeth gael ei disgrifio drwy gyfeirio at (ymhlith pethau eraill) yr unigolyn sy'n rhoi'r driniaeth, neu'r unigolyn sy'n cael y driniaeth. Er mwyn i'r driniaeth gael ei hychwanegu at y rhestr, rhaid i Weinidogion

Cymru ystyried bod y driniaeth yn cael ei rhoi at ddibenion esthetig neu therapiwtig ac y gall rhoi'r driniaeth achosi niwed i iechyd dynol. Diffinnir niwed i iechyd dynol yn adran 96(5) ac mae'n cynnwys niwed i iechyd corfforol neu iechyd meddwl unigolyn.

180. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi i'r rhestr o driniaethau arbennig barhau'n gyfredol gan sicrhau bod y gofynion yn y Rhan yn ystyried arferion a thueddiadau sy'n newid.

**Adran 96: Dehongli'r Rhan hon**

181. Mae'r adran hon yn nodi ystyr y termau allweddol a ddefnyddir yn y Rhan hon, gan gynnwys ystyr aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio. Mae'r diffiniad o datŵio yn cynnwys microbigmentiad. Ystyr tyllu'r corff yw gwneud trydylliad (gan gynnwys pric neu endoriad) yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith neu wrthrych arall gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn. Rhagnodir gwrthrychau mewn rheoliadau a chânt gynnwys glain er enghraifft.

182. Mae is-adran (4) yn darparu manylion ynghylch ystyr y seiliau gwahanol (h.y. sail safle penodol, sail symudol, sail beripatetig a sail dros dro) y cyfeirir atynt yn y Rhan mewn perthynas ag arfer triniaeth arbennig. Er enghraifft, caniateir i feini prawf trwyddedu gwahanol gael eu cymhwyso i'r seiliau gwahanol hyn yn rhinwedd y rheoliadau a ddarperir o dan adran 64(5).

183. Mae is-adran (5) yn darparu'r diffiniad o'r term "niwed i iechyd dynol". Mae hyn yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) niwed i iechyd corfforol unigolyn sy'n deillio o anaf corfforol neu ddod i gysylltiad â haint, a niwed i iechyd meddwl unigolyn. Rhaid i unrhyw driniaeth a ystyrir i'w hychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig (ac felly a ddelir gan y darpariaethau yn y Rhan hon) allu achosi niwed i iechyd dynol. Er enghraifft, caniateir i driniaeth gael ei hystyried i'w chynnwys ar y rhestr os yw'n gallu achosi anaf corfforol.

**RHAN 4**
**RHOI TWLL MEWN RHAN BERSONOL O'R CORFF**

**Adran 97: Y drosedd o roi neu wneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn**

184. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn drosedd i berson sydd yng Nghymru roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn yng Nghymru. Mae hefyd yn ei gwneud yn drosedd i berson yng Nghymru wneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn yng Nghymru. Mae plentyn yn y Rhan hon yn unrhyw berson sydd o dan 16 oed. Mae person sydd wedi ei gollfarnu o'r naill drosedd neu'r llall yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy ddiderfyn. Nodir y lefelau ar y raddfa safonol yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

185. Caiff person sydd wedi ei gyhuddo o'r drosedd o roi twll mewn rhan o gorff plentyn yng Nghymru gyflwyno amddiffyniad iddo gymryd camau rhesymol i gadarnhau oedran y person. Byddai rhaid iddo ddangos ei fod wedi gofyn am

dystiolaeth o oedran y person hwnnw ac y byddai'r dystiolaeth sydd wedi ei darparu wedi argyhoeddi person rhesymol. Os yw person wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon oherwydd gweithredoedd person arall, byddai'n amddiffyniad i'r person a gyhuddwyd gymryd rhagofalon rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd, er enghraifft drwy ddarparu hyfforddiant i staff neu sefydlu systemau i osgoi cyflawni'r drosedd.

**Adran 98: Beth yw rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff?**

186. Darperir y diffiniad o "tyllu'r corff" yn adran 96 a'i ystyr yw gwneud trydylliad (gan gynnwys pric neu endoriad) yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith neu wrthrych arall gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn. Rhagnodir gwrthrychau mewn rheoliadau a chânt gynnwys glain er enghraifft.

187. Rhestrir y rhannau personol o'r corff yn is-adran (2) ac maent yn cynnwys y fron (gan gynnwys y deth a'r areola), y ffolen, yr organau cenhedlu a'r tafod. Ar y rhestr mae rhannau o'r anatomi gwrywaidd a benywaidd. Cynhwysir pilenni mwcaidd yn y diffiniad gan y gall arwyneb rhannau personol o'r corff megis y fwlfa gynnwys croen neu bilenni mwcaidd.

188. Nid yw'r troseddau sydd wedi eu creu gan yr adran hon yn gymwys i dyllau mewn rhannau personol o gorff person o dan 16 oed os ydynt yn digwydd yng nghwrs triniaeth feddygol a gyflawnir gan ymarferydd meddygol cofrestredig, nyrs gofrestredig neu fydwraig gofrestredig. Diffinnir triniaeth feddygol fel unrhyw driniaeth a gyflawnir at ddibenion diagnosio, atal, monitro, trin neu liniaru clefyd, afiechyd, anabledd neu annormaledd corfforol neu feddyliol arall neu atal cenhedlu, neu mewn cysylltiad â hynny.

**Adran 99: Camau gorfodi gan awdurdodau lleol**

189. Mae'r adran hon yn galluogi awdurdod lleol i ymgymryd â chamau gorfodi mewn perthynas â'r Rhan hon. Caiff awdurdod lleol:
    - ddwyn erlyniadau mewn cysylltiad â throseddau o dan adran 97;
    - ymchwilio i gwynion mewn perthynas â throseddau honedig o dan adran 97;
    - cymryd camau eraill gyda golwg ar ostwng nifer y troseddau sy'n digwydd yn ei ardal. Caiff y rhain gynnwys camau gweithredu megis cyfathrebu ag ymarferwyr tyllu'r corff a'u haddysgu, neu ymgymryd ag arolygiadau pryniannau prawf i asesu cydymffurfedd.

190. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ystyried o leiaf unwaith bob 12 mis raglen o gamau gorfodi er mwyn atal y troseddau o ran rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff a nodir yn adran 97 rhag cael eu cyflawni. Rhaid i awdurdod lleol hefyd gynnal rhaglen o gamau gorfodi o'r fath i'r graddau y mae'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny. Caiff y camau gorfodi hyn gynnwys unrhyw un neu ragor neu bob un o'r camau y cyfeirir atynt yn is-adran (1).

191. Wrth ymgymryd â'i gamau gorfodi, rhaid i awdurdod lleol gynnal unrhyw ymgynghoriad y mae'n ystyried ei fod yn briodol â'r heddlu.

**Adran 100: Swyddogion awdurdodedig**

192. Mae'r adran yn egluro bod unrhyw gyfeiriad at swyddogion awdurdodedig yn y Rhan hon yn gyfeiriad at unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi gan awdurdod lleol, pa un a yw'n swyddog i'r awdurdod lleol ai peidio.

**Adran 101: Pwerau mynediad**

193. Mae'r adran hon yn galluogi cwnstabl neu swyddog awdurdodedig i fynd i mewn, ar unrhyw adeg resymol, i fangre (ac eithrio mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd) oherwydd bod seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 97 wedi ei chyflawni a bod mynd i mewn yn angenrheidiol er mwyn canfod a yw trosedd wedi digwydd ai peidio. Nid yw'r pŵer hwn i fynd i mewn i fangre yn galluogi'r cwnstabl neu'r swyddog awdurdodedig i fynd i mewn drwy rym. Os yw'n ofynnol, rhaid i swyddog awdurdodedig ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad gan yr awdurdod lleol cyn mynd i mewn i'r fangre. Mae'r pŵer i fynd i mewn i fangre (fel y'i darperir gan adrannau 102 i 105) yn cynnwys unrhyw fan ac unrhyw gerbyd (ac eithrio awyren a hofrenfad), stondin neu strwythur symudol.

194. Mae adran 67(9) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn darparu bod rhaid i swyddogion awdurdodedig yr awdurdod gorfodi, wrth weithredu yng nghwrs eu swyddogaethau gorfodi, roi sylw i'r cod ymarfer perthnasol a wnaed o dan y Ddeddf honno. Felly, rhaid i swyddogion awdurdodedig roi sylw i God Ymarfer B Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 wrth arfer eu swyddogaethau gorfodi.

**Adran 102: Gwarant i fynd i mewn i annedd**

195. Os yw mynediad i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd yn angenrheidiol, oherwydd bod seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 97 wedi ei chyflawni a bod mynediad yn ofynnol er mwyn canfod a yw trosedd o dan adran 97 wedi digwydd ai peidio, rhaid i gais ysgrifenedig gael ei wneud i ynad heddwch. Mae'r adran hon yn galluogi ynad heddwch i lofnodi gwarant sy'n awdurdodi cwnstabl neu swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i'r annedd, os oes angen drwy rym. Bydd unrhyw warant o'r fath mewn grym am y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd ei llofnodi gan yr ynad heddwch.

**Adran 103: Gwarant i fynd i mewn i fangreoedd eraill**

196. Os yw mynediad i fangre nad yw'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd yn ofynnol oherwydd bod seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 97 wedi ei chyflawni a bod mynediad yn angenrheidiol er mwyn canfod a yw trosedd o dan adran 97 wedi digwydd ai peidio, mae adran 103 yn galluogi ynad heddwch i lofnodi gwarant sy'n awdurdodi cwnstabl neu swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i'r fangre honno, os oes angen drwy rym. Gellir cael y warant drwy wneud cais i ynad heddwch. Rhaid i'r fangre y mae mynediad iddi yn cael ei geisio o dan yr adran hon gael ei defnyddio at ddibenion busnes, neu ar gyfer busnes ac fel annedd. Yn achos mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd, rhaid i warant gael ei cheisio o dan adran 102.

197. Er mwyn i warant gael ei llofnodi, rhaid i un neu ragor o'r gofynion a nodir yn is-adrannau (2) i (5) gael eu bodloni. Mae'r rhain yn cynnwys bod cais i fynd i mewn i'r fangre wedi ei wrthod neu'n debygol o gael ei wrthod; bod gofyn am fynd i mewn, neu roi hysbysiad o fwriad i wneud cais am warant, yn debygol o danseilio diben y mynediad; nad yw'r fangre wedi ei meddiannu; neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro, a bod aros i'r meddiannydd ddychwelyd yn debygol o danseilio diben y mynediad. Unwaith y bydd y warant wedi ei llofnodi, bydd mewn grym am y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd ei llofnodi gan yr ynad heddwch.

**Adran 104: Darpariaeth atodol ynghylch pwerau mynediad**

198. Mae'r adran hon yn galluogi swyddogion awdurdodedig neu gwnstabliaid sy'n mynd i mewn i fangre o dan adrannau 101, 102 a 103 i fynd ag unrhyw bersonau eraill neu unrhyw gyfarpar sy'n briodol i ganfod a yw trosedd o dan adran 97 wedi ei chyflawni. Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol, os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, i'r rheini sydd wedi eu hawdurdodi i fynd i mewn i'r fangre ei gadael wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth y person iddi.

**Adran 105: Pwerau arolygu, etc.**

199. Unwaith y bydd cwnstabl neu swyddog awdurdodedig wedi mynd i mewn i fangre, caiff ymgymryd ag arolygiadau ac archwiliadau er mwyn canfod a yw trosedd o dan adran 97 wedi ei chyflawni. Caiff hyn gynnwys arolygu ac archwilio'r fangre, edrych ar gofnodion teledu cylch cyfyng a chael copïau o ddogfennau, megis cofnodion triniaeth a dogfennau cydsyniad. Caiff y cwnstabl neu'r swyddog awdurdodedig hefyd gymryd meddiant o unrhyw beth yn y fangre, a'i gadw am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol, neu ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi gwybodaeth iddo, neu ddarparu cyfleusterau a chymorth sydd o fewn ei reolaeth. Caiff hyn gynnwys darparu disgrifiad o ddigwyddiadau, neu gyflenwi gwybodaeth a gedwir ar gyfrifiadur neu ar ddyfais arall. Os yw cwnstabl neu swyddog awdurdodedig yn cymryd unrhyw beth o'r fangre, rhaid iddo adael yn y fangre ddatganiad sy'n cynnwys manylion yr hyn sydd wedi ei gymryd ac sy'n nodi'r person y caniateir gofyn iddo i'r eiddo gael ei ddychwelyd. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i berson ateb unrhyw gwestiwn na chyflwyno unrhyw ddogfen y byddai ganddo hawl i wrthod ei ateb neu ei chyflwyno yn ystod achos mewn llys yng Nghymru a Lloegr.

**Adran 106: Rhwystro etc. cwnstabl neu swyddog**

200. Mae'r adran hon yn darparu bod person yn cyflawni trosedd os yw'n rhwystro'n fwriadol gwnstabl neu swyddog awdurdodedig rhag mynd i mewn i fangre pan fo'r cwnstabl neu'r swyddog awdurdodedig wedi ei awdurdodi i wneud hynny.

201. Mae person yn cyflawni trosedd os yw, heb achos rhesymol, yn methu â darparu cyfleusterau neu gydymffurfio ag unrhyw ofynion sy'n ofynnol arnynt o dan adran 105 (h.y. i ddarparu i gwnstabl neu swyddog awdurdodedig unrhyw beth yn y fangre neu gyfleusterau, cymorth neu wybodaeth (er enghraifft, mynediad i

gofnodion electronig) sy'n ofynnol yn rhesymol gan y cwnstabl neu'r swyddog awdurdodedig.

202. Mae person sydd wedi ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. Nodir y lefelau ar y raddfa safonol yn adran 37 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

**Adran 107: Pŵer i wneud pryniannau prawf**

203. Caiff swyddog awdurdodedig wneud pryniannau a threfniadau, a sicrhau y darperir gwasanaethau os yw'r swyddog yn ystyried ei bod yn angenrheidiol at ddiben gorfodi'r troseddau. Mae hyn yn cynnwys cael cymorth person ifanc i ganfod a yw person yn cynnig rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff y rheini o dan 16 oed ac yn gwneud trefniadau i wneud hynny.

**Adran 108: Eiddo a gedwir: apelau**

204. Mae'r adran hon yn darparu diogelwch ychwanegol sy'n ymwneud â'r darpariaethau pwerau mynediad ac arolygu. Mae'n galluogi person a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth yr eir ymaith ag ef o'r fangre gan swyddog awdurdodedig o dan adran 105(1)(c) i wneud cais i lys ynadon am orchymyn sy'n gofyn i'r eiddo gael ei ryddhau. Gan ddibynnu ar ystyriaeth y llys i gais, caiff wneud gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r eiddo a gedwir gael ei ryddhau.

**Adran 109: Eiddo a gyfeddir: digolledu**

205. Mae'r adran hon yn darparu hawl i berson y mae cymryd meddiant o'r eiddo o dan adran 105(1)(c) yn effeithio arno i wneud cais i lys ynadon i gael ei ddigolledu. Pan fo'r amgylchiadau a nodir yn is-adran (2) wedi eu bodloni (h.y. bod y person wedi dioddef colled neu ddifrod oherwydd bod yr eiddo wedi ei gymryd ac nad yw'r golled neu'r difrod wedi digwydd oherwydd ei esgeulustod neu ei ddiffyg), caiff y llys orchymyn i'r awdurdod lleol ddigolledu'r ceisydd.

**RHAN 5**
**GWASANAETHAU FFERYLLOL**

206. Mae'r Rhan hon yn cyflwyno newidiadau i'r ffordd y mae Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) yn penderfynu ar geisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG. Mae'r prif newidiadau yn ei gwneud yn ofynnol i BILlau lunio a chyhoeddi asesiad o anghenion fferyllol ar gyfer eu hardal ac i benderfynu ar geisiadau ar gyfer rhoi cofnod ar y rhestr fferyllol (neu geisiadau i ddiwygio cofnodion ar y rhestr fferyllol) drwy gyfeirio at ba un a yw'r cais yn diwallu'r angen am wasanaeth neu wasanaethau a nodwyd yn yr asesiad ai peidio. Mae pob BILl yn cynnal rhestr fferyllol sy'n cynnwys manylion am y personau y mae eu ceisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG wedi eu cymeradwyo ac am y lleoliadau y maent yn darparu'r gwasanaethau hynny ohonynt.

207. Mae'r "prawf rheoli mynediad" newydd hwn yn disodli'r prawf presennol yn adran 83 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ('Deddf 2006'), sy'n ei gwneud yn ofynnol i BILlau benderfynu pa un a yw'n angenrheidiol neu'n hwylus ("necessary or expedient") caniatáu'r cais o dan sylw. Mae newidiadau pellach yn awdurdodi BILlau i ddileu enw person o'i restr fferyllol am dorri telerau ac amodau gwasanaeth yn ddifrifol iawn neu'n fynych.

**Adran 110: Asesiadau o anghenion fferyllol**

208. Mae'r adran hon yn mewnosod adran 82A yn Neddf 2006 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer dyletswydd newydd ar gyfer BILlau yng Nghymru, sef llunio a chyhoeddi asesiad o'r angen am wasanaethau fferyllol.

209. Mae adran 82A(2) yn gosod dyletswydd ar bob BILl i adolygu ei asesiad a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar a'i ddiwygio pan fo'n briodol gwneud hynny.

210. Mae adran 82A(3) yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer:

- y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i BILl gyhoeddi ei asesiad cyntaf o anghenion fferyllol. Mae hyn i sicrhau bod gan pob BILl asesiad wedi ei lunio a'i gyhoeddi erbyn dyddiad penodol fel bod trosglwyddiad esmwyth o'r trefniadau cyfredol i'r trefniadau newydd ar gyfer penderfynu ceisiadau;

- yr amgylchiadau pan fo BILl i ddiwygio ei asesiad. Er enghraifft, gallai rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i BILl adolygu ei asesiad, a'i ddiwygio, os yw'n briodol, os oes newidiadau sylweddol mewn demograffeg ardal a allai gael effaith ar yr angen am wasanaethau fferyllol. Gallai rheoliadau hefyd fynnu ei bod yn ofynnol i BILl ddiwygio ei asesiad bob tair blynedd, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn parhau i gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf; ac

- y modd y mae asesiad i'w gyhoeddi. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gofyniad i roi copi o'r asesiad ar wefan y BILl yn ogystal â rhoi ar gael gopïau caled mewn fferyllfeydd y GIG a meddygfeydd fel bod personau sy'n byw yn ardal y BILl yn cael mynediad ato.

211. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch llunio, cyhoeddi, adolygu a diwygio asesiad o dan is-adran (1) gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn asesiad. Er enghraifft, gallai rheoliadau bennu bod rhaid i asesiad gynnwys gwybodaeth am ddemograffeg y bobl yn ei ardal, unrhyw dueddiadau tymhorol a phroffiliau oedran;

- y graddau y mae asesiad i ystyried anghenion tebygol yn y dyfodol a materion eraill. Er enghraifft, gallai rheoliadau bennu bod rhaid i asesiad ystyried effaith datblygiadau tai neu ddatblygiadau masnachol sydd yn yr arfaeth;

- yr ymgynghoriad i'w gynnal mewn cysylltiad ag asesiad. Er enghraifft, caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i BILlau ymgynghori â phersonau

penodedig- ynghylch materion penodedig pan fônt yn llunio eu hasesiad. Efallai, er enghraifft, y bydd yn ofynnol i BILlau ymgynghori ag awdurdodau lleol, grwpiau cleifion a chymunedol a phwyllgorau cynrychiadol proffesiynol lleol; a

- gofynion gweithdrefnol.

**Adran 111: Rhestrau fferyllol**

212. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 83 a 84 o Ddeddf 2006. Mae adran 83 o'r Ddeddf honno yn nodi'r prif pwerau i wneud rheoliadau sy'n llywodraethu darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru, tra bo adran 84 yn darparu ar gyfer hawliau i apelio o ganlyniad i benderfyniadau a wneir o dan adran 83.

213. Mae adran 83(2)(c) o Ddeddf 2006 yn nodi'r meini prawf deddfwriaethol y mae rhaid i BILl eu cymhwyso wrth ystyried ceisiadau sydd i gael eu cynnwys ar restr fferyllol BILl a cheisiadau ar gyfer newid y rhestr. Yn aml, cyfeirir at y meini prawf hyn fel y "prawf rheoli mynediad".

214. Mae is-adrannau (2) a (3) yn addasu'r "prawf rheoli mynediad" y mae'n ofynnol i BILlau ei gymhwyso wrth ystyried ceisiadau i ymuno â'u rhestr fferyllol. Mae is-adran (2) yn dileu'r gofyniad i BILlau ystyried pa un a yw'n angenrheidiol neu'n hwylus ("neccessary or expedient") caniatáu'r cais er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol ("adequate") o wasanaethau fferyllol yn y gymdogaeth.

215. Yn lle hynny, mae is-adran (3) yn mewnosod yr is-adran newydd (2B) yn Neddf 2006 sy'n darparu y caiff BILl ganiatáu cais pan fo BILl wedi ei fodloni, o ystyried ei asesiad o anghenion fferyllol a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar, ac unrhyw faterion a bennir mewn rheoliadau, y byddai caniatáu'r cais yn diwallu'r angen/anghenion a nodwyd yn ei asesiad. Golyga'r diwygio hwn y bydd y "prawf rheoli mynediad" wedi ei seilio mewn ffordd amlwg ar ddiwallu'r anghenion fferyllol lleol a asesir.

216. Mae adran 111(3) hefyd yn mewnosod is-adran newydd (2A) yn adran 83 o Ddeddf 2006, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru bennu, mewn rheoliadau, bersonau neu ddisgrifiad o bersonau nad ydynt i'w cynnwys ar restr fferyllol.

217. Mae adran 111(3) hefyd yn mewnosod is-adran newydd (2C) yn Neddf 2006, sy'n gwneud darpariaeth ychwanegol mewn achosion pan fo BILl wedi ei fodloni bod cais yn bodloni'r meini prawf ar gyfer caniatáu'r cais sy'n ofynnol o dan (2B). Yn gyntaf, mae is-adran newydd (2C) yn darparu y caiff y rheoliadau nodi'r weithdrefn y mae rhaid i'r BILl ei dilyn wrth benderfynu ar gais ar gyfer cynnwys person ar restr fferyllol. Er enghraifft, caiff y rheoliadau ddarparu bod rhaid i BILl geisio sylwadau gan gyrff sy'n cynrychioli cleifion lleol a phartïon allweddol eraill a chanddynt fuddiant. Yn ail, mae is-adran newydd (2C) yn darparu y caiff rheoliadau fynnu materion penodol y mae rhaid i BILl eu hystyried, a'r materion penodol nad yw BILl i'w hystyried, wrth benderfynu pa un a ddylid caniatáu cais o dan (2B) ai peidio.

218. Mae is-adrannau (4), (5) a (6) yn addasu'r darpariaethau sydd eisoes yn bodoli sy'n galluogi i reoliadau bennu'r amgylchiadau pan fo dau gais neu ragor yn cael eu hystyried gyda'i gilydd gan BILl.

219. Mae is-adran (4) yn mewnosod is-adran newydd (3A) yn Neddf 2006 i ddarparu y caiff y rheoliadau ragnodi'r amgylchiadau pan ganiateir i ddau gais neu ragor gael eu hystyried gyda'i gilydd gan BILl. Mae is-adran (5) yn diwygio adran 83(4) o Ddeddf 2006 i greu pŵer cyffredinol i wneud darpariaeth ar gyfer achos pan fo dau gais neu ragor, o'u cymryd yn unigol, yn bodloni'r prawf o dan is-adran newydd (2B), ond, o'u cymryd â'i gilydd, nid ydynt yn bodloni'r prawf.

220. Mae adran 111(7) yn mewnosod is-adran newydd (6)(za) yn adran 83 o Ddeddf 2006, sy'n caniatáu i'r rheoliadau ragnodi'r amgylchiadau pan gaiff BILlau wahodd ceisiadau i gynnwys personau ar eu rhestr fferyllol. Bydd hyn yn galluogi BILl, os nad yw'n cael ceisiadau i ddarparu'r gwasanaethau fferyllol sy'n ofynnol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn ei asesiad o anghenion fferyllol, i fynd ati i chwilio am geisiadau a fydd yn diwallu'r anghenion hynny.

221. Mae adran 111(7)(b) yn gwneud diwygiadau i adran 83(6)(g) o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 fel y caiff rheoliadau o dan adran 83 ddarparu seiliau dros ddileu enw person o'r rhestr fferyllol nad ydynt yn gysylltiedig ag addasrwydd person i ymarfer. Bwriedir defnyddio'r pŵer hwn i alluogi BILlau i ddileu enwau fferyllwyr o'r rhestr fferyllol am dorri amodau a thelerau gwasanaeth mewn modd difrifol a/neu'n fynych. Cyn dileu enw person o'r rhestr fferyllol am dorri amodau gwasanaeth yn fynych rhaid i BILl yn y lle cyntaf ddyroddi hysbysiad i'r person sy'n disgrifio'r toriad honedig (yr hyn a elwir yn "hysbysiad torri") ac unrhyw gamau y mae'n ofynnol i'r person eu cymryd er mwyn mynd ati i gywiro'r sefyllfa. Dim ond os yw person, ar ôl cael hysbysiad torri, yn methu â chydymffurfio â'r gofynion sydd wedi eu pennu ynddo y caniateir i enw person gael ei ddileu o'r rhestr fferyllol. Bydd apelau yn erbyn y dileu yn cael eu gwneud i Weinidogion Cymru.

222. Mae adran 111(8) yn mewnosod is-adran (10A) sy'n ei gwneud yn ofynnol i BILlau roi rhesymau dros eu penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw faterion sydd yn adran 83.

223. Mae'r is-adrannau sy'n weddill yn diwygio adran 84 o Ddeddf 2006, sy'n delio ag apelau yn erbyn penderfyniadau BILlau o dan y rheoliadau y darperir ar eu cyfer yn adran 83.

224. Mae adran 111(9) yn diwygio adran 84 o Ddeddf 2006 er mwyn sicrhau mai dim ond os ydynt ar sail addasrwydd i ymarfer y caiff apelau yn erbyn penderfyniad gan BILl ar gais i gynnwys person ar restr fferyllol eu gwrando gan Dribiwnlys Haen Gyntaf. Mae'r diwygio yn dileu'r gofyniad sy'n ymwneud ag ailbenderfynu fel nad yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi ei gyfyngu yn y ffordd y mae'n penderfynu ar apêl, er enghraifft, gallai anfon yr achos yn ôl i'r BILl. Mae apelau ar seiliau eraill i'w gwneud i Weinidogion Cymru – gan gynnwys apelau yn erbyn dileu enw person o'r rhestr am dorri telerau ac amodau gwasanaeth.

225. Mae adran 111(10) yn darparu, os yw rheoliadau a wneir o dan adran 83 o Ddeddf 2006 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer tynnu person neu gofnod mewn cysylltiad â mangreoedd oddi ar restr fferyllol, fod rhaid i'r rheoliadau ei gwneud yn

ofynnol i BILlau roi hysbysiad i'r fferyllydd o'u bwriad i dynnu'r fferyllydd oddi ar y rhestr, gyda'u rhesymau dros hynny. Bydd angen i'r rheoliadau hefyd nodi'r hawliau a fydd gan fferyllydd i gyflwyno sylwadau cyn i BILl wneud penderfyniad i'w dynnu. Bwriedir y bydd rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r BILl roi hysbysiad ysgrifenedig i fferyllydd o'i hawl i gyflwyno sylwadau ar lafar a/neu'n ysgrifenedig cyn bod BILl yn cymryd penderfyniad parhaol.

226. Mae adran 111(11) yn dileu testun sy'n ymwneud ag adran 83(6)(d) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 o'r tabl yn Atodlen 6 (diddymiadau a dirymiadau Deddf Iechyd 2009).

**RHAN 6**
**DARPARU TOILEDAU**

**Adran 112: Strategaethau toiledau lleol: llunio ac adolygu**

227. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol (h.y. pob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol) yng Nghymru i lunio a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer ei ardal. Bydd y strategaeth yn cynnwys asesiad o'r angen am doiledau, gan gynnwys cyfleusterau newid ar gyfer babanod a mannau newid ar gyfer personau anabl, yn ardal yr awdurdod lleol i'r cyhoedd eu defnyddio. Bydd y strategaeth hefyd yn nodi sut y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu diwallu'r anghenion hynny. Caiff y strategaeth hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r awdurdod lleol yn ei hystyried yn briodol.

228. Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi ei strategaeth gyntaf heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl yr etholiad awdurdod lleol cyffredin cyntaf a gynhelir yn yr ardal ar ôl cychwyn yr adran hon. Yn dilyn cyhoeddi'r strategaeth gyntaf, caiff yr awdurdod lleol adolygu ei strategaeth ar unrhyw adeg, ac ym mhob achos rhaid iddo adolygu ei strategaeth heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl pob etholiad cyffredin dilynol.

229. Pan fo awdurdod lleol yn cynnal adolygiad, rhaid iddo gyhoeddi datganiad ynghylch y camau y mae wedi eu cymryd yn unol â'r strategaeth yn ystod y cyfnod y mae'r strategaeth wedi bod yn ei lle. Os yw'r awdurdod lleol yn ystyried bod angen newid, yn ystod adolygu'r strategaeth, rhaid iddo ddiwygio a chyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig.

230. Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch y materion y dylent roi ystyriaeth iddynt wrth lunio strategaeth toiledau lleol, adolygu strategaeth toiledau lleol, ymgynghori ar strategaeth toiledau lleol neu gyhoeddi strategaeth toiledau lleol. Rhaid i'r canllawiau wneud darpariaeth ynghylch:-
a) yr asesiad o'r angen i doiledau fod ar gael i ddefnyddwyr priffyrdd eu defnyddio; ac am doiledau sydd mewn mangreoedd sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus yn rhannol neu'n gyfan gwbl; a
b) hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus o doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am y lleoliad, yr amseroedd agor a'r cyfleusterau a ddarperir.

231. Mae materion eraill y gall y canllawiau eu trin yn cynnwys ymgyngoreion a awgrymir sy'n debygol o fod â buddiant yn y ddarpariaeth o doiledau lleol a'r dulliau y gallai'r awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'r toiledau sydd ar gael yn eu hardal i'r cyhoedd eu defnyddio.

**Adran 113: Strategaethau toiledau lleol: datganiad cynnydd interim**

232. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i lunio a chyhoeddi datganiad cynnydd interim. Bydd y datganiad cynnydd interim yn nodi'r camau y mae'r awdurdod lleol wedi eu cymryd yn unol â'i strategaeth yn ystod y ddwy flynedd ers iddo gyhoeddi ei strategaeth ddiwethaf neu ers iddo adolygu ei strategaeth ddiwethaf (h.y. "cyfnod y datganiad") a bydd yn hwyluso monitro strategaethau toiledau lleol. Rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi'r datganiad cynnydd interim heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl diwrnod olaf cyfnod y datganiad. Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch y materion y dylent eu hystyried wrth lunio datganiad cynnydd interim.

**Adran 114: Strategaethau toiledau lleol: ymgynghori**

233. Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y mae rhaid i awdurdod lleol ei wneud o ran ymgynghori cyn cyhoeddi ei strategaeth toiledau lleol neu ei strategaeth ddiwygiedig. Rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori ag unrhyw berson y mae'n ystyried ei fod yn debygol o fod â buddiant yn y ddarpariaeth o doiledau sydd ar gael yn lleol i'r cyhoedd eu defnyddio. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y strategaeth ddrafft ar gael i'r ymgyngoreion.

234. Nid yw'r adran hon yn pennu'r categorïau o bersonau y dylai'r awdurdod lleol ymgynghori â hwy. Yn hytrach, mater i'r awdurdod lleol fydd penderfynu pwy, yn eu barn hwy, sy'n debygol o fod â buddiant yn y ddarpariaeth o doiledau lleol. Yn yr un modd, nid yw'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad na'r dulliau ymgynghori i'w defnyddio wedi eu pennu yn yr adran hon. Mater i'r awdurdod lleol fydd penderfynu ar yr amserlen ar gyfer ymgynghoriad effeithiol a'r dull priodol o ymgynghori y dylai ei ddefnyddio i drin a thrafod â'r rheini sydd â buddiant yn y ddarpariaeth o doiledau lleol.

**Adran 115: Pŵer awdurdod lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus**

235. Mae'r adran hon yn darparu y caiff awdurdodau lleol a chynghorau cymuned yng Nghymru ddarparu toiledau cyhoeddus mewn unrhyw ran o'u hardaloedd. Wrth ddarparu toiledau, rhaid i'r awdurdod lleol a'r cyngor cymuned roi sylw i'r strategaeth toiledau lleol berthnasol sydd yn ei lle ar gyfer ei ardal. Caiff awdurdod lleol neu gyngor cymuned godi ffi am ddefnyddio'r toiledau hynny y mae'n eu darparu.

236. Os yw'r toiledau i fod ar neu o dan dir sy'n gyfagos i briffordd neu briffordd arfaethedig, neu yng nghyffiniau priffordd o'r fath,, gan gynnwys pontydd a thwnelau, rhaid i'r awdurdod priffyrdd perthnasol gydsynio i'r toiledau gael eu darparu. Mewn rhai achosion, yr awdurdod lleol fydd yr awdurdod priffyrdd, felly ni fydd cydsyniad yn ofynnol pan fo'r awdurdod lleol yn bwriadu darparu'r toiledau.

**Adran 116: Pŵer i wneud is-ddeddfau mewn perthynas â thoiledau**

237. Mae is-adran (1) yn galluogi awdurdod lleol neu gyngor cymuned i wneud is-ddeddfau mewn perthynas ag ymddygiad personau sy'n defnyddio'r toiledau y maent yn eu darparu neu'n mynd i mewn iddynt. Os yw cyngor cymuned yn gwneud is-ddeddfau o'r fath, ni fydd unrhyw is-ddeddfau a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 2 o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 (dccc.2) mewn perthynas â thoiledau'r cyngor cymuned yn gymwys cyhyd ag y bydd is-ddeddfau perthnasol y cyngor cymuned yn parhau mewn grym.

**Adran 117: Diwygiadau canlyniadol**

238. Mae'r adran hon yn rhoi effaith i Atodlen 5, sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â darparu toiledau.

**RHAN 7**

**AMRYWIOL**

**Adran 118: Derbyniadau cosb benodedig ar gyfer troseddau sgorio hylendid bwyd**

239. Mae'r adran hon yn diwygio adran 22 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 gan alluogi awdurdod bwyd i ddefnyddio ei dderbyniadau cosb benodedig at ddiben ei swyddogaethau sy'n ymwneud â gorfodi darpariaethau'r Ddeddf honno a rheoliadau a wneir odani.

**RHAN 8**
**CYFFREDINOL**

**Adrannau 119 a 120: Troseddau gan gyrff corfforaethol etc. a Throseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig eraill**

240. Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â throseddau o dan y Bil y gellir eu cyflawni gan gorff corfforaethol; partneriaeth; neu sefydliad anghorfforedig arall. Mae'n disgrifio sut y caniateir i droseddau gael eu priodoli i uwch-swyddog o'r corff corfforaethol etc., neu unrhyw berson sy'n gweithredu yn rhinwedd y swydd honno, ynghyd â'r corff corfforaethol etc. ei hun. Mae adrannau 119(3), 119(4) a 119(5) yn disgrifio ystyr "uwch -swyddog", "cyfarwyddwr" a "partneriaeth" o dan y Rhan hon.

**Adran 121: Rhoi hysbysiadau**

241. Mae'r adran hon yn darparu manylion ynghylch sut y mae hysbysiad i gael ei roi o berson i berson arall o dan y Bil neu reoliadau a wneir odano, mewn perthynas â ffurf ofynnol yr hysbysiad a'r dull a ddefnyddir i ddanfon hysbysiad. Mae hyn yn darparu eglurder ar gyfer y person sy'n rhoi'r hysbysiad a'r person sy'n cael yr hysbysiad.

**Adran 122: Rheoliadau**

242. Mae'r adran hon yn esbonio sut y mae pwerau i wneud rheoliadau o dan y Bil hwn i gael eu harfer ac yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn wrth wneud rheoliadau o dan adrannau gwahanol o'r Bil.

**Adran 123: Dehongli**

243. Mae'r adran hon yn diffinio termau cyffredinol a ddefnyddir yn y Bil.

**Adran 124: Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.**

244. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed mewn rheoliadau. Rhaid i ddarpariaeth o'r fath fod o ganlyniad i ddarpariaethau eraill y Bil neu er mwyn rhoi effaith lawn iddynt. Er enghraifft, gall fod angen trefniadau trosiannol er mwyn caniatáu amser priodol i ymarferydd triniaeth arbennig gydymffurfio â'r gofynion newydd a gyflwynir gan y Bil.

**Adran 125: Dod i rym**

245. Mae'r adran hon yn nodi'r darpariaethau a fydd yn cael effaith ar ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol: a'r rhai a fydd yn dod i rym drwy Orchmynion Cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

**Adran 126: Enw byr**

246. Mae hyn yn darparu mai enw byr y Ddeddf fydd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2016.

**[Diwedd y Bil]**

**Atodlen 1: Mangreoedd di-DMN**

247. Mae Atodlen 1 yn nodi'r mangreoedd sydd i fod yn ddi-DMN. Mae pedair rhan i'r Atodlen.

248. Mae Rhan 1 yn rhestru'r mangreoedd hynny sydd i fod yn ddi-DMN a'r graddau y maent i fod yn ddi-DMN. Ni fydd modd dynodi ardaloedd o fewn y lleoliadau hyn yn fangreoedd nad ydynt yn ddi-DMN. Y mangreoedd sydd wedi eu cynnwys yn Rhan 1 yw:
- mangreoedd sy'n darparu gofal plant,
- ysgolion a sefydliadau addysg bellach,
- sefydliadau bwyd,
- cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus.

249. Mae Rhan 2 o'r Atodlen yn rhestru'r mangreoedd hynny sy'n ddi-DMN ond y caiff y rheolwyr ddynodi ardal ynddynt lle y caniateir i'r defnydd o DMN gael ei ganiatáu. Mae ysbytai wedi eu cynnwys yn y Rhan hon o'r Atodlen. Mae

mangreoedd ysbytai i fod yn fangreoedd ddi-DMN pan fônt ar agor i'r cyhoedd a/neu'n darparu gofal i gleifion; ond caiff y person a chanddo ofal am y mangreoedd hynny ddynodi ardaloedd yn y mangreoedd lle y caniateir y defnydd o DMN.

250. Mae Rhan 3 o'r Atodlen yn rhestru'r mangreoedd hynny sydd ag esemptiad cyffredinol i'r gofyniad i fod yn ddi-DMN. Mae hosbisau i oedolion, cartrefi gofal i oedolion ac anheddau ac eithrio'r rheini a ddefnyddir ar gyfer gofal plant wedi eu cynnwys. Mae hyn yn golygu bod DMNau yn gallu cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r mangreoedd hyn.

251. Mae Rhan 4 o'r Atodlen yn rhoi mwy o eglurder drwy ddiffinio termau sy'n cael eu defnyddio yn yr Atodlen nad ydynt yn cael eu diffinio mewn man arall yn y Bil.

**Atodlen 2: Cosbau penodedig**

252. Mae Atodlen 2 yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chosbau penodedig a hysbysiadau cosb benodedig. Mae'r rhain yn ymwneud â chynnwys a ffurflen yr hysbysiad cosb, pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu'r gosb a'r symiau gostyngol a'r cyfnodau ar gyfer talu'r gosb a'r symiau gostyngol. Mae paragraffau 15 ac 16 yn galluogi person i ofyn am gael ei roi ar dreial mewn llys yn lle talu'r gosb benodedig. Mae paragraff 17 yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig yr awdurdod dyroddi dynnu hysbysiad cosb benodedig yn ôl.

**Atodlen 3: Ysmygu a dyfeisiau mewnanadlu nicotin: diwygiadau canlyniadol**

253. Mae Atodlen 3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol mewn perthynas ag ysmygu a'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin. Mae'r diwygiadau hyn yn:

- Datgymhwyso Pennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Iechyd 2006 o ran Cymru oherwydd bod Pennod 1 o Ran 2 o Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ailddatgan darpariaethau Pennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Iechyd 2006 o ran Cymru. Mae Pennod 1 o Ddeddf Iechyd 2006 yn parhau mewn grym o ran Lloegr; a

- Diwygio adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, sy'n addasu adran 9 o Ddeddf Iechyd Meddwl 2006 ac Atodlen 1 iddi. Mae'r diwygio yn mewnosod paragraff newydd yn is-adran (5)(c) o adran 91 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Mae'r diwygio yn cynnal pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu ffurf hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â throsedd o dan yr adran honno (mewn perthynas â'r drosedd o brynu neu geisio prynu tybaco i berson o dan 18 oed).

**Atodlen 4: Darpariaeth bellach mewn cysylltiad â thrwyddedau triniaeth arbennig**

254. Mae paragraffau 1-4 yn nodi'r broses y mae rhaid i geisydd am drwydded triniaeth arbennig ei dilyn, gan gynnwys yr wybodaeth y mae rhaid iddo ei darparu i'r awdurdod lleol er mwyn cael trwydded. Yn y cais, rhaid i'r ceisydd bennu'r driniaeth/triniaethau arbennig y mae'r cais yn ymwneud â hi/hwy a darparu manylion ar y sail y mae'r driniaeth i gael ei rhoi arni (h.y. ar sail beripatetig (h.y. mae'r ceisydd yn bwriadu arfer triniaeth arbennig mewn mangreoedd gwahanol, er

enghraifft yng nghartrefi cleientiaid), ar sail safle penodol, ar sail symudol, ar sail dros dro, neu fel arall). Os bwriedir i'r driniaeth gael ei rhoi mewn mangre neu gerbyd penodol, rhaid darparu manylion y fangre honno neu'r cerbyd hwnnw yn y cais. Rhaid i'r cais hefyd gynnwys manylion am y ceisydd (gan gynnwys ei enw llawn, dyddiad geni a manylion cyswllt) ynghyd â'r ffi sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol. Wrth bennu'r ffi hon, rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i'r costau y mae'n mynd iddynt neu y disgwylir iddo fynd iddynt mewn cysylltiad â delio â cheisiadau. Wrth ystyried y cais, caiff yr awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ddarparu wybodaeth bellach, gan gynnwys yr wybodaeth y mae ei hangen i wirio hunaniaeth y ceisydd. Mae paragraff 4(4) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach ynghylch y ffordd y mae awdurdod lleol i ddyfarnu ar swm y ffi sydd i ddod gyda chais a wneir iddo a'r weithdrefn ar gyfer delio â cheisiadau. Caiff hyn gynnwys y ffordd y mae cais yn cael ei wneud, yr wybodaeth sydd i gael ei darparu a'r ffordd y mae'r awdurdod i ddelio â chais.

255. Mae paragraff 5 yn pennu cynnwys trwydded triniaeth arbennig. Rhaid i'r drwydded, ymhlith pethau eraill, ddatgan enw deiliad y drwydded, enwi'r awdurdod sy'n dyroddi'r drwydded a datgan y driniaeth arbennig sydd wedi ei hawdurdodi gan y drwydded. Rhaid hefyd gynnwys ar y drwydded y cyfnod y mae'r drwydded yn ddilys ar ei gyfer; yn achos trwydded dros dro sy'n ddilys am gyfnod nad yw'n hwy na saith niwrnod, rhaid pennu hyn ar y drwydded hefyd. Os yw'n ofynnol gan adran 61, rhaid i'r drwydded hefyd gynnwys manylion y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd y mae deiliad y drwydded wedi ei awdurdodi i roi triniaethau arbennig ynddi neu ynddo. Mae paragraff 5(3) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach ynghylch ffurf a chynnwys trwyddedau triniaethau arbennig. Caiff y rheoliadau hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, wybodaeth am yr amodau trwyddedu mandadol cymwys y mae rhaid i ddeiliad y drwydded triniaeth arbennig lynu wrthynt. Caiff yr amodau trwyddedu mandadol hyn ymwneud â chyflwr (h.y. glanweithdra, cynnal a chadw a safonau hylendid) y fangre neu'r cerbyd lle y rhoddir y driniaeth arbennig neu lle y mae'r cyfarpar neu'r deunydd yn cael ei gadw neu ei baratoi.

256. Mae paragraffau 6 a 7 yn galluogi deiliad y drwydded i wneud cais i'r awdurdod lleol am gopi o'i drwydded os yw ei drwydded yn mynd ar goll, yn cael ei dwyn neu ei difrodi. Gan y caniateir i'r amodau trwyddedu mandadol ei gwneud yn ofynnol i'r drwydded gael ei harddangos, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i ddeiliad y drwydded gael copi o'r drwydded er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad. Rhaid i'r cais gael ei gyflwyno ym mha ffordd bynnag sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol a rhaid i ba ffi bynnag a osodir gan yr awdurdod ddod gyda'r cais. Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod y drwydded ar goll, wedi ei dwyn neu wedi ei difrodi, rhaid i'r awdurdod lleol ganiatáu'r cais a dyroddi copi o'r drwydded i'r ceisydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Yn achos trwydded sydd ar goll neu sydd wedi ei dwyn, rhaid i'r awdurdod lleol hefyd fod wedi ei fodloni bod yr heddlu wedi ei hysbysu bod y drwydded ar goll neu wedi ei dwyn. Rhaid i'r copi o'r drwydded gael ei ardystio gan yr awdurdod lleol fel copi gwir a chaiff ei drin fel y drwydded wreiddiol.

257. Mae paragraff 8(1) yn darparu manylion am yr amgylchiadau pan ddaw'r drwydded i ben. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys diwedd cyfnod y drwydded, terfynu trwydded yn wirfoddol neu'r dyddiad y mae dirymu'r drwydded gan yr

awdurdod lleol (fel y'i darperir gan adran 70) yn cymryd effaith. Bydd trwydded hefyd yn dod i ben unwaith y bydd tynnu dynodiad unigolyn yn ôl o dan adran 63 yn cymryd effaith.

258. Mae paragraff 9 yn galluogi deiliad trwydded i wneud cais i awdurdod lleol i adnewyddu ei drwydded triniaeth arbennig. Rhaid cyflwyno'r cais i'r awdurdod lleol a roddodd y drwydded wreiddiol a rhaid iddo gael ei wneud ym mha ffordd bynnag sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol a rhaid iddo gynnwys pa wybodaeth bynnag sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol. Rhaid i'r cais hefyd gynnwys y ffi a osodir gan yr awdurdod lleol.

259. Mae paragraff 10 yn darparu nad yw trwydded yn dod i ben yn ystod y cyfnod y mae'r awdurdod lleol yn ystyried y cais i adnewyddu trwydded, yn ystod y cyfnod apelio sydd ar gael mewn cysylltiad â chais am adnewyddu neu tra bo apêl yn yr arfaeth mewn cysylltiad â chais i adnewyddu trwydded.

260. Mae paragraffau 11, 12 a 13 yn galluogi trwydded triniaeth arbennig i gael ei hamrywio ar gais deiliad y drwydded. Er enghraifft, caniateir gwneud cais i amrywio trwydded oherwydd bod deiliad y drwydded yn dymuno ychwanegu disgrifiad o driniaeth arbennig at ei drwydded, diwygio disgrifiad o driniaeth arbennig yn ei drwydded neu ddileu disgrifiad o driniaeth arbennig o'i drwydded. Efallai y bydd angen yr amrywiad hefyd er mwyn ychwanegu cyfeiriad at fangre neu gerbyd a gymeradwywyd lle y mae deiliad y drwydded yn bwriadu rhoi triniaethau arbennig neu er mwyn dileu mangre neu gerbyd a nodwyd o'r blaen ar y drwydded. Os yw deiliad y drwydded yn gwneud cais i ychwanegu triniaeth arbennig at ei drwydded, rhaid i ddeiliad y drwydded bennu'r driniaeth arbennig y mae'n dymuno ychwanegu at ei drwydded a bodloni'r meini prawf (fel y'u darperir gan adran 64) mewn perthynas â'r driniaeth honno. Fodd bynnag, ni chaniateir i'r amrywiad drosglwyddo'r drwydded o ddeiliad y drwydded i unigolyn arall nac ychwaith estyn cyfnod y drwydded. Rhaid i'r cais gael ei wneud ym mha ffordd bynnag sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol a rhaid i ba ffi bynnag a osodir gan yr awdurdod lleol ddod gyda'r cais.

261. Os yw deiliad trwydded yn bwriadu terfynu ei drwydded, mae paragraff 14 yn galluogi deiliad y drwydded i roi hysbysiad o derfynu'r drwydded yn wirfoddol i'r awdurdod lleol. Wrth roi hysbysiad, rhaid i ddeiliad y drwydded ddatgan y dyddiad y mae'r drwydded i beidio â chael effaith. Yn ddarostyngedig i'r drwydded yn dod i ben yn gynharach o dan baragraff 8(1)(a), (b), neu (d), bydd y drwydded yn peidio â chael effaith ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad.

262. Mae paragraff 15 yn darparu pan fo awdurdod lleol yn bwriadu rhoi hysbysiad i geisydd, i ddeiliad trwydded neu i unigolyn (y cyfeirir ato fel "A"), fod gan A yr hawl i gyflwyno sylwadau i bwyllgor trwyddedu'r awdurdod lleol. Caiff yr hysbysiad ymwneud:

- â'r gwrthodiad i gais am drwydded o dan adrannau 67(2) neu 68(2)(b) (gan gynnwys o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hynny sy'n gymwys mewn cysylltiad â'r cais yn rhinwedd adran 69 neu baragraff 13);
- â'r bwriad i ddirymu trwydded (adran 70); neu
- â dynodiad unigolyn o dan adran 63(1), yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael trwydded.

263. Cyn i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad, rhaid iddo ddarparu hysbysiad rhybuddio i A sy'n nodi'r hyn y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ei wneud a phaham. Rhaid i'r hysbysiad rhybuddio ddatgan y caiff A, o fewn y cyfnod a bennir (na chaniateir iddo fod yn llai na 14 o ddiwrnodau), naill ai gyflwyno sylwadau neu hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn dymuno cyflwyno sylwadau ynghylch y cynnig. Os yw A yn dymuno gwneud hynny, rhaid i'r awdurdod lleol alluogi A i gyflwyno sylwadau (gan gynnwys sylwadau ar lafar os yw A neu ei gynrychiolydd yn dymuno gwneud hynny) a rhaid iddo ystyried y sylwadau hynny. Os nad yw A yn dymuno cyflwyno sylwadau, neu os nad yw'n dymuno hysbysu'r awdurdod lleol ei fod yn dymuno cyflwyno sylwadau o fewn y cyfnod a bennir, caiff yr awdurdod lleol gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio.

264. Ar ôl cydymffurfio â'r gofynion ym mharagraff 15, mae paragraff 16 yn galluogi'r awdurdod lleol i gymryd y camau a nodir yn yr hysbysiad rhybuddio a dyroddi hysbysiad o benderfyniad. Rhaid i'r hysbysiad o benderfyniad nodi rhesymau'r awdurdod dros roi'r hysbysiad. Yn yr un modd, os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu peidio â chymryd y camau a nodir yn yr hysbysiad rhybuddio, mae'n ofynnol iddo hefyd hysbysu'r ceisydd neu ddeiliad y drwydded am ei benderfyniad. Mae hyn yn sicrhau bod ceisydd neu ddeiliad trwydded wedi ei hysbysu am y canlyniad ym mhob sefyllfa. Rhaid i'r hysbysiad o benderfyniad hefyd ddatgan y caiff A apelio yn erbyn y penderfyniad a darparu manylion am y cyfnod y caniateir i apêl gael ei dwyn ynddo. Yn achos dirymiad o dan adran 70, rhaid i'r hysbysiad o benderfyniad hefyd ddatgan y dyddiad (yn absenoldeb apêl) y bydd y dirymiad yn cymryd effaith.

265. Mae paragraff 18 yn darparu y caiff ceisydd, deiliad trwydded neu unigolyn apelio i lys ynadon yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol (fel y'i gwnaed o dan baragraff 16). Rhaid dwyn yr apêl o fewn 21 o ddiwrnodau i hysbysiad o benderfyniad yr awdurdod lleol. Wrth wrando'r apêl, caiff y llys ynadon gadarnhau, diddymu neu amrywio'r penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod lleol; fel arall, gallai'r llys ynadon anfon yr achos yn ôl i'w ystyried gan yr awdurdod lleol yn unol â'r cyfarwyddydau a roddir gan y llys ynadon. Caiff y llys ynadon hefyd wneud gorchymyn i'r costau yr aed iddynt gael eu talu. Gall y costau hyn fod yn gostau yr aed iddynt gan y ceisydd neu'r awdurdod lleol wrth amddiffyn ei benderfyniad.

266. Mae paragraff 19 yn darparu y caniateir i apêl yn erbyn penderfyniad y llys ynadon o dan baragraff 18 gael ei dwyn gerbron Llys y Goron. Caiff Llys y Goron gadarnhau, amrywio neu wrth-droi penderfyniad y llys ynadon neu ei gwneud yn ofynnol i'r achos gael ei ystyried gan y llys ynadon neu gan yr awdurdod lleol yn unol â'r cyfarwyddydau a roddir gan Lys y Goron.

267. Os caiff penderfyniad yr awdurdod lleol ei amrywio neu ei wrth-droi, ar apêl o dan baragraffau 18 a 19, caiff y llys ynadon neu Lys y Goron orchymyn i'r awdurdod lleol ddigolledu'r ceisydd, deiliad y drwydded neu'r person sy'n ddarostyngedig i ddynodiad o dan adran 63, am golled a ddioddefodd o ganlyniad i'r penderfyniad. Er enghraifft, gellid digolledu'r person am golli incwm oherwydd penderfyniad yr awdurdod lleol i'w rwystro rhag gweithio tra bo'r apêl yn mynd rhagddi.

268. Yn ystod y cyfnod pan fydd apêl o dan baragraffau 18 a 19 yn mynd rhagddi, mae'r penderfyniad a wnaed neu'r hysbysiad a roddwyd gan yr awdurdod lleol yn parhau i gael effaith. Felly, os penderfyniad yr awdurdod lleol yw dirymu trwydded o dan adran 70, bydd y penderfyniad yn parhau mewn grym hyd nes y bydd y llys yn gwneud ei ddyfarniad.

269. Mae paragraff 21 yn dirprwyo swyddogaethau penodedig awdurdod lleol i bwyllgor trwyddedu'r awdurdod lleol. Mae hyn yn caniatáu i'r pwyllgor trwyddedu wneud y penderfyniadau mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny a restrir o dan baragraff 21(1). Er bod y swyddogaethau yn parhau'n swyddogaethau'r awdurdod lleol, mae ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor trwyddedu (neu un o'i is-bwyllgorau) wneud y penderfyniad yn sicrhau bod rhywfaint o oruchwyliaeth o'r broses. Mae gan bwyllgorau a'u haelodau brofiad o wneud penderfyniadau trwyddedu sy'n gallu cael effaith ar fywoliaeth pobl. Wrth wneud penderfyniad, bydd yn ofynnol i'r pwyllgor trwyddedu glywed unrhyw sylwadau a ddarperir gan 'A' ar ôl i'r awdurdod lleol ddyroddi hysbysiad rhybuddio iddo o dan baragraff 15. Mae swyddogaethau'r pwyllgor trwyddedu wedi eu darparu iddo gan adran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Yn ychwanegol at alluogi'r pwyllgor trwyddedu i wneud penderfyniadau mewn perthynas â meysydd penodol, mae'r swyddogaethau hyn yn galluogi'r pwyllgor trwyddedu i gyfeirio penderfyniadau at yr awdurdod lleol penodedig ac i isddirprwyo'r broses o wneud penderfyniadau.

270. Mae paragraff 21(4) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch y gweithdrefnau sy'n gymwys i bwyllgorau trwyddedu a'u his-bwyllgorau at ddiben arfer y swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo o dan y paragraff hwn, gan gynnwys mynediad i'r cyhoedd a sicrhau bod cofnodion ar gael. Yn ddarostyngedig i unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, mae paragraff 21(5) yn galluogi pob pwyllgor trwyddedu a'i is-bwyllgorau i reoleiddio ei weithdrefn ei hun.

271. Mae paragraff 22 yn diddymu darpariaethau yn Rhan 8 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 o ran Cymru. Mae hyn yn golygu na fydd y system gofrestru bresennol sydd ar gael o dan y Ddeddf honno sy'n cynnwys aciwbigo, tatŵio, rhoi lliw lled-barhaol ar y croen, tyllu cosmetig ac electrolysis yn gymwys mwyach. Bydd cyfeiriadau at adrannau 14 a 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 hefyd yn cael eu dileu o'r Atodlen i Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012. Gan na fydd y darpariaethau hyn yn gymwys mwyach, ni fydd awdurdodau lleol yn gallu rhedeg systemau cyfochrog sy'n ymdrin â'r un pryderon, gan felly roi eglurder i awdurdodau lleol ac i ymarferwyr o ran y cynllun sy'n weithredol.

**Atodlen 5 : Darparu toiledau: diwygiadau canlyniadol**

272. Mae Atodlen 5 yn gwneud diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â darparu toiledau. Mae'r diwygiadau hyn yn:

i. Datgymhwyso adran 87 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 o ran Cymru oherwydd bod adran 115 o [Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)] yn ailddatgan y pwerau a roddwyd gynt gan adran 87 mewn perthynas â:

- y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus gan gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned;
- pŵer cyngor cymuned i wneud is-ddeddfau ynghylch ymddygiad personau sy'n defnyddio'r toiledau y maent yn eu darparu neu'n mynd i mewn iddynt; a
- phŵer cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned i godi tâl am ddefnyddio'r toiledau y maent yn eu darparu.

Mae adran 87 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 yn parhau mewn grym o ran Lloegr.

ii. Mewnosod cyfeiriad at adran 116 o'r Bil yn y tablau yn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 1 i Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, (dccc.2) fel nad yw'r is-ddeddfau y caiff cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned eu gwneud drwy arfer eu pwerau o dan adran 116 yn ddarostyngedig i gadarnhad gan Weinidogion Cymru ac y cânt wneud darpariaeth ynghylch troseddau ag iddynt gosb benodedig.

# Atodiad B – Crynodeb o Gostau Deddfwriaeth

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r costau ychwanegol a ragwelir a fyddai'n deillio o'r darpariaethau yn y Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Mae'r holl gostau yn ychwanegol at gynnal y status quo, fel a nodir yn yr opsiwn 'gwneud dim' ar gyfer pob cynnig. Rhaid darllen yr adran hon ochr yn ochr â'r adrannau perthnasol yn y prif Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn cael y cyd-destun a'r manylion cysylltiedig ar gyfer y ffigurau.

Y pwynt canol wrth eu cyfrifo mewn ystod yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw'r ffigyrau a ddefnyddir.

Mae'r ffigurau yn y tablau yn deillio o gostau'r opsiwn a ffefrir ar gyfer pob pwnc fel y'u nodir yn y prif Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Pan fo'n debygol y bydd costau'n cael eu harbed, mae cost net yr opsiwn a ffefrir wedi ei gynnwys.

Mae'r tablau yn nodi'r costau blynyddol dros 5 mlynedd ar draws Cymru ar gyfer pob pwnc.

**Costau Blynyddol**

**Cyfyngiadau ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig a'r defnydd o sigaréts electronig mewn mannau cyhoeddus caeedig penodol**

| | **2016-17 (£)** | **2017-18 (£)** | **2018-19 (£)** | **2019-20 (£)** | **2020-21 (£)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 189,700 | 1,500 | 1,500 | 4,300 | 1,500 |
| Awdurdodau lleol | 19,100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mannau cyhoeddus, trafnidiaeth gyhoeddus a thrafnidiaeth ysgol | 909,500 | 257,500 | 244,800 | 574,800 | 243,800 |
| Y diwydiant e-sigaréts | 102,500 | 102,500 | 102,500 | 102,500 | 102,500 |
| Y cyhoedd | 5,100 | 6,000 | 6,200 | 2,600 | 2,600 |
| **Cyfanswm y Gost** | **1,225,900** | **362,800** | **355,000** | **684,200** | **350,400** |

**Cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin**

| | **2016-17 (£)** | **2017-18 (£)** | **2018-19 (£)** | **2019-20 (£)** | **2020-21 (£)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 26,500 | 8,700 | 0 | 0 | 0 |
| Awdurdodau lleol | 6,500 | -116,800* | 15,000 | 16,400 | 15,000 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Manwerthwyr | 0 | 246,000 | 11,100 | 11,100 | 26,100 |
| **Cyfanswm y Gost Net** | **33,000** | **137,900** | **26,100** | **27,500** | **26,100** |

*Bydd awdurdodau lleol yn cadw £148,100 o ffioedd cofrestru yn ystod y flwyddyn hon, sy'n arbediad net o £116,800.

### Rhoi tybaco etc. i bersonau o dan 18

| | 2016-17 (£) | 2017-18 (£) | 2018-19 (£) | 2019-20 (£) | 2020-21 (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 15,900 | 0 | 0 | 1,400 | 0 |
| Awdurdodau lleol | 125,700 | 72,000 | 72,000 | 72,000 | 72,000 |
| Y sector manwerthu | 80,300 | 2,000 | 2,000 | 41,200 | 2,000 |
| **Cyfanswm y Gost** | **221,900** | **74,000** | **74,000** | **114,600** | **74,000** |

### Triniaethau arbennig

| | 2016-17 (£) | 2017-18 (£) | 2018-19 (£) | 2019-20 (£) | 2020-21 (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 61,500 | -2,500 | -2,500 | 3,100 | -2,500 |
| Awdurdodau lleol* | 61,000 | 234,000 | 178,400 | 162,500 | 143,200 |
| Ymarferwyr/busnesau | 0 | 432,700 | 78,100 | 73,000 | 297,200 |
| Ymarferwyr heb eu Cofrestru | 0 | 50,000 | 45,000 | 40,500 | 36,500 |
| **Cyfanswm y Gost** | **122,500** | **714,200** | **298,900** | **279,100** | **474,400** |

* Bydd awdurdodau lleol yn cadw ffioedd cofrestru gan fusnesau ac ymarferwyr i wrthbwyso'r costau a fydd yn cael eu hysgwyddo wrth weinyddu'r cynllun trwyddedu. Nid yw swm sy'n gyfartal â chyfanswm y ffïoedd cofrestru a ddisgwylir wedi ei gynnwys yng nghyfanswm costau'r awdurdodau lleol felly.

### Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff

| | 2016-17 (£) | 2017-18 (£) | 2018-19 (£) | 2019-20 (£) | 2020-21 (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 18,500 | 0 | 0 | 1,200 | 0 |
| Awdurdodau lleol | 76,000 | 76,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 |
| Ymarferwyr/ busnesau | 134,000 | 86,200 | 86,200 | 110,100 | 86,200 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Gost** | **228,500** | **162,200** | **124,200** | **149,300** | **124,200** |

**Gwasanaethau fferyllol**

| | 2016-17 (£) | 2017-18 (£) | 2018-19 (£) | 2019-20 (£) | 2020-21 (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 0 | 17,600 | 0 | 0 | 0 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 0 | 205,100 | 359,800 | 359,800 | 359,800 |
| Contractwyr | 0 | 0 | 73,500 | 73,500 | 73,500 |
| **Cyfanswm y Gost** | **0** | **222,700** | **433,300** | **433,300** | **433,300** |
| **Manteision â gwerth ariannol** | | | **3,156,000** | **3,156,000** | **3,156,000** |
| **Cost Net** | | **222,700** | **-2,722,700** | **-2,722,700** | **-2,722,700** |

**Darparu toiledau**

| | 2016-17 (£) | 2017-18 (£) | 2018-19 (£) | 2019-20 (£) | 2020-21 (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 8,400 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Awdurdodau lleol | 0 | 378,400 | 8,200 | 28,600 | 8,200 |
| **Cyfanswm y Gost** | **8,400** | **378,400** | **8,200*** | **28,600*** | **8,200*** |

* Mae'r costau ychwanegol yn y blynyddoedd hyn yn gysylltiedig yn unig â'r cynnydd mewn costau rheoli er mwyn gallu gwario'r £200,000 llawn ar grantiau a chost datblygu adroddiadau cynnydd interim. Byddai costau ychwanegol eraill yn cael eu penderfynu gan ddatblygiad a gweithrediad y strategaethau. Gan fod y strategaethau hyn yn dibynnu ar ddisgresiwn pob awdurdod lleol ar ôl asesu'r angen yn ei ardal, nid oes modd amcangyfrif y costau ychwanegol er mwyn cynyddu lefelau'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae mwy o'r manteision a drafodir isod yn debygol o gael eu gwireddu yn sgil gwario mwy ar weithredu strategaethau.

## Crynodeb o gyfanswm costau'r Bil

Disgwylir i bob rhan o'r Bil olygu costau ychwanegol I Lywodraeth Cymru. Disgwylir i bob rhan o'r Bil, heblaw am y rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau fferyllol, olygu costau ychwanegol i awdurdodau lleol. Dangosir cyfanswm effaith y Bil ar y sefydliadau hyn dros y cyfnod o bum mlynedd yn y tabl isod. Mae'r gost net wedi ei defnyddio pan fo'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol yn arbed arian. Bydd rhannau unigol o'r Bil yn effeithio ar grwpiau eraill, fel a ddangosir yn y tablau uchod.

| | 2016-17 (£) | 2017-18 (£) | 2018-19 (£) | 2019-20 (£) | 2020-21 (£) | Cyfanswm (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | **320,500** | **25,300** | **-1,000** | **10,000** | **-1,000** | **353,800** |
| Awdurdodau lleol | **288,300** | **643,600** | **311,600** | **317,500** | **276,400** | **1,837,400** |

## Atodiad C – Tabl tarddiadau

Bwriad y tabl isod yw rhoi gwybodaeth am darddiad darpariaethau Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Nid yw'r tabl yn darparu canllawiau diffiniol na chynhwysfawr a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Bil a'r Nodiadau Esboniadol.

Nid yw'r tarddiadau ond yn berthnasol i Rannau 2 a 6 o'r Bil (Tybaco a Chynhyrchion Nicotin, a Darparu Toiledau). O ganlyniad, ni chyfeirnodir y Rhannau eraill yn y tabl a ganlyn.

| TABL TARDDIADAU | | |
|---|---|---|
| ADRAN /PARAGRAFF | CYFEIRIAD CYFATEBOL YN Y DDEDDFWRIAETH BRESENNOL | NEWID SYLWEDDOL |
| RHAN 2: TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN | | |
| PENNOD 1: YSMYGU A'R DEFNYDD O DDYFEISIAU MEWNANADLU NICOTIN | | |
| 2(1) | Adran 1(2) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 2(2)-(3) | Newydd | |
| 3 | Newydd | |
| 4(1) | Adran 7(2) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 4(4)-(6) | Adran 7(4)-(6) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 6(1) | Adran 8(1) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 6(2)-(6) | Adran 8(3)-(4), 8(5)(b) ac (c), 8(6)-(7) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 8(1)-(6) | Adran 2(1)-(4), 2(8) o Ddeddf Iechyd 2006 | Oes. Ni fydd annedd breifat sy'n weithle ond yn ddi-fwg pan y'i defnyddir fel man gwaith. |
| 9(1)-(5) | Adran 2(1), 2(3)-(4), 2(7) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 10(1)-(4) | Adran 4(1)-(4) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 10(5)-(6) | Newydd | |
| 12(1) | Adran 5(1) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 12(2) | Newydd | |
| 12(3)-(5) | Adran 5(2)-(3)(a) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |

| | | |
|---|---|---|
| 13(1)-(4) | Adran 3(1), 3(6)-(7) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 18(1)-(3) | Adran 6(1)-6(4) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 18(5)-(8) | Adran 6(5)-6(8) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 20(1)-(5) | Adran 10(1)-(3), 10(5) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 21(1) | Atodlen 2: 2(a) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 21(2) | Atodlen 2: 2(a) o Ddeddf Iechyd 2006 | Oes |
| 21(3) | Newydd | |
| 21(4) | Atodlen 2: 2 o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 21(5) | Atodlen 2: 1 o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 22 | Newydd | |
| 23(1)-(6) | Atodlen 2: 1, 6(1)-(4) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 24(1) | Atodlen 2: 7 o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 24(3) | Atodlen 2: 1 o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 25(1) | Atodlen 2: 2(b)-(e) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 25(2)-(3)(a) | Atodlen 2: 3, 9 o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 25(3)(b) | Newydd | |
| 25(4)-(5) | Newydd | |
| 25(6)-(7) | Atodlen 2: 1, 5 o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 26 | Adran 11(1)-(2), 11(4) o Ddeddf Iechyd 2006 | Oes |
| 29(1)-(3) | Adran 9(1)-(2) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 29(4) | Rheoliad 1(3) o Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 | Nac oes |
| 29(5)-(7) | Newydd | |
| 29(8) | Adran 9(3) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 30(1) | Adran 5(5) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |
| 30(4) | Adran 2(5) o Ddeddf Iechyd 2006 | Nac oes |

| | | |
|---|---|---|
| Atodlen 2: 2-17 | Atodlen 1: 1-16 o Ddeddf Iechyd 2006 | |
| Atodlen 2: 18 | Newydd | |
| RHAN 6: DARPARU TOILEDAU | | |
| 115(1) | Adran 87(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Nac oes |
| 115(4) | Adran 87(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Nac oes |
| 115(5) | Adran 87(3)(c) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Nac oes |
| 116(1) | Adran 87(3)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Nac oes |